Y

SEREN FOREU,

NEU

Ganwyll y Cymry.

Gan RHYS PRITCHARD A. M. gynt
FICAR *Llanymddyfri*.

AT YR HWN Y

CHWANEGWYD,

Ynghylch 35^ain

O

BENILLION,

A

GYMERWYD ALLAN

O

Scrifen-Law yr Awdwr ei hun.

PARAI

Nas Cyhoeddwyd yn' un

O'R

ARGRAPHIADAU CYNTAF.

A gyhoeddwyd, ac a Argraphwyd yn *Llanymddyfri*
Gan RHYS TOMAS, (Pris 3*s* 6*d*. bound.)

M DCC LXX.

Hwyl Fawr o'r Môr

I'r Aifft

Owen Gruffydd

1852



Egwyddor i'r Anllythrennog i ddyſgu darllain.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s t th u w y.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e ſ ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ t th u w y.

Y Llafariaid neu'r Bogeiliaid.

a e i o u w y.

Yr holl Lythyrennau eraill a elwir Cydſeiniaid.

ab eb ib ob ub wb yb	ba be bi bo bu bw by
ac ec ic oc uc wc yc	ca ce ci co cu cw cy
ach ech ich och uch wch ych	cha che chi cho chu chw chi
ad ed id od ud wd yd	da de di do du dw dy
add ed idd edd udd wdd ydd	dda dde ddi ddo ddu ddw ddy
af ef if of uf wf yf	fa fe fi fo fu fw fy
aff eff iff off uff wff yfl	ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy
ag eg ig og ug wg yg	ga ge gi go gu gw gy
ang eng ing ong ung wng yng	ha he hi ho hu hw hy
al el il ol ul wl yl	la le li lo lu lw ly
all ell ill oll ull wll yll	lla lle lli llo llu llw lly
am em im om um wm ym	ma me mi mo mu mw my
an en in on un wn yn	na ne ni no nu nw ny
ap ep ip op up wp yp	pa pe pi po pu pw py
aph eph iph oph uph wph yph	pha phe phi pho phu phw phy
ar er ir or ur wr yr	ra re ri ro ru rw ry
as es is os us ws ys	ſa ſe ſi ſo ſu ſw ſy
at et it ot ut wt yt	ta te ti to tu tw ty
ath eth ith oth uth wth yth	tha the thi tho thu thw thy

Yr Argraphydd at y Darllenydd.

Yn neillduol Aelodau y Brif, a'r Anrhydeddus Society y CYNBRODORION ym Mhrif-Ddinas *Brydain* fawr; (o ba rai yn benodol *W. Vaughan* Eſqr, M.P. Dr. *Thomas Lewelin*. *R. Morris* Eſqr. *T. Jones* Eſqr. Dr. *Powell T. Evans* Gent, *&c. &c.* Preſidents o'r Anrhydeddus gyfeillach uchod: ac heb anghofio Boneddigion *yng-Hymry*. Yr Gwir Anrhyd. *G. Rice*. M. P. Anrhyd *J. Vaughan*. *E. M. D Howorth* Eſqr. . *C. Owens* Eſqr. *A. Davies* Eſqr. Mr. *Wn. Williams*, Meddug, a fy Gynorthwyol i mi wrth ddiwygio'r Argraph-waſc. Ynghyd a Gweinidogion a chyffredin bobl gannoedd, a fuant mor hynaws ag eſtyn eu Dwylo cynorthwyol i ddwyn allan o'r Argraph y Llyfr gwerthfawr hwn)

Yn anfon Anerch;

FONEDDIGION,

NID yw anhyſbus i mi orfod gwaſgu ar eich hîr Amynedd yn diſgwyl cyflawniad o'm haddaned i anfon y Perl gwerthfawr hwn i'ch Dwylaw; ond yr wyf yn ymddiddanu a'r Meddyliau, y caiſſ trwy eich cariad, a'ch hynawſeiddrwydd chwi dderbyniad groeſawus, er ei hîr garcharu tan fy Llaw: Ond, wèle dyma ef, wedi ei ddiwygio yn orau ag y medrwn gyda phob Ewllyſgarwch: Er na ryfygaf ddywedyd ei fod yn berffaith; etto gallaf yn hy dyſtio ei ragoriaeth; nid yn unig o ganoedd o Benyllion y rhai nas cyhoeddwyd o'r blaen, ond

ond hefyd cannoedd o feiau Llythrenol a ddiwygiwyd; Eithr fel y gellir adnabod hyn yn well, yſtyriwch y Cyfarwyddiadau canlynol: Ty dalen, 47. Pymtheg Penyll wedi eu chwanegu. Ty dal. 149. a'r 150. 12 Penyll. Ty dal: 243 a'r 244. 4 Penyll. Ty dal: 258. hyd 278. yn cynwys Cant a dau a Deugain o Benhyllion. Ty dal: 278. hyd y 290. yn cynwys darlyniad *Caerſalem Newydd* 95. o Benhyllion. Ty dal: 525. yn cynwys 68. o Benhyllion; Ty dal: 531. 16. Penyll, ynghyd ag amryw fannau eraill a adawais i'r Darllenydd yſturiol i'w barnu.

Y Llyfr hwn a gaſglwyd gan Mr. *S. H.* Gweinidog yr Efengyl yn *Abertawe*; ac a Argraphwyd yn *Llundain* trwy ei olygiad ef yn y flwyddyn 1672. 36 o flynyddoedd wedi marw 'r *Ficar*. Er nad oedd hwnnw ond amherſtaith; o blegid na chafodd Mr. *S. H.* afael yn Llyfr perffaith yr Awdwr, fel y gwelir ei Achwyniad yn ei Ragymadrodd, *fel hyn.* "Nid oes "yma ond Tameidiau, allan o hen Bapurau, ſef tor-"iad garw 'r Awdwr; ym mha rai yr oedd yn 'ſcrif-"ennu ei Feddyliau cyntaf: Da y gwnae 'r neb ag "ſydd a Llyfr pennaf yr Awdwr ganddynt (a gollwyd "yn Sir *Frecheiniog* yn amſer y rhyfel) ei anfon i'r "neb a fyddai gofalus i oſod y fath Ganwyll mewn "Canwyll-bren i oleuo 'r holl Wlad, fel y gwnaeth "Mr. *Evan Pugh* o *Landingatt*; i'r hwn, nid yn unig "myfi, ond hefyd holl *Gymry* fy 'n rhwymedig *&c.*

Gan yr hwn, mae 'n dybygol y cafodd Mr. *Hughes* y Caniadau 'ſcrifenedig; ond nid oeddent ond amherffaith ac ânhawdd eu darllen medd efe, Eithr ni bu gan neb amgenach Copi i'r holl Argraphiadau, er i rai yn y *Mwythig* ryfygu chwanegu atto. yr hyn a alwaſant y chweched Rann: Mae mor hawdd i bob *Cymro* deallys gredu mai gwaith yr Awdwr parchedig ydynt, a phe credent mai gwaith peraidd gaaiedydd *Iſrael* yw Cywuddau *Talieſyn* ben Bardd ei Oes: Yr hyn

hyn a wnaeth i mi eu gadael heibio, oddigerth yr hyn a gymeraſid allan o gorph y Llyfr: Ac oni buaſai rhag ofn anſoddloni fy nghyd-wladwŷr, ni buaſwn yn printio un o honynt; o blegid pa les yw goſod yr un Penyll mewn amryw fannau yn yr un Llyfr? Eithr nid hyn yn unig a wnaethpwyd ag ef yn y *Muythig*. o bryd i bryd, ond ſe'u hyſbeiliwyd o lawer Penyll gwerthfawr; rhai o honynt er gwirio hyn a oſodais mewn treſn uchod i'r Darllenydd i'w cydmaru, ynghyd a'r chwanegiad yr hwn a gymerais allan o Gopi 'r Awdwr, yr hwn a ddygodd Rhagluniaeth i'm Llaw gan gyfaill yn *Aberhonddu* . yn ol pa un y dygais allan yr Argraphiad hwn.

Nid wyf yn ammau er cymmaint daioni a wnaeth y Llyfr hwn ymmhlith pob Gradd yng-*Hymry*, na chyferfydd ag ymbell un trahaus-ſalch a'i diyſtura; o herwydd nad ydynt yn dirnad ymadroddion *Duw* yn ei Air; o blegid mae 'r Awdwr trwy ei holl Ganiadau yn cadw 'r llwybr di-wrthduedd hwnw; yr hwn nas dichon neb ddyfod iddo ond trwy dywyſiad Yſbryd *Duw* -- -Rhai a dramgwyddant wrtho am ei fod yn dal Etholedigaeth; eraill am ei fod yn goſod ufuddod y Credinioli i Gyfarwyddiadau a Gorch'mmynion *Jeſu Grift*: Eraill am ei fod yn dywedyd yr â rhai Crift'nogion i uffern er i *Grift* eu prynu a'i Waed &c. Yr holl bethau hyn a ellir yn hawdd eu gweled yn y 'Scrythurau Sanctaidd, yn ol yr ymadrodd llythrenol, ſel yn *Mat.* 25. 29. lle dywedir, *Ac oddi ar yr hwn nid oes ganddo, y dygir oddi arno ïe yr hyn ſydd ganddo*: Yr un gyttelyb y dywedodd *Crift* ei hun, *Pob Cangen ynoſi heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynnu ymaith.* Nid yw yn meddwl chwaneg na Pfroffes allanol: Felly 'r Awdwr, nid yw yn meddwl y dychon un rhyw beth fwrw i Golledigaeth un .ag a brynwyd â gwerthfawr Waed *Crift:* ond y dichon enaid rhyfygus wag-dibio ei fod mewn heddwch a *Duw*, pan

nad

nad oes ganddo ond ei gyfiawnder ei hun yn Sailfaen; ac felly dichon agor ei lygaid yn uffern, er iddo dybied ei brynu â Gwaed *Crift*. Ond nid oes genyf fi ond ei adael i ofal *Duw*, ac i'ch caredig ymgeledd chwithau fel nas enllibir ef o eifiau amddiffynwŷr.

Pe buafai yn fy ngallu rhoddafwn i chwi Anrhydedd amgenach, am y cariad a ddangofafoch a'ch hir Amynedd yn difgwyl cyflawnad o'm haddyned i'w anfon attoch; ond dyma ef. Y llwyddiant a'r fendith a'i canlynodd gynt, a fyddo etto yr un modd er eich Daioni Yfprydol,

Yw taer Ddymuniad eich
Cyd-Wladwr, a'ch
Ufudd Wafanaethwr,
RHYS TOMAS.

Llanymddyfri,
Rhagfyr 16.
1770.

*** FONEDDIGION, yr wyf yn gobeithio na's bydd llawer o anfoddlonrwydd gennych, gan nas gellais gyfleu eich Henwau (fel yr addawais) yn y Llyfr; a hynny a wnaethwn oni buafai yn 1. I'r Llyfr chwyddo mwy n g a feddylias yn y dechrau: o blegid, a mi yn cydmaru 'r Argraphiad cyntaf ynghyd â Chopi 'Scrifenedig yr Awdwr, â holl Argraphiadau 'r *Mwythig*; Gwelais iddynt ei dal-fyrru trwy gymeryd Penyllion allan o amryw Garolau; nid llai na Naw, a dynnwyd allan o un Carol, gwel Ty dal: 149. Cân 45. Yn 2 pan yftyriais y Rhifedi, fef agos i 2000, gwelais nas gallafwn eu Printio heb agos i £20 o Arian; er na buafai 'r Llyfr ddim gwell, na chwithau chwaith lawer dedwyddach. Am hynny antyriais trwy hyderu ar eich Caredigrwydd chwi eu gadael allan.

FY

NGHYD-WLADWYR;

TREFNODD *Duw*, (Awdwr pob daioni) lawer o'ſcrifenadau yr Awdwr Duwiol hwn gael eu rhoddi i mi i wneuthyr y gorau o honynt; ac wrth eu chwilio, deallais mai ei Bregethau oedd y rhan fwyaf o honynt, pa rai a gadwyd yn ei Lyfr-gell ef yn *Llanymddyfri* er dydd ei Farwolaeth hyd nes iddynt ddyfod i'm Llaw. Ac o's rhydd *Duw* i mi amſer, antyriaf gynnig rhai o honynt i'm Cyd-Wladwŷr yn Argraphedig; gan hyderu nas cant lai derbyniad genych nag a roddaſoch i'w Garolau. Y Llyfr cyntaf fydd gwerth 1s. Pwy bynnag a'i chwenycho anfonent eu Henwau ymma yn ddi-draul, fel y gwybyddwyf y Rhifedi aallwyf Argraphu; yr hwn a fydd ar yr un Llythyren aPhapur a hwn. *R. Tomas.*

HANES

Ferr o FYWYD a MARWOLAETH y

Parchedig Mr. RHYS PRITCHARD, A. M. *gynt Ficar* Llanymddyfri *yn Sir* Gaerfyrddin, *a gymerwyd allan o Lyfr a etwyd* Athenæ Oxonienſes, *a Argraphwyd yn* Rhydychen *yn y Flwyddyn*, 1619. *Yn y 29 Tu dalen o'r Ail Lyfr mae 'r Geiriau canlynol.*

RHYS PRITCHARD a anwyd yn *Llanymddyfri* yn *Sir Gaerfyrddin*, ac a gafodd ei ddygiad i fynu yn y Wlad honno, nes ei anfon i *Golege* yr *Jeſu* yn *Rhyd-ychen*, yn y Flwyddyn, 1597. Ynghylch 18 Oed. Ef a Urddwyd yn Offeiriad yn *Wittham* yn *Eſecs*, gan *John Suffragan* Eſcob *Rocheſter*; ddydd Llun y 25 dydd o Fis *Ebrill* yn y Flwyddyn, 1602. Ac a Raddwyd ym *Mehefin* ar ol hynny yn Wyryf y Celfyddydau; ac ym Mis *Awſt* yr un Flwyddyn ſe a gafodd Ficceriaeth *Llanymddyfri*, gan *Anthony* Arglwydd Eſgob *Ty-Ddewi*; Ar y 19 dydd o Fis *Tachwedd*, 1612. Efe a Ordeiniwyd yn Berſon *Llaneli* yn Eſgobaeth *Dewi*, yr hon a gyflwynwyd iddo gan y Brenhin *Iago* y Cyntaf; y llc a feddianodd ynghyd a'r rhai rhag-ddywededig, trwy Genadhad yr Arch-Eſgob; ac ar yr 28 dydd o fis *Hydref*, 1613. efe a ſiccrhawyd trwy Awdurdod a Sêl fawr y Brenhin. Ar y 29 dydd o'r un Mis, a gyfaddafwyd i'r galwedigaethau hynny trwy ei wneuthur yn Swyddog neu 'n Gaplain i *Robert* Iarll *Eſecs*, yn y Flwyddyn, 1614. Ar y 17 dydd o fis *Mai*, efe a wnaed yn Beriglor o'r Eglwys *Gadeiriawl* yn *Aberhonddy*, gan y rhagddywededig *Anthony*, Eſgob *Dewi*, tan enw Athraw y Celfyddydau; efe a gymmellwyd i gymmeryd arno 'r Graddau hynny gan ei Eſgob Dr. *Laud*. Efe a wnaed hefyd yn Ganghellor *Ty Ddewi*, ynghyd a pha un y mae Perigloriaeth *Llowhaden* yn digwydd, ar y 14 dydd o *Fedi* 1626. pan ymadawodd *Richard Bailie* Gwyryf Difinyddiaeth o St. *John's College* yn *Rhydychen* a'r lle hwnnw.

Hefyd mae yn cyrbwyll am y Llyfr hwn o'i waith ef a Argrphwyd gynt yn Bum Rhann ond yn awr yn wyth: Ond nid yw hwn wrth bob Tybygoliaeth mor ganfed Rann o'i 'Scrifenadau ef; Sef ei Bregethau, o blegid dywedodd gŵr geirwir wrthyf a fuafai Golygwr gyda Phendefiges oedd feddianol o'i Eſtad a'i Lyfrau; iddo (orfod wrth ei Gorchymmyn ffroen-ſiol hi) fod ddau ddiwrnod yn llofgi 'Scrifenadau 'r Athraw rhagorol; ond iddo trwy ryw gyfrwyſdra achyb rhai o honynt fel Pen Tewynion o'r ſiam-

iau; Y cyfryw a ddigwyddodd i'm Llaw trwy ddaioni ac Hynawfeiddrwydd yr Anrhydeddus *James How Eſqr.* ac *E.M.D. Howorth Eſqr.* Ac o's *Duw* a rydd i mi iechyd ac amſer cewch gynig arnynt cyn hir yn Argraphedig.

Dywedir ei fod ef yn ei leunctid yn ymarfer â diod yn anghymedrol, ond iddo mewn modd tra rhyfedd gael ei argyhoeddi trwy Fŵch-Gafr. yr hwn a fyddai arferol o'i ddilyn i'r Tafarn; Eithr ar un tro rhoddwyd diod i'r Bwch nes ei feddwi; ond ni allwyd mewn un modd hydo 'r Creadur i fedd-dod draehefn; Tebyg i Aſen *Balaam* Gwel. Num. 22. 2 Pedr 2. 16. *Ond efe a gafodd gerydd am ei gamwedd: Aſen fud arferol a'r iau, gan ddywedyd â lleſ ddynol, a waharddodd ynfydrwydd y Prophwyd.* Hyn a wnaeth i Mr. PRITCHARD ffieiddio Medd-dod, ac ymroddi i Dduwiol ymarweddiad: Dywedir hefyd i Angel ymddangos iddo; Pa un a'i gwir yw hynny a'i nid e nis gwn i. Yn ei fywyd yr oedd yn elyſengar i'r Tlawd: Goſododd i fynu Yſgol rad yn *Llanymddyfri* a Thŷ i'w chadw; Er nad oes heddiw iawn wybodaeth pa fodd y reoddwyd hi i fynu. Yr oedd ef yn Athraw i Foneddigion a chyffredin ac yn wneuthyrwr Heddwch, yn iachys yn y ffydd, yn llym yn erbyn pechodau 'r oes, ac yn ei holl Bregethau yn derchafu y lechawdwriaeth fawr trwy y *Jeſu* Croeſhoeledig.

Ac felly diweddodd ei oes mewn Tangneddyf, yn *Llanymddyfri*, ac a gladdwyd yn yr Eglwys honno yn Mis Tachwedd yn y flwyddyn 1644, yn 65, o'i oed.

Llechu a wna yn llwch y llawr,
Nes dêl yr Adgyfodiad mawr;
Pryd hyn rhoeir iddo newydd wedd,
A chongcro uffern, diawl a'r bedd.

Cynghor

Cynghor i'r Llyfr, o waith y ſawl a'i hanſonodd ef gynta i'r wlad.

DO'S di Lyfr bach i *Gymru*,
I ddatcuddio ac i ddyſcu,
Y ffordd union i Baradwys,
Ag ſy'n mynd at *Dduw* yn gymmwys.

2 Er bod yno rai 'n ei gwybod,
Ac yn rhodio * ynddi 'n waſtod,
Etto mae 'no rai er hynny.
Na cherddaſant drodfedd ynddi.

3 Mae 'no rai ſydd anghuabyddus,
O'u drwg ffyrdd, a'u ſtad anhappus,
Trwy ddirmygu a dibriſio,
'R moddion ſydd i'w cyſarwyddo.

4 Do's gan hyuny a goleua,
Y rhai tywyll ſydd † yng-*Hambria*,
A chyfeiria eu traed yn gymmwys,
I'r ffordd union i Baradwys.

5 *Canwyll Cymry* mae d' hen feiſtr,
Yn dy alw mewn rhyw Lyfr,
Gwna dy ſwydd ar frys gan hynny,
Trwy oleuo 'r dall yng *Hymru*.

6 Llawer plwyf, och! *Dduw!* ſydd yno.
Mewn mawr ddiffyg o'u cyfrwyddo,
Trwy ddallineb, neu 'ſceulyſdra,
Rhai o'r 'ffeiriaid llawn ‡ cybydd-dra.

7 Can's mae rhai o'r prif Offeiriaid,
Yno 'n ddiofal am eu defaid,
Ac yn gadel idd eu dyſcu,
Rai na fedrant wneuthur hynny,

8 Toſt yw gweled fath Guradiaid,
Sydd olygwyr ar y defaid,
Dan Berſoniaid mawr cyfoethog.
A Ficceriaid uchel, enwog

9 Deillion, meddwon, a gwatworwyr,
Rhai heb nabob *Duw* na'i 'ſcrythyr,
(Heb ddim malis rwi'n ei ddyweid e)
Sydd fugeiliaid mewn rhyw fanne.

10 Nid am y Conſformiaid graſſol,
'Rwy fi 'n dywedyd hyn yn hollol,
Nid am *Jerem*, nid am *Eli*,
Ond am *Phinees* a'i frawd *Hophni*.

11 Nid wi 'n dywedyd ond a ddywedodd
Yr hen Ficcar pan lafarodd,
Gan roi allan a chyhoeddi,
Hyn o Bennill yn *Llanedi*;

* *Sef yn y ffordd i'r neſoedd.*

† *Yng hymru.*

‡ *Nid ydys yn dywedyd fod pawb felly.*

‡ *Mewn rhyw loedd.*

1 *Sam* 2. 17.

‡ *Mae'r Ficcer yn dywedyd llawer mwy yn ei gân am ddyledſwyddau*

12 *Dodi 'r dall ar ben Diſgwyſa,*
Dodi 'r dwl i ddyſcu Tyrfa,
Dodi 'r di ddy'c wrth y Llyw,
Yw Dodiad dyn, nid Dodiad Duw.
13 Gwir *Gonformiſt* oedd dy feiſtir,
Ac am hynny ni 'th 'ſcymmynir;
Ni throer arnat ti yn haerllig,
† Fe ddat guddia Duw ryw ddydd pwy ſydd ſelly barаed pobl a ſynnont. Er dy daclu gan † ffanatic.
14 Ymwrola, dos yn ebrwydd,
Na phrydera y cei aflwydd,
Er dy fod yn dod o ddwylo,
Un nad ydyw yn conſformio.
15 Can's mae llawer o'r conſformiaid
Graſſol, ſanctaidd hwyntau 'n tibiaid.
Fel mae eraill, fod d' ail feiſtyr,
Yn ceiſio llwyddiant ei gyd wladwyr.
16 Di † geſt reſo gynt yng *Hymru,*
† *Gefaiſt.* Ac na thebyg nas cei hynny
Etto, gan bob ſort o bobol,
Oni byddant balch neu ffrom-ffol.
17 Hwy ddioddefant dy geryddon,
Hwy a hoffant dy gynghorion,
Hwy 'th ddarllenant yn awyddus,
Canys trwyddot rwyt ti 'n felus.
18 Er y byddi yn fwy coſt-fawr,
Nag y buoſt, ni bydd nemawr,
O deuluoedd yr holl *Gymru,*
Nas derbynniant di er hynny.
19 Ni bydd 'ffeiriaid ni bydd Meiſtir,
Ni bydd plantach na gwaſ'naethwyr,
Na bugelydd ar fynyddau,
Nas groeſſawawat ti yn ddiau.
20 F' all y gwann gael ynnot guſſur,
Ac ychwaneg gras mewn meſſur,
I waſnaethu *Duw* yn ddifrad,
§ *yn y galwad ſy'n perthynu idao ei hun.* Bob un yn ei § briod alwad.
21 Dos gan hynny fe'th dderbynir,
Gan bob † ſort, ac fe'th gymerir,
† *Pob math o bobl.* I bob dwylo yn dra hyfryd,
Fe'th fawrhaer yn anwyl hefyd.
22 Ac tra 'ng *Hymru* ddim Criſt'nogaeth,
Fe gymmerir dy gwmpniaeth.
* *angheu rheidrwydd.* Fe'th ddarllenir, ac fe gyfyd,
Rhai a'th brintiant pan ſo * angheyd.
23 Gan dy fod o'r fath gymmeriad,
Bydd yn fwyn a dangos gariad,

Yn

Yn ddi-ragrith ym mhob teulu,
A dod allan dy oleuni.
24 Fel y tynnaſt gynt i ddarllain,
Lewer un yn ddigon cywrain;
Er mwyn *Criſt* gwna hynny etto,
Da fydd hynny i bob *Cymro*.
25 Pan y doech i dre *Llan'ddyfri*,
Ac i *Lanfair* a *Llanedi*,
Moſyn yno pwy ſydd raſſol,
Pwy ſydd ff ddlon a 'difeiriol.
26 Ond cael cw dd trwy fawr ymofyn,
A'r rhai ſanctaidd ſydd yn taring,
Yn y Dre a'r plwyfe hynny,
Dywaid heddweh wrth y rhei'ny.
27 Ac 'n enw 'th l'eiſtir traetha
Lid a bâr y *Duw* gorucha,
I'r troſeddwyr na ddifarant,
A'r anſtyddlon ac ns chredant.
28 Dywaid wrthynt i'r hen Ficcer,
Wylo 'n doſt a chalon dyner,
Am eu brynti a'u rhybyddio,
Wella e'u buchedd a * repento.
29 Dywaid iddo ddyſcu o'r 'ſcrythur,
Ffordd yr Arglwydd mawr yn eglur
Iddynt hwy, a'i bod er hynny
Fyth yn byw mewn ffieidd frynti.
30 Dwed y bydd y dydd diwaetha,
Lai o goſp i Dre *Gommorra*,
Nag y fydd i Dre *Llan'ddyfri*,
Ac i *Lanfair a Llanedi*.
31 D'wed na chas yn nyddiau 'r Ficcer,
Nemmawr iawn yng *Hymry* 'r hanner,
O'r athrawiaeth a'r cynghorion,
Gawſant hwy yn eglur ddigon.
32 D'wed ſod Duw yn gofyn llawer,
Yn mhob gwlad ac ym mhob cwarter,
Lle mae 'n raſol yn rhoi amledd,
O'i Efengyl mewn trugaredd.
33 Ac pa fwya y ddyellur,
O wir 'wyllys Duw o'r ſcrythur,
Mwy o lawer cawn ein curo,
Am roi achos i Dduw ddigio,
44 Yn ol traetha hyn ymmhlwyſe
Yr hen Ficcar, briſſia dere,
Gwna 'r un neges dros d' ail feiſtyr,
Ym mhlwyf *Mydrim* ac yn *Marthur*.

* *Ediſarni*

Luc. 12. 48.

Luc. 12. 47

35 Dwed wrth bawb ac ſydd yn taring,
Ym mhob Plwyf yn ſhir *Gaefyrddin*,
Ac wrth bawb o bobol *Cymry*,
Jo. 12. 48. Y Gair y glywſunt gaiff ei barnu.
36 Pan y doech i dai 'r bonddigion,
Par y'nt newid eu harferion,
Gadel balchder trawſder medd-dod,
A gochelyd digio 'r Drindod.
37 Pan y doech i ddwylo 'r ieuangc,
‖ Di.ddiwedd Gwna hwy gofio 'r bywyd ‖ di-ddiangc,
Deiſyf arnynt adel heibio,
Eu hynſydrwydd a repento.
38 Dangos iddynt nad y'w pleſſer,
Y byd hwn ond rhyw beth ofer,
Preg. 11, 9. Ac y gorfydd ryw ddydd atteb,
O flaen *Criſt* am bob ſolineb
39 Dangos iddynt pa fâth feiſtyr,
Yw *Criſt Jeſu* i'w waſneathwyr.
Yn rhoi iddynt ‡ hedd a bywyd,
‡ Heddwch. Teyrnas nef, a choron hyfryd.
40 Gwna nhwy 'n fynych ddyfal gofio,
Nad yw 'r cythrael ond eu hudo,
Ac nad oes ond yr aſlwyddiant,
I'r rhai hynny a'i gwaſnaethant.
41 Ffarwel, deiſyf ar bob Criſtion,
Nas derbynnont ond a welon,
Ynnot yn gyttun a'r 'ſrythur,
Felly boddhai dy ddau feiſtir.
42 Ond cyn myned, un gair gwrando,
Pâr i'th Brynwyr ddyfal gofio,
Pan dy brynwyd gynt yn rhannau,
Trwy roi 'th ſenthyg eſt yn llapre.
43 A thrwy 'th oſod ar ffeneſtri,
Tyllau glybion a Lawſedi,
Uſt, llawn llwydi eſt yn ufflon,
Na wnant beth yn awr mor ffinîon.
44 Ond pâr iddynt herwydd hynny,
'Th gadw 'n ſych a'th ymgeleddu;
Fel y byddech hir o amſer,
Dra gwaſnaethgar ym mhob cwarter.

Stephen Hughes.

Llythyr yr Awdwr at ryw Arglwydd, i'r hwn yr oedd yn ei fryd ef gyſſegru ei lyfr.

ARGLWYDD uchel, na ryfedda,
Weld Eglwyſwr tlawd i'th goffa,
Ac yn mentro Urddas *Cymry*,
A'r fath Lyfran dy || anrhegu.

|| Preſento.

2 Dy zêl at Eglwys *Criſt* a'i ‡ hurddas,
Dy waſanaeth da ith Brins a'th Deyrnas,
Dy ſerch a'th garc at genel Cymry,
Y bair i bawb dy anrhydeddu.

‡ Anrhydedd

3 Ym mhlith miloedd a'th anrhegant,
A thalentau mawr eu moliant,
Arglwydd da, cennada finne,
Dy gydnabod a'm dimmeie.

4 Cymrodd Arglwydd yr Arglwyddi,
Rodd y weddw dlawd heb fiommi,
Er na thalei 'r rhodd ond Dimme,
Am roi 'r cwbl ag a fedde.

5 Cymer dithe Arglwydd ſerchog,
Rodd o'r fath gan ŵr dyledog,
Sy'n 'wllyſgar i'th anrhegu,
A rhodd well pe bae'n ei meddu.

6 Haeddaiſt well, diddanwch Cymry,
Cawſit well pe b'aſſe genny;
Pwyſa 'r rhodd yn ol yr 'wyllys,
Hi gyd-bwyſa roddion Prinſys.

LLYTHYR

Llythyr arall at y Darllenydd fel y mae 'n dybygol.

GOgoniant *Duw*, a Iles Brittaniaid,
Canlyniaeth ffryns a gwaedd y gweiniaid
Y wnaeth printio hyn o Lyfran,
A'i roi rhyngoch *Gymru* mwyn-lan.

2 Abergofi pur bregethiad,
Dyfal gofio ofer ganiad,
A wnaeth im' droi hyn o werfau,
I chwi 'r Cymry yn ganiadau.

* Y Salmau Gymraeg o Gyfieithiad Mr. Salsbury

3 Am weld * Dwfn-waith enwog *Salfbury*,
Gan y diddyfc heb ei hoffi,
Cymrais fefur byrr cyn blaened,
Hawdd i'w ddyfgu, hawdd i'w 'ftyried.

4 Gelwais hon yn Ganwyll Cymro,
Am im' chwennych brudd oleuo,
Pawb o'r Cymry diddyfc deillion,
I wafanaethu *Duw* yn ffyddlon.

5 Er mwyn helpu 'r anyfgedig,
Sydd heb ddeall ond ychydig,
Y cynhullais hyn mor gyfon,
Mae gan eraill well athrawon.

6 *Duw* oleuo pawb o'r Cymry,
I wir 'nabod a'i wafanaethu;
Duw a wnel i hyn o Ganwyll,
Roi i'r dall oleuni didwyll.

Amen.

BRITISH 3 AU 71 MUSEUM

CAN

Y

SEREN FORAU,

Neu,

GANWYLL y CYMRY.

I. CAN.

Annerchiad i'r *Bruttaniaid.*

HIL *Frutus* fâb *Sylfus*, *Bruttaniaid* brŵd hoenys,
Cûredig, câriadus, cyd-redwch i 'm bron,
I wrando 'n 'wyllyſgar, â chálon ufuddgâr,
Fy llêfain a 'm llafar hîraethlon.

2 Mae rhôd y ffurfafen yn dirŵyn y bel'en *Job.*
O'n heinioes, nes gorphen, heb orphwys nôs na dŷdd, 7.
A ninnau heb feddwl nes dirwyn y cwbwl,
I 'n cwympo i'r trwbwl tragywydd.

3 Fel llong dan ei hwŷlau, yn cerdded ei ſiwrnau, *Doe.*
Tra'r môrwŷr yn chwareu, neu 'n chwrnu ar y nen, 5. 10.
Mae 'n heinioes yn paſſio, bob amſer, heb [a] ſtayo,
Beth bynnag a wnelo ei pherchen. [a] *Arros.*

4 Mae 'r Angau glâs yntau, yn dilin ein ſodlau, *Thef.*
A'i [b] ddart, ac â'i ſaethau, fel lleidir di-ſôn, 5. 2.
Yn barod i 'n corddi, ynghanol ein gwêgi,
Pan f'om ni heb ofni 'ddyrnodion.

A'n [b] *Piccell.*

c Cloch ddwfr Doeth. 5 A'n bywyd fel c bwmbwl ar lynwyn go drwbwl,
S' 'n diffod cyn meddwl ei fod ef yn mynd;
5. 13. A ninnau cyn ddwled nad y'm yn ei weled,
1 Cor. 7. 31. Nes darfo iddo fyned ei helynt.

1 Cor. 10. 11. 6 Mae'r Byd, ynte' 'r cleirchyn yn glâf ar ei derfyn,
Bob ennyd yn rofyn, rhwyfo tu â 'i fedd;
Eſdr. 4. 26. A'i ben wedi dótio, a'i Gálon yn ffaintio,
A'i fuſtil yn waſtio yn rhyfedd.

d H. d. eru. 7 'Ry'm ninnau blant dynion, heb arſwyd nac ofon,
Yn d trufto gormoddion i'r gŵr marwaidd hên;
Fel morwŷr methedig, a druſtent mewn perig,
I'r llongau ſigedig, nes ſodden.

8 O! nadwch i'n drufto i'r byd ſy 'n ein twyllo,
Fel lâ pan y torro, gricc, dan ein traed;
A 'n gollwng heb wybod, i'r farn yn amharod,
Cyn inni gydnabod ei fwriad:

9 Ond moeſwch yn garcus i'n bawb fod yn daclus,
I Fyned yn wêddus, ni's gwyddom pa awr,
Mat. 5. 7. O flaen y *Meſſias*, yngwiſg y briodas,
A thrwſiad cyfaddas i 'r neithawr.

10 A' nadwch ein dala, pan ddêl yr awr waetha,
Mat. 25. 14, 24. Mewn medd-dod, putteindra rhag rhwyſtur ir daith,
Heb oyl yn ein lleſtri, heb gownt o 'n talenti,
A 'r cwbwl o 'n cyfri' yn berffaith.

Mat. 10. 12 11 Mae 'r fwaill ar wreiddau y crin-goed er 's dydd-iau,
Mae 'r wyntyll yn dechrau dychryn yr ûs;
Mat. 13. 30, 39. Mae 'r angel a'r crymman, yn bygwth y graban,
I'w bŵrw i'r bôban embeidus.

Dat. 20. 10. 12 Mae 'r Farn uwch ein pennau, mae 'r dydd wrth (y dryſau,
Mae 'r udgorn bob borau, yn barod 'roi bloedd
Mae 'r môr a'r monwentydd, ac uffern yn ufudd.
'Roi 'r meirw i fynu a lyngcodd.

12 A'r

13 A'r Barnŵr ſydd barod, a'r ſaint ſy 'n ei warchod, *Dad.*
A'r dŷdd ſydd ar ddyfod i ddifa hyn o fŷd; 22.
A galw 'r holl ddynion o flaen y Duw Cyfion, 21.
I gyfri am y gawſom o'i olud.

14 'R 'ym ninnau 'n ymbeſgi ar bechod a brynti,
Heb feddwl am gyfri' na gorfod ei roi,
Yn waſtio 'n talentau, i borthi 'n trachwantau,
Doed barn, a'i dïalau, pan delo'i.

15 Fel Cowri cyn diluw, fel *Sodom* cyn diſtryw, *Gen.* 6.
Fel *Pharao* a'r cyſryw, eu cyfri' nid gwaeth, 5. 18.
Yr ydym yn pechu, â 'n grym, ac â 'n gallu, *ad,*
Heb fedry 'difâru, ys owaeth. 20.

16 Ymbeſgi ar bechod, fel môch, ar y Callod, *Ecl.* 8.
Ym-lanw ar ddiod, fel uchen ar ddw'r; 32.
Ym-droi mewn putteindra, fel perchill mewn llacca
Yw 'n crefydd, heb goſia cyfyngdwr.

17 Tyngu, a rhegu, a rhwygo câg' *Jeſu,*
Ac ymladd, am gwnnyd y gawnen ei gyd;
Cyfreitha 'n rhy ddiriaid, nes mynd yn fegeriaid,
A gadel y gweiniaid mewn gofid. (ddygiad,

18 'Mae 'r haul, y mae 'r lleuad, yn gwel'd ein 'ym-
Mae'r ddaear yn beychad fod 'n buchedd mór ddrwg,
Mae'r ſanctaidd Angylion, yn athriſt eu cálon;
O' weled criſt'nogion yn gynddrŵg.

19 Mae'r 'ffeiriaid, mae 'r ſfermŵr, mae 'r hwſman a'r (creſſtŵr
Mae 'r baeli, a'r barnŵr, a'r bonedd o'u bron,
Bob un am y cynta yn digio 'r Gorucha',
Heb wybod p'un waetha eu harferion.

20 Mae 'r 'ffeiriaid yn loetran, a'r barnwŷr, yn brib-
Mae 'r bônedd yn tipplan o dafarn i dwlc; (ian
Mae'r *e*hwſman, oedd echdo, heb fedry cwmpnio. *eHaſ-odwr.*
Yn yfed *Tobacco* yn ddi-dwlc.

21 Putteindra 'r *Sodomiaid*, a medd-dod y *Parthiaid*,
Lledrad y *Crettiaid*, o' credwch y gwîr,
Falſtedd gwlâd *Græcia*, a gwan-grêd *Samaria*,
Sy 'n awr yn llettua ym mhob rhandir. (Cymry

Eccl. 12. 14. 22 Mae 'n anfoês i'm draethu ein campau ni, 'r
Rhâg c'wilydd, mynegi 'n hymddygiad i'r bŷd;
Etto, rhaid meddwl y traetha Duw, 'r cwbl,
Pan ddelo 'r dŷdd trwbl i'w trefnyd.

Mat. 25. 42. 23 Gwêll i ni 'r wan, 'gael clywed eu datgan,
E'r peri i ni 'n fuan 'difaru tra f'ôm;
Na gweled ein taflu i 'r tywyll garchar-dŷ,
O eiſiau 'difaru, tra fyddom.

Eſa. 55. 6. *2 Cor.* 6. 2. 24 Gan hynny mi fynnwn 'gael gennych, pe gallwn,
Ymbilio am bardwn, yr ennyd y b'och;
A gwella 'n 'wyllyſgar, cyn elo'i 'n ddiweddar,
Rhag bod yn edifar pan 'dêloch.

Mat. 25. 11, 12. *Luc.* 16. 24, 25. 25 Mae 'n ofer 'difaru, a chrio a chrynu,
Pan ddeler i 'n barnu, bawb, ar y barr;
Ni cheir ond cyfiawnder, er cymmaint y grier,
Pan elo hi 'n amſer diweddar.

26 Meddyliwn gan hynny, cyn delo *Criſt Jeſu*,
O'r nefoedd i'n barnu, bob un wrth ei ben;
Am fod yn edifar, a deiſyf ei ffafar,
Cyn 'tafler ni i 'r carchar anniben.

Yr ail R A N.

Mat. 24. 30. PAN 'delo *Criſt Jeſu*, mewn grym ac mewn gallu,
O'r nefoedd, i'n barnu bawb ar ei ben;
Pa wyneb ni lâſſa, pa gálon na wyŵa,
Pan gwelo 'r gymmanfa 'n yr wŷbren?

28 Fe ddaw yn dra dîgllon, â llu o Angylion,
I ddial ar ddynion, ei ddirmyg mór ddû,

Yn

Yn daran echrydus i 'r bobl anraſſus,
Sy 'rwan, mór frowys yn pechu.

29 Yna gan gymmaint y fydd y dîgofaint, *Mat.*
Ei weiſion, a' i geraint a garei mór gu, 24.
A'i ſanctaidd Angylion a grynant yn greulon, 29,
Pan ddelo mór ddîgllon i farnu. 30.

30 Yr haul a dywŷlla, y lleuad a wridia, *Mat.*
Y nefoedd a grŷna, bob modfedd yn grŷch; 24.
A'r ſtowta o blant dynion, rhag echryd ac ofon, 30.
A gria' 'n hîraethlon wrth edrych.

31 Fe dawdd y ffurfafen, fe ſyrthia pob ſeren,
Fe loſga 'r holl ddaeren, oddi arni yn boeth; *2. Pe.* 3.10.
A'r tŷrrau a'r ceſtyll, a gwympant yn gan-dryll, *Mat.*
A phob rhyw o bebyll a â 'n bil-boeth. 13. 25.

32 Y creigydd a holldant, y glennydd a dôddant,
Y môroedd a ſychant, ar ſyrthiad y ſêr; *Dad.*
A Phob rhyw fwyſtfilod, ymlyſgiaid a phyſcod, 21. 1.
A drengant ar waelod y dyfnder. *2 Ped.* 3. 7.

33 Pa waſgfa, pa wewŷr, pa gynffordd pa gyſſur, 10.
Y fydd gan bechadur na chodo ei bîg,
Pan 'gwelo 'r fath drallod, ar bob peth yn dyfod, *Mat.*
O barthed ei bechod yn unig? 13. 19.

34 Brenhinoedd cadarn-blaid, cowri, capteniaid, *Dad.*
Beilchion, a *ſ* gwilliaid, gwycha, 'r awr hon: 6. 16.
A griant ar greigydd, am bwnian eu mhennydd, *Eſa.*
A'u cuddio rhag cerydd Duw Cyfion. 2.10. *Heſe.* 10.8.

35 Yn hyn o drafel, fe gân yr Arch-angel *Mat.*
Ei udgorn, mór uchel, onid awchus y cri! 24. 31.
Nes clywo' rhai meirw, yn grai ac yn groyw, 1 *Cor.*
Y llêf yn eu galw i gyfri.' 15.52. *Theſ.*

36 A'r meirw a godant, ar drawiad yr amſant 4. 6.
O' r llŵch, lle ' gorweddant, pan glywant y cri,

ſ Lladron. A'r

Thef. 4. 16, 71. A'r byw a newidir, a phawb a gyrhaeddir
I'r wybren, lle bernir eu brynti.

Mat. 25. 33. *1 Cor.* 6. 10. 37 Y Barnŵr mawr, ynte', yn gyflym a'i gledde,
A'i dafal, a'i bwyſe, a bwyſa ddrŵg a dâ :
Gan rannu i'r eneidiau, wrth gywir feiſurau,
Yn gyfiawn i'r gorau, a'r gwaetha.

Deut 32. 35. 38 Nid edrych ê 'n llygad yr Emprŵr na'r *g* Abad,
Ni ffriffia fe drwſiad na gaiwad un gŵr ;
Ond rhannu cyfiawnder, i'r brenhin a'r bêger ;
Heb ofni *b* diſpleſſer na chryſdwr.

g Ucb elwr. *Deut.* 32. 35. 39 Fe egir y llyfrau, fe rwyga gálonnau,
Fe ddengys eu beiau yn amlwg i 'r bŷd ;
Fe deifil anwiredd pawb yn eu dannedd,
Fe ddial ar gamwedd y gwynn-fŷd.

Mat. 12. 36. *Mat.* 5. 26. 40 Ni ddiangc gair ofer, na 'r ffyrling a dreulier,
Na 'r funud y waſtier, heb yſtyr na phwys ;
Na gwâgedd, na gwêgi, na beiau na brynti,
Na's gorfydd eu cyfrif yn gyfrwys.

Gen. 39. 7. *1 Cor.* 4. 5. 41 Putteindra 'r gwŷr mawrion, a'r gwragedd bon-
Sy 'n arfer y gweſion heb wybod ir gwŷr, (ddigion,
A'r mawr-ddrŵg, a 'r mwrddrad, y ffalſtedd a'r
A wneir i bob llygad yn eglur. (lledrad,

Mat. 24. 30. *Luc.* 21. 26. 42 Pa wyneb irâdus ? pa gálon echrydus ?
Pa gynſfordd gofidus (gwae 'fudo 'r fath)
Y fydd y pryd hynny, gan bobol ſydd heddy'
Mór ffyrnig yn pechu ys owaeth,

Mat. 25. 40. *Luc.* 16. 21. 43 Ni ddiangc na llymmaid, na thippyn nathammaid
Y roddir i'r gweiniaid, er mwyn *Jeſu*, gwynn :
Heb ymdal am dano, a chyfri a chofio
Y briwſion a ballo y cerlyn.

Mat. 25. 44 Yna didolir y defaid, a 'r geifr,
Ac yno y bernir pawb wrth y pôl

b Anfoddlondeb. Y

Y defaid i'r deyrnas, mewn harddwch ac urddas,
A'r geifr i'r ffwrnais uffernol.

45 Yna 'r â 'r cyfion, yn llawen eu cálon, *Mat.* 25.
Mewn gynau tra gwynnion, yn union i 'r nêf; 46.
I dderbyn gôreſcyn o'r deyrnas ddi-derfyn, *Mat.* 13.
Y roddodd Duw iddyn yn artref. 43.

46 A'r geifr damnedig, y bobol fileinig,
Sy 'r wan yn dirmŷg y Barnŵr, a'r dŷdd; *Mat.* 13.
Y deflir yn glymmau, mewn cedyrn gadwynau, 40,
I uffern, a'i phoenau tragywydd. 41, 42.

47 Yn uffern y llêfan, gan flined eu lloſcfan,
Yn ebrwydd, ar *Abram*, am ddafan o ddŵr, *i did.* *erfyn*
Pe llefent hyd i ddiffin, ni chânt hwy o'r droppyn,
Na thammaid, na thippyn o ſwccwr.

48 Cans, yno 'n dragywydd mewn carchar a chyfſt-
(Heb obaith y derfydd eu dirfawr gûr) (ydd, *Luc.*
Yr erys anwiredd, yn rhingcan eu dannedd, 16.
Heb derfyn, na diwedd o'u dolur. 24,

49 Ac yno 'r awn ninnau i eſtyn ein gweſlau, 25.
Am dreulio ein dyddiau mewn pechod mór dál; *Luc.*
O ddiffig yn wilio, a dyfal weddio, 58,
A gwella cyn delo 'r dŷdd dial. 59.

50 Meddyliwn gan hynny, tra 'r amſer yn gadu, *Mat.* 42.
Yn brydd edifaru, nid yw foru i neb;
A 'madel a'n brynti, a'n gwagedd a'n gwegi; *Pſal.* 9. 17.
Cyn 'delom i gyfri, ac atteb.

51 Duw *Jeſu*, dewiſiol, a brynaiſt dy bobol; *Marc.* 13.
O'r ffwrnes uffernol, oedd ffyrnig ei ffwys; 33,
Cadw 'n heneidie, pan ddelont i'r frawdle; 35,
A dŵg hwy i gadeiriau *Paradwys*. 36, 37.

O's gofyn Deheubarth, *na* Gwynedd *o un parth,*
Pwy ganodd y doſparth, i'ch diſbwyll rhag ing,
Eglwyſwr ſy 'n hoffi, eich dadraidd o'ch didri,
A'ch cofio am eich cyfri' cyfyng.

CAN

II. CAN.

Cyngor i Wrando, ac i ddarllen Gair DUW.

Sal. 19. 19. Jean. 14. 6.

OCais gŵr, na gwraig, na bachgen,
Ddyſcu 'r ffordd i'r nefoedd lawen;
Ceiſied air Duw, i'w gyf'rwyddo,
Onid ê, fe aiff ar ddidro.

Matth. 7. 14. Sal. 119. 105.

2 Mae 'r nêf ymhell, mae 'r ffordd ynddyrys,
Mae 'r trammwy 'n fâch, a'r rhwyſtreu anhappys
Mae 'r porth yn gûl i fyned trwyddo,
Heb oleu 'r gair, nid eir byth atto.

Gen. 12. 28.

3 Mae 'r nêf uwchlaw yr haul, a'r lleuad,
Mae 'r ffordd yn ddieithr i ti 'ddringad;
Rhaid *Criſt* yn yſgol, cyn dringadech,
A'i air yn gannwyll cyn canfyddech,

Matth. 18. 7, 16, 24. i Gorbelyd.

4 Mae llawer craig o rwyſtrau cnawdol,
Mae llawer môr o drallod bŷdol
Cyn mynd i'r nêf, rhaid myned droſtynt,
Heb oleu'r gair nid eir byth trwyddynt.

Eſ. 59. 8.

5 Mae llawer mîl o lwybrau ceimion,
O ddryſiwch blin, o ffoeſydd dyſnion;
Cyn my[illegible] 'r nêf, rwy 'n d'wedyd wrthyd,
Heb [illegible]air, ni elli eu gweglyd.

6 Di elli fynd i uffern danllyd,
Lwyr dy ben, heb un cyf'rŵyddyd;
Nid aiff neb i'r nêf, gwnaed 'allo,
Heb y 'fengyl i'w gyf'rwyddo.

Eſ. 60. 19. Jean 12. 46.

7 Nid goleu 'r haul, nid goleu 'r lleuad,
Nid goleu 'r dŷdd, na'r ſêr ſy 'n gwingad;
Ond goleu 'r gair, yr 'fengyl hyfryd,
All dy oleuo i dîr y bywyd. Cym-

8 Cymmer lantern Duw, 'th oleuo, *Sal.* 119.
A'r Efengyl i'th gyf'rwyddo; 105 *Mat.*
Troedia 'r llwybr cul, 'orchmynnwys, 7. 14.
Di ei 'n uniawn i Baradwys.

9 Y Gair yw 'r ganwyll a'th oleua, *Dibar.* 6.
Y Gair yw 'r gennad a'th gyf'rwydda, 23.
Y Gair a'th arwain i Baradwys; *2 Pet.* 1.
Y Gair a'th ddwg i'r nefyn gymmwys. 19.

10 Dilyn dithau oleuni 'r Gair, *Mat.* 13.
Gwna beth archodd un Mab *Mair*, 55. *Dat.*
Gochel wneuthur a wrafynnwys, 3. 20. 21.
Di 'âi n uniawn i Baradwys.

11 Seren wen, yn arwain dyn, *Joan.* 8.
O fann, i fann, at Grift ei hun 14.
Yw 'r Efengyl, i gyf'rwyddo,
Pawb i'r nefoedd a'i dilyno.

12 Bwyd i'r Enaid, bara 'r bywyd, *Jer.* 15.
Gras i'r Corph, a maeth i'r Yſpryd; 16. *Sal.*
Lamp i'r droed, a ffrwyn i'r genau 119. 204.
Yw Gair Duw, a'r holl 'Sgrythurau.

13 Llaeth i ſagu 'r gwann yſprydol, 1 *Pet.* 2.
Gwin i lonni 'r trift cyſtuddiol, 2. *Sal.* 19
Manna i borthi 'r gwael newynllyd, 8.
Ydyw 'r gair, a'r 'fengyl hyſtyd.

14 Eli gwych, rhag pob rhyw bechod, *Dibar.* 4.
Olew i ddoſi gwŷn cydwybod, 22.
Triagl gwerthfawr, rhag pob gwenwyn,
Ydyw 'r Gair, a *Balſom* addfwyn.

15 Mwrthwl dur, i bario 'n cnappau, *Jer.* 23.
Bwyall lem, i dorri 'n ceingciau: 29.
Rheol gymmwys i'n trwſiadau,
Ydyw 'r Gair, ac athro, i'n dyſgu.

16 Udcorn prês i'n gwŷſio i'r *k* Frawdle, *k lle Barn.*
Gloch i'n gwa'wdd i wella 'n beie,

l Cennad, yn cyhoeddi Rhuf. 3. 20.

l Herawld yn proclaimio 'n heddwch,
Ydyw 'r gair, a'n gwir ddiddanwch.

1. *Pet.* 1. 23.

17 Y gair yw 'r dryçh sy 'n gwir ddinoethi,
Ein holl frychau, a'n holl frynti;

1 *Joan.* 9. 5.

Ac yn erchi in' eu gwella,
Tra so 'r dŷdd a'r goleu 'n para.

Jag. 1. 18.

18 Y Gair yw 'r had sy i'n hadgenhedlu,
Yn blant i Dduw, yn frodyr *Jesu*;

1 *Cor.* 3. 17.

Yn deulu 'r nef, yn deml i'r Yspryd,
Yn wir drigolion tir y bywyd.

Rhuf. 10. 8. 9. 13.

19 Heb y Gair nid wy 'n dychymmyg,
Pa wedd y bydd un dyn cadwedig;
Lle mae 'r Gair yn benna o'r moddion,
'Ordeiniodd *Crist* i gadw Cristion.

" Er bod llysfry greadigaeth, yn gosod all an savor-edd, gallu, a doethin-eb Duw, *eto, nid yw yn amlygu ei hun yn lachaw dawr pech-duriaid, ond yngol-euni ei Air*

20 Heb y Gair, ni ellir 'nabod
Duw, na'i nattur, na'i lân hanfod,
Na'i Fab *Crist*, na'r sancteidd yspryd,
Na rhinweddau 'r Drindod hyfryd.

Rhuf. 1. 16.

21 Heb y Gair ni ddichon un dyn,
'Nabod 'wllys Duw, na'i ganlyn,
Na gwir ddysgu 'r ffordd i addoli,
Nes i'r Gair 'roi iddo oleuni.

Rhuf. 10. 14. 17.

22 Heb y' 'sgrythur ni ddealla
Un dyn, byth, ei gwymp yn *Adda*;
Na'i drüeni, na'i ymwared
Trwy Fab Duw, o'r fath gaethiwed.

23 Heb y Gair, ni all neb gredu
Yng Nghrist *Jesu*, fu 'n ei brynu:
Can's o wrando 'r Gair yn brudd,
Y mae i Gristion dderbyn ffŷdd.

24 Heb y Gair nid yw Duw 'n arfer,
I roi un Enaid o'i ddiffeithder;
Ond trwy 'r Gair mae 'n arferedig,
Droi 'r Eneidiau so cadwedig.

25 A'r Gair y trows yr Apoſtolion, *Act.* 13.
Y Cenhedloedd yn Griſt'nogion; 48.
Heb y gair, peth dieithr yw,
Droi pechadur, byth at DDUW.

26 A phregethiad un Eſengyl,
Y trows *Peder* n gwedi tair-mil, *Act.* 2.
O Iuddewon i wir gredu, 41.
Ar ôl iddynt ladd y *Jeſu.* *n yngbylch.*

27 Trwy had y Gair yr adgenhedla *Ioan.* 3.5.
Yſpryd Duw, 'r pechadur mwya, *Jag* 1.18.
Ac a'i gwna yn oreu ei ryw,
Yn Frawd i *Griſt*, yn Fab i Dduw.

28 Y Gair ſy 'n cynnwys ynddo 'n helaeth, *Ioan* 5.
Faint ſydd raid i lechydwriaeth; 39.
Chwilia hwn a chais Ê 'n * aſtud,
Ynddo mae 'r tragwyddol fywyd. * *dyfal.*

29 *Criſt* ſy 'n erchi it lafurio
Am y gair, a'th draed a'th ddwylo; *Joan.* 1.
Mwy nac am y bwyd a dderfydd, *Joan.* 6.
O 'chwennychi fyw 'n dragywydd. 27.

30 Fel y llef dyn bach am fronnau,
Fel y cais tir cras gafodau, 2 *Pet.* 2.
Fel y brefa 'r hŷdd am ffynnon,
Llef am eiriau 'r 'fengyl dirion.

31 Gwerth dy dir, a gwerth dy ddodrefn,
Gwerth dy grŷs oddiam dy gefen, *Mat.* 13.
Gwerth y cwbl oll, ſydd gennyd, 44.
Cyn' b'ech byw heb air y bywyd.

32 Gwell it fod heb ſwyd, heb ddiod,
Heb dŷ, heb dân heb wely, heb waſgod,
Heb oleu 'r dydd a'r haul garuaidd,
Na bod heb y 'fengyl ſanctaidd.

33 Toſt yw aros mewn Cornelyn,
Lle na oleuo 'r haul trwy 'r ſlwyddyn,

Toſtach trigo yn y * cwarter,
Lle na oleuo 'r Gair un amſer.

34 Na thrig mewn gwlad heb law ar brydiau,
Rhuf. 10. Mewn glynn heb haul, mewn tŷ heb olau;
15. Mewn tre' heb ddwr, mewn llong heb gwmpas,
Mewn plwyf heb ryw bregethŵr addas.

35 Gado 'r wlad, y plwyf, a'r pentre,
Gado 'th Dad, a'th Fam, a'th draſſe,
Gado r tai, a'r tîr yn ebrwydd,
Lle na bytho Gair yr Arglwydd.

36 Gwell it drigo mewn Gogofau,
A chael gwrando 'r 'fengyl weithiau,
Nag it drigo mewn gwlad ffrwythlon,
Lle na bytho 'r 'fengyl dirion.

37 Toſt yw trigo mewn tywyllwch,
Lle na chaffer dim diddanwch;
Toſtach trigo yn rhy hair,
Lle na chaffer gwrando 'r gair.

38 Nid gwaeth trigo 'myſg y Twrcod,
Sydd heb ofni Duw na'i 'nabod,
Nag it drigo yn doſt dy dreigyl,
Lle na chlywer *Criſt*, na'i 'fengyl.

39 Tynn i *Loeger*, tynn i *Lundain*,
Tynn dros Fôr tu hwnt i *Rufain*,
Tynn i eitha 'r byd ar dreigyl,
Nes y caffech g'wrdd a'r 'fengyl.

40 Elin it weld yr haul a'r glaw,
Mewn plwyfau o ddau tu, yma a thraw,
A th blwyf dithau (peth yſgymmyn)
Heb na haul na glaw trwy 'r flwyddyn.

41 *Oni bydd un bregeth* m *ddurfing*,
m *Lem-doſt.* *Yn y plwyf lle b'ech yn taring*,
Jac. 1.19 *Dos i maes i'r plwyf lle y bytho*
N'ad un Sabboth heb ei gwrando.

42 Pan ſo eiſiau ar dy ſola,
Di ' ei i'r gêll i geiſio bara,
Pan ſ'o newyn ar dy enaid,
Nid ei, i un lle i geiſio ei gyfraid.

43 Beth y dal it borthi 'r corphyn, *Mat.* 16.
O bydd dy enaid marw o newyn ? 26.
A'll dy gorph di gael diſyrrwch,
Pan ſo d' enaid marw o driſtwch?

44 Drwg it ladd y corph â newyn,
'Eiſiau bara tra ſo 'r flwyddyn ;
Gwaeth o lawer lladd yr Yſpryd,
Eiſiau 'i borthi â bara 'r bywyd.

45 Llef gan hynny ar y' 'ffeiriaid,
Am roi bwyd i borthi d' enaid ; *Mal.* 2. 6.
Rwyt ti 'n rhoi dy ddegwm iddyn,
Par i hwythau dorri 'th newyn.

46 Gwrando 'r Gair o enau 'r ffeiriad, *Luc.* 10.
Fel o enau *Criſt* dy Geidwad, 26.
Criſt a roes awdurdod iddo,
I'th gynghori, a'th rybuddio.

47 O' par *Criſt* i ffeiriad noethlyd,
Dy rybuddio i wella 'th fywyd,
Rwyt ti 'n rhwym i wneuthur 'archo, 2 *Pet.* 2.
Pe doe Aſen i'th rybuddio. 16.

48 Pe doe *Suddas* i bregethu
Efengyl *Criſt*, ti dd'lyd ei dyſgu,
F' all y 'fengyl gadw d' enaid,
E'r i'th Athro doſt gamſyniaid.

49 O's dy fugail fydd anweddaidd, *Mat* 23.
A'i athrawiaeth yn Griſt'nogaidd, 2. 3.
Dyſg y wers, na ddyſg ei arfer,
Gochel feieu *Paul* a *Pheder*.

50 Na wna bris o'i wedd na'i wiſgad,
P'un a'i gwych a'i gwael ſo'i ddillad :

Nid llai grym y 'Fengyl, gyngan,
O'r ſiacced ffris, na 'r gaſſog ſidan.

51 Cymmer berl o enau llyffan,
Cymmer aur o ddwylo aflan,
Cymmer win o fottel fydur,
Cymmer ddyſg o ben pechadur.

52 Gwrando 'r 'fengyl, *Criſt* yw 'hawdwr,
Pa fath bynna' f'o 'r pregethwr,
Prifia 'r Gair, na phrifia 'r gennad,
Criſt ei hun a'i helodd attad.

Luc. 8. 12. 15. 53 Cadw 'r geiriau yn dy galon,
Nad eu dwyn gan gigfrain duon;
Had yw 'r Gair i'th adgenhedlu,
O's i'r galon y derbynnu.

54 Dyfal chwilia di 'r 'Sgrythurau,
Darllen air Duw, nos a borau:
Jo. 5. 39. *Sal.* 5. 2. Dilyn arch y gair yn ddeddfol,
Hynny 'th wna di 'n ddoeth rhagorol.

55 Cadw 'r Gair bob pryd i'th galon,
Ac hyſpyſa hwn i'th feibion:
Deut. 6. 6. 7. 8. Sonia am dano nos a bore,
Y' mewn, y' maes, wrth rodio ac eiſte.

Gwaddf. Modorwy. 56 Dod ê'n gadwyn am dy [a] fwnwg,
Dod ê'n rhactal o flaen d' olwg,
Dod ê'n [o] ſignet ar dy fyſedd,
Sal. 119. 98. Na ddos hebddo led y droedfedd.

57 Gwna 'r Gair, beunydd yn gydymmaith,
Gwna 'n gyd-wely it bob noſwaith,
Gwna ê'n gyfaill wrth ſiwrneia,
Gwna 'r peth archo wrth chwedleua.

Sal. 119. 24. 58 Gwna fe 'n ben Cynghorwr iti,
Gwna fe 'n Athro i'th reöli:
Fe ry 'r Gair it gan gwell cyngor,
Nag a roddo un rhyw * ddoctor,

[a] *Athraw.*

Na

59 Na'd ê i drigo yn yr Eglwys,
Gydâ 'r 'ffeiriad, 'r hwn, a'i traethwys,
Dwg ê' adref yn dy galon, *Gen.* 18.
Ail fynega rhwng dy ddynion. 19.

60 Gwna di 'r Gair yn ddyſgliaid benna,
Ar dy Fwrdd tra fech yn bwytta:
Gwedi bwytta, cyn cyfodi, *Jer.* 15.
Boed y Gair yn † juncats i ti. 16. *Sal.* 119.
103. *Dat.*
61 Rho i'th enaid, nos a borau. 10. 9.
Frecfaſt fechan o'r 'ſgrythurau,
Rho iddo giniaw brudd, a ſwpper, † *Melus-*
Cyn yr elych i'th eſmwythder. *fuyd.*

62 Fel y porthi 'r corph â bara,
Portha d' enaid bach â manna;
Na'd i'th enaid hîr newynu,
Mwy na 'r corph ſy 'n cael ei fagu.

63 Mae 'r *Bibl* bach yn awr yn gyſſon,
Yn laith dy fam, i'w gael er coron,
Gwerth dy grŷs cyn bod heb hwnnw,
Mae 'n well na thref dy dad i'th gadw. *Sal.* 19. 10.

64 Gwell nag aur, a gwell nag arian, *Sal.*
Gwell na'r badell fawr, na 'r crochan; 72. 119.
Gwell dodrefnyn yn dy letty,
Yw 'r *Bibl* bach, na dim a feddy. *Diar.* 8.
19.
65 Fe ry' gymffordd, fe ry' gyngor,
Fe ry' addyſg, gwell na Doctor; *Rhuf.* 15.
Fe ry' lwyddiant a diddanwch, 4.
Fe ry' it, lawer o ddedwyddwch. 1 *Cor.* 01.
11.

66 Fe ry' fara i borthi d' enaid,
Fe ry' laeth i fagu 'th weiniaid,
Fe ry' win i'th lawenhau.
Fe ry' Eli i'th iachau.

67 Pwy na phrynei y *Bibl* ſanctaidd,
Sy mor werthfawr ac mor g'rüaidd?

Pwy

Pwy na werthei 'dŷ a'i dyddyn,
I bwrcasu 'r fath ddodrefnyn ?

sMasnachwr. t Y grâs y ſonir am dano yn y Bibl.

68 Dyma 'r perl y fyn y *Jeſu*,
I bob Criſtion doeth ei brynu,
Fel y t *Marſiant*, call a werthai,
I brynu t hwn faint oll y feddai.

69 Gan i DDUW roi i ni 'r *Cymry*,
Ei air ſanctaidd i'n gwir ddyſgu,
Moeſwch i ni fawr a bychain,
Gwympo i ddyſgu hwn a'i ddarllain.

Cymmelliad.

70 Moeſwch i ni wŷr a gwragedd,
Gyd a 'n gilydd, heb t ymhwedd,
Brynu bob un iddo lyfur,
I gael darllen geiriau 'r 'Sgrythur.

71 Moeſwch i ni bawb rhag gwradwydd,
Ddyſgu darllen geirau 'r Arglwydd;
Gan i DDUW, ei ddanfon adre',
Attom bawb, yn laith ein Mamme.

Mae 'n dybygol mai o angylch yr amſer y cyſ- aſodd wyd y Gân bon, y cafodd y CYMRY, *y fraint o dderbyn Bibl ſaeſ- ſneg, i'w dai mewn maintioli bychan. Gwiaſ oll.*

72 Na'dwn fynd y gwaith yn ofer,
Y ſu goſtfawr i wŷr *Lloeger*,
Rhag na fedrom wneuthur cyfri',
Ddydd y farn, am gyfryw wrthni.

73 Gwŷr a Gwragedd, Merched, Meibion,
Cymerwn ddyſg oddiwrth y *Saeſon*,
Y rhai a fedrant, bob un ddarllain,
Llyfr Duw, yn 'laith eu hunain.

74 Gwradwydd blin i ninnau 'r *Cymry*,
Oni cheiſiwn weithian ddyſgu,
Darllen gair Duw, y 'Sgrythurau,
Gan eu printio 'n 'laith ein mammau.

75 Ni chyſt *Bibl* inni weithian,
Ddim tu hwnt i goron arian,
Gwerth hen ddafad a fydd farw,
Yn y clawdd ar noſwaith arw.

76 O meidr un o'r tylwyth ddarllain,
Llyfr Duw, yn ddigon * cywrain,
Fe all hwnnw 'n ddigon esmwyth,
Ddysgu 'r cwbl o'r holl dylwyth.

77 Ni fydd *Cymro* 'n dysgu darllain
Pob Cymraeg, yn ddigon cywrain;
Ond un mis-gwaith, (beth yw hynny)
O's bydd Ewyllys gantho i ddysgu?

78 Mae 'n g'wilyddus i bob Cristion,
Na chlyw arno stoni *Coron*,
Ac un mis-gwaith o'i holl fywyd,
Ynghylch dysgu 'r 'fengyl hyfryd.

79 Mae 'r Cobleriaid a'u morwynion,
A rhai gwaetha ym mysg y *Saeson*,
Bob yr un a'r *Bibl* ganthynt;
Ddydd, a nos, yn darllain ynthynt.

80 Mae 'r Pennaethiaid gydâ ninnau,
A'u † *Tableri* ar eu byrddau,
Heb un *Bibl*, nac un pylgain,
Yn eu tai, || na neb i'w ddarllain.

81 Peth c'wilyddus gweld Cobleriaid,
Yn rhagori ar Bennaethiaid,
Am gadwriaeth eu heneidiau;
A'r peth rheitta mewn Neuaddau.

82 Y Cobleriaid hyn a gyfyd,
Ddydd y farn, yn anian aethlyd,
I gondemnio 'r fath Bennaethiaid;
Sydd mor ddibris am yr enaid.

83 Pob merch ‡ *Tingcer* gydâ 'r *Saeson*,
Feidr ddarllain llyfrau mawrion,
Ni wyr merched llawer Scwier,
Gydâ ninnau, 'ddarllen pader.

84 Gwradwydd tost sydd i'r *Brutaniaid*,
Fod mewn Crefydd mor ddiethriaid,

* *Cyfarwydd.*

† *Offer-Cerdd.*

Esay. 5. 12
Amos. 6. 5. 6.

|| *Cyn i'r Arglwydd i roi ynghalonnau Ewyllysgar da i'r Grefydd* Gristianogol, *i roi Ysgolion rhâd* Yng-Nghymru: *nid hawdd oedd cael neb a allei ddarllen y Gair; yr hyn oedd, nid yn unig, yn golled i eneidiau, ond hefyd, yn gwradwydd i 'r Genedl.*

‡ *Eurych.*

Ac na wyr eu canfed ddarllain,
Ioh. 17. 3. Llyfr Duw, yn laith eu hunain.

85 Bellach moeſwch in' rhag c'wilydd,
Bob rhai ddyſgu pyngciau Crefydd,
Ac ymroi i ddyſgu darllain,
Llyfr Duw, yn laith ein hunain.

86 Felly gallwn ddyſgu 'nabod
Y gwir DDUW, a'i ofni 'n waſtod,
† *di ddi-wedd.* Ac o'i 'nabod, a'i wir ofni,
Fe ry' † ddi-drangc fywyd inni.

87 DUW, rho ras, a grym i *Gymry*,
'Nabod Duw, a'i wir waſ'naethu:
CRIST a nertho bob rhai 'ddarllain
Llyfr Duw, yn laith eu hunain.

C A N III.

Adroddiad o doſt a thrüemus gyſtur dyn trwy Bechod.

Rhuf. 7. 14. *1 Mac.* 1. 15. ADD A' werthodd bawb o'r byd,
I'r hen Sarph, am Afal dryd;
Ni ddaw un o ‡ grampau Satan,
Nes del *Criſt* i'w dynnu allan.

Eſau. 4. 27. 2 Y mae Satan yntau 'n cadw
Pob pechadur, gwryw a benyw,
‡ *Crafangau.* Yn ei garchar tonnog tywyll,
Nes del CRIST i'w dorri 'n gan-dryll.

Ioan. 8. 12. 3 Y mae 'r carchar cyn dywylled,
Ac nad ym yn abal gweled,
Act. 26. 11. 8. O'n toſt gyflwr, a'n gofydi,
Nes del *Criſt*, â goleu inni.

4 'R ym ni 'n aros heddyw heno,
Mewn tywyllwch dan ein dwylo;

Ac

Ac heb weled ein trüeni,
Nes del *Criſt* i'w ddangos inni.

5 'R ym ni 'n feirw yn ein pechod, *Eph.* 2. 1.
'R ym heb wel'd ein ‡ Cas, na 'i ganfod, ‡ *Cyfluwr.*
'R ym ni 'n gorwedd mewn tywyllwch,
Ac heb geiſio gwell diddanwch.

6 'R wyt ti 'n ymladd ym mhlaid Satan, *Mat.* 18.
'R wyt ti 'n elyn it' dy hunan, 11. 12.
'R wyt ti 'n myned byth ar ddidro,
Nes del *Criſt* i'th droi, a'th rhwyſtro.

7 'R wyt ti eiſoes gwedi 'th golli,
A'th gondemnio * cyn dy eni: * *Sef, yn Lwynau Adda.*
Oni cheiſi *Griſt* i'th helpu,
Yn golledig yr arhoſſu.

8 Mae 'r Sarph a'i cholyn, wedi 'th frathu, *Jo.* 3. 17. 18.
Mae d' enaid bach, o'r brath yn gryddfu:
Cais *Griſt* yn Feddyg, i'th Jachâu, *Jo.* 3. 36.
Oni's ceiſi, || marw a wnai. ||*Damnedig.*

9 Mae d' enaid gwedi 'r diawl ei ſpeilio,
O'r holl ddoniau roes Duw iddo; *Dat.* 3. 18.
Cais gan *Griſt* ei ail ddilladu,
Oni's ceiſi, 'n ‡ ſiwr di ſythu. ‡ *Siccr.*

10 Mae 'r fâll a'r follt o bechod, tanllyd,
Gwedi 'th glwyfo yn wenwynllyd;
Cais gan *Griſt* Iachâu dy glwyfeu,
Oni's ceiſi 'r fâll a'th bieu.

11 Mae d' enaid bach, fel dafad wirion,
Rhwng palfau 'r llew, a'r bleiddiaid digllon;
Cais *Criſt*, ym mhryd i'w ddwyn o'i grampeu,
Oni's ceiſi, 'r blaidd a'th bieu.

12 Mae 'r diawl fel ffowler wedi dala *2 Tim.*
D' enaid, bach, â rhwyd o'r gryfa; 2. 26.
Ni ddëi byth, o rwydau Satan,
Nes del *Criſt* i'th dynnu allan.

Jo. 8. 34. 13 'R wyt ti 'n ufudd wâs i bechod,
'R wyt ti 'n pechu bob diwrnod;
Cais gan *Griſt* roi grâs a chryfder,
Eph. 2. 3. I'w wrth'nebu mewn Cyfiawnder.

14 'R wyt ti 'n blentyn i'r digofaint
Wrth naturiaeth, fel dy geraint;
Cais gan *Griſt* dy ad-genhedlu,
Rhag dros fyth, it aros felly.

§ *Caeth-was.* 15 'R wyt ti 'n § ſlaf i'r cythraul aflan,
'R wyt ti 'n byw ym meddiant Satan;
Act. 26. 18. Cais ym mhryd gan *Griſt* dy dynnu
O law 'r Fâll, rhag aros felly.

Luc. 11. 12. 22. 16 Mae 'r gŵr cadarn yn heddychlon,
Yn cadw 'i gaſtell yn dy galon;
Nes cael *Griſt* i ddwyn ei arfau,
Nid â 'r cadarn byth o 'th † aſgrau.

† *Monwes.* 17 'R wyt ti 'n gangen wyllt anffrwythlon,
Heb ddwyn ffrwyth, ond grawn-wîn ſurïon;
Oni wella *Griſt* dy natur,
I dân uffern, boeth, i'th deflur.

Col. 1. 21. 18 Fe wnaeth y diawl di 'n elyn 'Duw,
O blentyn graſol, goreu ei ryw;
* *Heddychu.* Cais gan *Griſt* dy * reconſilo,
Matth. 23. 37. Rhag aros byth yn elyn iddo.

19 'R wyt ti 'n un o'r cywion bychain,
Y ſy 'n pori rhwng y Cigfrain;
O's *Griſt Jeſu*, ni'th adeinia,
Cigfrain uffern a 'th 'ſclafaetha.

20 'R wyt ti 'n gorwedd mewn tywyllwch,
Heb wir 'nabod llwybrau heddwch;
Oni oleua *Griſt* ein llwybrau,
'Awn i uffern ar ein pennau.

'R wyt

21 'R wyt ti 'n haeddu pob gofydi, *Eph.* 2.
Gwedi 'th ddamnio cyn dy eni
Oni chei gan *Grift* i 'th helpu
Yn golledig yr arhofu.

22 'R wyt ti 'n elyn i'r Goruwchaf,
'R wyt ti 'n ‡ flaf i'r cythraul pennaf; ‡*Caeth'was.*
'R wyt ti 'n dewyn uffern ifod,
Nes del *Crift* i olchi 'th bechod.

23 'R wyt ti 'n euog o bob tramcwydd,
O bob nychdod, o bob aflwydd;
O bob gofid, o bob trallod, *Deut.* 15. 16, 17.
Nes cael *Crift* i olchi 'th bechod.

24 Drwg tu fewn, a drwg tu fas,
Llawn o bechod, tlawd o râs;
Aflan oflyd, dwl, di-wybod, *Rhuf.* 3. 10.
Nes cael *Crift* i olchi 'th bechod. *byd y* 19,

25 Dymma gyflwr pob rhyw Griftion, Pen. 7. 18.
Medd y' Yfgrythur yn § blaen ddigon; *Cor.* 3. 5.
Hyd nes delo *Crift*, ein Prynwr, *Rhuf.* 5. 6.
I 'n hail-eni, i wella 'n cyflwr.

26 Oni chawn gan *Grift* ein helpu,
A 'n hail-weithio, a 'n gwaredu; 2 *Cor.* 3. 5.
Ni all dyn o'i rym ei hunan,
Wella ei gyflwr mwy na Satan.

27 Ni all *Peder*, ni all *Pawl*, 1 *Tim.* 2. 5. 6.
Ni all Angel, ni all diawl,
Ni all neb ond *Crift* yn unig,
Gadw enaid dyn colledig.

28 Chwilia 'r nef, a'r ddaer, a'r awyr,
Chwilia 'r môr, a phob creadur;
Di gei weled na's gall un *Act.* 4. 12
Ond CRIST, i gadw enaid dyn.

29 Oni cheifi *Grift*, ein Prynwr, § *Eglur.*
Gan ei Dâd, i wella 'th gyflwr;

I bwll uffern yr ei * drigo,
'Eifiau ceifio cymmorth gantho.

* *Di-lefeinllyd.*

30 Ni bydd un dyn yn gadwedig,
O'r holl fyd, er maint eu rhyfig,
Ond y dyn y gaffo ei gadw,
Er mwyn CRIST, ein Ceidwad * croyw;

Math. 7. 21.

31 Ac ni cheidw *Criſt* un Criſtion,
O'r holl fyd, er maint a grion;
Ond y dyn a gredo 'n brudd,
Yng Nghriſt, trwy wir, a bywïol ffydd.

Jo. 6. 29.

32 Y neb a gredo *Yng Nghriſt*, yn gywir,
Fe gaiff hwnnw ei gadw 'n ficcr;
Y neb ni chredo yntho 'n † fyth,
Ni chaiff hwnnw ei gadw byth.

Pen. 3. 36.

† *Yn ddiyſgog.*

C A N IV.

Genedigaeth, Bywyd, a Marwolaeth Criſt Jeſu *ein Jachawdwr.*

PO B rhyw Griſtion ag ſy 'n caru
'Nabod *Criſt*, y fu 'n ein prynu,
Clywch fi 'n adrodd genedigaeth
Prynwr Cred, a'i * brudd farwolaeth.

• *Triſt.*

2 Y Gair (*Mab Dyw*) oedd o'r dechreuad,
Cyn bod nef, na daer, na 'deilad,
Yn ail berſon o'r glân Drindod;
'R hwn a wnaeth y byd mor barod.

Jo. 1. 1. 3 5. *Dibar.* 8. 22. *Rhuf.* 9. 5.

3 Yr oedd e'n *Arglwydd* cywch a'i *Dad*,
Yn y nefoedd yn llawn o râd;
Yn rhëoli 'r holl Angylion,
Cyn i ddyfod at blant dynion.

4 'R oedd e'n *Dduw*, galluog grymmus,
'R oedd e'n *Arglwydd* anrhydeddus,
'R oedd e'n *Frenhin* mawr ei râd,
'R oedd e' ym mhôb Pwynt cywch a'i *Dad*.

Pan

5 Pan ddaeth o'r nef i brynu dyn, *Phi.* 2.6.7.
Fe gymmerth arno 'n lliw a'n llûn;
A'n gwir gnawd o *Fair* ei fam, *Jo.* 3.13.
'R hon oedd * *Wyryf* bûr, ddi-nam. *Heb.* 2.14.

6 Hi feichïogodd arno yn rhyfedd,
O rad yr Yſpryd Glân, a'i rinwedd,
Heb fod iddi wnel na 'nabod *Mat.* 1.18.
Gŵr, erio'd, er bod yn brïod.

7 Ac felly 'r aeth Mab *Duw* yn Ddyn, * *Merch.*
O naturiaeth *Mair* ei hun,
(Heb ei halogi â dim pechod,)
Yn y groth trwy waith y *Drindod.* *Jo.* 1.14.

8 Dwy naturiaeth amlwg || y'n, || *Ydym.*
Sydd i 'n prynwr (Duw a dyn).
Un o'i Dad, a'r llall o'i Fam, *Rhuyf.* 1.
Dwy wahanol, dwy ddi-nam. 3.4.

9 Mab i Ddduw, a Mab i ddyn; *Act.* 13.
Heb un perſon iddo ond un: 33.
Mab i ddyn, o fam heb dad,
Mab Duw mawr, heb fam y † cad! † *Caſwyd.*

10 O ran ei ddyndod, mae 'n fy mryd,
I ddangos i'ch ar hyn o bryd,
Y Dyll a'r môdd y ganed *Jeſu*,
Pan y ddaeth o'r nef, i 'n prynu.

11 Pan ddaeth *Mair i Fethle'm* ‡ hygar, *Luc.* 2.3.
I dalu trêth i'r *Emprwr Ceſar*, *Ad.* 7.
Daeth ei hamſer i Eſgori,
Fel y traetha 'r 'Fengyl inni. ‡ *Cariaidd.*

12 Ond gan gymmaint oedd y cwmni,
Oedd yn gorwedd ym-mhôb § Oſtri, § *Lley.*
F'orfu ar *Fair*, trwy fawr ofal,
Fynd i eſgor, hwnt i'r ſtabal. ‡ *Gwchdra.*

13 Yno 'm mhlith y mûd 'nifeilod,
Heb ddim ‡ ſtade, Duw, yn ei wybod,

Fe eſgorodd *Mair*, wen, ddiddig,
Ar ein Prynwr ddydd *Nadolig*.

14 Gwedi geni 'n Prynwr hyfryd,
Heb fod arni boen, na gofyd:
Luc. 2 7. Yn dra llawen hi a rwymau,
Frenhin nefoedd mewn cadachau!

15 Gwedi 'i rwymo, hi rhoi i orwedd,
Yn y preſeb yn dra rhyfedd;
Mat. 1. 25. Ac y fyddei bodlon ddigon,
I bob peth oedd Duw 'n ei ddanfon.

16 Yna cyn i'r wawr gael torri,
Fe ddanfonei Duw, gwmpeini
Luc. 2. 15. O Fugeiliaid, mewn gwiriondeb,
16. I'w addoli ê, yn y Preſeb!

17 Y rhai ddanfonwyd gan Angylion,
Yn dra llawen iawn eu calon;
‖ *Eneinog.* I dref *Fethle'm*, o wir bwrpas;
I gal gweled y ‖ *Meſſias*.

Ad. 17. 18 Ac i * faneg i bawb hefyd,
Fel y d'wedſai 'r Angel hyfryd.
* *Cyhoeddi.* Mae ſe oedd CRIST, y gwir Geidwad
'R hwn 'addawſid o'r dechreuad.

19 Ac y byddei fawr lawenydd,
Ad. 10. 11. I'r holl fyd, o'r chwedel newydd;
O ran geni y boreu hwnnw,
Y Iachawdwr, ddeuei 'n cadw.

20 Yna y deuei lu o Angylion,
Ad. 13. Ac y ganent hymnau mwynion;
I'r Tad nefol, o'r uchelder,
Am roi i ddynion y fath fwynder.

21 Ar hyn ſe ymddangoſei Seren,
Mat. 2. 2. Rymmus, raſſol, yn yr Wybren;
'R hon a ddwedei â 'i goleuni,
Fod y Prynwr wedi 'i eni!

22 Yno deuei hen wyr doethion,
O'r *dwyrain*-dir yn dra union, *Math.* 2. 1.
I *Judea* wrth y ſeren,
I ymofyn *Criſt* yn llawen.

23 Y rhai a geiſient gael copinod,
Gan y brenhin creulon *Herod*, *Num.*24. 17.
P'le genaſid *Criſt* y *Cyſion*,
Brenhin graſol yr *Iuddewon*?

24 Yna y d'wedai 'r 'ffeiriaid mwya, *Mat.* 2. 5.
Mai ym *Methl'em*, tref o *Juda*, 9. 10. 11.
Yn ſiwr y genid y *Meſſias*,
Meddei 'r Prophwyd, hen *Micheas*.

25 Pan y clywai 'r doethion hyn,
Aethant yn faith ac yn dynn;
I dref *Fethl'em* wrth y ſeren,
Gan ymofyn *Criſt* yn llawen.

26 Ond pan ddaethant hwy yn agos *Mat.* 16. 17.
I'r tŷ, lle yr oedd *Criſt* yn aros,
Fe ddiſgynnai 'r ſeren dlŵs,
Ac arhoſei uwch ben y drŵs.

27 Yna 'r aent i mewn yn llawen,
Lle 'r oedd *Mair* a *Chriſt* yn faehgen;
Ac a gwympent ar eu daulin,
I addoli 'r graſol Frenhin.

28 Rhoddent hefyd † rial roddion,
Y berthyne i *Criſt* yn ‡ gyſſon; †*Rhagorol.* ‡*Cyttun.*
Aur a *Francinſens* o'r goreu,
A *Mur* gwerthfawr teg ei 'rogleu.

29 *Herod* ynteu pan y clywas
Eni *Criſt*, y gwir *Feſſias*;
Efe a fynne 'i ladd yn blentyn
Bach, yn fugno yn ei rwymyn.

30 Ac fe heloedd lu o fwyſwyr,
Gwaedlyd, creulon, dîg difeſur;

I ladd yr holl blant bach o ddauty,
Cyn y methai 'ladd y *Jesu*.

31 Hwynteu laddsant yr holl fechgin
Oedd ym *Methl'em*, etto 'n egin;
Fach a mawr dan ddwy-flwydd oedran,
A mab *Herod* gas ei hunan.

32 Yno y gorfu ar *Fair* fyned,
Mat. 1. 13. Ganol nôs i ddechreu cerdded,
Tua 'r *Aipht* â 'i phlentyn ganthi
Lle archasei 'r Angel iddi.

33 Yno y bu *Crist* yn aros,
Gydâ 'r *Sibsuns*, lawer wythnos,
Nes cael clywed marw *Herod*,
Oedd yn ceisio 'i ladd heb wybod.

34 Yn ôl marw *Herod* greulon,
Fe ddeu *Crist* i wlad Iuddewon,
Ac y fyddei ostyngedig
Luc. 2. 51. I *Fair*, ac i *Joseph* ddiddig.
46.

35 Pan yr oedd e'n ddeuddeg oed,
Peth rhyfedda y fu erioed,
Efe ym-bwngciei a'r Doctoriaid,
*Rhyfedda. Nes bae 'r doethion arno 'n *synniaid.

36 Yno yn ddeg ar hugein oedran,
Pan bedyddiwyd ef gan *Joan*,
Fe ddisgynnei arno yr Yspryd,
§*Cariaidd.* Ar lûn colommen § hygar hyfryd.

37 Ac fe lefei Duw ei hunan,
Fry o'r nef lle clywe 'r †cwmpan,
Hwn yw f' unig fab aberthwyd,
†*Cysteillion.* Ynddo ef ym llwyr foddlonwyd.

38 Gwedi 'r Ysbryd ddisgyn arno,
Fe ddeu 'r Cythraul ynte i' demptio;
Ond er maint oedd cyrch y cythraul
‖*Cwymp.* Rhoes *Crist* iddo ‖ ffwyl ddiogel.

39 Yn ol hyn fe ae i bregethu,
Yr efengyl wenn o ddaytu,
Ac i ddechreu gwneuthur gwrthie,
Ym-mhob tir y ffordd y cerdde.

40 Fe droes y dwr yn gynta 'n win, *Joan. 2.*
Fe lwyr Jachaodd bob clefyd blin,
Ac fe wnaeth i'r deillion weled,
Ac i'r byddar clust-drwm glywed. *Mat. 11. 5.*

41 Fe wnaeth i'r cripliaid yn ddi fraw,
Neidio a thrippio yma a thraw,
Ac fe wnaeth i'r gwreigyn grocca, *Luc. 13. 13.*
'Godi ei chefn o'r uniawna.

42 Rhodiodd hefyd ar y môr,
Gan oftegu ei rwyf a'i rôr; *Mat. 14. 25.*
Ac fe wnaeth i'r ftorom wynt,
Beidio a chwythu yn ei hynt.

43 I ddangos in ei fod e 'n DDUW,
Fe gododd dri o feirw i fyw;
Merch i *Jarius*, mab i'r weddw,
Lafar wedi drewi a marw.

44 Porthodd bum mil â phum torth, *Luc. 7. &c.*
Mawr ei bwer, da o'i borth; *Jo. 11.*
Llanwodd ddwy long o'r pyfg mwya,
Pan y methe ar bawb eu dala.

45 Bwriodd lawer cythraul allan, *Yn ebrwydd.*
O'r rhai cleifion, lloerig egwan; *Luc. 5.*
A chluft *Malchus* gwedi 'i dorri,
Y iachaodd ef *toc heb eli.

46 Llawer gwrthieu gydâ hyn, *Luc. 22.*
Y wnaeth ein Prynwr *Jefu* gwynn;
Cyn i *Suddas* frwnt ei werthu,
I'r luddewon, a'i fradychu.

47 Ni chaed twyll erïoed o'i ene,
Nid oedd un dyn a'i hargyhoedde;

1 *Pet.* 2. 22. 'R oedd e 'n ddiddrwg fel yr oen,
Yn fach ei barch, yn fawr ei boen.

Jo. 7. 46. 48 Pan ddaeth yr awr oedd Duw 'n ei ofod,
I'w aberthu ef dros ein pechod;
Fe ddeu *Suddas* ac a'i gwertheu,
I'r Iuddewon am geiniogeu.

49 Ni chadd ddim ond hanner Coron,
Mat. 19. 16. Am ei roi e 'n llaw 'r Iuddewon;
I fynd ag ef yn rhwym at *Gaiaphas*,
Mat. 26. 15. Gwedi 'holi 'n doft gan *Annas*.

50 Yn y man y daeth at *Gaiaphas*,
Fe ddeu tyftion gau o'i gwmpas;
Ac a fynnent brwfio arno
Lawer peth na's gwydde oddiwrtho.

Hole 51 *Caiaphas* ynteu a'i * examneu,
Yn galed iawn ar fil o betheu;
Mat. 26. 36. Ac a'i tyngai trwy 'r Duw byw,
I adde a'i fe oedd fab i DDUW?

52 Ac am i'r *Jefu* adde 'n glir,
Mae fe oedd CRIST, mab Duw yn wir,
'Braidd na fynnai pawb ei lethu,
A'i labuddio cyn ei farnu.

53 Yna y poerwyd yn ei wyneb,
Mar. 14. 56. Bwbachwyd, dallwyd, mewn ffolineb;
Ffuftwyd ei ben â gwielyn,
A chernodiwyd e 'n yfgymmyn.

54 Ar y boreu yr holl Iuddewon,
A'r Offeiriaid, a'r gwyr mawrion,
Y ddoent â CHRIST, gwedi 'glymmu,
At *Bilatus* iddo ei farnu.

55 *Pilat* gwedi 'i holi 'n galed,
Mat, 14. 27 Heb gael ynddo fai na niwed;
Dan lanhau a golchi ei ddwylo,
Y rhoes farn marwolaeth arno.

Cynn

56 Cynta peth y farnai *Pilat*,
Oedd ei chwipio heb ei ddillad,
Yn ol hynny ei groeſhoelio,
Ar y croſ-bren, nes * departio. *Marw.

57 Felly chwipiwyd CRIST yn doſt,
O heol, i heol, o boſt i boſt;
Ac ni adawyd modfedd arno,
O'i ben i'w draed, heb ei *ſcwrgio. *Flangellu.

58 Gwedi 'n deuei filwyr *Pilat*, †Dioſgent.
Ac hwy † ſtripent CRIST o'i ddillad;
Ac a'i gwiſgent ef eyn ſtafed,
Mewn hen fantell goch o ſcarlet.

59 Yn ol hyn ſe blethai 'r rhai 'n,
Anfad goron, fawr o ddrain;
Ac a'i gwiſgent ar arleſieu
CRIST, nes rhede 'i waed yn bibeu.

60 Rhoddent hefyd yn ei law,
Gorſen, gan ymgrymmu draw,
A'i watwaru a geirieu mwynion,
Dydd da'wch Brenhin yr Iuddewon.

61 Gwedi dioſg CRIST drachefen,
Rhoiſant y groes ar ei gefen;
Iddo 'i llyſco i *Benglogfa*, *Jo.* 19. 17.
Lle 'i croeſhoeliwyd ar ei hycha.

62 Pan yr aethant i'w groeſhoelio,
Tyllwyd ei draed ef a'i ddwylo;
Ac hwy hoeliwyd yn fileinig,
A thair hoel o haiarn ffyrnig.

63 Er maint oedd ei boen a'i loeſeu,
Etto er hyn ni 'gore o'i eneu:
Ac ni ynganei wrth y poenwyr,
Mwy na 'r ddafad dan law 'r cneifwyr.

64 Ond ſe offrymmei ar y groes, *Act.* 7. 32.
Pan oedd chwerwa a blina 'r loes;

Ei

Ei enaid gwynn, a'i waed i gyd,
Yn aberth dros bechodeu 'r byd.

Luc. 23. 34. 36. 65 Ac orch'mmynei ei enaid gwirion,
I law ei Dad, y Barnwr cyfion;
Dan ymhwedd arno am fadde
I'r luddewon a'i croesfoelie.

66 Felly y bu farw 'r *Jesu*,
Ar y pren croes wrth ein prynu,
Ac y rhoes ef waed ei galon,
Dros eneidieu 'r gwir grif'nogion.

67 Felly rhoddes Duw ei anwylyd,
I'w groesfoelio trwy fawr benyd,
* Er mwyn prynu ein heneidieu,
A'u gwaredu o'u holl boeneu.

68 Rhoddwn ninneu foliant iddo,
Ddydd a nos, heb ddim diffygio;
Am ei gariad a'i drugaredd,
† *Fe roir i'r Gwaredigion Rai i gredu, ac edifarhau.* Yn prynu enaid dyn mor rhyfedd.

69 Diolch mawr, a moliant hyfryd,
Y f'o i'r Tad y Mab a'r Yfbryd;
Am brynu enaid dyn mor ddruted;
A'i ddwyn i'r nef o doft gaethiwed.

C A N. V.

Adroddiad o gariad CRIST *at y byd.*

CLywch adrodd mawr gariad mab Duw at (y byd
Gen. 3. 4. 6. Pan ddaeth ef o'r nefoedd i'n prynu mor ddrud,
Er peri i chwi gofio am gariad mab Duw;
A'i foli 'n waftadol tra fyddoch chwi byw.

2 Pan twyllodd y cythraul a'r afal y wraig,
I dorri 'r Gorchymyn trwy demptiad y ddraig,
Fe 'n gwerthwyd am afal i'r diawl cymain un;
Heb neb alle 'n prynu, ond Mab Duw ei hun.

Ma

3 Mab Duw pan y gwelodd ein cyflwr mor (doſt,
Fe ddaeth yn ei un-ſwydd o'r neſoedd yn boſt,
O blith yr Angylion, i groth y wenn *Fair*,
I gym'ryd ein nattur, i'n gwared ni o'r pair.

4 *Mair* a feichiogodd, ar unig Fab Duw,
O rad y glan Yſpryd, (ond tra rhyfedd yw)
Pan 'r oedd hi 'n bur forwyn, dra ieuange (mewn oed.
Heb ſod iddi anffawd ag un gwr erioed,

5 Pan ddaeth amſer eſgor ſe aned Mab *Mair*,
Mewn ſtabal ym *Methle'm*, ar ſottel o wair;
Lle trowd ef mewn cadach, a'i oſſod i lawr,
I orwedd mewn preſeb, ond happus yr awr.

6 Pan ganed ein Prynwr ſe helwyd o'r nef,
Angylion rhial-wych tra llawen eu llef,
I ſaneg dan ganu, yr amſer a'r pryd,
Y ganed Criſt *Jeſu*, Jachawdwr y byd.

7 A'r Doethion o'r *Dwyrain*, pan gotſon eu pen,
A gweled ei Seren, mor wych, ac mor wenn,
Hwy ddaethant o'r *Dwyrain* i *Fethl'em* yn boſt,
I 'ddoli 'r dyn bychan, mewn llawer o goſt.

8 *Herod* pan clywodd ef eni Mab Duw,
Fe helodd ei ſwytſwyr, i ſwrddro ſe 'n ſyw;
Ac rhag iddo ddiange ſe laddodd pob un,
O ſechgin bach *Bethl'em*, a'i blentyn ei hun.

9 *Mair* hithe gododd, ar hyd nos heb ddim (trwſt,
Ac aeth at y *Sibſwns*, a'i phlentyn ar ffirwſt,
Lle bu hi 'n hir aros, ni wn i pa hyd,
Nes darfod am *Herod*, a'i ſwytſwyr i gyd.

10 Pan ddarfu am *Herod*, daeth Crist yn ei ôl
O'r *Aipht* i *Judea*, at genel rhy ſfol,
Lle bu ê 'n pregethu 'r efengyl yn hir,
I bobl bengaled na chreden mo'r gwir.

Gwth-

11 Gwrthieu tra gwerthfawr' wnaeth eſlawer (pryd,
I ddangos mai 'r *Ieſu* oedd Ceidwad y byd;
Ni chredei 'r Iuddewon na'i wrthie na'i wir,
Ond ceiſio 'i fradychu ar for ac ar dir.

12 *Suddas* fradychus, â chuſan tra chas,
A'i gwerthodd e 'n nwylo 'r Iuddewon di-ras,
Trachwant yr Arian a'i gyrrodd ê 'n boſt,
I ymgrogi mewn cebiſt, ei ffforten oedd doſt.

Luc 22. 43. 13 Y nos y bradychwyd ſe chwyſodd y gwaed,
Yn daran doſtyrus, o'i ben hyd ei draed;
Wrth feddwl cyn chwerwed, a blined o'r loes,
Orfydde arno oddef am bechod pob oes.

14 Fe'i dalie 'r Iuddewon â ffagleu ac â ffynn,
Pan oedd ê 'n gweddio 'n ol ſwpper yn ſynn:
Frawychys. Hwy rhwyment a chordeu, hwy llyſcent trwy (fraw,
At *Annas* a *Chaiphas*, i'w holi dan llaw.

15 *Pilat* yn fynych a'i holodd e yn chwai,
Heb allel cael ynddo, na phechod na bai;
Ond dan olchi 'i ddwylo, ſe wnaeth ag ef gam,
Fe'i barnodd i farw, heb wybod pa ham.

16 Fe farnodd i chwippio o'i ben hyd ei draed
Nes bod ei Gorph purwyn, yn lliwio gan waed,
A chwedin i hoelio, ar grogbren trwy gur,
Trwy ddwylaw a'i ddwy droed â hoelion o ddur.

17 Coronwyd Crist hefyd â choron o ddrain,
Fe wiſgwyd mewn mantell o ſcarled coch main,
F'addolwyd mewn gwatwar dan blygu pob glin
Fe gurwyd â chorſen, dan yſtyn eu min.

18 Fe rowd ar ei yſgwydd y groes idd ie dwyn,
Nes mynd i *Bengloſfa*, heb nemmawr o gwyn,
Ar honno 'n fileinig, ſe hoeliwyd yn fyw,
Ac felly ar grogbren ſe grogwyd Mab Duw.

19 Er maint oedd ei gyſtudd, a'i gamwedd a'i (gur,
Pan hoeliwyd ef felly, â hoelion o ddur; *Eſa.* 53.
Ni 'gorodd ei enau, ni ofynnodd pa ham, 7. *Marc.*
Mwy na'r oen dan law 'r cneifwr, er maint 14. 61.
(oedd ei gam :

20 Ond llefein yn irad o'r groes ar ei dad,
Am fadde' i'r Iuddewon a ſugnent ei wa'd; *Luc.* 23.
O achos na wyddent ar hynny o brŷd, 34.
Eu bod hwy'n croeſhoelio Jachawdwr y byd.

21 Ac felly bu farw Fab Duw ar y groes,
Wrth ddwyn ynddo ei hunan y blinder a'r loes; *Eph.* 2.
A'r poeneu a'r pennyd a'r dial i gyd, 15.
Oedd Duw yn ei ofyn am bechod y byd.

22 Trwy angau tra phoenfawr a phridwerth ei (dad,
wa'd,
Fe wnaeth heddwch hyfryd rhwng dynion a'i *Col.* 1.
Fe'n dygodd ni eilwaith mewn ffafar â Duw, 21. 22.
Moliannwn yr *Jeſu* tra byddon ni byw. (un

23 Fe ddygodd ar grog-bren ein pechod bob,
Fe'n golchodd o'n beie' trwy wir waed ei hun, *Eph.* 2.
Fe'n gwnaeth ni'n Frenhinoedd a 'ffeiriaid i 15. 16.
Dduw,
Moliannwn yr *Jeſu* tra fyddom ni byw.

24 Cyflawnodd y gyfraith boddlonodd ei dad
Fe brynnodd ein pardwn, fe'i ſeliodd a'i wa'd, *Rhu.* 7.
Fe'n tynnodd o'r carchar, fe rwygodd ein ſach 4.
Moliannwn yr *Jeſu* yn fawr ac yn fach.

25 A'i angau fel *Sampſon* fe droediodd i lawr
Gyhuddwr ein brodyr, y wiber goch fawr; *Eph.* 2.
Fe rwygodd ei deyrnas, fe ſigodd ei ſiol, 18.
Moliannwn yr *Jeſu* fe ynnillodd y gol.

26 Fe ddofodd lidiawgrwydd a digter ei dad,
Fe'n gwnaeth yn blant iddo trwy fabwys a rhad,

1 *Ped.* 1. 3. 4. Fe rodd i ni gyfran o deyrnas ein Duw:
Moliannwn yr *Jesu* tra fyddom ni byw.

Tim. 4. 7. 29 Coronneu gorauraidd ar benneu pob un,
A gynneu gwych gwynion tra llunieidd eu llun,
A brynodd ef inni, a theyrnas gwlad nef,
Moliannwn yr *Jesu* yn llawen ein llef.

30 Gogoniant a gallu, a diolch bob pryd,
A fytho i'r Glan Drindod am ein prynu mor (ddrud,
A mawr-glod a moliant i'n Prynwr a'n Pen,
A dyweded pob Criſtion yn waſtad. *Amen.*

CAN. VI.

Cymhelliad i FETHLEHEM.

AWN i *Fethle'm* bawb dan ganu,
Neidio, dawnſio, a difyrru,
I gael gwel'd ein Prynwr c'redig,
A aned heddyw ddydd nadolig.

2 Mae e' *Methle'm* wedi eni,
Yn yſtabal tu hwnt i'r * oſtri,
Awn bob Criſtion i'w gyflwyno,
Ac i roddi golwg arno.

* *Llety.* †*Offrymiado.*

3 Dymma'r ceidwad a ddanfonwys,
Tad toſturi o Baradwys;
I'n gwaredu rhag † marwolaeth,
Ac i weithio 'n iechydwriaeth.

† *Damnedigaeth.*

4 Awn i *Fethle'm* bawb i weled,
Y dull a'r modd a'r man y ganed,
Fel y gallom ei addoli,
A'i gydnabod gwedi eni.

5 Ni gawn Seren, i'n goleuo,
Ac yn ſerchog i'n cyf'rwyddo,
Nes y dycco hon ni'n gymmwys,
I'r lle ſanctaidd lle mae'n gorphwys.

Mae

6 Mae 'r bugeiliaid gwedi blaenu,
Tua *Bethle'm* tan lonychu,
I gael gwel'd y grafol frenhin,
Ceifiwn ninnau bawb eu dilyn.

7 Y mae 'r plentyn yn y ftabal,
Gwedi ddrin gan *Fair* yn rhial;
A'i roi orwedd yn y preſeb,
Rhyng yr ŷch a'i dad-maeth *Joſeb*. Heb. 1. 3.

8 Fe aeth y doethion i'w gyflwyno,
Ac i roi ‡ anrhegion iddo, ‡ *Rhoddion.*
Aur, a *Thus*, a *Myrr*, o'r goreu, † *Offrwm.*
A'i † breſentio ar eu glinieu.

9 Rhedwn ninneu i'w gorddiwes,
I gael clywed rhan o'u cyffes;
Dyſgwn ganddynt i gyflwyno,
A rhoi clod a moliant iddo.

10 Yn lle aur rhown lwyr gred yndda,
Yn lle *Thus* rhown foliant iddo;
Yn lle *Myrr* rhown wir 'difeirwch,
Ac fe'i cynnmer trwy hyſtrydwch.

11 Mae'r Angylion yn llawenu,
Mae'r ſſurfafen yn tywynnu,
Mae llu'r nef yn canu Hymneu, *Dan.* 1. 14.
Caned dynion ryw beth hwyteu.

12 Awn i *Fethle'm* i gael gweled,
Y rhyfeddod mwya wnaethbed,
Gwneuthur Duw yn ddyn naturiol,
I gael marw dros ei bobol.

13 Awn i wel'd yr hen ddihenydd,
A wnaeth y nef, y môr, a'r mynydd,
ALPHA oediog Tad goleuni,
Yn ddyn bychan newydd eni!

14 Awn i weled Duw y Gair,
Brenhin nef ar arfied *Mair*,

Gwedi cymryd cnawd dyn arno,
Yn fab bach yn dechreu ſugno.

15 Awn i weled y Mab rhad,
Hûn * na'i Fam cyfoed a'i Dad,
Mab a Thad, y Fam a'r ferch,
Yn lleia eu ſon, yn fwya eu ſerch.

Heb. 1. 3.

16 Awn i *Fethle'm* i gael gweled,
Mair, a Mab Duw ar ei harſſed,
Mair yn dala rhwng ei dwylo,
Y Mab ſy'n cadw'r byd rhag cwympo!

17 Awn i wel'd congcwerwr Angau,
Gwedi 'rwymo mewn cadachau,
A'r Mab a rwyga deyrnas Satan,
Yn y craits heb allu crippian.

18 Awn i weled y *Meſſias*,
Prynwr Cred, ein hedd a'n hurddas;
Unig Geidwad ein heneideu,
Ar fraich *Mair* yn ſugno bronneu.

* *Tad ſel Duw, a Mab ſel dyn*

19 Awn i weled had y wraig,
Y bwyntiodd Duw i bwnio'r ddraig,
Ac i yſigo ei ſiol wenwynig,
Am beri bwytta'r ffrwyth gwa'rddedig.

20 Awn i weled y Mab y ga'd,
Yn rhyfedd iawn o'i fam heb dad!
A'i fam yn Wyryf ieuangc oed,
Mam heb 'nabod gwr erioed.

21 Awn i wel'd y ferch yn fam,
A'r fam yn ferch ddi nwyf ddi nam;
Y ferch yn magu'i Thad o'i rwymyn,
A'r Tad yn ſugno bronneu 'r plentyn!

22 Awn i weld y pen ſaer goreu,
Y wnaeth yr haul a'r holl blanedeu,
Y nefoedd fawr a'i rhwm mor rhial,
Ymma'n gorwedd mewn yſtabal!

Awn

23 Awn i weled Duw 'r Gogoniant,
'Rhwn ſy'n meſur nef a'i rychwant,
Yn y preſeb heb un gade'r,
Yr Oen mwyn yn ſael ei biner.

24 Awn i wel'd yr Oen bendigaid,
Ni bu 'fath o flaen Bugeiliaid;
Oen i Dduw y ddaeth mewn pryd,
I Dynnu ſwrdd bechodeu 'r Byd.

25 Awn i wel'd ein Prynwr hoyw,
Y ſydd i farnu byw a meirw;
'R hwn a'n dug i'r nefoedd dirion,
Ar adenydd yr Angylion.

26 Dymma, gwelwch e'n ddi ſtwr,
Y gore 'i gyd yn wanna gwr,
Duw yn ddyn, a dyn yn Dduw,
A'i gwelo'n llun tra dedwydd yw.

C A N. VII.

Crist *ſydd oll yn oll.*

Crist ei hun ſydd oll yn oll, *Col.* 3. 11.
Yn cadw dyn rhag mynd ar goll, *Eſa.* 43. 11.
Nid neb, nid dim, ond Crist ei hun,
Y ddychon gadw enaid dyn.

2 Y Sarph a'r afal gynt a'n twyllodd, *Gen.* 3. 4.
Y Sarph a phechod a'n gwenwynodd;
Y Sarph a'n tynnodd o Baradwys,
Y Sarph i Uffern boeth a'n gyrrwys.

3 Mae mor ſiwr i bob dyn fyned, *Joan.* 3. 4.
I bwll uffern i gaethiwed,
A phyt faem ni eiſioes ynddo,
Oni cheidw Crist ni rhagddo.

4 Crist y ddaeth o'r nef i'n prynu, *Joan.* 6. 37. *Eph.* 4. 10.
Crist a'n cadwodd gwedi 'n damnu:

Crist

Rom. 7. 1: CRIST o'n cyſtudd, a'n gwaredodd,
Mat. 25. 4. CRIST a'n dyg i deyrnas nefoedd.

1 Sam. 17. 5 O gramp y llew o eneu 'r wiber,
Eſa. 49. 9. O rwyd y fall, o balfe 'r Teiger,
O'r pwll, a'r pair, o'r deyrnas aſlan,
Y tynnodd CRIST ei ddefaid allan.

6 Ni all Satan ladd a mwrddro,
1 Jo. 3. 8. Fwy nag all Mab Duw ddadfywio,
1 Cor. 15. 22. Y laddo 'r ddraig a'i cholyn gau,
Gwaed yr OEN, 'all ei iachau.

7 *Jeſu Griſt* yw had y wraig,
Y bwyntiodd Duw i droedio'r ddraig;
Gen. 3. 15. I yſigo ei ſiol, i rwygo ei theyrnas,
I dynnu dyn o'i chrampeu atgas.

8 Ni orchfyga neb o'r ddraig,
Ond trwy gymmorth had y wraig;
Dat. 12. 11. Ni ddaw dyn o'i theyrnas aſlan,
Nes y tynno CRIST ef allan.

Gen. 12. 3. 9 *Criſt* yn unig yw'r had dinam,
Gen. 22. 8. Y bromheiſiodd Duw i *Abra'am*,
I'n rhyddhau oddiwrth y felldith,
A rhoi inni'r nefol fendith.

10 *Criſt* yn unig ydyw 'r *Silo*,
Gen. 49. 10: Y ddanfonodd Duw i'n ceiſio,
O gaethiwed pob rhyw bechod,
I waſ'naethu 'r ſanctaidd drindod.

11 *Criſt* ei hun yw pren y bywyd,
Sy 'n rhoi maeth i bawb o'r holl-fyd;
Gen. 3. 22. Ni bydd marw yn dragwyddol,
Apoc. 22. 2. Neb y fwyto 'r ffrwyth ſancteiddiol.

12 *Criſt* yw'r arch, y llonges eſmwyth,
'Gadwodd *Noe* rhag boddi, a'i dylwyth,
Gen. 7. 1. *Criſt* yw 'r arch ſy'n cadw ninneu,
Rhag pob dilyw a dialeu.

Criſt

13 *Criſt* ei hun yw yſgol Jago,
Oedd o'r nef i'r ddaer yn pheicio, *Gen.* 7. 1.
Ar yr hwn y mae i'n ddringad,
O's i'r nef y mynnwn ddwad.

14 Y Sarph a laddodd ddyn a phechod,
Y Sarph a'n troes i uffern iſſod ; *Gen.* 28.12.
Crist a'i Yſpryd a'n dadfywiodd,
Crist o uffern a'n gwaredodd.

C A N. VIII.

Yr ail ran. Crist *ſydd oll yn oll.*

CRIST ei hun ſydd oll yn oll, *Col.* 3. 11.
Yn cadw dyn rhag myned ar goll; *Eſa.* 45. 21.
Nid neb, nid dim, ond *Criſt* ei hun, *Eſa.* 43.11.
Y ddichon gadw enaid dyn.

2 Crist ſydd bob dim ſydd anghenrhaid, *Col.* 1. 19.
O flaen Duw i gadw 'r Enaid, *Col.* 2. 10.
Ni fyn Duw, ond Criſt ei hun, 1 *Ioan.* 2. 2.
Yn lawn dal, am enaid dyn.

3 Criſt yn unig, Criſt ei hunan,
Criſt heb neb, mewn rhan a chyfran; *Hoſe.* 13.4.
Criſt heb ddim, ond Criſt ei hun, *Eſa.* 43.11.
Yw unig Geidwad enaid dyn.

4 Criſt yw 'n rhanſwm Criſt yw 'n haberth ; *Ioan.* 2. 2.
Criſt yw 'n hoffrwm, Criſt yw 'n cyfnerth, *Heb.* 9. 14.
Criſt yw 'n tryſſor, Criſt yw 'n golud, *Pſal.* 17. 2.
Criſt yw 'n gwir Iachawdwr hefyd.

5 Criſt ſydd gyflawn o bob donieu,
Angenrheidiol i'n heneidieu ; *Col.* 1. 19.
Mae pob peth yng Nghriſt ei hun, *Col.* 2. 10.
Ag ſydd raid i gadw dyn.

6 Criſt ei hunan yw 'n cyfiawnder,
A'n ſanctteiddrwydd, a'n gwir ddoethder ;

A'n

A'n hymwared a'n holl bryniad,
Criſt yw 'n cymffordd, Criſt yw 'n ceidwad.

7 Criſt heb ddim, ond Criſt ei hunan,
Mat. 17. 6. Sy'n dad-ddigio Duw yn fuan,
Eph. 2. 1. Criſt heb ddim, ond Criſt yn unig,
Sy'n cyfiawnu dyn colledig.

8 Criſt heb help, na Saint na Saintes,
Eſa. 43. 3. Criſt heb gymmorth dyn na dynes;
Hoſ. 13. 4. Criſt heb neb, ond Criſt ei hun,
Yw unig geidwad enaid dyn.

9 Criſt yn unig ymdrabaeddodd,
Yn y winwyrf pan ein prynodd,
Eſa 63. 3. Ni bu neb o blant yr holl-fyd,
Eſa. 63. 5. Yn ei helpu i gadw ein bywyd.

10 Ni wnaeth *Peder* ond ei wadu,
Na'r 'poſtolion, ond diflannu,
Mat. 26. 74 Ni wnaeth *Mair*, ond wylo yn irad,
Mat. 26. 56. Tra fu Criſt yn chwareu 'r Ceidwad.

11 Ni ddyg neb ond Criſt ei hunan,
Bwys, a baich, ein pechod aflan;
Ni chwyſodd neb o'r gwaed yn ddeigreu,
Ond Mab Duw dan bwys ein beieu.

12 Ni Chroeſhoelwyd, ond *Criſt Jeſu*,
Am ein pechod wrth ein prynu,
Eſa 53. 5. Ni fu neb, ond *Criſt* ei hun,
Mar. 15. 24. Yn boddhau Duw, yn iachau dyn.

13 Ni bu neb ond *Criſt* ei hunan,
Heb. 2. 14. Yn ein dwyn o feddiant Satan;
15. Ni bu neb yn lladd, yn llyngcu,
Angau didrangc, ond *Criſt Jeſu*.

14 Criſt ei hun y lyngcodd Angau,
Criſt y ſpiliodd awdurdodeu;
* *Yſcrifen-law yr ordinhadau.* Criſt y gwnodd ein * 'bligaſwn,
Criſt y dalodd werth ein pardwn.

Criſ

15 *Criſt* yw'r prophwyd mawr a heleddd,
Duw o'i fynwes, fry o'r nefoedd; *Act.* 7. 37.
I fanegu 'i 'wyllys hyfryd,
Gwrandawn arno dan boen bywyd.

16 *Criſt* yw 'r ſarph o efydd breſlyd, *Ioan.* 1. 4.
Sy 'n iachau brath neider danllyd; *Num.* 21. 9.
Awn bob rhai a'n dolur atto,
Fe'n iacha ond edrych arno.

17 *Criſt* yw 'r 'ffeiriad mawr offrymwys,
Waed ei galon dros ei eglwys, *Heb.* 9. 11.
Ar y groes i'w Dad ſancteiddiol, 12. 13. 14.
Dros y byd i gadw 'i bobol.

18 *Criſt* yw 'n brenhin grymmus grafol, *Pſal.* 2. 6.
Sydd trwy ras yn llywio ei bobol; *Jer.* 23. 5.
Ac yn goſtwng eu gelynion,
Fel y gallont gael y goron.

19 *Criſt* yw'r bugail ſy'n bugeila,
Enaid Criſtion rhag ei ddifa; *Math.* 2. 6.
Ni chaiff llew, na blaidd, na llwynog, *Ioan.* 10. 11. 28.
Ddwyn o'i braidd nag Oen na mammog.

20 *Criſt* yw'n prins, ein gwir dangnefedd, *Eſa.* 9. 6.
A ddiffoddodd bob digllonedd; *Eph.* 2. 14.
A gwaed ei groes yn Duw, yn Ddyn,
Y gwnaeth e' 'r ddwy-blaid ddig yn un.

21 *Criſt* yw'r rhoſſyn coch o *Saron*,
Sydd a'i liw'n comforddi 'r galon, *Eſa.* 35. 1. 2.
Ac a'i arogl yn rhoi bywyd,
I'r trwm feddwl a'r gwan yſpryd.

22 *Criſt* ei hun yw'r Balm o *Gilead*,
Sy'n iachau pob archoll ‡ ddiſprad, ‡ *Marwol.*
A roes Satan â dart pechod,
I'n heniediau a'n cydwybod.

23 *Criſt* yw 'r manna 'ddaeth o'r nefoedd, *Exod.* 16.
Duw ei hun o'i ras a'i rhoddodd,

Joan. 6.35. Y neb yn ffyddlon a'i bwyttafo,
Ni ddaw byth ddim newyn arno.

24 *Criſt* yw OEN y paſg, 'aberthwyd,
Exod. 12.6. 7. Dros ein pechod pan groes-hoeliwyd;
Ioan. 1. 29. 'R hwn ſy a'i waed yn cadw 'r enaid,
Rhag i'r Angel drwg ei ſcliffiaid.

25 *Criſt* yw 'n hallor arogldarthu,
Exod. 30. 1. 2. 3. 4. Ar yr hon y mae aberthu;
Per arogle', mawl a gweddi,
Foreu a hwyr i dad goleuni.

26 *Criſt* yw meddyg y Criſt'nogion,
Marc. 2. 17. 'R hwn â gwerthfawr waed ei galon,
Sy'n iachau archollion pechod,
Pan na all dim amgenach gydfod.

27 *Criſt* yn unig yw 'n cyfryngwr,
Sy'n 'cymmodi a'n Creawdwr;
1 *Tim.* 2.5. Nid oes neb ond *Criſt* ei hun,
'All gymmodi Duw a dyn.

28 *Criſt* yw 'r twrne ſydd yn dadleu,
Rhuf. 8. 34. O flaen DUW am fadde' 'n beieu;
Joan. 2. 2. Pan bo Satan yn cyhuddo,
Ac yn canlyn * grawnt i'n plagio.

* *Cennad.*

29 Criſt yw'n brenhin, Criſt yw'n 'ffeiriad,
Criſt yw'n prophwyd, Criſt yw'n Ceidwad,
Dat. 21, 6. Criſt yw'n bugail, Criſt yw'n Barnwr,
Criſt yw'n pen, a Chriſt yw'n Prynwr.

30 Criſt cyn cynfyd ydyw 'r *Alpha*,
Criſt heb derfyn yw 'r *Omega*,
Dechreu, diwedd Iechydwriaeth,
Dat. 1. 11. Meibion dynion, a'u derchafiaeth.

31 Criſt yw dewr gongcwerwr angau,
Criſt a'i ſpeiliodd o'i holl arfau,
Criſt a lyngcodd angau melyn,
Criſt a dynnodd ffwrdd ei golyn.

32 Criſt ſy'n cadw'r holl allweddeu,
Sydd ar uffern ac ar Angeu,
Ni faidd diawl nag Angeu * dwtſio
Neb, nes cael gan Criſt ei † lowio.

33 Criſt yw'r *Pelican* cariadus,
Sydd a gwaed ei galon glwyfus,
Yn iachau ei adar bychain,
Gwedi 'r Sarph eu lladd yn gelain.

34 Criſt yw'r *Pelican* trugarog,
Sydd â gwaed ei galon ſerchog,
Yn iachau ei frodyr prïod,
Gwedi'r diawl eu lladd â phechod.

35 Nid oes eli ac a wnaethpwyd,
Nag un fetſwn a ddychmygwyd,
All iachau un archoll pechod,
Ond gwaed Criſt, gwir eli 'r Drindod.

36 Criſt yw'r perl a ddylem 'mofyn,
Nid tlawd perchen ' cyfryw berlyn;
Dos tros fôr a thir i'w geiſio,
Gwerth ſydd gennyt cyn bod hebddo.

37 Criſt ei hun a wnaeth ein heddwch,
Criſt a brynodd ein dedwyddwch,
Criſt a'n gwnaeth yn feibion Duw,
Criſt a'n cadwodd oll yn fyw.

38 Criſt ei hun a wnaeth y cwbwl,
Y dynnodd enaid dyn o'i drwbwl,
Nid neb, nid dim ond Criſt ei hun,
Gan Dduw a gadwodd enaid dyn.

39 Ni bu angel, ni bu brophwyd,
Ni bu ſaint na dyn a fagwyd;
Ni bu neb ond Criſt ei hun,
Yn gweithio Iechawdwriaeth dyn.

40 Ni fyn Duw na chymorth Angel,
Cyfrwng ſaint, na'i draul na'i drafel,

* *cyffwrdd*
† *rhoi cennad.*

Math. 13. 45. 46.

Col. 1. 19.
Eph. 2. 14.

Jo. 19. 28.
Rom. 9. 1.

Eſa. 43. 11.
Eſa. 45. 22.

Eſa. 43.12. Gwaed merthyri, na gwaith dynion,
Ond gwaith Criſt i gadw Criſtion.

41 Criſt yw'r lawn ſydd am bob pechod,
1 *Joan.*2.2. Iawn amgenach ni all gydſod;
Heb. 10.10. Ni fyn Duw am bechod drewllyd,
Iawn ſydd lai na gwaed ei 'nwylyd.

42 Na ddod waed na gweithred un dyn,
Gyd â gwaed dy Brynwr pur-wynn,
Ni chyd una tra fech di byw,
Waed pechadur a gwaed Duw.

Ioan; 1. 7. 43 Gwaed y *Jeſu*, gwaed y Cymmod,
Heb. 1. 4. Ydyw'r gwaed ſy'n golchi pechod;
Ni all gwaed yr holl Ferthyri,
Olchi ffwrdd y lleia o'th frynti.

44 Nid gwaith ſaint, nid gwaith Angylion,
Eſa. 43.11. Ydyw cadw enaid Criſtion;
Gwaith ein Prynwr Criſt yn unig,
Pſal. 3. 8. Sydd yn cadw dyn colledig.

45 Gwaith dwy nattur mewn un perſon,
Act. 4. 12. Sydd yn cadw enaid Criſtion,
1 *Tim.*2. 5. Rhaid i'n prynwr, Duw a dyn,
Weithio'r gwaith cyn cadwer un.

46 Nid gwaith Duw na dyn neilltuol,
Ond gwaith Duw a dyn cylylltiol;
O ddwy nattur mewn un perſon,
Sydd yn cadw enaid Criſtion.

47 Rhaid i'th Brynwr fod yn Ddyw,
Ac yn ddyn, (er tolwg clyw)
Cyn y galler cadw d' enaid,
Na'i rhyddhau o boen afrifaid.

48 Rhaid ei fod e'n Dduw gallwng,
I ddad-ddigio d' Arglwydd llidiog;
A'th ryddhau o feddiant Satan,
A'th elynion fawr a bychan.

Rhaid

49 Rhaid ei fod e'n ddyn di-frycheu, *Heb.* 7. 26.
I gael marw tros dy feieu ; *Jere.*23.56.
A'i farwolaeth yn cyfiadlud,
A marwolaeth pawb o'r holl-fyd.

50 Nid oes yn y nef na'r ddaear,
O'r fath Brynwr perffaith hygar, *Rhuf.* 9. 5.
Ond y gair a wnaed yn gnawd, *Heb.* 2. 11.
Jefu Grift, ein Duw a'n brawd.

51 Nid oes neb gan hyny ddichon,
Gadw enaid unrhyw Griftion, *Act.* 4. 12.
Ond y prynwr mawr *Crift Jefu*, *Efa.* 45. 21.
Duw a dyn, a fu 'n ein prynu.

52 Nid oes Jechydwriaeth ddiwall,
I ni gaffael mewn neb arall, *Act.* 4. 12.
Ond y gaffom yng Nghrift *Jefu*, *Hof.* 13. 10.
'R hwn 'ordeiniodd Duw i'n prynu.

53 Nid oes enw tan y nefoedd,
Gwedi 'roddi i ni 'r bobloedd, *Act.* 4. 12.
All ein gwneuthur yn gadwedig,
Onid enw'r *Jefu'n* unig,

54 Ni fyn Duw ond *Crift* ei hunan,
Ni fyn Duw un partner arlan,
I gyd weithio gyd â'i 'nwylyd, *Mat.* 17. 5.
Yn y gwaith fy'n cadw 'r holl-fyd. *Ioan.* 1. 29.

55 Ni fyn Mab Duw neb yn bartner,
I gyd weithio gwaith dau hanner ;
Yn y gwaith o'n Iechydwriaeth, *Efa.* 42. 8.
Nid neb teilwng o'r gwmniaeth.

56 Fe fyn naill a'i bod yn hollol,
Yn Iachawdwr idd ei bobol ;
Neu ni fwrw byth ynghyd,
A chreadur fy yn y byd.

57 Ni fyn *Crift* roi i Saint nag Angel, *Efa.* 42. 8.
Dyn, na delw, o'un fettel,

Bart,

Pſal. 3. 8. Bart na pharſel, rhan na chyfran,
O'r gogoniant ſy' iddo 'i hunan.

58 O's bydd un-rhyw ddyn mor angall,
Ac ymofyn Ceidwad arall,
Cymred hwnnw yn achubydd,
A gadawed *Griſt* yn llonydd.

59 Ceiſied eraill ſaint a delweu,
Hoſe. 13. 4. A'u gwaith gwael i gadw 'u 'neidieu,
Ni chais ſ' enaid archolledig,
Geidwad byth, ond Criſt yn unig.

60 Duw rho i mi dy anwylyd,
Criſt yn arch 'r wy'n geiſio genyd;
Rho i mi ſynnech gyda hynny,
Rhoiſt im' ddigon o' rhoi 'r *Jeſu*.

61 Duw rho immi Griſt yn geidwad,
Criſt yn frenhin, Criſt yn 'ffeiriad:
Criſt yn brophwyd, Criſt yn brynwr,
Criſt yn help ymhob cyfyngdwr.

62 O's caf ddim ond Criſt ei hunan,
Gan fy nefol dad i'm cyfran:
Mi gaf ddigon yn fy nghiſt,
Er na chaffwyf ddim ond Criſt.

63 O's caf fi Griſt, fe dry fy rhyw
O fab i'r ſall, yn blentyn Duw;
O ddyn ar goll, o ſlaf i Satan,
Yn wir aelod iddo ei hunan.

Jer. 9. 23. 24. 64 Er cael aur, ac er cael arian,
Er cael tai a thiroedd llydan,
Beth wyf nes er cael pob cyfraid,
Nes cael Criſt i gadw ſ' enaid?

65 Tynn fy llygaid tynn fy 'nghalon,
Tynn fy ngolyd, a'm cyfeillion,
Tynn y cwbl oll ſydd gennyf,
Cyn y tynnech Griſt oddi wrthyf.

Sonied

66 Sonied milwyr am ryfela,
Sonied Morwyr am dda'r *India*,
Sonied carl am lanw'i giſt,
Sonied Criſtion byth am Griſt.

C A N IX: *Y drydedd Ran.* C$_{RIST}$

Yn cael ei bortriadu trwy 'r cyſgodeu Iddewig.

ARGLWYDD Ceidwad ſelieu'r nefoedd, *Gen.* 2. 9.
Ydyw Criſt, a Duw y lluoedd; *Ioan.* 15.
‖ Privy counſellour Duw gorucha, *i'r.* 59.
Meiſtr grymmus meirch J E H O F A.

‖ *Dirgelgyngborwr.*

2 Ni ddaw un o'r meirch i ma's,
Na'r dû, na'r gwynn, na'r coch, na'r glas;
Nes ſelio Criſt † gommiſſiwn iddynt; † *Awdurdod.*
Hwy ant, hwy ddont, pan dd'wetto wrthynt.

3 Ni ddaw rhyſel, ni ddaw newyn,
Ni ddaw angau glas a'i derfyn,
Ni faidd uffern fynd na dwad,
Ond wrth bermiſſiwn Criſt a'i gennad.

4 Brenhin nef, Creawdwr daear,
Rheolwr mawr y pwll anhygar,
Rheolwr rhwyſg a thonneu'r moroedd, *Sal.* 45. 7.
Yw Criſt, ac Arglwydd mawr y gwyntoedd.

5 Y mae'r diawl yn rhywm wrth gadwyn,
Criſt 'oſododd arno drwynffrwyn:
O hyd y lein ſe all ein crafu, *Dat.* 20. 1.
Ni faidd er hyn ein cnoi na 'n llyngcu.

6 Congcwerodd Criſt ein holl elynion,
Y byd drwg a'i chwanteu bryntion; *Ezec.* 39. 17.
A'r Angau glas a'r bedd llydylyd, *Sal.* 68. 20.
Y diawl a'i blant ac uffern danllyd.

7 Criſt yw'r OEN a gas ein pardwn,
A'r allor ſy'n cyſſegru 'n hoffrwm:

Y La-

Y *Lafer* aur ſy'n golchi 'n bryntì,
A'r arch a'n cadwodd rhag ein boddi.

8 Criſt yw bywiol bren y bywyd,
Sy'n rhoi i'r Saint dragywyddol iechyd:
Criſt yw'r manna ſy'n eu porthi,
A'r dwr bywiol ſy'n eu llonni.

9 Criſt yw'r demel sy 'm mharadwys,
Criſt yw'r haul ſydd ynthi heb orphwys;
Criſt yw 'llewyrch a'i goleuni;
Lle bo Criſt ni bydd tywyllni.

Dat. 19. 7. 10 Criſt yw'r OEN, a'i wraig yw'r eglwys,
Swpper Criſt yw gwledd paradwys:
Y cann a'r gwin, y manna a'r ffrwytheu,
Yw Criſt ei hun, y penna o'r ſeigieu.

11 Criſt yw'r cann a fflwr y gwenith,
† *Pryniad y Pwr cas.* A ſalodd Duw dan ſaen ei felldith:
I'w roi drosom yn ſwyd offrwm,
Ac yn lawn i dalu 'n † rhan ſwm.

12 Criſt yw 'r anner goch ddi-nam,
Offrymmai 'r bobl dros eu cam,
Gwaed a lludw'r hon a bure,
Bob dyn ffyddlon a'i derbynie.

13 Criſt yw'r 'deryn bach a laddwyd,
Drosom ni, oedd glaf o'r † nafwyd:
† *Cwnhanglwyf pechod.* Ac a gawſom lwyr ddihangyd,
Am i 'r 'deryn golli' fywyd.

14 Criſt yw pennaeth yr angylion,
Phil. 2. 10. Criſt yw unig Geidwad dynion;
Dat. 5. 11. Criſt yw barnwr y cythreuliaid,
Criſt yw pen yr holl greaduriaid.

15 Criſt yw'r dechreu, Criſt yw'r *Alpha*,
Dat. 21. 6. Criſt yw'r diwedd, yr *Omega*:
Criſt yw 'r cwbwl oll ei hun,
Dechreu a diwedd iechyd dyn.

Can

C A N. X.

Hymn i'w chanu ar wyliau Natolig, *yn lle oferedd.*

HIL *Adda* gamweddus, plant *Eſa* drafaelus,
A deiliaid gofydus § *Gehenna*, § *Uffern.*
Di hunwch di hunwch, o 'ch trymder a 'ch triſtwch,
Daeth i chwi ddiddanwch o 'r nwya'. *Eſay.* 49. 9.

2 Cans heddyw (medd *Gabriel*, geirwir ei chwedel,
Negeſwr o gwnſel J E H O F A H) *Luc.* 2. 11.
Y ganed y Prynwr, *Criſt Jeſu* 'n Iachawdwr,
Mab Duw, ein Achubwr yn benna.

3 Gan hynny crechwenwch, a gwir orfoleddwch,
A chenwch a ſeiniwch † *Hoſanna*, † *Achyb, ni ddeiſyfwn,*
I Ddduw 'n yr uchelder, i'r ddaear eſmwythder,
I ddynion y mwynder o'r mwya. *Luc.* 2. 14.

4 Cans hwn ydyw 'r hedyn, yr helpwr, a'r himpyn,
A 'ddawyd o'r Gwreigyn i *Adda*; *Zech.* 6. 12.
I 'ſigo ſiol Satan, a'r ſarph dan ei wadan;
Pan helwyd o'r berllan bar'dwyſa.

5 A dyma 'r *Meſſias*, 'addawodd *Micheas*,
O *Fethlehem*, dinas, *Ephrata*,
Y enid i'r bobol, yn frenhin tragwyddol,
I'w harwein i'r neſol arhosfa.
Gan hynny crechwenwch, a gwir orfoleddwch &c.

6 Chwi glywſoch i Satan, gynt dwyllo 'n y berllan
A'i hocced, y wreigan hen *Eſa*;
I fwytta 'n rhy flyſig yr afal gwa'rddedig,
A chwedi'n rhoi 'chydig i *Adda*. *Gen.* 3. 9.

7 Pan temtiodd y gelyn a'r afal y ddau-ddyn,
I dorri gorchymmyn J E H O F A H;
Fe aeth *Adda* a ninneu yn euog o angeu,
Ac uffern a'i pheneu diffeitha.

8 O uffern ac angeu, nid oedd neb a alleu,
Ein prynu trwy boeneu, pwy bynna,

Ond unig Fab calon yr Uſtus tra chyfion,
Ddigiaſom mor greulon o'r cynta:

9 Na'r Mab hwnnw ynte, heb iddo ddiodde,
Ar grog-bren yr ange diffeitha;
Can wir gym'ryd arno, gnawd dyn i'w groes-hoelio,
A throſſom ddad-ddigio JEHOFAH.

10 Ac o's DUW ni fynne 'roi 'un Mab i ddiodde,
I gadw 'n heneidie rhag poenfa,
Mewn carchar uffernol, a phoeneu tragwyddol,
Y b'aſei 'r holl bobl, pwy bynna.

11 Pan welodd DUW Graſol, ein ſtat mor doſturil,
O'i gariad rhagorol, yn benna;
F' addawodd ein helpu, trwy ddanfon i'n prynu
Ei un Mab CRIST JESU, anwyla.

12 Cymmaint oedd cariad y graſſol uchel-dad,
Tu ag attom blant anllad hên *Adda*;
Ag y rhoe ei anwylyd i'w grogi 'n anhyfryd,
I brynu ein bywyd o boenfa.

13 Ac felly pan gwelas e' 'r amſer yn addas,
Fe helodd o'i deyrnas bar'dwyſa;
I'r ddaeren anhyfryd, ei unig Anwylyd.
Ein cnawd i gymmeryd yn gynta:

14 A chnawd dyn y gymmerth ein Prynwr yn brydferth
O *Fair*, yr enaith anwyla;
Yn daran rhyfeddol, trwy 'r Yſpryd ſanctteiddiol;
Heb weithred dyn cnawdol, na'i goffa.

Gan hynny crechwênwch &c.

15 Chwi welwch bawb weithian, mai 'ddatod gwaith ſatan
A'n cynnull o'r gorlan dywylla,
Y daeth Mab yr Arglwydd, o'r nef yn ei unſwydd,
I'n cadw rhag gwradwydd a phoenfa.

16 *Adda* a'n taſlwys i uffern heb orphwys,
O berllan baradwys elmwytha;

CRIST

CRIST, yntef, a'n cododd, o uffern i'r nefoedd,
I dario yn llyffoedd JEHOFAH.

17 Y goll'fom yn wallys trwy *Adda* drachwantus,
Yn ddigon anhappus o'r cynta;
Ni cawfom drachefen, ond gwych oedd y fforten;
Pan anwyd y Bachgen *Meffia*.

18 Satan 'orchfygwyd, ac angeu gongcwerwyd;
Ac uffern a fpeiliwyd yn 'fpwylfa;
Eneidieu plant dynion, o grampeu 'r gwyr dûon,
A gariodd y gwirion *Feffia*.

19 Duw a ddad-ddigiwyd, a'n rhanfwm a dalwyd,
A'n pardwn a feliwyd o'r fnwra;
CRIST a'i pwrcafodd, a'i fywyd fe'i prynodd;
A'r byd fe'i gwaredodd o boenfa.
Gan hynny crechwênwch &c.

Y RAILRAN.

DYMA 'r had di-nam, 'addawyd i *Abra'm*,
Mor fynych, o 'n hên fam *Sara:*
A'i hepil lin, o lin, hyd *Ddafydd* y brenhin
O *Jeffe*, y gwreiddyn * rhiala. * *Boneddicaf.*

21 A thyma i chwi 'r *Silo*, oedd *Jacob* yn fonio,
A ddeue i'n bendithio o *Juda:*
Pan ddygid y goron oddiar yr Iuddewon,
A'i rhoddi i eftron ‡ *'Dumea.* ‡ *Herod.*

22 A thyma i chwi 'r Prophwyd, a'r Brenhin 'addawyd,
A'r 'ffeiriad a 'bwintiwyd yn benna,
I offrwm ei hunan yn aberth bereidd-lan,
I ddattod gwaith Satan fileina.

23 A thymma 'r Prins aeddfwyn, *Emanuel* irfwyn,
Mab graffol y forwyn *Faria*;
'Addawyd i *Achas*, trwy 'r prophwyd *Eſayas*,
I'n harwain i'r deymas bar'dwyfa.
Gan hynny crechwenwch &c.

24 Rhyfedd, ryfeddod, fe aned heb bechod,
O forwyn, yn gwrthod a gwra!
Yn berffaith ddyn cnawdol, (heb weithred gorphorol,)
Trwy 'r Yſpryd ſancteiddiol goruwcha.

25 Cans merch wrth feichïogi, a merch wrth eſgori,
A merch wedi geni 'r mab cynta,
Oedd *Mair* pan y magodd, a merch pan 'brïododd,
A merch pan 'ddepartiodd oddi yma.

26 O waith i GRIST gym'ryd ein poeneu a'n penyd,
Fe aned i'r triſt-fyd yn llymma;
Mewn ſtabal anghymmen, ym mhreſeb yr ychen,
Lle 'trowd ef mewn gwlanen o 'r d'lotta!

27 Etto er peri i'r byd ei addoli,
Er maint oedd ei d'lodi a'i lymdra;
Fe wnaeth DUW i ſeren, mor ddiſglair a'r haul-wen,
I'w § waitio 'n 'r wybren iſela. § *Diſgwyl.*

Gan hynny crechwenwch, *&c.*

28 Daeth hefyd wŷr doethion, Aſtronomers mawrion;
Brenhinoedd o galon *Caldea*;
Bob un ar ei ddaulin, i'w 'ddoli 'n ei rwymyn;
Eu DUW, a'u Brenhin arbenna.

29 Tair anreg ragorol, yn gweddu 'n berthnaſol,
At ſwyddeu neilltuol *Meſſia*;
Offrym'ſant hwy hefyd i'r Brenhin bach hyfryd,
Aur, Thus, peraroglyd, a Myrrha.

30 Daeth hefyd angylion i faneg i ddynion,
Mai ef oedd yr union *Feſſia*;
A'r Ceidwad, a'r Prynwr, a'r unig Iachawdwr;
'Addawſei 'r Creawdwr o 'r cynta.

31 Y nefoedd 'agorodd, a'r ddaear 'oleuodd,
A'r angel a lefodd, yn lewa,
† *Gloria in excelſis, pax et in terris,*
Pan ganed Prins happys *Ewroppa*.

† *Gogoniant yn y Goruwchaſion, ar y ddaear Tangnefedd.*

Gan hynny crechwenwch, *&c.*

Dyma

32 Dyma 'r Oen gwirion, a laddei 'r Iuddewon,
Etifedd gwynn tirion JEHOFAH;
Dymuniad tra hyfryd, cenhedloedd yr holl-fyd,
Ein cynttordd, a'n iechyd goruwcha.

33 A thymma 'r Maen ſiccr, 'wrthodei 'r adeilwyr;
Maen tramcwydd, craig rwyſtyr *Judea*:
Ein Perl a'n Prins ninneu, yr holl genhedlaetheu,
Griſt'nogion ſy 'n adde 'r *Meſſia*.

34 Cymmaint oedd cariad CRIST, attom yn waſtad,
Ei frodyr tra irad eu poenſa;
Ac y rhoe 'n dambeid ei fywyd a'i enaid,
I farw dros ddefaid ei borſa.

35 Yr angeu 'haeddaſom, ſe 'i talodd ef droſom,
A'r ddyled 'adawſom heb gwpla;
Y 'ſgrifen ſe 'i torrodd, y ſforffet ſe 'i talodd;
A 'n pardwn ſe 'i prynodd, o'r prytta.
Gan hynny crechwenwch *&c.*

36 Gwaed gwerthfawr ei galon, a'i fywyd gwynn gwir-
'Offrymmodd ef droſom yn fwyna; [ion,
Yn Aberth i'r Drindod, trwy g'wilydd a dannod,
Yn Rhanſwm dros bechod pwy bynna.

37 Dros bechod yr holl fyd, offrymmodd ei fywyd;
I'w prynu o'u penyd, a'u poenſa;
O's ynddo y credwn mae 'n ſiwr inni bardwn;
Heb ‖ ddanger o ddwngwn *Gehenna*. ‖ *Perigl*

38 Er bod ein pechodeu heb feſur na phwyſeu,
A'u brynti fel pentref *Gommorah*;
Etto, o's credwn, a gwella tra 'gallwn,
Fe 'baer inni bardwn i bara.

39 Un droppyn ſancteiddlon, o wir waed ei galon,
A'll golchi 'n holl finion ddiffeithdra;
Pe baent cyn goched a'r Pwrpl, neu 'r Scarled,
A'u gwneuthur cyn wnned a'r eira.
Gan hynny creehwenwch *&c.*

Weithan

40 Weithian o's credu a wnawn ni i'r *Jeſu*,
A chwympo i'w waſ naethu 'n ufudda;
Fe ddug ein heneidie i'r nef, lle 'mae ynte;
I ganu hoff hymne J E H O F A H.

41 Lle mae mwy hyfrydwch, a nefol § rialtwch,
Llawenydd, a heddwch o'r hwya: § *Gogoniant.*
Nag 'allodd clyſt glywed, na llygad ei weled,
Na chalon i yſtyried, pwy bynna.

42 Moliannwn gan hynny a'r eithaf o'n gallu,
Ein Prynwr *Criſt Jeſu*, anwyla;
Am brynu 'n heneidieu, trwy chwerw loes angeu,
O uffern a'i phoeneu diffeitha.

43 A Molwn yn waſtod bob perſon o'r Drindod,
Mewn undod mor barod er *Adda*;
I'n prynu mor raſol, o'r carchar uffernol;
A'n tynnu i'r nefol orphwyſfa.

44 Ac felly crechwenwn, a chyd orfoleddwn;
A chanwn, a ſeiniwn *Hoſanna*
I Dduw, 'n yr uchelder, i'r ddaear eſmwythder;
I ddynion y mwynder o'r mwya.

O's gofyn rhai 'n un lle pwy 'wnaeth hyn o hymneu,
Er cofio mawr ddonieu 'r *Meſſia*:
Bugail eglwyſig, o galon garedig,
A'r ddefeid cadwedig y borfa.

C A N. XI. *Cyngor i bechadur i ddyfod at* Grist.

DEwch bawb ſy 'n drwm-lwythog dan bechod a bai,
Dewch at eich lachawdwr, ſy 'ch gwahodd bob rhai
I laeſu 'ch trwm-lwytheu, a'ch blinder a'ch cryd;
Mae 'n addo 'ch reſfreſio, de'wch atto mewn pryd.

Dewch

2 Dewch bawb at eich Ceidwad a'ch prynwr a'ch Pen,
A'ch Brenhin, a'ch Prophwyd, a'ch 'Ffeiriad, a'ch Llen;
A'ch Meddyg, a'ch Bugail, a'ch Caſtell, a'ch Craig;
A'ch unig lachawdwr, congcwerwr y ddraig.

3 Dewch bawb at Grift Jeſu, ſy 'n gwawdd pawb mor (ſwyn,
Iddyſod hyd atto, i wneuthur eich cwyn;
Ond dangos eich dolur, bid fawr, bydded fach,
A deiſyf ei gymmorth, ſe 'ch hela 'n holl iach.

4 F'ch dad-ddrys o'ch triſtwch, ſe'ch gwna yn wŷr rhydd,
Fe dal eich holl ddyled, ſe'ch cymmorth yn brudd:
Fe laeſa 'ch trwm lwytheu, a'ch dagreu ſe i' ſych,
Fe g'weiria 'ch archollion ſe 'ch gwna chwi 'n holl wych.

5 Fe wna heddwch rhyngoch a'r barnwr, ei Dad,
Fe ſyn i chwi bardwn trwy bridwerth ei wa'd;
Fe 'ch dyg chwi drachefen mewn ffafar â Duw,
Fe 'ch ceidw mewn cariad tra fyddoch chwi byw.

6 Fe 'ch gylch o'ch pechodeu, â'i waed bob yr un,
Fe eſyd byth ynnoch ei yſpryd ei hun:
Fe 'ch gwna chwi yn feibion, yn ferched i'w Dad,
A chyd etifeddion o'i deyrnas yn rhad.

7 Fe droedia 'ch gelynion, ſe 'u teifil i'r llawr,
Fe ddug eu holl arfeu, ſe 'u dylyd fel cawr;
Fe dynn eu holl gryſder, ſe ddadwraidd eu nyth,
Fe 'ch gwna yn gongcwerwyr ar Satan dros fyth.

8 Pe gwypech blant dynion, mor doſt ydyw 'ch cas,
A 'ch cyflwr colledig, heb nerth Duw a'i ras;
Ni chyſgech, ni ſwyttech, nes dyfod at Grift,
I wella 'ch toſt gyflwr, â chalon drom, drift.

9 Beth y'm ni, rhai goreu wrth natur a rhyw,
Ond plant i'r digofaint heb gyſnerth Mab Duw?
A gweiſion i bechod, a ſlaſeid i'r fall?
A thanwydd i uffern, plant angeu di-ball?

10 Mae pawb wedi 'nyrddo gan bechod, och! och!
Cyn ddûed a'r Moyrus, cyn frynted a'r moch;

Rhaid

Rhaid dyfod at *Jeſu*, i newid ein gran,
A golchi 'n haſſendid, cyn 'gwneler ni 'n lan.

11 Fe wnaeth yr hen *Adda* ni 'lynion i DDUW,
Yn blant i'r digofaint, heb ddim modd i fyw;
Rhaid dyfod at *Jeſu*, i'n cymmod a'i Dad,
Cyn gwneler ni 'n feibion trwy fabwys a rhad.

12 Fe dynnodd y gelyn bob dyn idd ei rwyd,
A'r afal gwa'rddedig, trwy wall *Efa* lwyd;
Ni thorrir y groglaeth, ni 'n tynnir ni 'ma's
Ne's tynno 'r hael *Jeſu*, a'i rym, ac a'i ras.

13 Mae 'n henaid fel dafad yn ſafan y blaidd,
Ynghrafangc y gelyn, a diangc ni's baidd;
Rhaid cymmorth y Bugail, *Criſt Jeſu*, a'i ras,
Cyn tynner un enaid o'i grafangc i ma's.

24 Mae 'r angel diniſtrol, goruwch ein tai,
Yn ceiſio 'n diſtrywio, waith cymmaint ein bai:
Rhaid iro 'n cynhoreu â gwaed un Mab DUW, *Ex.* 12.
Cyn paſſio 'r dinyſtrydd, a'n gadael yn fyw. 7. 13.

15 Y mae holl blant dynion dan feddiant y fall,
Mewn dwnſiwn dû, tywyll, yn gorwedd yn ddall:
Wrth gadwyn o bechod, nes 'delo Mab *Mair*,
I'n tynnu o'r carchar, a'i ras, ac a'i air.

16 Ni thynnir dyn allan o deyrnas y fall,
A'r pechod, lle 'r erys, gwnaed pawb ore ag all
Nes 'rhwymo CRIST, Satan trwy gryſder a ffors,
A thynnu dyn allan fel 'nifail o'r gors.

17 Mae pawb mewn tywyllwch wrth natur yn byw,
Ynglynn cyſgod angeu heb 'nabod o DDUW;
Mae 'n rhaid i *Criſt Jeſu*, 'n goleuo a'i ras
A 'n tynnu o'r t'wllwch cyn 'deler i ma's.

18 Mae pechod mor freullyd, mor ddrewllyd mor grai,
Yn nyrddo, yn 'nafu, yn 'ffecto pob rhai;
Ni olchir, ni thynnir, ni flottir i ma's
Nes golcho gwaed *Jeſu*, mae 'frynti mor gas.

Mae

19 Mae pechod fel mynydd o blwm ar ein gwarr,
Mae'n gwaigu cyn dryn.ed nes plygu pob garr,
Fe'n hela trwy 'r ddaer, i uffern yn grwn,
Oni ddewn at *Grift Jefu*, i laefu 'r fath bwn.

20 Mae'r fall fel gwr cadarn yn arfog heb grun,
Yn cadw goreigyn o galon pob dyn;
Ni ddichon yr holl-fyd ei daflu o'i b'las,
Nes delo *Crift* attom, i'w dwmblan i ma's.

21 Mae'r fall wedi 'n clwyfo, a'n brathu bob rhai,
Mae'n harcholl yn rhedeg bob amfer heb drai;
Ni ddichon un Meddig, dan haul ein iachau,
Nes delo *Crift* attom, a'i Waed i'n glanhau.

22 Fe ddygodd y gelyn ein trwfiad a'n gras,
Fe'n gadodd yn groenllwm, yn noeth ac yn gas,
Dewn at ein brawd hynaf, *Crift Jefu*, bob un,
Fe guddia 'n holl noethder, a'i ddillad ei hun.

23 Mae pawb gwedi marw, mewn pechod bob pryd,
Heb allu i wneuthur daioni 'n y byd;
Nes delo'r Bywiawdwr, *Crift Jefu* i'n bywhau,
A'n codi o bechod, ac felly 'n cryfhau.

24 Dewch at y Sarph efydd, dangofwch eich clwyf,
Lle brathodd y neidir chwi 'n fynych trwy nwyf,
Edrychwch yn graffus at *Grift* ar y Groes;
Fe red yr hollwenwyn, fe ddofa 'r holl loes.

25 Dangofwch eich dolur i'ch Prynwr heb a'th,
Ni fu dan y nefoedd un meddyg o'i fath;
Pob archoll, pob dolur, pob pechod, pob crach,
A phur Waed ei galon fe'u gyrr yn holl iach.

26 Ni ddichon nag eli, na medfwn, na maeth,
Na phyfic, na phlafter, na llyfieu, na llaeth;
Na dim ag a enwir, ond Gwaed Jefu Grift,
'Jachau archoll pechod, mae'r archoll mor drift.

27 Mae llawer all hela cornwydion yn iach,
A'r frech fawr, a'r cryge. a'r claf-gwan, a'r crach,

Ni ddichon meddygon y byd cymmain un,
Iachau archoll pechod, ond Mab Duw ei hun.

28 Ni ddichon Angylion er amled eu rhif,
Er cymmaint e'u cryfdwr, er cyſtal eu * brif, * *Amrhy-dedd.*
'Gadw un enaid rhag myned ar goll,
Nes cadwo *Criſt* Jeſu, ein helpwr ni oll.

29 A'r Saint a'r Sainteſeu, pet faent oll ynghyd,
Er amſer hen *Adda*, hyd ddiwedd y byd;
Ni allent hwy gadw un enaid tra'nt byw,
Rhag myned i Uffern, heb gymmorth Mab Duw.

30 Pe rhoddit yn offrwm 'nifeiliaid y byd,
Afonydd o olew, a'th olud i gyd;
A'th gyntaf-anedig, a'th fywyd a'th wa'd,
Ni chedwit ti d' enaid heb help y Mab rhad.

31 Pe chwilit ti'r nefoedd, a'r ddaear ynghyd,
A'r awyr, a'r môroedd, hyd ddiwedd y byd;
Ni ellit ti ganfod tra fyddit ti byw,
Un Ceidwad i'th enaid, ond unig Fab Duw.

32 Nag ymgais am Geidwad heb law Criſt ei hun,
Mae'n Geidwad galluog, yn Dduw, ac yn ddyn;
Nid oes Jechydwriaeth (nag enw tan' nef)
I gael mewn neb arall, ond ſydd ynddo ef.

33 Ni chedwir un enaid o'r oes hon y ſydd,
Na 'r oeſoedd y baſiodd, na'r oeſoedd y fydd;
Ond unig eneidieu a gadwo Mab Duw,
Y lleill eiſie credu, a gollir bob rhyw.

CAN. XII. *Jechydwriaeth yn unig yng Nghriſt.*

YMAFEL yn dy Brynwr, yn ffaſt â llaw dy ffydd
O mynni gael dy gadw, dal d' afael yntho 'n brudd;
Na cholla o'th afael arno, nes caffech rym a gras,
Oddi wrtho i gadw d' enaid, a bydd byth iddo 'n was.

2 Na 'mddiried i'th weithredoedd, na'th ddyſg, na'th (dda, na'th ryw,
Ni all dim gadw d'enaid, ond Ffydd yn un Mab Duw,

O rho d' 'mddiried ynddo, ni choller d' enaid byth,
Heb Grift o' ceifi 'i gadw, di colli ef dros fyth.

3 Mae pawb o feibion dynion, er *Adda* hyd ddiwedd byd,
Gan bechod wedi llygru, a'u damnio bawb ynghyd,
Ni chedwir un o honynt rhag ange, ac uffern drift,
Gwnaed pawb y gore ag allont, nes cedwer hwy gan Grift.

4 Dewch bawb gan hynny 'n gyfein at Geidwad yr
I gadw'ch trift eneidiau, a gollwyd oll ynghyd, (holl fyd
Yr un a ddelo atto, fe'i dug i'r nefoedd wenn,
Yr un a beidio a dyfod, f'â i Uffern ar ei ben.

5 Na fydded neb mor angall, mor ddwl, mor ddall, mor-
A throi oddiwrth eu Ceidwad fy 'n galw yn eu hol, (ffol,
Ni ddiangc neb rhag angeu, ni ddringa un i'r nef,
Ni bydd un dyn cadwedig nes caffo 'i gymmorth ef.

6 Ni chedwid *Noe*, na *Daniel*, nac *Abram*, *Job*, na *Phawl*,
Na *Mair*, nag *Ann*, na *Martha*, na nebo rwydeu 'r diawl,
Na'r plentyn newydd eni, nac un o eppil dyn,
Trwy nerth a'u gallu 'hunain, ond trwy nerth Crift ei hun.

7 Ni chedwir neb tra gantho, o hyn i ddiwedd byd,
Ond y rhai gadwo 'r Jefu, mae pryniad dyn mor ddrud,
Ni fyn y barnwr cyfion, furhad am bechod dyn,
Lai nag yw angeu gwerthfawr, a Gwaed Mab Duw ei hun.

8 Gan hynny ofer ceifio help Angel, Sant na dyn,
Na phardwn Pab, na Fferen, i gadw enaid un,
'Does dim ag ellir enwi, beth bynnag fytho'i ryw,
All gadw enaid Criftion, ond Angeu un Mab Duw.

9 Ni chymer Duw'r diale, lawn lai am bechod dyn,
Nag angeu holl blant dynion, neu angeu'r cyfryw un
Y fae a'i Angeu cyftal, ag Angeu pawb o'r byd,
Nid oes un Angeu felly, ond Angeu 'r prynwr drud.

10 Ni ddichon neb foddloni cyfiawnder Duw wrth hyn,
Heb Angeu ac Ufudd-dod, ein prynwr Jefu gwynn,
Y neb ni cheifio 'i gymmorth er cymmaint y fo'i fcil,
Ni bydd e'n abal atteb i DDUW, am un o fil.

11 Mae rhai yn credu gallant trwy' gwaith a'u gwedd eu
A'u hympryd a'u cardodeu, wir haeddu cymain un, (hun,
Gael diange poenau Uffern, a dringo chwip i'r nef,
Heb help y gwir Jachawdwr, ffei, ffei, beth wnant ag ef?

12 Ond pan fo rhain yn tybied, y dringant uwch y ſer,
I uffern boeth y cwympant, lle ſyrthiodd *Lucifer*,
Yn uffern y cant weled, heb Griſt na ddichon dyn,
Fynd byth i Deyrnas nefoedd trwy rym a'i allu ei hun.

13 Ni ddichon un dyn heuddu trugaredd ar law Duw,
Ni bu 'rioed arno ddyled, i neb o ddynol ryw,
Mae pawb yn rhwym i'w 'ddoli, a'i foli ag uchel lef,
Heb ddyled arno er hynny, pawb yn ei ddyled ef.

14 Ni ddichon gweddi un dyn, na'u cardod o un rhyw,
Na'u hympryd, na'u 'difeirwch foddloni'r cyfion Dduw,
Nes darfo i Griſt yn gynta, gymmodi'r dyn a'i dad,
A golchi a ſanctteiddio y weithred dda a'i wa'd.

15 Mae'n rhaid i Griſt, ail greu, pechadur ar ei lun,
A'i droi'n greadur newydd, ar ddelw Duw 'i hun,
A newid ei feddylie, a'i raen, a'i rym, a'i ryw,
Cyn gallo dyn feddiannu, na gweled Teyrnas Dduw.

16 Mae'n rhaid i Griſt heddychu, rhwng dyn, a Duw, (ei Dad;
A'i olchi o'i bechodau, trwy rym ei werthfawr wa'd,
A'i wiſgo a'i ſanctteiddrwydd, a'i holl rinweddau ei hun,
A dodi yſpryd ynddo cyn gallir cadw'r dyn.

17 Mae'n rhaid i Griſt i'n gwared o law a gallu'r fall,
Sy'n cadw a chaethiwed, mewn carchar tywyll dall,
Yn rhwym ein traed a'n dwylo mewn cadwyn pechod
Ynglynn a chyſgod angeu, cyn delom fyth i ma's. (cas,

18 Mae'n rhaid i Griſt ddi-arfu y fall fy'n cadw 'r llys,
Ynghalon pob pechadur, a'i rwymo'n faſt a'i fys,
A'i daflu o'i neuadd allan, a chadw 'r llys ei hun,
Cyn elo'r fall o'i gaſtell, na'r ddraig o galon dyn.

Mae

19 Mae'n rhaid i Grift ein gwneuthur yn blant i Dduw (ei dad,
A'n hadgenhedlu'n feibion, trwy fabwys prudd a rhad,
A'n gwneud yn etifeddion, i'r Hollalluog Dduw,
Cyn gallom gael Paradwys, er cyftal y b'om byw.

20 Mae'n rhaid i Grift ein tynny, o bob trüeni i ma's
O rwydau 'r fall uffernol, a gweflau 'r angeu glas,
A'n gwneuthur yn gyfranog o ffafar Duw a'i rad,
Cyn gallo neb feddiannu, y deyrnas lle mae 'r Tad.

21 Amhofibl yw gan hynny, i un rhyw fath o ddyn,
Feddiannu teyrnas nefoedd trwy 'rym a'i allu 'i hun,
Na diangc o law Satan, na gwefle 'r angeu glâs,
Na dïal Duw a'i felldith, heb gymmorth Crift a'i ras.

22 Pa wedd y diangc un dyn, rhag dïal Duw, a'i far,
Rhag melldith drom y gyfraith, rhag carchar pechod ta'r,
Rhag gallu prins tywyllwch, rhag dannedd angeu trift
Trwy nerth a'i rym ei hunan, heb gymmorth Jefu Grift?

23 Mae'n rhaid i ninne ddynion repentio a chalon brudd,
A chredu yn Nghrift ein ceidwad, trwy wir a bywiol ffydd
A pheunydd wella 'n buchedd, trwy nerth ei Yfpryd ef,
A bod yn bobol newydd, cyn dycco Crift ni i'r Nef.

24 Dewn bawb gan hynny 'n gyfein at Grift ein Ceidwad
Trwy alar a 'difeirwch, a gwir, a bywiol ffydd, (prudd,
Yr un a ddelo atto, fe 'i dug i'r nefoedd wenn,
A'r dyn a beidio a dyfod, fe 'â i uffern ar ei ben.

CAN XIII. *Cynhyrfiad i foli'r Arglwydd* JESU.

CYffredin a bonedd, trowch heibio bob mafwedd,
A moefwch o'r diwedd gyttuno;
Ar foli'n garedig y bore nadolig,
Ein prynwr arbenig a'i gofio.

Pan

2 Pan wnaeth Duw mor gymmen y ddau ddyn o'r ddaer-
Fe rhodd hwy 'n y berllan i dario; (en,
I gym'ryd eu pleſer, mewn heddwch a 'ſmwythder,
O'r prenneu melus-ber oedd yno.

3 Pan welodd ein gelun mi gyflwr y ddau ddyn,
A'u bod hwy mor gyttun yn rhodio,
A'r ddaear mor ffrwythlon yn rhoi iddynt ddigon,
Heb drafel ar ddynion lafurio.

4 Ac yno daeth Satan, mewn meddwl ac amcan,
A'r gaffael ymddiddan a'u hudo;
Yn union at *Efa*, fel lleſter o'r gwanna,
A gadael hen *Adda* fynd heibio:

5 Pe bwyttech di dammeid o'r afal goreuraid,
Nad ydych yn meiddied ei †dwtſhio; †*Cyfwrdd.*
Eich llygaid agore, chwi fyddech fel Duwie,
Wel' dymma 'r rhinwedde ſydd arno.

6 Yr afal hi cymrodd, a'r tammaid hi bwyttodd,
Ac *Adda* ni pheidiodd a'i §daſtio; §*brofi.*
Nes caffael an'ſmwythder, (ond yw'n beth 'ſceler)
Yn dal am y pleſer aeth heibio.

7 Hwy aethant eill dauwedd, o blegid eu balchedd
Yn euog, o'r diwedd 'boenydio,
A ninneu lin olin, ſy'n dyfod o'r gwreiddyn,
Heb allel ond eu dilyn hwy yno.

8 Pan welodd Duw cyfion, y poeneu mor greulon,
A ninneu mor weinion yn §ſineo; §*ſuddi.*
Rhodd inni gyfryngwr, wrth weled ein cyflwr,
Criſt Jeſu 'n Iachawdwr, i'n ſwccro.

9 Hwn 'aned yn unig y bore ddydd *N'dolig*,
(Hwn ydyw'r gwir feddig i'w gofio.)
Mewn preſeb anghymmen, ond gwych oedd ein fforten,
Pan cawſon fath Gapten i'n †ledio; †*Arwain.*

10 Dwy nattur neu rinwedd (heb gymmyſg eu ſylwedd,
Sydd ynddo heb ddiwedd, i'w gofio:

Y Duwdod, y dyndod, ynghyd i'w cydnabod,
Ac felly mae'n gorfod confeſſio.

11 Mae 'i Dduwdod cyn uchled a'i Dad y Gogoned,
Bob amſer i'w weled yn † Rainio † *Teyrnaſu.*
A'i ddyndod heb allel cyrhaeddyd mor uchel,
O's credwn ni § chwedel ein credo. § *Geiriau.*

12 Ond mawr oedd y cariad, pan rhoddei 'r uchel-dad,
O fenyw, 'r fath Geidwad i'n ſwccro!
Yn berffaith ddyn cnawdol, fel pob un o'i bobol,
Ond pechod yn hollol † exepto? † *Wedi ei neilldua.*

13 Pan oeddem yn barod, o blegid ein pechod,
I fynd i'r pwll iſod i drigo,
Mewn ffwrnes uffernol, a chyſtydd anſeidrol,
Heb obaith ‡ ymwrthol oddiyno. ‡ *Dychwel.*

14 Fe redodd yn feichie, fe ſeliodd ein bande,
Fe 'n unig a fedrei ddad-ddigio, *Heb.* 7. 22.
Fe 'n dygodd o'r gofyd, fe roddodd i'n rydd-did;
Fe berodd i 'n iechyd a baro.

15 Nid aur o 'r melyna, nid cyfoeth o 'r *India*,
'Allaſei bwrcaſa pardyno;
Ond bywyd y plentyn, y gwir-Dduw, a'r gwir-ddyn;
Da iawn ydyw 'mofyn am dano.

16 Trwy hwn y boddlonwyd, trwy hwn y dad-ddigi-
Ac heb hwn ni allwyd ei bleſio; (wyd,
Er mwyn hwn yn union, mewn pob rhyw anghenion,
Y gwrendu pob criſtion a geiſio.

17 F' offrymmodd ei hunan yn aberth bereidd-lan,
Rhag ofon i Satan gongcwerio,
Fe 'ligodd ei ſowdwl, fe wnaeth wrth fy meddwl;
Fe gadwodd y cwbwl a greto.

18 Er bod ein gweithred yn aml i'w gweled,
Mewn moddion afrifed i'w cowntio;
O ddiffyg ffydd hynod, bob amſer yn barod,
Nid ydynt on'd pechod i'w § ſwmmio. § *Rhifo.*

Trwy

19 Trwy ffydd i'n diddenir, trwy ffydd i'n perffeithir,
Trwy ffydd i'n ennellir ni'n gyfrdo;
O ras trwy ffydd fywiol, medd *Paul*, yr Apoſtol,
Mae Criſt yn ein dethol ni atto.

20 Ni cheiſiodd yn brydwerth gan un dyn yn aberth,
Er cymmaint y cymmerth ei blago;
Ond yſpryd drylliedig, a chalon buredig,
O dewch yn garedig i wrando. *Pſal.* 51. 17.

21 Trwy ffydd y derbyniwn, bob peth ag ofynnwn,
Nid oes dim ag allwn ddymuno, *Mar.* 11. 24.
Na's ceffir ond credu, yn hael gan yr Jeſu,
Can's ef fydd ar gallu lle mynno.

22 Trwy ffydd yngwaed gwirion, ein Prynwr gwynn
Fe olchir ein beion pan orffo (graſlon,
Rhoi cownt am ein gweithred, o flaen y gogoned,
Ond iddo gael gweled repento.

23 O! byddwch yn addas, trwy fynych gymdeithias,
A gwiſg y briodas yn gryno
I fynd i'r llawenydd ymmheſſ o'r aflonydd,
Yn barod pan orfydd § appiro. §*ymddangos.*

24 A byddwch fel ſeintie' ac oil i'ch lanterneu,
Bob nos, a phöb boreu i'ch goleuo;
Rhag dyfod y Priod heb rybydd nag arfod,
Mewn amſer heb wybod i gnoccio.

25 A gwnewch eich gwaſanaeth, i'r Drindod yn helaeth,
Tra'r dydd Jechydwriaeth heb baſſio,
Rhag dyfod tywyllwch, rheſymmol y gwelwch,
Pryd hwnnw ni ellwch, mor gweithio.

26 Gweddiwch yn dduwiol, eich cadw 'n ddihangol,
A bod yn waſtadol yn effro;
Can's agos yw'r amſer medd *Mathew* dafod-ber,
Fe orfydd ar fyrder ymmado.

27 O byddwch gariadus wrth fodd Duw a'i 'wyllys,
Chwi gewch fod yn ddilys yn † rhainio, †*Teyrnaſu.*

Mewn

Mewn ſmwythder, dedwyddwch, llawenydd, llonydd-
A phethau na fedrwch yſtyrio. (wch,

28 Nid oes yno glefyd, na thriſtwch, nac adfyd,
Na gofal, na gofyd i'w gofio;
Ond muſig pereidd-lon gan ſanctaidd Angylion,
Na ddichon un g[illegible] iyſyrio.

29 Gan hynny Blwyfolion, chwi gwympwch yn ffydd-
O ddyfnder eich calon weddio, (lon,
Ar DDUW, o'i wir fawredd, a'i amal drugaredd,
I'n dwyn yno o'r diwedd i drigo.

CAN. XIV. *Gwahoddedigaeth arall i foli* Jeſu Griſt.

DEWCH bawb yn garedig, yn fres ac yn frolig,
Yn awr y *Nadolig* i foli Mab Duw,
A Salmeu, a Hymneu, yn hwyr ac yn foreu,
Am gadw 'n heneidieu rhag diſtryw.

2 Dewch, cenwch yn llafar, nes datſein y ddaear,
A dringed eich trydar i'r drydedd nef:
I gyffro 'r Angylion, i gyd ganu â dynion,
I Dduw, am ei dirion dangneddef.

3 Pan na allei na dynion, na Saint, nac Angylion,
Na dim daearolion, mewn daear na dw'r,
Ein cymmorth na'n helpu, ſe helodd Duw 'n prynu,
Ei unig Fab *Jeſu* 'n Iachawdwr.

4 Pa Dad y fae perchen deg plentyn ar huge'n,
Y roddei 'n aflawen y gwaethaf i'w ladd,
Ar grog-bren echryſlon, i gadw 'i elynion,
A'i gyrrei yn greulon i ymladd?

5 Duw, nid arbedodd, roi'r un Mab a ſeddodd,
A'r mwya, a garodd, o'r byd i gyd;
I farw dros ddynion, ar grog-bren echryſlon,
Pan oeddem elynion gwenwynllyd.

6 Gan hynny 'n enwedig, trwy wylie 'r *Nadolig*,
Rhown ddiolch caredig i'n cariadus Dad;
Am roddi mor rafol ei 'tifedd natturiol,
I fod i ni 'n nerthol Geidwad.

7 A molwn yn nefaf, â moliant o'r mwyaf,
Fab Duw goruchaf, gwir Jechyd y byd;
Am ddyfod o'i fawredd, a'i nefawl Anrhydedd,
I'n tynnu mor rhyfedd o'n gofyd.

8 O'r nefoedd orucha', o fonwes JEHOFAH,
Daeth Mab Duw anwyla, yn olud i ni;
I gymryd ei ddyndod, o *Fair*, at ei Dduwdod,
A'i wneuthur yn gyd-frawd inni.

9 I'r ftabal anghymen, o'r nefoedd ddifclair-wenn,
I breſeb yr Ychen, o'i oruchaf lys;
O blith yr Angylion, i gadw plant dynion,
Y daeth yr Oen tirion cariadus.

10 Mab Duw gorucha', Duw y Gair, mi a'i henwa,
Etifedd JEHOFAH, Duw, Mab, y Duw mawr!
Y wnaed yn ddyn cnawdol, o *Fair* yn rhyfeddol,
I achub ei bobol drallod-fawr!

11 Y Duw, 'r hwn y greodd, nef, daear, a dyfroedd,
Y Duw 'r hwn a luniodd yr haul yn y nef,
A wnaethpwyd yn blentyn, yn fachgen, yn fwydyn,
A'r milwyr cyffredin a'i lladdef!

12 Dewn bob rhai gan hynny, clodforwn yr *Jeſu*,
Ymrown bawb i ganu, gogoniant, a mawl;
Ar dafod, ar danneu, yn hwyr, ac yn foreu,
I'n prynwr mewn hymneu nefawl.

13 A galwn y nefoedd, a'r ddaear a'r moroedd,
A phawb o'r lluoedd, fydd ynddynt, yn llon;
I gyd ganu moliant, a chlod a gogoniant,
I awdwr ein ffyniant, yn ftyddlon.

14 Fel *Siadrac* o'r Ffwrnes, fel *Zachary* o'i gyffes,
Fel *Miriam*, a *Moſes*, ar lan y mor;

Clod-

Clodforwn y *Jeſu* a ddaeth i'n gwaredu,
O'r Ffwrn, a'r carchardy § catcor. § *gwangcus.*

15 A threuliwn ei wylie, er cof am ei ddonie,
Y modd ac y gwedde, i wyl Jeſu gwynn;
Mewn nefawl hyfrydwch, a duwiol ddifyrrwch,
A phrudd ddiolchgarwch gennyn.

16 Mae'r Arglwydd yn erchi, i'n bawb fod yn firi,
A llawen, a llonni, mewn llann, ac mewn llys,
Yn Awdwr ein heddwch, a Thad ein diddanwch;
Trwy fod ein difyrrwch yn weddus.

17 Gan hynny 'n enwedig yn awr y *Nadolig*,
A'r galon yn ffrolig, a'r wyneb yn fres,
Gwir orfoleddwch yn Awdwr eich heddwch;
Rhowch ymmaith bob triſtwch anghynnes.

18 Trwſiwch eich Teieu, arlwywch eich Byrddeu,
A phob Sir o'r goreu, o gariad ar Griſt;
Gwahoddwch eich gilydd, i gynal llawenydd,
Na chedwch ei wyl-ddydd yn athriſt.

19 Cwnnwch eich Calon, cymmerwch eich digon,
Gwachelwch ormoddion, mae meddwi yn gas,
Na cheiſiwch lawenydd, mewn diod a bwydydd,
Ond yn eich Achybudd addas.

20 A chennwch trwy 'r gwylieu, dduwiol ganiadeu,
Na ſonniwch am ſenneu, ar wylie 'n gwir Sant,
Ond ſiriwch eich hunen, ar Fab Duw ſy'n darllen,
Fod ynddo i'wch gywrain faddeuant.

21 Nac ewch i'r Tafarne, a'r aflan yſtywdie,
I loloin y gwylieu, mae'n g'wilydd y gwaith;
Amherchi Duw 'n Prynwr, boddloni 'n gwrthnebwr,
Mae'r cyfryw a'u dwndwr diffaith.

22 Ymmaith a'r Cardieu, a'r Dwndran a'r difieu,
A'r gloddeſt, a'r glweddeu, bair Criſtion yn glaf,
A'r medd-dod a'r tyngu, ſyn nyrddo, a 'naſu,
Nadolig Duw, Jeſu anwylaf.

23 Cymrwch y Salmeu a'r 'fengyl wenn oleu,
Yn lle y par Cardieu, o's gwyr ych heb ddig;
Ffitiach i Griſtion, na'r par Cardieu brithion,
Yw'r 'fengyl wenn dirion *'Nadolig*.

24 Gan hynny ymſiriwch, a gwir orfoleddwch,
A neidiwch, a molwch, eich Prynwr mawr;
Cenwch glod iddo, a churwch eich dwylo,
Ymhyfrydwch ynddo yn ddirfawr.

25 Rhowch foliant rhagorol, i'r yſpryd ſancteiddiol,
Sy'n dangos i'r bobol, o'r Bibl yn rhad,
Fod pardwn, a Jechyd, a heddwch, a bywyd,
I'w gael yn ein hyfryd Geidwad.

26 I'r Tad 'r hwn a'n creodd, i'r Mab 'r hwn a'n pryn-
I'r Yſpryd a'n g'louodd, a'r gair, a'r dw'r glan, (odd
Y bytho bob ennyd, ogoniant tra hyfryd,
Ym mhob mann o'r holl fyd yn gyngan.

CAN. XV. *Annogaeth i ddiolchgarwch am ein Prynedigaeth trwy* Griſt.

CURWCH bawb eich dwylo ynghyd,
Bendithiwch Dduw, o bryd i bryd; *Sal.* 37.
Am roi 'unig Fab i'n prynu,
Pan yr oeddem wedi 'n § damnu. § *Colli.*

2 Cwympwch bawb ar ben eich glinieu,
Aberthwch iddo nos a boreu,
Glod a moliant, nerth, a gallu,
Am roi unig Fab i'n prynu.

3 Ped yſtyriem faint yw 'r dyled,
Y ſydd arnom iddo, o'r parthed,
Ni wnaem ſwydd, y nos na'r boreu,
Ond ei foli ar ein Glinieu.

4 Pan yr oeddem gwedi myned, *Act.* 26. 18.
Dan law Satan i gaethiwed, 1 *Joa.* 9. 8.

Fe

Fe rodd Duw ei Fab i 'n prynu, *Eph.* 2. 2.
Pan na alle neb ein helpu.

5 Carcharorion dan law Satan, *Luc.* 4. 18.
Yn y † dwnſiwn mawr yn cwynfan,
Byth y by'ſem bawb yn gryddfu, † *Carchar.*
Oni by'ſe 'r *Jeſu* ein prynu.

6 Nid oedd lun i * reconſilo,
Duw 'r cyſiawnder, gwedi ddigio, * *Heddychu.*
Oni by'ſe ei un Mab *Jeſu*;
Farw droſom, er ein prynu. *Col.* 1. 20.

7 Nid oedd lun gwaredu Enaid,
Un pechadur o'r pwll tanbaid,
Oni byaſe i 'r *Jeſu* cyfion,
Dalu droſto waed ei galon.

8 Criſt a roes ei werth-fawr waed, *Eph.* 2. 13.
Yn bridwerth droſom idd ei Dad; *Heb.* 1. 14.
Ac a 'n tynnodd trwy fawr gryfder,
O law Satan oedd y Shiailer.

9 Adar oeddem wedi 'n dala,
Yn rhwyd Satan idd eu difa;
Criſt a dorrodd y rhwyd droſom,
Ninne 'r * Adar a ddihang'ſom. *Pſal.* 124. 7.

10 Dafad oeddem aethe ar ddidro,
I blith bleiddiaid i gyrwydro; * ſef y ffyddloniaid.
O'r wir gorlan ym mharadwys,
Ar ol Satan pan ein temptiwys.

11 Criſt yw 'r Bugail y ddoe i 'mofyn *Joa.* 10. 2: 11. 16.
Hon, o blith bwyſtfilod 'ſcymmyn;
Ac y ddygei 'r ddafad adre',
O ſafan y llew ar ei 'ſcwydde.

12 N'i yw 'r gwŷr y ga's eu ſpeilio. *Luc.* 10. 30.
A'n harcholli wrth drammwyo,
O *Jericho*, i *Gaerſalem*,
'Neb a'n cwnne o'r clawdd lle 'roeddem.!

Criſt

13 Criſt yw 'r mwyn *Samaritan*,
Y rwymei 'n harcholl yn y man;
† *Lleiy.* Ac yn dygei hyd yr † oſtri,
Yno i'n ſwcro, a'n cynfforddi.

14 Y Sarph a'n brathodd ym mharadwys,
A chol pechod pan ein twyllwys,
Criſt eliodd ein harchollion,
Yn fwyn iawn â gwaed ei galon.

15 Nid oedd dim a alle helpu
Iſrael, gwedi 'r Seirph eu brathu;
Nu. 8. 34. Ond golwg hyll ar Sarph o bres,
Dim amgenach ni wnei les.

16 Nid oedd dim a'n helpei ninneu,
Gwedi 'n brathu â chol pechodeu,
Ond Criſt *Jeſu* gwedi hoelio.
† *Arwyddoc.* Oedd y Sarph yn † repreſentio.

17 Tebyg oedd ein cyſlwr gwann,
I adar bach y *Pelican*;
Y fae'r neidir wedi 'nafu,
Nes caent waed eu mam e'u helpu.

Heb. 9. 12. 18 Pan y gwelodd Criſt ein cyſur,
Megis *Pelican*, twym nattur:
Fe roes inni waed ei Galon,
I Elio ein harchollon.

19 O conſidrwn ninne 'n • cas,
• *Cyſlwr.* A'r daioni mawr a'r Gras,
Y ddaeth inni 'r byd colledig,
Trwy ddioddefaint Criſt yn unig.

Jer. 8. 34. 20 Slafliaid Satan, Gweiſion pechod,
Plant digofaint, bwyd bwyſtfilod,
Oeddem bawb, oni by'ſe 'r *Jeſu*,
'Ddaeth o'r Nef, i'r groes i'n prynu.

21 Beth yw dyn heb gyſnerth Criſt,
Ond gwas a ſlaf, i'r Cythraul triſt.

Gwedi

Gwedi i Dduw ei farnu eiſiwys, *Job.* 3. 18.
Fynd i Uffern o Baradwys.

22 Nid oes dyn a ddichon gadw,
Ei enaid bach rhag iddo farw,
Ne's y caffo gyfnerth JESU,
A'i waed gwerthfawr idd ei olchi.

23 Nid oes dyn a ddichon wneuthur
lawn i Dduw, am bechod budur;
Ne's y caffo waed yr OEN,
I dalu 'r pris i ddofi 'r poen.

24 Criſt yw 'r OEN di-fryche i gyd, *Joa.* 2. 2. *Rhu.* 3. 25.
Sy'n tynnu ffwrdd bechodeu 'r byd;
Ac yn dofi llid ei Dad,
A'i fywyd gwynn, a'i werthfawr waed.

25 Criſt yw 'r 'ffeiriad ſy 'n y nef,
Yn gwneuthur drofom weddi gref; *Heb.* 4. 14.
Gwedi offrwm Gwaed ei Galon, *Rhuf.* 8.
Ar y groes yn bridwerth drofom. 34.

26 Criſt yw gwir oleuni 'r byd;
Criſt yw 'n bywyd oll eu gyd,
Criſt yw'n cynffordd, Criſt yw'n Ceidwad,
Criſt yw'n helpwr o'r dechreuad.

27 Heb Griſt nid ydym ond colledig;
Trwy Griſt yr ydym yn gadwedig, *Joh.* 3. 36.
Heb Griſt ni chawn ni weled Duw,
Trwy Griſt ni a gawn ynddo fyw. *Dat.* 21. 8.
27.

28 Pob dyn aiff i Uffern driſt,
Ond y gretto yn *Jeſu Griſt*,
Ac heb Griſt ni ddichon un dyn,
Fynd i'r nef er maint ei roſyn.

29 Dyſgwn bawb gan hynny gredu,
Yn ein Prynwr mawr *Criſt Jeſu*;
A meddyſiwn wrando arno, *Act.* 3. 23.
O's yn y nef y mynwn dario.

Prynodd

30 Prynodd Criſt â Gwaed ei Galon,
Yr holl-fyd o'u poeneu trymion;
Ioan. 3. 36. Ond, llawer mil o'r Byd er hynny,
Ant i Uffern eiſieu credu.

31 Er croeſhoelio 'r *Jeſu* droſom,
A rhoi taliad llawn am danom;
Mat. 7. 19, 21. Etto ni bydd neb cadwedig,
Ond y gretto ynddo 'n unig.

32 Credwn yng *Nghriſt*, ac fe a'n cedwir,
Oni chredwn, yna ein collir;
Mar. 16. 16. 'R hwn y gretto, ' gaiff ei ei gadw,
'R hwn na chretto, collir hwnnw.

33 Nid aiſt un, na mawr na bach,
Byth i uffern i roi gwach,
Ond y dyn y beidio a chredu,
Yn y Prynwr mawr Criſt *Jeſu*.

Eſa. 22. 22. 34 Porth y nef ſydd led agored,
Ddydd a nos, heb arno gaued,
I bob gradd o gywir Griſtion,
Ac y gretto ynddo 'n ffyddlon.

35 Ni bydd ſon byth am ein beieu,
Na 'n drwg nattur, na 'n Pechodeu:
Hwy faddeuwyd, a hwy † ſlottir,
† *Dileu.* A gwaed Criſt i maes o'r llyſr.

36 Criſt a'n golchodd o'n pechodeu,
Criſt a brynodd ein heneidieu:
Criſt a'n dwg i deyrnas nefo'dd,
Nyni biau 'r maint a brynodd.

37 O moliannwn ninne 'r *Jeſu*,
§ Oſodir allan. Ddydd a nos am iddo 'n prynu:
Ac na anghofiwn tra chwyth ynnom,
Faint o betheu wnaeth ef erddom.

38 Clod a gallu mawr, a moliant,
Gwir anrhydedd, a gogoniant;

Y

Y fo i'n Prynwr mawr a'n pen,
A dweded nef a daear *Amen.*

CAN. XVI. *Cyngor i bechadur i ddyfod at* JESU GRIST.

§ DERE hên bechadur truan,
Dere at Grift trwy ffydd, dan ruddfan, § *Tyred Mat.* 11. 28. 29.
Mae Mab Duw yn d' alw atto,
O's yw pechod yn dy flino.

2 Criſt ei hun ſy'n galw arnad,
Criſt ſy'n erchi i ti ddwad;
Criſt ſy'n cynnig dy * refreſhio, *Jo.* 7. 37. * *Adfywio.*
O's trwy ffydd y dei atto.

3 Dere at Grift er maint yw'th drofodd,
Dere er cynddwrg yw dy ſuchedd;
Dere 'mrhyd, cais gymmorth ganddo,
F' all dy gadw 'r awr y mynno. § *bollol.*

4 Er dy golli'n § gwit yn *Adda*, 1 *Cor.* 15. 22. 2 *Tim.* 2. 26. *Jo.* 3. 36.
Er i'r cythraul cas dy ddala,
Er it' ddigio Duw mor danllyd,
Cred yng Nghriſt, ſe geidw 'th fywyd.

5 Er dy ynnill mewn anwiredd,
Er l't fyw mewn aſſan ſuchedd, *Sal.* 51. 5.
Dere at Grift, cais gymmod gantho, *Zach* 13. 1.
F' all dy olchi, a'th ail greo. *Rhuf.* 5. 19. *Joan.* 3. 36.

6 Er dy fod ti 'n elyn Duw, *Pſal.* 51. 5.
Wrth natturiaeth, a'th ddrwg ryw,
Cred yng Nghriſt, ſe'th wna o elyn,
I'th nefol Dad yn anwyl blentyn.

7 Er dy fod ti 'n ſlafi Satan, *Zach.* 13. 1. *Rhuf.* 5. 10.
Ac yn was caeth yn ei gorlan,
Cred yng Nghriſt, ſe'th dynn o'i grampe,
Fe'th ddwg o'r dywyll gell i'r gole.

8 Er dy fod ti 'n haeddu'th ddamnio, *Eph.* 2. 2.
A'th droi i uffern i'th boenydio; *Luc.* 1. 79.
Cred yng Nghriſt ſe'th ddwg i'r nefoedd,
I glodfori 'r hwn a'th greodd.

† *Gwrthryfelwr.* 9 Er dy ſod di megis †rebel,
1 Cor. 6. 11. Gwedi 'th droi o ſant yn gythrael,
Cred yng Nghriſt, bydd un o'i blant,
Fe'th dry o gythraul etto 'n ſant.
10 Er dyſod ti 'n ddyn damnedig,
Rhuf. 5. 12. 19. Yn hen *Adda*, tad gwenwynig;
Cred yng Nhriſt fe'th geidw etto,
Er i *Adda* hen dy ddamnio.
11 Er i Satan * entro, i'th letty,
A'i oreſgyn heb ei nadu;
Cred yng Nghriſt, fe ddwg ei arfeu,
* *Ddyſod i'th Galon.* Fe dry Satan dros y trotheu.
12 Er i'r lladron 'ſpeilio d' enaid,
Luc. 10. 30. A'th archolli yn dda § embaid,
Cred yng Nghriſt, y gwir *ſamariad*,
anobeithiol. Fe iacha d' archollion † deſprad.
13 Er i'r danllyd Sarph dy frathu,
A'th wenwyno 'nes dy 'nafu,
Jo. 3. 14. Cred yng Nghriſt, fe ddoſa 'r poen,
Fe iacha'r clwy' â gwaed yr OEN.
14 Er it fynych gyſeiliorni,
Megis dafad gwedi 'cholli,
Cred yng Nghriſt, fe ddaw yn fuan,
O'r nef i'th droi o'r gors i'r gorlan.
15 Er it bechu fil o weithieu,
Matth. 18. 12. Er it haeddu cant dïaleu;
Cred yng Nghriſt, ti gei ſaddeuant,
Am dy bechod oll a'th drychwant.
16 Er bod lliw dy fai cyn gochod,
Eph. 1. 7. *Eſay.* 1. 18. Ac yw 'r pwrpl coch, neu 'r ſcarled,
Cred yng Nghriſt, trwy 'waed fe'th olcha,
Nes bech di mor wynn a'r eira.
17 Er bod dy feieu mewn rhifedi
Act. 10. 43. Yn fwy na gwallt dy ben o gyfri';
Cred i'th brynwr Duw a dyn,
Fe'u madde itti bob yr un.

Cym

18 Cymmer gyſur cwyn dy galon,
Cred yng Nghriſt dy Brynwr tirion,
Edifara am dy frynti,
Criſt a fydd yn Geidwad i ti.

19 Mae Criſt i'th wa'dd mae Criſt i'th alw,
Mae Criſt i'th gymmell atto 'n groyw;
Pa'm y byddi marw 'n iraid, *Ezek.* 33.
'Eiſieu dyfod at dy Geidwad? 11.

20 Criſt y ddaeth o'r nefoedd auraid, *Luc.* 19.10.
I'r byd i gadw pechaduriaid;
Ei ſwydd, a'i garc, a'i waith yn unig,
Oedd cadw eneidiau, rhai colledig. *Rhuf.* 3.23.

21 Dyn colledig ydwyt tithe,
Fel mae pawb o honom ninne;
Pa'm na ddei tra fytho galw,
At dy Geidwad Criſt i'th gadw?

22 Nid yw'th bechod, ddrwg-ddyn anghall,
Fwy na phechod *Saul* neu arall; 1 *Tim.* 1.15.
Fe gadd *Saul* faddeuant gantho,
Dithe cei o's credu ynddo.

23 Nid yw'th bechod fwy nag allo, *Tynny ymmaith.
Criſt eu maddeu, a'u *deleuo,
Na'th holl feieu, na'th holl frynti,
Fwy nag allo Criſt eu golchi.

24 Ni all Satan byth dy lygru,
Fel na allo Criſt dy helpu;
Na'th ddifwyno, gwnaed ei waetha,
Fel na allo Criſt dy wella.

25 Criſt a'll wneuthur heb fawr drafael, *Act.* 9. 13.
Oen o flaidd, a ſant o gythraul, 14. 15.
Hen ddyn aflan, yn ddyn ſuw,
A dyn i'r fall, yn ddyn i Dduw.

26 Ni wnaeth Criſt ond galw ar *Zache*,
A'i droi 'n Sant ar hyn o eirie,

Fe'th dry dithe 'n Oen o's myn,
Luc. 16. O lwdwn dû, yn llwdwn gwynn.

27 Duw galluog ydyw Criſt,
Yn madde beieu 'r truan triſt;
Yn newid nawſ, yn gwella nattur,
1 Jo. 3. 8. Yn dattod gwaith y diawl heb rwyſtur.

28 Hollalluog yw dy Brynwr,
Fe all § reparo gwaith y temptiwr;
F' all ei daflu beunydd allan,
O galonnau 'r bobol aflan.

Adnewyddu. 29 Pe bae ſaith rhyw gythraul ynnod,
Pet fae lleng tu fewn i'th gaudod;
Mar. 5. 2. 9. 13. Fe try Criſt hwy oll fel cylion,
A'r gair cynta maes o'th galon.

Mar. 16. 9. Rhwyſtro Jer. 32, 17 30 Nid oes grym gan un creadur,
Hindro § gwaith dy brynwr pryſur;
Ni all dyn, na diawl ei rwyſtro,
Roi i ti ras o's credu ynddo.

31 Nid oes dyn yng Nghriſt, yn credu,
Act. 15. 9. Na bo 'n cael gras i edifaru;
Ac i wella ei fuchedd beunydd,
Nes yr elo 'n ddyn o newydd.

2 Cor. 5. 17. 32 Ni ddaeth dyn i geiſio gras,
At Fab Duw erioed na's ca's,
Nag i fegian cymmorth ganddo,
Nas rhodd Criſt e'n ebrwydd iddo.

33 Dere dithe, cais ras ganddo,
Eſa. 45. 19 Nad i'th bechod brwnt dy rwyſtro;
Ni ddaeth Criſt i gadw enaid,
Ond eneidiau pechaduriaid.

Mar. 2. 27. 34 Ni ddaeth Criſt i gadw o ddifri,
Ond y rhai oedd gwedi 'colli;
Swydd a gwaith Mab Duw yn unig,
Ydyw cadw rhai colledig.

Dere

35 Dere dithe 'n fuan atto,
Mae 'n dy gathrain, mae 'n dy gyffro,
Dere atto, cred yn unig,
Fe wna Criſt di 'n ddyn cadwedig.

36 Duw ro ras, i tithe ddwad,
Yn ddi aros at dy Geidwad;
Trwy ffydd fywiol, a 'difeirwch,
I gael gan Griſt ras, a heddwch.

CAN. XVII. *Cynghorion i'r ſawl a ddymynai gael faſr Duw, a maddeuant Pechodeu.*

PWY bynna geiſio faddeu,
Ei bechod, a'i droſeddeu,
A chael pardwn gan Dduw gwynn,
Rhaid dilyn hyn o werſeu.

2 Yn gynta adde 'th bechod, *Dihar. 28. 13.*
Yn brudd o flaen y Drindod,
Na chais gelu dim rhag Duw,
Does dim nad yw 'n ei wybod.

3 Gwedin prawf ddeallu,
Pa ddïal wyt ti 'n haeddu, *Rhuf. 6. 23.*
A pha angeu didrangc maith,
Am dan dy waith yn pechu.

4 A deall fod dy feieu, *Joel. 2. 13.*
Yn haeddu uffern boeneu, *Dat 9. 17.*
Gwedi'n cais, â chalon driſt, *Eph. 1. 7.*
Gan Dduw, er Criſt eu maddeu.

5 A dyſg yn brydd gydnabod,
Nad oes o flaen y Drindod, *Jo. 14. 14.*
Iawn am bechod, ond Gwaed Criſt, *1 Jo. 2. 2.*
A'i angeu triſt, a'i ufudd-dod.

6 A chred i'th Brynwr *Jeſu*,
Yn gwbl gyflawn dalu *1 Pet. 1 18.*

Ar

*Mat.*20.28. Ar y groes yn ddigon drûd,
Mat. 31. 7. Am feieu 'r byd fy 'n credu.

7 A gwybydd fod Duw 'n foddlon,
Mat. 3.17. I'r lawn a 'wnaeth Crift drofom,
Ac er ei fwyn yn barod iawn,
Roi pardwn llawn, i'r ffyddlon.

Jo. 3. 16. 8 A chred y madde i titheu,
Heb. 8. 12: Dy bechod, a'th drofeddeu,
Jag. 4. 9. Ond i't geifio er mwyn Crift,
A chalon drift eu maddeu.

9 Na chytgam geifio celu,
Mo'r pechod wyt ti 'n garu,
Adde 'r cwbl ger bron Duw,
Peth ofer yw ei wadu.

1 *Cor.* 11. 10 A barn dy hun yn euog,
13. O flaen yr Hollalluog,
Fel na'th farner ar ddydd || brawd
|| Barn. Ar goedd, trwy wawd digaffog.

11 Galara am dy bechod,
Yn ol ei wel'd a'i 'nabod,
Ac ymofidia nos a dydd,
Nes i ti 'n brydd ei wrthod.

12 Gwna 'r galon brudd ochneidio,
Jag. 4. 9. A'r llygaid ddyfal wylo,
A gwna i'r yfpryd brudd drifthau,
Edifarhau a mwrno.

13 A chais gan Dad goleuni,
Roi calon dyner i ti,
Ac ymofidia ymbell awr,
Ezec. 36. Am dan dy fawr ddrygioni.
26.

14 Na orphwys fyth yn ceifio,
Nes cael gan Dduw dy wrando,
A rhoi calon i't drifthau,
Edifarhau ac wylo.

Yn

15 Yn ol it fwrno ennyd, *Sal.* 1. 14.
Am dan dy bechod oflyd,
A dal afael tra fech byw, *Mat.* 5. 4.
Ar brommais Duw, a'i 'ddewid.

16 Mae Duw 'n ei air yn addo, † *Galaru.*
Diddanu rhai fo 'n †mwrno, *Mat.* 5. 4.
A rhoi hefyd bardwn clir,
I bawb a wir * repento. * *Edifarho.*

17 Repenta 'th fywyd anllad,
A chred yng Nghrift dy Geidwad;
Gad dy feie tra ynod chwyth, *Luc.* 13. 5.
Ni chollir byth mo hanad. *Jo.* 3. 16.

18 Mae Duw yn addo helpwr, *Eſa.* 55. 7.
A cheidwad, a diddanwr,
(I bob dyn 'difeiriol trift)
Sef Jefu Grift y Prynwr. *Eſa.* 35. 4.

19 Mae Duw yn addo maddeu, *Eſa.* 1. 16.
Dy bechod, a'th droſeddeu, 17. 18.
A'th olchi 'n lan o'th frynti i gyd,
Ond gado ym mhryd dy feieu.

20 O' byddi di 'difeiriol,
Mae 'n addo bod yn raſol,
Diddig, tirion, mwyn a ffri,
A byth â thi 'n heddychol.

21 Mae'n addo dy lwyr olchi. *Jer.* 2. 12.
Oddi wrth dy feie, a'th frynti; *Rhuf.* 5, 1.
Yng Waed ei Fab, O cofia hyn,
A'th droi mor wynn a'r lily.

22 Dal afael fiwr fel Criftion.
Ar hyn o addewidion;
Nef a daer 'ant heibio (clyw)
Cyn torro Duw bromeifion. *Mat.* 24.

23 Caſa dy bechod oflyd, 36.
Fel neidir gas wenwynllyd;

Sy'n

Sy'n ceisio 'th ladd, o gysgod llwyn,
Rhuf. 52. 9. Dan gel, a dwyn dy fywyd.

24 Na ddere i'r man lle gallo,
Dy bechod taer dy hudo,
Diha. 4. 14. Pasia heibio, neu dro'n d'ôl,
15. 26. Na ddos fel ffol i'th demtio.

25 O's dei ar draws y neidir,
A cholyn hon fe'th frathir,
O dei 'n rhy agos at y tân,
Medd y 'Scrythur lan, fe'th losgir.

2 *Ped.* 2. 20. 21. 22. 26 Gan hynny ymgadw arnad,
Rhag tramwy lle bo 'r † temptiad;
Gwell i't droi na myned i'r mann,
† Profedigaeth. Nid wyt ond gwan ac anllad.

27 Na thro at bechod eilwaith,
Fel Ci, neu Fochyn diffaith;
Dib. 24. 1. Y red i'r dom, yn frwnt ei fri,
Yn ol ymolchi unwaith.

28 Na ddilyn ddrwg gyfeillach,
A'th yrro 'n ffolach, ffolach;
Ni thal ceisio troi at DDUW,
Sal. 119. 63. Nes gado 'r cyfryw ffrythnach.

Phil. 3. 17. 29 A glyn wrth bobol Dduwiol,
Sal. 51. 10. A marcia 'u hymddygiad grasol,
Da, a difyr, yw 'r fath wŷr,
I'th ddwyn i'r llwybyr nefol.

30 A chais gan DDUW trwy weddi,
Dy droi oddi wrth ddrygioni;
A'th gyfarwyddo tra f'ech byw,
Rhuf. 16. 20. I garu Duw, a'i ofni.

31 A nad i'r fall dy ddallu,
A'th annog mwy i bechu,
* Satbra. *Damsing Satan dan dy draed,
Trwy rinwedd gwaed yr *Jesu*.

32 Na ddere at y meddwon,
Rhag newid dy arferion,
Fel y newid y môr glas,
A heli flas yr afon.

33 Ym mâd â phob cyfeillach;
A'th helo 'n annuwiolach:
Tynn oddiwrthynt, casâ eu ffyrdd,
Y † pitch a nyrdd dy gadach. † *Pyl.*

CAN. XVIII. *cyngor i gredu yng Nghrist, a dangosiad o'r newidiad sydd yn y dyn a gretto.*

CRED yng Nghrist, llef am dy Geidwad,
Mae Duw yn cynnig Crist i fagad;
Derbyn Grist pan y cynnigo,
Oni 's gwnei, ti fyddi hebddo.

2 Y dyn a gretto yng Nghrist yn brudd,
Trwy galon rwydd, a bywiol ffydd;
Mae Crist yn rhoi i hwnnw ras,
I fyw fel Saint o hynny 'ma's.

3 Mae Crist yn rhoi ei yspryd iddo,
I'w ail eni, a'i ail lunio, *Joa. 7. 39. Gal. 3 22.*
A'i lwyr droi yn ddyn o newydd;
O rebel ffol, yn blentyn ufudd.

4 Mae'n rhoi ei air i wir oleuo,
Mae'n rhoi ei ras i gynorthwyo,
Mae'n rhoi ei yspryd i reoli,
Mae'n rhoi ei hun yn bob peth inni.

5 Nid oes lun i ddyn wrth hyn,
Y gretto yn gryf yn *Jesu* gwynn,
Na chaffo ras, a grym oddiwrtho, *Jo. 15. 5.*
I fyw fel Sant o's cred ef yntho. *Act. 15. 9.*

6 Mae cred yn tynnu gras a gallu, ‡ *Jo. 3. 3.*
Oddiwrth Grist i'r dyn 'difaru,
Am bob bai o'i fuchedd aflan,
A byw fel sant o hynny allan.

7 Oni bydd dy ffydd yn tynnu
Gras, o Grift, i 'th adnewyddu;
Jag. 2. 14. Dy ffydd fydd ffalft, ni thal hi ddimme,
Nes tynno 'i ras i wella 'th feie.

8 Mae bywiol ffydd yn tynnu gras,
A grym o Grift, o hynny ma's,
2 *Cor.*5.17. I roi heibio bob hen grefydd,
Ac i wneuthur, oll o newydd.

9 Er creuloned a fo 'th nattur,
Er bychaned a fo'th fynwyr;
Cred yng Nghrift, a galw arno,
Fe all dy wella 'r awr y mynno.

10 Er creuloned oedd y jailer,
Act, 16.30. Er bod *Saul* yn filain fceler,
A *Manaffes* gwaeth na hwynte,
Fe 'u gwnaeth *Crift* hwy 'n faint o'r gore.

11 Fe'th wna ditheu, o bechadur,
Oflyd, aflan, drwg dy nattur,
Yn wir fant, o's credu yntho,
Luc. 7. 39. A thynnu gras, a grym oddiwrtho.

12 Fe wnaeth Crift, o hen erlidwr,
Saul, yn ebrwydd yn bregethwr;
1 *Tim.*1.12. Ac o'r wreigin ddrwg dros ben,
13. Y gigfran ddû, yn glommen wenn.

13 Cred yng Nghrift â chalon gywir,
Fe wella Crift dy naws, a'th nattur,
O fab i'r fall, fe'th wna di 'n Griftion,
O elyn Duw, yn blentyn graflon.

14 Na thyb dy fod yn credu 'n gywir,
Oni newid Crift dy nattur;
Y dyn a gretto yng Nghrift yn ffyddlon,
Fe newid Crift ei ddrwg arferion.

15 Cenfydd *Saul*, a chenfydd *Zache*,
Cenfydd *Mari Magd'len* hithe,

Di gei weled Criſt yn † altro,
Buchedd pob dyn pan y cretto.

† *Neuaid.*

16 Er bod *Saul* fel Blaidd y boreu,
Cyn credu yng Nghriſt yn diſa 'alleu;
Fe wnaeth Criſt cyn canol dydd,
Y Blaidd yn Oen, pan drowd i'r ffydd. *Act.* 9. 6. 22.

17 Cyn i *Zache* fyn'd yn Griſtion,
'R oedd e 'n pilio pawb o'r tlodion;
Gwedi credu fe rodd *Zache*, *Luc.* 19. 8.
Ran i'r tlawd o'r maint y fedde.

18 Er i *Fagdalen* fyw 'n rhyfygus,
Cyn credu yng Nghriſt, a phechu 'n rhwyſus,
Fe ſu *Fagdalen*, ar ol credu,
Fyw fel Santes nes ei chladdu:

19 Felly dithe a newdi
Dy arferion ond it gredu;
Nes newidiech dy arferion,
Nid yw'th ffydd ond * phanſi ffinion. * *Tyb.*

20 Ffydd heb weithred dda i'w dilyn,
Sydd ffydd farw, ffydd i eulyn; *Jag.* 2. 17.
Ffydd i'th ddallu, ffydd i'th dwyllo,
Ffydd ſydd barod i'th gondemnio.

21 Ni bydd tan heb wres lle bytho,
Ni bydd dwr heb wlybrwydd yntho, *Gal.* 5. 6.
Ni bydd 'fallen dda heb fale;
Na bywiol ffydd heb dduwiol ffrwythe.

22 O's dywaid un ei fod yn credu,
Ac heb wella ei feie er hynny, *Jo.* 3. 6.
Nid oes dim ffydd gan hwn, ond ffroſt, *Heb.* 11.
Yn tywyllo ei hun yn daran doſt.

23 Ni all dyn ſy 'n credu 'n ffyddlon,
Lai na gwella ei ddrwg arferion, *Io.* 7. 39.
Waith bod Criſt yn rhoi 'lan yſpryd, *Gal.* 5. 22.
I'r pechadur 'wella ei fywyd.

24 Nad dy dwyllo ddryg-ddyn aflan,
Iag. 2. 14. Lle bo ffydd mae buchedd bur-lan:
O'd yw dy ffydd yn talu ei gweled,
Moes ei dangos wrth dy weithred.

25 Onid yw dy ffydd yn fywiol,
Iag. 2. 13. 18. Yn dwyn gair, a gweithred rafol,
Nid yw hon ond ffydd mewn enw,
Ffydd na ddichon byth dy gadw.

CAN. XIX. *Cyngor i ochelyd cwmpeini drwg*, &c.

YNeb a fynno fyw yn ddeddfol,
Yn ol 'wyllys ei Dad nefol,
Di. 1. 10. 15. Cynta peth fydd raid i wneuthur,
Pf. 26. 4. Tynnu o blith y drwg weithredwyr:

2 A rhoi i fynu ddrwg gwmpniaeth,
Yn dragywydd, heb ddim hiraeth,
Heb. 11. 27. Megis *Moefen* gwmp'ni'r *Aiphtiaid*,
Gen. 12. 1. 4. *Lot*, ac *Abram*, y *Caldeaid*.

3 Fel y tag y gwyg y Gwenith,
Fel y fura fineg lefrith,
Fel y nyrdda pyg dy gadach;
Dib. 22. 24. Felly 'th nafa drwg gyfeillach.

4 Gochel neidir rhag dy frathu,
Gochel blag rhag dy ddifethu,
Ac o's ceri lechydwriaeth,
Gochel ddilin drwg gwmpniaeth.

5 Tynn o *Sodom*, tyred allan,
Rhed o blith y bobol aflan,
Gen. 19. 17. Gad oferwyr, cadw d' enaid,
Tynn o blith yr anffyddloniaid.

6 Tra fu *Fofen* gyda 'r *Aiphtiaid*,
Tra fu *Abram* gyda 'r *Syriaid*,
Ni 'mddangofei 'r Arglwydd iddynt,
Nes eu tynnu ymmhell oddiwrthynt.

Rho

7 Rho gwmpniaeth plant y fall
Heibio 'n ebrwydd, o 'dwyr gall:
Ni bydd cydfod rhyng Duw 'r heddwch, 2 *Cor.* 6. 15.
A chyfeillion, plant tywyllwch.

8 Gwedi'n dilyn brudd gyfeillach,
Pobol ddiwiol, ddoeth, ddi-anach,
Rhai a ddyfgant it adnabod,
Y gwir Dduw, a'i ofni 'n waftod. *Dib.* 13 22.

9 Tra fu *Saul* yng nwmpni *Samuel*, 1 *Sam.* 19. 24.
Fe aeth *Saul* yn faint o gythrel,
§ Tra fu'n dilyn pobol ddiffaith,
Fe aeth y fant yn gythraul eilwaith. § Er na ddichon un peth i dorri 'r berthynas gyfamodol *rhwng Duw* a'i bobl yng Nghrift; Etto fe ddichon Cyfeillach ddrwg lygru moefau da.

10 Dilyn Brophwyd, fe'th oleua;
Dilyn athro, fe'th gyf'rwydda,
Dilyn fant fe'th wna di 'n fanctaidd,
Dilyn ffol ti fyddi ffiaidd.

11 † Gwedi'n canlyn ar dy linieu,
Ar Dduw, 'ddangos it ei lwybreu,
A'th lwyr droi yn dra awyddus,
O bob llwybr traws twyllodrus. 1 *Cor.* 15. 33.

12 Cymmer lantern Duw 'n dy law, † *Paf.* 25. 4.
I'th oleuo ymma, a thraw, *Pfal.* 119. 176.
Nid aiff neb i dir bywyd,
Heb oleuni 'r 'Scrythur hyfryd.

13 Nes goleuo Duw dy lygaid, *Eph.* 5. 8.
Nes dadfywio Crift dy enaid,
Ni chanfyddi ffordd y bywyd,
Mwy na'r dall yr haul wenn hyfryd. Jag. 1. 22. *Rhuf.* 8. 13.

14 Gwna 'r peth archo 'r 'fengyl itti,
Paid a phob peth na boi 'n erchi,
Hi'th gyf'rwydda fyn'd o'r diwedd,
I gael bywyd a thrugaredd.

15 Gwedi'n gochel yn yftyriol, *Pfal.* 128. 1.
Rhag byw 'n ol dy 'wyllys cnawdol,

Nac

Nac wrth fodd dy galon gynnil,
Ond yn ol goleuni 'r 'fengyl.

*Mat.*11 30. 16 Ac o' ceifi gael derchafiaeth,
Gras, a dawn, a Iechydwriaeth,
Dewis, dilyn, cerdd heb golli,
Dat. 2. 13. Y ffordd y dyfgo'r Arglwydd itti.
Deut, 55.2.
Mat. 7. 13. 17 Hi fydd cyfyng ar y dechreu,
A gwrth'nebus i'th drachwanteu :
Ar y diwedd hi fydd efmwyth,
I'th ddwyn at *Jefu* yn ddifymwyth.

18 Ffordd i ddiftryw fydd yn waftad,
Ac yn efmwyth ei dechreuad,
Ond yn niwedd ffordd annuwiol,
Dib, 14. 12. Y mae 'r pwll a'r ffos uffernol.

Dat. 2. 10, 19 Gwedi dechreu 'r ffordd trwy rinwedd,
Prawf ei dilyn hyd y diwedd,
Ac na chytgam droi oddiarni,
Nes dy ddwyn i wlad goleuni.

20 Nid wyt nes er dechreu'r fiwrneu,
A throi gwedi'n at dy feieu,
Nid oes bromais, 'gael y Goron,
Heb barhau, hyd Angeu 'n ffyddlon.

21 Fe ddechreuodd *Saul*, a *Suddas*,
Fynd tu ar nef ar drot fel *Demas*,
Heb. 10, 28 Waith diffygio cyn diweddu,
Fe aeth y tri i'r poeth garchardy.

22 Dilyn Grift ar air a gweithred,
Troedia 'r ffordd y fu e'n gerdded ;
Gwna 'r peth archodd yn y 'fcrythur,
Math. 11. 29 Ni throi droedfedd dros y llwybyr.

CAN. XX. *Galarnad Pechadur.*

O Arglwydd Tad diddanwch,
Clyw gwynfan, a 'difeirwch,

Hen

Hen bechadur, gwael ei * gas,
Sy'n deisyf gras a heddwch.

2 Mi'th ddigiais di mor greulon,
Fy nhad, a'm Harglwydd tirion,
Fel na faidd fy nghalon drom,
Droi attad o'm golygon.

3 Gan hynny a'm pen i'r ddaear,
Fel Publican edifar,
Yr wyf dy anheulyngaf was,
Yn deisyf Gras a ffafar.

4 A'th ffafar wy'n ei ofyn,
Er mwyn fy mhrynwr purwynn,
Y fu droswf ar y groes,
Yn godde loes escymmyn.

5 Ac oni chafi bardwn,
Er mwyn ei loes a'i † Bassiwn,
Fe orfydd arnaf fynd yn bost,
I uffern dost a'i Dwnsiwn.

6 O Arglwydd, er yn blentyn,
'Rwy 'n pechu 'n dost i'th erbyn;
Heb wneuthur pris o'th Gyfraith gaeth,
Ond byw yn waeth nac un dyn.

7 Dy Enw mawr y geblais,
Dy 'scrythur a ddirmygais,
A'th Efengyl gywir iach,
Fel chwedel gwrach y brisiais,

8 Y gwerthfawr waed y gollaist,
O'th galon, pan i'm prynaist,
Wy 'n ei dyngu ddydd a nos,
Heb brisio 'r loes a gefaist.

9 Dy Sabboth, a'th ddydd Sanctaidd,
Y dreuliais yn dra ffiaidd,
Mewn cyfeddach, medd-dod brwnt,
A maswedd tu hwnt i weddaidd.

* *Cyfwr.*

Luc. 18.13.

† *Dioddefaint.*

Pan

10 Pan ſo pawb ar eu glinieu
I'th foli nos a boreu,
Mewn rhwy dwll, yn chwareu'r Cnaf,
Och! Och! y byddaf inneu.

11 Er bod dy Air mor felus
A'r mel, i'r enaid iachus,
Chwerwach oedd gen inneu ei ſlas,
Na'r wormwd cas gwrth'nebus.

Gal. 19.10.

12 Godineb a Phutteindra,
Fel un o blant *Gomorrah*,
Y ſum i yn eu dilyn cyd,
Nes mynd o'r byd gan mwya.

13 Ei Hyſed, a'i charowſio,
A ſugno tarth Tobacco,
Fu fy ſwydd dros ennyd fawr,
Gwae finneu 'n awr ei gofio!

14 Fy ieuengctid mewn oferedd,
Rhwyf, rhyſyg, cegran, coegedd,
Y lwyr dreuliais gydâ 'mam,
Heb feddwl am fy niwedd.

15 Yr wan ar fy niwedd,
Nid wyf yn well fy muchedd,
Na'r pryd gwaetha 'rioed o'r blaen,
O's d'wedai'r † plaen wirionedd.

16 Gan hynny rwy 'n rhyſeddu,
Pa fodd yr wyt ti'n gallu,
Goddef cyd fy mhechod taer,
Heb beri 'r ddae'r fy llyngcu.

† *Eglur.*

17 Can's nid oes fawr o feieu,
O frynti, a chamweddeu,
Nad wyf ynthynt lawer pryd,
(Gwae finne) hyd y clyſtieu.

18 Oni bae fod dy nattur,
Yn raſol, tu hwnt i feſur,

Yn uffern dân, cyn hyn yn rhoſt,
Y buaſei 'n doſt fy nghyſur.

15 O! Arglwydd 'r wy 'n cyfadde,
I'm haeddu er ys dyddie,
Fy nhorri 'n * gwitt o blith y byw,
Waith cymmaint yw fy meie.

16 Oni bae fod dy fawredd,
Yn raſol tu-hwnt i ryfedd,
Gwan-obeithio 'n gwitt a wnawn,
Fel *Cain*, na chawn drugaredd.

17 Ond dymma ſy'm cymfforddi,
Pan byddwy 'mron ymdorri,
Fod trugaredd Duw a'i ras,
Yn fwy na'm cas ddrygioni.

18 Fy meieu ſy cyn amled,
A § Swnd y mor er maned;
Ond dy ras ſydd gan-mil mwy,
Na'r mor ſy 'n hwy i' amgyffred.

19 Gan hynny 'r wy 'n gobeithio,
Lle cafes pechod rainio,
Y caiff dy rwydd a'th nefol ras,
A'r bechod cas gongcwerio.

20 D. fuoſt Dduw trugarog
I bechaduriaid enwog;
Na fydd waeth i minne am ras,
Bechadur cas anffodiog.

21 Pan trodd y *Niniſemiaid*,
Oddiwrth eu beie afriſaid;
Er cymmaint oedd eu pechod cas,
Hwy gawſont ras eu llonaid.

22 Er cynddrwg oedd *Manaſſes*,
Y gwaetha 'rioed y glywes;
Fe ga's gennyt bardwn mwyn,
Yn ol ei gŵyn a'i gyffes.

* *Hollol.*

y *dyn agretto yng* Nghriſt ac a ddychwelo trwy gredu oddiwrth *eiffyrdd* drygionus a ddichon obeithio *felly*, *Rhuf.* 5. 15. 10. 3. 36. *Eſay.* 55. 7. ond nad oes ſail yn y 'Scrythur, i'r dyn ſyn ymroi i fyned rhagddo yn ei gamweddau obeithio felly, nac edryched hwnnw *ond* am farn.

Pſal. 68. 21.

§ *Tawod.*

1 *Cron.* 3. 3.

Pſal. 32. 5. 23 A *Dafydd* brophwyd ynte,
Er amled oedd ei feie ;
Pan y llefodd am dy ras,
Luc. 7. 37. Yn rhwydd fe ga's eu madde.

Yr oedd yn y wraig *bôn ffydd* a newydddeb buchedd, *gyda* thriſtwch am ei *Phechod.* *Luc*, 16.

24 Fe gafas *Mair Magdalen*,
Yn ol hir chwareu 'r butten,
Wrth wylo 'n hallt y dagreu dwr,
Dy ras, a'th ffafwr lawen.

25 Pan trodd y mab afradys,
Tuag-attad yn ei un-crys,
Fe ga's gwedi chwareu 'r ffôl,
Dy ras yn ol ei 'wllys.

26 A minneu ſy 'n gobeithio,
Er immi 'n doſt dy ddigio,
Y caf er mwyn ſy mhrynwr gwâr,
Dy ras, a'th ffafar etto.

27 A'th ffafar wy 'n ei ſegian,
Yn daer, yn doſt, yn druan,
Er mwyn *Jeſu*, nos a dydd,
† *Diferu.* A'r dagre' o'm grudd yn † droppian.

28 Oh! cofia Arglwydd cyfion,
I Griſt ſy Mhrynwr tirion,
Offrwm droſwyf yn ſyrhad,
A'r grog-pren waed ei galon.

29 A chofia iddo dalu,
Dros f' enaid, y pryd hynny,
Y cur, a'r poen, a'r angeu. a'r bri,
Ac oeddwn i, yn haeddu.

30 O moes gan hynny bardwn,
Er mwyn ei loes a'i baſſiwn,
† *Iawn.* Ac er ei gur a'i waedlyd chwys,
Na chais ail † Satisffactiwn.

31 Ond maddeu 'n raſol immi,
Fy meieu oll, a'm brynti,

A golch yn llwyr fy mhen a'm traed,
Yng werthfawr waed ei || weli.

|| Archollion. *Esa.* 1. 18. *Dat.* 1. 5.

32 Er bod fy mai cyn goched,
A'r pwrpl coch, neu'r ſcarled,
‡Droppyn bach o'i waed er hyn,
A'm gwna mor wynn a'r § foled.

‡ *Dafn.* § *Gwiſg* pengwraig.

33 Gan hynny mae fy hyder,
A'r Griſt, a'i waed, a'i fwynder,
Y caf gennyd, yn ddi-nag,
Drugaredd ag eſmwythder.

34 A dwyn at Griſt yn gymmwys,
Fy enaid i Baradwys,
I gael rhan ym-mhlith dy Saint,
O'r nef, a'r maint y brynwys.

35 I'r hon o'th ras a'th fawredd,
Duw dŵg ni oll o'r diwedd,
I'th foliannu fyth bob awr,
Am dan dy fawr drugaredd.

36 *I'r Tad, i'r Mab, i'r Yſpryd,*
I'r Drindod, Undod hyfryd,
Y bo clod a moliant mawr,
Bob dydd, bob awr, bob emyd. Amen.

CAN. XXI. *Cynghorion Duwiol.*

F'ANWYL blentyn, † dere nes,
Gwrando gyngor er dy les,
Prawf ei ddilyn tra fech byw,
O's ceiſi fyn'd i Deyrnas Duw.

† *Tyred.*

2 Ofna Dduw tra bywyd ynnod,
Parcha ei Enw mawr yn waſtod,
Galw arno a'th holl galon,
Gwrando ei Air, a chadw ei orchmynion.

Jer. 29. 13.

3 Cymmer Air Duw yn waſtadol,
Yn Gynghorwr, ac yn rheol,

I reoli dy holl fywyd,
Ym-mhob gorchwyl a fo gennyd.

4 Dyna 'r Lantern a'th oleua,
Dyna 'r Athro a'th gyf'rwydda,
Ezec 1.21. I ochelyd pob drygioni,
21. Ac i'th ddwyn at Dad goleuni.

5 Gochel wneuthur mawr na bychan,
Yn ol d' 'wllys ffol dy hunan,
ſef ewyllys Y mae pechod gwedi ei llygru,
dyn. Nes cael gras i'w hadnewyddu.

6 Praw gan hynny, ffrwyno §phanſi,
§dy dyb a'th Ffiaidd ganthi bob daioni,
ſeddylfryd. Nes del gair Duw i'th gyf'rwyddo,
Pob peth drwg ſydd felus ganddo.

Rhuf 8. 7. 7 Gochel bechod er bychaned,
Tit. 3. 3. Colyn Sarph ſydd dan ei Siacced,
§ *Triſtwch.* Pleſſer byrr, a bair hir §alaeth,
Cyflog pechod yw marwolaeth.

8 O' ca's *Adda* gymmaint ddïal,
Am fwytta tammaid bach o afal,
Duw, pa faint y ſydd dialeu?
† ſef pech- 'Sawl ſy 'n byw ar gyfryw † faleu.
odau gan
ymborthi 9 O † bu ſiawns it' bechu unwaith,
arnynt. Gochel byth rhag pechu 'r eilwaith,
Nid oes lawn am bechod bychan,
† *Digwydd.* Ond gwaed calon Criſt ei hunan.

10 Tro 'ddiwrth bechod, nag ymchwela,
Cas yw 'r ci a fwytto ei chwdfa,
Ail yw hwn i'r mochyn diffaith,
'El o'r dw'r i'r dommen eilwaith.

11 O's attaliwyd *Moeſen* fwyn-lan
Deut. 1.3.7. A'm un pechod ' fyn'd i *Ganaan*,
'Bwedd na rwyſtrir pobol ddiffaith,
Fyn'd i'r nef am bechu ganwaith?

Caſa

12 Caſa falchder megis Neidir,
'Y dderchaſo, ſe oſtyngir:
Yn ol balchder y daw cwdwm,
Balch ei draed a drip i'r cawdrwm. *Dihar.* 16. 18.

13 O's taflodd Duw, yr Angel penna,
Am ei falchder i'r pwll iſſa;
I ble teflir llŵch a lludw,
Y falchio 'n waeth na hwnnw? *2 Pet.* 2. 4. *1 Tim.* 3. 6.

14 Byth na chwennych wely arall,
'R hwn a'i gwnel nid yw ond angall;
Y neb y ſango a'r y poeth-dan,
Nid oes lun na lyſc ei wadan. *Diar.* 6. 28. 29.

15 O's cas *Pharao* blag mor greulon, *Gen.* 12. 27.
Am chwennych *Sara* yn ei galon,
Pa fath blag a dïal caled,
Y gaiff y ſawl y wnel y weithred.

16 Gochel dyngu dim ond ie,
O'r diawl y daeth yr ofer lwe;
Melldith Dduw, fel mwg y leinw,
Y ty lle ceblir Duw, a'i enw. *Mat.* 5. 37. *Zach.* 5. 3.

17 O's Mwrddrwyd *Semachrib* y Pagan,
Am gablu Duw, o led ei ſafan,
'Bwedd y diangc y Criſt'nogion,
Y gablo Griſt a gwaed ei galon. *Eſa.* 37. 38.

18 Er dy fywyd parcha 'r Sul,
Dere i'r Eglwys, gwrando, gwyl;
Galw a'r Dduw, a gad y pottian,
Na wna 'r Sul yn wŷl i Satan. *Exod* 31. 14.

19 O's pwyodd Duw a'r fath ddihenydd,
Y dyn ddydd Sul am gaſglu briwydd:
'Bwedd y pwya bedwar aſcwrn,
Y dreulio 'r Sul yn waeth na'r Sadwrn. *Num.* 15. 36. 35.

20 Na cham attal ddim o'th ddegwm,
Na ddarnguddia ddim o'th offrwm;

Rwyt

'R wyt ti 'n Speilio Duw 'r dialeu,
Wrth ddarnguddio dy ddegymmeu.

Mal. 3.8.9. 10. 11. 12. 21 Melldigedig ym-mhob rhyw,
Ydyw 'r dyn a ſpeilio Dduw,
Stoppi 'r nef, a'r ddaear, a'r llafur,
Y mae pawb o'r cam ddegymwyr.

22 Caſâ fedd-dod yn dy fywyd,
1 *Cor.* 6.10. Nid â i'r nef un meddw chwdlyd:
Eſay. 5.11. 14. Uffern goi ſy 'n lledy ſafan,
Am gael llyngcu 'r meddw aflan.

Gen 25.34. 23 O'r daeth *Eſau* mor ddannodus,
Am werthu fraint am * fes o bottus:
* *Phiolaid o Gawl.* Pa ddannodiaeth ddaw i'r meddw,
Wertho 'r nef am bot o gwrw.

24 Na fydd gybydd, na fynn occor,
Ciſt i'r hael yw 'r cybydd angor;
Deut. 23.19. A gaſclo 'r Tad trwy gybydd-dra,
Mab afradys a'u gwaſtraffa.

25 Haws i *Gamel* fyn'd yn fuan,
Ymma, a thraw trwy 'r nodwydd fechan,
Luc. 18. 25. Nag i'r cybydd anrhugarog,
Fyn'd i mewn i'r nef oreurog.

26 Gochel dreiſio neb o'r tlodion,
Dibar. 22. 22. Criſt ei hun yw 'r Uſtys cyfion:
Y dreiſio 'r tlawd fe big llygad
Criſt ei hun, y cadarn Geidwad.

27 *Ahab* frenhin am ddwyn gwinllan
1 *Bren.* 21. *Naboth*, ei gymmydog truan,
1 *Bren.* 22. 34. A ga's golli ei frenhiniaeth,
Lladd ei blant a'i holl genhedlaeth.

28 O's aeth Difes dan law Satan,
A'm ballu i'r tlawd o'i dda ei hunan:
Luc. 16.23. I ba law ddiawl yr â 'r gwyr mawrion,
Sy 'n dwyn maint ſy 'n helw 'r tlodion.

Goch-

29 Gochel ledrad, gochel dwyllo,
Ni ddaw ennill byth oddiwrtho, *Zech.* 5. 2.
Lle bo lledrad y bydd aflwydd, 3, 4.
Dïal Duw, a dyfal dramcwydd.

30 O's lladdodd Duw holl dylwyth *Achan*,
A'm grach-guddio lledrad bychan : *Jos.* 7. 24.
Oni ddïal Duw a'r ladron, 25.
Sy 'n dwyn maint sy 'n helw 'r tlodion?

31 Gochel gadw cam sessureu,
Yn dy dŷ nac amryw bwysеu, *Mich.* 6.10.
Ffiaidd ca's yw 'r dafal anwir, 11.
Ger bron Duw, a'r pwys anghywir.

32 Y maint ynnillo dyn trwy ffalstedd,
A'r y dafal o anwiredd,
Bob ychydig mae e' 'n gossod,
Yn y cwd, a'r pwrs heb waelod.

33 Byth na chytcam dderbyn gwabar,
Honno lwngc sy'th helw o heinar ;
Ni ad gwabar ben na chynffon,
Byth yn helw 'r plant a'r wyron.

34 Y claf gwan y gas *Gehezi*,
Gydâ gwabar mewn † bwdgedi ; *Bren.* 5.27.
A'm y wabar y mae 'n rhigil, † *Coed.*
Yr andwya hi 'r plant a'r eppil.

35 Gochel gelwydd trech a'r dir,
Er dy fywyd dywaid wir :
Y cythreul brwnt a'r wiber las, Jo. 8. 44.
Yw tâd a mam y celwydd cas.

36 O's bu farw *Ananias*,
Toc am ddywedyd celwydd atgas,
A'i wraig hefyd wrth farn Duw, *Act.* 5. 5. 10.
Casâwn gelwydd tra f'om byw.

37 Na lysenwa neb er nam,
Y dwl, na'r dall, na'r cloff, na'r cam,

Duw

Duw wnaeth dyn, a'i lun, a'i liw,
Y gablo ddyn, fe gabla Dduw.

Mat. 5. 22. 38 O's barna Crift i'r ffwrnais danllyd,
Y neb y alwo ei frawd yn ynfyd:
I ble barna 'r neb fy 'n galw,
Ei dad a'i fam, a'r gant llyfenw?

1 Thef. 5.55. 39 Na thal ddrwg dros ddrwg i un-dyn,
Ruf. 12.20. O's mynni fod i Dduw yn blentyn;
Helpa, fwccra, dy elynion,
Na wna gam ag unrhyw Griftion.

40 Pa ragoriaeth fydd rhwng Criftion,
Mat. 5. 46. A'r un gwaetha o'r Iuddewon,
O's dai dalu drwg dros ddrwg,
Dant am ddant, a gŵg am ŵg.

☞ 41 Gochel wneuthur drwg ar hyder,
Cael trugaredd, pan i'th farner:
Deut. 29.8. Felly cei di farn anrafol,
Fyn'd dros fyth i'r tan tragwyddol.

42 O's gorfydd atteb pan ein barner,
Mat. 12.36. Ger bron Duw am bob gair ofer;
B'wedd attebwn; gwae fy nghalon!
Am ein drwg an ca's arferion.

43 Na cham arfer un o'r donieu,
'Roes dy nefawl dad i titheu:
Fe ddaw dydd y gorfydd rhoddi,
A'm bob Talent gownt a chyfri.

44 O's taflodd Crift i'r t'wyllwch eitha,
Y dyn a'i dalent eifie ei helwa:
I ble teflir drimbwl, drambwl,
Y gwas y dreulio 'r ftoc a'r cwbwl.

45 Bydd di barod heddyw, heno,
Ag oyl i'th Lamp, a'th wifg yn cyfrdo,
Mat 25.19. Fyn'd o flaen dy farnwr prydd,
Y foreu o boffib ydyw 'r dydd.

O's

46 O's caeodd Criſt y porth mor ebrwydd,
I'r ſawl ymmron oedd mewn parodrwydd,
Pa wedd y cant hwy borth agored, *Matth.* 25. 10.
S' heb ymg'weirio er pan 'ganed?

47 Bwrw heibio bob Pibyddiaeth,
Meddwl am dy Jechydwriaeth;
F' orfydd § paccio bawb oddi ymma, § *Myned.*
Naill a'i 'r nef, neu 'r t'w'llwch eitha.

48 O's nid eir i'r nef heb ymwthio,
Ac ymdrechu â thraed â dwylo,
Pa wedd y ſpyda 'r neb ſy 'n credu,
'R ant i'r nef wrth chware a chyſgu?

49 Cyn cael cynglwyſt rhaid ymdrechu,
Cyn cael cyflog rhaid gwaſ'naethu; 1 *Cor.* 9. 14.
Cyn cael nefoedd mae'n rhaid byw, *Mat.* 7. 12.
Ymma 'n gynta wrth 'wyllys Duw.

50 Ni ry Criſt i neb ei goron, *Dat.* 2. 10.
Ond ymladdo a'i elynion; *Pen.* 3. 12.
Ni ry i neb o'r geiniog fechan, *Mat.* 20. 8.
Ond y weithio dro 'n y winllan.

51 Ni thal d'wedyd Arglwydd, Arglwydd, *Pen.* 7. 21.
Ni cheir nef am eirau maſwedd,
Yn griſt'nogaidd f' orfydd byw,
Cyn 'tifedder teyrnas Duw.

52 O herwydd hyn 'rwy yn cynghori,
Pawb a garo 'r nef o ddifri',
Fyw 'n Griſt'nogaidd ac yn buwr,
Felly cant hwy 'r nef yn * iuwr. * *Sicut.*

53 O's daw gofyn pwy a'i cant,
Bugail ſydd yn fawr eu chwant,
Rhwyſtro 'r defaid ym mhob twll,
Ar eu pennau fynd i'r pwll.

CAN. XXII. *Cyngor i wr leuanc.*

F' Anwyl blentyn ces dy lythyr,
Serchog, Sanctaidd, llawn o fynwyr;
Sy 'n dymmuno cynghor ffyddlon,
I'th gyf'rwyddo i fyw fel Criſtion.

2 Argoel Gras yw'th wel'd cyn ieuanged,
Mor fawr dy chwant, mor brudd dy ſyched,
I 'nabod Duw, i ddyſgu'r 'Sgrythur,
Preg. 12. 1. I ddofi 'r cnawd a nwyfiant natur.

3 I gyflawni dy ddymuniad,
Derbyn hyn o gyngor difrad,
I gyf'rwyddo dy holl fuchedd,
O'th faboliaeth hyd dy ddiwedd.

4 Yn dy ieuengctid f'enaid cofia,
Wir waſ'naethu Duw Gorucha',
Ac addoli dy Greawdwr,
Cyn i wendid waethu 'th gyflwr.

5 Dechre i ddyſgu tr'ech yn blentyn,
Diar. 22. 6. 'Nabod Duw a'th Brynwr pur-wynn,
Hoffi 'Air, a chadw ei gyfraith,
Hynny 'th wna yn hen wr perffaith.

6 Tempra 'th leſter tra fo 'n newydd,
A'r gwin gwynn o dduwiol grefydd;
Fe arogla hyd dy ddiwedd,
A gwynt peraidd dy lan fuchedd.

7 Planna 'n gynnar yn dy galon,
Had pob Gra a'th wnel yn Griſtion,
Rhag i'r gelyn blannu'r efrau,
Eiſie ei hau â had rhinweddau.

8 Cais flodeuo yn dra chynnar,
Gydâ 'r Spring fel *Almond* hygar,
Y pren na ddycco flodau 'r gwanwyn,
Trwy'r cynhauaf ſe fydd difwyn.

Mae

9 Mae Duw 'n gofyn gan ei dylwyth,
O flaen pob peth gael y blaen-ffrwyth, *Ex. 22.29.*
Ac ni fyn y Duw goruchaf,
Gan ei blant na'r ail na'r olaf.

10 Rho gan hynny flaen dy gryfdwr,
I wafʼnaethu dy Greawdwr,
Ac na ddyro tra'chyn blentyn,
Flaen ffrwyth dy oes ' wafʼnaethu 'r gelyn.

11 Drwg i't roddi 'r gwin i Satan,
A rhoi i Grift y gwaddod aflan;
Rhoi dy nerth i * bleſſio 'r drygwr, * *Boddhau.*
A rhoi 'th wendid i'th Greawdwr.

12 Melldigedig yw 'r dyn ynfyd,
A ro i'r gelyn rym ei fywyd,
Ac na rotho i'w Brynwr diddig,
Ond yr henaint gwan methedig.

13 Gochel arfer ddrwg yn blentyn,
Arfer drwg a'th nyrdda 'n 'fgymmyn,
Ac a dry yn ail naturiaeth,
Nes yr elech beunnydd waeth, waeth.

14 O's arferu bechu yn blentyn,
A dibrifio Duw yn llengcyn; *Jer. 13.23.*
Yn hen nid haws i't wella hyn, § *dyn dû.*
Nag i'r § Moerys fynd yn wynn.

15 Rho gan hynny gorph ac yſpryd,
Yn dy ieuenctid yn dra hyfryd,
I wafʼnaethu dy Greawdwr,
Ac i ymladd a'th wrth'nebwr.

16 Megis *Daniel* tr'ech yn llengcyn,
Gwrthod wîn, a chwrw melyn, *Dan. 1.*
Ac na ro dy fryd ar foethau,
Ond ar 'nabod Duw a'i ddeddfau.

17 Dyſg fel *Samuel*, tr'ech yn fachgen, *1 Sam. 3.*
Sefyll o flaen Duw yn llawen.

Ac ymwrando â Gair y bywyd,
Beth y ddyweto 'r Arglwydd wrthyd.

18 Fel *Josias* yn llangc bychan,
Rhodia 'n union, o wyth allan,
2 *Bren.* 22. 1. 2. A rho 'th fryd ar gadw 'r gyfraith,
Ofni Duw, a byw yn berffaith.

19 Dysg y 'Sgrythur lan o'th fabyd,
Megis *Timoth* yn dra pherffid;
2 *Tim.* 3. 15. Honno 'th wna yn ddoeth anianol,
Yn grist'nogaidd ac yn dduwiol.

Luc 4. 16. *Luc.* 2. 20 Dos fel CRIST bob Sul i'r Eglwys,
Gyda 'th dad, a'th fam, a'th fagwys,
Ac o ddauddeg oedran, f'enaid,
Dechrau 'mddiddan a'r Doctoriaid.

21 Gwrando 'r 'fengyl, gwrando 'r gyfraith,
Dysg bob un o'r ddau yn berffaith,
A chais fyw yn gynnil, gynnil,
Yn ol cyfraith Duw, a'i 'fengyl.

22 Mewn tywyllwch 'rwy ti 'n rhodio,
Cymmer Lantern Duw i'th oleuo,
Heb oleuni 'r 'Sgrythur hyfryd,
Nid aer byth i dir y bywyd.

23 Er bod Duw 'n y nefoedd ucha',
Mae yn ei air â thi 'n chwedleua,
Ac yn dangos ei holl 'wyllys,
Yn y 'Sgrythur i ti 'n hyfpys.

24 Edrych dithau yn y 'Sgrythur,
Beth y fyn Duw i ti wneuthur,
Gwna beth bynnag fo 'n orchymmyn,
* *Na wna.* Ac na * fedla fo e'n wrafyn.

25 Gochel dorri 'r pwngciau lleiaf,
Rhuf 6. 23. O holl gyfraith Duw goruchaf,
Deu. 18. 15. *Exe.* 18. 4. Y mae 'r lleia' yn haeddu Angau,
Melldith Duw, a didrangc boenau.

Fe

26 Fe fyn Duw, y Barnwr cyfion,
Am bob pechod a wnel dynion,
Naill a'i angau'r dyn a becho,
Neu angau Criſt yn daliad droſto.

27 Ac lle pechaiſt fil o weithiau,
Yn erbyn Duw, nes haeddu angau;
Edifara am bob pechod, *Act.* 3. 19.
A chais bardwn gan y Drindod. *Dihar.* 28. 13.

28 Adde 'th bechod, ger bron Duw,
Fawr a bychan o bob rhyw,
Ac ymofidia am dy wegi,
Nes maddeuo 'r Arglwydd i ti.

29 Edifara am dy wendid,
A'th holl nwyfiant yn dy ieuengctid,
Oni wyli'r dw'r yn heli,
Duw a'th farna am y rhei'ny.

30 Ni chadd *Ephraim* nes e'wylyddio, *Luc.* 13. 3.
Ni chadd *Dafydd* nes ochneidio, *Jer.* 31. 19.
Fadde nwyfiant ieuengctid iddyn, 20.
Nis cei dithau nes eu canlyn. *Pſal.* 32. 5.

31 Gochel oedi hyd y foru,
Rhag it farw heno wrth gyſgu,
Ac i'r Angau glas dy lyſgo,
I'r farn yn llangc cyn ymgyweirio.

32 Mae yn Uffern fil, o filoedd,
O wyr Ieuaingc a bwrpaſodd,
Yn eu henaint brudd ddifaru,
Heb gael arfod 'wneuthur felly.

33 Edifara 'n awr gan hynny,
Ni wyddys pwy a fydd y foru,
Cymmer barchell tra cynhiger,
Rhag nas caffech pan y ceiſier.

34 Ac lle'r wyt ti 'n pechu beunydd,
Edifara bob diwedydd.

Rhag

Rhag i'r dwr ſy 'n ſio 'n 'ſceler,
Eiſie ei † blwmpio 'ſoddi 'r lleſter.

†*Diſpyddu.*

35 Gwedi gwir ddifaru un waith,
Gochel nyrddo 'th draed yr eil-waith,
Na thro ſel yr hwch i'r dommen,
Rhag it ſwytta 'th hwd drachefen.

Eph. 4. 22. 23. 24. 1 *Pet.* 1. 14. 15. 18. 36 Ond cais ddilyn buchedd newydd,
Trwy ſancteiddrwydd a gwir grefydd,
A chall dreilio 'th einioes fechan,
Mewn duwiolder prudd ac ofan.

Pſal. 55. 17. 37 Dod daſg arnad nos a boreu,
'Foli Duw ar ben dy linieu,
Na'd i ddiwrnod fyned drofod,
Heb addoli 'r ſanctaidd Drindod.

Pſal. 19. 7. 8. *Rhuf.* 8. 13. 14. 38 Ac i'th helpu fynd yn dduwiol,
I orchfygu nwyfiant cnawdol,
Cymmer gyfraith Duw i'th ddyſgu,
A'i lan yſpryd i'th gyfnerthu.

Pſal. 119. 9. 99. 39 Cyfraith Duw ſydd daran rymmus,
I droi 'r enaid cyfeiliornus,
Ac i roddi dyſg a deall,
I'r rhai ieuangc annoeth anghall.

40 Gwna beth archo 'r gyfraith iti,
Gwrando 'r cyngor mae'n ei roddi;
O's dilyni 'r gyfraith gyfion,
Hi 'th wna 'n ddoethach na'th athrawon.

41 Cadw afael ſiccr ynddi,
Plyg dy warr, ymoſtwng iddi;
Hi rydd ras, a pharch, a phower,
O'i chadw hi mae gwobor lawer.

Pſ. 19. 11. 42 O's arferi fyw yn berffaith,
'N awr yn llangc, yn ol y gyfraith,
Fe fydd hawdd trwy fawr lawenydd,
I't fyw'n ſanctaidd yn dragywydd.

An

43 Anrhydedda Dduw dy dadau, 1 *Sam.* 2. 30.
Duw a'th anrhydedda dithau,
O's dirmygi ei waſ'naethu,
Fe ddirmyga dy ddiwallu.

44 O's gwaſ'naethu Dduw yn blentyn, 1 *Bren.* 17.
Duw 'th waſ'naetha dithau 'n hen-ddyn, 6.
Ac a bair i'r brain dy borthi,
Cyn bo arnad fawr galedi.

45 Ni 'th ddanfonwyd i'r byd ymma,
I waſ'naethu 'r byd na 'r bola; *Eaſ.* 43. 7.
Ond i waſ'naethu Duw yn weddaidd,
Fel y gwna'r Angylion Sanctaidd.

46 Pan y codech gynta o'th wely,
Cofia Dduw, cwymp i'w waſ'naethu, *Pſ.* 139. 18.
Ac na ddos o'th ſtafell allan,
Nes i 'ddoli â pharch ac ofan.

47 Er maint a ſo dy ſuſnefion,
A'th glamwri, a'th orchwylion,
Na ddod law ar un o'r rheitia,
Nes addoli Duw yn gynta.

48 Ni bydd llwyddiant, ni bydd llonydd,
Ni bydd cymffordd na llawenydd, *Jer.* 10. 25.
Lle bo trafferth o bob rhyw,
Heb ddim pris am foli Duw.

49 Er bod buſneſs fawr gan *Ddaniel*, *Dan.* 6. 10.
Yn y cwrt dan Frenhin BABEL,
Tair gwaith beunydd y gweddiau,
Yn ei ſtafell ar ei liniau.

50 Pan yr elech o'r drws allan,
At un gorchwyl, mawr na bychan,
Cais gan Dduw dy brudd fendithio,
A rhoi rhad ar waith dy ddwylo.

51 Fel y llwyddodd Duw orchwylion, *Gen.* 39. 3.
Joſeph gynt, a *Daniel* dirion, *Dan.* 6. 3.

FeHy

Gen. 39. 3. Felly llwydda d' orchwyl dithau,
Dan. 6. 3. O's gweddi arno 'n ddiau.

52 P'le bynna b'ech, beth bynna wnelech,
A'i da, a'i drwg, y mann y mynnech;
Duw, 'mhob mann fy 'n diſgwyl arnad,
Pſ. 7. 119. Gochel bechu yngwydd ei Lygad.

Mat. 7. 12. 53 Gwna i eraill bob daioni,
Y ddymunid wneuthur itti,
Na ro i eraill waeth meſurau,
Pſal. 34. 10. Nag a fynnit roi i tithau.

54 Na wna weithred er dy gyffro,
Na bo Duw yn warant iddo,
Ac na allech yn ddi wawd,
Gyfri' am dano ar ddydd Brawd.

55 Gwna 'r Duw byw, 'n wir Dduw i ti,
‖ *Gofalus.* Ac yn ‖ garcus cais ei 'ddoli;
Galw arnno a molianna,
Felly 'n waſtad fe'th ddiwalla.

56 Gochel gymryd ar un amſer,
Enw'r Arglwydd mawr yn ofer;
Can's nid gwirion gantho hwnnw,
Gam arfero ei Sanctaidd Enw.

57 Treilia 'r Sabboth oll yn llwyr,
Mewn Sancteiddrwydd fore a hwyr,
Ac na ddyro ran na chyfran,
O ddydd Duw i blefio Satan.

58 Anrhydedda dy rieni,
Parcha, llonna, ſwcra rhei'ny,
Felly 'r heſtyn Duw dy ddyddiau,
Ac a barcha d' eppil dithau.

Dih 16. 18, 59 Gochel gytgam ddigalonni,
Pen .30. 17. Na rhoi amherch i'th rieni,
1 *Thes.* 4. 3. Odid gweled diwedd dedwydd,
4.
1 *Cor.* 6. 15. I 'r ferch falch, na'r mab anuſydd,

Goch-

41 Gochel rhag godineb ffiaidd,
Cadw 'th gorph yn lleſter ſanctaidd;
Ac na wna er golud *Rhufain*,
Aelod Criſt yn aelod puttain.

42 Gorwedd gydâ 'th wraig dy hun, *1 Cor.* 6. 19.
Na chais arall wrth dy wŷn, *Eſa.* 28. 17.
Ac na chytgam wneuthur Temel
Yſpryd Duw, yn wal i'r cythraul.

43 Er mwyn *Jeſu* gochel fedd-dod,
Gwaeth yw hwn nag un rhyw bechod, *Dibar.* 23.
Mae 'n troi dyn i gyflwr cythraul, 29.
Ugain gwaeth nag un anifail.

44 Câr a'th galon bob rhyw ddyn,
Fel y carech di dy hun,
Ac na wna i un dyn 'niwaid, *Mat.* 22. 39.
Ar air, meddwl, nag ar weithred.

45 Gwna i bob dyn ore ag ellech,
Gwna yn ffyddlon 'r hyn a wnelech, *Gal.* 6. 13.
Ond na chytgam er mwyn un dyn,
Wneuthur dim 'ſo Duw yn wrafyn.

46 Gad i gyfraith Duw 'th reoli,
Ym mhob gorchwyl y ſo iti, *Deu.* 5. 52.
Nid oes un rhyw orchwyl perffaith,
Ond yr un ſy 'n ol y gyfraith.

47 Cofia f' enaid nad oes gennyd,
Ddydd ſerteiniol ar dy fywyd,
Treilia bob dydd mor ddi gamwedd.
A phe bae ef ddydd dy ddiwedd.

CAN. XXIII. *Cyngor i waſanaethu* Duw.

Y Sawl y fynno gael eſmwythder, *Tim.* 4. 8.
Llwyddiant, heddwch, cyſoeth, cryſder, *Deu.* 28. 2.

Pſal. 112. 2. Parch a ſtyniant tra ſont byw,
3. *Eſa.* 58. 11. 12. Cwympent i waſ'naethu DUW.

2 Y neb y ſynno ddiangc hefyd,
Leſ. 26. 15. Rhag tralodion toſt ac adfyd,
6. Nychdod, niwaid, anhap, aflwydd,
Dut. 28. 15. 16. Cwympent i waſ'naethu 'r Arglwydd.

3 Dyled pob dyn tra ſo byw,
Luc. 74. 75. Ydyw prydd waſ'naethu Duw,
Dut. 10. 20. Trwy lwyr gadw ei orchmynion,
Mat. 4. 10. Ar bob pryd o 'wyllys calon.
Deut. 6. 25.

4 Rheita gorchwyl, penna gweithred,
Deut. 10. 12. Mwya ei ennill gore ei warged,
Luc. 10. 42. Siwra ei wobor tro dyn byw,
1 *Tim.* 4. 8. Ydyw prydd waſ'naethu Duw.
Dut. 7. 13.

5 Dyna 'r unig waith a bwyntiwyd,
Luc. 10. 42. I ni wneuthur pan ein crewyd,
Eph. 2. 10. Dyna'r gwaith y gorfydd cyfri,
Mat. 25. 19. Doſta am dano ddydd ein didri.
Luc. 19. 22.

Beth ydyw gwaſanaethu DUW.

GWRANDO 'r gair a chadw 'r gyfraith,
Dut. 10. 12. Credu 'r 'fengyl yn ddi ragrith,
Mat. 1. 13. Byw yn ol ei gwir oleuni,
1 *Joan.* 1. 7. Yw gwaſ'naethu Duw o ddifri.

2 Gwneuthur y ſo Duw 'n orchymmyn,
Deut. 28. 1. Gochelyd yr hyn fyddo 'n wrafyn;
Pen. 29. 58. Dilyn ei air tra f'om byw,
Ydyw gwir waſ'naetnu Duw.

Dau ryw o Waſanaeth.

DAU ryw o waſanaeth ffyddlon,
Y fyn Duw ar law pob Criſtion,
Mar. 16. 16. Un trwy ffydd, a chrefydd dduwiol,
Deut. 10. 12. 'Llall trwy ſoes, a buchedd raſol.

Yn

I. *Gwaſanaeth Crefyddawl.*

YN Grefyddawl rhaid ei waſ'naethu,
Trwy wir grefydd' a'i ſoliannu,
Yn gyhoeddus, ac yn ddirgel, *Ruf.* 10. 14.
Yn y ty, ac yn y Demel. *Pen.* 10. 9.
Dut. 16 16.

2 Yn yr Eglwys yn gyhoeddus,
Ar bob Sabboth yn dra pharchus, *Leſi.* 23.
Gydâ 'r dyrfa ar ein glinau, 3.
Ag un galon, ac un genau. *Luc.* 4 16.
Leſi. 26. 2.

3 Ar ddydd gwaith mewn ſtafell ddirgel,
Gydâ 'n tylwyth fel mewn Temel,
Fore a hwyr, trwy alw arno,
Gwrando ei air, a'i wir fendithio. *Mat.* 6. 6.
Act 01. 11
Cor. 13. 5.

II. *Gwaſanaeth Moeſawl.*

RHAID gwaſ'naethu Duw yn foeſol, *Rhuf.* 12. 1.
Trwy lan ſuchedd tra chriſt'nogol, *Luc.* 74, 75.
Ym mhob mann, ac ar bob achos,
Hyd yr awr ddiwedda o'n heinio's.

2 Rhaid yw byw yn ddiyſgeulus,
Yn ol cyfraith Duw, a'i 'wyllys, *Dut.* 5. 32.
Nid yn ol ein ffanſi 'n hunain,
O's gwaſ'naethwn Dduw yn gywrain.

3 Rhaid yw dilyn buchedd ddeddfol, *Col.* 1. 11.
Yn ol ewyllys ein Tad nefol, *Mat.* 6. 20.
A rhyngu 'fodd, tra f'om ni byw,
O's ceiſiwn wir weſ'naethu Duw.

4 'Neb na waſ'naetho Dduw yn brudd, *Eſa.* 26. 43.
Yn ol ei air, trwy fywiol ffydd, *Jaſ.* 1, 26.
Ni all hwnnw gwnaed ei ore, *Eſa.* 58. 3.
Byth foddloni Duw a'i foeſe.

Pa enill ſydd o waſanaethu DUW.

*Dent.*26. 1. PARCH, * anrhydedd, union olud,
Dut. 28.13. Gwir dderchafiad, hir oes, iechyd,
*Dut.*15.16. Heddwch, ffynniant o bob rhyw,
Y geir o wir waſ'naethu Duw.

2 Dos lle mynech, doed y ddelo,
Gwnaed pob gelyn waetha ag allo,
*Levït.*26.5. Yn ddigonol di gei fyw,
*Duet.*28.2: O's ti a wir waſ'naethu Dduw.

3 Yn y dref, ac yn wlad,
Ar bob gorchwyl di gei rad.
*Deut.*28 3 A gwir lwyddiant ar y feddi,
*Dut.*28.12. O's yr Arglwydd a waſ'naethi.

4 Bydd dy feuſydd, bydd dy winllan,
Bydd dy lety, bydd dy gorlan,
Deut. 7. 4. Yn dra ffrwythlon, heb ddim aflwydd,
*Deut.*11.13. O's ti wir waſ'naethu 'r Arglwydd.

5 Duw y fyn i bob rhyw Griſtion,
Ei waſ'naethu a'i holl galon,
A'i holl enaid, a'i holl feddwl,
*Mat.*22.27. A'i aelodau oll a chwbwl.

6 Rho dy gorph yn aberth bywiol,
I waſanaethu dy Dad nefol,
A rho d' annwyl enaid hefyd,
I'w addoli ef yn hyfryd.

7 Criſt a brynodd Gorph ac enaid;
Ar y groes, a'i waed bendigaid,

Mae

* Er y dichon y Duwiol fod mewn tylodi, newyn, noethni, a thrallodion fel *Job*, ac eraill; Etto, gyda 'r Prophwyd *Habacac*, pe na byddai Eidion yn y Beudy, na Dafad yn y Gorlan, ac i'r oliwydd ballu; etto hwy a ymddiriedant yn yr Arglwydd, a byddant hyfryd yn Nuw eu Iechydwriaeth; Yr hyn yw y gwir olud, a'r gwir Foddlonrwydd.

Mae e'n diſgwyl cael ei 'ddoli,
Gennym ym mhob un o'r rhei'ni.

8 Ni fyn Duw, ein Tad galluog,
Un gwaſanaeth dau hanner rog;
Ond ſe fyn ei 'ddoli 'n hyfryd,
Gan bob gwas, a'r corph a'r yſpryd.

9 Yſpryd ydyw Tad trugaredd, *Ioan.* 4.24.
Ac mewn yſpryd a gwirionedd, *Dihar.* 23.
Y mae 'n gofyn ei addoli, 26.
O'r tu mewn â chalon wiſgi.

10 Ofer rhedeg dros baderau,
O'r tu faes, â geiriau 'r genau,
Oni bydd y galon hefyd,
Yn gweddio yn yr yſpryd.

11 Nid oes mann ar gorph un Criſtion,
Tu fewn, tu faes, yn oed y galon,
Na fyn Duw ei lwyr gyſegru,
Oll a chwbl, i'w waſ'naethu.

12 Er bod Satan weithiau 'n foddlon,
'Gymryd gennym ran o'r galon,
Ni fyn Criſt na phen na ſowdwl, *Mat.* 22.27.
Oni cheiff ef, oll, a chwbwl.

13 Rho dy enaid i'w fendithio,
Ac i orfoleddu ynddo:
Rho dy yſpryd i gydnabod, *Pſal.* 10.3. 12.
Faint o bethau wnaeth ef erddod.

14 Rho dy fryd ar bethau nefol,
Ac na ſercha ddim daearol, *Col.* 3. 2.
Meddwl am y wlad y gorfydd,
Aros ynddi yn dragywydd.

15 Rho dy gorph a'th holl aelodau. *Rhuf.* 12.1.
Fawr a bychian yn eu graddau,
Bob yr un, mewn gweddaidd gyflwr,
I waſ'naethu dy Greawdwr.

Rho

16 Rho dy galon i'w bur garu,
Yn ddi ragrith, a'i wal'naethu,
Rhuf. 12.1. Ac i lynu 'n ddyfal wrtho,
Gan roi llwyr ymddiried yntho.

17 Rho dy dafod i'w glodfori,
Dydd a nos, a'r eitha o'th allu,
Ac i ddatgan ei ddaioni,
Pſal. 51.15. Ym mhob tyrfa delech iddi.

18 Rho dy lygad i attendio,
Ac i ddyfal ddiſgwyl arno,
Pſal. 121. 1. 2. Ac i edrych tua'r mynydd,
Iac. 1. 19. O'r lle daw dy holl lawenydd.

19 Rho dy glyſt i wrando 'n barchus,
Ar ei air, a'i arch, a'i 'wyllys,
Ac i dderbyn yn ddi ſigyl,
Addewidion yr 'Fengyl.

20 Rho dy ddwylo yn awyddys,
I bob gweithred ſydd ddaionus;
Deut. 11.11. A chyfranna ei fendithion,
Eph. 4. 29. Wrth eu rhaid i'th frodyr t'lodion.
Pſal. 94. 6.

21 Rho dy linie i'w addoli,
Ac i 'moſtwng iddo o ddifri,
Gan roi parch ac ofan iddo,
Pa le bynna galwech arno.

22 Rho dy draed i droedio 'i lwybrau,
Ac i rodio 'n ffordd ei ddeddfau,
Ac i dramwy yn griſt'nogaidd,
I'w lys a'i deml, barchus ſanctaidd.

23 Rho dy enaid rho dy yſpryd,
Rho dy gorph a'th galon hefyd,
Jeſ. 22. 6. A phob peth ac y ſydd ynod,
Ddydd a nos, i foli'r Drindod.

Reſymmau i'n cynhyrfu i foli Duw,

DUW, a'th wnaeth yn ddyn deallus,
Ar ei lun ei hun yn weddus,

Rwyt

'R wyt ti 'n rhwym i'w 'ddoli 'n ffyddlon,
Am dy wneuthur felly 'n Griſtion. *Gen.* 1. 27.

2 Criſt a'th brynodd o law Satan,
A'i wir waed, ac nid ag arian;
Am i Griſt mor ddrud dy brynu,
'R wyt ti 'n rhwym i'w brudd addoli.

3 Duw a'th borthodd yn ddigonol,
O'r gorth, hyd yr awr breſennol,
Am dy borthiant o's yſtyri,
'R wyt ti 'n gaeth i'w wir waſ'naethu.

4 Di addefaiſt yn dy fedydd,
Wir waſ'naethu Criſt yn ufudd,
Oni waſ'naethu Dduw fel Criſtion,
'R wyt ti gwedi tyngu 'n 'udon.

5 Duw a wnaeth i bob Creadur,
Dan' nef, dy waſanaethu 'n bryſur; *Gen.* 1. 26.
'R wyt ti 'n gaeth ar ben dy linie,
Am y rhai'n i'w waſ'naethu ynte.

6 Duw a wnaeth i'r byd gweledig,
Brudd waſ'naethu dyn yn yſtig,
Fel y galle dyn a'i ryw,
Ynte, 'n brudd waſ'naethu Duw.

7 Y dyn anghofio waſ'naethu Duw,
Yn ei radd, tra fyddo byw.
Mae'n anghofio 'r weithred fwya,
Bwyntiodd Duw i wneuthur yma.

8 Nefoedd, daear, dwr, angylion,
Adar, pyſgod bwyſtfil' gwyllion; *Pſal.* 150.
Ac ymluſgiad o bob rhyw,
Sy'n eu gradd yn moli Duw.

9 Nid oes un o'r holl Greaduriaid,
Gwyllt, na dof, na dwl, na diriaid,
Heb waſanaethu Duw trwy fawl,
Ond yn unig dyn a diawl.

C'wil-

10 C'wilydd, gwradwydd, maes o feſur,
Ydyw gweled pob creadur;
Yn gwaſanaethu Duw yn ffyddlon,
A'i ddibriſio gan blant dynion.

11 Pa wedd y cyfyd dyn ei ben,
Pan dd'wetto Criſt o'r orſedd wenn,
Nad oes neb yn ei waſ'naethu,
Waeth na'r dyn y fu 'n ei brynu.

12 Mae mwy dyled ar bob Criſtion,
Lwyr waſ'naethu Duw yn ffyddlon,
Nag y ſydd ar un Creadur,
Ac y wnaeth Duw dan yr awur.

13 Nid a i Uffern un creadur,
Gydâ 'r diawl i'r poen difeſur,
Onid dynnion gwaetha eu rhyw,
Eiſie gwir waſ'naethu Duw.

14 Rhag i tithau fynd i frwylian,
I dan uffern gyda Satan,
Nag anghofia tra fech byw,
Ym mhob man waſ'naethu Duw.

Er nad oes neb yn haeddu trugaredd a bywyd tragywyddol am eu gwaſanaeth, am fod ein gweithredodd goreu yn amherffaith; etto y mae gwaſanaethwyr Duw *i gael hynny, am fod* Duw *o'i gariad a'i ras er mwyn* Criſt *wedi addaw hynny iddynt.* - *Eph.* 2. 7.

15 *Enoch* am waſ'naethu Duw,
Y gadd fynd i'r nef yn fyw,
Yn ei gnawd, a'i wir gorpholaeth,
Cyn cael gweled dim marwolaeth.

16 *Noah* am wir waſ'naethu 'r Arglwydd,
Gadd ei gadw yn ddi dramcwydd,
Yn yr Arch, a'i dylwyth hefyd,
Pan y boddodd Duw yr holl-fyd.

17 *Abram* y gadd barch a golyd,
Ffafar Duw, ac *Iſaac* hefyd;
Holl wlad *Canaan*, a'i rhai mawrion,
Am waſ'naethu Duw yn ffyddlon.

18 *Iſaac* yntef am fendithio
Duw, 'n y maeſydd wrth fyfyrio,

Y gadd lafur ar ei ganfed,
Gan yr Arglwydd am ei weithred.

19 *Joſeph* ddiwair am waſ'naethu
Duw, a pheidio godinebu, *Gen.* 39 6.
Ga's ei dynnu maes o'r *dwngiwn,
A'i roi 'n ben ar wlad y Sibſiwn. *Daer-dy.

20 *Joſuah* rymmus ynte am lynu, *Jo.* 24. 15.
Wrth yr Arglwydd, a'i waſ'naethu,
Y gadd ennill brenhiniaethe,
A phob tir a gwlad a gerdde.

21 Hen *Elias* ' gadd ei borthi,
Gan y cigfrain yn ei d'lodi, 1 *Bren.* 17.
A'i ddwyn i'r nef mewn Cerbyd tanllyd, 4. 6.
Am waſ'naethu, Duw 'n ei fywyd.

22 *Shadrach*, *Meſach*, *Abednego*,
Am waſ'naethu Duw, a'i gofio;
A waredwyd yn dra hyfryd,
O'r tan poeth, a'r ffwrnes danllyd.

23 *Daniel* am wai'naethu 'n ufudd *Dan.* 6. 11.
Dduw, 'n ei 'ſtafell dair gwaith beunydd,
Y gadd ddiangc rhag y Llewod,
A'i waredu 'maes o drallod.

24 Pwy erioed a wnaeth waſ'naeth,
I'r gwir Dduw, heb wobor helaeth?
Pwy a dannodd ei ogoniant,
Na chadd ganddo barch a ffynniant?

25 Ni agorodd un dyn etto, *Deut.* 28.
Ddrws .ei Demel heb ei wobro,
Ac ni 'nynnodd un Offeiriad,
Dân yr Allor, heb iawn daliad.

26 Ni ry' un dyn byth gwppanaid, *Mat.* 1. 30.
Er ei fwyn o ddw'r i'r gweiniaid;
Ac ni chaiff ei wobor gantho,
Ar ei ganfed medd Saint *Matho.*

27 Gore meiſtr i'w waſ'naethu,
Mwya 'i barch yw'r Arglwydd *Jeſu*,
Goreu 'n talu taliad ffyddlon,
Am waſ'naeth i'w holl weiſion.

28 Meiſtr graſol, meiſtr grymmus,
Meiſtr rhial, gogoneddus;
Dat. 1. 8. Meiſtr y wna ei holl weiſion,
Yn Offeiriaid a Thyw'ſogion.

29 Meiſtr y wna iddynt eiſte,
Yn y neſoedd mewn cadeirie;
Mewn eſmwythder, a dedwyddwch,
Mawr ogoniant, a rhialtwch.

Cor. 2. 9. 30 Meiſtr y rydd i'w holl weiſion,
Deyrnas hardd, ac auraidd goron;
A'r fath bethau mawr arbennig,
Na all calon dyn ddychymmig.

31 Pwy gan hynny na waſ'naethe
Griſt, yn ddyfal ar ei linie,
'R hwn ſy 'n gwabru 'i gywyr weiſion,
A'r fath deyrnas, a'r fath goron?

32 Pwy na ſcornie 'r byd a'r cnawd,
A'r Cythraul cas, a'i ſaig, a'i ſawd,
Ac yſtyrie ſaint yw cyflog,
Holl waſ'naethwyr Duw galluog?

33 Er nad oes un gwas yn haeddu,
Cael un wobor am waſ'naethu,
Luc. 17. 10. Etto o'i ras mae Ddw yn addo,
Teyrnas nef i'r rhai gwaſ'naetho.

34 Gwas i bechod, gwas i Gythraul,
Gwas i angau triſt, trwy drafaul;
Yw pob gwas ſydd yn gwaſ'naethu,
Na bo gwas i'r Arglwydd *Jeſu*.

35 Pan y ddelo 'r angau digllon,
O flaen Brawdle Criſt. Fyn'd i'r Barr, a phob rhyw weiſion;

O!

O! p'un oreu 'r amſer hynny, 2*Pet.* 3. 7.
Was i'r cnawd, a'i gwas i'r *Jeſu.*

36 Pan y lloſco 'r byd yn chwylboeth,
A'i holl olyd, a'i holl gyſoeth;
O! p'un oreu 'r amſer triſt,
Was i'r byd, a'i gwas i Griſt?

37 Pan dderchafer plant y Drindod,
A throi i uffern weiſion pechod,
Hi fydd chwerw 'r amſer hynny,
Ado 'r Arglwydd heb waſ'naethu.

38 Mwy o ennill ſydd mewn awr,
Yng waſ'naethu 'r Arglwydd mawr.
Nag y gaffom o'n holl fywyd,
Yn gwaſ'naethu 'r byd anhyfryd.

39 Am waſ'naethu 'r byd yn gyfan,
Ni cheir ond y poen, a'r ffwdan;
A'r twyll toſt wrth fynd o hono,
Yn noeth, fel y daethpwyd iddo.

40 Am waſ'naethu 'r cnawd trwy bleſer,
A'i foddloni ag eſmwythder, *Gal.* 6. 8,
Ni cheir cyflog gantho yſywaeth,
Ond oes ferr, a llygredigaeth.

41 Am waſ'naethu un rhyw bechod,
Pe gwaſ 'naethem hwn yn waſtod,
Ni cheir gwedi 'r hir waſ'naeth,
Ganddo ond gwradwydd a marwolaeth.

42 Am waſ'naethu tad y celwydd,
Er ei fod yn cynnig gwledydd,
Nid oes droedfedd dir gan Satan,
Ond pwll uffern iddo 'i hunan.

43 Am waſ'naethu 'r Arglwydd *Jeſu,*
Y mae Teyrnas i'w meddiannu,
A gogoniant, a dedwyddwch,
A gwir fywyd mewn rhialtwch.

44 Ymrown nineu tra ſ'om byw,
Bawb i brudd waſ'naethu Duw,
Dyna 'r meiſtr i'w waſ'anaethu,
Dyna 'r gorchwyl rheita 'i bennu.

45 A meddyliwn bawb am ymladd,
A phob gelun ſy 'n ein gwrthladd;
Yn ein hatal, yn ein ſtoppi,
Weithio 'r gwaith ſydd reita i ni.

46 Ac fel gweithwyr cywyr ffyddlon;
Call, cofiadur, carcus, cyſion,
Eſay. 55.6. Cwympwn bawb i wir waſ'naethu
Duw, tro amſer gras yn gadu.

47 Oni waſ'naethwn Dduw tro 'n yma,
A thr'o amſer gras yn para,
Ni gawn fyn'd i'r pwll yn gyngan,
Ar ein pen ' waſ 'naethu Satan.

48 Yn y pwll hi fydd edifar,
Trwy ddifeirwch rhy ddiweddar,
Mor ddi bris ddirmygu 'r Drindod,
Ac mor rhwydd waſ'anaethu pechod.

49 Yno wylir halltion ddagrau,
Yno bloeddir gan y poenau:
Ond pe wylit perfedd allan,
Ni ddoir byth o grampau Satan.

50 Cwympwn bawb yn brudd gan hynny,
I waſ'naethu Duw tra i 'n ha'ddu,
A rhown ffarwel bawb i bechod,
Luc. 13. 28. Trwy lwyr droi i waſ'naethu'r Drindod.

51 Felly cawn ni pan ſo rheitia,
Gwedi 'r byrr waſ'naeth yma,
Byth waſ'naethu 'r Arglwydd tirion,
Yn y nef ym mhlith angylion.

52 I'r hon nefoedd, O! 'n Creawdwr,
Er mwyn *Jeſu Criſt*, ein Prynwr,

Dwg

Dwg 'ni oll i'th wir waſ'naethu,
Gyda 'r Saint a'th nefol deulu.

CAN. XXIV. *Am weddi a'i Pherthynaſau.*

TYNN dy 'ſcidiau cyn gweddiach,
Rhwym dy aſſen cyn aberthech,
Golch dy draed cyn mynd i'r Cymmun,
Yſtyria geiſiech cyn ei ofyn.

2 Cyn gweddio edifara, *Pſ* 118. 20.
Wrth weddio dyfal wilia;
Yn ol gweddio bydd ddiolchgar,
Felly' caiff dy weddi ffafer.

3 Y diawl a gais bob dydd dy dempto,
Y cnawd bob awr a fyn dy dwyllo,
Y byd a'i bethau 'gais d' orchfygu,
Praw' trwy weddi eu gwrrh'nebu.

4 Da yw gweddi ym mhob lleoedd, *Tim.* 2. 8.
Da yw gweddi bob amſeroedd,
Da yw gweddi dros bob dynion.
Mae'n dda gweddio 'mhob achoſion.

5 Aberth hyfryd i'r Gorucha', *Pſ.*141.9.2.
† Whip yn § ſcwrgio 'r diawl a'i dyrfa,
Nerth i'r gwan ym mhob gofidi. † Flangell.
Nawdd rhag pob drwg ydyw gweddi. §Flangellu

6 Allwedd aur i ddadgloi 'r boreu,
Bollt y nos i gau dy ddryſeu,
Twr i'th gadw rhag drygioni,
Ddydd a nos, yw Duwiol Weddi.

7 Gweddi brudd ſydd drech na dynion, *Ex.* 1. 11.
Gweddi daer a droedd Angylion, *Gen.* 19. 3.
Gweddi a fwriodd ddiawlaid allan, *Mat.* 17. 21
Gweddi orchfygodd Duw ei hunan. *Ex.* 32. 14.

Na

8 Na ddibrifia ddim o'th weddi,
Mae 'n y nef fel thus yn lloſgi,
Mae ar y ddae'r yn clwyfo Satan,
Mae 'n ennill fawr i it dy hunan.

9 Mewn ffydd a pharch a llwyr fryd calon,
Mewn Zel, ac awch a meddwl union,
Mewn deall drud a dyfal geiſio,
Mewn hyder prudd y mae gweddio.

10 Cwyn d' olygon plyg dy liniau,
Tann dy ddwylo agor dy enau;
Deffro dy Yſpryd, cur dy ddwyfron,
Llwyr weddia a'th holl galon.

11 Nid ar *Baal*, na'r *Llo*, na'r ddelw,
Sant na Santes, y mae galw,
Ond ar DDUW trwy *Griſt* yn unig,
Am bob peth ſydd arnat ddiffyg.

12 Ni wyr neb ond Duw o'n cyflwr,
Ni all neb ond Duw roi ſwccwr,
Ni chlyw neb ond Duw ein gweddi,
Ar DDUW 'n unig y mae gweiddi.

13 Duw ſy 'n erchi galw arno,
Duw ſy 'n addo rhoi ond ceiſio;
Duw ſy 'n gwrando pob prudd weddi,
Pſ. 50. 15. Duw all dynnu pawb o'u t'lodi.

14 Ni wyr *Abram*, ni wyr *Iago*,
Ym mha gyflwr yr ym ynddo;
Eſ. 63. 16. Ni wyr neb ond Duw ei hunan,
Beth yw 'n cais, a maint yw 'n cwynfan.

15 Peth perth'naſol i Dduw 'r lluoedd,
Pſ. 65. 2. Ydyw gwrando gweddi miloedd;
A ſo 'n ceiſio mil o bethau,
Ar un pryd mewn amryw ialthau,

16 Ni wyr *Mair*, i'm tyb ddim Saeſoneg,
Ni wyr *Martha* ddim Gwyddeleg;

Ni

Ni wyr *Clement* Saint, ddeallu,
Beth y ddywaid un o'r CYMRU.

17 Ni wyr *Abraham* o'n cyflwr,
Ni all *Clement* roi i ni ſwccwr,
Ni chlyw *Peder* ddim o'n gweddi,
Ar DDUW 'n unig y mae gweiddi.

18 Parcha'r Sant yn fawr yn ſychan,
Ond addola Dduw ei hunan,
Rho anrhydedd gweddus iddynt, *Mat.* 4. 10.
Etto, na weddia arnynt.

19 Ni bu Batriarch, ni bu Brophwyd,
Ni bu 'Boſtol ag y glywyd;
'Wneuthur gweddi (ar 'ddarllennais,)
Etto 'rioed at Sant, na Santes.

20 Nid oes bromais yn y 'fengyl,
I ni gael dim trwy fawr ymbil; *Jo.* 16. 23.
Ond y gaffon trwy ymbilian,
Er mwyn *Jeſu Griſt* ei hunan.

21 *Criſt* yn unig yw 'n cyfryngwr,
Criſt yw 'n twrneu, a'n dadleuwr, 1 *Tim.* 2. 5.
Nid oes arall, all gyfryngu,
Rhwng Duw a dyn ond *Criſt Jeſu.*

22 Er mwyn *Jeſu* y mae ceiſio,
Faint y geiſion wrth weddio;
A'r ddeheulaw 'r Tad mae 'n eiſte,
Er mwyn derbyn ein gweddie. *Rhuf.* 8. 34.

23 Cymred eraill hen Saint *Cathrin,*
Dewi, Clement, Martha, Martin;
Byth ni cheiſiaf fi gyfryngwr,
Rhyngwy' a Duw, ond *Criſt* fy Mhrynwr.

24 Cais yn eiriol wrth weddio,
Nerth yr yſpryd i'th gyf'rwyddo,
Ni all neb weddio 'n hyſryd, *Rhuf.* 8. 26.
Heb gyf'rwydd-deb y glan yſpryd.

Heb

25 Heb yr yſpryd ſe eller ſonio,
Am Dduw mawr, ac am weddio;
Ond ni ddichon un dyn dd'wedyd,
Wrth Dduw mawr, heb nerth yr yſpryd.

Mat. 15. 8. 26 Duw ni phriſia weddi 'r tafod,
Heb y galon, a'r gydwybod,
Gweddi 'r enaid prudd, a'r yſpryd,
O ſlaen Duw ſydd aberth hyfryd.

27 Cais a'r genau, cais a'r galon,
Un o'r ddau ſydd lai na digon;
Cydia 'r genau gydâ 'r yſpryd,
Hynny bair cynghanedd hyfryd.

28 Gwell yw 'r galon heb y genau.
I weddio ymbell weithiau;
Nag yw 'r genau heb y galon,
Gweddi o'r fath ſydd weddi ffinion.

Ex. 14. 15. 29 Gwell oedd gweddi *Moeſen* hyfryd,
Wrth ſiwrneia heb ynghanyd,
Na gwaith gwefus yr luddewon,
Yn gweddio heb y galon.

30 Cais a geiſiech trwy wir ffydd,
Na chymmer ball, ond begia 'n brudd,
Nag amme dderbyn 'r hyn a geiſiech,
O ceiſi 'n daer di gei ofynnech.

31 Ni chau 'r Adar bach o'u ſafnau,
Nes y llanwo eu mam eu boliau,
Ac ni ddylei dynion dewi,
Nes cyflawno Duw eu gweddi.

32 Rhyfedd yw mor daer y begian,
Llawer dyn, am fwyd ac arian.
Ac mor llwfr y gweddiant,
Am drugaredd, a gogoniant.

33 Hael yw Duw, i'r ſawl a'i ceiſiant,
Rhwydd yn rhoi, i'r rhai a'i hofynant,

Rhoi

Rhoi yn brudd heb ddim danodiaeth,
Rhoi eu rhaid i bawb yn helaeth.

34 Fel y gwrendu fham ar blentyn,
Y ſo 'n lleſam yn ei rwymyn ; *Job.22.27.*
Felly gwrendu Duw ein gweddi,
Pan y lleſom mewn gonidi.

35 Pa wedd na wrendu Duw dy weddi,
Lle mae 'r Yſpryd Glan yn gweiddi ; *Rhuf. 8. 2. 27.*
A *Chriſt Jeſu* 'n ymbil droſod,
A'r Ddeheulaw 'r Tad yn waſtod?

36 O's yn enw *Criſt* y ceiſi,
O's yn eiriol y gofynni ; *Jo. 16.23.*
Di gei naill a'i 'r hyn ofynaiſt,
Neu beth gwell na'r hyn y geiſiaiſt.

37 O's bydd d' Arglwydd yn ſ dehirio, ſ Oedi.
Roi y ſynnech wrth weddio,
Mae e' 'n d' amog 'geiſio 'n daerach,
Neu ddymuno rhyw beth rheitach.

38 Cais ogoniant Duw yn gynta,
Cais nefolion bethau 'n nela,
Cais ei Deyrnas, a'i gyfiawnder,
Di gei 'r cwbl heb ddim prinder.

39 Gochel geiſio tra f'ech byw,
Ddim yn erbyn 'wyllys Duw, *Mat. 6. 33.*
Digio Duw y mae dy weddi. *1 Jo. 5. 14.*
O's ceiſi 'r peth na ſynno 'i roddi.

40 Ffol yw ceiſio bydol bethau,
Pan galler cael nefolion dlyſau,
Serchu 'n ſawr mewn daear domlud,
Heb wneuthur priſ o'r nefoedd hyfryd.

41 Natur mochyn brwnt, anhygar,
Yw rhoi ei fryd ar drwyno 'r ddaear, *Col. 3. 1. 2.*
Nid naturiaeth un o'r bobloedd,
Sydd a'u Tad yn nheyrnas nefoedd.

42 Cais y peth mae Duw 'n 'i addo,
Yn ei air, ac yn ei lwo :
1*Cor*14.19. Cais y rhai'n er hyn yn weddus,
O's cenhada ei ſanctaidd 'wyllys.

43 Gwna dy weddi byth yn ddiwall,
Rhaid gweddio yn y Iaith *y ddeallom, ac nid mewn* Iaith *ddiethr fel y gwna 'r* Papiſt. Yn y Iaith a f'ech yn ddeall,
Gwell yw pum gair ag yſtyriech,
Nag yw deng-mil na's deallech.

44 Gwatwor Duw, a'i dwyllo ei hun,
Wrth weddio, y mae dyn,
Pan y ceiſio wrth friwgawthan,
Gan Dduw, 'r peth na's gwyr ei hunan.

45 Na'd i'r min rag-flaenu 'r meddwl,
Par i'r galon bwyſo 'r cwbwl ;
Mat. 15.7. 8. Ni all Duw un amſer odde,
Heb y galon, weddi 'r gene.

Jer. 17.10. *Jo.* 4. 14. 46 Duw, yw chwiliwr y calonneu,
Duw, ei hun yw Tad y goleu,
Duw, fyn weddi brudd o'r galon,
Duw, ni phriſia eiriau gweigion.

47 Tro bob meddwl aflan heibio,
Pan y byddech yn gweddio ;
A rhwym gartre' dy fydolrwydd,
Ymddiddan. Tr'ech yn † parlo, ti â'th Arglwydd.

48 Ni chae Aſyn *Abram* ſangu,
Gen. 22. 5. Lle bae *Abram* yn aberthu,
N'ad i'th fydol feddwl dithau,
Dramwy lle bo dy weddiau.

49 Megis *Abram* rhaid it darſu,
*Gen.*15.11. Pob rhyw rwyſtrau wrth aberthu,
A rhyſela a'r buſneſon,
A'th attalio i adail Seion,

50 Pa ddyſala 'ceiſio Satan.
Pan gweddiech, droi dy amcan,

Rhei-

Rheita 'gid i ti weddio,
A'i wrth'nebu nes y cilio.

51 Fel y cilia 'r llew crafangog,
Pan y clywo ganiad ceiliog ;
Felly 'cilia Satan greulon,
O'r lle ' clywo weddi ffyddlon.

52 Ni all **Bual* drigo 'n heppell,
Lle bo gwichiad Ci, neu Barchell,
Ni all Satan yntef drigo,
Lle bo dynion yn gweddio.

*ych gwylltt.

53 Oni bae fod Satan ddyrngas,
Yn gwel'd gweddi 'n rhwygio ei deyrnas,
Ac yn awchlym yn ei glwyfo,
Byth ni rwyftrei 'neb weddio.

54 Ond o' ceri Jechyd d' enaid,
A Gogoniant Duw, a'th gyfraid,
N'ad i Satan byth dy rwyftro,
Wrando 'r gair, nac i weddio.

55 Wrth weddio llef heb orphwys,
Dros bob gradd fydd yn yr Eglwys,
Ac nag arfer megis †Pagan,
Weddi 'n unig it' dy hunan.

1 *Tim.* 2. 1. 2.

† Dyn digred.

56 Nid gwir blant yr Eglwys Sanctaidd,
Ond Baftardiaid anghrift'nogaidd,
Yw pawb na weddio 'n ffyddlon,
Dros yr Eglwys, Sanctaidd *feion.*

57 O's gweddiodd *Abram* fwyna,
Dros dref *Sodom*, a *Gomora*,
Pa wedd na ddylem ni 'r Crift'nogion,
Alw ar Dduw, dros dylwyth *feion* ;

Gen. 19. *Pfal.* 51. 18.

58 Crift fy 'n erchi 'n bawb weddio,
Ar bob amfer heb ddiffygio :
A Saint *Paul* fy 'n chwennych inni,
Ym-mhob mann ymarfer gweddi.

Luc. 18. 1. 1 *Tim.* 1. 8.

Dan. 6. 10. *Pſal.* 119. 164.
59 *Daniel*, raſol a weddie,
Dair gwaith beunydd ar ei liniè,
A'r brenhinol Brophwyd *Dafydd*,
Y weddiei faith waith beunydd.

Luc. 6. 12.
60 *Criſt* ein Prynwr, ynte yn glos,
A weddie tra fae 'r nos,
Ac y dreuliei 'r dydd tra gantho,
Yn pregethu, neu 'n gweddio.

Jag. 5. 16.
61 Ym-mhob mann, ac ar bob amſer,
Y mae gweddi o fawr bwer,
O's y galon a fydd parod,
I ymbilian a'r hael drindod.

† *Mae 'n dàyledus.*
62 A'r moroedd, ar y mynydd,
Yn ein Teie, ar ein maeſydd,
Y †dirpere i'n weddio,
Ym mha fann y b'om ni ynddo.

Act. 10. 6. 9. *Pſal.* 63. 6. 139. 18.
63 Gyda *Phedr*, yn ein lletty,
Gyda *Dafydd* yn y gwely,
Gyda *Daniel* rhwng y llewod,
Y mae 'n rhaid gweddio 'n waſtod.

Lev. 6. 13. § *Gwres.*
64 Ni ddiffodde ar un tymmor
O'r tan ſanctaidd ar yr allor,
I fynegu byth na ddylau,
Ddiffodd §Zel dy weddi dithau.

Num. 28. 3. 4. *Di.* 23. 26.
65 Dyn ſydd Demh i'n Goruchaf,
Calon Dyn yw 'r Allor bennaf;
Foreu a hwyr, y mae Duw 'n ceiſio,
Cael o'th galon aberth iddo.

Num. 28. 34 *Pſal.* 55. 17
66 N'ad dy Demel, en dy ſowyd,
Foreu a hwyr, heb aberth hyfryd
Ac n'ad genoh dydd i haſio,
Heb roi clod, a molianț iddo.

‡ *Cyfeillgar.*
67 Felly byddi di ‡ffamiliar,
A'th Greawdwr, ac nawn ſiefan:

Felly

Felly cei di gan y Drindod,
Dy ryddhau, a'th helpu 'n wastod.

68 Nid oes dim a †ddarper rwystro, *Ddylai.*
Dyn ew'llysgar i weddio,
Ac i weithio 'i orchwyl hefyd,
Pa ryw bynnag fo'i gelfyddyd.

69 F'all dyn weithio ei gelfyddyd,
A gweddio 'n ddyfal hefyd,
Ni chais gweddi 'r galon rwystro,
Hynt y traed, na gwaith y dwylo.

70 Fe allei *Foesen* wrth shiwrneia, *Ex.* 14. 15.
Fe allei *Josua* wrth rysela, *Jos.* 10. 12.
Crist wrth ymdaith, *Paul* wrth forio, *Mat.* 1. 35. *Act.* 27.
Dendio eu neges a gweddio.

71 Er bod esgus yn lwedig,
Lawer pryd mewn pwyntiau pwysig,
Nid oes esgus ellir enwi,
'All d' esgyso am dy weddi.

72 Gelli beidio mynd i'r Eglwys,
Pan bech glaf o'r haint, a'th rwystrwys:
Ond er clafed blin a syddech,
Rhaid gweddio nes §departech. *ymadawech.*

73 Gelli beidio rhoi elusen,
Pan na byddoi yn dy berchen,
Ond er cymmaint a so'th d'lodi,
Nid oes peidio byth a gweddi.

74 Ym-mhob cyflwr, ar bob amser,
Y mae Gweddi yn ei themper;
N'ad gan bynny ddim dy rwystro,
Ym-mhob cyflwr, brudd weddio.

75 Yn ein tralled, yn ein gwynfyd,
Yn ein nychdod, yn ein iechyd,
Ym-mha gyflwr y b'om, ynddo,
Y gall cristion brudd weddio.

Nid

76 Nid yw carchar, nid yw cloion,
Nid yw rhwyſtrau holl blant dynion,
Na'r byd oll yn rhwyſtro gweddi,
Act. 16. 24. Fynd bob awr at Dad goleuni.

77 Tynn di dafod dyn o'r gwreiddau,
Torr ei dafod, rho ſe 'ngwarchau,
Fe all gweddi 'r galon ſaethu,
Trwy bob clo at Dduw, er hynny.

78 A'r wyl, a gwaith, ar nos. a dydd,
Ar foreu, a hwyr, caiff gweddi brudd,
Fynd at Dduw, y pryd y mynno;
Doed pan ddel, hi gaiff 'ei groeſo.

79 Er na chae'r Frenhines *Heſter*,
Fynd at y Brenhin ond rhyw amſer,
Fe gaiff gweddi heb ei rhwyſtro,
Fynd at Dduw yr awr y mynno.

80 Cwyn fel *Daniel* ar y wawr-ddydd,
Cwyn di ganol nos fel *Dafydd*,
Pſal. 119. 19. Mae Duw 'n barod gwrando 'geiſiech,
Galw arno 'r awr y mynnech.

81 Er na ddichon dyn ei hunan,
Fynd i'r nef at *Griſt*, i 'mddiddan,
Fe gaiff gweddi heb ei rhwyſtro,
Fynd at Dduw, yr awr y mynno.

§ *Awyr.* 82 Trwy'r gwynt, a'r glaw, trwy'r §Air a'r (tonnau,
Trwy 'r ſer i gyd, a'r holl blanedau,
Yr aiff gweddi fel † llycheden,
O flaen Duw, uwch law 'r ſſurfafen.

† *Mellten.* 83 Ni all nef, na daear, na dynion,
Awdurdodau, nac Angylion,
Rwyſtro gweddi gael ymddiddan,
Bob yr awr â Chriſt ei hunan.

84 Nid rhaid iddi ofyn cennad,
Seimon Peder, i gael agoriad,

Yr

Hi gaiff mynd trwy 'r holl Angylion,
O flaen Gorſedd Criſt yn * eon. * *Hyſ.*

85 Hi gaiff gan Dduw, wrando ei chyſur,
Hi gaiff gan Griſt i bledio ei dolur,
Hi gaiff gan yr yſpryd riddfan, *Rhuf.* 8.26.
Ac och'nedio droſti 'n gyngan.

86 Ni thry rhoddwr pob daioni,
Adre 'n waglaw o'th brudd weddi,
Ond ſe leinw Criſt ei mynwes, *Eſay.* 45.
Ac a'i nertha i gael ei neges. 19.

87 Oni chaiff hi 'r hyn a geiſio,
Hi gaiff well na hynny gantho,
Can's ni edy Criſt un amſer,
Weddi ffyddlon fynd yn ofer.

88 O! pa ddyled ſ' arnom 'roddi;
I'r gwir Dduw, am oddeu 'n gweddi,
Fynd o'i flaen yr awr y mynnom,
A chael gantho 'r hyn a geiſiom.

89 Braich yw gweddi ſy 'n cyrhaeddyd, *Gweddi yn yr Yſbryd.*
O'r byd hwn i'r Nefoedd hyfryd,
Ac yn cymryd o dryſorau
Duw, beth bynna ſ' arni eiſiau.

90 Gweddi brudd ſydd gennad hy,
A red dros ddyn i'r Nefoedd fry,
Ac y gaiff bob awr ymddiddan,
Yn ddi ſtop, â Duw ei hunan.

91 Gweddi laddodd Gawr tra chadarn, *Sam.* 17. 45.
Gweddi 'gorodd byrth o haiarn, *Act.* 12 5.
Gweddi gauodd ſafnau llewod, *Dan.* 6.
Gweddi dynn ddyn o bob trallod.

92 Gweddi glodd y nef yn hir, *Pſal.* 34. 17.
Gweddi droes y môr yn dir, *Jac.* 5. 17.
Gweddi wnaeth i'r meirw g'odi, *Exod.* 14.
Nid oes dim mor gryf a Gweddi. 1 *Bren.* 17. 21.

93 O! pa ddioleh ſ'annom roddi?
I'r gwir Dduw, am adael Gweddi,
Fyned atto 'r awr y myhom,
A chael gantho 'r pethau geiſiom.

94 Clod a Gallu, Diolch, Moliant,
Parch, Anrhydedd, a Gogoniant;
A ſo i Roddwr pob daioni,
Sydd mor ſwyn yn gwrando 'n Gweddi. *Amen.*

XXV. *Rhybydd i ddyn feddwl am* Dduw, *y boreu, pan ddihano gyntaf o'i gwſg.*

Y Bore pan ddihunech gynta,
Cod d' olygon at JEHOFA;
Meddwl am ei ſoli 'n ddiwall,
Cyn meddyliech am ddim arall.

2 Cofia mae Duw, oedd y Ceidwad,
Y ſu neithiwr yn dy wiliad,
Heb roi amrant iddo' gyſgu,
Rhag i'r llew dy ladd, a'th lyngcu.

Pſal. 34.5. 3 Oni bae Duw, a'i Angylion,
Sy 'n caſtellu o bob tu 'i weiſion,
Dyn ni byddai heb ei lyngcu,
Gan y gelyn tra fae 'n cyſgu.

4 Meddwl dithau faint yw 'r dyled,
Y ſydd arnad i'r Gogoned,
Am dy gadw mor ddihangol,
Rhag y Gelyn yn waſtadol.

5 Megis y mae 'r dyled arnad,
Rho fawr foliant iddo 'n waſtad,
Ac abertha ar dy linieu,
Ddiolch iddo, nos a boreu.

Di-

CAN. XXVI. *Cyngor wrth weddio.*

PAN yr elech i weddio,
Edifara am aeth heibio, *Jo. 9. 31.*
A llwyr ymolch o'th holl frynti;
O's dymyni wrando 'th weddi.

2 Duw ni wrendu bechaduriaid,
A fo 'n byw mewn pechod diriaid;
F' orfydd 'madael a drygioni,
Cyn gwrandawo Duw dy weddi.

3 O's mewn malais, rhyfig mwrddro, *Eſay. 1. 15.*
Llid, a thrais, y de'i i weddio;
I dŷ Dduw ar ben dy liniau,
Duw a'th wrthyd, a'th weddiau.

4 Melldith *Moab* fydd yn cwympo,
Ar yr anwir wrth weddio,
Ceiſio maent heb gael eu canlyn,
Am fod dwylo rhai'n yn 'fcymmyn.

5 Y neb a alwo ar yr Arglwydd,
Ymadawed a'i halogrwydd, *1 Tim. 2. 8.*
Ac ymolched ei ddwy ddwylo,
Oddiwrth waed, o' cais ei wrando.

6 Tirion yw Duw, a thoſturiol,
I'r rhai a fyddo edifeiriol; *Joel 2. 12.*
Edifara am dy frynti,
Ac fe wrendu Duw dy weddi.

7 O's 'difari am y cwbwl,
Pet fae'th fai mor goch a'r pwrpwl, *Jer. 4 14.*
Criſt a'th olch mor wynn a'r lili,
Ac a wrendu yn rhwydd dy weddi,

8 Pan y delech i weddio,
Tro bob meddwl ofer heibio,
A rhwym gartref dy fydolrwydd, † *Ymddiddan.*
Trech yn † parlo ti a'th Arglwydd.

9 Brwnt yw gweled pacc a ffardel,
Ar dy gefen yn y demel;
Bryntach yw gwel'd dy fydolrwydd,
Pan gweddiech ar yr Arglwydd.

10 Pan gweddiech galw 'n gymmwys,
A'r Dduw, dros bob ſtat o'r eglwys,
†*Angredadyn.* Ac nac arfer megis †*Pagan*,
Weddi 'n unig it dy hunan.

11 Galw 'n gynta dros Frenhinoedd,
Am gael gras i drin eu pobloedd,
1*Tim.* 21.2. Mewn gwir grefydd, a llonyddwch,
Hedd, uniondeb, a dedwyddwch.

12 Gwedi'n galw dros Eglwyſwyr,
Eph. 6. 19. Am gael gras i draethu 'n eglur,
Holl ddirgelwch yr Efengyl,
A phregethu 'r gwir yn rhigyl.

13 A gweddia dros Swyddogion,
A'r i DDUW roi grym a chalon,
Iddynt goſpi pob rhyw droſedd,
† *Cynnal.* A † maintainio ffydd a rhinwedd.

14 Cais gan DDUW fendithio hefyd,
Pob 'ſcolheigion o gelfyddyd,
Fel y gallont lenwi 'r gwledydd,
A goleuni, moes, a chrefydd.

15 Nac anghofia o'r cyffredin,
Ond gweddia hefyd droſtyn,
Fel y gallont fyw 'n eu galwad.
Mewn ufudd-dod, hedd, a chariad.

16 A gweddia dros drüeiniaid,
Sydd mewn trallod, cyſtudd embaid;
Ar i DDUW doſturio wrthynt,
A rhoi help, a chymfforddd iddynt.

CAN. XXVII. *Diolch foreuol pan ddihunech.*

DUW fy Nghеidwad, Duw fy Nghryf-
Duw fy 'nghaſtell rhag y drygwr, (dwr,
Derbyn foliant ar fy nwylo,
Am fy nghadw 'r nos 'aeth heibio.

2 Rwyt ti 'n gwiliad 'dau tu 'ngwely,
Ddydd a nos tra fyddwi 'n cyſgu,
Ac yn tannu d' adain droſof,
Pan gollyngi 'r Byd yn angof.

3 'R wyt yn rhoddi i'm eſmwythder,
A llonyddwch mawr bob amſer, † *Adfywio.*
Gan † reffreſhio beunydd felly,
F' egwan gorph â melus gyſgu.

4 Ni winc, ni chwſg, ni hûn, ni heppian,
Fy Nhad graſol tra fwi 'n § ſlwmbran,
Ond fe'm ceidw yn ei geſſel,
Tra fwi 'n cyſgu yn ddïogel. § *Gogyſgu.*

5 Pa ſeth ffafar yw hon ymma,
Dy fod ti y Brenhin mwya,
Yn ymoſtwng i ddiwallu,
Llwch a lludw, tra ſo 'n cyſgu?

6 Byth ni bydda'i 'n abal rhoddi,
Y ddegfed ran o ddiolch i ti,
Ag ſydd arnaf (Dad caredig)
Am y ffafar hon yn unig.

7 Clod a gallu, diolch, moliant,
Gwir anrhydedd, a gogoniant;
A ſo nos a dydd, i'r Drindod,
Sydd mor ddi-ſlin yn fy ngwarchod.

CAN. XXVIII. *Rhybydd i ymgadw rhag meddwl dim, cyn ymddiddan a* Duw *trwy weddi.*

GOCHEL feddwl dim a'th galon,
Gochel edrych a'th olygon,

Gochel dd'wedyd dim a'th eneu.
Nes moliannu Duw y boreu.

2 Rho iddo flaen-ffrwyth dy wir galon.
Blaen-ffrwyth d' eiriau a'th feddylion;
Ex. 34. 26. Duw a fyn y ffrwythau cyntaf,
Ni fyn Duw na'r ail na'r olaf.

3 Cynta peth a wna 'r *Uchedydd*,
Moli Duw. pan torro 'r wawr-ddydd;
Cynta peth a ddylei dynion,
Foli Duw, o ddyfnder calon.

Rhunudd. 4 * *Rhobin*, bach cyn glycho 'i eneu,
A gân i'r Arglwydd Salm y boreu,
Am ei gadw 'r nos rhag niwed,
Er bod gwely hwn yn galed.

5 Llawer dyn yn waeth na'r 'deryn,
'Gwyn o'i wely megis mochyn,
Heb gydnabod Crift ei Geidwad,
Na rhoi diolch am ei warchad.

6 Peth c'wilyddus i blant dynion,
Fod yn waeth na'r Adar gwylltion,
Sy 'n clodfori nos a boreu,
Duw, mor ddyfal am ei ddonieu.

CAN. XXIX. *Myfurdod foreuol, yn cyffroi* dyn i fod yn ddiolchgar i Grift am ei gadwriaeth.

MEDDWL fal y gall'fei Satan,
Yn dy gwig dy ladd heb yngan,
A'th ddwyn i'r farn yn amharod,
Oni buafei Grift dy warchod.

2 Meddwl fal y gall'fei 'r Gelyn,
Oni buafe i Grift d' amddiffyn,
Job. 1. Ladd dy blant, a dwyn dy gyfoeth,
Lloſci 'th dŷ, a'th flino boenoeth.

Cofia

3 Cofia fal y gall'ſei 'th daro,
Ag ynfydrwydd nes gwall-bwylle,
Fal na allaſid ddim o'r cyſgu,
Oni buaſe i Griſt ei nadu.

4 Bydd gan hynny 'n dra diolchgar,
I'th wir Geidwad am ei ffafar,
Yn dy gadw mewn eſmwythder,
Rhag y Gelyn yn ddi-bryder.

CAN. XXX. *Diolch i* Griſt *am amddiffyniad, ac eſmwythder.*

O Fy Ngheidwad, o fy mugail,
'R hwn a'm cedwaiſt yn dy geſel,
Neithiwr, rhag i'r blaidd fy llyngcu,
'R wi o'm calon i'th glodfori.

2 Dan dy adain (Criſt) di 'm cedwaiſt,
Yn dy freichieu di 'm coſteidiaiſt,
Rhoddaiſt i mi brudd eſmwythder,
'R wi 'n ddiolchgar am dy fwynder.

3 Nedaiſt Satan i'm difethu,
Nedaiſt ddynion i'm gorthrymmu,
Nedaiſt dân, a gwynt, fy 'ſpeilio,
Nac anhunedd i'm di-huno.

4 Bendigedig a fo d' enw
Criſt, fy Ngheidwad am fy nghadw,
A gogoniant i ti 'rodder,
Am roi i mi 'r fath eſmwythder.

CAN. XXXI. *Mor enbydus yw cuſgu mewn Eſmwythder, heb heddwch a* Duw.

MWY yw † perig dyn fy 'n cyſgu,
Yn ei wely heb §nawdd *Jeſu.*
Nag oedd perig *Daniel* hynod,
Gynt, wrth gyſgu rhwng y llewod.

† *Enbydrwydd*
§ *Amddiffyniad.*

2 Y mae 'r 'Scrythur yn mynegi,
Fod y Diawl yn troi o bobtu,
Pſal. 5. 8. Ddydd a nos yn ceiſio llarpio,
Megis llew pwy bynnag allo.

3 Pwy ſy 'n rhwyſtro 'r llew i'n llyngcu,
Ond ein Ceidwad mawr, Criſt *Jeſu*,
'R hwn ſydd nos a dydd heb heppian,
Pſal. 121. 4. Yn cadw ei braidd rhag rhythrau Satan.

4 O gan hynny bydd ddiolchgar,
I'th wir Geidwad am ei ffafar,
Yn dy gadw mor ddi-bryder,
Rhag y llew mewn mawr eſmwythder.

CAN. XXXII. *Cynhyrfiad yn cyffroi dyn, rhag cywilydd i fod yn ddiolchgar i* Criſt *am ei gadw 'r nos rhag niweid.*

PE bae *Iuddew yn dy warchod,
Tra fae ti yn cyſgu rhwng bwyſtfilod,
Rhoit ddiolch iddo fil o weithau,
Am dy gadw o'u crafangau,

2 Er bod Criſt ei hun i'th warchod,
Tr'ech yn cyſgu rhwng y llewod,
Sydd bob awr yn ceiſio 'th lyngcu,
Ni roi ddiolch iddo er hynny!

3 Agor d' olwg, gwel ei ffafar,
Cymmer rybudd, bydd ddiolchgar,
A rho ddiolch ar dy ddau-lin,
I Criſt *Jeſu* am d' amddiffyn.

4 Felly ceidw Criſt di 'n waſtod,
Ac y tann ei adain droſod,
Ac a'th geidw mewn eſmwythder,
Rhag pob perig yn ddi-bryder.

Mae dynion diadgenedledig, yn fwy parod i fod yn ddiolchgar am eu gwaredigaethau i rywail achoſion, nac i'r Arglwydd *ei hun, yr hwn ſydd yn Llywodraeth'u'r cwbl.*

Rhy-

CAN. XXXIII. *Rhybudd i ddyn wrth ddilladu ei gorph i weddio am ddialld, ac arfau i'r enaid.*

PAN y b'ech yn gwiſgo 'th ddillad,
Cais arfogaeth Duw, a'm danad,
Fal y gallech ymladd ynthyn,
Megis Criſtion, a phob gelyn.

2 Nid wyt nes er dillad twym-glyd,
I guddio 'r cnawd, i attal anwyd,
Oni bae it gael pilyndod,
I attal bai, i guddio pechod.

3 Cais gan hynny holl arfogaeth,
Duw, i'th gadw rhag gelyniaeth, *Eph.* 5. 11.
Ac rhag pechod, ac rhag trafaul,
Twyll y byd, a'r cnawd, a'r cythraul.

4 Heb y rhai'n nid ym ond noethion,
I ryfela a'n gelynion,
Ac nid poſibl i neb hebddyn,
Gael y tr'echa' ar un gelyn.

CAN. XXXIV. *Cweddi wrth ymwiſgo yn erfyn Arfogaeth* Duw *i'th gadw rhag gelyniaeth a phechod.* Yr ail Ran.

GWISG dy § Armwr oll am danaf,
O fy Nghelwad galluoccaf;
Fel y gallwyf megis Criſtion,
Ymladd ynddynt a'm gelynion. § *Arfau.*

2 N'ad o'm coryn hyd fyngwanddau,
Un rhyw aelod heb ei harfau,
Rhag fy nghlwyfo gan y temptiwr,
Lle bo eiſieu un rhyw armwr.

3 N'ad i'r Byd a'i ofer bethau,
N'ad i'r cnawd a'i nwyfys chwantau,
N'ad i'r Diawl a'i rythrau 'Scymmyn,
Beri immi bechu 'n d' erbyn.

Ond

4 Ond rho immi rym a chryfdwr,
I orchfygu pob gwrth'nebwr,
Ac i ymladd dan dy faner,
Nes i'm dygech i'th eſmwythder.

CAN. XXXV. *Arall wrth wiſgo.*

CRIST fy Nghraig a'm Iechydwriaeth,
Sal. 16. 2. 31. Gwiſg am danaf dy Arfogaeth,
N'ad un aelod heb ei gwiſgo,
Rhag i'r gelyn fy anrheithio.

2 Gwiſg y pen â helm y gobaith,
1 *Thej.* 5.8. *Epb.* 6. 14. Breſt a'r ‡ groſlet gyfiawn berfiaith
Lwynne â gwregis gwir ddifeirweh,
Traed â 'ſcidiau 'fengyl heddweh.

‡ *Dwyfronneg.*

3 Rho dy air yn gleddyf i mi,
Ffydd yn * fwccler i ddiffoddi
Holl biccellau tanllyd Satan,
A phrudd weddi i ſefyll allan.

Epb. 6. 16.

4 A rho rym fel milwr ffyddlon,
* *Tarian.* I ryfela a'm gelynion,
Rhythrau Satan, chwantau cnawdol,
Twyll y byd, a phechod marwol.

5 A rho gymmorth i'w gorchfygu,
A'u daroſtwng a'u gwrth'nebu,
Fel y gallwyf byth dy addoli,
Megis plentyn i'r goleuni.

CAN. XXXVI. *Rhybudd wrth ymolchi.*

PAN yr elech i ymolchi,
Cais yn daer gan DDUW trwy weddi,
Exe. 37 23, Olchi d' enaid oddiwrth bechod,
A'i lanhau â gwaed y cymmod.

2 Nid wyt nes er dw'r yr Afon,
I olchi 'r cnawd oddiwrth anrheddion,

Nes

Nes y golchech dy gydwybod,
A gwaed Criſt, oddiwrth dy bechod. *Heb.* 9. 12.

3 Nid wyt nes er wyneb glân,
A chalon front, heb ras, heb rân,
Ni foddlonir y Duw pûr,
Ag wyneb glân, heb galon † glur. † *Ddi ddichell.*

CAN. XXXVII. *Gweddi ferr wrth ymolchi.*

GOLCH o Griſt, â'th waed fy mhechod
Golch fy enaid, a'm cydwybod, *Sal.* 51. 2. 7.
Golch fy meddwl oddiwrth wegi,
Golch fi 'n llwyr oddiwrth fy mrynti.

2 Golch fy mhen, a'm traed, a'm calon,
Fel y golchaiſt d' Apoſtolion ; *Jo.* 13. 5.
Sych â'r tywel main fy mrynti,
A rho d' yſpryd ſanctaidd immi.

3 Golch fi 'n neigrau gwir 'difeirwch,
Golch fi 'n ffynnon gras, a heddwch, *Zecb.* 13. 1.
Golch fi â'th waed mor wynn a'r lili, *Dat.* 1. 5.
Fal y gallwi 'n bur d' addoli,

CAN. XXXVIII. *Gweddi foreuol, i'w harferu ar ol codi ac ymolchi.*

DUW trugarog, Tad toſturi,
Er mwyn Criſt rho bardwn immi
Am fy meiau oll, a'm pechod, *Pſal.* 40. 12.
Sydd mewn rhif yn fwy na 'r tywod.

2 Nid oes pwngc o'th holl gyfreithiau,
Na's troſeddais, 'llwyr, gwae finnau,
Nag un dawn a roddaiſt immi,
Na's arferais ar ddrygioni.

3 Drwg fy nhub, a gwaeth fy ngweithred,
Brwnt fy nhaſod, maith fy hocced ;

Poeth fy natur, oer fy ngweddi,
Arglwydd maddeu 'r cwbl immi.

4 Maddeu 'r maint a wnes i'th erbyn,
Pſal. 25. 7. O bechodau er yn blentyn;
Ac na thywallt ar fy llety,
O'r dïalau. 'maent yn haeddu.

5 Ond rho ras, a chymmorth immi,
O hyn allan dy addoli,
A'th was'naethu mewn ſanctteiddrwydd,
Pur uniondeb, ac oneſtrwydd.

6 Tynn bob rhwyſtyr ſydd i'm hattal,
I'th was'naethu di yn ddyfal,
A rho bwer yn ol hynny,
I mi 'n ddi-flin dy was'naethu.

7 Llwyr ddiwreiddia o'm calon ofer
Yr holl frynti fum yn arfer;
A gwir blanna yn eu cyfle,
Ras, a dawn, tra chwyth i'm gene.

Exo. 20. 8 Dyſg fi gadw dy orchmmynion,
A'u gwir garu â'm holl galon,
A'u cymmeryd yn lle rheol,
I fyw wrthynt yn waſtadol.

9 A chyf'rwydda â'th lân yſpryd,
Fi i reoli fy holl fywyd,
A'm holl eiriau, ac amcanion,
Yn ol d' 'wyllys, a'th orchmmynion.

10 Arglwydd, ffrwyna fi rhag pechu
Byth yn d' erbyn, mwy ond hynny;
A rho bwer imni 'n waſtod
'Gael y trecha' 'n erbyn pechod.

11 Helpa fi 'ryfela 'n erbyn
'Byd, a'r cnawd, a'r cythraul 'ſcymmun,
Fal y gallwyf gael y goron,
A gorchfygu fy ngelynion.

Tanna

12 Tanna droſwyf d' adain raſol,
Cudd fi dani yn waſtadol ; *Pſal.* 17.8.
N'ad un gelyn 'wneuthur niweid,
Mewn un modd, i'm corph, na'm henaid.

13 Cadw fi rhag cwrp a thramcwydd, *Ex.* 23.33.
C'wilydd, colled, anhap, aflwydd ;
Nychdod, niweid, a'r fath hynny,
O's bydd d' 'wyllys yn cenhadu.

14 Nertha fi â'th yſpryd ſanctaidd,
'Dreulio 'r dydd hwn yn griſt'nogaidd, 1 *Theſſ.* 4.
Trwy gymmeryd poen i'm galwad, 11.
I'th was'naethu 'n brudd yn waſtad.

15 Par i'm dreulio 'r dydd preſennol,
Mor ddeallus, ac mor ddeddfol,
A phe gwypwn ar y § ſiraf, § *Siccraſ.*
Mae 'r dydd hwn yw 'r dydd diweddaf.

16 N'ad fi oedi gwella 'muchedd,
O ddydd i ddydd, hyd fy niwedd,
Ond tra heddyw byth yn para, *Heb.* 3.7.8.
Par yn ddyfal immi wella.

17 Na'd i'r cnawd rhyfygus, embaid,
Beri immi ddamnio, f' enaid,
A'i rhoi boeni yn dragwyddol,
Am ychydig o bleſer cnawdol.

18 N'ad i wagedd y byd yma, *Preg.* 1. 28,
'R hwn fel llwydrew a ddiflanna,
Beri i'm golli gwir lawenydd,
A mawr fraint y byd na dderfydd.

19 Tra fo 'r dydd a'r goleu 'n para,
Par i'm weithio a'r yr eitha, *Jo.* 12.35.
Y peth y berthyn at fy * Iechyd,
Rhag i'r nos fy ngorddiweddyd. * *Iechydwriaeth.*

20 Par i'm fod bob awr yn barod,
Ag † oyl i'm lamp, a'm goleu 'n gwarchod, † *Olew.*

Tra b'o Criſt i'm gwa'odd i'r neithior,
Tra ſ'o 'r nef, a'r porth yn agor.

21 Pan bwy ſiccra yn y carn,
Par i'm feddwl am dy farn,
A'r dydd dû y gorfydd atteb
Ar y * barr, am bob ffolineb.

* *O ſlaen ei orſedd-ſaingc.*

22 Gwna i'n feddwl a'm y cyfri,
'Orfydd arnom bawb ei roddi,
Am y pechod lleia 'wneler,
Mat. 12. 36. Hyd y nod ein geiriau ofer.

23 Croeſa 'n awr i maes o'th lyfr,
Yr holl frynti ſum i 'n wneuthur;
Eſ. 40. 2. Ac na thafla yn fy nannedd
Ddydd y farn, o'm cas anwiredd.

24 Maddeu 'n awr yr holl dalentau,
S' arnai o ddyled yn dy lyfrau;
† *Deleu.* A llwyr † flotta â gwaed *Jeſu*,
'R hattling eitha ſy arna i dalu.

25 Gwedi maddeu 'r cwbwl yma,
Nertha fi ddiweddu 'ngyrfa,
Fel y gallo f' enaid orphwys
Gyda Chriſt, ynglân Baradwys.

26 Lle caf gydâ 'r holl Angylion,
§ *Ammau.* A llu 'r nef heb § ddowt, nac ofon
Pſal. 16. 11. Dy foliannu trwy lawenydd,
Mewn dedwyddwch yn dragywydd. *Amen.*

C A N. XXXIX. *Rhybudd i ymgadw tra ſo 'r dydd, rhag Rhythreu 'r Byd, y Cnawd, a'r Cythraul; ac i wiſgo, Arfogaeth* Duw *yn eu herbyn.*

Y N y mann yn ol it g'odi,
Cofia ſod tri Gelyn itti,

Rhai

'Rhai amcanant dy andwyo.
Oni ymgedwi rhag dy dwyllo.

2 Yr un gwanna o'n gelynion,
Sydd gann cryfach nac un Criſtion,
Oni chawn ni gan Griſt *Jeſu*,
Nerth ac arfau i'w gorchfygu.

3 Llef gan hynny ar dy Brynwr,
Dy § ffwrneiſhio megis milwr,
A'i Arfogaeth, ac â chalon,
I orchfygu dy elynion.

§ *Dacly.*

CAN. XL. *Yr Arfogaeth Yſprydol, a ddylei pob gwir Griſtion ei gwiſgo a'i harferu.*

GWISG dy Ben â helm Criſt'nogaeth,
Gobaith gref am Iechudwriaeth,
N'ad i'r Sarph, na'r Diawl dy glwyfo
Ar dy Ben trwy anobeithio.

Eph. 6. *Ond bydded ſail gennit am dy obaïth.*

2 Gwiſg cyfiawnder am dy ddwyfron,
Ni all diawl â § dwbl Ganon,
Wneuthur byth un drwg na niwed,
I'r rhai 'wiſgo 'r cyfryw † groſled.

§ *Eithof cyfrwyſtra uſſern.*

† *dwyſroneg.*

3 Rhwym dy ganol â gwirionedd,
Na ragreithia yn dy fuchedd;
Hardd, a chryf, a chryno odiaeth,
Ydyw gwregis gwir, diragreith.

4 Gwiſg dy draed â 'Sgidiau 'r 'fengyl;
Bydd ddioddefgar ym mhob treigyl;
Can's trwy oddef llawer trallod,
Y mae myn'd i lys y Drindod.

Act. 14. 22.

5 Cymmer fywiol ffydd yn ‡ fwccler,
Derbyn frath, a ſaethau 'r wiber,
Bywiol ffydd yng Nghriſt a all,
Ddiffodd tanllyd ſaethau 'r fall,

‡ *Tarian.*

Cymer

6 Cymmer awchlym gleddau 'r yſpryd,
Cymmer air y 'Sgrythur hyfryd,
Eph. 6.17. Dyna 'r cleddyf llymm ei lafan,
Dat. 2. 17. Sy 'n rhoi ffwyl, a chlwyf i Satan.

7 Cadw arfau Duw yn waſtad,
Cymmain' un, bob awr am danad;
Sal. 149.6. N'ad un pryd dy ddala hebddyn,
Rhag dy glwyfo gan y gelyn.

8 A gweddia ar y Drindod,
Am gael grym, a gras i orfod
Y tri gelyn hyn yn waſtad,
A gwas'naethu Duw yn d' alwad.

9 O's cwrdd Satan â ni 'n noethion,
Heb arfogaeth Duw am danon,
Mor eubyd yw bod heb Arfau Duw. Mae e' 'n chwareu 'n doſt â hwnnw,
Sydd heb Armwr ganthoi 'm gadw.

10 O's bydd y pen heb Helmet ddilys,
Breſt heb bais, neu lwyn heb wregys,
Troed heb eſgid, llaw heb gleddeu,
'Sarph a'u clwyfa, gwnawn ein goreu.

11 Bydd gan hynny megis milwr,
Yn dy gylch, bob awr, a'th *armwr,
**Arfogaeth.* Ym mhob mann yn dyfal wilio,
Rhag i'r Gelyn dy anrheithio.

CAN. XLI. *Rhybydd i ddyn ymgadw ymmhob lle rhag rhwydeu Satan.*

Hos. 5. 1. PAN yr elech gyntaf allan,
Gochel ddirgel rwydau Satan,
'R hwn ſy 'n ceiſio dy fachellu
A'r bob cam, a'th hela i bechu.

2 Mae e' 'n fawr ei lid a'i hocced,
Mwy ei dwyll, na'i rym, er cryfed,

Mae

Mae fel Llew, yn troi o bob tu
Ddydd a nos, yn ceiſio 'n llyngcu. 1 *Ped.* 5. 8.

3 Hocced Sarph, llidïawgrwydd Gwiber,
Cryfder Llew, ffyrnigrwydd Teiger,
Awydd Blaidd, bradwriaeth Cadno,
Sydd gan Satan, lle tramwyo.

4 Nid yw 'n cyſgu, nid yw 'n gorphwys
Nos na dydd, er pan y cwympwys,
Ond amcanu lladd a mwrddro
Am ei chwyth, pwy bynnag allo.

5 Bydd gan hynny ar dy wachel,
Ym-mhob mann, rhag rhwyd y cythrel,
Cais gan Griſt bob awr dy helpu,
Criſt a'th nertha ei orchfygu.

CAN. XLII. *Gweddi yn erbyn Rythrau Satan.*

PORTHOR mawr y pwll di waelod,
Ceidwad dryſau uffern iſſod,
Rhwymwr Satan, llyngcwr angau,
Clyw fy ngwaedd o'th nefol artrau,

2 Y mae Satan 'r hwn orchfygaiſt,
A'r ddraig waedlyd 'r hon a rwymmaiſt,
Yn amcanu fy ‡ andwyo,
Oni chaf dy help i'w ffrwyno. ‡ *Anaſu.*

3 Mae ef nos a dydd heb Gyſgu, *Ped.* 5. 1.
Megis llew yn ceiſio 'm llyngcu,
Ac yn barod i'm † defowro,
Oni chedwi di fi rhagddo. † *Diſa.*

4 Mae e' 'n tannu ei groglathau,
Ddydd a nos ar draws fy llwybrau,
Nid oes llun na ſyrthiaf iddynt,
Oni chedwi di fi rhagddynt.

Nid

5 Nid oes afal teg gwa'rddedig,
Na b'o beunydd yn ei gynnig;
Nac un pechod na b'o 'n ceiſio
Gennif ' wneuthur i'th lwyr ddigio.

6 Nid oes twrn da ſ'wy 'n amcanu,
Na b'o 'r ddraig yn ceiſio ei nadu,
§ *Attal.* Ac yn § dyor yn rhy fynych,
Y gwaith goreu ſ'wy 'n ei chwennych.

7 Ni chaf fwyta pryd o fara,
Ni chaf gyſgu mewn eſmwythdra;
Ni chaf yfed dracht o ddïod,
Na b'o 'n ceiſio ei droi yn bechod.

8 Ni chaf dd'wedyd gair o'm genau,
Na gweddio ar ſy ngliniau,
Na b'o Satan yn amcanu,
Wrth weddio beri 'm bechu.

9 Pan b'o mwya chwant ſy nghalon,
I'th was'naethu (*Feſu*) yn ffyddlon,
Dyna 'r pryd y cais ſy rhwyſtro.
A'r holl ddichell, a ſo gantho.

10 A phe baet ti 'n gadael iddo,
Redeg arnaf heb ei ſtrwyno,
Gwnn na byddei well ſy nhreigil,
Nag oedd diwedd *Job*, a'i eppil.

† *Diddyma.* 11 Arglwydd, gwel ei waedlyd ſwriad,
† Tola ei falchder, torr ei ruad;
Rhwym ei ferr, byrrha ei gadwyn,
Yſiga ei ſhiol, a ſtoppa ei wenwyn.

Luc. 11, 22. 12 Tydi Criſt ſy 'n rhwymo 'r wiber,
Ti ſy a'r gadwyn am ei ddwy-ferr,
Tydi 'ſpeiliodd o'i holl arfau,
Tydi, gadwodd ein heneidiau.

† *Arfogaeth.* 13 Gwiſg dy † armwr oll am danom,
Dod dy rymmus yſpryd ynnom,

Dyſg

Dyſg ein dwylaw i ryſela,
Na'd i'th weiſion ' gael y gwaetha.

14 N'ad, O Grift, i'r Sarph ein twyllo,
N'ad i'r wiber ein handwyo ;
N'ad i'r llew ein lladd a'n llyngcu,
N'ad i'r gelyn ein gorchfygu.

15 Gwann ym ni, a chryf yw yntau,
Can mil, cryfach Crift, wyt tithau,
Nertha'n gwendid trwy dy gryfdwr,
I orchfygu ein gwrth'nebwr.

16 Call yw 'r Sarph, a dwl ym ninneu,
Doeth yw 'r ddraig, a llawn bachelleu;
Oni helpi di ni 'n prynwr,
Fe â'th bridwerth gan y bradwr.

17 Gwna ni 'n ddoeth i wel'd ei rwydau,
Ffel i wechlyd ei groglathau,
Cryf i † wrthladd ei ddichellion,
Call i wrthod ei gynhigion.

† *Gwrthwynebu.*

18 Arglwydd edrych ar dy weiſion,
Nertha 'th frodyr ' gael y goron,
Helpa bawb ſydd dan dy faner,
'Ddwyn eu croes a throedio 'r wiber.

C A N. XLIII. *Cynghorion yn erbyn profedigaethau Satan.*

O'S promeiſia Satan itti,
Dai a thiroedd am ei 'ddoli
Dywaid nad oes droedfedd fechan, *Mat.* 4. 8. 9.
Ond pwll uffern ganddo ei hunan.

2 O's bydd Satan yn dy annog
I halogi gwraig cymmydog ; *Heb.* 13. 4.
Dywaid ſod dialau 'n barod,
A barn Duw am gyfryw bechod.

3 O's cais Satan gennyt feddwi,
§ *Yfed.* A § charowſio gwin yn wiſgi,
1 *Cor.* 6. 1. 10. Dywaid yr â'r holl rai meddwon,
Ddydd y farn i'r tân a'r brwmſton.

4 O's cais Satan gennyt dyngu
Zech. 5. 2. 3. Cîg a gwaed yr Arglwydd *Jeſu*,
Heb. 10. 29. Dywaid nad oes un rhyw bechod,
Waeth na chablu gwaed y Cymmod.

5 O's cais Satan gennyt dreiſio,
Ex. 22. 22. 23. Y rhai t'lodion, a'u handwyo,
Di. 22. 22. 23. Dywaid nad gwaeth pigo Llygad,
Criſt ei hun, na threiſio 'r ymddifad.

6 O's cais gennyt wneuthur ffalſtedd,
Ac udoniaeth, ac anwiredd,
Mal. 3. 5. Dywaid fod Duw 'r barnwr cyfion,
Jer 17. 11. Yn ei breintio ar dy galon.

7 O's cais gennyt mewn dirgelwch,
Jo. 34. 21. 22. Weithio gweithred y tywyllwch;
Dywaid fod Duw, â ſaith Lygad,
Ym mhob mann yn edrych arnad.

8 O's cais Satan gennyt gablu
Dy gyd Griſtion gwedi 'nafu;
Dib. 17. 5. Mae e' 'n ceiſio megis bradwr,
Gennyt gablu dy Greawdwr.

9 O's cais gennyt dd'wedyd celwydd,
Mae 'n amcanu yn ddi-gywilydd,
Dat. 21. 8. Ladd a dwyn dy enaid gwirion,
I'r pwll poeth, a'r tân a'r brwmſton.

10 O's cais gennyd wan obeithio,
† *Edifaru.* Am drugaredd er † repentio,
Mae yn ei fryd dy ddwyn i'r Deyrnas,
Yr aeth *Cain*, a *Saul* a *Suddas*.

11 O's cais Satan gas dy rwyſtro,
I dŷ Dduw, y mae 'n dymuno,

Dy

Dy droi ma's o'r nef yn ddirgel,
Eifie addoli Duw 'n ei Demel.

12 O's cais gennyt droi dy wegil,
Pan pregethir yr Efengyl;
Mae e' 'n ceifio dy * ddehoryd,
Rhag cael profi pren y bywyd.

Ruf. 10. 17.
**Rhwyſtro.*

13 O's cais Satan, gennyt gyſgu
Yn yr eglwys, wrth was'naethu;
Mae e' 'n ceifio gennyt ‡ foccian
Duw 'n ei lŷs a'i dŷ ei hunan.

‡ *Gwatwor.*

14 Gochel gyſgu wrth weddio,
Gwaeth na 'r diawl yw 'r dyn y ſoccio
Dduw, 'n ei Demel ar awr weddi,
Ar ei lin yn rhith addoli.

§ Nid yw i ni ſeddwl fod holl dderbynwyr yr Elfennau yn y Cymmun yn derbyn fêl y cyfammod, o blegid yr *Apoſtol* a ddyweid bod *rhai yn bwyta ac yn ufed* Barnedigaeth iddynt eu hunain, am nad ydynt yn iawn farnu corph yr Arglwydd. 1 *Cor.* 29.

15 O's cais gennyt fynych arfer,
Oedi bwyta 'r ſanctaidd ſwpper;
Wrth dy dduor i'r Communiwn,
Mae 'n dwyn ymmaith § Sêl dy bardwn.

16 O's cais gennyt lwyr anghofio,
Y 'fengyl ſanctaidd gwedi gwrando
Mae e' 'n ceifio dwyn o'th galon,
Hâd y gair, a'th wnelo 'n griſtion.

17 O's caiff gennyt fod yn foddlon,
Ddwyn heb ſulw enw Criſtion,
Fe wna felly yn ddïogel,
Was i Griſt, yn was i gythrael.

18 O's cais gennyt ti ddihiro,
Edifeirwch nes * departo,
Mae 'n dy rwyſtro geifio ffafar
Duw, nes elo 'n rhy ddiweddar.

**Awr Angau.*
Preg 9. 10.

19 Ni âd Satan un rhyw bechod,
Na'd amcana gael dy orfod,
Ni âd gareg heb ei threiglo,
Nes y paro i't dramcwyddo.

20 O's cais gennyt ti broffesio,
Ffydd heb weithred yn cyd weithio,
Mae 'n dy dwyllo drwy ffydd farw,
Ia.2.14.17: Dryfto i'r ffydd na all dy gadw.

21 Bydd bob amfer ar dy ochel,
Nos a dydd y rhodia 'r Cythrel,
Nid oes mann nad yw e' 'n tannu,
2Cor.2.11. Ei groglaetheu i'n bachellu.

22 Yn yr eglwys yn y berllan,
Yn y ſhiop ac oddi allan,
Ar y ford, ac yn y gwelu,
Y cais Satan dy fachellu.

23 Bydd gan hynny megis milwr,
Yn dy gylch bob awr a'th armwr,
Ym mhob mann yn dyfal wilio,
Rhag i Satan dy andwyo.

CAN. XLIV. *Cynghor rhag guylltineb.*

GWAE i'r dyn fo gwyllt yn blentyn,
Glwth yn llange, a charl yn gleirchyn,
Hwnnw dreuliodd ei holl oedran,
Ym mhob oes wrth 'wyllys Satan.

2 Gochel f' enaid rwydau Satan,
I'th fachellu ym mhob oedran :
Ar bob llwybr fe ameana,
A rhyw groglaeth gael dy ddala.

3 Yn dy ieuengctid fe gais gennyt,
* *Difudd.* Dreulio dy amſer yn ddi * brofid,
Mewn pibyddiaeth ac oferedd,
Heb na dyſg, na dawn, na rhinwedd.

4 Yn d' wroldeb fe braw 'th dynnu,
I garowſio a gordderchu,
Ac i nyrddo dy lân lefter,
A thrythyllwch a differthder.

Yn

5 Yn dy henaint, ſe braw 'th ſwyſgo,
Droi at DDuw trwy wir repento,
Ac y dry dy fryd yn benna,
At fydolrwydd a chybydd-dra.

6 Praw' gan hynny ym mhob oedran,
Lwyr ymgadw rhag twyll Satan,
'R hwn a gais dy gyfyrgolli,
Trwy 'r peth mwya ſ'ech yn hoffi.

CAN. XLV. *Cynghor i dâyfal weddio ar bob achos, ac ym mhob Gorchwyl.*

ER fy mendith nag anghofia,
Dair gwaith beunydd ar y lleia,
'Brudd weddio ar dy ddaulin,
O flaen Duw dy dâd a'th frenhin. *Pſ.* 55. 17.

2 Cyn myn'd allan y boreu-ddydd,
Cyn ciniawa y canol-ddydd,
Cyn ſwpperu, o gweddia,
Y Tair gwith hyn bob dydd o leia.

3 C'od dy ddwylo i weddio,
Cyn goſtyngech law i weithio,
Cais gan DDuw fendithio d' orchwyl,
Cyn y delech yn ei gyſwyl.

4 Ac wrth wneuthur dy orchwylion,
Arfer brudd weddie byrrion; *1 Theſ.* 5. 19.
A bydd euriol yn dy weddi,
Ar i DDuw roi cymmorth i ti.

5 O's bydd trwm-waith a ffrwſt arnad,
O's bydd trafferth ar ddydd marchnad; *Pſ.* 34. 10.
Gwybydd (f' enaid) y gwna gweddi,
Fwy o les na rhwyſtyr i ti.

6 Er bod buſnes fawr gan *Ddaniel*,
Yn y Cwrt dan Frenhin *Babel*,

Tair

Dan. 6.10. Tair gwaith beunydd y gweddie,
Yn ei 'ſtafell ar ei linie.

7 Er bod *Dafydd* yn rhyfelwr,
Sal. 119. Ac mewn trafferth mwy nag un gwr,
164. Etto er hynny ſaith waith beunydd,
Y gweddei 'r brenhin *Dafydd*.

Joſu 10.12. 8 *Joſuah* rymmus a weddiei,
13. Yn y frwydr ac ymladdei;
'R oedd e' â'i galon yn gweddio,
Ac yn ymladd â'i ddwy ddwylo.

9 Nid oedd gweddi' rhai'n yn rhwyſtyr,
Ar un gorchwyl faent yn wneuthur,
Ond rhyddhau a llwyr fendithio,
Pob rhyw waith a wnei eu dwylo.

10 Arfer dithau weddi hyfryd,
Pſ. 24. 10. Ym mhob gorchwyl a ſo gennyd,
Di gei weled y gwna gweddi,
Rhwydd-deb mawr a chynffordd i ti.

11 F'all dyn weithio ei glefyddyd,
A gweddio 'n ddyſal hefyd;
Ni chais gweddi 'r galon rwyſtro
Hynt y traed, na gwaith y dwylo.

12 F' all yr hwſmon, f'all y geilwad,
Alw ar DDUW a dala'r arad',
Fel y gallant dd'wedyd ffregod,
Wrth yr ychen a'r 'nifeilod.

13 F' all trafaelwyr gannu Salmau,
A gweddio ar eu ſiwrnau;
Fel y gallant ganu maſwedd,
A chwedleua am oferedd.

14 F' all Cryddion, ſe all Taelwyr,
Foli Duw, a chwareu 'r crefftwyr;
Gan roi 'u breichiau i ddyſal weithio,
A'u calonnau i weddio.

Fe

15 Fe all y gwragedd hên wrth nyddu,
Fe all y merched wrth ſidanu, *Ex.* 14 15.
Fe all pawb ddilyn eu celfyddyd,
A gweddio 'n ddyſal hefyd.

16 F' alle *Foeſen* wrth ſhiwrneia,
F' alle *Joſua* wrth ryfela,
Chriſt wrth ymdaith, *Paul*, wrth forio, *Act.* 27.23.
Weithio eu gorchwyl a gweddio.

17 Nid oes dim † ddirper rhwyſtro, † *Dŷlei.*
Dyn 'wyllyſgar i weddio,
Ac i weithio ei orchwyl hefyd,
Pa ryw bynnag ſo 'i gelfyddyd.

18 Chriſt ſy 'n erchi i bawb weddio, *Luc.* 18. 1.
Ar bob amſer heb ddiffygio,
A Saint *Paul* ſy 'n erchi inni,
Ym mhob mann ymarfer gweddi.

19 Yn ein trallod, yn ein gwynfyd,
Yn ein nychdod, yn ein iechyd,
Y mae inni brudd weddio,
Ym mha gyflwr y b'om 'ynddo.

20 Ar y moroedd, ar y mynydd,
Yn ein teiau, ar y maeſydd, 1*Tim.* 2. 8.
Y dirpere in' weddio,
Ym mha fan y b'om ni ynddo.

21 Gydâ *Pheder* yn ein llettŷ, *Act.* 10. 6.
Gydâ *Dafydd* yn ein gwely, *Sal.* 139.
Gydâ *Daniel* rhwng y Llewod, 18.
Y mae in' weddio 'n waſtod. *Dan.* 6. 10.

22 Gydâ *Moeſen* ar y mynydd,
Gydâg *Iſaac* ar y meuſydd, *Gen.* 24. 63.
Gydâ *Ifan* yn yr eglwys,
Y mae gweddi yn dra chymmwys.

23 Ym mhob mann, ac ar bob amſer,
Y mae gweddi o fawr bwer,

Fe

Jer. 29 13. O's y galon a fydd parod
I weddio ar y Drindod.

24 Dyn fydd demel i'r Gorucha',
Calon dyn, yw 'r allor benna',
Foreu, a hwyr y mae Duw 'n ceiſio,
Cael o'r galon Aberth iddo.

25 N'ad dy demel er dy fywyd,
Foreu a hwyr heb aberth hyfryd.
A n'ad ganol dydd i baſio,
Heb roi clod a moliant iddo.

26 Felly byddi di gyfeillgar
A'th Greawdwr, ac mewn ffafar,
Felly cei di gan y Drindod,
Dy rhwyddhau a'th helpu 'n waſtod.

C A N. XLVI. *Cynghor duwiol i bob gradd i'w ddilyn cyn myned at eu gorchwylion.*

CYN yr elech o'r drws allan
At un gorchwyl, mawr na bychan;
Cais gan DDUW dy brudd fendithio,
A rhoi rhad ar waith dy ddwylo.

2 DUW ſy 'n rhoddi rhad a llwyddiant,
Duw ſy 'n danfon ffawd a ffyniant;
Lle'i cyfarcher fe ry fendith,
Lle'i 'r anghofir fe ddaw melldith.

3 Cais ei yſpryd i'th gyf'rwyddo,
Cais ei ras i'th gynnorthwyo,
Cais ei fendith ar bob gweithred,
Felly daw it rad o'u parthed.

4 Dechreu 'r gwaith yn enw 'r *Jeſu*,
Cais ei gyfnerth i'w ddibennu,
1 *Cor.* 10. 31. Yn ei ddiwedd cais ei ogoniant,
Felly cei o'th weithred ffynniant.

Fe

5 Fel y llwyddodd Duw orchwylion
Joſeph gynt, a *Daniel* ffyddlon;
Felly 'llwydda d' orchwyl dithau,
O's gweddïi arno 'n ddiau.

6 Oni wnei dy weddi 'n addas,
Di gei adail bŵth fel *Jonas*, *Iona.* 4 6.10.
A phyſgotta megis *Peder*,
Ac heb ddala dim un amſer.

7 Di gei dwttan a thrafaelu,
Ac ymrwyfan a thraſſerthu *Luc.* 5. 5.
Ddydd a nos, a phoeni 'n ofer,
Heb fod dim yn well un amſer.

8 Ofer codi ar y wawr-ddydd,
Ofer bwyta bara cyſtuddd,
Ofer gwiliad hir nos aia,
O's yr Arglwydd ni 'n bendithia.

9 Ofer adeil teiau newydd,
Ofer cadw Caerau trefydd,
Ofer poeni trwy rymuſtra,
O's yr Arglwydd ni chyd weithia.

10 Rhag i'th lafur fyn'd yn ofer,
O gweddia 'n brudd bob amſer,
Ar i'r Arglwydd dy fendithio,
Felly ffynna gwaith dy ddwylo.

CAN. XLVII. Cyngor i'r LLAFURWR.

CYN rhoi llaw ar gorn yr arad',
C'od dy ddwylo, ti â'th eilwad
At Dduw mawr, am dy fendithio,
A rhoi rhad ar waith dy ddwylo.

2 Ofer hâu a 'redig llawer,
Ofer llyſnu 'r maint a hâuer;
Oni ddyru Duw ei fendith,
Dan y gwys y pydra 'r gwenith.

3 Dyn ſy 'n hâu, a Duw ſy 'n hadu,
Duw ſy 'n peri i'r llafur dyfu,
*Sal.*104.14. A dwyn ffrwythau ar ei ganfed,
I'r fawl ſy ynddo yn ymddiried.

4 'R un a geiſio ffrwyth o'r ddaear,
Rhâd a llwyddiant ar ei heinar;
Prudd weddied ar yr Arglwydd,
Fe gaiff lwyddiant heb ddim affwydd.

5 Gwell yw gweddi gydâg oged,
☞ I gael llafur ar ei ganfed,
Na chwech arad' ac ogedi,
Lle na byddo ſon am weddi.

6 Fe gae *Iſaac* wrth fyfuried,
Gen.24.63. Lafur gan Dduw, ar ei ganfed;
Pen. 26.12. Pan bae eraill heb weddio,
Prin yn cael y chweched ganddo.

7 O gweddia dithau 'r hwſmon,
Ar dy Dduw, o ddyfnder calon,
Am roi rhad ar waith dy ddwylo,
Felly di gei ddigon ganddo.

C A N. XLVII. *Gweddi 'r Hwſmon.*

LLUNIWR daear, helpwr dynion,
Awdwr hadau 'r ddaer ffrwythlon,
Rhoddwr gwlaw, Cynhyddwr llafur,
Gwrando weddi Hwſmon pryſur.

2 'Rwy fi 'n myn'd i drin y ddaear,
Ac i hau yn hon fy heinar,
Heb gael gweled mwy o hono,
Oni roi dy fendith arno.

3 Arglwydd, ofer ydyw plannu,
Hau yn gyngan, a gorlyfnu,
Oni pheri di 'ddo 'gino,
A rhoi rhad a chynnydd arno.

Ni

4 Ni ddaw hedyn byth trwy 'r ddaear,
O'r maint oll ſydd genni' o heinar,
Oni pheri di 'ddo darddu,
Tyfu allan a chynnyddu.

5 'R wy gan hynny 'n * begio 'n bryſſur, * *Deiſyf.*
Duw, dy fendith ar fy llafur,
Fel y gallwy i gael oddiwrtho,
Fodd iel Criſtion i'm † maintainio. † *Cynnal.*

6 Agor i'm ffeneſtri 'r nefoedd,
Gwlawia fendith ar fy nhiroedd,
Portha 'r had â braſder daear,
A rho lwyddiant ar fy heinar.

7 N'ad i'r nefoedd fyn'd yn bres,
Na'r ddaer yn harn gan ormod gwres, *Lw.* 26. 18.
N'ad i'r maeſydd mawrion fethu, 19 20.
Am ein lleſcedd i'th was'naethu.

8 Rho wrth feſur y gwlaw Cynnar
Yn ei bryd, a'r gwlaw diweddar,
Hinon dempraidd, gwres cymmhedrol,
Rhad a llwyddiant, i dy bobol,

9 Gwa'rdd y locwſt, gwa'rdd y † lindis, *locwſt.*
Gwa'rdd y gwlith ſy 'n brychu 'r barlis,
Gwa'rdd y gwres, y gwynt a'r § llyched, *Mellt.*
Sydd yn peri i'r llafur 'niwed.

10 Corona 'r flwyddyn â daioni,
Tywallt fraſder dy rad arni,
Gwiſg y doleydd oll â defaid.
A'n mynyddoedd â 'nifeiliaid.

11 Dyro ymborth i blant dynion,
Dyro wellt i'r 'ſgrublaid mudion,
Dyro win ac olew 'n helaeth,
I ddiwallu d' etifeddiaeth.

12 Dyro in gynhaiaf ffrwythlawn,
Rhad o'r maeſydd ac o'r fiſgawn,

Had o'r ardd a ffrwyth o'r berllan,
Mel o'r graig, a llaeth o'r gorlan.

13 A bendithia waith ein dwylo,
Arglwydd grasol, byth tra ganddo,
Felly ni'th fendithiwn ditheu,
Ar ein daulin nos a boreu.

CAN. XLVIII. *Cynghor i'r Trafaelwr.*

CYN y dodech droed mewn gwarthol,
I fyn'd i † siwrneu angenrheidiol,
Cais gan Dduw fendithio'th siwrneu,
A'th ddwyn eilwaith yn iach adreu.

† *Taith.*

2 Cais ei Angel i'th gyf'rwyddo,
Cais ei adain i'th † brotecto,
Cais ei fendith ar dy siwrnau,
Fe rwyddha dy holl negesau.

† *Amddiffyn.*

3 Fel yr helodd Duw ei Angel,
Gydâ *Thobi* yn ei drafel,
Felly hel ef, heddyw, heno,
Help i bawb ag 'alwant arno.

Sal. 50. 13.

4 Dysg gan was y Patriarch gorau,
Alw ar Dduw, wrth fyn'd i'th siwrnau,
Am fendithio dy amcanion,
Di gei ffawd wrth fodd dy galon.

Gen. 24. 12.

5 Oni cheisi ar dy liniau
Gan fab Duw, rwyddhau dy siwrnau,
Cei drafaelu ar yr ormes,
A d'od adref heb dy neges.

6 Gwell yw gweddi i Drafaelwr,
Nag yw 'r gwin yn amser sychdwr,
Gwell na chastell rhag y lluched,
Gwell na dim rhag pob drwg dynged.

7 Gwell yw gweddi i'th amddiffyn,
Wrth siwrneia rhag y gelyn, Nag

Nag un cleddyf dûr na Phiſtol,
Carnau meirch, na mil o bobol.

8 O gweddia dithau 'n waſtod,
Wrth ſiwrneia ar y Drindod;
Ac ſe ddyry ei Angylion,
I'th rwyddhau wrth fodd dy galon.

CAN. XLIX. *Gweddi 'r Trafaelwr.*

HELPWR pob trafaelwr ofnus,
Ceidwad cryf pob gwann gofydus,
Gwrando 'n raſol o'th orleddfa,
Waedd trafaelwr wrth ſiwrneia.

2 Arglwydd, mae 'n rhaid i'm drafaelu
I wlad bell, na'd wy 'n ei medru,
Ac ni wn a ddeuaf adre,
Oni lwyddi di fy ſiwrne.

3 Tydi Arglwydd ſydd yn llywio
Y byd hwn, a'r maint ſydd ynddo,
Fel na ddigwydd ond y ſynnech,
I'r rhai annwyl ag a garech. *Ruf.* 11 36.

4 'R wy gan hynny 'n deiſyf arnad,
O'th drugaredd, ac o'th gariad,
'Roi i'm rwydd deb yn fy ſiwrne,
A'm dwyn yn iach-lawen adre.

5 Danfon d' Angel i'm cyf 'rwyddo,
I'm cynfforddi a'm § protecto,
I'm rhwyddhau yn fy negeſe,
A'm dwyn eilwaith yn iach adre. § *Amddiffyn.*

6 Tanna droſwi d' adain raſol,
Cûdd fi dani yn waſtadol,
N'ad un gelyn wneuthur niweid
Ar y ffordd i'm corph na'm henaid.

7 Danfon *Raphael* dy anwyl-was,
I'm rhwyddhau a'm dwyn o gwmpas,

Fel

Fel yr helaiſt gydâ *Thobi*,
Geſydiau. I'w rwyddhau o bob ‡ clamwri.

8 Bydd o'm blaen fel niwl y boreu,
Bydd y nos fel tanllwyth oleu,
I'm cyf'rwyddo (Criſt) dy hunan,
Megis Iſrael tuâ *Chanaan*.

9 Di gyf'rwyddaiſt y gwyr doethion
Mat. 2. 2. Gynt, â'r Seren i'r ſfordd union,
O! cyf'rwydda felly finnau,
Nes fy nwyn i ben fy ſiwrnau.

10 Fel y cedwaiſt *Dobi* ianga,
Rhag y pyſg a fynne 'i ddifa,
Felly cadw finne 'n raſol,
Rhag pob perig yn ddihangol.

11 Cadw fi rhag rhwydau Satan,
A'i aelodau, pobl aflan,
A na'd iddynt wneuthur niweid
* *Attalfa.* I'm, na ch'wilydd, * ſtop, na cholled.

12 Na'd y twrw, na'd y llyched,
‖ *Mellt a theyranau.* Na'd y ſtorm i wneuthur niweid,
Na'd i'r follt na'r ddraig fy nrygu,
Nag un gormail fy ngorthrymmu.

13 Cadw fi rhag bradeu lladron,
Perig dyfroedd, a drwg ddynion,
Llettŷ anwir, bwydydd afiach,
Rhwyſtr ſfordd, a drwg gyfeillach.

14 Cwyn fy nghalon, nertha f' yſpryd,
Rhwyddha fy ſfordd â'th gymmorth hyfryd;
Helpa 'ngheffyl a'm cyfeillion,
Dwg ni i dre wrth ſodd ein calon.

15 Rho di rwydd-deb yn ein buſnes,
Helpa bawb i gael eu neges,
Ag ſy a meddwl oneſt ganddo,
Fel y gollom dy fendithio.

Arglwydd

16 Arglwydd cadw ni rhag tramcwydd,
C'wilydd, colled, anap, aflwydd,
Nychdod, niweid, croes a dolur,
Colli 'r ffordd a'r cyfryw rwyftr.

17 Arglwydd dwg ni yn iach-lawen,
At ein ffryns, i dre drachefen,
Fel y gallom dy glodfori,
Ddydd a nos am it ein helpu.

CAN. L. *Cyngor i'r Milwr,*

CYN yr elech i ryfela
Dros y goron, oh! gweddia,
Ar Dduw 'r llyoedd, am roi calon,
Scil a grym, i'r milwyr ffyddlon.

2 Duw fy 'n rhoddi grym a chryfdwr,
A chyf'rwydd-deb i bob milwr, *Sal.* 144. 1.
Scil i'r bŷfedd i ryfela,
Taflu 'r Peic, a thynnu 'r bwa.

3 Duw y lluoedd fydd ryfelwr,
Ac yn noddfa mewn cyfyngdwr;
Duw fy 'n rhoddi 'r fuddugoliaeth,
Cais ei help, fe'i rhy yn helaeth. *Ex.* 15. 3.

4 Gwell yw gweddi mewn cyfyngdwr,
Wrth ryfela i bob Milwr,
Nag un harnais i'w amddiffyn,
Gwell na § Glaif i glwyfo 'r gelyn. § *Llafn.*

5 Mwy y laddodd dwylo *Moefen,* *Exod.* 17. 11.
Wrth eu dercha tuâ'r wybren,
Nag y laddodd cleddyf *Jofua,*
A holl *Ifrael* wrth ryfela.

6 *Jonathan* â'i weddi 'laddodd,
O'r *Philiftiaid* fwy o filoedd,
Nag a laddodd *Saul* â'r cledde
A'i ryfelwyr oll, â'u harfe.

Chwyr-

Fel yr helaiſt gydâ *Thobi*,
Gofydiau. I'w rwyddhau o bob ‡ clamwri.

8 Bydd o'm blaen fel niwl y boreu,
Bydd y nos fel tanllwyth oleu,
I'm cyf'rwyddo (Criſt) dy hunan,
Megis Iſrael tuâ *Chanaan*.

9 Di gyf'rwyddaiſt y gwyr doethion
Mat. 2. 2. Gynt, â'r Seren i'r ffordd union,
O! cyf'rwydda felly finnau,
Nes fy nwyn i ben fy ſiwrnau.

10 Fel y cedwaiſt *Dobi* ianga,
Rhag y pyſg a fynne 'i ddifa,
Felly cadw finne 'n raſol,
Rhag pob perig yn ddihangol.

11 Cadw fi rhag rhwydau Satan,
A'i aelodau, pobl aflan,
A na'd iddynt wneuthur niweid
* *Attalfa.* I'm, na ch'wilydd, * ſtop, na cholled.

12 Na'd y twrw, na'd y llyched,
‖ *Mellt a theyranau.* Na'd y ſtorm i wneuthur niweid,
Na'd i'r follt na'r ddraig fy nrygu,
Nag un gormail fy ngorthrymmu.

13 Cadw fi rhag bradeu lladron,
Perig dyfroedd, a drwg ddynion,
Llettŷ anwir, bwydydd afiach,
Rhwyſtr ffordd, a drwg gyfeillach.

14 Cwyn fy nghalon, nertha f' yſpryd,
Rhwyddha fy ffordd â'th gymmorth hyfryd;
Helpa 'ngheffyl a'm cyfeillion,
Dwg ni i dre wrth fodd ein calon.

15 Rho di rwydd-deb yn ein buſnes,
Helpa bawb i gael eu neges,
Ag ſy a meddwl oneſt ganddo,
Fel y gollom dy fendithio.

Arglwydd

16 Arglwydd cadw ni rhag tramcwydd,
C'wilydd, colled, anap, aflwydd,
Nychdod, niweid, croes a dolur,
Colli 'r ffordd a'r cyfryw rwyſtr.

17 Arglwydd dwg ni yn iach-lawen,
At ein ffryns, i dre drachefen,
Fel y gallom dy glodfori,
Ddydd a nos am it ein helpu.

C A N. L. *Cyngor i'r Milwr,*

CYN yr elech i ryfela
Dros y goron, oh! gweddia,
Ar Dduw 'r llyoedd, am roi calon,
Scil a grym, i'r milwyr ffyddlon.

2 Duw ſy 'n rhoddi grym a chryfdwr,
A chyf'rwydd-deb i bob milwr, *Sal.* 144. 1.
Scil i'r bŷſedd i ryſela,
Taflu 'r Peic, a thynnu 'r bwa.

3 Duw y lluoedd ſydd ryfelwr,
Ac yn noddfa mewn cyfyngdwr;
Duw ſy 'n rhoddi 'r fuddugoliaeth,
Cais ei help, fe'i rhy yn helaeth. *Ex.* 15. 3.

4 Gwell yw gweddi mewn cyfyngdwr,
Wrth ryſela i bob Milwr,
Nag un harnais i'w amddiffyn,
Gwell na § Glaif i glwyfo 'r gelyn. § *Llafn.*

5 Mwy y laddodd dwylo *Moeſen,* *Exod.* 17. 11.
Wrth eu dercha tuâ'r wybren,
Nag y laddodd cleddyf *Joſua,*
A holl *Iſrael* wrth ryſela.

6 *Jonathan* â'i weddi 'laddodd,
O'r *Philiſtiaid* fwy o filoedd,
Nag a laddodd *Saul* â'r cledde
A'i ryſelwyr oll, â'u harfe.

Chwyr-

7 Chwyrnach ydoedd gweddi *Dafydd*,
I droi 'r Cawr a'i dorr i fynydd,
1 *Sam.* 17. Na'r holl 'gerrig 'aeth o'i goden,
Er eu glynu yn ei dalcen.

8 Hen *Elias* heb ddim arfe,
Ond ei weddi, a ddifethe,
2 *Bren.* 1. Ddau Ben-capten a'u Cwmpeini,
Beth fydd gryfach nag yw gweddi?

9 Cryfach ydoedd gweddi *Judith*,
Na'r holl wyledydd cedyrn arith,
I amddiffyn tre *Bethwlia*,
Rhag *Holphernes* idd ei difa,

10 Arfer dithau brudd weddio,
Wrth ryfela â'th ddwy ddwylo,
Fel, arferodd dewr-wych *Josua*.
Di gei lwyddiant wrth ryfela.

11 Dod dy ddwylaw i filwrio,
Dod dy galon i weddio,
Di gei weled y gwna gweddi,
Fwy na dwylaw o fawrhydi.

CAN. LI. *Gweddi 'r Milwr.*

ARGLWYDD grymmus † Llywydd (lluoedd,
† *Rheolwr.* Pen Rheolwr pob rhyfeloedd,
Unig roddwr buddugoliaeth,
Gwrando ngweddi o'm milwriaeth.

2 'R ym ni ymma ym mhlaid y goron,
‖ *Tywysog.* A'n ‖ Prins, a'n gwlad, a'n da, a'n dynion,
Yn rhyfela â gwŷr diras,
Sy'n amcanu treisio 'n Teyrnas,

3 Duw gwradwydda eu hamcanion,
A'u bwriadau, a'u dichellion;

Tola

Tola eu balchder, torr eu cryfdwr,
Dofa eu hawch, goſtega eu cynnwr.

4 Nertha ninnau dy wael weiſion
'Chware 'r gwyr, ym-mhlaid y Goron,
A rho inni rym a gallu,
Eu concwerio a'u gorchfygu.

5 Arglwydd graſol, cwyn ein calon,
Ymladd droſom a'n gelynion,
Hel dy fraw 'a'th oſon arnynt,
Dyro § ffwyl a gwradwydd iddynt.

§ *Cwymp:*

6 Er nad ydym yma ond gronyn
I'r fath nifer ſydd i'n herbyn,
Etto 'rym yn ddigon grymmys,
O's tydi a fydd o'n hyſtlys.

7 Arglwydd gwynn, nid llai dy † bwer,
Mewn ychydig, nag mewn llawer;
Can's mewn gwendid 'rwyt fynycha,
Yn mynegi d' allu mwya.

† *Nerth.*
1 *Sam.* 14. 6.

8 Peraiſt gynt i *Gedeon* ddifa,
(Gydâ thri chant o'r gwyr gwanna)
Lu aneirif o'r *Midianiaid*,
Oedd mor amled a'r locuſtiaid.

Barn. 7.

9 *Jonathan* a'i † glydydd arfau,
'Helodd miloedd droi eu cefnau,
Pan yr helaiſt ofn arnyn,
Pwy a feiddia droi yn d' erbyn?

† *Yr hwn oedd yn dwyn ei arfau ef.*

10 Rhoddaiſt rym i *Samgar* frayni
Chwe chan ŵr, a'u lladd a'r ierthi,
Ac i *Samſon* 'ladd cyn gorphen
Fil o wyr, â gên yr aſſen.

Barn. 3. 31.

Bar. 15. 15.

11 Di ddifethaiſt trwy law gwreigin
Ben tywyſog Brenin *Jabin*,
Ac a wnaethoſt i'r planedau,
Ymladd droſot yn eu graddau.

Barn. 4. 21.
5. 22.

12 Gelli Arglwydd mawr, o's mynnu,
'Roi i ninnau rym a gallu,
I Orchfygu ein gelynion,
Er nad ym ond milwyr gweinion.

13 O's tydi a fydd o'n hochor,
Nef, a daear, dw'r a chen-for,
Haul a lloer, a gwynt yſtormys,
A ryfelant a'r ein hyſtlys.

14 Arglwydd mawr, o's byddi o'n hyſtlys,
Pe bae 'r *Twrc*, a'r *Pâb* a'r *Spanis*,
A holl uffern yn ein herbyn,
Ni roem ddim o'r garrei erddyn.

15 Tydi 'n unig ſydd ryfelwr,
Gennit ti mae ſcil a chryfdwr,
Ti ſydd roddwr buddugoliaeth,
Ti ſy 'n achub rhag marwolaeth.

16 Ti ſy 'n peri 'r rhyfel beidio,
§ *Gwaywffon.* Ti ſy 'n torri 'r § ſper yn † yſſlo,
†*Yn ddarnau.* Ti ſy 'n rhoddi 'r march i gyſgu,
Ti yn unig ſy 'n gorchfygu.

17 Dyro gymffordd i'n calonnau,
Dyro gryfder yn ein breichiau,
Dyro ſcil i'n' bawb ryfela,
Megis milwyr i'r gorucha.

18 Gwna 'n capteniaid megis *Joſua*
I ymwroli i ryfela,
A bydd gydâ rhai'n dy hunan,
• *Amcan.* I gyf'rwyddo eu * plot a'u hamcan.

19 Dyro galon ym mhob milwr,
Deall, Dewrder, ſcil a chryfdwr,
Gallu, gwllys, hyder eon,
† *Gwrthſefyll.* I † gonffronto ein gelynion.

20 Dod d' Angylion i'n caſtellu,
Rhag pob gelyn tra ni 'n cyſgu,

A dod lu o'th filwyr penna,
I'n cyfnerthu wrth ryfela.

21 Bydd dy hun yn difgwyl arnom,
Ac yn llywio 'r hyn a wnelom,
Na'd in' wneuthur yn wrth'nebys,
Ddim yn erbyn dy lan 'wllys.

22 Gwna ni 'n gywir bawb i'n brenhin,
Gwna ni 'n ffyddlon i'r cyffredin,
Gwna ni 'n ufudd i'n rheolwyr,
Ac heddychlon â'n llettywyr.

23 Gwna ni 'n foddlon bawb i'n cyflog,
Na'd in' fpeilio un cymmydog,
Na gormeilio mawr na bychan, *Luc.* 3.14.
Ond byw 'n weddus yn dy ofan.

24 Na'd in' ddilyn afreolaeth,
Na chynhennu mewn cwmniaeth,
Nac ymdynnu a'n capteni,
Na byw 'n aflan mewn drygioni,

25 Na'd in' dreifio gwraig na morwyn,
Nac anrheithio un dyn addfwyn,
Rhag i'th lid gyfodi 'n herbyn,
A'n troi bawb tan ddwylo 'r gelyn.

26 Gwna ni bawb ynghanol rhyfel,
Fyw fel pobl yn dy demel,
A fae bob yr awr yn galw,
Am dy gymmorth idd 'u cadw.

27 Lle 'r ym beunydd ym-mhyrth angau,
Ar flaen peics a fafnau 'r gwnnau,
Par in' fyw bob awr yn d' ofan,
A throi heibio 'n buchedd aflan.

28 Ni wyr un pa awr pa ennyd
Y rhy gyfrif am ei fywyd,
Ger dy fron, o Farnwr cyfion,
Par in' fyw gan hynny yn union.

29 Gwna ni 'n barod ddyfod attad
Bob yr awr, o anwyl Geidwad,
Na'd in' fyw un awr mewn pechod,
Rhag ein cyrhaedd yn amharod.

30 Na'd in' wneuthur dim drygioni,
Nac un * herc na allom roddi
||Cownt o'i fflegid, heb gwilyddio,
Ddydd y farn pan ddëir i ‡ 'mpyrio.

*gweithred.
|| *Cyfri.*
‡ *Ymddangos*

31 Arglwydd, achub ni dy weiſion,
A gwradwydda ein gelynion,
Cadw 'n Brenhin a'i frenhiniaeth,
A rho iddo 'r fuddugoliaeth.

CAN. LII. *Cynghor i'r Porthmon.*

O 'R 'dwyt *Borthmon* delia 'n oneſt.
Tâl yn gywir am y gefaiſt,
Cadw d' air, na thorr d' 'ddewid,
Gwell nag Aur mewn cod yw credid.

2 Na chais ddala 'r tlawd wrth angen
Na thrachwanta ormod fargen,
Na fargenna â charn lladron,
Ni ddaw rhad ar ddim a feddon.

3 Gochel brynu fawr yn echwyn,
Pawb ag air y werth yn 'ſcymmyn,
Prynu 'n echwyn ' wna i *Borthmon*,
Ado 'r wlad a myn'd i '*Werddon*.

4 Gochel dwyllo dy fargenwyr.
Duw ſydd farnwr ar y twyllwyr,
Pe dihangit hwnt i'r '*Werddon*,
Duw 'fyn ddial twyll y *Porthmon*.

1 *Theſ.* 4. 6.

5 Byth ni roſtia un o'r twyllwyr
'R hyn y heliant, medd y 'Sgrythur,
Ni ddaw twyll i neb yn ennill,
Fe red ymmaith fel trwy 'r † rhidill.

Diar. 12. 27

† *Gogor.*

Goch-

6 Gochel feddwi wrth *Borthmonna*,
Gwin hel *Porthmon* i gardotta,
O's y *Porthmon* y fydd meddw,
F'a 'r holl ftoc i brynu 'r Cwrw.

7 Dela 'n union, † carca d' enaid, † *Gofala.*
Na ddifanna â da 'r gwirioned,
Pe difannyd i'r § low cyntres, § *Holand.*
Dial Duw, y fyn d' orddiwes.

CAN. LIII. *Cyngor cyn myned i garu.*

PAN yr elech gynta i garu,
Galw ar DDUW o's mynni ffynnu: Gen. 24.7.
Cais ei yſpryd i'th gyf 'rwyddo,
Hebddo nid oes lyn it' lwyddo.

2 Rhodd arbennig oddiwrth DDUW, *Diar.* 19.14
Yw gwraig raſol, weddaidd wiw,
Rhodd na rydd i bawb o honi,
Ond y ſawl y ſo 'n ei ofni, *Preg.* 7.29.

3 Cais gan dy Arglwydd hyn o rodd,
Di gei briod wrth dy fodd,
Cais ei nerth, a'i help, a'i gyngor,
Di gei bob rhai ar dy ochor.

Yr ail Ran.

YMDDAROSTWNG i'th rïeni' Col. 3. 20.
Cyn y ceiſiech briod itti,
Cais eu 'wllys mewn modd addas, Gen. 27.46
Felly ffynnia dy briodas.

2 Fe fyn Duw it' ymgynghori
A'th Dad, a'th Fam, cyn it briodi, *Bar.* 24. 2.
Ac ymfaitſio 'n ol eu hwllys,
Tra na cheiſiont faits, anweddus.

3 Ni fyn Duw, i'th Dad dy fwrw,
Lle na byddo Duw 'n dy alw,

Lle

Lle na allo 'r galon hoffi,
Lle na bo cyfaddas i ti.

4 O's llawn o ras, o's glan o ryw,
O's pur o gorph, a modd i fyw,
O's mwyn, o's doeth, o's da yw 'r ferch,
Lle galwodd Duw di, rho dy ferch.

* *Cynorthwyo Bara.* 14 4. 5 *Col* 3. 21. 1 *Cor.* 7. 9.

5 Mae 'r tad, a'r fam, yn rhwym i'th †ffwr-
Mae'n erbyn Duw, i'r rhai'n dy rwyſtro, (ddro
Cyffroi 'r yſpryd a wna hynny,
A themptio 'r cnawd i odinebu.

Y drydedd Ramm.

NA ddigia 'th Dad o' bydd lle 'i beidio,
Ym mhob peth gweddus goſtwng iddo,
Cais ei gyfnerth yn barchedig,
Cais yn fwyn, fe ddyru 'n ddiddig.

2 Cais wraig dduwiol o'r iawn ffydd,
O grefydd Criſt, heb nâg, heb * nydd,
Mewn un gwely byth ni chydfydd
Gŵr a gwraig o amryw grefydd.

Cyndyn rwyddd. 2 *Cor.* 6. 14.

3 Cais wraig ddiwair o rïeni,
Rhyw a ymlyſc i ddrygioni;
Oni cheidw Duw rhag nam,
Fe drippia 'r ferch lle trippio 'r fam.

Ez. 16. 44.

4 Cais wraig hygar, gryno, g'ruaidd,
Na ‖ phanſia forwyn ffiaidd:
Triſt ac oer, a dof, a diflas,
Y fydd cariad at un atgas.

‖ *Ymboſſa.*

5 Cais wraig ddiſtaw, dda ei nwydau,
Ddof ei nattur, bach ei chwedlau:
Gwaeth na defni, gwaeth nag *Arthes*,
Gwaeth na *Gwſber* yw Scoldies.

Diar. 27. 15

6 Cais wraig fedrus, ddoeth, rinweddol,
Honno 'th gad yn ben i'th bobol,

Honno

Honno leinw dy gornelau,
Honno baer 'th galon chwarau. *Diar.* 31. 22. 13.

7 Cais wraig hygar, a gwraig ſedrus,
Cais un raſol a chyſurus,
Llom yw'r ford, ac oer yw'r gwely,
Lle bo 'r wraig heb dreſnu 'r lletty.

8 Cais un weddus ar ei gwên,
Nid rhy ieuangc, nid rhy hen,
'R hen rhy oer, a'th ladd â'i pheſwch, *Diar* 17. 22.
A'r llall a baer it aflonyddwch.

9 Cais un ufydd megis *Sara*,
Cais un ddiſym fel *Rebecca*,
Cais un ſerchog megis *Rachel*,
Cais un ſedrus fel Mam *Lemuel*.

10 Cais un raſol hygar, hyfryd,
Syber, Sanctaidd, lan ei bywyd,
Araf, weddus, dda 'i ymddygiad,
Hi dal mwy na chyſoeth tair gwlad.

Y bedwaredd Rann.

GOCHEL goegen falch, ddi-feder,
Gochel Soga, ſur anſuber,
Gochel un oludog ffromfiol,
Honno 'th ſlina di a'th bobol.

2 Gochel wraig rhy wenn, rhy gynnes,
Hi fydd neidr yn dy fynwes;
Odid gweled medd y § *Fran*,
Wraig rhy wenn â chalon lan.

3 Na chais wraig a gwaddol lawer
Ac heb fedru trin ei phwer:
Mwg, a niwl, a llif yn treio,
Yw gwaddol mawr heb fedru 'drinio.

§ *Gan fod yr anwybodus yn beio i'r Awdwr ddywedyd*, odid gweled *medd* y Fran. *Yn-fydrwydd yw dychymyg iddo ddywedyd fod* Brein *yn lleſaru: Eithr iddo mewn ymadrodd cyffelybiaethol ddewis yr hen* ddihareb *ſydd etto mewn ymarfer* (ſef,) *mi a glywais gan* Fran, *ſe ddywedodd Aderyn wrthyf y peth a'r peth.*

Oni

4 On' bydd ond dwy it gael dy ddewis,
Un yn fras, a'r llall yn fedrus,
Gad i fynd y fras ddi-feder,
Cais y fedrus â'th holl bwer.

5 Y ddoeth, a'r dda, a ddaw i ddigon,
O ddydd i ddydd hi wella ei dynion,
Diar 31. 15. 18. 25. Ni chwfg hi 'r nos, ni phaid ei byfedd,
Nes cael cyfoeth ac anrhydedd.

6 Y ddol a fwrw ei thy i lawr,
Diar. 14.14 A'r ddoeth a adail drefydd mawr;
Y ddol a baer i'w gwr ochneidio,
☞ A'r ddoeth a ddwg anrhydedd iddo.

7 Y ffol ei phen y flina gawr,
Ac anrheithia 'r gwaddol mawr,
Gyrru llawer yn ddim. Gan lwyr droi ei § phac yn phardel,
Nes gwradwyddo 'r ffrins a'r gene'l.

8 Archoll calon, baich aneſmwyth,
Defni dyfal gwawd i'w thylwyth,
Jau yn gwafgu, Sarph, yn pricco,
Yw Gwraig ddrwg, gwae 'r gwr a'i caffo.

6 Duw a'i yfpryd a'th gyf'rwyddo,
I gael yr ore a'th foddlono,
O ddawn, o dda, o ras, o ryw,
Wrth fodd dynion, wrth fodd Duw.

CAN. LIV. *Canmoliaeth Gwraig dda.*
Y bumed Rann,

Preg. 4.13. 7. 1. GWELL bachgen doeth na brenhin (ynfyd,
Gwell enw da, nag ennaint hyfryd,
Gwell pwyll nag aur, gwell gras na grym,
Gwell dyn na da, gwell Duw na dim.

2 Gwell Igir ddoeth yn ofni Duw,
A 'chydig bach o fodd i fyw,

Na

Na 'r ddol ddi ddawn, o geñe'l grin,
A thryſſor mawr heb fedru 'drin. *Dibar.* 19. 16.

3 Gwraig rinweddol, hygar, hyfryd,
Sydd gant gwell na'r byd, o olud; *Dibar.* 31. 10.
Gwell na Thir, na Thai, na Thryſſawr,
Gwell na'r Perls a'r Meini gwerthfawr.

4 Llong yn llawn o werthfawr d'lyſau,
Perl a chan-mil o rinweddau,
† Gemm na feid'r neb ei briſſio *Maen gwerthfawr.*
Yw Gwraig dda, i'r ſawl a'i caffo.

5 Piler Aur mewn morteis Arian,
Twr rhag Angau i ddyn egwan,
Coron hardd, a rhann ragorol, *Diar.* 12. 4.
Gras ar ras yw Gwraig rinweddol.

CAN. LV. *Rhybudd a Chyngor i'r Godinebwr.*

GWRANDO 'r Godinebwr aflan
Air o gyngor genn' i 'n gyngan,
Cyn yr elech di mor ddiriaid,
Yn dy † wûn i ddamn o d' enaid. † *Cbwant.*

2 Gwel dy fargain front anhywaith,
Cyn y bwriech dy hun ymmaith,
§ Marca d' ennill, bwrw 'th golled, § *Yſtyria.*
Yſtyr 'ble 'r wyt ti yn myned.

3 'R wyt ti 'n myn'd i dŷ putteiniaid,
I ‖ bleſſio 'r corph, i ladd yr enaid, ‖ *Rhyngu bodd.*
I ddigio Duw, i nyrddo ei Demel,
I 'mado â Chriſt, i 'mlynu â chythrel.

4 'R wyt ti 'n myn'd fel ffol i werthu
D' enaid annwyl. pridwerth *Jeſu,*
Ffafar Duw, a'r deyrnas lawen,
Am gael gorwedd gydâ phutten.

5 O! na wna mor doſt â'th enaid
Diar. 7.27. A'i roi 'rwygo rhwng cythreuliaid,
Yn nhân uſſern am gael gronyn
O drythyllwch, i'r cnawd melyn.

6 O! na werth y nef gyfoethog,
Ffafr Duw, a'th Brynwr ſerchog,
Gwir Angylion, gwlad goleuni,
Am gael pleſſer mewn drigioni.

7 Pwylla, aros, na'd dy dwyllo,
Margain hallt yw 'r fargain honno,
Am gael tippyn o drythyllwch,
Na werth nef, a'i holl ddedwyddwch.

8 Cno dy dafod, pig dy lygad,
Tro dy wegil, na fydd anllad,
Ymſwyn rhag i'r fall dy orchfygu,
Ac na chytgam odinebu.

9 Cenfydd Satan ſy 'n dy arwain.
Wrth edefen i dŷ 'r buttain,
(Megis arwain ych i'r lladdfa)
I ladd dy enaid trwy butteindra.

10 Clyw 'r 'Poſtolion, a'r Prophwydi,
1 *Cor.* 6. 18. A'r holl 'ſgrythur i'th gynghori
I ochel rhag y cyfryw bechod,
Eph. 5. 5.6. Rhag dy daflu i uffern iſſod.

11 'A'i di uffern i'th dormentio?
‡ *Pobi.* A'i di 'r brwmſtan poeth i'th ‡ frwylio?
Am gael gorwedd megis filain,
Ymbell bryd ymmaglau puttain.

12 'A'i di orwedd i'r tywyllwch?
A'i di i'r carchar di-ddiddanwch?
A'i di drigo at blant Satan?
Am gofleidio menyw aflan.

13 A droi di ffafar Criſt oddiwrthyd,
A'i Angylion hygar, hyfryd,

Heb

Heb gael dim oddiwrth y fargen
Ond cuſanu gweſlau Puttain.
14 Ffei rhag c'wilydd, tro yn d'wrthol,
A dos adre' 'n edifeiriol :
Na werth nefam gariad puttain,
Ni wnei *Eſay* o'r fath fargain.
15 Cymmer gyngor, ofna Dduw,
Carca dy enaid tra f'ech byw,
Gochel wneuthur ti â'th * Riain, * *Llangces.*
Aelod Criſt, yn aelod puttain.
16 Cadw 'th gorph yn lleſter ſanctaidd,
Teml Dduw yw corph caruaidd,
Aelod Criſt, preſwylfa 'r Drindod, *1 Theſ. 4.*
Gochel nyrddo hwn â phechod. *1 Cor. 6. 15.*
17 Gwybydd nad oes pechod gaſſach
Na godineb brwnt, a lloſgach,
Y wnaeth difa da a dynion, *Gen. 6.*
A dw'r diluw, tân a brwmſton.
18 Digio Duw, a phleſſio 'r cythrael,
Gryddfu 'r Yſpryd, nyrddo ei Demel,
Croeſ-hoelio Criſt, halogi aelod,
Y mae 'r rhyfyg brwnt yn waſtod.
19 Pydru 'r corph, a damnio 'r enaid,
Llygru 'r enw, nyrddo 'r ddwy-blaid,
Difa 'r cyfoeth, † ſtainio 'r eppil, † *Diwyno.*
'Mae 'r godineb brwnt yn rhigil.
20 Llanw 'r Deyrnas o faſtardiaid,
Llanw 'r Eglwys o Butteiniaid,
Llanw 'r Tai o gam 'tifeddion
'Mae godineb medd y doethion.
21 Hela dynion i gardotta *Diar. 6. 26.*
'Wna godineb, a phutteindra,
Ac fel † goddaith o dân pryſur, *Flam.*
'Difa cyfoeth ' godinebwŷr.
22 Pan bo pob rhyw bechod diffaith,
Heb ladd un ond un ar un waith,
Mae godineb brwnt mor 'ſceler,
Yn lladd dau bob gwaith y gwneler.

Er

Er nad oes un pechod atgas,
Ag all torri rhwym priodas,
Mae godineb cas yn torri,
'R holl briodasau mae 'n halogi.

23 Gwaeth na lleidr, gwaeth na mwrddwr,
Gwaeth na neb yw 'r godinebwr,
Sy 'n lladd enaid dau ar unwaith,
Pan bo 'r lleill ond lladd cydymmaith.

*Dibar.*6.30 31. 24 Nid yw 'r lleidr, wrth ei ofyd,
Ond lledratta i gadw ei fywyd:
Mae 'r putteiniwr yn ei afraid,
Wrth butteindra 'n lladd ei enaid.

25 Er na fynnei 'r *Phariſeaid*,
Ladd y ſawl amharchei 'henafiaid,
Etto mynnent ladd er hynny
'R wraig y fyddei 'n godinebu

26 Cyfraith Duw ſy 'n gaeth yn erchi,
Yn ddi-ffafar ladd â meini,
Y gŵr a'r wraig a odinebo,
*Lev.*20.10. Mae 'r godineb yn gas ganddo.

27 Mae 'r godineb brwnt mor ffinion,
O flaen Duw a'i holl Angylion,
Ag na fyn i neb o'r brodyr,
Fwytta ynghyd â'r godinebwyr.

1*Cor.*5.11. 28 Mae mor ffinion, mae mor ffiaidd,
Ac na fynn y 'ſgrythur Sanctaidd,
Un waith enwi peth mor fydur,
Chwathach arfer idd 'i wneuthur.

Mat. 5. 29. 29 Criſt ſy'n erchi cadw 'r llygad,
Rhag y cyfryw bechod anllad,
Mynych trwy ffeneſtri 'r llygaid,
Y mae hwn yn lladd yr enaid.

30 Cyn trachwantech un wraig wenn,
Tynn dy lygad ffwrdd o'th ben,

'R

'R hwn na ffrwyno lygad * 'wantan, * *Trychwant*
Yn nhân uffern y caiff † frwylian. † *Ilosgi.*

31 Y mae 'r pechod hwn mewn calon,
O flaen Duw yn bechod creulon,
Er na ddelo byth mewn gweithred, *Mat. 5. 28.*
Mae â'i chwant yn lladd yr enaid.

CAN. LVI. *Cyngor i'r Meddwyn.*

O 'S meddwyn wyt yn arfer || chwiffio || *Yfed.*
Gwin, a chwrw, a Thobacco,
Llef am ras ar DDUW. yn fuan,
I orchfygu medd-dod aflan.

2 O's cwympaiſt yn y * wins o fedd-dod, * *Pydew.*
Llef am gymmorth oddi-uchod,
Ni all dyn na diawl nac Angel,
Godi o'r wins o'r cyfryw 'nifel.

3 Nid â'r cythraul meddw o'th growyn,
Mwy na 'r cythraul mud o'r plentyn,
Nes del Criſt a'i nefol yſpryd,
I'w droi 'maes trwy weddi ac ympryd.

4 O gweddia dithau 'n waſtod,
Am gael nerth yn erbyn medd-dod,
Ac ympyrdia rhag gormoddion,
Ac rhag tramwy ile bo'r meddwon.

5 Nid gwell meddwyn er gweddio,
Heb ochelyd, ac ymprydio:
Gweddi ac ympryd ſydd yn groyw,
Yn gorchfygu 'r cythraul meddw.

6 O's gweddii 'n erbyn medd-dod,
Ac heb wag'lyd teiau 'r ddiod,
Ni thal gweddi i ti ddimmau,
Eiſieu gwag'lyd y Tafarnau.

7 Dannedd llew yw dannedd medd-dod,
Ni chyll ei ddant e'i graff o honod,

Nes

Nes del Criſt y llew di-ofan,
I yſigo ei ſhol, a'th dynnu o'i ſafan.

8 Ni ddaw march o'r ffos lle ſyddo,
Nes del chwech neu, ſaith i'w lyſgo,
Ni ddaw dyn o'i fedd-dod aflan,
Nes del Criſt i'w lyſgo allan.

9 Na chymmell neb i yfed gormod,
Yfed pawb eu rhaid o'r ddiod;
O's myn un feddwi megis ci,
Meddwed e', na feddwa di.

10 Rho barch i'th well o's dei i'w plith,
Trwy barchu 'r fol heb yfed rhith:
O's perchi 'r gwr trwy chwiffo 'r cwppan,
Wrth barchi 'th ffrind, di amharchi 'th hunan.

11 Iechyd triſt, ac Iechyd afiach,
Yw yfed Iechyd a'th wna 'n glafach;
Byth ni pharchaf Iechyd un,
A waetho 'm Iechyd i fy hun.

12 Rhai ſy 'n chwerthin am fy mhen,
Am fod yn ſobr, heb fawr chwen,
Pſal. 119. 36. Minneu 'n wylo 'r deigrau hallton,
Wel'd pob rhai o'r rhai'n yn feddwon.

13 Y meddw chwarddodd am fy mod,
Yn cadw 'ngheiniog yn fy 'nghod,
Yn awr ſy 'n wylo 'r dw'r yn frwd,
Wrth fegian ceiniog fach o'm cwd.

14 Er mwyn *Jeſu* gochel fedd-dod,
Gwaeth yw hwn nag un rhyw bechod,
Mae 'n troi dyn ar lun y cythrael,
Ugain gwaeth nag un anifael.

15 Tynn o'r Tafarn, gochel fedd-dod,
Na chais fyn'd yn drech na 'r ddïod,
Ni chas un o'r trecha arni,
Ond y giliei 'n ebrwydd rhagddi.

Alex-

16 *Alexander* a § gongcwerodd
Yr holl fyd, y ffordd y cerddodd,
Ond y ddïod yn dra 'ſceler,
A gongcwerodd *Alexander*.

§ *Orchyg-odd.*

17 Gwell yw diangc nag ymdrechu,
Gwell yw cilio nag ymdynnu:
Gwell rhoi 'r gore' i'r hwrſwn cwrw,
Nag ymoſtwng iddo 'n feddw.

18 || Treiaiſt feddwyn, dy rym ddeng-waith
Cwympaiſt dan y ddïod gan-waith,
Oni chymri 'r traed oddiwrthi,
Hi ry etto gwdwm i ti.

|| *Prefaiſt.*

19 'Rhai fy'n 'maſlyd cwymp â'r cwrw,
A myn'd yn drech na'r ddïod loyw,
Ni bu 'rioed y ga's y trecha,
Ond y gilie 'ddiwrthi 'n gynta.

20 O dei at dân ſe lyſg dy grimpau,
O dei at Sarph hi ſrath dy ſodlau,
O dei at bûg; ond cwrdd, ſe 'th nyrdda,
O dei at ddïod gref hi 'th feddwa.

21 Cil rhag ſarph rhag iddi 'th frathu,
Cil rhag * plag rhag iddo 'th 'nafu,
Cil rhag tân rhag iddo 'th loſgi,
Cil rhag Gwin rhag iddo 'th feddwi.

* *Cornwyd.*

22 O holl ſlafiaid y byd ymma,
Caetha * ſlaf yw 'r ſlaf i fola,
Ni chais hwn tra bywyd gantho,
Ond ei fol yn feiſtr iddo.

* *Caethwas.*

23 F'â 'r meddw i'r Inn yn gall, yn gwmpli
Fe ddaw maes heb gof, heb gyſri,
F'â mewn fel dyn, f'â maes fel 'nifel,
Fe chwd fel ci, ſe roch fel cythrael.

24 F' ollwng meddwyn Dduw a'i ddoniau,
Tai a thir i fyn'd i chwarau,

Dibar. 13. 10. 21.

Fe

Benyw oſer. Fe geidw ei afael ar bob § *Sini*,
Fe gyll ei hun, a'i gof a'i gyfri.

25 Gynt ni feddwei ond bedlemmaid,
A'r rhai gwaetha o'r begeriaid,
'N awr ni chaiff bedlemmaid t'lodion,
Le i feddwi gan fonddigion.

26 Brwnt gwel'd Barnwr mewn anhemper,
Neu Bendeſig draw 'n y gwtter;
§ *Garthwan.* Brwnt gwel'd Cawr yn § ſlaf i'r cwrw,
Brwnta gyd gwel'd 'ffeiriad meddw.

27 Cyfraith dda oedd dodi meddwon,
Fel plant bychain dan drycholion;
O's ni fedrant fwy na bechgin,
† *Golud.* Drefnu eu hun, na threfnu eu † lifin.

28 Nid oes rhefwm na naturiaeth,
Gan y meddw, 'drin ei arfaeth,
Arwain. Eiſieu un o'r rhai'n i § arail,
Gwaeth yw 'r meddw nâ 'r anifail.

29 Blin na feder un dyn meddw,
E'i reoli 'hun yn hoyw,
Och! na gadael i neb arall
Lwyr reoli 'r meddwyn angall.

30 Gwae medd Duw y dyn y gotte,
Eſay. 5.11. Y boreu glas-ddydd i gwmpnio,
Ac arhoſſo gyd â'r ddiod,
Nes enynnir ê gan ſedd-dod.

31 Y mae uffern boeth, a Satan,
Yn lledanu ar led eu ſafan,
Eſay. 5.14. Ac yn chwennych llyngcu 'r meddw,
Yn ei fedd-dod cyn bo marw.

32 Gwae ſo cryf i chwiffio cwrw,
Ac i gymyſg diod loyw;
Ni ad Duw na gwraidd na himpyn,
Heb eu difa i'r fath feddwyn.

Gwae

33 Gwae ro'ddiod grêf i feddwi
Ei gymmydog, i'w ddinoethi;
Mae Duw 'n digio wrtho 'n llidiog,
Am ladd enaid ei gymmydog.

34 Tynn ar frŷs o'r gors o fedd-dod,
Rhag dy lyngcu yn amharod;
O hîr aros ar draeth ſygun,
Llwyr y'th lwngc tra f'ech yn roſyn.

35 Pôb pechadur a gais guddio
Faint o feiau a ſo arno;
Ond y meddw 'ſynn ddinoethi,
A datguddio ei holl frynti.

36 *Adda* 'geiſiodd guddio 'n † garccys, *Goſalus.*
Ei droſeddau â dail ffigys:
Noe y ſynne lwyr ddatguddio
Yn ei fedd'dod faint oedd ganddo. *Gen.* 9. 21.

37 Criſt ſy 'n gwa'rdd i griſtion ſwytta,
Gydà 'r meddw, glwth ei ſola,
Ac ymgadw rhag d'od atto, 1 *Cor.* 5. 11.
Fel rhag dŷn a'r * cowyn arno. 2 *Theſ.* 3. 6.
* *Cowaren.*

38 Fel y gyrr y mwg o'r lleſter,
Yr holl wenyn, o'u eſmwythder:
Felly gyrr y medd'dod aflan,
Râs a dawn o'r galon allan.

39 Ni bu meddant frenin *Babel*, *Dan.* 4. 32.
Ond ſaith mlynedd ar lûn 'nifel;
Y mae 'r meddw ar lûn mochyn,
'Hwy nâ hwnnw lawer blwyddyn.

40 Einioes ferr a chylla afiach, *Diar* 23. 29 30.
Llettŷ llwm, a drwg gyfeillach,
Coppa twnn, a ſhiacced frattog,
Y gaiff meddwyn yn lle cyflog.

41 Fe werth meddwyn dref ei Dâd,
A'r maint y ſedd o fraint yn rhad;

A phôb'nifel ſy'n ei helw,
Gwerth ei grŷs i brynu 'r cwrw!

42 Fe 'medu 'r meddw a'i holl bethau,
A'i aur, a'i arian, a'i dryſſorau,
Ei dai, ei dir, ei blant, a'i briod,
Ond ni' 'medu bŷth a'i fedd'dod.

§ *Bachws, oedd yr hen Eulynaddolwyr yn ei gyfrif yn Dduw 'r Gwin.*

43 Gwir Dduw 'r meddw ydyw § *Bachws*,
Tafarn hwdlyd yw ei Eglwys,
Gwraig y Tafarn yw ei 'ſteiriad,
Y pott a'r bîb yw ei || gyſneſſiad.

|| *Ei geraint.*

44 Bydd di ſobr tr'ech di 'n fachgen,
Nâ'd i'r bol yſpeilio 'r ceſen
Nâ'd i afraid ieungctid hala
Eol, mewn henaint i gardotta.

Deut. 21. 18. 19, 20, 21.

45 Cyfraith Duw a fynn labyddio
Pob oferddyn, ag a feddwo;
I ddiwreiddio 'r cyfryw frynti,
Ac i rwyſtro 'eraill feddwi.

Luc. 21.34.

46 Fe ddaw Criſt yn chwyrn heb wybod,
Ar ddyn meddw, i ddial medd'dod
Fe 'i gwahana, fe'i rhy 'orwedd,
Mewn tân poeth i ringcian dannedd.

* *Defnyn.* 1 *Cor.* 6. 9, 10.

47 Duw ro' grâs i bob rhyw Griſtion,
Yfed * deigryn lai na digon,
Cyn yr 'hyſo fwy nâ 'i gyfraid,
I ladd ei gorph, i ddamnio 'i enaid.

CAN. LVII. *Cân ynghylch y Diawl a'r Meddwon.*

1 *Fet.* 5. 8.

Y Cythraul twyllodrus ſy beunydd heb orphwys,
Ond ceiſio 'n ofalus ein twyllo,
I wneuthur pechode, pob amryw o feie;
Duw gatwo 'n heneidie ni rhagddo.

Fel

2 Fel y bydd cyſgod ar ddiſclair ddiwrnod,
I'n dilyn yn waſtod wrth rodio,
Felly mae ynte, yn canlyn ein ſodle,
Yn goſod ei fagle i'n cwympo.

3 Duw gatwo pob Criſtion rhag Satan anghyfion;
O 'wllys fy nghalon 'r wi 'n ceiſio,
ael dwyn ein eneidiau o 'ddwrth bob rhyw feiau,
O § Uffern a'i phoenau, a'u rhwyſtro. § *Cyflwr.*

4 Medd'dod yw 'r gore, a'r penna o'r rhwyde, *Coll-*
O hono mae 'r beiau yn himpio; *edigaeth.*
Tyngu, putteindra, gloddineb, lledratta,
Ac ymladd yw 'r mwya fydd ynddo.

5 Lle bo mawr gyn'lleidfa fe gân y † danttara,
Gyfeillion dewch yma i gwmnio, † *Udgorn*
I'w hala hi 'n fuan trwy 'r ffeneſtr allan, *neu Da-*
Mi fyddaf fy hunan yn ‡ campo. *(bwrdd.* ‡ *Chwareu.*

6 Ac yno hwy ddawan, fel Sawdwyrs yn fuan,
I'r mann lle bo Satan yn ceiſio;
I gymryd eu hafraid, heb § garcco yr enaid, § *Gofalu.*
A llawer o'r gweiniaid fydd hebddo.

7 Dechreuan yn llonydd, fel haul-wen foreu-ddydd,
Nes cwnnu têſ blennydd a thwymmo;
Y ddau-rydd y gocha, y tafod y floeſga,
Y ddau droed y flina a rhodio.

8 'Nôl darffo iddyn yfed, yn barod i fyned,
Fy'm *Hoſtes* am *heneid* moes etto:
Llanw di 'r potte, yn llawn o'r un gore,
Ni awn i ddechre || carowſo. || *Cyd-yfed.*

9 Bellach moes ymma y ddalen o'r *India*,
A'i henw hi 'n benna *tobacco*;
Pibell a thewyn, neu ganwyll i'w ennyn,
Na'd orfod eu gofyn hwy etto.

10 Yſcadan moes bellach, neu gig y ſo halltach,
'Spardyn cyfeddach y baro,

I hvfed hi 'n hnyw, nes bo rhai yn feddw,
A darfod y cwrw a'i ‖ ſpendio. ‖ *Diſa.*

11 Yno bydd dwndwr a briwio gŵr llwfwr,
Oni bydd ef gwmniwr i g'rowſio,
Gelwch yn galed, na † ſpariwch ag yfed † *Arbed.*
Na chwrw, na chlared, lle bytho.

12 Rhai ſy 'n ei fwrw, rhai ſy 'n ei gadw;
A rhai ſydd yn arw 'n ei * ſipio: * *Yfed.*
Rhai yn eu Saiſnaeg, a rhai yn eu Ffrangaeg,
A rhai yng Wyddeleg yn ‡ pledio. ‡ *Ymddiddan.*

13 Rhai ſydd yn tyngu, a rhai yn cynhennu,
A'r cythraul yn gwênu 'n 'u § hawntio § *Amog.*
Atto f' eneidiau, o ceiſiwch eich arfau,
Ni raid i chwi odde dim gantho.

14 Yno ' bydd cleſie, ond odid g'lanaſtre;
Anhappus yw 'r chware lle bytho
Y cythraul cenfigennus, y bradwr hoccedus;
Anghenfil anghenus lle ' delo.

15 Nid oes neb heb feiau, ond llawn o bechodau,
Nid ydy rhai gore yn ‖ ſcapo ‖ *Diangc.*
Na bo nhwy'n rhy ufudd yn rhwy fai a'u gilydd,
Yn dilyn lleferydd y * Cadno. * *Y Diafol.*

16 O Arglwydd gorucha, rho ras i ni wella,
A chadw blant *Adda* rhag llithro;
Maddeu 'n pechodau a dwg ein heneidiau,
I'r mann lle by'ch dithe 'n gorphwyſo.

C A N. LVIII. *Cynghor yn rhybuddio dyn i ymgadw rhag llettya Meddyliau drwg yn ei galon; ac i roſawi Meddyliau daionus.*

MAE holl feddwl dŷn yſowaeth, *Gen.* 6.5
Gwedi 'lygru wrth naturiaeth;
Ni fyſuria ond drygioni,
Nes y darffo ei ail eni.

Nid

2 Nid oes dŷn ag all myfurio — *1 Cor. 3. 5.*
Meddwl da, gwnaed oreu ag allo,
Nes cael gallu Duw a'i radau,
I gyfrwyddo ei feddyliau.

3 O gweddia 'n daer gan hynny, — *Pſal. 51. 10.*
Ar i'r Arglwydd adnewyddu
Dy feddyliau, a'th ameanion,
I fyfurio ar yr union.

4 Felly denfyn Duw ei yſpryd, — *Luc. 11. 13.*
I oleuo dy feddylfryd,
Ac i newid dy feddyliau,
I fwriadu 'r hyn ſydd orau.

5 Na'd i feddwl drwg lettŷa — *Jer. 4. 14.*
Yn dy galon, rhag dy ddifa, — *Diar. 6. 18.*
Gwas yn ceiſio llettŷ i Satan,
Bob yr awr, yw 'r meddwl aflan.

6 Dod dy feddwl, a'th fyfurdod, — *Col. 3. 1. 2.*
Ar y pethau ſydd oddiuchod, — *1 Ped. 3. 22.*
Lle mae Criſt dy Brynwr hygar,
Nid ar bethau ſ' ar y ddaear.

7 Rho dy fryd a'r bethau nefol,
Ac na ſercha ddim daearol, — *Mat. 6. 20.*
Meddwl am y wlad y gorfydd — *21.*
Aros yn ynddi yn dragywydd. — *Luc. 12. 33.*
34.

8 Meddwl am y pethau 'brynodd
Criſt, a'i waed, it yn y nefoedd, — *Eph. 1. 7.*
Heddwch Duw, a choron hyfryd, — *Rhuf. 5. 10.*
Teyrnas hardd, a didrangc fywyd. — *Col. 1. 20.*
Diar. 5. 21.

9 Meddwl dy fod tra fe'ch byw,
Bob yr awr yngolwg Duw: — *Sal. 139. 1. 2*
A bod Duw yn gwel'd dy ymddygiad,
Ym-mhob mann â chil ei lygad.

10 Meddwl fod y gelyn gwaedlyd, — *1 Ped. 5. 8.*
Ddydd a nos, fel llew newynllyd; — *Job. 1. 7.*

Yn

Mat. 13. 25. Yn troi 'ddau tu i'th orweddfa,
Bob yr awr yn ceisio 'th ddifa.

Mat. 12. 36. 11 Meddwl am reoli d' eiriau,
A'th weithredoedd, a'th feddyliau,
1 *Ped.* 4. 2. Wrth fodd Duw, rhag iddynt beri
Gwascfa i'th enaid, ddydd dy gyfri.

Dat. 1. 7. 12 Meddwl fel y daw dy Brynwr,
Mat. 10. 11. Ar y cwmmwl 'chwareu 'r Barnwr;
a'r 24. 30. Ac ymg'weiria i'w gyfarfod
a'r 25. 10. Fel priod-ferch 'gwrdd a'i phriod.

1 *Cor.* 5. 10. 13 Meddwl fal y gorfydd rhoddi
Rhuf. 14. 12 Ddydd y farn, mor fanol gyfri,
Preg. 12. 14. Am y meddwl drwg a'r bwriad,)
Col. 4. 5. Ag y roir) am weithred anllad.

Job. 1. 21. 14 Meddwl fal yr awn oddi ymma,
Preg. 5. 15. I'r tŷ priddlyd am y cynta',
§ *Ceiniog.* Mewn Cwd canfas, heb un § beni,
† *Ardreth.* Pe bae inni † rent Arglwyddi.

Heb 9. 27. 15 Meddwl fod yr Angau aethlyd,
Ar farch glâs yn gyrru 'n ynfyd,
Dat. 6. 8. Fel na ddichon hên nac ieuangc,
Rhuf. 5. 12. Rhag ei faeth, a'i ddyrnod ddiangc.

16 Meddwl hefyd y daw Angau,
Megis lleidr, am ein pennau,
1 *Thef.* 5. 2. Heb un Udcorn i'n rhybuddio,
Preg. 9. 12. Yn ddi-ymgais i'n hanrheithio.

Jago. 4. 14. 17 Meddwl nad yw bywyd un dyn,
Sal. 2. 9. Ond fel bwmbwl ar y llynwyn;
Job. 7. 7. Neu fel padell bridd neu wydur,
a'r 7. 6. 'R hwn yn hawdd a dyrr yn glechdur.

18 Meddwl fal y rhed ein heinios
Megis llong, dan hwyl, heb aros,
Deut. 5. 10. Ac y derfydd am ein hamfer,
Sal. 90. 5. 6. Cyn i'n' dybied' dreulio ei hanner.

19 Medd-

19 Meddwl fod y byd yn gado
Pawb yn llwm i fynd o hono, *1Cor. 7. 31. Preg. 5. 15. 1Io. 2. 15.*
Ac fel lâ yn torri danynt:
Pan bo rheita ei gymmorth iddynt.

20 Meddwl na ddaw aur nac arian,
Tai na thir, o'r droedfedd fechan *2Cor. 5. 10. Sal. 49. 17.*
Gydâ neb, i fynd i'r frawdle,
I roi cyfrif am eu beie.

21 Meddwl pan y delo Angau, *Heb. 9 27. Ecle. 5. 15. 2Cor. 5. 10.*
'Gorfydd gado 'r byd a'u bethau,
A mynd o flaen Crift yn wifgi,
Am y cwbwl i roi cyfri.

22 Meddwl fel y bydd dy d'lyfau,
A'th holl olud, a'th holl fwyddau, *Diar. 23.*
Yn ymofyn newydd feiftri,
Cyn y caflech gwbl oeri.

23 Meddwl dofted y fydd pechod,
Yn dolurio dy gydwybod; *Dat. 20. 12. Luc. 21. 26. Rhuf. 2. 16.*
Pan y tafler yn dy ddannedd,
Ddydd y farn dy holl anwiredd.

24 Meddwl fal y gorfydd rhoddi,
Ddydd y farn i'r Arglwydd gyfri, *Preg. 12. 14. Mat. 12. 36. Preg. 12. 14*
Am bob gweithred ddrwg y wnelom,
A'r gair ofer ag y dd'wedom.

25 Meddwl fel y bydd gwŷr gwychion,
'Sydd heb ofni Duw, na dynion, *Ecle. 18. 25. Dat. 6. 15. Hos. 10. 8. Luc. 23. 30.*
Ddydd y farn yn crio 'n 'fcymmyn,
Am i'r creigydd gwympo arnyn.

26 Meddwl fal y bydd y duwiol, *Dat. 7. 9.*
Yn y nef mewn braint ragorol,
Yn clodfori Duw gorucha',
Pan bo eraill yn *Gehenna.*

27 Meddwl fal y mae 'r anuwiol, *Luc. 16. 23.*
Yn ymdroi mewn tân uffernol,

A'r

Dat. 21.8. A'r Pryf didrangc yn eu bwytta
*Marc.*9.44. Bob yr awr, heb gael ei wala.

28 Meddwl am hyn, a dibriſſia
Y byd hwn. a'i wagedd mwya,
1 *Ioan.*2.15. A myſuria trwy wir grefydd,
Col. 2. 2. Ar air Duw, a'r byd na dderfydd.

Yr *ail* Rann.

MEDDWL dŷn a red heb orphwys,
Ar y drwg, neu 'r da 'gyrhaeddwys,
Oni chaiff beth da i fyrfuio,
Ar y drwg fe red tra gantho.

2 Meddwl dŷn fel maen y felin,
Y dreulia ei hun, nes mynd yn gilyn,
Oni roir rhyw rinwedd dano
Idd ei falu, a'i ſyfurio.

3 Meddwl weithio 'r gwaith y bwyntiodd
Dy Greawdwr, pan i'th greodd,
A'i was'naethu a'th holl bwer,
Yn dy alwad tra c'ech amſer.

4 Meddwl mai gwell un diwrnod,
Yn gwas'naethu 'r ſanctaidd Drindod,
*Pſal.*24.10. Na'th holl ddyddiau, a'th holl oeſach,
Yn gwas'naethu dim amgenach.

5 Meddwl cyn y gwnelech bechod,
P' wedd ' attebi ddydd dy drallod,
1 *Theſſ.* 5.3. A pha fodd y gelli ddiangc
Ddydd y farn, rhag angau didrangc?

6 Dod dy feddwl ar ddaioni,
Na'd ar wagedd iddo ymborthi:
Hawdd y gelli ei gyf'rwyddo,
O's mewn pryd y ceiſi 'ffrwyno.

Jug. 4. 7. 7 Hawdd yw diffod y wreichionen,
Cyn y 'mafloi yn y nen-bren:

Tro

Hawdd yw newid meddwl aflan,
O's gwrth'nebir hwn yn fuan.

8 Tro gan hynny 'n ebrwydd heibio
Bob drwg feddwl, pan dechreuo,
Rhag i'r gelyn mawr ei hocced,
'Droi 'r drwg feddwl i'r ddrwg weithred.

9 Lladd blant *Babel* tra f'ont fechgin,
'Sang ar ſarph, tra ſo 'n ei phliſgin,
Tynn y ‡ gangen cyn ei gwreiddio, ‡ *Cancer.*
Torr ddrwg feddwl cyn cynhyddo.

10 Gad wreichionen fach i gynnu,
Yn dy do, hi lyſg dy lettŷ :
Câd i feddwl drwg lettŷa *Eccle.* 11 13.
Yn dy galon, fe'th anrheithia.

Y *drydedd* Rann. *mor enbeidus yw Meddwl yr Anuwiol.*

NA lettŷa feddwl aflan
Yn dy galon, mwy na Satan,
O's llettŷii, 'r wyt ti 'n derbyn,
†Harbinger o flaen y gelyn. † *partour lletty.*

2 Rho dy fryd ar gadw 'r gyfraith,
A byw wrthi, yn ddi-ragraith :
Ac na ollwng DDUW o'th feddwl,
Ond bendithia am y cwbwl.

3 Na fwriada ddrwg o'th galon, *Ecl.* 17.11.
I anrheithio dy gyd-griſtion ; Lev. 19.17.
Mwrddwr yw 'r fath feddwl gwaedlyd, 1 *Ioan.* 3.15.
Gochel rhagddo er dy fywyd.

4 Na thrachwanta wraig cymmydog, *Ex.* 20.17.
Ac na hoffa ei llygad ferchog,
Na'd i'th feddwl redeg arni, *Gen* 12.17.
Can's godineb yw ei hoffi. *Mat.* 5. 28.

5 Gochel roi dy fryd, na'th fwriad,
Ex. 22 22. Ar anrheithio un ymddifad;
Deut. 27. 19. Trais a blin orthrymder yw,
Diar. 23. 10 Y cyfryw fwriad o flaen Duw.

6 Gochel chwnnych aur, nac arian,
Tim. 6 10. Tai, na thir, trwy dwyll a choggan,
Ex. 20. 17. Nid yw 'r cyfryw chwant a bwriad,
Preg. 5. 9. Ger bron Duw, ddim llai na lledrad.

7 Rhwym dy feddwl, na'd ei wibian,
Sal. 1. 2. Ar oferedd mawr, na bychan,
Ecle. 6. 37. Nac ar ddim na ellech roddi,
Cownt am dano ddŷdd dy ddidri.

8 Cadw 'th galon rhag drwg fwriad,
Fel y cedwi 'th law rhag lledrad;
Rhuf. 2. 16. Mae 'n rhaid atteb y cyn gaethed,
Preg. 12. 14 Am ddrwg fwriad, a'r ddrwg weithred.

CAN. LX. *Cyngor i lywodraethu 'r ymadrodd wrth fodd* Duw.

BID dy eiriau yn wastadol,
Yn grist'nogaidd ac yn rasol,
Eph. 4. 29. Yn rhoi gras i'r holl wrandawyr,
Ac adeiliad tra chymmesur.

2 Y mae bywyd, y mae Angau,
Yn y tafod, yn y geneu:
Di. 13. 3. Gochel ddywedyd geiriau diriaid,
Cadw d' eneu, cedwi d' enaid.

3 Dilyn d' Arglwydd yn dy eiriau,
1 *Pet.* 2. 22. Dywaid fel y dywedei yntau,
13. Ni ddaeth twyll na gair anweddaidd
Erioed i maes o'i enau sanctaidd.

Iago. 1. 19 4 Traetha 'n bwyllog, gwrando 'n escud,
Mae dau glust, un tafod gennyd,

Am

Aml eiriau 'baer cyfeiliorni, *Dibar.* 10. 1.
Ni ddaeth drwg i neb o dewi.

5 Cyn y dywedech, meddwl ennyd,
P' wedd y myn mab Duw, it ddywedyd,
Yno dywaid 'r hyn ſydd raſol, *Mat.* 5. 37.
A da, i adail rhai an-neddfol.

6 Na ddoed 'madrodd brwnt o'th enau,
Na gair ffol, na choeg ddigrifau;
Senn, na ffroſt, na phrwmp, na chelwydd, *Eph.* 5. 4.
Ond bid raſol dy leferydd.

7 Cadw d' enau rhag gair diriaid,
Felly gelli gadw d' enaid, *Sal.* 39. 1.
Oni ffrwyni dafod anwir, *Mat.* 12. 37.
Yn ôl d' eiriau i'th gondemnir.

8 Arfer iaith, ac § aeg, gwlad *Canaan*, § *lleferydd.*
Bid am Duw, a'i air dy ymddiddan: *Sal.* 145. 12.
Wrth dy eiriau y cair gwybod, *Col.* 3. 16.
O ba wlad yr wyt yn hanſſod.

9 Nâ'd i'th dafod arfer tyngu
Cîg a gwaed yr Arglwydd *Jeſu*, *Iag.* 5. 12.
'R wyt ti 'n ‖ damſing gwaed y cymmod, *Heb* 10. 29.
Pan arferych gyfryw bechod. *Satbra.*

10 Am air Duw, nid oes it yngan,
Heb anrhydedd, parch, ac ofan;
Ac o cym'ri ei Enw 'n ofer,
Di ei yn euog pan i'th farner.

11 Dywaid beunydd leia ag allech,
D'we'd yn raſol pan y d'wedech,
Oni ddywedi eiriau hyfryd,
Gwell it dewi a ſon na d'wedyd.

12 Gochel fod yn ddau dafodog, *Diar.* 6 16, 17.
Cas gan Duw bob dŷn celwyddog: *Ioan* 8 44.
Tâd y celwydd ydyw 'r cythrel,
Gwas i'r diawl yw 'r ffalſt ei chwedel.

13 Arfer draethu 'r gwir o'th galon,
Hoff yw 'r gwir gan Dduw, a dynion,
Sal. 101.7. Ni chaiff dŷn celwyddog gredu
Gair o wir, pan bo 'n ei dyngu.

14 Na chno un dŷn lwyr ei gefen,
Ac nac arfer gair drwg-abſen,
Gwaeth na chleddyf llym dau finïog,
Ydyw enllib dŷn celwyddog.

15 Na ddwg dafod drwg anhappus,
Diar. 4.24. Gwaeth yw hwn na gwenwyn lindus,
Sal. 140. Gwaeth na marwor poeth yn lloſci,
Iago. 3. 6. Gwaeth na ſaethau un o'r cowri.

16 Er fy mendith na lyſenwa,
§dyn gwag. Neb yn rhwyl, neu 'n ffol, neu 'n §rhacca,
Mat. 5. 2. 'R hwn a alwo ei frawd yn lled-ffol,
Mae ê 'n haeddu tân uſſernol.

17 Gochel adrodd faint y glywech,
Gochel dd'wedyd faint y wypech;
Dywaid wir pan groffo ei draethu,
Nes bo rhaid, gwell weithiau i gelu.

18 Bydd ddeallgar pan ganmolech,
Mwynedd. Bydd §gwrteiſol pan gyfarchech,
Bydd gariadus wrth geryddu,
1 Ped. 3. Bydd drugarog wrth gyfrannu.

CAN. LXI. *Gweddi am lywodraethu ein geiriau, a'r geneu wrth fodd* Duw.

ARGLWYDD agor fy ngwefuſedd,
I foliannu 'th Dduwiol fawredd,
Sal. 51. A chyf'rwydda di fy nhafod,
I ddatganu 'ma's dy fawr-glod.

2 Llanw 'ngenau, o'th wir foliant,
Sal. 40. I'th fendithio, am fy llwyddiant;

A'th

A'th glodfori Dâd trugarog,
Yn y dyrfa fawr luoſog.

3 Llunia 'ngeiriau, llywia 'n 'hafod,
A chyfrwydda fy myfurdod: *Sal.* 141.
Clo a datclo fy nwu wefys,
Nâ'd fi draethu ond dy 'wllys.

4 Arglwydd cadw ddrws fy ngenau,
Nâ'd fi draethu ffiaidd eiriau,
† Ffrwmp, na ffroſt, na ſenn, na chabledd, † *Gwawd.*
Geiriau ffol, na dim anwiredd.

5 Bid myfurdod fy holl galon,
Bid fy ngweithred a'm hamcanion, *Sal.* 19. 14.
Bid fy ngeiriau oll yn ddi-ddrwg,
A chymm'radwy yn dy olwg.

CAN. LXII. *Cyngor i ddyn fod bob amſer o ymddygiad Criſt'nogaidd.*

BID d' ymddygiad yn griſt'nogaidd,
Yn gwrteifiol, ac yn g'ruaidd,
Ym mhob tyrfa 'delych iddi,
Megis plentyn i'r goleuni. 1 *Ioan.* 1. 7.

2 Bydd fel Seren yn diſcleirio,
Bydd fel Canwyll yn goleuo, *Mat.* 5. 16.
Bydd fel §patrwn o griſt'nogaeth, *Siampl.*
I'r rhai ddelo i'th gwmniaeth.

3 Bydd dra ſanctaidd i'r Galluog,
Bydd yn union i'th gymmydog, Ped. 1, 15.
Bydd yn ſobr it dy hunan,
Dyna 'r tri phwynt rheitaf allan.

4 Bydd mor ddi-ddrwg ac yw'r g'lommen,
Bydd mor gall â'r ſarph drachefn;
Bydd ddioddefgar fal y ddafad, Luc. 10. 3.
Hoff gan Griſt y fath ymddygiad.

Bydd

5 Bydd yn dempraidd megis *Daniel*,
† *Ymborth.* Cadw 'r cnawd mewn † diet iſel;
Eph. 5. 16. Gochel wîn, a bwyd rhy foethus,
Rhag dy fynd yn afreolus.

6 Bydd yn ddiwair, nid yn anllad,
1 *Theſſ* 4. 3. 4. Bydd fel *Joſeph* yn d' ymddygiad,
'R wyt ti 'ngolwg Duw, bob amſer,
Bydd gan hynny lân, a ſyber.

7 Dela 'n union wrth fargenna,
Na thwyll' un dyn wrth farchnatta,
1 *Theſſ.* 4. 6. Duw ei hun ſydd union farnwr,
‖ *Syml.* Rhwng y gwirion ‖ plaen a'r twyllwr.

Tit. 2. 2. 8 Bydd o ffydd, a chrefydd union,
Deut. 6. 13. Ofna DDuw o ddyfnder calon,
Na wna ddrwg o flaen ei lygad,
Ym-mhob mann mae 'n diſgwyl arnad.

Heb. 13. 17. 9 Dilyn gyngor doeth Bregethwŷr,
1 Ped. 2. 17. Ymddaroſtwng i'th Reolwŷr,
Rhuf. 12. 18. Bydd gariadus a'th gymm'dogion,
Ac heddychol â phob Criſtion.

Sal. 15. 4. 10 Bydd dra graſol yn dy eiriau,
Bydd yn fedrus yn dy chwedlau:
Bydd yn gywir yn dy brommais,
† *arafaidd.* Bydd ym mhob peth, lân a † llednais.

11 Bydd di berffaith ymmhob tyrfa,
Bydd fel Sant ym mhlith y gwaetha:
Mat. 5. 48. Er diffaithed y fo 'r cwmni,
Bydd fel *Noe* ym myſg y cowri,

12 Cyfarch bob dŷn yn dra ſiriol,
Goſtwng i'th well, yn gwrteiſiol;
Parcha 'r henaint, a'r Awdurdod,
Rhuf. 16. 16. A rho 'r blaen i'th well yn waſtod.

13 Bydd ddioddefgar, a chymmeſur,
Col. 3. 8. Na fydd boeth na thwym dy nattur,

Godd-

Goddef gamwedd cyn cynhennu, *Diar.16.32.*
Y ddioddefodd hwnnw 'orfu.

14 Ymddaroſtwng i'th oreuon,
Duw ei hun a wrthladd feilchion:
Ac ſe ddyru ras yn yſtig,
I'r rhai ufudd goſtyngedig.

15 Na falchia am un rhinwedd,
Nac am gyfoeth ac anrhydedd; *Theſſ. 5. 18.*
Ond rho ddiolch prudd am danynt,
Rhag i Dduw dy adael hebddynt.

16 Bydd di gryno yn dy ddillad, *1 Tim. 2. 9.*
Dos yn lân yn ôl dy alwad: *Eſay. 3. 16.*
Torr dy bais yn ôl dy bwer,
Na fydd goeg na brwnt un amſer.

17 Gochel, bechu er cwmniaeth,
Cyflog pechod yw marwolaeth: *Ruf. 6. 23.*
C'nifer gwaith y be'ch yn pechu,
C'nifer Angau wyt yn haeddu.

18 Mae cyfathrach er y dechreu,
Rhwng pob pechod brwnt ac Angau.
Fal na ddichon un dŷn bechu,
Na bo Angau yn ei lyngcu,

19 Na fydd anllad yn dy chwedlau,
Na fydd aflan mewn cornelau,
Ym mhob cornel bid d' ymddygiad,
Fal ped faet wrth groes y farchnad.

20 O's cais dŷn, na diawl, nac Angel *Eph.5.11.12.*
Gennid bechu yn y dirgel,
Cofia fod Duw, â ſaith llygad,
Ym mhob mann yn diſgwyl arnad.

21 Er nad ydyw dŷn yn gweled, *Jer. 16. 17.*
Yn y dirgel lawer gweithred,
Y mae Duw yn gwel'd y cwbwl,
Pan na bytho dŷn yn meddwl.

O's

Cor. 4. 5. † *Cyngor.*
22 O's troſeddi yn y dirgel,
Duw ddatguddia dy holl † gwnſel,
Ac y faneg dy ymddygiad
I'r byd, yngwydd haul a lleuad.

23 Gochel ddilyn drwg gwmniaeth,
Pobl anwir ddi griſt'nogaeth,
Theſſ. 3. 6. Can's fe nyrdda rhai'n d' ymddygiad,
Fel y nyrdda 'r pyg dy ddillad.

° *Gyrhaeddo*
24 Fal yr hallta r môr y * granffo,
Y dw'r crovw 'ddelo atto,
Felly nyrdda pobl yſcymmyn,
Foeſau 'r goreu ddelo attyn.

25 Gochel neidir rhag dy frathu,
• *Chwaren.* Gochel * bla rhag dy ddifethu,
Ac o ceri lechydwriaeth,
Sal. 26.4.5. Gochel ddilyn drwg gwmniaeth.

26 Câr â'th galon bob dŷn duwiol,
Sal. 119.36. Bydd gyfeillgar, a rhinweddol:
Dilyn arfer y rhai doethion,
A ſheiddia 'r anuwiolion.

CAN. LXIII. *Cyngor ynghylch bwytta ac yfed.*

GOCHEL eiſte i lawr i fwytta,
Nes bendithio 'r bwyd yn gynta;
Gochel godi pan eiſteddech,
Nes rhoi diolch am y fwyttech.

• *Haidd. Flas.* 2 Criſt ni fwyttei fara * barlis,
Chwaethach bwyd oedd well ei § relis,
Jo. 6.9.11. Nes yn gyntaf ei fendithio,
A rhoi mawl i'w Dâd am dano.

3 P'am y cytcam un dŷn fwytta
Bwyd ſy' ar felldith er cwymp *Adda*;

Nes

Nes yn gyntaf ei fendithio, 1 *Tim.* 4. 4.
A gair Duw, a gweddi drosto.

4 Tost yw gweled mor 'nifeilaidd,
Mor aneddfol, mor anweddaidd,
Y rhed llawer dyn i fwytta
Bwyd, fel buwch y red i'r borfa.

5 Tostach yw eu gwel'd yn cwnnu,
Oddiar y ford, i fynd i gyscu,
Fel y moch o'r trwc i'r dommen,
Heb roi diolch mwy na'r Assen.

6 Nid oes son am ras cyn bwytta,
Nac am fendith Duw gorucha;
Nac am ddiolch gwedi 'porthi,
Mwy na'r moch y sae 'n eu pesgi.

7 Er bod Duw yn rhoi gorchymmyn
I bawb, yn-ol torri'newyn, *Deut.* 6. 11. 12.
Roddi moliant ar yr eitha, *Deut.* 8. 10.
I'r Duw mawr am lanw eu bola.

8 Gochel fwytta ond dy ddigon,
Na fydd chwannog i ddainteithion;
Mwy na rhaid o || ffar lyseulyd. || *Ymborth.*
Baer i'r cnawd orchfygu 'r yspryd.

9 O's rhoi i'r cnawd fwy na'i gyfraid,
'R wyt ti 'n porthi gelyn diriaid:
O's rhoi iddo lai na digon,
'R wyt ti 'n lladd cydymmaith ffyddlon.

10 Nac yf ddiod tu hwnt i fesur,
Gronyn a was'naetha nattur:
Diod gadarn sydd yn peri,
I wŷr nerthol gwympo deni.

11 Gwîn a wnaeth i *Noe* ymnoethi,
Gwîn a yrrodd *Lot* i ymlosgi,
Gwîn a dorrodd gyddfau llawer, *Gen.* 9. 21.
Gwîn orchfygodd *Alexander*.

Sal 69. 22. *Hos.* 3. 6. 12 Na'd dy ford yn fagl itti,
Trwy lothineb cas, a ſwrthni:
Rhag i'r gelyn dû dy hela
'G blu Duw yn llawn dy fola.

13 Mae dau lygaid yr Ychedydd
Yn eu gwaith wrth fwytta ei fwydydd,
Un yn gwel'd ei ymborth hyfryd,
'Llall yn gwarchad rhag y barcyd.

* *Diſgwyl.* 14 Bid dy lygaid ditheu 'n * waetan
Dilyd a nos rhag rhwydau Satan,
'R hwn y gais â'th fwyd dy faglu,
Wrth giniawa a ſwpperu.

15 Pan bo 'r ceiliog coch yn bwytta,
Bydd ei lygaid hwnt ac ymma,
Rhag i'r barcyd llwyd ei ſcllffiaid,
Tra ſo'n bwytta heb feddyliaid:

16 Felly bydded dy ddau lygad
Dithae, uwch dy fwyd yn gwiliad;
Un yn canfod dy Greawdwr,
Y llall yn gwarchad rhag y temptiwr.

17 Gochel fwytta dim a baro
I'th gyd griſtion gwann dramcwyddo;
Gwaharddd. Y mae 'r 'Sgrythur lân yn † gwrafyn,
It' trwy fwyd, dramcwyddo un-dyn.

18 Na char fwytta bwyd dy hunan,
Dyro rann i'r tlawd a'r truan,
Galw 'r gwann i brofi 'th ginio;
Rhanna â'r hwn ſy 'eb dammaid gantho.

19 Ni chiniawei hen *Dobias*,
Nes cae ê'r gweiniaid bach o'i gwmpas,
Ac ni chorſſei ddim dainteithion,
Nes rhoe rhann i'r bobl d'lodion.

Job. 31. 7. 20 *Job* ni fwyttei fwyd yn felus,
Nes bae'r ymddifaid wrth ei yſtlys;

Ac

Ac ni byddei iach ei galon,
Nes rhoi cyfrann i'r rhai tlodion.

21 Galw dithe 'r gweiniaid tlodion,
I gael cyfran o'th ddail teithion : *Luc.* 14. 13.
Felly 'gelwir dithe ar fyrder,
I gael rhann o'r nefol fwpper.

22 Gochel rwgnach ond bydd foddlon,
I beth bynnag fo Duw 'n ddanfon,
Bara a dw'r oedd ffar ddigonol
Gynt, i'r § *Patriarchiaid* duwiol. § *Uchel dadau*

23 *Daniel* bach a fyddei foddlon, *Dan* 1. 12.
'Fwytta ffâ, a ffacpys dûon, 2 *Bren.* 4. 42
A holl feibion y Prophwydi,
Cymerent fara haidd i'w porthi.

24 P'am na byddwn ninnau foddlon,
I beth bynnag fo Duw 'n ddanfon ?
Bid ef lawer, bid ef ronyn, 1 *Tim.* 6 8.
Trwy gael modd i dorri 'n newyn. *Gen.* 18. 8.

25 Fe fu 'r *Drindod Sanctaidd* foddlon
'Wledda gydâg *Abram* ffyddlon,
Ar gig llo, a llaeth, a 'menyn, *Crist mewn*
Bara twym heb fwy o 'moethyn. *gwedd Angel cedd u o'r tri dn ym y fwyttaint gyda Abraham cans fe a'i gelwir ef yn farnpti y holl id* 9 25.

26 'Nawr nid nes gan bob ofer-ddyn,
Er cael bwyd i dorri 'newyn,
Oni bae cael chwech o feigiau,
Gwîn a chan, i borthi 'chwantau.

27 Rhaid cael faws, a rhaid cael fineg,
Rhaid cael capers fampior, garlleg,
Cyn y gallo llawer fwytta
Pryd o fwyd, gan faint o'u traha.

28 Y mae 'r faws yn awr yn coſti
I'r oes hon, mewn gwres a gwegi,
Mwy nag oedd y breiſion Seigiau
Gynt, yn gotti i'n hen dadau.

29 Gynt ni cheiſie *Alexander*,
Saws un amſer gydâ 'i ſwpper,
Ond y ſaws oedd yn ei gylla,
Chwant i'r bwyd yn ol rhyfela.

30 *Cyrus* yntef, fyddei foddlon,
I ſwpperu a'r lann ffynnon;
Lle cei ddw'r i dorri 'ſyched
Ef, a'i ſilwyr, yn eu lludded.

31 Rhaid yn awr i bobl ofer,
'Gael eu gwîn ar ginnio a ſwpper,
Rhaid cael peint neu ddau o glared,
Cyn el tammaid bwyd i wared.

32 Duw, rho fara i'r bobl d'lodion,
Duw, a'n gwnelo ninnau 'n foddlon,
Duw, faddeuo 'n traha inni,
Duw, fendithier am ein porthi.

CAN. LXIV. *Gras cyn bwyd.*

PORTHWR mawr y pum mil gwerin
A'r pum torth haidd, a'r ddau byſgodyn,
Ioan.6. Portha ninnau dy wael weiſion,
A'r hyn ymborth wyt yn ddanfon.

2 A bendithia 'r bwyd a'r ddiod,
'R hwn a roddaiſt ymma, a'n gwarchod,
Fel y gwir fendithiaiſt cyn hyn,
Oen y Paſg, a'r ddau byſgodyn.

3 A rho ynddynt rym i'n porthi,
I'th was'naethu, a'th addoli,
2 Bren.19.8 Fel y rhoddaiſt rym o'th wiw-ras,
Gynt ar deiſen i *Elias*.

4 A phar iddynt i'n cymfforddi,
A'n cryfhau, a'n gwir ddigoni,
Dan. 1. Fel y peraiſt i'r ffar iſel,
Ar y ſiacbys borthi *Daniel*.

Ac

5 Ac na'd inni o'th ddanteithion,
Gymeryd gronyn mwy na digon,
Ond y maint y fo 'n ein helpu,
Yn ein galwad i'th was'naethu.

6 Eithr par in' roddi moliant,
It' bob amfer am ein porthiant,
A chydnabod mai Duw † celi, *Duw 'r Nefoedd.*
Giniaw a fwpper, fy 'n ein porthi.

CAN. LXV. *Gras yn ol bwyd.*

PORTHWR grafol pob creadur,
Gwyllt, a dof, yn ol ei nattur,
Derbyn foliant am ein porthi, *Sal.145.15*
Mor ddigonol â'th ddaioni.

2 Er pan ddaethom o'r groth allan,
Ty di 'n porthaift fawr a bychan,
A'm dy fwynder yn ein porthi,
'R ym ni bawb yn diolch itti.

3 Nid oes gennym dd'wr i yfed,
Bara i fwytta, grym i gerdded,
Goleu i ganfod, nerth i godi,
Ond y roddech Arglwydd inni. *1Chor. 29. 11.*

4 I ti Arglwydd am ein porthiant, *Mat. 6.11.*
Am ein iechyd, am ein llwyddiant,
Am ein heddwch, a'n llawenydd,
Y bo moliant yn dragywydd.

CAN. LXVI. *Gras cyn bwyd.*

LLYGAID pob creadur bywiol,
Sydd yn edrych Arglwydd grafol,
Ac yn * trufto cael eu porthi *Ymddirieu.
Gennyt, rhoddwr pob daioni.

'R

2 'R wyt ti 'n agor dy law rasol,
Ac yn porthi pob peth bywiol,
Gan roi ymborth wrth eu nattur,
Yn ei bryd i bob creadur.

3 O bendithia ni dy weision,
A'r holl fwydydd, a'r dainteithion,
Y bar'to'ist ar ein meder,
I'n digoni ginio a swpper.

4 A rho inni ras i fedru,
Bawb, yn ddyfal i'th glodforu,
Gofal. Am dy § garc, a'th rodd, a'th fwynder,
Yn ein porthi ginio a swpper.

CAN. LXVII. *Gras yn ol bwyd.*

DI lenwaist (Crist) ein cylla,
Ag ymborth o'r dainteithia,
Llanw eneu pawb o'th blant,
A moliant am eu bara.

2 Yn foethus iawn di 'n porthaist,
Yn rasol di 'n diwallaist:
Rho inni weithian ras bob cam,
I'th foli am a roddaist.

3 Di roddaist i ni 'n Cinio,
§ *Maethu.* Ac ymborth i'n § maintainio;
'R ym ni 'n rhoddi nos a dydd,
It' foliant prudd am dano.

4 Mae dyled arnom roddi,
It' foliant am ein porthi,
Oh! rho galon in' a chwant,
I roi mawr foliant itti.

5 Pob bol ac wyt', yn lanw,
Clodforent byth dy enw,
A bendithient ar bob cam,
Dy fawredd am eu cadw.

CAN.

CAN. LXVIII. *Arall cyn buyd.*

DUW, dod fendith ar ein hymborth,
Duw, rho ynddynt rym a chymmorth
I'n digoni, â gwir gryfdwr
I'th was'naethu, di 'n Creawdwr.

2 Er bod llawer bwyd yn ‡ ddainti,
Nid oes ynddynt rym i'n porthi,
Nac i dorri dim o'n newyn,
Oni roi dy fendith arnyn.

‡ *Moethus.*

3 O gan hynny. Duw. bendithia,
Yr holl fwydydd 'roddaist ymma,
Fel y byddo ‡ pwer ynddyn,
'Borthi 'n cyrph, a thorri 'n newyn.

‡ *Rhinwedd.*

4 Lle mae llawer math o fwydydd,
Yn troi 'n eri yn ein † colydd,
Am eu cymryd yn afradlon,
Ac yn magu cas glefydion.

† *Cyllau.*

5 Rho ras ini Arglwydd ſanctaidd,
'Gym'ryd pob bwyd yn dymheraidd,
Fel y gwnelont leſiant inni,
Ac na fagont haint na ſwrthni.

6 Rho rym ynddynt i'n cyfnerthu
Yn ein galwad, i'th was'naethu,
Ac i foli d' enw 'n waſtad,
Er mwyn *Jeſu* Griſt ein Ceidwad.

CAN. LXIX. *Gras yn ol bwyd.*

DERBYN Arglwydd, loi 'n gwefuledd
Am dy ſtafar, a'th drugaredd,
Yn ein porthi mor ddigonol,
A'r creaduriaid ſydd breſennol.

2 Derbyn ddiolch ar ein dwylo,
Am roi i ni gyſtal cinio,

Er

Er nad ydym yn ei haeddu,
Mwy na'r ſawl ſydd yn newynu.

3 Rhoed pob genau ag y borthaiſt,
Foliant i ti am y roddaiſt,
Ninne roddwn it' ogoniant,
Yn dragywydd am ein porthiant.

CAN. LXX. *Gras cyn bwyd.*

DUW mawr, o'r nef ſancteiddia
Ni oll, a'r ymborth ymma
Wyt ti 'n roddi, wrth ein rhaid,
I'th blant, a'th ddefaid borfa.

2 A phaer i ni gydnabod,
Fod pob daioni 'n dyfod,
Oddi wrthyt (grafol wyd)
Yn od y bwyd a'r ddiod.

3 A dyſg in' bawb foliannu
Dy enw, a'th glodforu,
Am ein porthi 'n well na neb,
Bob amſer, heb ei haeddu.

4 Ac er mwyn d' annwyl blentyn,
Yr ym ni 'n daer yn canlyn,
Arnat roddi bara a dw'r,
I'r neb ſ' heb ſwocwr ganthyn.

5 A rhoddi gras i ninneu,
D' was'naethu nos a boreu,
Nes ein dyger lle mae 'n blys,
I'th nefol lŷs, a'th artreu;

6 Lle mae gwir fwyd a diod
Yn para byth heb ddarfod,
Yn dy blas lle mae dy blant,
Heb arnynt chwant na thrallod.

CAN. LXXI. *Gras gwedi bwyd.*

DUW, pa'm yr wyt 'ein porthi,
Mor foethus ac mor ddainti
Yn waſtadol heb ddim trai,
A gadael rhai mewn tlodi?

2 Pa ham yr wyt yn anſon,
I ni dy waelaf weiſion,
Fwy nag ſydd raid ini ym mhell,
A gado 'n gwell yn llwmion.

3 Can's yr ym yn cyffeſu,
Nâd ydym neb yn haeddu,
Cael mwy ſwccwr ar dy law,
Nâ'r neb ſy draw 'n newynu.

4 Ond dy fod di o'th fwynder,
A'th gariad, a'th drugaredd,
Yn rhoi i ni fwy ymmhell,
Na'r ſawl ſydd well eu buchedd;

5 A'r hyder y rhoem ninnau,
Fwy ddiolch byth i tithau,
Na'r ſawl y ſydd mor llwm eu * ffâr.
I'th foli ar eu gliniau.

6 I ti gan hynny rhodder,
O'n geneu ni bob amſer;
Glod a moliant, tra ynom chwyth,
Ar ginio byth, a ſwpper.

* *Ymborth:*

CAN. LXXII. *Gras cyn Swpper.*

CODWN bawb ein pen a'n * ffriw,
At Griſt 'r hwn yw 'n || profeier,
A gweddiwn arno 'n daer,
Roi fendith ar ein Swpper.

* *Wyneb-pryd.*
|| *Paratowr.*

2 Mae e' 'n porthi pob peth byw,
Er maint eu rhyw a'u 'nifer,
Ac yn rhoi i'r rhai 'ny ' gyd,
Eu bwyd mewn pryd a themper.

3 Nid oes un o adar tô,
Yn diſgyn na bo 'i fwynder,
‡ *Brys.* Yn par'toi i hwn ar ‡ haſt,
Ei ginio, brecffaſt, ſwpper.

4 Pa faint mwy na's gofala Duw,
Am ddŷn 'r hwn yw ei bicter,
A rhoi iddo 'i raid bob tro,
Ond bwrw arno ei hyder.

5 Y mae 'n rhoi i ddŷn, yn fwyd
Y grewyd ar ei feder,
Llyſiau, llafur, 'nifail glân,
Pyſg, adar mân, heb 'nifer.

6 Ni wnaeth Duw un geneu 'rioed,
Mewn tir, mewn coed, mewn dyfnder,
Nes par'toi ei ymborth tynn
I'r geneu cyn ei ganer.

7 Llawer rhyw o 'nifail glân,
A phyſgod mân ag ader,
Y rows Duw i borthi dŷn,
A lladd bob un cyn bwytter.

8 Pa'm nad yſtyriei dŷnion hyn?
A rhoddi cyn y cymer'
Glod a moliant prudd bob tro,
I'r Arglwydd, ginio a ſwpper.

9 Duw, agoro 'n llygaid dall,
I weld heb wall a rodder,
A'n geneuau ar bob cam,
I'w foli am ei fwynder.

10 Clod a moliant bob yr awr
I'r Arglwydd mawr a rodder,

Am

Am ddiwallu 'n cylla gwag,
Ar ginio ac ar ſwpper.

CAN. LXXIII. *Arall â'r ol Swpper.*

RHOWN foliant prudd bob amſer
I'r Arglwydd, Ginio, a Swpper,
Am roi ymborth in' mor hael,
Heb adæl * ffael na phrinder.

* *Diffyg.*

2 Rhown iddo ddiolch hyfryd,
Am dan ein bwyd a'n Iechyd,
A'n llawenychu, a'i fawr râs
I'n cadw i ma's o ofyd.

3 A cheiſiwn gantho 'n raſol,
Er mwyn ei Fâb ſancteiddiol,
Borthi 'r enaid yn ei bryd,
A'i air, a'i Yſpryd nefol.

4 A thywallt ei fendithion,
A'i ras yn ddyfal arnon,
Fel y gallom nôs a dydd,
Ei foli 'n brudd o'r galon.

CAN. LXXIV. *ARAL.*

GWYR a gwragedd, gweiſion plant,
Rhown foliant am ein porthi,
I'r hael DDUW, o bryd i bryd,
Sy'n rhoi maeth hyfryd i ni.

2 Mae 'n diwallu pob peth byw,
Bob pryd â rhyw ddaioni;
Ac o'i law, a'i ras, a'i rodd,
Yn rhoddi modd i'n porthi.

Mae 'n rhoi bara i ni o'r ddaer,
A gwyllt, a gwâr i'n peſgi,

Pyſg o'r môr, a mêl o'r graig,
A llawer ſaig heb enwi.

Sal. 147. 9. 4 Mae 'n porthi pob rhyw gnawd,
Fel un dan ſawd i'w coſti,
Heb anghofio 'r adar mân,
Na'r llew, na'r fran ſy 'n gweiddi.

5 Mae ê' 'n porthi dyn yn rhin,
† *Moethus.* A chann a gwin yn † ddeinti,
A brwd a rhoſt o lawer rhyw,
Heb neb ond DUW 'n eu peri.

6 O rhown ninneu foliant prudd,
Bob nos, bob dydd heb dewi,
I'r hael DDUW am dan ei borth,
Sy 'n rhoi 'r fath ymborth i ni.

CAN. LXV. *Grâs cyn Buyd.*

DUW nâ'd i ni fwytta o'th ddoniau,
Fel y bwyttai 'r mòch afalau,
Heb ddyrchafu pen a llygad
I weld o b'le y maent yn dwad.

2 Ond pâr i ni godi 'n pennau,
A chydnabod fod y doniau,
Oll yn dyfod, ſydd i'n porthi,
Oddi wrthyd, Dâd goleuni.

3 A phâr i ni foli d' Enw,
Am dy fwynder yn ein llanw;
A'th fendithio yn dragywydd,
Am ein iechyd a'n llawenydd.

CAN. LXXVI. *Cerydd am eſceuluſo ceiſio bendith ar, a rhoi diolch am ymborth.*

‡ *Brwnt.* FE g'wilyddia hen ddŷn ‡ bâs,
Ddechreu 'n hen wr dd'wedyd, Grâs
Rheitach yw i hwn g'wilyddio,
Fôd ê cyd heb ei bracſdeiſio.

2 Na

2 Na ch'wilyddied un rhyw ddŷn
Ddilyn arfer Criſt ei hun:
Ond c'wilyddied pob ofer-ddyn,
Arfer bwytta ei ſwyd fel mochyn. *Mat.* 15. 36.

3 Fe 'nebydd ŷch, ſe 'nebydd aſſen,
Pwy yw 'porthwr, pwy yw 'perchen,
Ac a roddant ddiolch iddynt, *Eſay.* 1. 3.
Yn y meder a ſo ganddynt.

4 Llawer dŷn yn waeth na 'nifail,
Ni adwaerant Griſt eu bugail,
'R hwn ſy 'n waſtad yn eu porthi,
A'u trwm lwytho â daioni. *Act.* 14. 17.

5 Y mae 'r adar bach yn canu
Clod i DDUW, yn ol ſwpperu,
Ac yn rhoddi moliant iddo,
Nes bo 'n hyfryd in' eu gwrando.

6 Maent hwy bob un yn ymdynnu,
Am y goreu allo ganu
Mawl i'r Arglwydd, nos a boreu,
Sy 'n rhoi bwyd i lanw eu bolieu,

7 Y mae dynion hwythau 'n tewi,
Gwedi 'r Arglwydd mawr, eu porthi,
Heb roi clod na moliant iddo,
Mwy na'r pyſg ſ' eb lafar ganddo.

8 Ond, da dylai 'r fath gan hynny,
Fod yn uffern yn newynu,
Eiſiau 'nabod Duw eu cymmorth,
A rhoi diolch am ein hymborth.

9 O na fydded, un rhyw Griſtion,
Yn gyffelyb i'r fath ddynion:
Ac o byddant (yn ddigwnſel,)
Maent hwy 'n waeth nag un anifel.

CAN. LXXVII. *Cyngor i gyfrannu i'r Anghenus yn ol ein gallu.*

GWAE 'r goludog di-dosturi,
A gaeo ei gluſt rhag gwrando 'r tlodi;
*Diar.*21.13. Fe gaiff hwnnw ddyfal grio,
Yn y pwll heb neb i'w wrando.

2 Pan bo 'i wraig a'i blant a'i draſſau,
Yn chwdu 'r gwin yn nhai Tafarnau,
Yntau fydd mewn carchar caled,
Heb y dw'r i dorri ei ſyched.

3 *Jago* ddywaid nad oes crefydd,
Iago. 1. 27. Na chriſt'nogaeth yn y cybydd,
*Iago*2.14.15. Na ddiwallo 'r gwragedd gweddwon,
Yn eu hadfyd, a'r rhai t'lodion.

4 *Ifan* anwyl yntau ddywedau,
1Ja. 3. 17. O gwel carl ei frawd mewn eiſiau,
Ac heb roddi dim i'w ſwccro,
Nid yw cariad Duw ddim ynddo.

5 Criſt a ddywed, yr â'r *Camel*,
Trwy grau 'r nodwydd yn ddi-drafel,
*Mat.*10.15. Cyn yr el y carl goludog,
I'r nef, o's bydd yn anrhugarog.

† *Gorueuchwilwyr.* 6 Criſt a'n dododd yn † ſtiwardiaid,
I gyfrannu rhwng y gweiniaid,
Y dâ addododd dan ein dwylo,
Rhannwn rhyngthynt rhag ei ddigio.

7 O's bydd marw un gan newyn,
Bydd gwaed hwnnw ar ein cobyn,
Ni all cyfoeth mawr yr holl-fyd,
Wneuthur iawn am dan ei fywyd.

8 Rho dy gardod yn ddi attal,
O's bydd llawer, dyro 'n ammal,

O's

O's bydd 'chydig, dyro ronyn,
Ond rho 'n llawen heb ei wrafyn.

9 Dyro 'n firiol dy eluſen,
Hoff gan DDuw bob rhoddwr llawen, *Cor. 2.2.7.*
Dyro roddech yn gariadus,
Ni fynn Criſt un rodd wrth'nebus.

10 Er na roech i'r tlawd ond cyfran *Luc. 14.13. 14.*
Er mwyn Criſt, o'i dda ei hunan,
Mae e' 'n addo gwabar ffrwythlon,
Am gyfrannu hynny i'r tlodion.

11 Na ddihiria hyd y foru
'Roi 'r peth allech roddi heddy, *Diar. 3.27. 28.*
Rho yn rhwydd, a rho yn hawddgar,
Di-flas fydd y rhodd ddiweddar.

12 Rhown medd *Paul* tra gennym Bwer,
Gwnawn ddaioni tra cawn amſer;
F' all y Monarch mwya heddy,
Fod yn begian dw'r y foru.

13 'Roedd gan *Ddeifes* wrth giniawa,
Lawer ſaig o'r bwyd danteithia,
Nid oedd gantho ar ei ſwpper,
O'r dw'r oer, mewn fflam a phoethder.

14 Wrth frecwaſta ar ddanteithion,
Ni chae *Lazar* gantho o'r briwſion;
Wrth ſwpperu ni chai ynte,
Ddafan dw'r er maint a grie.

15 Fe roddai 'n awr y Byd am lymmed
O ddw'r oer i dorri ei ſyched,
Pe rhoe 'r nef a'r ddaear am ddroppyn
O'r dw'r oer, nis cai, er canlyn.

16 Nid oes gantho o'i holl olud,
Mor dafn dw'r yn uffern danllyd,
Ni bydd gan y llawna ei Giftau,
'Foru o boſſib fwy nag yntau.

Faeth

17 F'aeth mor noeth, mor llwm, oddi ymma
Ac y daeth i'r byd o'r cynta:
Pe cae e'r nef am hanner ffurling,
Nid oes gantho ddim o'r hatling.

18 Heddyw 'gall y gwŷr goludog,
Rannu llawer i'r newynog;
F'allai foru trwy ryw ddamwain,
Na bydd ganthynt ddim eu hunain.

19 Rhown gan hynny tra peth genym,
I'r dŷn t'lawd i dorri 'newyn;
Foru o boſſib ni bydd dimmau,
I gyfrannu i'r mwya ei eſiau.

20 Torr dy fara i'r newynllyd,
Fe ſendithia Duw, dy olud,
Eſay. 58.7. Ni bydd llai dy gig i'th grochon,
Er y roddech i'r rhai tlodion.

21 Ni bu 'r weddw o *Serepta*,
1 *Bren.* 17. D'lottach er y ga's *Elia*',
Ni bu llai 'oyl na'i thoeſyn,
Er rhoi teiſen iddo o ronyn.

22 Gwelais lawer o'r gwŷr mawrion,
Yn cyrwydro am dreiſio 'r t'lodion:
Ond ni welais gwedi 'm geni,
Ddŷn ar feth am helpu 'r tlodion.

23 Coegedd, Syrthni, trawſedd, traha,
Helodd lawer i gardotta;
Ond ni helodd rhoddi Cardod,
Ddŷn erioed i fyn'd ar anffod.

24 Gwyn ei fyd medd Brenhin *Dafydd*,
Y dŷn a dynno 'r t'lawd o'i gyſtydd,
Duw ei hun mewn amſer adfyd,
A'i tynn yntau maes o'i ofyd.

25 Duw a'i gwared o'i drallodion,
Duw a'i ceidw, rhag gelynion;

Duw

Duw ei hun a g'weiria ei welŷ,
Pan bo clâf heb allael cyscu.

26 Rhowch i'r tlawd eu rhaid yn echwyn, Diar. 19. 17.
Criſt ei hun á 'n feichiau droſtyn';
Efe a dâl i chwi drachefen,
Faint a roddoch wrth eu hangen.

27 Pwy ond luddew brwnt * ni fentre, * *Ni fydd galonnog.*
Roi yn echwyn i'r fath feichie?
'R hwn ſy 'n talu ar ei ganfed, Marc 10. 29, 39.
I'w ddyledwyr ei holl ddyled.

28 Yr y'ch yn † truſto gwaeth meichnafon, † *Ceelie.*
Na Mâb Duw am Swmmau mawrion:
Truſtwch Griſt am grâch dippynne
Geiſio 'r tlawd, mae 'n abal Meichie.

29 Y mae 'n talu ar ei ganfed,
I bob Criſtion ei holl ddyled:
Dwl yw 'r cybydd ni all hepcor
Dim i'r tlawd am gymmaint occor.

30 Nid oes occor wy 'n ei 'nabod,
Fwy ei * mael nag occor cardod, * *Eunill.*
Mae 'n d'od adref ar ei chanfed,
Pan bo rheitta cael ei gweled.

31 Nid oes tryſſor ar y ddaeren,
Well nâ chardod ac eluſen:
† Hi fydd gwell yn nydd dy drallod, † *Duw a râd obrwya y rhai a roddant Eluſenau o gariad atto.* Mathew 10 42. *Ond o ran bôd ein*
Nag Aur coeth ac Arian parod.

32 Fe dreulia 'r Aur, fe ryda 'r Arian,
Fe fwytty 'r pryfed Lawnd a Sidan,
Fe lwyda 'r bwyd, fe ſura 'r ddiod,
Nid oes dim all gwaethu Cardod.

33 Pan lloſgo 'r bŷd yn wen-fflam oleu,

gweithredoedd goreu ni yn am-mherffaith, nid ydynt hwy yn haeddu bywyd tragwyddol Eſa. 64. 6 Luc 17. 10. Gal. 2. 6 *Er hynny lle bo ffydd, y mae gweithredoedd da.* Mat. 7. 17. Jac. 2. 18.

A'r tai a'r tir, a'r holl dryſſorau,
Fe ſydd Cardod uwch-law 'r Boban,
* *ddiſgwyl.* Ym Mharadwys yn dy * waitan.

34 Pan del angeu glâs i 'th geiſio,
† *Yndduns.* Fyn'd i'r Barr yn noeth i † ympirio,
Goreu ſtôr medd Criſt yw Cardod,
Ddydd y farn o flaen y Drindod.

35 Pan bo 'r tai a'r tir a'r traſſau,
Gwedi 'th ado dan law 'r Angau,
Fe ſydd Cardod yn dy ddilyn,
Nes dy ddwyn i Lŷs y Brenhin.

36 Mwy o ennill ſydd yn dyfod
I'r dŷn ſydd yn rhoddi Cardod,
Nag i'r tlawd ſydd yn ei derbyn,
Mae 'n cael llawer am y gronyn.

37 Fe gaiff Manna am y briwſion,
† *Dwyr y Bywyd.* † *Aqua-Vitæ* am ddw'r afon;
Gwiſg ddiſgleir-wen am hen Gadach
Ar law Criſt, a'i wir gyfeillach.

38 Gwna gan hynny ffrins o'r golud,
Luc 16. 9. Ac o'r Mammon oll ſydd gennyd,
Fel i'th dynner ar ddydd tywyll
Attynt, i'r tragwyddol Bebyll.

39 Storia lle bydd dy breſwylfod,
Gwerth ſydd gennyt, dyro gardod:
Na wanffyddia fel dŷn *llanas*
Werthu tyddyn, i gael Teyrnas.

40 Gyrr o'th flaen yn Nyrnau 'r tlodion
Dryſſor, lle na ſpeilia 'r Lladron;
Edrych beth a roddech iddyn',
O law Criſt y cei ei dderbyn.

41 A ro'ech i'th wraig a'th blant a'th draſau
Dy wraig a'th blant a'th ffrins a'u piua;

Y ro'ech

Y ro'ech i Grift, a'r tlawd, a'r truan,
†Storio 'r wyt i ti dy hunan. † *Gofod i fynu.*

42 Tryfora o'th flaen i'r nefol Bebyll, ; Luc 12.
Dod olew i'th Lamp mae'r ffordd yn dywyll 35. 33.
Gwna bwrs di-draul o'r dâ, na dderfydd,
Mae Crift ei hun yn rhoi it' rybudd.

43 Haua 'n amal tra c'ech amfer, 2 Cor. 9. 6.
Fel y rhoddo Duw it' bwer;
Ar ei ganfed di gei fedi
Yn ei bryd, oni ddiffygi. Gal. 6. 9.

44 Torr dy fara i'r newynog,
A dillatta 'r noeth anwydog;
I'r cyrwydraid dyro letty, Efa. 58. 7.
Duw ei hun fy 'n erchi hynny.

45 Bydd yn llygaid i'r rhai deillion, Job 29. 12
Traed i'r cloff, a nerth i'r gweinion; 13. 15. 16
Rhyfgwydd gweddw, câr dieithraid,
Mam a Thâd i'r plant ymddifaid.

CAN. LXXVIII. *Cyngor i bob Pen-teulu i lywodraethu ei Dy yn dduwiol.*

O'S mynni fôd yn ddŷn i Dduw,
Yn Griftion fanctaidd tra f'ech byw,
Gwna dy dŷ yn Eglwys fechan,
A'th deulu 'n dylwyth Duw ei hunan.

2 Gwna dy dŷ yn demel gyffon,
Gwna dy dylwyth fel angylion,
Yn eu graddau o bob galwad
I wafanaethu Duw yn ddifrad.

3 Gwna dy dŷ yn demel fanctaidd,
I addoli Duw yn weddaidd,
Gan bob enaid a fo ynddo
Fore a hwyr yn ddi-ddiffigio.

4 Dewis

4 Dewis fein o bobol raſol,
‡ *Naddu.* Gwedi ‡ ſcwario i gŷd wrth reol,
Yn byw'n ſanctaidd, ac yn gymmwys,
I adeilio dy lân Eglwys.

5 Nâ'd un maen anghymmwys ynddi,
Nac un drwg-ddŷn ddyfod iddi:
Nid rhai aflan, ond rhai cymmwys,
A ſynn Duw yn fein i'w Eglwys.

6 Tro'r mein aflan ôll oddiwrthyd,
Ni ſynn Duw'r fath feini farnllyd:
Tŷ i Griſt, nid tŷ i Gythrel.
Y fydd d' Eglwys di a'th Demel.

‡ *Cymmwy-ſaeb.* 7 ‡ Ffittach ydyw pobol aflan,
I fôd yn fein i gorlan Satan;
Ac yn danwydd uffern driſt,
Nac yn fein i Eglwys Criſt.

8 Mein anghymmwys, mein afluniaidd,
Sy'n anffurfio Temel g'ruaidd;
Dŷn anneddfol, dŷn aneſmwyth,
A bair anglod i'th holl dylwyth.

9 Na ddòd glogfaen câs anghymmwys,
§ *Naddu.* Heb ei § ſcwario yn dy Eglwys:
Ac na dderbyn i'th dŷ deddfol,
Rai di-grefydd at rai graſol.

10 Ni wna meini càs anghymmwys,
† *Muriau.* Ond diwreiddio † gwelydd d' Eglwys;
Na'r rhai aflan, drwg, di-grefŷdd,
Ond troi'th dŷ a'i dorr i fynydd.

11 Gyrr yr aflan ffwrdd o'th deulu,
Cyn y ceiſiech Griſt i'th lletty:
Ni ddaw Criſt i'r lle ammherffaith,
Nes troi'n gynta'r aflan ymmaith.

12 Byth ni chydfydd mewn un Demel,
Wir blant Duw, a phlant y cythrel;

Mwy

Mwy nà'r gwenyn bach à'r mwg,
Mo'r Yſpryd Glàn, a'r yſpryd drwg.

13 Ni thrig Brenhin lle bo nôch,
Brwnt eu buchedd, càs eu rhôch:
Ni thrig Criſt a'i Yſpryd gwiwlan,
Yn yr un-tŷ a'r rhai aflan. Jo. 14. 21. Datc. 3. 20.

14 O's bydd i'th dŷ di rai di-grefydd,
Meddwon, marllyd, ac anuſudd;
Tro hwy maes fel dafad glafrllyd,
Rhag clafrio 'r faint ſydd gennyd.

15 Fel y bwriodd *Abram Iſm'el*, Gen. 22.
Ffwrdd o'i dŷ, am chwareu 'r § Rebel; § *Gwrthryfelwr.*
Felly bwrw dithau 'r aflan
I ffwrdd o fyſg dy dylwyth allan.

16 Ni adawai *Dafydd* frenhin, Pſa. 101. 7.
Wâs annuwiol yn ei gegin;
Na âd dithau ddrwg-weithredwr,
Yn dy b'làs, nac yn dy barlwr.

17 Un gwâs aflan a bair anair
I laweroedd o rai § diwair; § *Oneſt.*
Na'd gan hynny 'r aflan orphwys,
Yn dy dŷ, nac yn dy Eglwys.

18 Mynn rai duwiol i'th waſ'naethu,
O's dedwyddwch a chwennychu:
Duw fendithia waith y duwiol,
Pan ddel aflwydd i'r anneddfol.

19 Un gwâs fel *Joſeph*, duwiol geirwir,
A dynn bendith ar dŷ feiſtir:
Ond y drwg-ddŷn megis *Achan*, Joſ. 7. 25.
All andwyo 'r Tŷ a'r Gorlan.

20 O's bydd gwâs crefyddol gennyd,
Duw fendithia dy holl olud;
Fel y gwnaeth ef er mwyn *Jaco'*,
I holl olud *Laban* lwyddo. Gen. 30.

21 Gwell

21 Gwell gwâs duwiol, llariaidd, llonydd,
A dynn lwyddiant ar dy faesydd,
Nâ'r rhai di-grefydd goreu gaffech,
A dynn aflwydd ar y feddech.

22 Gwell y llwydda gorchwyl gwâs,
Diddrwg, llariaidd, llawn o râs;
Nag y llwydda gwaith anneddfol
Gwàs di-grefydd, grymmus, graddol.

‡ Pet. 3. 1, 2, 23 Fe all gwaſ'naethwr doeth, crefyddol,
Droi ei feiſtr fôd yn ddeddfol,
‡ *Digred.* Fel y dichon gwraig y ‡ Pagan.
Droi ei gwr yn Griſtion gwiwlan.

24 Oni cheiſi bobl ddeddfol,
I'th waſ'naethu yn grefyddol,
Byth ni bydd dy dŷ yn Demel,
† *Gwely.* Ond yn wâl a † glwth i'r Cythrel.

25 Nid wyt nes er gweiſion cryfion,
I gyflawni dy orchwylion;
Oni byddant hefyd (Clyw)
Gryf i gwpla gorchwyl Duw.

26 Na fynn un i'th Dŷ a'th Drigfa,
Nes bô o Deulu 'r ſtŷdd yn gynta;
Nac un gwâs tra fyddech byw,
Nes bo'n gynta'n wâs i *Dduw*.

26 Ni fynn Eglwys Dduw it' dderbyn,
Twrc na Phagan it' i'r Cymmun:
Na fynn dithe yn dy Deulu
Rai di-grefydd i'th waſ'naethu.

27 Ni bydd gwâs di-grefydd, cywir
Nac i'r Arglwydd Dduw, na'i feiſtir:
Can's arferol i'r fâth ddrwg-was,
Werthu ei feiſtir megis *Suddas*.

28 Cais gan hynny bobol ſanctaidd,
Pobol dduwiol, pobol weddaidd;

I'th

I'th waſ'naethu tra f'ech byw,
O's gwnei dy Dŷ yn Eglwys DDUW.

29 Bydd dy hunan yn oleuni,
Ac yn † batrwn o ddaioni. † *Siampl.*
I'th holl bobol mewn ſancteiddrwydd,
Glendid buchedd, ac oneſtrwydd.

32 A rho Siamplau da i'w dilyn,
Yn y neuadd, yn y gegin,
Mewn gair, a gweithred, ac ymddygiad,
I bôb rhai ſo 'n diſgwyl arnad.

30 Rhodia gyd â Duw fel *Enog*,
Bydd bôb amſer yn † wagelog; † *Gochelgar*
Cofia fôd Duw â ſaith llygad
Ym-mhob man yn diſgwyl arnad.

31 Gochel ddywedyd dim na'i wneuthur,
Ond a fytho tra § chymmeſſur
O flaen *Duw*, a chroes y farchnad, § *Cymmwys.*
A phair gofio hyn yn waſtad.

32 Bydd mor ſobr, bydd mor ſanctaidd,
Bydd mor gynnil, bydd mor weddaidd,
Bydd mor § ddeddfol, bydd mor gymmwys, § *Sef yn byw yn ol y ddeddf ſef cyfraith Duw.*
Yn dy Dŷ ac yn dy Eglwys.

33 Y mae dyled ar Ben-teulu,
Ddyſgu ei dylwyth wir grefyddu,
'Nabod Duw, a chadw ei ddeddfau,
Credu yng Nghriſt, a'i 'ddoll yn ddiau.

34 Fel y dyſgai *Abram* 'n ebrwydd, Gen 18. 19.
Bawb o'i dŷ i ofni 'r Arglwydd,
Felly dyſg dy blant a'th deulu,
I 'nabod *Duw*, a'i wir waſ'naethu.

35 Dyſg dy blant, a dyſg dy bobol, Joſ 24. 15.
I wir 'nabod eu Tâd nefol,
A'r lachawdwr a ddanfonwys,
Dyna 'r ffordd i'r nef yn gymmwys.

Planna

36 Planna gyfraith *Duw* 'n waſtadol,
Yr ghalonnau pawb o'th bobol,
Sonia am dani hwyr a bore,
I mewn, i maes, wrth rodio ac eiſte.

37 *Duw* ſy 'n erchi 'r Tadau ddangos,
Deddfau 'r Arglwydd i'w hôll blantos,
Dut. 6. 6, A'u rhoi 'n lafau ar eu dillad,
7, 8. Er mwyn cofio gair *Duw* 'n waſtad.

38 Darllain bennod o'r ſgrythurau,
I'th holl dylwyth nôs a borau,
Pair i bawb * repeto allont,
Ail-ad-odd. A byw yn ôl y wers a ddyſgont.
Jac. 1. 22.

39 Bydd Reolwr, bydd Offeiriad,
‖ *Barnwr.* Bydd gynghorwr, bydd yn ‖ Ynad
neu *Uſtus.* Ar dy dŷ, ac ar dy bobol,
I reoli pawb wrth reol.

40 Bydd Offeiriad i'w cyf'rwyddo,
Bydd gynghorwr i'w rhybuddio,
I draethu yr Efengyl iddynt,
Ac i brûdd weddio droſtynt.

‖ *Gymmell.* 41 Bydd yn Rheolwr i ‖ gompelo,
Ac i goſpi 'r rhai droſeddo,
Ac i beri i bawb o'th bobol,
Fyw 'n grift'nogaidd ac yn foeſol.

42 Bydd di Farnwr i gyfrannu,
Union farn rhwng pawb o'th deulu,
I roi tâl i'r da a'r dûwiol,
A dialau i'r anneddfol.

43 Gwna di gyfraith gyfiawn gymmwys,
I reoli 'th Dŷ a'th Eglwys:
Pair i'th bobol yn ddi ragraith,
Fyw yn gymmwys wrth y gyfraith.

44 Dyſg i bawb yn gynta eu dyled,
Dangos b'wedd y dylent fyned:

Gwedi

Gwedi dyſgu 'r gyfraith groyw
Pair i'r wialen beri ei chadw.

45 Bydd a'th law, a bydd a'th lygad,
Yn llwyr ddiſgwil ar eu hymddygiad;
Na ad i neb ar air na gweithred
Droi ar draws heb gerydd caled.

46 Pair i bawb o'th dŷ ddiſgleirio
Megis ſeren yn goleuo,
Yn rhoi llewyrch, dyſg ac § urddas § *Anrhydedd.*
I bob rhai f'o 'n trigo o gwmpas.

47 Pair i'th dylwyth di ragori,
Mewn duwioldeb a daioni,
Fel 'r oedd tylwyth *Noe* dduwiola,
Yn rhagori 'r holl fyd cynta.

48 Pair i'th wraig fod megis ſeren
Siriol, ſanctaidd, lonydd, lawen,
Yn eſampl o ſancteiddrwydd,
Mewn gair, gweithred, ac oneſtrwydd.

49 Pair i'th holl blant fod yn foeſol,
Yn griſt'nogaidd ac yn raſol,
Yn ymoſtwng i'w rhieni,
Fel plant *Rechab* yn y ſtori. Jer. 35. 6

50 Pair i'th dylwyth fod yn ffyddlon,
Megis tylwyth tŷ *Philemon*, Phil. *ad.* 2.
'R hwn a wnaeth ei dŷ yn eglwys,
Gan mor ſanctaidd y rheolwys.

51 Pair i'th bobol fyw mor gymmwys,
Yn dy dŷ, ag yn dy eglwys,
Ac mor ſanctaidd ymhob cornel,
A phe baent ynghorph y demel.

52 Na 'd hwy ddangos gwaeth cynheddfau,
Na 'd hwy wneuthur bryntach caſtiau,
Yn y tŷ nag yn yr eglwys,
Ond pair iddynt fyw yn gymmwys.

53 Na 'd hwy dorri un gorchymyn,
O'r rhai lleiaf heb eu gw'rafyn;
Na 'd hwy ddilyn un drwg-arfer,
Heb eu cyffro i wella ar fyrder.

54 Na 'd i fawr na bychan dyngu
Enw 'r Arglwydd mawr, na 'i gablu,
Na dibrifio gwaed y Cymmod,
Di. 13. 24. Heb roi dial am ei bechod.

55 Na 'd hwy dreulio 'r Sabbath ſanctaidd
Mewn oferedd anghrifi'nogaidd,
‡ *Bwyta ac yfed i ormodedd.* Nac mewn ‡ gloddeſt a phibiaeth,
Heb roi union goſpedigaeth.

56 Na 'd un wrando 'r Gair yn ofer,
Heb ei ddilyn gwedi clywer,
A'i ail-gnoi, a ſon am dano,
A byw yn ol y wers a ddyſgo.

57 Na 'd un fyn'd y nos i gyſgu
Nes penlinio wrth ei wely,
Ac addoli Duw yn gynta',
Cyn y rhoddo i'w gorph eſmwythdra.

58 Na 'd un fyn'd y bore allan
At un gorchwyl mawr na bychan,
Nes addoli Duw yn ei 'ſtafell,
Ar ei ddeulin heb ei gymmell.

59 Na 'd un daro ei law ar arad',
Nac ar orchwyl o un galwad,
Nes y cotto ei law yn gyntaf
Am gael cymmorth Duw goruchaf.

60 Na 'd un fyned i ſiwrneia,
Nac i forio, nac i ffeira,
Nes ymbilio 'n daer â'r Arglwydd,
Fi ddwyn adref yn ddi-dramgwydd.

61 Na 'd un arfer megis mochyn
§ *Bol.* Fwytta ei fwyd a llanw ei § growyn,

Nes

Nes bendithio 'r bwyd yn gyntaf,
A chydnabod Duw goruchaf.

62 Na 'd un godi megis 'nifel
Gwedi llanw ei fol a'i ſottel,
Heb roi diolch prudd a moliant
I'r Tad nefol am ei borthiant.

63 Na'd fod un o'th deulu 'n eiſiau
Ar waſanaeth nos na borau:
Wrth waſ'naethu Duw bydd § garcus, § *Gofalus.*
Na's gwaſ'naetho neb 'fe 'n 'ſgeulus.

64 Na'd hwy arfer geiriau lloerig,
Nac un ymadrodd brwnt llygredig;
Senn na rheg, na llw nac enllib,
Ffrwmp na ffroſt, na dim cyffelyb.

65 Dyſg dy blant, a rhwym dy bobol
I arferyd geiriau graſol,
Geiriau a baro maeth a chyſur,
Gras ac urddas i'r gwrandawyr.

66 Na'd hwy arfer caſtiau bryntion,
Na'd hwy watwor pobol wirion;
Na'd hwy gablu rhai anaſus,
Na bychanu 'r tlawd gofydus.

67 Na'd hwy chwiffo yn y ſeler,
Na'd hwy feddwi ar un amſer:
Na'd hwy ſugno mwg y ddalen
Sydd yn 'ſpeilio 'r bol a'r cefen.

68 Na'd hwy hoffi ffaſiwn anllad Cor. 11. 14.
Ar eu gwallt, nac ar eu dillad;
Pair i bob un fyn'd yn weddaidd,
Fyn'd yn gryno ac g'ruaidd.

69 Ar y ſabbath na'd hwy i'r pebyll
Lle mae 'r deillion yn ymgynnull,
Nac i dramwy i'r tafarnau
Lle mae 'r Diawl yn cadw ei wyliau.

† *Gwel tu dal.* 12.

70 Dos i'th † eglwys-blwyf y ſuliau,
A'th holl dylwyth wrth dy ſodlau,
I addoli Duw 'n gyhoeddus,
Gyda 'r dyrfa yn ddi.eſgeulus.

71 Na'd i'th dylwyth drigo gartre
Amſer Goſber ar y Sulie,
|| *Segura.* Na'd hwy || loetran ar y Sabboth,
‡ *Nid chwareuon pechadurus.* Y ſawl a chwario ‡ chwarient dranno'th.

72 Na ddod ormod waith aneſmwyth,
Ddyddiau 'r wythnos ar dy dylwyth;
§ *Canniatta:* § Lwa ambell awr yn llawen,
I'r diffygiol godi ei gefen.

73 Ar y Sabbath na'd hwy 'n ſegur,
Pair i bob un chwilio 'r 'ſgrythur,
Ac i weithio gwaith Duw yn eſgud,
O flaen un-gwaith a f'o gennyd.

74 Dyſg dy dylwyth ar y ſuliau
Bob yr un i ganu Salmau;
‡ *Ymreſymu.* Ac ‡ ymbyngcio yn llon â'u gilydd
Am Air Duw a phyngciau crefydd.

75 Ar bob cinio, ar bob ſwpper,
* *Pennod.* Pair i ryw un ddarllain * *Chapter*,
I roi ymborth i bob enaid,
Pan b'o 'r corph yn cael ei gyfraid.

76 Na'd dy dŷ, na hwyr na borau,
Heb waſanaeth a gweddiau;
Gwell i'th dylwyth fod heb ſwpper,
Tra font byw, na bod heb oſber.

77 Na'd i'th eglwys fod un amſer,
Heb waſanaeth-pryd a goſber;
|| *o fawl.* Nac heb || aberth hwyr a borau,
I'r Tad nefol am ei ddoniau.

78 Na'd un cornel a f'o ynddi,
Heb ei 'ſgubo o bob brynti,

A'r

A'r yſgubell o 'difeirwch,
Nes cael ffafar Duw a'i heddwch.

79 Golch ei llawr a heilltion ddagrau,
Trwſia ei gwelydd â rhinweddau:
Na'd ei hallor heb dân arni,
Ac aroglau mawl a gweddi.

80 Cais dy hunan chwareu 'r 'ffeiriad,
Galw ar enw Duw yn waſtad;
Pair i'th bobol gyd-fyfyrio
Gyd â thi tr'ech yn gweddio.

81 Pob pen-teulu carcus, cymmwys
Ddylai fod fel gwr o'r eglwys,
Yn cynghori, yn rhybuddio
Pawb o'i dŷ, yn orau ag allo.

82 A'r fath drefen ſy 'n yr eglwys,
Yn rheoli pawb yn gymmwys,
Ddylai fod yn nhŷ pob Criſtion,
I reoli 'r tŷ a'r dynion.

83 Goſod un neu ddau o'th deulu,
Fel wardeniaid i'th gyd-helpu,
Gadw 'th bobol oll wrth drefen,
A'u rheoli yn dy abſen.

84 Rhaid yw diſgwyl ar arferion,
Ac ymddygiad pawb o'th ddynion,
Ac ar lwybrau rhai ſy 'n pechu,
Fel y gallech eu ceryddu.

85 Na'd un drwg-ddyn heb ei goſpi,
Yn ol meſur ei ddrygioni,
Rhag i eraill bechu fwyfwy,
Am it' ffafrio 'r anghym'radwy.

86 Dyro rybudd i'r troſeddwr
Dair-gwaith, pedair, wella ei gyflwr,
Cyn ei daflu ffwrdd o'r gorlan,
Oni wella tro ef allan.

87 O's bydd meddwon na bydd ſobor,
* *Dyn anfoetſol.* O's bydd * drel na dderbyn gyngor,
Un di-gred na charo grefydd
Tro hwy maes yn ol cael rhybudd.

88 O's bydd morwyn yn ſcoldies,
Ac heb barchu *Sara* ei meiſtres,
Bwrw *Hagar* i'r drws allan,
Gâd i'r feiſtres gael ei hamcan.

89 Na 'd i'th ddynion fod yn ſegur,
Rho ryw daſg i bawb i'w wneuthur:
Maeth diffrwythder, mammaeth gwradwydd
† *Segurŷd.* Yw cyd-ddwyn â † ſegurllydrwydd.

90 Mynn wel'd pawb o'th blant a'th deulu,
Yn myn'd mewn pryd bob nos i gyſgu:
Arfer ddrwg yw gadael gweiſion
Fyn'd i gyſgu pan y mynnon'.

91 Pan byddo 'n amſer myn'd i gyſgu,
Cais gan Griſt fendithio 'th deulu,
A bod arnynt oll yn geidwad,
Gwedi 'n cymmer di dy gennad.

92 A rho rybudd i'th holl bobol
§ *Parchedig.* I alw ar Dduw yn § ddefoſiynol,
Fawr a bach ar ben eu gliniau,
Cyn yr elont i'w gwelyau.

93 Ac rhag ofan i Dduw gyrchu,
Rhai o'u cwſg i fyn'd i'w barnu:
Pair i bob un lwyr-ymg'weirio,
Fyn'd o flaen Duw cyn y cyſgo.

94 O's fel hyn y llywodraethu,
Dy holl dylwyth a'th holl letty,
Duw fendithia 'th dŷ a'th dylwyth,
Ac fe 'ch gwna chwi oll yn eſmwyth.

95 Criſt a breſwyl yn dy demel,
Criſt a'th wrendy yn dy drafel:

Criſt

Criſt a'th dderbyn o'th lân Eglwys,
Ar dy ddiwedd i *Baradwys*. 1 Sam. 2. 30.

CAN. LXXIX. *Dyledſwydd Plant i'w Rhïeni.*

O'S plentyn wyt, rho wir anrhydedd
I'th dad a'th fam, trwy barch a mawr-
Duw ſy 'n erchi eu hanrhydeddu (edd,
O's gras a hir-oes a chwennychu. Eph. 6. 2, 3.

2 Gwna 'r peth archo dy rïeni,
Prawf ymhob peth eu boddloni;
Tra na cheiſiont gennyt bechu,
Gwna bob peth a ſ'ont yn fynnu.

3 Derbyn gyngor, derbyn gerydd, Diar. 4. 1.
Derbyn goſp dy dad yn ufudd:
Derbyn ddyſg pan ſ'o 'n dy † fiacco, † *Ceryddu.*
Derbyn bob athrawiaeth ganddo.

4 O's dwl, o's dall, o's poeth, o's § lloerig, *Lleuat-glaf.*
O's annioddefgar a dottiedig,
A fydd dy dad a'th fam mewn henaint,
Godde eu gwendid trwy ddioddefaint. Tim. 5. 4.

5 O's bydd dy dad a'th fam mewn tlodi,
A chennyt tithau fodd i'w peri;
Maetha 'n dirion y ddau hen-ddyn,
Fel y maeth'ſont dithau 'n blentyn.

6 Dilyn ſiampl y ‖ *Ciconia*, ‖ *Math o aderyn.*
Sy 'n porthi ei dad pan fyddo gwanna,
Yn c'weirio ei nyth, yn ei adeinio
Yn hên, yn wan, heb allu cyffro.

7 Dilyn arfer y † *Dolphiniaid*, † *Math o byſg.*
Sy 'n porthi eu tad a'u mam yn weiniaid,
Gan eu cadw pan ſ'ont gwanna,
Rhag i'r pyſgod mawr eu difa.

8 Gwaradwydd

8 Gw'radwydd mawr i feibion dynion,
Fod yn waeth na 'r adar gwylltion:
Gwaeth na 'r pyſgod mewn caledi
Wrth y rhai roes bywyd inni.

9 O's wyt wr mawr o alwad uchel,
A'th dad yn dlawd, a'i radd yn iſel,
Rho barch i'th dad, er cuwch dy alwad,
Anrhydedda 'th fam yn waſtad.

Gen. 46.29. 10 Er bod *Joſeph* yn rheoli
Gwlad yr *Aipht* a'i dad mewn tlodi,
Fe wnai *Joſeph* fawr anrhydedd,
I'w ei dad er maint ei waeledd.

1 Bren. 2. 19. 11 Er bod *Salomon* yn frenhin,
Ar ei orſedd yn gyffredin,
Fe ddiſgynnai oddiar ei orfedd,
I barchu ei fam â mawr anrhydedd.

Rhuf. 9. 5. 12 Er bod CRIST yn Dduw, yn ddyn,
Yn uwch na neb, yn well nag un,
Fe barchai ei fam, fe barchai ei dad-maeth,
Luc 2. 51. Fe fyddai ufudd i'w hathrawiaeth.

13 Ped fait ti *Duwc* nid llai dy ddyled,
I barchu 'th dad a'th fam er tlotted:
Ni rydd uchel-fraint rydd-did itti
Laeſu 'th ddyled i'th rieni.

14 Mae 'th dad yn dad, ped fai ef cobler,
A thithau 'n fab, ped fait ti ſgwier:
Tra fiech di 'n fab, mae Duw 'n dy rwymo
Roi parch i'th dad, pwy bynnag fytho.

15 Pan oeddyt wan heb fedru cwnnu,
Heb fwyd i gnoi, heb laeth i lyngcu,
Heb glwt i'th gylch, dy fam a'th helpiodd,
Pa dâl a roi i'r hon a'th fagodd?

16 Yn hir hi 'th ddygodd tan ei gwregys,
A'i gwaed hi 'th borthodd yno naw-mis.

A'i

A'i llaeth hi 'th olchodd o'th holl frynti,
Pa dâl pwyth a wnai di iddi?

17 Yn glaf hi geiſiodd dy ddiddanu,
Lawer nos, gan golli ei chyſgu;
Gan dy lwlan rhwng ei breichiau,
Pan bait ti ar dorri yn rhengau.

18 Rho anrhydedd prudd gan hynny
I'th riëni am dy fagu:
Na 'd wall arnynt hyd dy farw,
Tr'o gwerth ceiniog yn dy helw.

19 Y parch a'r bri, y bwyd a'r trwſiad,
A ro'ech i'th dad yn hen-wr * ingnad,
A rydd dy fab i tithau 'n hen-ddyn,
Wrth union farn, cyn del dy derfyn.

* *Blinderus.*

20 Y garthen rawn a fu ar wely
Dy dad, wrth orwedd yn y beu-dy,
A geidw 'th fab i tithau orwedd,
Ar y daflod cyn dy ddiwedd.

21 Y meſur cwtta 'r hwn a roddech,
A roddir itti pan heneiddiech:
Yr ŵyr a ddiall medd y wlad,
Y meſur byrr a ro'ech i'th dad.

Luc 6. 38.

22 Bydd gan hynny hael a ſerchog
Rhwydd a thirion, a thrugarog,
Wrth dy dad a'th fam mewn henaint,
Fel y caffech dithau 'r cymmaint.

23 Na ddos fel *Eſau* i briodi,
Heb gael cennad dy riëni:
Odid i DDUW erioed fendithio
'R fath briodas wyllt, na'i llwyddo.

Gen. 25. 34. 35.

24 O's anweddus yw 'th riëni,
Nid oes itti mo'u hamharchu,
Na 'u bychanu hyd eu diwedd,
Ond gweddio am wella eu buchedd.

Gen. 9. 25.

25 *Cam* am watwor *Noah* ei dad,
A drwm-felldithiwyd yn ei had;
Mae 'r felldith hon heb fyned etto,
O grwyn y ‡ *Mwrs* a ddaeth o hono.

‡ *Pobl dduon eu crwyn.*

26 *Abjalom* deg a fu anufudd,
A thraws i'w dad, hen frenhin *Dafydd*,
Duw a'i crogodd wrth ei † locſen,
Am ei drawſedd wrth frig derwen.

† *Cydyn o wallt.*
2 Sam. 18. 9.

27 Parcha 'th dad a'th fam gan hynny,
Helpa 'r ddau pan font yn ffaelu:
Felly 'r eſtyn Duw dy ddyddie,
Yn y tir lle b'o dy dreig-le.

CAN LXXX. *Y Pethau a ddylai Dyn fyſyrio arnynt ar y Sabbath wrth fyned i'r Eglwys, a pha fodd y mae iddo ymddwyn ei hun yno.*

CYN dy fyn'd i'r llan wrth gerdded,
Meddwl i b'le 'r wyt ti 'n myned;
O flaen pwy, ac i ba bwrpas?
A dos gwedi 'n iddi 'n addas.

§ *Gwir Dy Dduw yw ei Bobl.*
Heb. 3. 6.

2 'R wyt ti 'n myn'd i § dŷ 'r Goruchaf,
O flaen Duw yr Emprwr nwyaf,
I chwdleua ar dy ddeu-lin,
A'th Greawdwr ac a'th Frenhin.

ac ni ellir yn nyddiau yr Efengyl alw un lle wrth yr enw hwnnw, ond yn unig trwy 'r ſſigur Metonymia, *trwy ba un y rhoir enw y peth a gynhwyſir i'r ae ſydd yn ei gynhwyſ ynddo.*

3 'R wyt ti 'n myn'd i lys *Jehofa*,
I gael clywed Duw gorucha,
Yn ymddiddan â thi 'n hyfryd,
Deg. a theg, o air y bywyd.

4 'R wyt ti 'n myn'd yn brudd i adde
O flaen Duw dy holl gamwedde,
Ac i ddeiſyf ei drugaredd,
Gras, a grym, i wella 'th ſuchedd.

'Rwyt

5 'R wyt ti 'n myn'd i geiſio pardwn,
Nawdd a gras, ac *abſoliwſiwn*
Gan dy Griſt, trwy enau 'r 'ffeiriad,
Am dy bechod a'th gam'ddygiad.

6 'R wyt ti 'n myn'd i lwyr-weddio
Ar yr Arglwydd mawr, ſy 'n addo
Rhoi in' bob peth ſydd angenrhaid
At y corph, ac at yr enaid.

7 'R wyt ti 'n myned i fendithio
Duw, am bob dawn a gefaiſt ganddo,
Ac i roddi i'r Gorucha
Glod a moliant gyd a 'r dyrfa.

8 'R wyt ti 'n myn'd i wrando 'n hyfryd
Efengyl CRIST, a gair y bywyd:
Ewyllys Duw, a'i gyfraith ſanctaidd,
I'th gyfarwyddo fyw 'n griſt'nogaidd.

9 'R wyt ti 'n myn'd i geiſio cyfran
O hael fendith Duw ei hunan,
I'th rwyddhau y ffordd y cerddech,
Ac i lwyddo 'r hyn a wnelech.

10 Dos gan hynny trwy lawenydd, Nu. 6. 23.
I dŷ Dduw â dirfawr awydd, Sal. 100. 2.
A hiraetha am fyn'd yno, Sal. 41. 1.
Fel yr hŷdd am ddyfroedd *Silo*.

11 Dos yn llawen, dos yn ſiriol,
Dos yn eon, dos yn foeſol,
Dos yn fuan, dos yn forau,
Dos i dŷ Dduw ar ben dy liniau.

12 Dos i'r eglwys gydâ 'r cyntaf,
Aros ynddi gydâ 'r olaf:
Tra f'ech yno na fydd ſegur,
Gweithia waith dy Dduw yn bryſur.

13 Na fydd ſegur yn nhŷ Dduw, Preg. 9. 10.
Gweithia ei waith yn brudd tr'ech byw:

Jer. 48. 10. Melldigedig yw 'r dyn gwallus,
A wnel gwaith ei Dduw 'n dwyllodrus.

Jer. 29. 14. Mat. 15. 7, 8. 14 Cwymp yn iſel ar dy ddeu-lin,
Llef yn eiriol ar dy Frenhin:
Prudd weddia â'th holl galon,
Na ragrithia o's wyt Griſtion.

Diar. 1. 5. Sal. 119. 15. Mat. 13. 23. 15 Gwrando 'r Gair yn dra awyddus,
Derbyn hwn i'r galon garcus:
Na 'd i'r brain a'r *Fall* ei ſglyffied,
Nes ei ffrwytho ar ei ganſed.

☞ 16 Gochel edrych hwnt ac yma,
Gochel gyſgu na chwedleua.
Ond gwna naill ai prudd weddio,
Gwrando 'r Gair, neu fyn'd oddiyno.

☞ 17 Ni all Duw yr union Farnwr,
Aros edrych ar ragrithiwr,
A ſ'o 'n cym'ryd arno addoli,
Ac heb wneuthur dim o ddifri'.

18 Pan weddio 'r gwr eglwyſig,
† *Sef yn dy Galon yn ddyſul.* † Cyd-weddia ag 'ſe 'n yſtig,
Air yng air o'r dechreu i'r diwedd,
Mewn cyfundeb a chynghanedd.

19 Pan pregethir yr Efengyl,
Gochel droi at hon dy wegyl:
Rhuf. 1. 16. Gallu Duw 'r 'Fengyl helaeth,
Sydd yn gweithio 'n lechydwriaeth.

Luc 4. 20. 20 Craſſa 'n fanwl ar y 'ffeiriad,
Tr'o 'n pregethu â'th ddau lygad:
Cadw ei eiriau yn dy galon,
A chais ddilyn ei gynghorion.

21 Cymmer bob gair ag a ddywetto,
Luc 10. 16. Megis cyngor i'th rybuddio,
Fel o bur enau CRIST ei hunan,
I fyw yn weddaidd yn ei ofan.

Na

22 Na ddos adref heb yſtyriaeth,
Nes cael diwedd y gwaſanaeth:
Ac na chytgam dan boen melldith
Fyn'd i maes nes cael y fendith.

23 Bid d' ymddygiad yn yr eglwys,
Yn griſt'nogaidd ac yn gymmwys,
Megis yng ŵydd Duw ei hunan,
A'i angylion fawr a bychan.

CAN LXXXI. *Cyngor i ymbarottoi cyn dyfod i addoli yn gyhoeddus.*

TYnn dy ŷgidiau, golch dy ddillad,
Ymſancteiddia cyn dy ddwad
I dŷ yr Arglwydd i addoli,
O flaen gorſedd Tad goleuni.

2 Cyffro 'th yſpryd, c'od dy galon,
Dring i'r mynydd uwch daearolion:
Gwel yr hwn ſydd anweledig
Cyn ynganech wrtho orig.

3 Cyn y delych o flaen Duw,
Meddwl byth mai Brenhin yw;
Ac na ddere o flaen dy Frenhin,
Nes y delych ar dy ddeu-lin.

4 Brenhin nefoedd, Tad angylion,
Creuwr daear, Barnwr dynion,
Duw 'r dialau, Tad goleuni
Wyt ar fedr ei addoli.

5 Dere 'n barchus, dere 'n barod,
Dere 'n brudd o flaen y Drindod:
Dere 'n ſanctaidd, dere 'n ffyddlon,
Di gei 'th arch wrth fodd dy galon.

6 C'od dy olwg, tann dy ddwylo,
Plyg dy ddeu-lin, goſtwng iddo,

Cur

Cûr dy ddwyfron, bydd edifar,
Adde'th bechod, cais ei ſtafar.

7 Galw ar y Tad yn danllyd,
Yn enw 'r Mab, trwy nerth yr Yſpryd:
Cais ei deyrnas a'i gyfiawnder,
Di gei 'r cwbwl yn ddi-brinder.

8 Cais ogoniant Duw yn bennaf,
Cais nefolion bethau 'n neſaf:
Cais ei ras yn dra awyddus,
Cais dy raid, o's bydd ei 'wyllys.

P. eg. 5. 1. 9 Cyn dy fyn'd i ddrws yr eglwys,
Edrych fod dy droed yn gymmwys:
Bwrw heibio draws-feddylie,
A gâd fydol-fwriad gartre.

Gen. 22. 5. 10 *Abram* ffyddlon cyn addole,
Rwymai ei aſen yn yr hen-dre;
Felly dylai pob dyn rwymo
Traws-feddyliau cyn gweddio.

Eccſod. 3. 5. 11 *Moeſen* hyfryd cyn y deuai
O flaen Duw, ſe dynnai ei 'ſgidiau:
O tynn dithau dy fydolrwydd,
Cyn y doech o flaen dy Arglwydd.

Gen. 41. 14. 12 *Joſeph* yntau fynnai ymg'weirio,
Cyn ymddangos ger bron *Pharo*:
§ *Yn lan.* Felly ymg'weiria dithau 'n § ſyw
Cyn ymddangos ger bron Duw.

13 *Heſther* dduwiol hithau ymolchwys,
Cyn myn'd ger bron *Ahaſuerus*:
Ymolch dithau o'th ddrygioni,
Cyn rhoech ger bron dy Dduw dy weddi.

14 Pan y delych i dŷ Dduw,
Gwel mor hoff, mor hawddgar yw:
A phan ddelych, dere 'n chwarian,
Mewn anrhydedd, parch ac ofan.

Cwymp

15 Cwymp yn iſel ar dy ddeu-lin,
Yn ei lŷs o flaen dy Frenhin:
Ac na yngan air o'th enau,
Nes ymoſtwng ar dy liniau.

16 Ni rydd neb o'r Saint * *triumphant*, * *Gorfoleddus.*
Yn y nef i'r Arglwydd foliant, Dat. 4. 10.
Nes y tynnont eu coronau,
Ac ymoſtwng ar eu gliniau.

17 Pa'm y cytgam llwch a llydu,
Dd'od o'i flaen ef heb ymgrymmu?
Pan y delont i weddio,
Ac i fegian pardwn gantho.

18 Criſt ein meiſtr fe 'moſtyngai, Mat. 26. 39.
Ar ei wyneb pan gweddiai:
Braidd y goſtwng rhai o'r gweiſion,
Un o'u gliniau pan gweddion'.

19 *Iago* fwyaf gynt addolai
Griſt mor ddyfal ar ei liniau,
Nes caledu yn y demel
Groen pob glin fel carn y camel.

20 *Moeſen, Aaron, Joſua, Samuel,*
Dafydd, Setyf, Joas. Daniel,
A'r holl Saint ſy 'n rhoi goleuni
Inni ar liniau brudd addoli.

21 Gwedi cwympech ar dy ddeu-lin,
Mewn mawr barch o flaen dy Frenhin,
Yſtyr beth trwy brudd fyfyrio, Sal. 5. 1.
Sy 'n dy fryd i ddywedyd wrtho.

22 *Daniel* raſol a fyfyriai, Dan. 4. 9.
O flaen brenhin cyn llefarai:
Tithau ddylit brudd fyfyrio,
O flaen Duw cyn yngan wrtho.

23 Ar ol yſtyr beth a ddywedech,
Cûr dy ddwyfron cyn gweddiech,

A chydnebydd d' anheilyngdod,
A chais bardwn am dy bechod.

24 Llef o'i flaen â chalon bryſur,
Duw bydd raſol i'm bechadur,
Sy 'n anheilwng i edrych arnad,
Chwaethach derbyn fy nymuniad.

25 Hael yw Duw i'r ſawl a'i ceiſiant,
Rhwydd yn rhoi i'r rhai ofynnant:
Rhoi i bawb heb ddim dannodiaeth;
Yn rhwydd ei rhaid yn daran helaeth.

26 Y peth a geiſiech, cais trwy ffydd,
Na chymmer ball, ond begia 'n brudd:
Nac ammeu dderbyn 'r hyn a geiſiech,
O's ceiſi 'n daer di gei ofynnech.

27 Nac ammeu ewyllys da dy Dad,
Na gallu Duw fy 'n rhoi mor rhad:
Duw galluog, Tad wyllyſgar,
Helpwr rhwydd yw 'n Harglwydd hygar.

CAN LXXXII. *Gweddi i'r hwn ſydd yn myned i addoli Duw yn gyhoeddus.*

DUW trugarog, Tad goleuni,
Rhoddwr gras a phob daioni;
Er mwyn Criſt clyw weddi eiriol,
Un o'th blant dros bawb o'th bobol.

2 'R ym ni heddyw yn ymgynnull,
I'th addoli yn dy bebyll:
Duw rho allu in' a meder,
I'th addoli fel y * dirper.

* *Dylem.*

3 A bendithia di 'n cyfarfod,
A chyfrwydda ein myfyrdod:
A dod awen yn ein calon
I'th addoli bawb yn ffyddlon.

Gwna

4 Gwna ni yn addas ac yn weddaidd
I glodfori d' enw ſanctaidd,
Gwna ni 'n barod a gofalus,
Bawb i wrando d' air yn barchus.

5 Duw parottôa di 'n calonnau,
Criſt ſancteiddia di 'n meddyliau,
Awcha 'n zêl, chwanega 'n hawydd
I'th addoli mewn gwir Grefydd.

6 Cwyn y galon, deffro 'r yſbryd,
Nynn â'th ras ein hawen oerllyd:
Sefydla 'r meddwl, dyſg y genau
I'th glodfori am dy ddoniau.

7 Tynn oddi wrthym draws-fwriadau,
Na ad i'r rhai'n ŵyr-droi 'n meddyliau:
Pair in' wrando d' air yn fuddiol,
A gweddio yn ‡ ddefoſiynol. ‡ *Parchus.*

8 O cyf'rwydda â'th lân Yſbryd,
Ni weddio bawb yn danllyd;
Fel y caffom gennyt wrando,
A rhoi inni f'om yn geiſio.

9 Dod dy fyſedd yn ein cluſtiau,
Pair in' wrando d' air yn olau;
A rho feder i bob calon
I ddeallu hwn yn union.

10 Gwedi deall hwn a'i gofio,
Duw rho Gymmorth i'w || bracteiſio, || *Arferyd.*
A'i wir ddilyn yn awyddus,
Nes y dycco ffrwyth ‡ toraethus. ‡ *Helaeth.*

11 Duw bendithia di 'n pregethwr, 2 Theſ. 3. 1.
Rho iddo ddeall, gras a chryfdwr,
I bregethu gair y bywyd,
Inni 'n bur o'th 'Fengyl hyfryd.

12 Goleua 'i feddwl a'i fyfyrdod,
Nynn ei galon, dyſg ei dafod:

|| *Dosparthu.* Nertha i || barthu 'r gair yn fedrus
Inni bawb yn ol dy ewyllys.

Act. 26, 18. 13 Nertha e' i'n tynnu o'r tywyllwch
I'r goleuni, a'r diddanwch:
O gorlannau tywyll Satan,
I wir deyrnas Crift a'i gorlan.

14 Gwna ei athrawiaeth inni yn rymmus,
Gwna in' ei dilyn yn awyddus;
Gwna inni bawb ei garu yntau,
Heb. 3. 13. Lle mae 'n gwilied ein heneidiau.

15 Duw bendithia ef a ninnau,
Duw ſancteiddia di 'n calonnau:
Duw rho ras a meder inni
Bawb yn bryſur dy addoli.

CAN LXXXIII. *Parottoad i'r Cymmun.*

1 POB rhyw Griſtion ag a garo
Ddyſgu 'r modd y mae ymgyweirio
Myn'd yn lân i ford yr Arglwydd,
Dyſged hyn o werſi 'n ebrwydd.

* *Byrbwyll* 2 Cyn yr elych * rhwp i'r Cymmun,
Yſtyr b'le yr wyt ti 'n rofyn,
A pha beth yr wyt ti ar feder
Cael ei dderbyn yn y ſwpper?

|| *Pennaeth.* 3 Nid i ford rhyw || Emprwr llidiog,
Ond i ford yr Hollalluog,
'R wyt ti 'n rofyn myn'd i fwytta
Bwyd ſydd gan-mil gwell na *Manna.*

Ioan 6. 49. 50. 1 Cor. 11. 29. 4 Gwell na *Manna*, o's fel Criſtion
Y derbynni hwn yn ffyddlon:
Gwaeth na gwenwyn o's trwy anras
Y derbynni hwn fel *Suddas.*

5 Meddwl dithau am ei dderbyn
Yn griſt'nogaidd fel y perthyn.: Mewn

Mewn ſancteiddrwydd, ffydd a gobaith,
Glendid pur, a chariad perffaith.

6 Gochel redeg yn amharod
I ford Criſt yn llawn o bechod,
Rhag it' dderbyn barnedigaeth,
Lle caiff eraill Jechydwriaeth.

7 Cofia 'n garcus pa ſancteiddrwydd, Eccſod. XII:
Pa ymgyweirio, pa barodrwydd,
Gynt oſſododd Duw ar daſc,
Cyn cai Iſrael fwytta 'r Paſc.

8 Cofia hefyd pa ymolchi, Ioan 13. 4.
Pa lanhau a pha ſyberwi, 5.
A wnaeth CRIST â'i ddwylo tyner,
Ar ei Saint cyn profi ei ſwpper.

9 O na ddere dithau yn ſarnllyd,
Yn dy rŵd a'th bechod drewllyd,
I ford Criſt heb lwyr-ymolchi
O'th holl feiau a'th holl frynti.

10 Bwrw lefain pob rhyw bechod, 1 Cor. 5. 7.
Llid, cynfigen, malais, medd-dod, 8.
Rhyfig, ffalſedd, ffwrdd o'th galon,
Ni thrig Criſt y man lle byddon'.

11 Cofia fel yr aeth hên *Satan* Ioan 13. 27.
Gynt i *Suddas* fradwr aflan,
Yn ol iddo fwytta 'r tammaid
Yn ei bechod brwnt mor enbaid.

12 Gochel dithau rhag digwyddo
Y fath beth yr eilwaith etto,
O's ti ddoi i ford yr Arglwydd,
Yn d' aflendid heb barodrwydd.

13 Cofia i'r *Corinthiaid* feirw, 1 Cor. 11.
A nychu 'n hir o'r gwres a'r gwayw, 30.
O achos myn'd yn amharodol,
Llwyr eu pen i'r bwrdd ſancteiddiol.

14 Gochel dithau fyn'd yn rhwyſgus
I'r ford hon heb ofn parchus,
Heb yſtyried beth ſydd arni,
Rhag dy farw yn dy frynti.

1 Cor. 11. 28. 31. 15 Hola dy hunan a myn wybod,
Wyt ti 'n edifar am dy bechod;
Ac a oes gennyt ffydd a gobaith,
Calon lân a chariad perffaith?

16 Barna dy hun yn ddi weniaith,
Fel na farno Duw di 'r eilwaith;
Ac lle gwelych ddim yn eiſieu,
Cais gan Griſt ei roi, neu faddeu.

17 Pedwar peth ſydd angenrheidiol
I'r rhai fynn cymmuno 'n dduwiol,
(1) *Ffydd griſt'nogaidd*, (2) *gwir 'difeirwch*,
(3) *Cariad perffaith*, (4) *Diolchgarwch*.

18 Nid oes lle bod heb y lleia
O'r rhai hyn cyn myn'd i fwytta:
A'r neb a èl i'r ſwpper hebddyn',
Ni chaiff ddim lles oddi wrth y Cymmun.

I. *Ffydd.*

19 Ffydd ſydd gynta 'n angenrheidiol,
I gredu i Griſt roi hun yn hollol,
Ar y groes i farw drofom,
Am y pechod oll a wnaethom.

20 Ffydd ſy 'n cyrraedd ffrwyth y pardwn
† *Dioddefaint.* A bwrcaſodd Criſt trwy † baſiwn;
Ac yn derbyn ar y ſwpper
Griſt ei hun a'i holl gyfiawnder.

21 Nid yw Criſt yn fwyd i'r bola,
I'w gnoi â dant a'i roi i'r cylla:
Bwyd yw Criſt i borthi enaid
Yn yſbrydol trwy ffydd danbaid.

Ioan 6. 35.

Ni

22 Ni all neb fwynhau 'n yſbrydol
Griſt a'i waed, a'i gorph ſancteiddiol,
Ond yn unig trwy ffydd rymmus,
A ddel o galon edifarus. Eph. 3. 17.

23 Mae 'r Efengyl inni 'n dangos, 1 Pet. 3. 22.
Fod Criſt yn y Nef yn aros; Act. 3. 20. 21.
Ac na ddichon un dyn cnawdol, Ioan 6. 63.
Fwytta Criſt, ond yn yſbrydol.

24 Ffydd gan hynny ſydd anghenrhaid,
I gyrraedd Criſt i borthi 'r enaid,
Ac i dderchafu 'r galon atto,
O's myn enaid borthi arno.

25 Bwyd i'r enaid, bwyd i'r galon,
Bwyd yw Criſt i'r meddwl ffyddlon:
Bwyd i'w gym'ryd trwy ffydd fywiol,
Bwyd i'w fwytta yn yſbrydol.

26 Pan b'o 'r corph yn cym'ryd bara Luc 22. 19.
Yn y cymmun er ei goffa,
Cwyn dy galon y pryd hynny,
A thrwy ffydd mwynha Griſt Ieſu.

II *Edifeirwch.*

27 Neſa at ffydd rhaid edifeirwch,
Am bob pechod trwy ddyfalwch;
A llwyr fwriad gwella beunydd,
Troi at Dduw mewn buchedd newydd.

28 Edifara o ddyſnder calon
Am bob bai trwy ddagrau heilltion;
Ac na ddere i ford yr Arglwydd
Nes edifaru rhag cael tramgwydd.

29 Golch dy faril, earth dy waddod,
Na ddod win mewn § caſk o bechod, § *Lleſtr, neu Faril.*
Rhag i'r gwin mewn lleſter aflan
Dorri 'r cask a rhedeg allan.

30 Ni thrig Duw, na 'r Oen, na 'r g'lommen
Lle b'o pechod a chenſigen: Golch

Golch gan hynny 'n lân dy leſter
O's derbynni Griſt na'i ſwpper.

31 Chwyd dy ſedd'dod. cladd dy frynti,
Gad dy ſaſwedd brwnt a'th wegi:
Attal nwyſiant, ſtrwyna nattur,
Gwella 'th ſuchedd, na fydd ſegur.

32 Golch dy ddwylo mewn uniondeb,
2 Cor: 7. 1. Golch dy feddwl mewn duwioldeb;
Golch mewn cariad ben a chynſſon,
Os derbynni Griſt i'th galon.

33 Câr gyſiawnder, dilyn ſobrwydd,
Arfer lendid a ſancteiddrwydd,
Gwiſg am danat gariad perffaith,
Na ad un bai dy nurddo eilwaith.

34 Nid oes rhoi 'r cŵn o'r pethau ſanctaidd,
Na 'r gwerthfawr berls i'r moch angh'ruaidd;
Na 'r *Manna* gwyn mewn halog grochan,
Na chymmun Criſt mewn cylla aflan.

Heb. 9. 4. 35 Mewn crochan aur y dodir *Manna*,
Mat. 27. 59. A chelain Criſt mewn crys o'r meina,
A'r gwin o'r grawn mewn baril g'ruaidd,
A'r cymmun hwn mewn calon ſanctaidd.

III. *Cariad.*

36 Y trydydd peth ſydd raid ei geiſio,
Yw cariad perffaith cyn cymmuno;
Heb ddwyn meddwl drwg at un-dyn,
Pell nac agos, câr na gelyn.

37 Cariad ydyw 'r nodau tirion
Sydd gan Griſt ar * lifrau ei weiſion:
*Gwiſgiadau. Ac wrth gariad yr adwaenir
Defaid Criſt oddiwrth y geifir.

Ioan 13. 35. 38 Nid yw Criſt yn derbyn un-dyn,
I'w fwynhau ef yn y cymmun,

Ond

Ond yr hwn a f'o 'n ddi-ragraith
A phob dyn mewn cariad perffaith.

39 Ped f'ai gennyt fil o ddoniau, 1 Cor. 13.
A bod cariad i ti 'n eifiau, 1, 2, 3.
Nid wyt deilwng byth i ddwad
I ford Crift heb berffaith gariad.

40 Câr gan hynny dy gym'dogion, Mat. 5. 24.
Maddeu 'n rhwydd i'th holl elynion, 44.
Ac os gwnaethoft gam ag un-dyn,
Cymmod cyn bwyttaech y cymmun.

41 Gochel ddyfod yn ddigofus,
I ford Crift mewn llid a malis;
Rhag i Satan fyn'd i'th gylla
Gyda 'r tammaid wrth ei fwytta.

42 Dyfg di gan y neidir dorchog,
Chwydu maes dy wenwyn llidiog;
Cyn dy fyn'd i'r ford yn llawen,
Rhag i'th falis ladd ei pherchen.

43 Y neidr fraith medd rhai a'i gwelas,
A chwyd ei gwenwyn ar y gamlas,
Cyn yr hyfo ddw'r o'r afon,
Rhag i'r gwenwyn dorri ei chalon.

44 Bwrw dithau dy lid allan,
A'th ddrwg-feddwl, a'th draws-amcan,
A'th holl falais, a'th genfigen,
Rhag i'r rhain andwyo eu perchen.

45 Os bydd gennyt y tri yma,
1. *Ffydd*, 2. *Difeirwch*, 3. *Cariad*: coda,
Dere i'r cymmun, mae it' refo,
Crift ei hun fy 'n d' alw atto.

46 Pan y gwelych dorri 'r bara,
A thywalltu 'r gwin i'r cwppa',
Cofia fel y torrai 'r wayw-ffon Ioan 19. 34.
Gorph dy Grift nes gwaedu ei galon.

Pan

47 Pan derbyniech o law 'r 'ffeiriad
Fara a gwin yn ol cyſſegriad,
Derbyn Griſt trwy ffydd i'th galon,
Portha d' enaid arno 'n ffyddlon.

48 Nid â dannedd y mae bwytta
Criſt yn gnawdol, a'i roi i'r bola;
Eph. 3. 17. Ond trwy ffydd y mae 'n yſbrydol
Fwytta Criſt â 'r galon fywiol.

49 C'od dy galon, dring i'r neſo'dd,
Edrych ar yr hwn a'th brynodd:
Cofia faint a wnaeth ef er'od,
Pan croes-hoeliwyd am dy bechod.

50 Cred i Griſt ar groes a'i hoelion
Offrwm droſot waed ei galon,
A phwrcaſu bywyd itti,
'R wyt ti 'n bwytta Criſt oddifri'.

51 Os gofynni pa ddaioni
Ddyry Criſt o'r ſwpper itti,
Pan dderbyniech hi 'n griſt'nogaidd,
Mewn gwir ffydd a chariad perffaidd?

52 Mae 'n rhoi itti bardwn perffaith
O'th holl bechod cas a diffaith,
Gwedi 'r Brenhin mawr ei ſelu,
A gwaed gwerthfawr calon Ieſu.

Joan 6. 51. 53 Mae 'n rhoi pardwn, mae 'n rhoi bywyd,
1 Cor. 10. 16. Mae 'n rhoi cyſur, mae 'n rhoi iechyd:
Mae 'n rhoi 'r Yſpryd Glân a'i ddoniau,
Mae 'n rhoi ei hun a'i holl rinweddau.

54 Mae 'n dy wneuthur di 'n gyfrannog
O'i holl ddoniau mawr galluog;
Joan 6. 55. A thrwy ei Yſpryd y mae 'n trigo
Eph. 1. 13. Yn dy galon byth tra bytho.

55 Y mae yn porthi d' enaid egwan
A'i wir gorph a'i waed ei hunan,

Ac

Ac yn rhoddi ei nefol Yſpryd,
Itti yn ernes o'r gwir fywyd.

56 O pa ddyled mawr ſydd arnad,
I ſoliannu Criſt yn waſtad;
Am dy wneuthur yn gyfrannog
O'r fath ſwpper fawr gyfoethog.

57 A pha daliad ſy 'n dy bwer,
I roi iddo am ei fwynder,
Felly 'n porthi d' Enaid aflan,
A'i wir waed, a'i gnawd ei hunan?

58 Na fydd dithau mor 'nifeilaidd,
A myned o'r llan yn anweddaidd,
Nes rhoi clod a moliant iddo,
Am yr ymborth a ge'ſt gantho.

59 Criſt ni fwyttei fara barlis,
Chwaethach bwyd oedd well ei § relis, § *Flas.*
Heb roi moliant mawr am dano,
I'w Dad nefol heb anghofio.

60 Pa faint mwy na ddylit tithau,
Fwytta Criſt y penna o'r feigiau,
Heb roi diolch i'r Duw cyfion,
Am ei Fab o ddyfnder calon.

61 A gwawdd nef á daer a dynion,
Seraphiniaid ac Angylion,
I'th gyd-helpu foli 'r Arglwydd,
Am ei gariad a'i gar'digrwydd.

CAN LXXXIX. *Gweddi cyn derbyn y Cymmun*

ARGLWYDD graſſol 'rhwn a roddaiſt
Jesu Grist, y mwya geraiſt,
Fod yn bridwerth dros ein beiau,
Ac yn ymborth i 'n heneidiau.

2 Dyro ras i minnau 'n ſanctaidd,
Ymbar'toi fel Criſtion gweddaidd,
'Dderbyn *Criſt* trwy ffydd i 'm calon,
I borthi f' enaid arno 'n eon.

3 Carth ſy meddwl a'm cydwybod,
Golch fi 'n llwyr oddiwrth fy mhechod,
Gwna fi 'n lleſter glan i dderbyn
Criſt i'm calon yn y cymmun.

4 Cryfha fy ffydd, amlha ſy ngobaith,
Ennyn ynof gariad perffaith,
Sancteiddia 'r corph, cyfrwydda 'r enaid
I dderbyn *Criſt*, y bwyd bendigaid.

5 C'od fy nghalon cuwch a'r Nefo'dd,
Lle mae *Criſt* yr hwn a'm prynodd:
Pair i'm henaid borthi arno,
A thrwy ffydd gael grym oddiwrtho.

6 Pair im' gredu fod im' bardwn,
†*Dioddefaint*. Am fy mai er mwyn ei † baſſiwn,
A rhan hefyd o'i holl ddoniau,
A bwrcaſſodd trwy loes angau.

7 Pair im' gredu y daw i drigo,
I fy nghalon byth tra bytho,
Ac na 'medy 'ſanctaidd Yſpryd,
Nes fy nwyn i'r Nefoedd hyfryd.

1 Cor. 6:19. 8 Na'd gan hynny i mi nurddo,
Ei deml ſanctaidd lle mae 'n trigo,
Nac halogi byth o'm lleſter,
Ond ei gadw 'n lan bob amſer.

9 Pair im' hefyd, ei glodforu
Nos a dydd, hyd eitha o'm gallu,
A'i fendithio 'n brudd bob amſer,
Am yr ymborth ſy 'n ei ſwpper.

Epigram, *neu werſau, ar gynheddfau rhai dynion a phethau. ag y crybwyllyr am danynt yn yr Sgrythur lân, ac yn yr* Apocipha.

Adda

DYSC fy mab wrth Gwymp hen *Adda*,
Wel'd mor brid yw 'r pechod lleia;
Ac mor enbyd cymeryd gronyn,
O'r peth a fo Duw yn ei wrafyn.

2 Cofia hefyd tra f'ech byw
Gadw holl Orchmynion Duw,
'Rag dy blago megis *Adda*,
O's torri wnai 'r Gorchymyn lleia.

3 O's ca's *Adda* gymmant ddial,
Am ei waith yn bwytta Afal;
Yſtyr faint y fydd diïalau,
Rhai ſy 'n byw a'r gyfryw 'Falau.

Efa.

4 *Efa* hen a'i chwymp a'i hanffod,
Sy 'n rho' itti rybudd hynod;
Na chytgammech tra f'ech byw,
Wrando 'r Cythraul o flaen Duw.

5 Pan y rhoddo Duw it ddigon,
Dyſc gan *Efa* fod yn foddlon,
Ac rhag itti golli 'r cwbwl,
Byth na * wrthgriſt fwy na'i feddwl,

Afal.

6 Blin yw 'r Afal a wnae 'r ddineod,
Ar bob dant o'r Byd heb wybod:
Na fydd un o'r rhai ddymuneu
Gael eu maeth ar gyfryw 'Falau.

7 Oni bu'ſei i Griſt ddiodde
Ar bren droſom, ddu loes Ange,

* *Ceiſio yn wrthwyneb,*

Bu'ſei 'r Byd i gyd mewn attal,
Ym-mhwll Uffern am un Afal.

Had y wraig.

§ *Diafol.* 8 Fr maint a fo drwg y § Ddraig,
‖ *Ymddiraid.* Dod dy ‖ druſt yn had y wraig,
Mae ef gwedi 'ſigo ei Siol,
Torri chrib a thynnu 'i chol.

9 O's brath Sarph â cholyn pechod
☞ D'enaid bach, heb allu 'orfod;
Nid oes dim a wna it' les,
Nes myn'd at Griſt y Sarph o bres.

Paradwys.

10 *Adda* gollodd hen *Baradwys*,
Am yr Afal gynt a fwyttwys:
* *I'r Neſoedd.* Gochel dithe golli 'r * llall,
Am fath 'Falau o's 'wyt gall.

Cain.

† *Eglur.* 11 Y dyn a wnelo ddrwg fel *Cain*,
Medd Duw 'n amlwg ac yn † blain,
Nid ymedu drwg a'i dŷ,
Nes del dial oddi-fry.

12 Gochel dywallt gwaed dyn gwirion,
Megis *Cain* y Mwrddwr creulon,
A dywallto waed yn ſiccir,
1 Cor. 6 19. Ei waed yntef a dywelltir.

13 Na wna lanas yn y dirgel
Duw ddatguddia fwrddrad *Abel*:
Yn y dirgel o's gwnei fawr-ddrwg,
Luc 12. 2. Duw a'i dial yn yr amlwg.

Abel.

14 Bydd fyw 'n wirion megis *Abel*,
Ofna Dduw, arfera ei Demel;
Gen. 4. 4. Oſtrwm iddo nos a bore,
Aberth brudd ar ben dy linie,

Dyro

15 Dyro i Dduw dy holl offrwmmau,
Dyro i'r 'ffeiriad dy Ddegemmau,
Dyro i *Ceſar* dreth a thyrnged,
Dyro i bob rhyw ddyn ei ddyled.

Offrwm.

16 Pan offrymmech ddim i Dduw, Leſit. 22.12.
Offrwm iddo 'r gore o ryw, 22.
Ffiaidd gantho ac nid hoff, Mal. 1. 13,
Y gwann, a'r gwael, y claf a'r cloff. 14.

17 O's offrymmu a'th holl galon, Gen. 4. 4.
Duw a dderbyn dy anhregion;
Oni offrymmu o'th lwyr fodd,
Byth ni dderbyn Duw dy rodd.

Enos.

18 Pan bo pawb yn mynd yn ddiog,
I waſ'naethu 'r Holl-alluog,
Cyffra bawb o'r byd fel *Enos*, Gen. 4. 26.
I addoli Duw heb aros,

19 Cais gan bawb waſ'naethu Duw,
(Dyled pob gwir Grifton yw)
Goſſod allan ei Ogoniant,
Di gai gantho ffawd a ffyniant.

Enoc.

20 Rhodia gydâ Duw fel *Enoc*,
Dilyn lwbrau 'r Holl-alluog,
Cofia fod Duw 'n diſgwyl arnad,
Ym-hob mann a chil ei lygad. Gen. 5. 24.

21 Gwel pa ymdal y ga's *Enoc*,
Am waſ'naethu 'r Holl-alluog:
Myn'd i'r Nef cyn gweled ange,
Pwy gan hynny na's Gwaſ'naethe?

22 Dyſc gan *Enoc* dair gwers raſol,
1. Fod dy enaid yn anfarwol;

Heb. 11. 5. 2. A bod i'th gorph adgyfodiad;
Act 4 12. 3. Ac i'r Duwiol nefol daliad.
Gal. 2. 16.

23 Na wna frynti yn y cornel,
Mae Duw 'n gweld pob pechod dirgel,
Ac am hynny meddwl fyw,
Megis un fy ngolwg Duw.

24 Gochel ddilyn arfer tyrfa,
A fo 'n pechu am y cynta,
Gwell na hynny yw dilyn un,
A ofno DDuw, y barcho ddyn.

Cowri.

Gen. 6. 4. 25 Pet fae itti gryfder Cawr,
Duw a fyn dy dorri lawr,
A'th roi 'n fwyd i borthi 'r chwilod,
O's ymroi di ddilyn pechod.

2 Pet. 3. 7. 26 Oni alle Gawr ddifannu,
Pan daeth Diluw dwr i'w farnu;
* *Eiddyl.* Bwedd y dichon * gwan ddihangyd,
Pan y del y Diluw tanllyd?

Noah.

27 Er cynddrwg a fo 'r Byd o'ddautu,
Er cymmaint a fo o rai yn pechu,
Bydd di berffaith yngwydd Duw,
Dilyn *Noah* tra fyddech byw.

28 O's byw wnai di megis *No'*,
Yn ŵr perffaith ar bob tro,
Byddi gydâ *No* 'n gadwedig,
Pan bo eraill yn golledig.

29 Gwell it' ddilyn *Noah* ei hunan,
Mewn perffeithrwydd, ffydd, ac ofan;
Nag it' ddilyn yr holl fyd,
Mewn drygioni, a boddi gyd.

Diluw.

30 Gwel mor ddrewllyd yw putteindra,
Gwel mor gas gan DDuw ddiffeithdra,

Pan na waſ'naethe dyfroedd lai Eſa. 55. 6.
Na 'r Dw'r Diluw i goſpi 'r bai.

Arch neu *Long.*

31 Gwna dy long tra 'i 'n amſer gras,
Cyn y delo 'r Diluw cas:
Mae 'n ddiweddar gwneuthur Bad
Pan bo'r Diluw 'n boddi 'r wlad.

32 Gwell o lawer, nid ychydig,
Yw bod gydâ *Noa'* 'n gadwedig
Yn y llong, na chydâ llawer,
Yn y Diluw dû a'r dyfnder.

Bwa 'r gwlaw neu *'r Enfys.*

33 Pan y gwelech fwa 'r Drindod,
Cofia farn Duw, a'i gyfammod; Gen. IX.
A bendithia ei dduwiol fawredd,
Am ei fwynder a'i drugaredd.

34 Yſtyr amryw liwiau 'r Enfys,
Glâs a chôch yw 'r ddwy farn gofys, 2 Pet. 3. 7.
Glâs oedd Dŵfr y Diluw cyntaf
Côch yw Tân y farn ddiweddaf.

35 Lle mae 'r Bwa yn gyffredin,
A'i gyrn ir ddaer heb ſaeth, heb linin;
Y mae 'n dangos mor heddychlon,
Yw hi yng Nghriſt rhwng Duw a dynion.

Meddwdod Noah.

36 Gochel Satan hen a'i rwyde,
Pan bech tra diofal gatre:
Efe a'th ddilyn megis *No'* *Cwymp.*
Nes rhoi itti § ffwyl ryw dro.

37 Oni allei Satan ddala.
Noe' a i rwydau o butteindra,
Fe brawf ddala *No'* heb ŵybod, Gen. 9. 18.
Yn hen ŵr â rhwyd o fedd'dod.

Lot.

O's

38 O's ai i drigo i *Gomorra*,
Lle mae medd'dod a phutteindra,
Cadw arnat megis *Lot*,
‡ *Puttain.* Rhag d' halogi â'r ‡ hŵr â'r pot.

39 O's gwel' di 'r Dre lle bech yn byw,
Yn pechu 'n gas yn erbyn Duw,
Tynn fel *Lot* i maes o *Sodom*,
**Tymmeſtl.* Cyn diſgynno arni 'r * ſtorom.

40 Gwell bod gydâ *Lot* ei hunan,
Gen. IX. Ar y mynydd tan y geulan;
Na bod gydâ holl wŷr *Sodom*,
Yn y Dre yn godde 'r ſtorom,

41 Pwy ymgadwe yn well na *Lot*,
Yng-hanol *Sodom* rhag y pot?
Yn yr Ogof pwy a feddwe,
Ar y Gwîn yn gynt nag ynte?

42 O's dihangaiſt rhag putteindra,
† *Tai putteiniaid.* Rhwng † y ſtyw-dai yn *Gomorra*,
Gochel wneuthur pechod aflan,
Gartre ymmyſc dy ffryns dy hunan.

43 O's dihangaiſt rhag y Tân,
O ganol *Sodom* am fyw yn lân,
Gochel rhag dy loſci 'r eilwaith,
Yn dy Dŷ am fyw yn ddiffaith.

Gwraig Lot.

44 O's gadewaiſt *Sodom* un-wiath,
Na ddymchwela i *Sodom* eilchwaith:
Trowd Gwraig *Lot* yn § Bîl o halen,
§ *Coloſn.* Am droi hwyneb ty ei chefen.

Gomorra

45 Agor d'olwg, gwel mor ffyrnig,
Y mae Duw yn cofpi rhyfig,
Pan y lloſce â Thân a Brimſton,
Dref *Gomorra* a'i thrigolion.

Llef Sodom.

Llef Sodom.

45 Clyw mor cuwch y gweidda pechod, Gen. 18. 20, 21.
Ddydd a nos ynghluſtiau 'r Drindod,
Ac na ddichon pechod dewi,
Nes dialo Duw ei frynti.

Gwlad Sodom

46 Och! mor ddrewllyd ac mor enbaid, § *Gwrw-gydwyr.*
Ydyw § lloſgach y *Sodomiaid:*
Pan bo 'r wlad yn drewi etto,
A'r mwg a'r tarth lle bu'nt yn trigo.

Cam.

47 Gochel haeddu rheg dy dad, Gen. 9. 25.
Byth ni's gorfu *Cam* na'i had:
Melldith *Noe* ſy 'n glynu 'n ffinion,
Byth ynghrwyn y Moyrys duon.

Sem.

48 Megis *Sem,* trwy ddawn a rhad, Gen. 9. 23.
Cuddia g'wylidd *Noe* dy dad:
A phan ddel mewn gwth o oedran,
Na watwara megis *Canaan.*

Selef neu *Salomon.* 1 Bren. 2. 19.

49 Parcha *Bathſeba* dy fam,
Anrhydedda hi ar bob cam,
Rho 'r llaw ddehau iddi 'n ufudd,
Fel y roddai *Selef Dafydd.*

Abraham. Gen. 13. 18.

50 Cynta peth a wnel dy ddwylo, *Ffydd* Abra-nam.
Pa le benna 'r elech iddo,
Codi allor gydag *Abr'am,*
I addoli Duw 'n ddigytcam.

51 Cred bob gair o enau Duw, Gen. 15. 6.
Gwir, a phur, a pherffaith yw:
Nef a daear a ddiflanna,
Cyn el † jot o'i air heb gwpla. † *Pwngc lleiaf.*

52 Lle harcho Duw it' fyned dos,
§ *Dyfal.* Y peth orch'mynno gwna yn § glos,
Bydd mor ufudd ag oedd *Abr'am*,
Gen. 12 1. Gwna 'r peth archo yn ddigytcam.

Gen. 22. 2. 53 Offrwm d' *Iſaac* o's Duw arch,
Pen 17. Enwaeda 'r galon iddo o barch:
Joſ. 24. 2, Gado ddelwau aur dy dad,
3. O's Duw ai myn tyn ffwrdd o'r wlad.

Iſaac.

54 Dyſg gan *Iſaac* fod yn ufudd,
Mwyn a llednais dofa llonydd:
‖ *Sier.* Felly byddi ‖ 'n ſiwr i fyw,
Mewn ffafar dyn mewn ofan Duw.

55 Gwely 'th briod na haloga,
Ond bydd foddlon i'th *Rebecca*:
Fel y byddai *Iſaac* ſanctaidd;
O flaen Duw mae hyn yn weddaidd.

Jacob.

Gen. 27. 56 O's bydd geiriau *Jacob* gennyd,
Gochel ddwylo *Eſau* waedlyd:
† *Digyfrif.* Cas gan Dduw a pheth † digwnt,
‡ *Gwych.* Yw 'r geiriau ‡ braf a'r gwaith ſ'o brwnt.

57 Pan bwriadech geiſio gwraig,
Bydd i *Jacob* yn Scholhaig:
Dilyn gyngor mam a thad,
Os mynni lwyddiant ar dy had.

Eſau.

58 Na fydd lwth i lanw 'th fola,
Gen. 25. 25. *Eſau* ga's y c'wylydd mwya,
3. 33. Am roi i *Jacob* ei holl afel,
Am y ffioled fawr o gryel.

59 Ffei ar afrad, ffei ar medd'dod,
Na werth nef am fwyd a diod:
Eſau gollodd *Canaan* decca,
Am werthu 'i fraint i lanw ei fola.

Joſeph

Joſeph.

60 O's cais Meiſtres, yn y cornel,
Gennyd orwedd gyda hi 'n ddirgel,
Cilia gyda *Joſeph* allan, Gen. 39. 7, 8.
Na ladd dy enaid er ei chuſan.

61 Dos i garchar, goddef gur,
Gorwedd mewn cadwynau dur,
Cyn y gwnelech megis filain,
Aelod CRIST yn aelod puttain.

62 Na châr buttain tra f'ech byw,
Na haloga demel Duw:
Ni wnai *Joſeph* beth mor ffinion,
Pe y pydrai yn y cyffion,

63 Margain front fel margain *Eſaw,* Diar. 6. 25, 32.
Margain y bair cnoi ac wylaw,
Ydyw gwerthu 'r Nefoedd berffaith;
Am gyfeillach puttain noſwaith.

64 *Joſeph* am na fynnai orwedd,
Gyda 'i feiſtres mewn anwiredd,
A ga's myn'd yn * Brins arbennig, * *Tywyſog.*
Ar yr *Aipht* am attal rhyfyg.

65 Gwell bod gydâ *Joſeph* ddiwa'r,
Am oneſtrwydd yn y carchar,
Na bod gydâ *Herod* Frenhin,
Ac *Herodias* ar ei ddau-lin.

Reuben.

66 O's dringhadu i wely 'th dad,
Gydâ *Reuben* hyna' o'r gwa'd;
Juda gaiff yr holl 'tifeddiaeth,
Ni chai dithau ond yr hiraeth. Gen. 49. 4.

Simeon.

67 *Simeon* gochel werthu 'th frawd, Gen 42. 24.
Nid drwg y gwyddoſt beth yw 'r ffawd,
Fe fydd *Joſeph* gwedi werthu,
Yn troi *Simeon* i'r carchardy.

Moſes

Moſes.

68 Dyſg gan *Foeſen* fod yn fwyn,
Araf llednais da dy gŵyn,
Num. 12. 3. Hawddgar, ffyddlon, pur, di-dwyll,
Cefnog, diddig, da dy bwyll.

Pharao.

Exod. VIII, 69 Gwel pa filwyr ſydd gan Dduw,
Yn plygu 'r Brenhin cryfa 'n fyw;
Llau, a llyffaint, ceiliog-rhedyn,
Yn troi *Pharao* i geiſio canlyn.

Canaan

70 O's ceiſi fyn'd o'r *Aihpt* i *Ganaan*,
‡ *Diſeru.* Lle mae 'r mel a'r llaeth ‡ yn dropian,
Rhaid it' fyned trwy 'r môr coch,
Er maint ei rym er cuwch ei roch.

Manna.

71 Gochel laru ar y *Manna*,
Claf iawn wyt oni elli fwytta;
Num. 11. 4. 5. 6. Ac o's ceiſi bwmps a phannas,
O flaen *Manna*, mae 'ti anras.

Soſt-ieir

Num. 11. 31. 72 Cyn gadawo Duw ddim ei ſiau.
Ar y ſawl a gatwo ei ddeddfau,
Pair i'r Nefoedd 'lawio *Manna*,
|| *Soſtieir.* A || *Chwailes* iddynt i'w eu bwyta,

Corah.

73 Na wrth'neba byth o'r ffeiriad,
§ *Cennad.* § Angel Duw yw wrth ei alwad:
Num. XVI. Rhag i'r ddaear ddû dy lyngcu,
O's fel *Corah* y gwrth'nebu.

Offeiriad.

† *Ymmyredd.* 74 Gochel † ſedlo maes o'th alwad,
2 Sam. 6. 6 7. Bethau berthyn at offeiriad:
Ni fyn Duw ond 'ffeiriad gweddaidd,
Drin yr Arch a'r pethau ſanctaidd.

Y *Sabbath*

Y *Sabbath.*

75 Gwel mor gaeth y myn Duw itti,
Gadw 'r Sabbath heb ei dorri,
Pan y parai i bwyo mhenydd,
Dyn ddydd Sûl, am gaſglu briwydd. Num. 15. 32, 35, 36.

76 Treulia 'r Sabbath byth yn ſanctaidd,
Dere i demel Dduw yn weddaidd,
Ac nac arfer tra f'ech byw,
Waith y Cythrael ar ddydd Duw.

Yr *Haul.*

77 Gwelwn allu Duw bob un,
Yn ‡ ſtopi 'r haul wrth weddi dyn, ‡ *Attal.* Joſ. 10. 13.
Ac attal hon ddiwrnod cyfan,
Uwch ben ei lu, heb fyn'd o'r un-man.

78 Cofiwn byth mai c'wilydd yw:
O's ſtoppa 'r haul, pan harcho Duw;
Fod plant dynion crach fudreddi,
Pan y harcho, heb || ymſtoppi. || *Ymattal oddiwrth ddrwg.*

Joſuah.

79 O's ceiſir gennyd addoli delwau,
Megis *Joſua.* atteb dithau,
Nid addolaf tra f'wi byw,
Mi a'm tylwyth ond ſy Nuw. Joſ. 24. 15.

Zimri.

80 *Zimri, Zimri,* gwel y cledde,
S' uwch dy ben gan Dduw 'r diale,
A'r ſton wayw ſydd gan *Phine's,*
I'th drywanu ti a'th Langces, Num. 25. 14. 11,

Balaam.

81 *Balaam, Balaam,* agor lygad, Num. XX II.
Gwel yr Angel ſy 'n dy warchad:
Tro yn d' wrthol, gochel * ſribri, * *Cymmeryd gwobr.*
Gwrando 'r Aſſen yn d' arg'oeddi.

Sampſon.

82 Na châr buttain mwy na chythrel,
† *Cyfrinach* Barn. 16. Na ro iddi byth o'th † gwnſel,
Hi dyrr gweddwg, hi dynn galon,
Gwr pet ſ'ai mor gryf a *Sampſon*,

Gibeah.

Barn. 20. 24. 83 Byth na chynnal bobol ddrwg,
Ond bydd attynt byth ar d' wg,
Gibeah loſgwyd a'i holl bobol,
Am ymddiffyn gwyr anneddfol.

Benjamin.

84 *Benjamin* attolwg clyw,
Pa'm y tynnu ddial Duw,
Ar dy dŷ a'th ben dy hunan,
Am ymddiffyn plant i Satan.

Eli.

85 Cymmer rybudd oddiwrth *Eli*,
1 Sam. II. I ddyſgu 'th blant a'u dyfal goſpi:
Lle na choſpo 'r tâd a'r wïalen,
Duw â'r cleddyf dyrr eu cefen.

Samuel.

86 Dyſg gan *Samuel* tr'ech yn blentyn,
Brudd waſ naethu Duw a'i ganlyn,
1 Sam. 22. 2, 3. Ac arferu hyd dy ddiwedd,
Fyw yn gyſiawn, yn ddigamwedd.

87 Dyſg gan *Samuel* Farnwr gwych,
Na chymmerech ſuwch nac ŷch,
* *Achos.* Ond rho barn ym-mhob rhyw * fatter,
I bob dyn yn ol cyſiawnder.

Joel mab *Samuel.*

88 Beth ennillodd *Joel* aflan,
§ *Derbyn gwobr.* Wrth gam-farnu, ac wrth § fribian,
Colli ſwydd a'i etifeddiaeth,
1 Sam. 8. Ennill c'wilydd a dannodiaeth.

Uzzah.

89 *Uzzah* gochel gwrdd a'r Arc,
‖ *Goſal.* Gad i'r ffeiriad hynny o ‖ garc, Trin

Trin dy ſwydd dy hun a'th alwad, 2 Sam. 6.
Nid yw 'r Arch yn perthyn attad. 6, 7.

Job.

90 Bydd ddioddefgar megis *Job*,
Tr'ech yn glaf na lef ôb ôb,
Yn dy golled gochel gablu; Job, XII.
Duw ſy 'n rhoi, a Duw ſy 'n tynnu.

91 Pe dygai Duw ſydd yn dy helw,
Pe'th darawai 'n glaf, nes b'ai 'ti 'n farw; Job, 13. 15.
Dywaid, pet f'ai Duw 'n ſy mlingo,
Etto mi ymddiriedaf ynddo.

Dafydd.

92 Ganol nos ſel Brenhin *Dafydd*, Pſal. 119.
Cod i lawr, penlinia 'n ufudd, 52.
A molianna Dduw 'r pryd hynny,
Pan bo eraill yn hwrn gyſgu,

93 Hoff o beth, a hyfryd yw, Pſal. 92. 1,
Ganol nos glodfori Duw; 2.
A rhoi diolch iddo 'r borau,
Am ei ras a'i amal ddoniau,

94 Bydd mor ediſar am dy bechod,
Ag oedd *Dafydd* Brophwyd hynod,
Ac na orphwys wylo 'n eirad,
Nes cael ffafar Duw a'i gariad.

95 Wyla nes bo'th wely 'n foddfa,
Bwytta ddeigrau gyda 'th fara,
Gwiſg di ſach, a thro mewn llethrod,
Nes cael pardwn am dy bechod.

Abſalon.

96 Er melyned a ſo'th gydyn, 2 Sam. 14.
Gochel f' enaid, chwareu 'r cbegyn, 25.
Ac nac arfer † locſau hirion, † *Gwynau.*
Rhag dy faglu fel *Abſalon*.

97 O's aiff *Dafydd* i felina, 2 Sam. 12.
Ganol nos at wraig *Uria*; 10, 11, 12.

Fe

Fe ddaw un ganol-ddydd gole,
I felina i'w felin ynte.

Amnon a *Thamar.*

98 Gwel mor fyrr yw pleſſer oflyd,
A wnai *Amnon* golli ei fywyd;
Gwel mor chwerw yn y diwedd
1 Sam. 13. 5. Yw blas pechod ac anwiredd.

§ *Enbydrwydd.* 99 Na ddod d' enaid byth mewn § perig',
I gyflawnu chwant a rhyfig;
Fe fydd chwerw ac edifar
Yn y diwedd dreiſio *Tamar,*

Hezekiah.

Eſay. 38. 1. 100 Dod dy dŷ mewn treſn addas,
Fel y dodai *Hezekias*:
A bydd barod byth yn gwiliad
Angeu, cyn y delo attad.

Ahab a *Naboth.*

101 Gochel chwennych gwinllan *Naboth,*
† *Bob dydd.* Trais a lef am ddial † beunoth,
Gwinllan *Naboth* o's trachwantu,
||*Golli.* Teyrnas *Iſrael* a || fforffettu.
1 Breu. 21. 19. 102 *Ahab Ahab* ‡ dela 'n union,
‡ *Arfer uniodeb.* Na ddwg winllan *Naboth* wirion,
* *Llw anudon.* Ac o's dygi trwy * udonaeth.
Duw ddifetha dy hiliogaeth.

Daniel.

103 Er maint a ſo'th boen a'th drafel,
Cwymp i addoli Duw fel *Daniel,*
Dair gwaith yn y dydd o leia,
Dan. 6. 10. Dyna 'r unig waith ſydd reita.

104 Cau dy ſtafell, plyg dy liniau.
Cod d' olygon, agor d' enau,
Ac addola Dduw yn brudd,
Felly dair gwaith ar bob dydd.

105 Er dy daflu i fyſg llewod,
Na 'ſgeuluſa 'ddoli 'r Drindod:
Y bwyſtfilod gwaetha eu nattur,
Fedrant arbed gwir addolwyr.

Sadrach.

106 Nac ymgrymma byth i ddelw,
Pe gorfyddai arnat farw,
A myn'd gyda *Sadrach* hyfryd, Dan. III.
Ar dy ben i'r ffwrnais danllyd,

107 Duw yn unig fydd i'w 'ddoli, Mat. 4. 10.
Nid yw 'r ddelw ddim ond gwegi, Pſal. 115. 4.
Coed a cherrig, aur ac arian,
Bwbach na all helpu ei hunan.

Belſazzar.

108 Pan bo 'r cwppan wrth dy fin, Dan. V.
Yn cablu Duw, yn yfed gwîn;
Gochel Angau dig, dy daro,
Fel *Belſazzar* wrth ‡ garowſo. ‡ *Yfed:*

109 Pan byddech yn carowſo yn dal,
Gwel y llaw fydd ar y wal,
Yn 'ſgrifennu o flaen dy wyneb,
Dy farn aethlyd a'th lothineb. Dan. v.

Tobias.

110 Bydd drugarog fel *Tobias* Tob. 1: 16,
Wrth bob tlawd a fo o'th gwmpas, 17.
Ac na fwytta bryd yn iachus,
Nes rhoi rhan i'r tlawd anghenus.

111 Helpa 'r gwan a chladd y marw,
Swccra 'r noeth, cyſrwydda 'r weddw,
Bydd yn rhyſgwydd i'r ymddifaid,
Na fydd anfwyn wrth ddieithriaid.

Raphael.

112 Pan y b'ech ar feder gwreicca, Tob. 6, 10.
Cais gan Dduw dy helpwr hela

Rhaphael ſanctaidd i'th gyfarwyddo,
|| *Priodi* Cyn ymlygrech wrth || ymfaitſio,
Tobi ieuangc a *Sara* ei wraig.

113 Cyn gorweddech gyda *Sara*,
Law yn llaw â hi gweddia,
Ar i'r Arglwydd roi it' lwyddiant,
§ *Dedwydd-rwch.* Help, a chymmorth § ffawd a ffynniant.
Tob. XIV.

114 Dyſg gan *Dobi* ieuangc berchi,
Dy dad a'th fam a'u hael gymfforddi,
Pan b'ont marw, cladd hwy 'n weddaidd
Hyn ſydd raſol a chriſt'nogaidd.

Yr *Efengyl.*

115 Bydd fyw 'n gyfiawn ac yn gynnil,
Fel pet faet heb un efengyl:
A bydd farw 'n gyſtal d' obaith
A phet faet heb weld y gyfraith.

Epigrams, *neu werſau a gaſglwyd o* Bapurau 'r Awdwr, *na's cawſant eu cyhoeddi yn un o'r Argraphiadau cyntaf.*

YR AIL RANN.

Arglwydd.

1 Beth dal bod yn Arglwydd heddy,
Ac yn waelaf was y fory?
Gwell bod yn was i'r Arglywdd nefol,
Nag yn bennaf Arglwydd bydol.

2 Beth dal awr o bleſer pechod?
Ac wedi'n byth ddioddef poendod?
A pheth raid ſon am ofyd bydol
Mat. 16. 26. A chael dros fyth lawenydd nefol.

Enaid.

3 Meddwl beunydd am dy enaid,
Nid oes dim ſydd mor anghenraid,

Gwel

Gwell it' golli 'r byd a'i bethau,
Nag i'th enaid fynd i'r poenau.

Wele.

4 Wele ddyn, dy ddydd yn darfod,
Wele 'r tywyll nos yn dyfod,
Wele 'r gwaith fydd heb ei wneuthur,
Wele 'th fod di 'n hir yn fegur.

Doethineb.

5 Doethineb gorau yn y byd,
Yw cym'ryd cyngor da mewn pryd,
Ni thal ceifio help y doctor,
A'r gŵr yn myned ar ei elor.

Ffurfafen.

6 Y mae rhod fawr y fturfafen,
Yn dirwyn einioes dyn nes gorphen;
Nid yw pellen bywyd un dyn, Jagn. 4. 14, 16.
Ond berr, a brau yn darfod chwippyn.

7 Mae 'n hoes medd rhai fel un diwrnod,
Ond nid felly y mae hi 'n darfod;
Can's pwy a all ddywedyd allan,
Nid wyf yn awr ond hanner f' oedran.

8 Y mae 'r ieuengctyd megis boreu,
Fytho 'n addo yn deg weithiau,
A chyn diwedd y diwrnod,
Yn myn'd yn ftorom doft ddigyfgod,

Morgrugyn.

9 Deffro cyfod di ddiogyn,
Does a dyfg gan y morgrygun,
Mae e' 'n cafglu y cynhauaf Diar. 6. 6.
Fwyd, a lluniaeth erbyn gauaf.

10 Gwnn y rhedi am dy fywyd,
Yn ddoeth, yn ddewr, yn hir, yn ddiwyd,
O rhed felly dros dy enaid,
Y mae 'n llawer mwy anghenrhaid.

11 Hir y gwelir mis mewn twymyn,
Hŵy yw carchar lawer blwyddyn:
Preg. 11. 8. Ond beth yw hyn at gosp annuwiol
Yn y pwll a'r tân trag'wyddol?

12 Marwolaeth sydd i bawb yn ddilys,
Mae 'r pryd, a'r modd, a'r lle 'n anhysbys,
Ac am hynny ddyn bydd barod,
Ymmhob lle, bob pryd yn gwarchod.

13 Gwae ddewisio 'r byd a'i sorod,
A phob rhyw bleserau pechod,
Ac wrthodo DDUW a'i deyrnas,
A'i gogoniant mawr, a'i hurddas.

Gallestr.

14 Mae cysoeth mawr ymmeddiant llawer,
Heb roi iddynt les na phleser,
Fel dwyn carreg dân mewn codau,
Heb roi iddynt wres, na golau.

Bara.

Joan. 6. 27. 15 Mae cais mawr am sara bydol,
Heb sawr gais am sara nefol,
Ond meddwl hyn, a chofia 'n ddibaid,
Mai rheitaf dim yw bara 'r enaid.

Delw-addoliaeth.

16 Delw-addoliaeth sydd beth ffromsol,
A phutteindra brwnt ysprydol;
Caru un peth yn rhy helaeth,
Sydd yn wir, yn ddelw-addoliaeth.

Zacheus.

17 *Zacheus* a aeth i wel'd *Crist Jesu*,
Luc, 19. 6. Er nad ydoedd yn ei garu,
Ond se ddaeth yn ol yn llawen.
A *Christ* a heddwch yn ei berchen.

Tyngu.

18 Tyngu sydd yn arfer greulon;
Wedi dysod ym mysg dynion; Nid

Nid oes parch na lles oddiwrtho,
Ac er hyn ni's rhoddir heibio.

Cybydd-dod.

Col. 3. 5.

19 Cybydd-dod ſydd yn wangc yſprydol,
Dropſi enaid, ſyched marwol,
Nid oes dim all helpu 'r clefyd,
Nes del CRIST â dw'r y bywyd.

Gwennynen.

20 Bydd yn debig i'r wennynen,
Sydd yn caſglu ar bob damwen;
Ond na ddwg y mêl mewn genau,
A cholyn gwenwyn wrth dy ſodlau,

Tafod.

Jago, 3. 5.

21 Cadw 'th dafod yn dy enau,
Di ymgedwi rhag mawr ddrygau,
Er nad yw ond bychan aelod,
Fe wna dda, neu ddrwg yn waſdod.

Rhyfyg.

22 Na ryfyga am drugaredd,
A dilyn pleſer ac oferedd;
Mae 'n rhaid ymladd, a gorchfygu,
Cyn cael nefoedd i'w meddiannu.

1 Tim. 6. 12.

Nos.

23 Meddwl ddyn am dy waſanaeth,
Cyn y delo nos marwolaeth;
Pa fodd y gall yr hurwr ddiſgwyl
Gael ei hûr, heb wneuthur gorchwyl,

Joan, 9. 4.

Gwiliadwriaeth.

24 Gwilia ar dy eiriau 'n waſtod;
Dy waith, dy ſerch, a'th holl fyfyrdod;
Gwilia rhag dy holl elynion,
Ac am foddio Brenhin *Seion.*

Nefoedd.

25 Yn y nefoedd mae llawenydd,
A dedwyddwch yn dragywydd,

CRIST

CRIST yw 'r wledd ſydd ynddi 'n waſtod,
A'i gogoniant mawr di-ddarfod.

Uffern.

26 Uffern ſydd yn lle anhyfryd,
Lle nad oes ond poen ac adfyd;
Mat. 22. 13. Pob anobaith ac och'neidio,
Ni chymrwn fyd er myned yno.

Rhybydd.

37 Cymmer rhybydd ddyn mewn amſer,
1 Cor. 10. Oni's gwnai, gwae di ar fyrder.
11, 12. Ac os cymri rybydd prudd,
Heddyw heddyw, ydyw 'r dydd.

Dwylo.

28 Gwel dy ddwylo edrych arnynt.
Diolch i dy DDUW, am danynt;
Ac ymro tra par'o d' oes,
I weithio gwaith yr hwn a'i rhoes.

Llifeirient.

29 Mae pleſerau, a phob trachwant,
Yn dwyn dyn fel rhyw lifeiriant,
Gan hynny gochel ynfyd bleſer,
Rhag it' foddi yn y dyfnder.

Llygad.

30 Meddwl ddyn am hyn yn waſtad,
I beth rhoddodd DUW dy lygad,
Ond i wel'd ei wyrthiau mawrion,
A'th ffordd, a'th lês a'th holl beryglon.

Uſbaid.

31 Nid yw bywyd dyn ddim mwy,
Sal. 39. 5. Nag yſbaid munud fach, neu ddwy,
Am hyn cais, yn glaf, yn iach,
Wir ddenfyddio 'r yſbaid fach.

Rhagluniaeth.

32 Mae Duw a'i ddoeth ragluniaeth.
Yn trefnu pob genhedlaeth,

Am

Am hynny, dylem ymfoddloni,
I 'r hyn a fyddo Duw yn beri.

Iar.

33 Mae Duw 'n adeino ei holl weiſion, Luc 13. 34.
Fel yr adeinia 'r Iar ei chywion,
Ond rhaid 'n ddyfod tan ei aden,
A gochelyd § troi drachefen. § *Gwrthgilio.*

Hynod.

34 Hynod ydyw gwaith yr Arglwydd,
Hynod yw ei drugarogrwydd,
Hynod yw cyndynrwydd dynion,
Hynod iawn yw 'r annuwiolion.

Paham?

35 Pa'm nad yſtyriai dŷn mewn oedran Deut. 32. 29.
Pa'm na's gwel ei les hunan
Pa'm na charai dyn ddaioni?
Pa'm na throe oddiwrth ei frynti?

Rhyfeddod.

36 Bod Duw 'n cyd-ddwyn â dyn mewn (pechod,
Cyhyd, cyhyd, ſy fawr ryfeddod;
Bod dyn yn dewis drwg mor angall,
I 'm tyb, ſydd fawr rhyfeddod arall.

Gwenwyn.

37 Gwenwyn Neidr a ddwg ein bywyd,
Gwenwyn Aſp ſydd yn fwy aethlyd,
Ond nid yw 'r ddau ond bwyd a dïod;
At y gwenwyn ſydd mewn pechod.

Syched.

38 Gorau ſyched yn yr holl-fyd,
Yw ſyched mawr am ddw'r y bywyd,
Yr hwn a yfo hwnnw un-waith, Mat. 5. 6.
Ni ſycheda byth yr eil-waith.

Newyn.

39 Newyn corph ſydd beth tra chreulon,
Gwae i'r rhai lle caffo 'i ddanfon; Ond

1 Cor. 10. 4. Ond gwyn eu byd y rhai newynllyd,
Am dd'wr o'r graig, a bara 'r bywyd.

Gwynt.

40 Tebyg rhai nad oes un ened,
Am nad ydynt yn ei weled,
Nid yn't yn gwel'd mor gwynt yn chwythu,
Ac etto hwy a allant gredu.

Cyfgod.

Job. 14. 2. 41 Nid yw dyn ond megis cyfgod,
Yn myned ymaith ac yn darfod,
Ni's gellir attal dim o hono,
Na gwel'd ei ôl pan el ef heibio.

Ympryd.

42 Ympryd corph fydd anghenrheidiol,
I ddaroftwng gwyniau cnawdol,
Ond gorau ympryd gan Dduw uchod,
Ydyw 'mgadw rhag pob pechod.

Gaiaf.

Preg. XII. 43 Y mae 'r henaint megis gaiaf,
Yn oer, yn drift, ac yn dywyllaf,
Nid yw hwn yn amfer gweithio,
Cafglwn fyd tra 'r haul yn twymo.

Haul.

Pen. 11. 7. 44 Yr haul y fydd yn rhoi goleuni,
Yr haul, yr haul, fydd yn gwrefogi,
Yr haul y fydd yn troi o'n cwmpas,
I wafnaethu dynion atgas.

Hydref.

45 Amfer cafglu ydyw 'r hydref,
Pob rhyw ffrwythydd tu ag adref,
'R hwn ni hauo 'i hâd mewn amfer,
Ni bydd cafgliad hwn ond prinder.

Haf.

46 Canol oedran dyn fydd hâf,
Yn deg, yn hyfryd, ac yn braf,

Ond

Ond dyma 'r amſer mwya 'i chwynn, 2 Tim. 3, 1.
A'r lleia gwilia dyn at hyn.

Gwanwyn.

47 Gwanwyn ydw 'r amſer gweithio,
Hau, a llyfnu, a llafurio; Gal. 6. 8.
A chwenycho fedi gwyn-fyd,
Haued dir yngwanwyn bywyd.

Lleuad.

48 Y mae 'r lleuad yn cyfrannu,
Yr hyn mae 'n gaffel o oleuni, 1 Ped. 4. 10.
Ninnau ddylem fel y lleuad,
Wir gyfrannu 'n doniau 'n waſtad,

Aur.

49 Aur yw 'r trymmaf peth mewn byd,
Aur ſy 'n tynnu 'n ſerch 'i gid;
Aur ſy 'n lladd, ac aur ſy 'n cadw;
Aur ſy 'n ddiffrwyth iawn i'r marw.

Arian.

50 Gwraidd pob drwg yw ariangarwch,
A ffrwyth pob drwg yw poen a thirſtwch,
Meddwl ddyn am hyn yn ddyfal, 1 Tim. 6. 10.
Ac na ro ſerch ar fyd anwadal.

Rhy hwyr.

51 Rhy hwyr 'mofyn olew 'n waſdod,
Pan fo 'r farchnad wedi darfod,
Rhy hwyr ceiſio gwiſg prïodas, Mat. 25. 10.
Pan fo 'r cwmni 'n mynd i'r deyrnas.

Goleuni.

52 Rhyfedd rhyfedd yw 'r goleuni,
Rhyfedd beth fe dal ei hoffi
Ond rhyfeddach dyn mewn dryſwch!
Etto 'n caru y tywyllwch!

Ser.

53 Edrych ar holl ſer y nefoedd,
Meddwl am yr hwn a'u creodd, Salm. VIII.

Gwel eu maint, cyflymdra yn myned,
Yn fwy na 'r byd, yn gynt na bwled.

Henaint.

54 Henaint fydd yn gyfaill lleban,
Preg. XII. Henaint ni ddaeth erioed 'i hunan,
Henaint fydd lawn o bob trallodion,
Henaint nid yw 'ond gwr echryflon.

Hwyad.

55 Ni welych y gwlaw yn llwyr mo'r hwyad,
Ni fawdd mewn llynn, hi feidr nofiad,
Bydd yn hyn yn debyg iddi;
Yn mhob croefau a gofydi.

Gweddi.

56 Gweddi ffyddlon ydyw 'r gennad,
1 Thef. 5. A elli anfon at dy Geidwad;
17. Gweddi a ddaw â rhodd oddi wrtho;
Anfon weddi 'n fynych atto.

Ffarten.

57 Fe fydd llawer dyn yn gymmen,
Yn ymofyn am ei ffarten,
Yr hwn ymroddo i Dduwiolder,
Ei ffarten fydd yn dda bob amfer.

Llew.

58 Dylai Criftion fod yn lew,
Ac yn ddi-ofn megis Llew;
Matth. 11. Nid yn greulon, ac yn ffymig,
29. Ond yn ifel goftyngedig.

Oen.

59 Dylai Crirfton fod yn oen,
Yn ddioddefgar dan bob poen,
Yn ddefnyddiol yn ei fywyd,
Ac yn llariaidd, mwyn, a hyfryd.

Edifeirwch.

60 Adnabod drwg yw edifeirwch,
Ac o'i blegid dwyn mawr driftwch,

A

Ac o'r galon ei ffieiddio,
Ac ymroi i droi oddiwrtho. Act. 3. 19.

Tân.

61 Mae 'r tân a'i bwys i fynu 'n gyfun,
Felly dylai fod Crist'nogion; Mat. 5. 16.
Hefyd mae 'n rhoi gwres a goleu,
Felly dylai ein eſiampleu.

Croes.

61 CRIST ſy 'n erchi ini 'n awr,
Ddwyn ein croes, yn ſaeh yn fawr, Marc 8. 34.
Ond ni erchodd yn ei oes,
I fawr na bychan wneuthur croes.

Oerni.

63 Oer yw 'r iâ, tra fyddo 'n aros,
Ac oer iawn yw 'r eira un-nos,
Ond er cymmaint yw eu hoerni,
Oeraf dim yw enawdol weddi, Rhuf. 8. 8.

Caſineb.

64 Caſineb fydd ymmhob rhyw ddynion,
Ond etto, nid i'r un gwrthddrychion,
Cas gan Dduwiol bob oferedd, Pen. 1. 30.
Ond cas gan ddryg-ddyn yw pob rhinwedd.

Dyled.

65 Dyled pob dyn a'r a aned,
Yw ymroi i dalu 'i ddyled; Rhuf. XIII.
Gan hyny rho'wn i Dduw anrhydeddi,
Ac i ddynion bob ymgeledd.

Diogi.

66 Y mae 'chydig o ddiogi,
Yn gwneuthur llawer iawn o ddrwgi,
Ond trwy ddiogi llawer un,
Colli 'r Nef, a CRIST ei hun.

Ieuengctid.

67 Nid yw ieuengctid ond peth ffol,
Yn rhedeg gyrfa yn ei hol; Diar. —

Yr hyn a wnelo 'n awr yn bryſur,
Mae 'n rhaid eilwaith ei ail-wneuthur.

Nychdod.

68 Y mae llawer math o nychdod,
Ond 'dos un at ſyw mewn pechod,
Nychu 'r enaid, bod heb DDUW,
Bod yn farw, ac yn fyw!

Cweſtiwn.

69 Y cweſtiwn pennaf i bob un,
2 Cor. 13. 5. Yw gofyn beunydd iddo 'i hun,
Pa fath y fydd ei gyflwr etto,
A gaiff fynd at DDUW i dario?

Darllen.

70 Darllen waith y Greadigaeth,
A gair DUW, a'i ddoaeth Ragluniaeth,
Darllen beunydd dy gydwybod,
Salm. 19. 1, 2. Ac ymro i roi ufudd-dod.

Eſiampl.

71 'Siampl y ſydd yn well na chyngor,
Er maint ſo dyſg a dawn y doctor,
Haws yw myn'd ar ôl trafaelwr,
Na dyſgu 'r ffordd wrth glywed can-ŵr.

Synwyr.

72 Synwyr fawr yw ennill dinas,
Synwyr fwy gorchfygu teyrnas;
Ond, y ſynwyr fwyaf allan,
Yw ennill rhan o'r Nefoedd wiw-lan.

Cwymp, a Derchafiad.

73 Cyn bod cwymp rhaid yw bod uchder,
Diar. 16. 18. Cwymp ſydd byth yn dilyn balchder,
Ac felly 'n ddiau, mae goſtyngiad;
Byth yn myn'd o flaen derchafiad,

Poen.

74 O! mor flin yw poen ddiwrnod,
Er na budd ond mewn un aelod,

Bet

Beth wrth hyn yw poen tragwyddol,
Ym mhob aelod yn waſtadol?

Llawenydd.

75 O mor hyfryd genym beunydd,
Yw cael gronun o lawenydd;
Gan hynny 'mrown i fyw 'n Grefyddol,
Er mwyn llawenydd yn dragwyddol. Preg. 11. 9.

Undeb.

76 Nerth i bob peth ydyw undeb,
Gwendid pob peth yw 'r gwrthwyneb,
Edef wann, ynghyd, ni's torrir,
Gwir gymdeithion ni's gorchfygir. 1 Joan 1. 7.

78 Y mae amryw droëdigaeth,
Un at ddrwg oddiwrth Griſt'nogaeth,
Ac un at dda, oddiwrth ddrygioni,
Y dyn a'r un a dâl ei enwi.

Enllibio.

79 Yr Enllibiwr brwnt digaſog,
Sydd yn bwyta ei gymmydog; Diar. 11. 9.
Ac fel *Cler* yn chwilio ei glwyfau,
Ac yn caru 'r rhai'n yn orau.

Cariad.

80 Fe geir aur ond myn'd i'r *India*,
Fe gair mawredd ond rhyfela; Pen. 13. 20.
Fe gair dyſg ym myſyg y doethion,
Ond ym mha le caier caiad ffyddlon?

Adfyd.

81 Adfyd rhai yw bod yn d'lodion,
Adfyd eraill yw clefydion,
Ond yr adfyd mwyaf rhyfedd,
Yw bod heb obaith am drygaredd.

Canu.

82 Anhawdd canu ar y crog-bren,
Ac ar wynt ar ben yr hwyl-bren,
Ond y Criſtion a all ganu,
Pan y byddo yn terſynu.

Angriſt

Anghrift.

83 Nid yw Anghrift ddim ond un,
Sy yn gwrth'nebu CRIST ei hun;
Gen. 4. 3. Ag o's felly, mae 'n ddiwad.
Lawer Anghrift yn ein gwlad.

84 Mae rhai yn fawrion yn eu bryd,
Am dderchafiad yn y byd;
Ond o's caf i dderchafiad DUW,
Ni cheifaf ragor yn fy myw.

Ufudd-dod.

85 Mi ryfeddais weled dynion,
Yn fwy parod ym mhob moddion,
I roi ufydd-dod i ryw ddeifes,
Nag i'w DUW, a'u Harglwydd cynnes.

Gwag-obaith.

86 'Does fawr yn myn'd i golledigaeth,
Trwy gyhoeddus anghrediniaeth;
Mil fy 'n myn'd i Uffern ddiffaith,
Trwy goeg-hyder, a gwag-obaith.

Crefydd.

87 Yr uniawn ffordd a'r ffyddlawn grefydd
Yw gafanaethu 'r Arglwydd beunydd,
2 Tim. 2. 19. Myn'd i'r llan a dilyn ftalfter,
Nid yw 'r grefydd hon ond ofer.

Chwant.

88 Y chwant y fydd mewn dyn annuwio
Ydyw pechu yn wastadol,
Ond y duwiol fy 'n chwenychu
I fod yn dda, ac etto 'n pechu.

Ffynnon.

89 Er bod dw'r yn rhad mewn afon,
Joan 4. 10. Rhaid i 'n fyn'd i'w geifio 'n gyfon,
CRIST yw ffynnon dw'r y bywyd,
Etto rhaid ei geifio 'n ddiwyd.

Ffydd.

90 Ffydd ſy 'n dangos tir bywyd,
Ffydd ſydd yn gochfygu 'r holl-fyd;
Ffydd ſy 'n gwneuthur dyn yn bur-lan, Heb. 11. 6.
Ffydd yw 'r un peth rheitaf allan.

Diolchgarwch.

91 Ni rown ddiolch mawr i ddynion,
Yn dra mynych am eu rhoddion,
I'r Duw ſy 'n rhoi pob rhyw ddedwyddwch,
Bychan iawn yw 'n diolchgarwch.

Anghrediniaeth.

92 Diffyg pwyll a dwys yſtyriaeth, Pen. 3. 19.
Yw bod cymmaint anghrediniaeth,
Anghrediniaeth dynion beunydd,
Yw eu bod hwy mor ddi-grefydd.

Trais.

93 Nid oes ond trais yn llanw 'r holl-fyd,
Pawb ſy 'n gwbl am y golyd;
Ni chaiff un-gwr yn ei helw,
Ddim ag allo arall gadw.

Ynad.

94 Bydd yn ynad ac yn farnwr,
Ar dy galon ddrwg a'th gyflwr, Gal. 6. 4.
Ond na fydd farnwr ar gym'dogion,
Cans ni wyddoſt mo'u hachoſion,

Bedd.

95 Yn y bedd y mae y meirwon, Job 3. 14. 18.
Yn cyd orwedd heb ymryſon,
Brenhin mawr wrth ochor beger,
Yn fwyna gwr heb drais na balchder.

Adgyfodiad.

96 Pan y del yr adgyfodiad,
Fe gaiff yr holl rai duwiol difrad,
Gyrph a gwiſgad newydd hyfryd, Phil. 3. 21.
I gyfarfod a'ú hanwylyd.

Barn.

Pan

97 Pan y del dydd barn yr holl-fyd,
Rhaid mynd ger bron, ac atteb hefyd,
2 Cor. 5. 10. A derbyn barn gan Grift ar gyhoedd,
Yn ol natur ein gweithredoedd.

Angylion,

98 A fynno fyn'd i fynydd *Seion*,
Lle mae CRIST a'i holl Angylion,
Salm. XV. Mae 'n rhaid iddo yn ei fywyd,
Ddfygu gwaith angylion hefyd.

Cythreuliaid.

99 O's ni fynni fyn'd i'r poendod,
At gythreuliaid i'r pwll ifod;
Mae 'n rhaid itti wir ochelyd
Fordd y cythraul yn dy fywyd.

Dawn.

100 Rhoes yr Arglwydd ddoniau mawrion,
Yn rhwydd. yn rhad, i feibion dynion,
Act. 17. 25. Y dynion fydd yn gwrthryfela,
Yn erbyn DUW a'r doniau yma.

Gwirionedd.

101 Y gwir gan rai ni cheiff ei wrando,
Câs gan rai y mann lle bytho;
Ond er hynny caiff gwirionedd,
Iawn dderbyniad yn y diwedd.

Dyfgeidiaeth.

102 Y mae llawer rhyw ddyfgeidiaeth,
Dyfg mewn dá, a drwg yn helaeth;
Diar. 4. 13, Y mae dyfg yn help i'r holl-fyd,
Ac yn gwneuthur niwaid hefyd.

Ofn.

103 Y mae rhai yn ofni dynion,
Yn fwy nac ofni 'r Arglwydd cyfion;
A dyma ofon brwnt aniben,
Ofni 'r ffon yn fwy na 'i fferchen.

Hyder.

Gellwn

Hyder.

104 Gallwn roddi hyder ormod
Ar Waed CRIST, o's carwn bechod,
Ond byth ni roddwn hyder ddigon,
O's ymrown i rodio 'n ffyddlon.

Sabbath.

105 Gwaith y Sabbath yw ſanctteiddrwydd, Ecſ. 20. 8.
Ac nid dilyn pob halogrwydd;
Ac nid eiſtedd yn y cornel,
Heb ddim ond cadw Sabbath 'nife'l,

Ymröad.

106 Ymröad pob annuwiol fryd,
Sy am fyw yma yn y byd;
Ac nid ymröad gwir i fyw,
Yma 'n ſanctaidd wrth fodd DUW.

Doniau.

107 Doniau DUW ſydd fel y gwlaw, Deut. 32, 2,
Yn diſgyn beunydd yma, a thraw;
A ninnau 'n pechu ym mhob rhith,
Yſywaeth, beunydd rif y gwlith.

Boddi.

108 Rhai ſy 'n boddi yn eu hawdd-fyd, Eſ. 5. 11.
A rhai eraill yn eu hadſyd;
Rhai mewn buſtl, rhai mewn mêl,
Ni wn i beth yw 'r gwa'n pan ddel.

Môr.

109 Yn y môr mae pyſgod mawrion, Sal. 10. 9.
Yn traflyngcu 'r bychain gweinion;
Yr un modd mae dynion diried,
Yn gorthrymmu y rhai gweinied.

Byd.

110 Nid yw 'r byd ond twyll yn gyfan,
Ac hudoliaeth (mawr) nid bychan;
Ffol yw 'r dyn 'ro' ei hyder arno, 2 Tim. 3. 13.
Heb wybod cy'd caiff aros ynddo.

Bedydd.

111 Llawer unſy 'n derbyn bedydd,
(Fel y dywedant gred a bedydd,)
Wedi hyn yn byw 'n annuwiol,
Megis Pagan, anghriſt'nogol.

Sacrament.

112 Yn y Sacrament bob amſer,
Ymae CRIST yn ſtofi ſwpper;
Gwîn a llaeth i'r holl ffyddloniaid,
I ddiwallu corph ac enaid.

Gwres.

113 O mor wreſog ydyw dynion,
Ynghylch pleſerau 'r byd a'i ſoddion,
Ond pan elont hwy i'r demel,
Fe dry 'r gwres yn rhew ac oerfel.

Tyfu.

114 Y mae 'r dda'r a'r coed a'r cerrig,
A phob peth yn tyfu 'chydig;
Ond nyni ſy 'n arddel crefydd,
Nid oes neb all wel'd ein cynnydd.

Gwr.

Eph. 5. 25. 115 Dylai Gŵr fod yn ddioddefgar,
Yn cyd ddwyn â ſtwr, a chlebar;
A thros Gyrph yn gwir ofalu
Ac eneidiau pawb o'i deulu.

Gwraig.

Col. 3. 18. 116 Gwraig a ddylai roi ufudd-dod,
Ac anrhydedd mawr i'w phriod,
A darparu at ei heiddaw,
Ac yn waſtod fod yn ddiſtaw.

Plant

Sal. 127. 3. 4. 117 Plant y ſydd fel ſaethau llymion
O's da, hwy ſaethant ein gelynion;
Ond o's drwg, heb ddywedyd rhagor,
Saethau fyddant yn ein hochor.

Cymm

Calon.

118 Cymmer ofal am dy galon,
Chwilia allan ei dichellion;
Trefna 'r hyn a fo 'n anghymmen, Diar. 10. 8.
Di gei wel'd yn hawdd dy ffforten.

Dwfr.

119 Eyth ni ellir cynnal bywyd,
Heb y dyfroedd anwyl hyfryd; Joan 4. 14.
Byth ni ellir byw 'n yſbrydol,
Heb ras Duw, a'r dyfroedd bywiol.

Blodau.

120 Nid gwell pren er maint ei flodau,
Heb fod arno beraidd ffrwythau;
Nid gwell Criſtion er ei broffes,
O's â ar ôl y byd a'i ormes.

Ffrwyth.

121 Beth dal pren heb riſg am dano?
Beth dal corph heb enaid ynddo?
Beth dal llygad na bo 'n gweled?
Beth dal proffes wych heb weithred?

Carreg.

122 Drwg yw 'r garreg yn y bledren,
Gwaeth o lawer yn yr aren;
Ond gwaethaf oll medd pawb o'r doethion, || *Caion adi-edifeiriol.*
Ydyw 'r garreg yn y || galon.

Barcut.

123 Fel y mae y barcut creulon,
Yn ſclyfaethu 'r cywion gweinion,
Felly mae ein gelyn marwol; Sal. 7. 2.
Yn ein diſgwyl yn waſtadol.

Corph.

124 Bwyda 'r llo newynu 'r plentyn,
Lladd y di-ddrwg yn ei rwymmyn
Y mae 'r hŵn y ſydd yn ddiriaid,
Yn porthi 'r corph yn nychu 'r enaid.

Bywyd.

125 Bywyd da, yw 'r bywyd yma,
Bywyd gwael, na wel mo'i wala;
Bywyd gwynn yw 'r bywyd arall,
Bywyd a dal ei geisio 'n ddiwall.

Gyrfa.

Math. 16. 2. 126 Y mae bywyd y byd yma
Yn hyn o beth heb fod fel gyrfa,
Hysbys fydd ei hŷd, a'i hyrder,
Ond pwy a ŵyr mo hŷd ei amser.

Coron.

127 Rhedir ym mhell, yn hîr, o gwmpas,
I geisio ennill coron Teyrnas;
Pa'm na's rhedir yn ddiffuant,
Er mwyn coron y Gogoniant?

Esgus.

128 Ni chymmer *Jesu Grist* yn esgus,
Na 'r wraig, na 'r tir, na 'r ychen tresnus,
O's na byddwn ni yn ddiwyd,
I'w wasanaethu yn ein bywyd.

Moment.

129 Blwyddyn faith yn nhir bywyd,
Sydd i'w gwel'd fel moment hyfryd;
Ond yn Uffern, gydâ 'r gelyn,
Y mae moment fach fel blwyddyn.

Tywod.

130 Y mae mwy na rhif y tywod,
Yn y byd o bob rhyw bechod;
Diar. 27. 3. Rhyfedd iawn gan hynny 'n ddi-ffal,
Fod yr Arglwydd yn ei gynnal!

Drygioni.

Pen. 6. 18. 131 O's dilyni ddrwg yn blentyn,
Odid na's dilyni 'n hen-ddyn;
Ac o fyw, a marw felly,
Blin, a thost, y fydd dy letty.

Y mae

Gwennol.

132 Y mae 'r Wennol fach heb ammau,
Yn adnabod ei thymhorau;
O gan hynny mae 'n rhyfeddod
Nad yw dynion yn ei 'nabod!

Dryw.

133 Nid yw 'r Dryw ond 'deryn bychan,
Etto meddwl am ei hunan;
Pa'm mae llawer o wŷr hynod
Yn byw 'n llawer gwaeth na 'r Drywod?

Cwrw.

134 Pennaf peth o'r byd yw 'r Cwrw,
Gwell na dim yw e' gan y meddw!
Fe rydd enaid, corph, a chyfan,
Am gael Cwrw yn ei ſafan.

Chwyſ.

135 Chwyſa llawer dyn yn hagar,
I geiſio ennill darn o'r ddaear;
Ond nid oes ond rhai ar gyhoedd,
A chwyſant fawr yngwaith y Nefoedd.

Dolur.

136 Y mae rhai mewn mawr anghyſur,
Am eu bod yn teimlo 'u dolur,
Y mae eraill etto 'n glafach,
Ac heb goelio 'u bod yn afiach!

Cyſgu.

137 Drwg yw cyſgu ar y tywod,
Lle mae 'r môr yn arfer dyfod,
Gwaeth yw cyſgu mewn anhwyldeb,
Ar fin ceulan Tragwyddoldeb.

Meddyg.

138 Pan y byddo 'r corph mewn yſig,
Ymofynnwn am y meddig;
Ond ni phriſiwn am yr enaid,
Yn wir, er cymmaint f'o 'r anghenrhaid.

Mi

Cyw.

139 Mi ryfeddais lawer pryd,
A rhyfeddu 'r wyf o hyd,
Y gofala rhai am Gyw,
Mwy o lawer nac am Dduw.

Bibl.

140 Y mae llawer yn y byd,
O Lyfrau da, pe baent ynghyd;
Ond gwell na rhai'n o bob rhyw ſaith,
Yw 'r Bibl ſanctaidd lawer gwaith.

Llyfr.

141 Gellir cael mewn llyfr bychan,
Dryſor mawr am 'chydig arian,
A doethineb y Doctoriaid,
Dal i ddyn eu gwel'd a'u clywed.

142 O's gofynni anwyl Griſtion,
Pwy wnaeth hyn o werſau byrrion,
Gwas i Grist ſy 'n ceiſio 'th wthio,
Tua 'r Nef â'i draed a'i ddwylo.

CAN LXXXX. *Am Gaerſalem*

newydd, y Rhan gyntaf, yr hon na's caſodd ei hargraphu yn gwbl, nac yn gywir erioed o'r blaen, felly gobeithaf y bydd i'r Darllenydd gael ei

ſodaleni o's dichon gyd gydmaru petbau yſbrydol, eithr y rhai na's gallant, da ſyddai iddynt yſtyried nad yw Caerau 'r Gogoniant wedi eu hadeiladu â Meini, neu un rhyw Ddefnydd: ond ni roddwyd

O Fy mrodyr a'm cyfeillion,
Sydd mewn gofyd, o thrafferthon,
Yn ymboeni yngwlad trwbwl,
Dan flinderau corph, a meddwl.

2 Gad'wch i ni iawn yſtyried,
Beth a wnawn a ph'le cawn fyned?
I gael diangc o 'n trallodion,
A chael byd wrth fodd ein calon.

3 Rhai ſy 'n myned i ryfela,
Rhai i *Dwrci*, rhai i'r *India*.
I gael digon o ddedwyddwch,
Etto byth heb gael ond triſtwch.

M

4 Mi a glywais am le dedwydd,
Dinas wych *Caerſalem newydd.*
Lle mae gwawdd i bawb, a ddelo,
A derbyniad mawr a greſo.

5 Mi ddangoſaf i chwi yn eglur,
Beth o hanes hon o'r 'Scrythur,
I edrych a fyn Duw o'i wiw-ras,
I chwi bawb chwenychu 'r Ddinas.

6 Mae Saint *Ioan* yn ei ddatguddiad,
Yn mynegi ini 'n ddifrad,
Iddo wel'd ei hun a'i lygaid
Y Ddinas hardd-wych Oen bendigaid.

7 Mae hi mor hardd mor wych mor uchel,
Ac na ddichon dyn nag Angel,
Ddatcan degwm ei rhialtwch,
Na 'i gogoniant, na 'i dedwyddwch.

8 Y mae hi 'n ſefyll yn y Nefoedd,
Yn bedair ongl ei hamgylchoedd;
Yn rhyfedd iawn, yn fawr, a chyfion,
Yn ddeuddeng mil o ſtadau meithion.

9 Cant a deugain, pedwar rhagor,
Yw hŷd, a lled ei phedwar ochor,
A go-gymmaint yw ei huchder,
Dyma Ddinas yr Uchelder.

10 Y mae 'r Ddinas hardd-wych hoyw,
Yn ddiſglair iawn, fel gwydr gloyw,
Perlau a Gemmau yw ei gwelydd;
Ac aur yn paſio yr heolydd.

11 Nid yw 'r Nefoedd uwch ein pennau,
Lle mae 'r Ser a'r holl blanedau;
Er hawddgared yw 'n diſgleirio,
Ond fel llawr y Ddinas honno,

12 Y mae 'n Ddinas ogoneddus,
Y mae 'n Ddinas ddedwydd happus,

roddwyd i ni o'r Yſcrythur Sanctaid (i mi tyb i) un Portreiad o Le yr Gogoniant tragwyddol heblaw y Jeruſalem Yſbrydol a ddiſgynodd oddiwrth Duw, yr hon ſydd yn bytrach i ni byſtyried am arddurchogrwydd yr Eglwys, nag Briodas ferch Gwr aig yr Oen, yn y Dyddiau diweddaf, nag i Breſwylfod dŷn yhon, Scrythoraid, a Gweredigion yr Anglwydd wedi Angau, a'r Adgyfodiad, cans yr Apoſtol a ddywed, Ni wyddom ni etto beth a fyddwn, eithr ni a wyddom pan yr ymddangoſo efe, y byddwn gyffelyb iddo o blegid ni a gawn ei weled

Y mae

weled ef megis ag y mae.

Y mae 'n Ddinas ſanctaidd nefol,
Y mae 'n Ddinas hoff, dragwyddol.

Eithr o ran y lle, ni wna bynny na ddedwyddwch nag Adfyd, ond Hawddgarwch Preſenoldeb yr hwn ſydd yn eiſtedd ar yr Orſedd-ſainge;

13 Y mae ynthi Fil, Miliwnau,
O 'ſtafelloedd a thrigfannau,
A rhai'n dros byth heb rent na thaliad,
Rhedwn yno wrth yr alwad.

Eithr Môr yw hwn na's gellir ei blymio, am bynny rhaid trwi: ond pethau amlwg a roddwyd i ni ac i'n plant, ſef, graſol Breſenoldeb y DUW-*Dyn,* CRIST JESU *yng-weinidogaeth ei Efengyl; er fod hyn yn guddiedig i lawer, etto amlwg ydyw i'r neb yr irwyd eu Llygaid fel y gwelont. Dat. 3. 18. Mae'r Eglwys gwraig yr* OEN *yn Gyſſeger*

14 Nid oes achos ynthi 'n waſtad,
Wrth oleuni Haul na Lleuad;
Na thân pur, na chanwyll fwyn-ber,
Mae 'n llawn goleu Haul Cyfiawnder.

15 Y mae ynddi bob rhyw ddoniau,
Pob cyſuron a phleſerau;
Ac yn rhad y cwbl beunydd,
Dyma 'r ddi dwrdd Ddinas ddedwydd.

16 Y Ddinas hon a wnaeth *Jehoſa*,
A'i fys ei hun yn Llys o'r uwcha;
I'w addoli gan Angylion,
A'i glodfori gan Grift'nogion.

17 Gwelydd hon i gyd o gwmpas,
Sydd wedi eu gweithio oll â *Thopas*;
Beril, Jaſpis Amethyſtus,
Saphyr hardd, a gloyw *Sardys*;

18 Deuddeg porth o berls ſydd arni,
I ollwng Pobl DDUW dd'od iddi.
A deuddeng Angel ſy 'n eu gwilio,
Rhag dim aflan ddyfod yno.

19 Mae ei heolydd wedi eu paſio,
Ag aur melyn yn diſgleirio;
Fel y gwydr harddwych rhial,
Yn tywynnu ſel y criſtial.

20 Afon loyw ſel yr arian,
Yn tarddu o orſedd DUW ei hunan,
Sy 'n dyfrhau pob heol ynddi,
Dyfwr gwell nag *Acwaſeiti*.

Pren

21 Pren y bywyd ſy 'm mhob heol,
Yn tyfu oddautu 'r afon fywiol;
Yn dwyn deuddeg rhyw o Ffrwythau,
I ddiwallu 'r holl eneidiau.

22 Ni ddaw newyn, ni ddaw clefyd,
I'r rhai fwytao bren y bywyd,
Ni ddaw ſyched, na thrallodion,
Fyth i neb a yfo o'r afon.

23 Nid oes neb yn trigo ynddi,
Ond Angylion y goleuni,
A'r rhai duwiol etholedig,
A wir brynodd CRIST yn unig.

24 Nid oes ynddi bris am dryſawr,
Aur a pherls a meini gwerthfawr,
Aur ſy 'n pafio 'r holl heolydd,
Gwerthfawr feini 'n bildio 'r gwelydd.

25 Ynghanol y Dref reial yma,
Y mae gorſedd y Gorucha,
Wedi gofod ar yſgwyddau,
Hardd Anglyion eglur Thronau.

26 Canopi fel bwa 'r Drindod,
Hardd wych eglur o liw 'r Emrod,
Sydd uwch ben yr orſedd hyfryd;
Lle mae 'r Tad, a'r Mab, a'r Yſbryd.

27 Saith o lampau gwynion goleu
Yn arwyddo yſprydol ddoniau,
Sydd yn lloſgi yn eglur rhyfedd,
Bob rhyw awr o flaen ei orſedd.

28 Y mae ynthi luoedd mawrion,
O Seraphiaid ac Angylion
Ac eneidiau ſanctaidd, filoedd;
Yn teyrnaſu yn oes-oeſoedd.

29 Gwaith y pennaf ynthi beunydd,
Yw gweled rhyfeddodau newydd;

Gyſſegr ei breſwylfod, ynghanol byd o elynion; yn y mwynhad o hono ef y mae e' holl Gorph ſef, ei Eglwyſ, yn byw yn ei Fywyd ef, yn gweled yn ei oleuni ef; yn gyfiawn yn ei Gyfiawnder ef, yn ſanctaidd yn ei Sancteiddrwydd ef, yn Goncwerwyr yn ei Fuddugoliaeth ef, yn amyneddgar yn ei amunedd ef, yn drygarog yn ei Gymmwynaſgarwch, ac yn gorfoleddu yn ei Breſenoldeb ef. Nid oes un Gelyn, yn yr holl Fynydd Sanctaidd hwn, ac er bod Pechod ynddynt, nid ydynt mewn Pechod; er eu bod mewn byd o Dwyll wch, y maent yn rhodio yn y Goleuni. nid

 Haul,

Gan fwynhau pob peth eu gwala,
A chyd-ganu *Haleluja.*

30 Nid oes yno ddim ymdynnu
Am le dedwydd i drigfannu,
Y mae pawb yn caru 'n ffyddlon,
Heb fod rhyngddynt ond un galon.

31 Nid oes ynthi gwyn, na chanlyn,
Na Fileindra, nac un gelyn,
Na dim ofnau, na pheryglon,
Dedwydd yw preſwylwyr *Seion.*

32 Nid yw ryfedd ſod rhai dynion,
Yn y byd yn bererynion;
Ac yn ceiſio iddi ſyned,
Ond mae 'n rhyfedd ſod cyn lleied!

33 O *Caerſalem* anwyl hynod,
Gwynn ei ſyd pe bawn i ynnod,
Ac pe gallwn innau 'n waſtad,
I droi pawb i ddyſod attad.

Haul. Lleuad, neu Ganwyll; ond ei Goleuni hi ydyw yr OEN *a Lawddyd ag ſydd yn awr yn fyw, a byw ydyw yn oes oeſoedd. ac y mae gan-the Agoriadau Uffern a marwolaeth.*

Nid yw dywedyd bod mûr y Ddinas wedi ei barddu â meini gwerthfawr, ſef. Jaſpis; Saphyr; Calcedon; Samaragdus; Sardis; Chryſolithus Beril; Topazion, Chryſoprafus, Hyacinthus, ac Amethyſtus, *ond Cyffelybiaethau y mae yr Yſpryd Glân yn cymeryd i ddangos i ni. Gadernid, Breintiau, ac Arddercbawgrwydd yr Eglwys yn Rhydd-*

Yr Ail Ran am Drigolion y Ddinas.

DU W ei hun yw 'r pen trigianydd,
A'i Fab JESU yn dragywydd,
Yr Yſbryd pur yn llawn o rinwedd,
'N un yn eiſtedd ar yr orſedd.

1 O ddau-tu 'r orſedd mae Cerubiaid,
Chwech adeiniog. yn llawn llygaid,
Ddydd a nos yn rhoddi mawr-glod
Yn ddi orphwys i'r hael Ddrindod.

2 Nid oes un dyn ynddi 'n trigo,
Na bo ei wyneb yn diſgleirio,
Fel yr Haul-wen yn yr awyr,
Ar ddiwrnod hafaidd eglur.

3 Gydâ 'r rhai'n y mae Seraphiaid,
Grymmus, graſol, tanllyd tanbaid;

Yn

Yn cyd-gânu, Sanct, Sanct, gan-waith,
I DDUW 'r lluoedd yn dra pherffaith.

4 Yn neſſa at hynny, mae henuriaid,
Gwynnion reial, mewn Côr auraid;
A'u coronau yn eu dwylo,
Yn ymoſtwng i ſendithio.

5 Mae pob un a'i goron auraid,
Yn canu mawl i'r OEN bendigaid;
Mae pob un a'i *Thuſer* gantho,
Yn arogl-darthu diolch iddo.

6 Maent hwy bob rhai yn eu graddau,
'N canu i'r Arglwydd, Salmau, a Hymnau,
Ac yn rhoddi i'r OEN ganmoliaeth,
Am ei nerthol Iachawdwriath.

7 Yr Angylion ſydd yn gynta,
Yn canu i'r Arglwydd *Halelujah*,
A'r Saint hwynthau yn eu hatteb
O'u Cadeiriau mewn cyd-undeb.

9 Nid oes yno Sant nac Angel,
Na bo 'n canu Salmau yn uchel,
Nid oes yno un yn ſegur.
Na bo 'n canu mawl yn ddifyr.

10 Yr un ganiad y ſydd ganthyn,
Trwy gyttundeb gydâ 'r delyn;
Yr un tafod a'r un genau,
Yn clodfori DUW yn ddiau.

11 Maent hwy yn canu *Halelujah*,
Yn dra hyfryd i'r Gorucha;
Ac yn rhoddi clod a gallu,
I'r OEN ſanctaidd am eu prynu,

12 Maent hwy yn canmol mawr drugaredd
DUW, ſy 'n eiſtedd ar yr Orſedd;
Ac yn moli 'r OEN bendiged,
Am eu prynu o'u caethiwed.

Rhydd-did yr Efengyl yn y Dyddiau diweddaf Canys dywedir bod Pabell DUW *gydâ Dynion,* Dad. 21.3.

13 Mae mor hyfryd ac mor weddaidd,
Ganthynt foli 'r Drindod ſanctaidd,
Ac na allant fyth ddiffygio,
Ond rhoi clod a moliant iddo.

14 Maent yn gweled bawb yn gyngan,
Wyneb grafol Duw ei hunan:
Yn ei wyneb mae 'n dragywydd,
Ddigonolrwydd o lawenydd.

15 Yrghylch yr Henuriaid gwynion,
Mae mil miloedd o Angylion;
O bob graddau yn addoli
Duw, o'u calon heb rifedi.

16 Y mae wyneb Duw cyn decced,
Gan ei Saint ſydd yn ei weled;
Ac na allant chwennych mwyach,
Edrych fyth ar ddim amgenach.

17 Maent hwy 'n ſefyll yn ddiogel,
O flaen Duw tu fewn i'r demel;
Ni all Satan nac un gelyn,
Wneuthur mwyach niweid iddyn'.

18 Nid oes Emprwr dan Nefoedd,
Yn cadw llys fel *Duw* y lluoedd,
Lle mae 'r gwaetha ſy 'n ei ddilyn,
Yn bennadur ac yn Frenhin.

19 Maent hwy eu gyd yn Foneddigion,
O'r gwaed roial, un a'r goron;
Maent hwy eu gyd yn blant i'r Brenhin,
Ac fel Prinſis yn ei ddilyn.

20 Maent hwy yn frodyr i'r *Meſſias*,
Cyd difeddion o'r un Deyrnas,
Maent hwy yn * ffelos i'r Angylion,
Maent hwy eu gyd yn dyw yſogion.

* *Cyfeillion.*

21 Nid oes un o'r rhai'n yn cyſgu
Ddydd na nos, ond golchi canu;

Nid

Nid oes un ag all ddiffygio,
Mae mor ddifyr iddynt yno.

22 Mae pob un a'i goron harddwych,
Ar ei ben fel Brenhin dewrwych;
Mewn gogoniant yn teyrnasu,
Gyda 'n Prynwr mawr CRIST JESU.

23 Mae pob un a'i balmwydd gantho,
Fel Congcwerwyr yn || treiwmpho, || *Gorfoleddu.*
Ar y byd a'r cnawd a'r cythrel,
Wedi ffwylo 'r rhai'n mewn rhyfel.

24 Ni bu *Selyf* a'i hyfrydwch,
Ni bu *Rôs* a'i holl rialtwch,
Mor drwſſiadus yn eu gwiſgoedd,
Ac yw 'r gwaetha ſy 'n Nefoedd.

25 Maent hwy yn deccach yn eu hwyneb,
Nag oedd *Abſalom* deg ddihareb,
Yn diſgleirio 'n ogoneddus,
Ar lûn corph ein Prynwr grymmus.

26 Maent hwy yn gryfach nag oedd *Sampſon*,
Maent hwy yn lanch nâ neb dynion,
Mae pob un yn hardd fel Angel,
Ac ar draed yn gynt nâ *Haſel*.

27 Maent hwy yn byw mewn mawr ddedwyddwch,
Gwir lawenydd a rhialtwch,
Hwnnw yn parhâu yn dragywydd,
Heb na phoen na thrangc na chyſtudd.

28 Eu gwaith hwy gyd o fach i fwya,
Yw canu i'r Arglwydd *Halelujah*,
A rhoi moliant clod a gallu,
I'r OEN a laddwyd wrth ein prynu.

30 Bwyd pob rhai yw Manna hyfryd,
O hoff ffrwythau pren y bywyd,
O'r hwn ffrwyth pan fwyttaer unwaith,
Ni newynir byth yr eilwaith.

Eu

31 Eu diod oll yw dw'r y bywyd,
O afon *Duw*, y ffynnon hyfryd,
Yr hon ſy 'n tarddu 'n grychias allan,
O tan Orſedd *Duw* ei hunan.

32 Eu difyrrwch ydyw rhodio,
Gyda 'r OEN b'le bynna 'r elo,
I Lan Ffynnon dwfr y bywyd,
Gan glodfori ei Enw hyfryd.

33 Gwedi 'n pan y delont adre,
Mae gwledd rial ar y byrdde;
Wedi ei goſod i roeſawi,
Yr OEN o'i rodiad a'i gwmpeini.

34 Ni bu wledd *Ahaſuerws*,
A'i rialtwch mawr a barws,
Ddim cyffelyb i'r wledd yma,
Swpper mab y Brenhin mwya.

35 Ni chlywodd cluſt ni welodd llygad,
Ni ddych'mygwyd o'r dechreuad
Faint o foethau ſy 'n y ſwpper,
Wedi eu trwſſio ar eu meder.

36 Nid oes ynddi neb yn bwytta,
|| CRIST *y gwir fara.* Un rhyw ymborth waeth na || Manna,
Nag yn yfed ynddi hefyd,
Ddiod waeth nâ dw'r y bywyd.

37 *Duw* ei hun ſy 'n coſti 'r Swpper,
‡ *Un a ſo yn gweini mewn gwledd* Mab y Brenhin ydyw 'r ‡ Sewer,
§ *Golygwyr gwledd.* Awdurdodau yw 'r § controlwyr,
Arch-Angylion yw 'r gwaſanaethwyr.

38 Y Cerubiaid ſydd yn canu,
Ar y delyn i ddifyrru,
A'r Seraphiaid gydâ hwythau,
Yn canu ar daſod ac ar dannau.

39 Y Caniadau yw *Hoſanna*,
Sanct, Sanct, Sanct ac *Halelujah*,

Diolch, gallu, mawl a mawr-glod,
Y ſo fyth i'r ſanctaidd Ddrindod.

40 Mae pob un yn cael ei ddigon,
O bob peth wrth fodd ei galon,
Mae pob ſynwyr yn ymborthi,
Ar y peth ſy 'n perthyn iddi.

41 Y mae 'r llygad yn gwel'd digon,
O rialtwch rhwng Angelion,
Y mae 'r cluſtiau yn clywed hwythau,
Ei gwir wala o ber leiſiau.

42 Y mae 'r geneu 'n cael ei borthi
Bob dydd, a Manna, ac *Acwafeiti*;
Y 'r tafod yntef yn cael canu,
Ddydd a nos i'r Prynwr *Jeſu*.

43 Y mae 'r cyrph yn hedeg hwythau
Mor ddirwyſtr a'r Eneidiau,
Y mae 'r pen a'r traed a'r cwbwl,
Cyn ebrwydded ag yw 'r meddwl.

44 Nid oes aelod mewn un Criſtion,
Fu 'n gwaſ naethu *Duw* yn ffyddlon,
Na fynn *Duw* ei gogoneddu,
Ym *Mharadwys* am ei waſ naethu.

45 Mae 'r holl gorph pan ddelo yno,
Fel yr Haulwen yn diſgelirio,
O's diſgleiria 'r corph mor gannaid,
Pa wedd y'r hardd ddiſgleiria 'r Enaid!

Y Drydedd Ra nyn dangos pa rai na's cânt ddyfod iddi.

NID â iddi ddim ſydd aflan,
Gwas i'r byd, y cnawd, na Satan;
Nid â i mewn i Lŷs yr Arglwydd,
Ond 'Tifeddion gwir ſancteiddrwydd.

1 Nid â i mewn un anwybodus.
Nag un ofer, gwag ſiaradus, Nag

Nag un rhyw bleſerwr aſlan,
Nag un cybydd brwnt ei anian.

2 Nid â i mewn un chwerw llidiog,
Na 'r gwr balch, na 'r ofnus diog;
Nag un rhyw ragreithwr aſlan,
Y mae 'n rhaid i'r rhai'n fod allan.

3 O! gwae finnau weled dynion,
Yn byw 'n ddrwg, yn annuwiolion;
Ac yn tybied trwy ynfydrwydd,
Y cant fyn'd i Lŷs yr Arglwydd.

4 O! rhyfeddol yw 'r ffolineb,
Y tywyllwch, a'r dallineb;
Tebyg caiſt bwyſtfilod aſlan,
Fyn'd i dref *Caerſalem* bur-lan.

5 Rhyfedd iawn y tebyg un-dyn;
Y caiſt ffromſtol, y caiſt mochyn;
Fyn'd i dref ein Prynwr pur-lan,
Lle mae *Duw*, yn byw ei hunan.

Y Bedwaredd Ran, yn dangos pa rai a gaiſt fyned iddi.

CRIST a aeth i'r Ddinas nefol,
I gymhwyſo lle i'w bobol;
Sef i'r rhai ſy 'n credu yntho,
Ac ſy 'n ffyddlon ufudd iddo.

1 Y rhai ſydd yn galaru beunydd,
Am bechodau mawr y gwledydd;
Yr un modd a'u Harglwydd tirion,
Gan geiſio gwella eu harferion.

2 Y rhai ſy 'n llefain ar *Dduw* 'n waſtod.
Am ei help a'i gymmorth parod,
Ac yn diolch iddo hefyd,
Am ei ddoniau, awr, ac ennyd.

3 Y rhai ſydd yn llafurio 'n ddiwyd,
Er mwyn cael rhan yn nhir y bywyd,

Ac

Ac yn dibriſio pob rhyw wradwydd,
Er mwyn dilyn gwir ſancteiddrwydd.

67 Y rhai ſy 'n gadael eu pleſerau,
Er mwyn cyfeillach wiw y Seintiau,
Y rhai y ſydd yn gwerthu 'r ddaear,
Er mwyn cael rhan o'r Nefoedd hawddgar.

68 Y rhai y ſydd a'u hymarweddiad,
Yn y Nefoedd bur. yn waſtad,
Ac yn hiraethu am fod ynthi.
Dyna 'r rhai a gânt fynd iddi.

Y Bummed Ran; Annogaeth i bawb ddyfod iddi.

PWY na cheiſiai fyn'd oddi yma,
I'r fath le ſydd byth yn para?
A rhoi ffarwel i'r byd daëarol,
Er mwyn hawl o'r deyrnas nefol.

2 Pwy ddewiſiai gwmni dynion,
Drwg anhywaith, ac anffyddlon?
O flaen mynd i'r Nefoedd oleu,
At Angylion mwyn a Seintiau.

3 Pwy ddewiſiai fyrr lawenydd,
A phleſerau gweigion dderfydd;
O flaen pob llawenydd nefol,
Sydd yn para yn dragwyddol.

4 Pwy ddewiſiai fyw fel mochyn?
Yn anifail brwnt yſgymmyn;
Heb obaith byth 'gael mynd i orphwys,
Ar ol marw i Baradwys!

5 A all un dyn fod yn credu,
Y pethau hyn wyf yn eu traethu,
Ac etto byth, heb fod am danyn',
Nid wy' i 'n credu gall fod un dyn.

6 Ymrowch mewn pryd i ado 'r ddaear,
Ymrowch i droedio 'r llwybr hawddgar,

Ymrowch i ddilyn gwir Sancteiddrwydd,
Ymrowch i fyn'd i Lŷs yr Arglwydd.

7 Duw fendithio hyn o gyngor
Duw ddatguddio i chwi ragor
Duw 'ch cyfnwyddo â'i lân Yſbryd
I fyn'd trwy 'r byd, i dir y bywyd.

Llythyr yr Awdwr at ryw Eglwyſwr a ddeiſyfodd arno droi ar gân Cateciſm Eglwys Loegr.

DY Zeal at Dduw, a'i Eglwys,
(Fy mrawd) mi wn a barwys
It' geiſio troi holl byngciau 'r ffydd,
Ar gân mor brudd, mor gymmwys.

2 Di weli ſod yn hawſach,
Gan *Gymry* (heb eu hammarch)
Ddyſgu caniad ofer ſerth,
Na 'r peth ſydd werthfawroccach.

3 Gan hynny ceiſiaiſt genny',
Droi 'r pyngciau hyn i'w canu;
Fel y gallo 'n Defaid mân,
Yn rhwydd ar gán eu dyſgu.

4 Wrth wel'd dy dduwiol fwriad,
Ni phellais o'th ddymuniad;
Ond mi droes dy byngciau 'n fyrr,
Yn blaen, yn eglur ganiad.

5 Ni cheiſiais ddim cywrein-waith,
Ond meſſur eſmwyth, perffaith,
Hawdd i'w ddyſgu ar fyrr dro,
Gan bawb a'i clywo dair-gwaith.

6 O derbyn yn reſſawgar,
A geiſiaiſt mor 'wllyſgar;
Er na ydyw 'r gwaith ond gwael,
Mae 'n chwennych cael dy ffafar,

O's

7 O's caiff ein Duw ogoniant,
Na 'n defaid dippyn llesſiant,
'Rym ni 'n dau yn cael ein gwynan,
O'r gorchwyl hyn trwy lwyddiant.

8 Duw roddo dy ddymuniad,
Duw fyddo ceidwad arnad;
Gan fod fy ffrwſt, a'm gwaith yn fawr
Mi gymra 'n awr fy nghennad,

CATECISM Eglwys *Loegr.*

Holiad. FY Mhlentyn hygar hoyw,
Er CRIST, beth yw dy enw?
Myneg im' o galon brudd,
Dy grêd a'th ffydd yn groyw.

Atteb. Fy enw yw *Cynedda*,
A gollwyd gynt yn *Adda*,
Etto § gadwyd trwy ras *Duw*
Yng Nghriſt, 'r hwn yw 'r *Meſſia*.

§ *Y ffyddloniaid edifeiriol ufudd, a gedwir trwy* CRIST: *nid gweithredwyr anwiredd.*

H. Pwy roes dy enw itti,
Lle 'r oeddyt gwedi 'th golli,
Gydâ 'r byd trwy *Adda* ga'th,
A'th droes i'r fath drueni?

A. Fy Nhadau a'm Mammau bedydd,
Trwy lân ac union grefydd;
Pan bedyddiwyd fi â dw'r,
Wrth arch fy Mhrynwr ufudd.

Job 3. 16.
Act. 3. 19.
Heb. 5. 9.
Math. 7. 23.

H. Pa lês ſy 'n dyfod itti,
O'th fedydd, gwedi 'th olchi,
Yn y dw'r gan 'ffeiriad *Duw*,
Gan gymmaint yw 'th druëni?

A. 'Rwi 'n * Aelod bûr i'm Prynwr,
'Rwi 'n Blentyn i'm Creawdwr;

* *Nid wyt ti ſelly mwy na Simeon Magus er dy ſefydddio â Dwfr, onid wyt ti heſyd wedi 'th ſefyddio a'r Yſpryd Glan,* Mat. 3. 11. Rhuf. 8. 14.

'Rwi 'n 'tifedd mawr o deyrnas Ne',
'Rwi 'ng Nghriſt ynore 'nghyflwr.

H. Pa beth yw 'r llw a'r ammod.
A wnaeth dy feichiau droſſod,
Pan derbyniaiſt hyn o fraint,
Ym mhlith y Saint trwy gymmod?

A. Addawſant dri pheth droſſof,
Na's gad'af byth yn angof,
Ond mi cadwaf hwynt eu gyd
Trwy *Dduw*, tra bywyd ynnof.

H. Beth ydyw 'r tri pheth hynny,
Addawſant eu cyflawnu,
Pan yr oeddyt mor ddi rym,
Mynega im' o's medru.

A. 1 Yn gynta bod im' wrthod
Y Diawl, a'i dwyll, a'i gymmod,
A'r byd anwir, mawr ei wawd
A chwantau 'r cnawd a'i bechod.

2 Yn neſſa bod im' gredu,
Holl byngciau ffydd CRIST JESU,
Y rhai 'n y Gredo bob yr un,
'All pob rhyw ddyn eu dyſgu.

‡ *Gofalus.*

3. Yn drydedd cadw 'n ‡ garcus,
Orchmynnion *Duw* a'i 'wllys,
A byw 'n eu hol yn dda fy moes,
Holl ddyddau f' oes yn weddus.

H. Beth ydwyt ti yn dybied,
A rwymwyd di cyn gaethed;
Ac y rhaid it' gredu hyn,
A'u cwpla 'n dynn trwy weithred?

A. Yn wir 'rwi rhwym i gredu,
Ac hefyd i gyflawni
Hyn ei gyd, a hynny wnaf,
Trwy nerth *Duw* Nâf, heb ffaelu

Ac

Ac yr wyf yn ddiolchgar,
I'm *Duw* am gymmaint ffafar,
A'm galwodd i i'r cyfryw ſtâd
Yng Nghriſt fy Ngheidwad hygar.

Ac mi 'tolygaf arno,
Roi gras 'm i byth i drigo
Yn y cyfryw ſtâd tr'wi byw,
Nes tynno *Duw* fi atto.

H. Adrodd immi yn byſſur,
Holl fannau 'th ffydd yn eglur:
A mynega im' ar lled,
Beth yw dy Gred a'th hydyr.

A. 'Rwi 'n credu yn *Nuw* galluog,
Tad *Jeſu Griſt* trugarog
Creawdwr nef, a dae'r, a dw'r,
A'u pen Rheolwr enwog.

Yr wyfi 'n credu hefyd,
Yng Nghriſt fy Mhrynwr hyfryd — Ioan. 1. 14.
A wnaed yn Ddyn o'r wyryf *Fair*,
Trwy râd ei * ddiwair Yſpryd. — * *Lân.*

Yr hwn a wir ddioddefwys
Dros ddyn, dan *Bon's Pilatwys*:
Ac a hoeliwyd ar y groes,
Nes marw o'r loes a'i lladdwys.

A chwedi marw ar groeſ-bren,
Fe gladdwyd yn y ddaeren:
Fe ddiſgynnodd er ein mwyn, — Act. 2. 31.
I ‡ Uffern dwym, aflawen. — ‡ *Bedd.*
A'r trydydd dydd fe gododd — 1 Cor. 15.
O farw, lle gorweddodd, — 4. 55. 57.
Gwedi gorfod Angau glas, — Heb. 2. 14.
A'r Gelyn cas a'n twyllodd.

Ac yno fe dderchafwys,
I'r drydedd Nef yn gymmwys,

Lle

Mar. 1. 16.

Lle 'r eiſte 'n awr ar law ddê 'r Tâd,
Yn Geidwad i'w ei Eglwys.
O'r Nef ſe ddaw yn hoyw,
I farnu 'r byw a'r meirw,
Mewn gallu a gogoniant mawr,
Pan ddel yr awr i'n galw.
'Rwi 'n credu 'n ffyddlon hefyd,
I'r Glan a'r Sanctaidd Yſpryd,
Sy 'n deilliaw oddiwrth y Tad a'r Mab,
Gwir roddwr rhad a bywyd.

1 Ioan 5. 7.
Job 15. 26.

|| *Sicer. Cynulleidfa.*

'Rwi 'n credu yn || ſuwredig,
Fod Eglwys lan Gatholig,
O bob Naſiwn, oes a thir,
Gan *Griſt* yn wir gadwedig
'Rwi 'n credu ſod yn gyngan,
I bawb o'r Saint eu cyfran,
Yn *Jeſu Griſt* ein Prynwr drud,
A'i ddoniau i gyd yn gyfan.
'Rwi 'n credu bod maddeuant
I bawb a wir 'difarant;
Er mwyn Mab *Duw*, a dalodd iawn,
Tra chyflawn am eu nwyfiant.
'Rwi credu Adgyfodiad
I'm cnawd, pan ddel yr ‡ Ynad
A'i udcorn mawr, i'n codi o'r lluwch,
I gyfrif, cuwch a'r llevad.
Ac yr wi 'n credu 'n hollol,
Fod bywyd mawr tragwyddol,
I holl Blant *Duw*, a'r Saint ynghyd,
Yn ol y byd preſennol.

Cyffredinol meddi ei galw allan o bob canedl.

Eph. 5. 25.
Act. 10. 35.

Gen. 3. 19.
Eph. 1. 7.

Job 5. 28.
‡ *Barnwr.*
1 Theſ. 4. 16.
Rhuſ. 14 10.
Mat. 25 34.
1 Cor. 15. 19.

H. Pa bethau 'n benna ddyſgaiſt,
O'th Gredo 'r hon adroddaiſt?
Cais grynhoi yn fyrr ynghyd,
Ffrwyth hyn i gyd a draethaiſt.

A. 'Rwi 'n dyſgu credu 'n gynta,
Yn *Nuw*, 'r gwir Dâd gorucha,
'R hwn a'm creodd, a'r holl fyd, Gen. 1. 27.
Mewn dull a phryd o'r glana.

Yn ail yr wyf yn credu
Yn *Nuw* 'r Mab, f' Arglwydd *Jeſu*,
A'm prynodd i'a phob rhyw ddyn,
A'i waed ei hun i'n helpu.

Yn drydydd credaf hefyd,
I *Dduw* 'r Sancteidd-lan Yſpryd, 1 Cor. 6. 11.
A'm ſanctеiddiodd, a phob rhyw
Etholodd *Duw* i fywyd.

H. Di addewaiſt trwy feicheon,
Lwyr gadw 'r holl orchmynnion,
Pa ſawl un o'r rhai'n y fydd
I'w cadw 'n brudd o'r galon?

A. Mae deg gorchymmyn croyw,
A roes *Duw* im' eu cadw:
Nid oes torri un o'r rhai'n,
Rhag myn'd yn gelain farw.

H. Pa rai er *Criſt* yw rhei'ny?
Moes glywed, prawf eu henwi:
Cais fyw yn ſanctaidd yn eu hol,
A gwna hwy 'n rheol itti.

A. Y rhai ar fynydd *Sina*,
A draethodd *Duw* gorucha
A'i enau hun, o'r tân a'r mwg,
Yng olwg ei gymmanfa.

A'r rhai trwy ddwylo *Moeſen*,
A roes *Duw* ar ddwy || dablen; || *Lleh.*
Gwedi § printio a'i fys ei hun, Deut. 6. 10.
Yn hawdd i ddyn eu darllen. § *Scrifen.*

Y rhai fydd ddigon eglur,
I'w tynnu maes o'r Sgrythur,

O'r ugeinfed bennod dlws,
O *Exodus* gymmeſſur.

H. Beth yw 'r Gorchymmyn cynta,
A'r ail, a'r lled mynega?
Prawf eu traethu cymmain-hun,
Yn oed yr un diwetha.

A. 1. MY FI yr Holl-alluog,
Yw d' Arglwydd *Dduw* truga-
(rog:
Na fyn un *Duw* onid myfi
Sydd un a thri galluog.

2. Na wna un Ddelw itti,
Gerfiedig i'w haddoli;
Na llun dim o'r Nef na 'r ddaer,
Na 'r dw'r na 'r air i'm ſiommi.

Na oſtwng i'r fath wagedd,
Na 'ddola 'r fath oferedd;
Pridd, a choed, a cherrig ŷn',
Gwaith dwylo dyn a'i fyſſedd.

Can's myfi d' Arglwydd grymmus
A'th lôr. wyf *Dduw* eiddigus
Sy 'n ymwel'd â phechod cant
O dadau, ar blant camweddus,

Ac yn rhoi coſpedigaeth,
Hyd dair oes a chenhedlaeth,
O'r rhai ſydd yn fy nghaſau,
Trwy garu gau addoliaeth.

Gan ddangos trugareddau,
I'r fawl a gatwo 'n Neddfau,
Ac i'w eu plant a'u had a'u hil,
Hyd Fil o genhedlaethau.

3. Nac enwa *Dduw* un amſer,
Heb ofon, parch a phryder;
Can's nid gwirion yw dy lw,
O's cym'ri ei enw 'n ofer.

4. Cofia gadw yn ſanctaidd
Y Sabbath wenn yn weddaidd,
A threulio 'r ſûl tra f'ech di byw,
Yn addoli Duw 'n griſtnogaidd.

Fe roes Duw chwech diwrnod,
It' weithio d' orchwyl priod:
Y ſeithfed dydd rhaid cwympo 'n faith
I weithio gwaith y *Drindod.*

Ar y diwrnod hwnnw,
Na wna ddim gwaith ſerch marw,
Na'th fab, na'th ferch, na'th wâs na'th farch,
A'r dieithr arch ei gadw.

Canys mewn chwech o ddyddiau
Y gwnaeth Duw 'r byd a'i bethau,
A'r Nef, a'r ddae'r, a'r môr, a'u llû,
A'r cwbwl ſy 'n eu diblau.

A'r ſeithfed dydd gorphwyſodd;
Gan hynny fe fendithiodd
Yr Arglwydd Duw y ſeithfed dydd,
Ac ef a'i prudd ſancteiddiodd.

5. Rho barch a gwir ufudd-dod,
I'th dâd a'th fam yn waſtod,
Fel yr eſtynno *Duw* yn hir
Dy oes ar dir dy drallod.

6. Gochel ladd un Criſtion,
Na thywallt gwaed y gwirion: Gen. 4. 10.
Gwaed a lefyn doſt ei lais;
Duw, ddial trais llofruddion.

7. Na wna odineb aflan,
Gwna 'n fawr o'th wraig dy hunan: Diar. 5. 15ᵈ
Yf dy ddw'r o'th ‖ winſh dy hun, ‖ *Eſſynnon.*
Na chwrdd ag un oddiallan.

8. Na ledratta fymryn,
Tr'ech byw, o olud un-dyn:

Na thwylla neb, nac arfer drais,
Er goddef clais a newyn.

9. Na fydd di dyſt celwyddog,
Yn erbyn dy gymmydog:
Dywaid wir am bob rhyw ddyn
Na ſclawndra un di-euog.

10. Na chwennych dŷ cymmydog,
Na 'i wraig, na i' was calonnog;
Na 'i forwyn wen, na 'i farch na 'i ŷch
Na dim na by'ch perchennog.

O Arglwydd *Dduw* bydd dirion,
Wrth bawb o'th blant, a'th weiſion,
Goſtwng di 'n calonnau 'n faith
I gadw 'th gyfraith gyfion.

O Arglwydd graſol maddau;
Ein pechod a'n troſeddau:
A 'ſcrifenna 'r gyfraith hon,
Ar lechau 'n llon galonnau.

H. Beth wyt ti 'n ddyſcu 'n benna
O'r gyfraith hon? mynega;
A rho im' yn gryno ynghyd,
Ei ffrwyth i gyd yn gwtta.

A. 'Rwi 'n dyſgu dau beth enwog,
Fy nau ryw ddyled ſerchog,
Un tuag at fy Arglwydd *Dduw*,
Llall at pob rhyw gymmydog.

H. Yn gynta moes im' glywed,
Yn gyflawn beth yw 'th ddyled,
At yr Holl-alluog *Dduw*,
Sy 'th rwymo i fyw yn gyſtled.

A. Fy nyled at *Dduw* cyfion,
Yw credu ynddo 'n ffyddlon,
A'i ofni 'n fawr trwy barch a ffydd,
A'i garu 'n brudd o'm calon.

Heb. 11. 6.
Pen. 12. 28.
Mat. 22. 37.

Yna

Yna ei wir addoli,
Fel mae ei Air yn erchi:
A'i fendithio bob yr awr, Deut. 12.22.
Am dan ei fawr ddaioni: Sal. 145. 2.
A llwyr ymddiried ynddo,
A galw 'n gywir arno,
Parchu Air, a'i enw 'n brudd,
A bod yn ufudd iddo.
Ac felly ei anrhydeddu,
Yn gywir a'i wasʻnaethu,
Ddydd a nos, tra ynof chwyth,
Ar eitha byth o'm gallu.

H. Beth yw dy ddlyed enwog
Tuag at bob rhyw gymmydog?
Moes ei glywed immi 'n glur,
O galon bur yn rhywiog.
Fy nyled at gymmydog, Mat. 22. 23.
I'w garu yn dra ferchog, Mat. 5. 44.
Fel y carwyf fi fy hun, Mat. 7. 12.
Pet fae fy ngelyn llidiog.
A gwneuthur i bob Criftion,
Fel y dymuna nghalon, 1 Tim. 5. 4.
Iddynt hwythau wneuthur imʻ,
Heb ddangos llym feſſuron.
A charu fy Rhieni,
A'u cymmorth hwy a'u parchu:
A gwneuthur heb ddim nag na fôn,
Bob § peth a fônʻ yn erchi.
§ *Sef pob peth cyfreithlon.*
Ac ufuddhau i'r Brenhin, 1 Ped 2. 13
A'i ſwyddwyr fy 'n famddiſtyn; Act. 4. 19.
A'i anrhydeddu trwy fawr barch,
A gweithio ei arch yn ddiflin.
A goſtwng i'm dyſcawdwyr, 1 Theſ. 5.
Athrawon a chynghorwyr, 12.

Sy 'n cyfrwyddo immi fyw,
Wrth 'wllys *Duw*, a'r ſgrythur.

1 Tim. 6. 1. A pherchi mawr a bychan,
Leſ. 19, 32. O'm gwell o bob rhyw oedran,
Ac ymoſtwng iddynt hwy,
Heb wneuthur mwy o dwrddan.

Mat. 5 22. Ac na wnelwyf niwed,
Leſ. 19 17. I neb, ar air na gweithred,
Na dwyn cas at un rhyw ddyn;
Na chlwyſo un a'r aned.

A chadw 'nghorph yn dempraidd.
1 Theſ. 4. Yn ſobor, ac yn ſanctaidd,
3. 4. 5. Rhag pob rhyfyg fel rhag plag,
Mat. 5. 28. Yn ddiwair ac yn weddaidd.

A chadw 'n nwylo 'n benna,
Eph. 4. 28. Rhag whiwo a lledratta,
1 Theſ. 4. 6. Ac rhag gwneuthur twyll na cham,
Ond gweithio am fy mara.

A chadw 'nhafod heunydd,
Rhag cabledd, twyll, a chelwydd,
Eph. 4. 25. Ac rhag dwedyd drwg am neb,
Sal. 50. 19. Fel * ethnic heb ei fedydd.
* *Un heb broffes griſt'nogol.*

A chadw nghalon angall,
2 Theſ. 3. 8. Rhag chwennych golud arall;
Ond trafaelu wrth fodd *Duw*,
I geiſio byw yn ddiwall.

Addyſg.

Rhuf. 7. 18. Gwybydd hyn yn eglur,
Nad wyt ti 'n abal gwneuthur,
Hyn i gyd o'th rym dy hun,
Lle 'r wyt ti 'n flin bechadur.

Job 15. 5. Ni elli gadw 'r gyfraith,
Na rhodio ynddi 'n berffaith,
Na gwaf'naethu *Duw* 'n ddifrad
Heb gael ei rad yn helaeth. Gan

Gan hynny rhaid it' ddyſgu,
Trwy weddi attolygu,
Ar *Dduw*, mawr o hyn i ma's,
Roi nefol râs i'th helpu.

H. Moes glywed im' gan hynny,
A fedru di fynegu
Gweddi 'r Arglwydd yn ddi baid?
On'te mae 'n rhaid ei dyſgu.

A. EIN Tâd o'r drydedd Nefoedd,
Ein Tâd trwy *Griſt* a'n prynodd,
Sancteiddier byth dy enw mawr,
Gan bawb (bob awr) o'th luo'dd.

Deued dy deyrnas rafol,
I'n plith dy Blant, dy bobol,
A rheola ni bob pryd,
A'th Air, a'th Yſpryd nefol.

Dy 'wllys di wnel dynion,
Ar dir ym-myſyc dae'rolion;
Fel yn y Nef. y gwneir heb nag,
Gan ‡ Thronau ac Angylion.

Rho heddyw inni fwytta,
Bob rhai 'n beunyddiawl, fara,
A phob peth ſydd raid i ni
Th waſ'naethu di 'r Gorucha.

A maddeu i ni 'n pechodau,
Fel y maddeuom ninnau,
I'r ſawl a wnaethont lawer gwaith,
I'n herbyn faith droſeddau.

Nac arwain ni yn ddirgel,
I brofedigaeth uchel;
Ond gwared ni, rhag pob drwg ‖ ffawd
O'r byd, a'r cnawd, a'r Cythrel.

Can's tydi bie 'r deyrnas,
A'r nerth a'r gallu o gwmpas;

‡ *Gorſeddfeinciau awdurdodau, ſef Angylion yſgatfydd. radd uchel.*

‖ *Damwain.*

A'r

A'r gogoniant oll i gyd,
Hyd ddiben byd yn addas. *Amen.*

H. Beth wyt ti yn ei geisio,
Gan d' Arglwydd wrth weddio,
Yn y weddi fechan hon,
Gan droi d' olygon atto.

A. Yn gynta 'r wyfi 'n erchi,
Ar f' Arglwydd, Tâd goleuni,
Roi i ni ras tra fom ar dir,
Bob rhai i'w wir addoli.

Gwedi'n 'r wyfi 'n eiriol,
Am bob peth angenrheidiol,
I'r eneidiau a'r cyrph ynghyd,
Tro ni 'n y byd presennol.

A maddeu ein holl ddrygioni,
Ein beiau oll a'n gwegi,
A thrugarhau wrth bawb ar lled,
A wnelont niwed inni,

A'n cadw yn ddihangol,
Rhag pob rhyw bechod marwol,
A phob perig', a phob plag
Corphorol ac ysprydol.

A hyn yr wi 'n obeithio,
(A wna fy *Naw* heb beidio),
(Er mwyn ei Fab, fy Mhrynwr gwyn)
Fel 'rwyf yn erfyn gantho.

H. Attebaist hyn yn gymmwys,
Mynega im' cyn gorphwys,
Pa sawl Sacrament di-drist,
Ordeiniodd *Crist* i'w Eglwys?

A. F' ordeiniodd ddau 'n ei fywyd,
Tra rheidiol at ein hiechyd:
Y cynta o'r ddau yw bedydd pêr,
Yr Ail yw 'r Swpper hyfryd.

H.

H. Os dwyt ti yn deallu,
Dymunwn it' hyſpyſſu,
Beth vw 'r Sacrament yn bur?
Mynega 'n glur o's medru.

A. Mae 'n Arwydd || plain gweledig, § *Eg'ur.*
O ddirgel ras arbennig; 1 *Cor.* 10. 16.
Trwy 'r hwn y rhoddir *Criſt* ei hun,
A'i ddoniau i ddyn cadwedig.

H. Pa nifer ſydd o rannau,
Ym mhawb o'r Sacramentau?
Myneg im' argoedd y plwy,
A dangos hwy yn oleu.

A. Mae dwy ran amlwg meddynt,
Ym mhob yr un o honynt,
Yr Arwydd amlwg o'r tu fa's,
A'r dirgel ras ſydd ynddynt.

H Beth ydyw 'r nôd gweledig,
A'r arwydd digon tebig,
Sy 'n y Bedydd o'r tu fa's,
Yn ſelu 'r gras arbennig?

A. Y Dw'r yn y bedyddfan,
Lle trochir y dyn bychan,
Yn enw 'r Tad a'r Mâb (dri phryd)
A'r ſanctaidd Yſpryd purlan.

H. Beth ydyw 'r gras yſprydol,
Na's cenfydd llygad cnawdol,
Y mae 'r dw'r yn arwyddoccau,
Sy 'n golchi brychau 'r bobl.

A. Gwaed *Criſt* Mab *Duw* ei hunan,
Sy 'n golchi 'r enaid aflan,
Oddiwrth bob rhyw bechod cas,
Lle 'roedd e'n was i Satan.
Ac hefyd yn ei wneuthur,
Yn griſtion, o bechadur;

Ac

Ac yn Blentyn *Duw* trwy ras,
O elyn cas wrth natur.

H. Beth ydys yn ei geisio,
Gan rai ddel i'w bedyddio,
Beth sydd raid mynega 'n rhydd,
I'r rhai gais budd oddiwrtho.

A. 'Difeirwch a ffydd fywiol,
Sydd ddau beth angenrheidiol,
I bob dyn a ddel yn brudd
I geisio bedydd grasol,
'Difeirwch i ymwrthod,
A phob rhyw fath o bechod,
Ffydd i gredu tra fo byw,
Addewid *Duw* a'i Ammod.

H. Pa ham y rhwydd fedyddir,
Plant bychain pan eu genir
Pan na allant yn ddifeth
Gyflawni 'r peth a geisir?

A. Y maent hwy trwy meicheon,
Yn cwpla eu promeision,
Nes y delont hwy mewn maint,
I dalu saint addawson',

H. Mynega pa'm ordeiniwyd,
Y swpper pan dechreuwyd,
Pa'm yr y's yn arfer hon
Trwy ddefod lon ni † lyswyd

† *Wrthodwyd.*

A. Er mwyn tragwyddol gofia,
Am Angau *Crist* a'i laddfa,
A'r holl lesâd a ddaw i ddyn,
Oddiwrth ei wŷn a'i boenfa.

H. Beth ydyw 'r rhan a weler,
Tu allan yn y Swpper,
A'r nod a'r arwydd o'r tu fa's
Sy 'n selu 'r gras addawer.

A. Y Bara a'r Gwîn o'r cymmun,
Orchmynnodd Crift ei dderbyn,
Er coño ei gorph a'i waed ei hun,
Sy 'n cadw dyn rhag * newyn. 1 Co. 11. 24, 25.

H. Beth ydyw 'r rhan ni's gwelwn,
A'r grâs fydd o'r § Communiwn,
'Rhwn ar'ddoccair wrth fara a gwîn?
Mynega 'ni er dolwyn.

* *Newyn yſprydol.*
§ *Cymmun.*

A. Corph *Crift* a'i waed fancteiddiol,
Offrymmodd dros ei bobol,
I brynu dyn i dalu Duw,
A'n porthi i fyw 'n dragwyddol. Eph. 5. 2. Eph. 1. 7. Ioan 6. 50.

H. Pa les a gaiff Crift'nogion,
A gymro o 'wllys calon,
Y Sacrament fancteiddiol hyn
O'r Swpper, pyn derbynion'?

A. Cael porthi eu heneidiau,
Ar *Grift* ei hun a'i ddoniau, Mat. 26.
A chadarnhau eu hegwan ffydd, 26. 27. 28.
A maddeu 'n brudd eu beiau.
Fel y bydd bara ffrwythlon,
A Gwîn yn porthi 'r galon;
Felly *Crift* a'i waed wrth raid,
Sy 'n porthi 'r enaid ffyddlon.

H. Pa beth fydd raid o bryſſur,
I bob rhyw Griſtion wneuthur,
A ddel i Swpper CRIST yn llan,
O's cais yn hon gael cyffur.

A. Rhaid iddo holi 'n fanol,
A fo ef wir 'difeiriol 1 Cor. 11. 28.
Am ei bechod o bob rhyw,
Yn erbyn Duw a'r bobol:
A holi 'n ncſſa at hynny.
A fo e'n llwyr fwriadu,

Gwella ei fuchedd wrth fodd Duw,
A chwed'yn byw heb bechu ;
2 Cor. 1. 3. Ac hefyd mynnu gwybod,
Oes gantho ffydd dan ammod,
Am drugaredd Duw trwy GRIST,
I faddeu ei athrift bechod :
A chredu i'r Arglwydd JESU,
A'i werthfawr waed ei brynu,
Pan na allai neb ond CRIST,
Trwy Angau trift ei helpu.
Mat. 5. 23. 24. Rhaid hefyd holi eilchwaith,
Luc 17. 3. A fydd mewn cariad perffaith,
A pob dyn, gan faddeu 'n brudd
I bawb, bob dydd, eu dryg-waith.

CAN XCI. *Pethau i'w hyftyried, ac i'w harferu pan ddel y nos.*

GWEL fel mae d' oes yn darfod,
Mae'n llai beunydd o ddiwrnod :
Rwyt ti 'n nes y leni i'th ddiwedd,
O un flwyddyn nag y llynedd.

2 Gochel fyn'd un nos i gyfgu,
Yn dy bechod nes 'difaru,
A chymmodi a'r DUW cyfion,
Cyn y caeych dy olygon.

Eph. 4. 26. 3 Nad un nos i'r haul fachludo,
Ar dy lid yn ôl it' ddigio ;
Gwell it' gyfgu gydag Arthes,
Nag a malais yn dy fynwes.

4 Llawer dyn fy 'n my'nd i'w wely,
Heb ddihuno mwy ond hynny,
Nes y galwo 'r udcorn aethlyd,
Hwynt i'r farn i ddwyn eu penyd.

5 Yn ol dy boen, a'th waith y dydd,
Pan ddelo 'r nos ymro yn brudd,
I roi i *Dduw* brydnawnol Aberth,
O galon bur a geiriau prydferth.

6 Diwedda 'r dydd fel y dechreuaiſt,
Cae dy ddryſau fel agoraiſt;
Gad i weddi brudd yn ddiau,
Gloi bob hŵyr a datgloi 'r borau.

7 *Duw* fynn offrwm bêr brydnhawnol,
Fel yr aberth bêr foreuol,
Mawl y nos fel mawl y borau,
Na'd un pryd dy fawl yn eiſiau. Num. 28. 4.

8 Galw 'nghyd dy blant a'th bobol,
Dywaid osber yn dra ſiriol: Gen. 18. 19.
Gwna dy dŷ yn demel fechan, Joſ. 24. 15
Chwareu 'r 'ffeiriad doeth dy hunan. Eph. 6. 4.

9 Prudd weddia ar dy liniau,
Darllen bennod o'r Sgrythurau:
Dyſg dy blant mewn pyngciau crefydd,
Duw 'th fendithia yn dragywydd. Deut. 6. 6. 7.

10 Cofia 'r nos dy waith y dydd, Luc 19. 8.
Os gwnaethoſt gam, gwna iawn yn brudd, Hoſ. 14. 2.
Os digiaiſt Dduw, cais bardwn gantho, Sal. 42. 8.
Os cefaiſt ras, rho foliant iddio.

11 Na ddos i gyſgu yn dybechod,
Rhag myn'd o'th gwſg ger bron y Drindod;
Ac na chaued dy ddau amrant,
Nes ymbilio am faddeuant.

12 Y dyn feiddio fyn'd i gyſgu,
Yn ei bechod cyn 'difaru,
Mae e'n meiddio mwy o lawer,
Na phe cyſgai gydâ gwiber.

13 Rhag dy fyn'd i'r faingc i'th farnu,
Ganol nos tra f'ech yn cyſgu,

Gochel fyn'd fel dyn di wybod,
Byth i'th wely yn amharod.

Sal. 90. 12. 14 Pan edrychech ar dy wely,
Cofia 'r bedd lle 'r ai i'th gladdu;
A chyn rhoi dy gorph i orwedd,
Dyfal feddwl am dy ddiwedd.

15 Pan y tynnech dy holl ddillad;
Ond dy grŷs oddi am danad,
Cofia fel y gorfydd gado
1 Tim. 6. 7. Yma 'r cwbwl, ond yr amdo.

1 Cor. 15. 52. 16 Pan y cano Ceiliog *Peder*,
Nes dihunech o'th esmwythder,
Job 5. 28. Meddwl f' enaid fel y deffro,
Udcorn CRIST di gwedi 'th gladdu.

CAN XCII. *Neu Hymn i'w chanu i* DDUW *cyn myn'd i gysgu.*

Sal. 121. 4. F' Anwyl Dâd, a'm carcus Geidwad,
R'hwn wyt nos a dydd 'mi gwiliad,
Bendigedig a fo d' enw,
Nos a dydd am dan fy nghadw.

Sal. 34. 7. 2 Di 'm castellaist i 'r dydd heddu,
A'th Angylion gwych o ddautu,
Ac orchmynnaist iddynt f' atteg,
Rhag im' daro 'n rhoed wrth garreg.

3 Dithau 'm cedwaist yn ddihangol,
Rhag holl rwydau 'r Sarph uffernol;
Rhwn sydd nos a dydd heb gysgu,
Yn ceisio nisa a'm bachellu.

4 Porthaist finnau heddyw 'n ddiwith,
A mêl o'r graig, a brasder gwenith,
Ac di roddaist im' i'w yfed,
Phiol lawn i dorri 'm syched,

Ty

5 Ty di am cedwaiſt reag pob tramgwydd,
Cywilydd, colled, anffawd aflwydd,
Nychdod, niweid, ac am hynny,
'Rwi o'm calon i'th glodfori.

6 Cym'raiſt fath ofal mawr amdanaf,
Ydydd heddyw, Dâd goruchaf,
A phed faſit heb yn plentyn,
Ond myfi i wilio droſtyn.

7 Bendigedig yn dragywydd,
A fo Ngheidwad a'm drchafydd.
'Rhwn fy'n darpar cymmaint drofwyf,
Ddydd a nos ple byna 'relwyf. *Amen.*

CAN XCIII. *Diolch am dân a chynheſſrwydd. Fe wnaeth yr Awdwr y gan hon ar ol dyfod i'w lettu ar ddiwrnod garw.*

PEN darparwr pob anghenrhaid,
Gwir ymg'leddwr corph ac enaid,
'Rwi 'n bendiſtlio d'enw hyfryd,
Am roi tân i dorri f'anwyd. Sal. 14: 5. 15.

2 Duw, mor raſſol yr ordeiniaſt,
Dân rhag anwyd, tŷ rhag tempeſt,
Bwyd rhag newyn, Dw'r rhag ſyched,
I ymg'leddu dyn pengaled,

3 Oni bunſei itti greu,
Tân i'n twymno a'n cynheſſu,
Pa wedd y gallſai dyn ymdaro,
Heb y tân pe b'allem hebddo?

4 Er bod tân yn beth anhepcor,
Etto 'ſowaeth nid oes nemmor,
Ym mhlith miloedd a ro'nt itti,
Am eu tân, o'r * godeneriſi. * *Diolch.*

5 Arglwydd agor ein golygon,
I gydnabod maint dy roddion,

A'n

A'n geneuau i'th glodfori,
Am ein tŷ, a'n tân, a'n gwely.

6 Y mae 'ngwell yn gorwedd allan,
Yn yr oerfel toſt yn griddfan,
Duw cynhſſa rhi'n a'th ffafar,
A gwna ninau yn ddiolchgar.

CAN XCIV. *Gweddi wrth fyned i'r gwely.*

CEidwad *Iſrael* a'i Achubwr;
Caſtell cryf pob gwann di-ſwccwr,
Er mwyn d' annwyl fab CRIST JESU,
Gwrando ,ngwaedd wrth fyn'd i ngwely.

2 Arglwydd mawr, 'r wyf ar fy nglinie,
Wrth fy ngwely yn cyſdde,
Nad wyf deilwng edrych arnad,
Chwaethach dyfod yn nes attad.

1 Ioan 5. 14 15. Ioan 16. 23.

3 Etto er hyn yr wi 'n hyderu,
Y caf er mwyn dy fab CRIST JESU,
Nid yn unig gennyt wrando,
Ond rhoi immi 'r peth wi 'n geiſio.

4 A bod immi byth yn gryfdwr,
Ac yn Geidwad, ac yn Swccwr,
Rhag pob niweid a ddigwyddo,
Yn enwedig immi heno.

5 Arglwydd 'r wyfi 'n myn'd i orwedd,
Heb wybodaeth am fy niwedd:
O's ni wyr un dyn pan cyſgo,
Pa un a wna ai codi ai peidio.

6 Açhos da i ddyn gan hynny,
Cyn yr elo 'r nos i gyſgu,
Lwyr ymgweirio fyn'd at *Dduw*,
Rhag na chotto mwy yn fyw.

7 O herwydd hyn 'r wyfi 'n dwad,
Attad ti fy *Nuw* a'm Ceidwad,
Ar fy neulin heno i'm mhwedd,
Am dy gymmorth a'th drugaredd.

8 Bydd di Gaſtell, bydd di Geidwad,
Bydd di graig a lloches ddifrad,
I'm caſtellu yn ddi bryder,
Heno rhag pob aneſmwyther.

9 Y mae 'r llew ſy byth heb gyſgu, Ped. 5. 8.
Ddydd a nos a chwant i'm llyngcu,
Ac ni wela' i lun i'w rwyſtro,
Oni chedwi di fi rhagddo.

10 Derbyn fi gan hynny i'th fynwes,
Dod fi rhwng dy ddwy-fron gynnes,
Fel y gallwi 'n eſmwyth orwedd,
Heno 'm mreichiau dy drugaredd. Sal. 17. 8.

11 Arglwydd tanna drnſwi d' adain,
Cadw fi rhag bradau 'r filain,
Fel y gallwi yn ddi bryder,
Gyſgu dani mewn eſmwythder.

12 Goſod * werſyll o'th Angylion, * L'a.
I'm caſtellu rhag pob oſon; Sal. 34. 7.
Par i rhai'n fy llwyr ddiwallu,
Yn dy gofl tra fyddwi 'n cyſgu.

13 Bydd dy hun a'th raſol lygad,
Goruwch y hrai'n yn fy 'ngwiliad,
Nad i neb rhyw ddrwg fy nrygu,
Na thramwyo lle bwi 'n cyſgu.

14 Rho lonyddwch ac eſmwythder,
Immi heno, a phob amſer,
Rho i'm henaid wir ddiddanwch,
Rho i'm corph ei hûn, a'i heddwch.

15 Ac rhag immi fyn'd i'm barnu,
Ger dy fron pan byddwi 'n cyſgu,

Nad

Nad i'm fyned yn ddiwybod,
Byth i'm gwely yn amharod.

16 Nad im' roddi cwſg i'm llygaid,
Nes ymbilio a thi 'n danbaid,
Am gael maddeuant am y cwbwl,
A'r a wnaethum maes o'th feddwl.

17 Par im' addef fy holl gamwedd,
A'm holl wendid, a'm hanwiredd,
Fel gallwi gwedi hadde,
Gael maddeuant gennyd tithe.

18 Par im' wylo a galaru,
Act. 13. 38. Am fy 'ngwith mor rhwydd yn pechu,
A 'mofydio 'n doſt gan gynddrwg,
Y fu fy mychedd yn dy olwg.

19 Par im' fyned mor 'difeiriol,
Dihar. 28. 13. Heno i'm gwely ac mor nefol,
A phe gwypwn na chawn noſwaith,
Mwy i edifaru 'r eilchwaith.

20 Par im' grio 'n daer am bardwn,
§ *Dioddefaint.* Er mwyn CRIST a'i waedlyd § baſſiwn,
Am a weuthum erioed o feie,
Fel na byddo un heb fadde,

21 Golch fi odd'wrth fy meiau 'n llwyr-
Sal. 51. 2. Yngwed *Criſt* yr OEN a'm prynwys, (ddwys,
‡ *Archoll.* Cladd fy mhechod yn ei ‡ weli,
Na'd ef eilchwith adgyfodi.

22 Na'd ſod un o'm ſſiaidd frynti,
Yn dy Lyſr heb ei groeſi,
Rhag i hwnnw fy ngwradwyddo,
‖ *Ymddangos.* Gar dy fron pan ddelwi ‖ 'ympyrio.

23 Par im' ſod a'r wiſg briodas,
Ddydd a nos bob awr o'm cwmpas,
Ac olew i'm lamp, a hwnnw 'n lloſci,
Mat. 22. 12. Yn diſgwyl CRIST i'm galw i gyfri.

Diogel

24 Diögela nghalon ogwan,
Fod yn ſiccr immi gyſfran,
O'r dedwyddwch a bwrcaſſodd
Criſt, i'w frodyr, yn y Neſoedd.

25 Weithian Arglwydd mi orweddaf,
Ac mewn heddwch myfi gyſgaf;
Canys tydi o *Ddaw* 'r diddanwch,
A'm cyſleüi mewn diogelwch.

CAN XCV. *Myfyrdod pan ddihuner o gyſgu ganol nos.*

MOR hyfryd ac mor weddus,
Yw canu i Dduw yn rymmus,
Ganol nos pan fo pob dyn,
Yn cyſgu hûn yn ſelus. Salm. 103. 1. 2.

2 Mor dda, mor ddwys, mor ddeheu,
Yw moli ei enw'r boreu,
A myfyrio yn ddi-ddal,
Am dan ei amal ddoniau.

3 A deffro 'r corph cyſgadur,
A chalon barod bryſſur,
I glodfori enw *Duw*,
Peth hyfryd yw ei wneuthur. Salm. 119. 62.

4 A chwnnu i lawr o'r gwely,
Fel *Dafydd* i'w foliannu,
Ar ein dau-lin ganol nos,
Yn ddi-flin dros ein helpu.

5 A chofio ei drugaredd,
Ei gymmorth a'i ymgeledd,
I blant dynion bob rhyw bryd,
O ddechreu 'r byd i'w ddiwedd.

6 A rhoi ar bwys y gwely,
Pan fyddo'r byd yn chwrnu

Glod a moliant prudd. di-nam,
I'r hael *Dduw* am ein helpu.

7 Clod, a gallu diolch, moliant,
Gwir anrhydedd a gogoniant,
A f'o nos a dydd i'r Drindod,
Sydd b b amser yn ein gwarchod.

CAN XCVI. *Neu Salm* 23.

FY Mugail yw'r Goruchaf,
Pa fodd gan hynny methaf?
Yr rwi 'n ymddiried ynddo fe,
Ni edy eifie arnaf.

2 Y mae ef i'm caſtellu,
A'i ras a'i rym, o ddeutu;
Fel na ddichon gŵr na gwraig,
Na diawl na draig fy nrygu.

3 Y mae ef i'm porfela,
† *Hyfryda.* Mewn dolydd o'r † areilia;
Lle mae dyfroedd tawel iawn,
A thir yn llawn o borfa.

4 Pan elwyf dros ei lwybre,
Fe'm cyrch i eilchwaith adre;
Ac er mwyn ei enw ei hun,
Fe'm try i'r un fydd ore.

5 Ac o's digwydd weithie,
I'm rodio yng nghyſgod ange,
Nid rhaid immi ofni un,
Can's Duw ei hun a'm cadwe.

6 Y mae fe yn breſennol,
I'm hachub yn waſtadol;
A'i wialen wen, a'i fach, a'i ffon,
A'm gwna yn llon rhagorol.

7 Er cynſfordd i'm a chyſſur,
O anfodd fy ngwrth'nebwyr,

Rhodd

Rhodd i'm ford gyfoethog iawn,
A Seigiau 'n llawn o ſiwgr.

8 Eneiniodd f' Arglwydd hefyd,
Fy mhen âg olew hyfryd
Ac fe wnae fy mwtri 'n llawn,
A'i radlaon ddawn a'i olyd.

9 Ei fwynder a'i drugaredd,
A'm dilyn hyd y diwedd,
Yn ei deml tra ynnof chwyth,
Y bydd fy nyth a'm hannedd.

10 I'r Tad, i'r Mab, i'r Yſbryd,
Y Drindod, undod hyfryd.
Y b'o clod a moliant mawr,
Bob dydd, bob awr, bob ennydd.

CAN XCVII. *Y modd y dylei dyn graſſol ddeffro ei gorph a'i enaid ganol nos i glodfori Duw.*

DIHUN, dihûn o gyſgu, Sal. 103. 1.
Fy enaid bâch prawf ganu,
Clôd a mawl, â chalon brûdd,
I'r Arglwydd ſydd i'th helpu.

2 Dihûn, dihûn, mae achos,
It' wiliad fel yr Eos,
I glodfori d' Arglwydd mawr,
Heb gyſgu awr o'r hîr nos.

3 Dihûn, dihûn a chofia
Drugaredd y gorucha,
A'r môdd i'th helpodd Prynwr cred
Er pan i'th aned gynta.

4 Efe yw d' unig helpwr,
Dy nawdd, dy nerth, dy ſwccwr.
Dy *Griſt*, dy graig dy gadarn lor,
A'th dynnodd o'r cyfyngdwr.

5 Fe'th greawdd cyn berffeithied,
Fe 'th dynnodd o'th gaethiwed.
Fe 'th adgenhedlodd o'th ddrwg rân,
Ioan 8. 36, A'i Yſpryd glân bendiged.

6 Fe 'th alwodd o blith deillon,
I gredu 'r 'fengyl dirion,
Fe 'th gyfiawnhaodd yn rhad trwy ffydd,
Yng Nghriſt d' Achubydd ffyddlon.

7 Dihun gan hynny, a chofia
Drugaredd y gorucha,
A'r modd i'th helpodd prynwr cred,
Er pan i'th aned gynta.

8 Yn foethus iawn fe 'th borthodd,
Yn drefnus fe 'th ddilladodd,
Fe 'th dderchafodd i fawr fraint,
Rhag cwrp a haint fe 'th gadwodd.

9 Fe roes it' enw hyfryd,
Anrhydedd a ſyberwyd,
Eſa. 56, 5. Heddwch, llwyddiant, gras a dawn,
1 Cor 3. 21. A llawer iawn o dyd.

10 Fe wnaeth it' fyw mewn caſiad,
Hawddgarwch a chymmeriad,
Gyda phob glan § ſort o ddyn,
§ *Fath.* Heb gas gan un o'r teir gwlad.

11 Dihun gan hanny a chofia,
Drugaredd y gorucha,
A'r modd i'th helpodd prynwr cred,
Er pan i'th aned gynta.

Gen 32. 10. 12 Nt phallodd erioed etto,
O'r peth y fae ti 'n geiſio,
Er na haeddit feger tuet,
Mo'r briwſion ar ei ddwylo.

13 Nid oes un dyn a'r aned,
Sydd arno fwy o ddyled,

I glodfor

I glodfori 'r un *Duw* tri,
Nag ſy arnat ti o'u parthed.

14 Dihun gan hynny a chofia, Sal. 146. 2.
Garedigrwydd y gorucha,
A'r modd i'th helpodd Prynwr cred,
Er pan i'th aned gynta.

15 A thra fo it' ben a thafod,
Mynega byth ei fawr-glod,
A'i ddaioni yn ddi-ddal,
Tra chwyth ac ana'l ynod.

16 I'r Tâd, i'r Mâb, i'r Yſpryd,
I'r Drindod undod hyfryd,
Y b'o clod a moliant mawr,
Bob dydd, bob awr, bob ennyd.

CAN XCVIII. *Diolch am etholedigaeth; ac am amryw ddoniau yſprydol.*

OARGWYDD *Dduw* goruchaf,
Pa ddull, pa fodd y gallaf,
Roi it' ddiolch llawn ar lled,
Fel mae y dyled arnaf.

2 Cyn gwneuthur Nef, a daear,
O'th ras yng Nghriſt, a'th ffafar,
Di 'm detholaiſt fod yn un,
O'th blant dy hun yn gynnar.

3 Di 'm creaiſt i o'r priddyn,
Oedd frwnt a gwael ei eilun,
Ar dy lûn a'th wedd dy hun,
Yn lana dyn o'r weryn.

4 Di 'm tynnaiſt yn dra lluniaidd,
O groth fy mam yn berffaidd,
Lle gallaſid fy 'nrhoi ma's,
Yn grippil cas angrhuaidd.

5 Di 'm gwnaethoſt inne 'n Griſtion,
Yn mlith dy bobol ffyddlon,

Lle

Lle gallafid heb ddim dyfg,
Fy 'n rhoi ym-myfg luddewon.

6 A chwedi *Adda* ngwerthu,
I Satan gynt wrth bechu,
Di a'm prynaift o'i law 'n rhad,
A gwerthfawr waed y *Iefu*.

7 Ni arbedaift roddi i farw,
Dy unig Fab i'm cadw,
Ac i hongian ar y groes,
Dan lawer loes oedd chwerw.

8 Di 'm hadgenhedlaift gwedi'n,
Tim. 3. 3, I fod yn anwyl blentyn,
4. 5, 6, 7. It' trwy fabwys prudd a gras,
Pan oeddwn was a gelyn.

9 Di aethoft yn Dâd immi,
A minnau 'n blentyn itti,
Ioan 1. 12. Di 'm ail wnaethoft ar dy wedd,
Eph. 2. 10 Yn 'tifedd i'r goleuni.

10 Di 'm gelwaift innau hefyd,
A'th air. a'th nefol Yfpryd,
O blith miloedd o rai cas,
I gaffael gras a iechyd.

11 O blith y bobol feddwon,
2 Pet 1 4: A'r mud, a'r dwl, a'r deillion,
Rhuf. 3. 24, Di a'm gelwaift a'th air dwys,
23, 26, I fonwes dy eglwys dirion.

12 A gwaed dy Fâb di 'm golchaift,
A'th Yfpryd di 'm fancteiddaift;
Rhan o'th nattur rhoift i mi,
A'm pechod ti dirymmaift.

13 Ac er fy mod yn farnllyd,
A'm gweithred yn frycheulyd,
Di 'm cyfiawnhaift o'th ras yn rhad,
Trwy ffydd yngwa'd d' anwylyd.

14 A rhoiſt i'm gadarn obaith,
Er immi farw unwaith,
O ran y cnawd pan ddel y crî,
Y caf gyfodi 'r eil-waith:

Theſſ. 4. 13. 16, 17.

15 A derbyn yn ddi ſtuant,
Gan f' Arglwydd wir ogoniant,
(Er mwyn CRIST) a nefol fraint,
Ym-mhlith y ſaint § triwmphant.

Col 3. 4. Sal. 16. 11.

16 Lle caf fi wir lawenydd
A heddwch yn dragywydd,
Parch, anrhydedd, tra 'no 'i chwyth,
A gwynfyd byth na dderfydd.

§ *Ac fy'n gorfoleddu yn y Nef.* Sal. 16. 11.

17 Am hyn o ddoniau 'ſprydol,
Fy Nhad a'm Harglwydd nefol,
'Rwi 'n rhwymedig ar fy llw,
Glodfori d' enw graſſol.

18 A thr'o dim deall genni,
Yn ddyfal dy addoli,
A'th foliannu bob yr awr,
Am dan dy fawr ddaioni.

19 I'r hael Dâd, 'r hwn a'm creodd,
I'r JESU 'r hwn a'm prynodd,
Y byddô clod a mawl bob cam,
A'r Yſpryd a'm ſancteiddiodd.

CAN XCIX. *Gweddi mewn Cyfyngderau.*

DIHUN dihûn, pa ham y cyſgaiſt?
Erioed hyd hyn fy *Nuw* ni hepiaiſt:
Nid *Baal* wyt: O danfon ‖ ſwccwr,
Tynn dy was o doſt gyfyngdwr.

‖ *Cymmorth.*

2 Sych fy neigrau torr fy magal,
Gwared f' enaid. llaeſa 'ngofal;
Gwel fy nghyſtudd, clyw fy nghwynfan,
Barn fy hawl, rhyddha fi weithan.

Fy

3 Fy nghraig i wyt. O na'd fi ſyrthio!
Fy nhwr cadarn; na'd f' anrheithio,
Fy *Nuw*. fy Ner, O dere i'm helpu!
Fy nefol Dâd, na'd fy ngorthrymmu.

4 Galluog wyt, di allu helpu,
Unig ddoeth, y modd di fedru
Sal. 46. 1. Trugarog Dâd, Oh! dere â ſwccwr,
Hawdd yw 'th gael mewn toſt gyfyngdwr.

5 Gwradwydda fwriad fy ngelynion
Attal falchder fy nghaſeion:
Gwaſgar gyngor tyrfa waedlyd,
Er mwyn *Criſt* rhyddha fi o'm penyd.

Yr ail RAN.

DUW, fy nghraig, a'm twr, a'm nodded,
Duw fy iechyd a'm hymddiried,
Goſtwng gluſt a gwrando 'ngweddi
Mewn cyfyngder a gofydi.

2 *Duw* rhoiſt gennad i'm gelynion,
Fy ngorthrymmu heb achoſion,
A'm difethu 'n llwyr gan mwya,
O's ty di ar frys ni 'm helpa.

3 Di roiſt gennad i eſtroniaid,
Lwyr amcanu difa f' enaid,
A'r ſawl nad w'i yn nabod etto,
Lwyr amcanu fy anrheithio.

4 Rhai na wnn o b'le eu henyn,
Rhai na wnaetho i ddim i'w herbyn,
Rhai na chanfu erioed fy llygaid,
Sydd yn ceiſio ſpeilio f' enaid.

5 Arglwydd maent hwy gwedi 'm maglu,
Ac yn barod i'm difethu,
Oni ddei di ym-mhryd a ſwccwr,
I'm gwaredu o'm cyfyngdwr.

6 Deffro o gyſgu f' unig Geidwad
Mae fy llong mewn trallod irad;

O cerydda 'r gwynt a'r tonnau,
Rhag 'mi ſoddi yn eu rhwydau.

7 Na'd i'm llong a'm ‖ taccal dorri,
Bydd di borth ac angor immi:
Llaeſa 'r ‡ ſtorom ſy 'n fy mlino,
Moes dy Law, a na'd fi ſuddo.

‖ *Rhaffau llong*
‡ *Tywydd garw.*

8 Erchaiſt immi ddyfod attad,
Yn fy nhrallod, anwyl Geidwad,
Attad ti fy *Nuw* 'r wi 'n * trottan,
Danfon im' ymwared weithian.

Sal. 50. 51.
* *Dyfod.*

9 Di addewaiſt wrando 'm gweddi
Yn fy nhrallod, ond im' weiddi;
Gweiddi arnat 'r w'i yn waſtod;
Arglwydd weithian tynn fi o'm trallod.

10 Di wrandawaiſt weddi *Ionas*,
Gynt o fol y morfil atgas,
Di a'i bachubaiſt o'i flinderau,
Gwrando ngwaedd, ac achub finnau.

11 Di waredaiſt *Dafydd* frenhin,
Oddi wrth *Saul* oedd yn ei ddilyn:
Gwared finnau o'm trallodion,
Ac o ddwylo fy ngelynion.

Sal. XVIII.

12 Di waredaiſt hên *Elias*,
O law waedlyd gwreigyn ddi-ras;
Gwared finnau yn fy nolur,
O law waedlyd fy ngwrth'nebwyr.

1 Bren. XIX.

13 Di doſturiaiſt yn dra diddig,
Gynt wrth dâd y plentyn † lloerig;
O toſturia wrthyf finnau,
Sy 'n dy ganlyn megis yntau.

Mat. 17. 15.
† *Gwallgofus.*

14 Di roiſt help i'r wraig o *Ganaan*,
Y fu 'n daerllyd yn ei feggian;
O rho help, a nerth i minnau,
Sydd a'm cais mor daer a hithau.

Mat. XV.

15 Er nad oes yngallu un-dyn,
Rwymo 'r Ddraig ſy 'n codi i'm herbyn,
Etto Arglwydd mawr di ellu,
Rwymo hon a'i llwyr ddirymmu.

16 Cymmer yn dy law wayw-ffon,
Cyfod, ymladd â'm gelynion;
Torr hwy ymmaith yn eu gwegi,
Na'd hwy wneuthur trallod immi.

17 Gyrr dy Angel i waſgaru,
'R ſawl ſy 'n chwennych fy ngorthrymmu;
Gyrr dy ſaethau a difetha
'R ſawl ſy a'u bwriad ar fy nifa.

18 Duw di elli 'r modd y mynnech,
Fy 'm rhyddhau i maes o ortrech;
Er dy fawredd dere a chomffordd,
A gwir rydd-did im' yn rhyw-ffordd.

19 Na'd i'm gelyn gael fy llyngcu,
Na'm gwradwyddo, na'm gorthrymmu,
Na'd i'r byd ychwaith gael d'wedyd
Iddo gaffael arna'i ei wynfyd.

20 Dangos immi eglur arwydd,
O'th ddaioni a'th g'redigrwydd,
Fel y gwelo 'r byd o bobtu,
Mae tydi ſydd yn fy ngharu.

21 Nid w'i 'n ceiſio help gwyr mawrion,
Na phennaethiaid, na th'wyſſogion:
Ond yn unig cymmorth difrad,
Gennit ti fy *Nuw* a'm Ceidwad.

22 Na'd i minnau gael fy nhwyllo,
Lle rw'i 'n hollol itti 'n ‡ truſto;
Tyred weithian ag ymwared;
Ynot ti mae f' holl ymddiried.

‡ *Ymddiried.*

23 Mae fy llygaid o'r dechreuad;
Ddydd a nos yn diſgwyl arnad;

Tyred

Tyred weithian i'm diddanu,
Arglwydd na'd i'm llygaid ballu.
Tyred Arglwydd, tyred bryſia,
Gwared f' enaid o gyfyngdra,
Fel y gallwyf dy foliannu,
Trwy lawenydd am fy helpu.

CAN C. *Diolch am ymwared o ddwylo Gelynion.*

ANGYLION *Duw*, a meibion dynion,
Nef a daear a'u trigolion,
Molwch *Dduw* ar eitha 'ch gallu,
Ddydd a nos am fy ngwaredu.

2 Mewn § ing, a thrallod a chyfyngdwr, § *Caledfyd.*
Y gweddiais ar fy Mhrynwr,
Ac o'r Nef o blith Angylion,
Clybu lef fy nghŵyn hiraethlon.

3 Y Sarph oſſododd fagal embaid,
A rhwyd i geiſio difa fy enaid,
Y rhwyd a'r fagal *Duw* a'i torrodd,
F' enaid innau fel gwaredodd.

4 Helodd Angel i'm dad-dryſlu,
Rhoes ei Yſpryd i'm diddanu,
Tannodd droſſw'i Adain hyfryd,
Ac fe 'm tynnodd o'm holl ofyd.

5 Y Tâd a glybu yng waedd iradus,
Y Mâb eiriolodd droſſw'i yn rymmus,
A'r glán Yſpryd a'm cyſnerthodd,
Felly 'r Drindod a'm gwaredodd.

6 O molianned pob creadur,
Enw 'r Arglwydd mawr yn bryſſur,
Am ei gymmorth a'i doſturi
Yn fy ngwared o'm gofydi.

7 Teirw *Baſan* a'm cylchynodd,
Nadredd tanllyd a'm herlidiodd: Ble-

Bleiddiaid blin ac unicorniaid,
Amcanaſſant ddiſa f' enaid.

8 Duw a barodd 'r rhai'n darſu,
Duw a'm cadwodd rhag fy llyngcu,
Duw a dorrodd gyrn a dannedd
Y bwyſtfilod hyn o'r diwedd.

9 O molianned pob creadur
F' Arglwydd mawr a chalon bryſſur,
Am ei nawdd yn achub f' enaid,
O' rhwng cyrn yr unicorniaid.

10 Gwŷr di grefydd, gwragedd gwaedlyd,
A gynllwynodd am fy mywyd,
Ac amcan'ſant fy andwyo,
Difa f' enaid a'm hanrheithio.

11 *Duw* ddatguddiodd eu dichellion,
Duw ddiddymmodd eu hamcanion;
Duw a ddryſſodd eu bwriadau,
Duw waredodd f' enaid innau.

12 O molianned pob creadur
Dduw fy nghraig â chalon bryſſur,
Am ddwyn f' enaid o drallodion,
A gwradwyddo fy ngelynion.

13 Clod a gallu, diolch, moliant,
Gwir anrhydedd a gogoniant,
A ſo nos a dydd i'r Drindod,
Am fy nhynnu maes o drallod.

CAN CI. *Arall am ymwared.*

CReaduriaid *Duw* a'i holl weithredoedd,
Preſwylwyr dae'r trigolion Neſoedd,
Angylion *Duw* hiliogaeth *Adda*,
Genwch foliant i'r gorucha.

2 Cenwch fawl, a rhowch anrhydedd,
I'm *Duw* graſſol am ei fawredd,

Cenwch

Cenwch iddo glod yn waſtod,
Am fy nhynnu maes o'm trallod.

3 Mewn ing y gelwais ar yr Arglwydd,
Curais, ac fe 'm clybu 'n ebrwydd,
Ceiſiais, ac fe roddes immi
Help, i'm gwared o'm gofydi.

4 Y ſarph a'm temptiodd i fel *Adda*,
Twyllodd fi ac yntau i fwyta,
Twyllodd ni i'r fath drallodau,
Ond CRIST, ein gwared neb ni allai.

5 Pan y gwaeddais yn fy nhrallod,
Am faddeuant am fy mhechod,
Maddeuodd im', rhoes gymmorth immi,
Ac ymwared o'm gofydi.

6 O blith y Saint, a'i holl Angylion,
Clybu 'm cŵyn a'm cân hiraethlon,
O'r Nef fe helodd Angel hyfryd,
I'm gwaredu maes o'm gofyd.

7 Dyn ni's gall, a dâ ni's dichon,
Wared neb, o'r fath drallodion,
Ond *Ieſu Griſt* yw 'r unig helpwr,
I'n tynnu yn rhydd o'r fath gyfyngdwr.

8 O clodforwch bawb y *Ieſu*,
Y fu mor raſſol a'm gwaredu,
Molwch ef â lleiſiau cywrain,
Nes b'o 'r Nef o'i glod yn datſain.

9 Bleiddiaid rheipus a'm cylchynodd,
Teirw creulon a'm herlidiodd;
Gwyr digaſog, gwragedd gwaedlyd,
A ſychedodd am fy mywyd.

10 Fy ngelynion oedd yn ceiſio,
Ym mhob dull fy llwyr wradwyddo,
Ac amcanaſant trwy ddichellion,
Ladd, a difa f' enaid gwirion.

Duw

11 *Duw* ddadguddiodd eu meddyliau
Duw ddiddymmodd eu bwriadau,
Duw wradwyddodd fy ngelynion,
Tynnodd finnau o'm trallodion.

12 O molianned pawb yr *Ieſu*,
Fy Nhad graſol am fy helpu,
'R hwn orchfygodd fy ngelynion,
Ac a'm tynnodd o'm trallodion.

13 Clod bob dydd, bob awr bob ennyd,
A ſo i'r Tad i'r Mab i'r Yſpryd,
A gogoniant byth i'r Drindod;
Am fy nhynnu maes o'm trallod.

CAN CII. *Arall byrrach.*

MEGIS *Daniel* rhwng y llewod,
Megis *Ionas* rhwng morfilod,
Y gweddiais ar yr Arglwydd,
Ac o'r Nef fe 'm clybu 'n ebrwydd.

2 Caeodd ſafnau 'r llewod rheipus,
§ *Morfil.* Ffiwynodd ên y || whal afradus,
Torrodd awch y Sarph a'm llyngca
Tynnodd f' enaid o'u crafangau.

3 Nefoedd, daear, dw'r ac awyr,
Tân, a gwynt, a phob creadur,
Molwch f' Arglwydd mawr yn waſtod,
Am fy nhynnu maes o'm trallod.

CAN CIII. *Neu Salm gwynfannus.*

DUW achub f' enaid gwirion,
Sal. LX. O'r llif a'r dyfroedd mawrion,
Sydd o'm hamgylch bob yr awr,
I'm rhoi mewn dirfawr ofon.

2 Mi ſoddais mewn gofydi,
Nid oes ſefyllfa immi:

Y ffrwd a lifodd dros fy mhen,
Yr wyf ar † haychen boddi.

† *Yn agos.*

3 Mi griais nes im' flino,
Fy ngheg fydd gryg gan grio;
Hir ddifgwiliais am dy ras,
Nes immi lâs ddiffygio.

4 Amlach yw ngelynion,
Na'm gwallt, neu 'r gro o'r afon:
A'r rhai fy heb achos i'm cafau,
Y'nt ffel, a chlau, a chryfion.

5 Cedyrn yw 'ngwrth'nebwyr
Sy 'n ceifio 'm lladd heb yftyr:
Telais iddynt fwy na'u rhan,
A minnau yn wann di-feffur.

6 Di adwaenoft fy ffolineb,
A'm gwendid a'm gwiriondeb,
A'm holl feiau fydd mor blaen
Bob awr o flaen dy wyneb.

7 *Duw* na'd g'wilyddio o'm plegyd,
Y rhai ddifgwiliant wrthyd,
Na gwradwyddo un o'th blant,
A'th geifant yn eu gofyd.

8 Mi ddygais lawer gwradwydd,
Do, er dy fwyn di Arglwydd,
A gwrthwyneb lawer pryd,
Gan blant y byd trwy afiwydd.

9 Mi aethym yn ddieithrol,
Oddiwrth fy mrodyr cnawdol,
Ac fel eftron ar bob cam,
Gan blant fy mam naturiol.

10 Can's Zel dy dŷ a'm § hyffodd,
A gwawd y rhai 'th wradwyddodd;
A fyrthiodd arnaf er dy fwyn;
Duw clyw fy nghŵyn o'r Nefoedd.

§ *Brwyttaodd.*

Mi

11 Mi ŵylais ddeigrau heilltion,
Mi ymprydiais ddyddiau hirion,
Gan gyſtuddio f' enaid prudd,
O ddydd i ddydd yn gyſſon.

12 Mi wiſgais ſach a lludw,
Fel un a fae mron marw,
A chalon driſt, ac wyneb tlawd,
Nes myn'd yn wawd i'r meddw.

13 Ond mi weddiaf arnad,
Mewn pryd O *Dduw* fy Ngheidwad,
Tâd trugaredd gwrando fi,
A dwg fy ngweddi attad.

14 *Duw* tynn fi o'r pydew tomlyd,
A na'd fi gwympo oddiwrthyd:
Gwared fi oddiwrth fy nghas,
A dwg fi ma's o'm gofyd.

15 *Duw* na'd i'r llif fy moddi,
Na 'r pydew mawr fy llyngcu:
Na'd i'r ffos fy llimpro 'n fyw,
Duw graſſol clyw fy ngweddi.

16 *Duw* gwrando nghwyn iradus,
Dy fwynder ſydd gyſſurus,
Tro ar fyrder at dy was,
Dy help a'th ras ſydd felus.

17 Na thro dy wyneb graſol,
Oddiwrth dy was cyſtuddiol:
'R w'i mewn trallod, dere ar frys,
A thynn fi o'r llys annuwiol.

18 Neſſa at f' enaid gwirion,
A thynn fi o'm trallodion,
Gwared fi oddiwrth fy mraw,
A thynn fi o law ngelynion.

19 Di wyddoſt beth yw f' ofan,
A'm c'wilydd maith a'm gogan,

Ma

Y mae 'ngwrth'nebwyr ger dy fron,
Tro eu hamcanion aflan.

20 Mae 'nghalon ymron torri,
Gan gymmaint yw 'ngofydi:
Ac ni feddaf nêb o rym,
A ddengys im' dofturi.

21 Duw dere ar frys i'm nerthu,
I'm cymmorth a'm diddanu;
Tynn fi o'm trallod er mwyn *Criſt*,
Gwna nghalon drift grechwenu.

22 O dere Farnwr cyfion,
A Barna di f' achoſion;
Gwêl y camwedd wyf yn gael,
Ar ddwylo gwael elynion.

23 Mâb Duw bydd di Ddadleuwr,
I ddadleu dros d' waſ'naethwr;
Na'd i'r Gelyn ddwyn fy rhan,
Lle rwyfi 'n wann di ſwccwr.

24 A thithau Tâd diddanwch,
Cymffordda fi 'n fy nhriftwch:
Cŵyn fy nghalon drift heb ffael,
A phair im' gael llonyddwch.

25 Dwg gymmorth im' drachefen,
O'th Iachawdwriaeth lawen;
A'th hael Yſpryd cynnal fi:
Na'd drallod dorri 'nghefen.

Sal. 51. 8. 12.

26 Pair immi glywed beunydd,
Orfoledd a llawenydd:
Fel y chwarddo 'nghalon wann,
A ddrylliwyd gan dy gerydd.

GAN

CAN CIV *Neu Sa'm o ddiolchgarwch am ymwared o gyſtudd.*

Sal. 30.

O'R Dwſt o'r dom o'r dyrſa,
O'r Lluwch, o'r Llaid, o'r Llacca,
Di 'm derchefaiſt un Duw Tri,
Gan hynny mi 'th folianna.

2 Di nadaiſt i'm Gelynion,
Gael arnaf wyn eu calon,
Pan yr oed twn glâf a gwan,
Yn gorwedd dan drallodion.

3 Mi lefais arnat Arglwydd,
Rhag myn'd i'r bedd trwy wradwydd:
Di wrandawaiſt ar fy llêf,
Rhoiſt help o'r Nef yn ebrwydd.

4 Gwaredaiſt f'enaid hyfryd,
Rhag myn'd i Uffern danllyd;
A'm corph egwan, triſt ei wedd,
Rhag myn'd i'r bedd llydylyd.

5 Gan hynny meibion dynion,
A'r Saint, a'r hôll Angylion,
Cenwch foliant un Duw Tri,
Am wneud â mi mor dirion.

6 Ni pheru ei lid ond ennyd,
Ei hedd ſydd well na bywyd:
† *Digoſaint.* Dy † fâr a erys dros brydnawn,
A'r boreu cawn lawenfyd.

7 Tra fum i yn llwyddiannus,
Mi ddywedais yn rhyfygus,
Na'm ſymmudyd tra fawn byw,
Ond y cawn fyw 'n ſin-felus.

8 O Arglwydd o'th ddaioni,
Di fuoſt gryfder immi;
Nes it' ddigio wrth dŷ was,
§ *Gyſtwr.* Am troi i § gâs anigri.

Pan

9 Pan y troiſt ti dy wyneb,
O achos f'annuwioldeb,
Yno y ſyrthiais bob yr awr,
I drallod mawr diareb.

10 Ac yno y llefais arnad,
Yn daer, yn doſt, yn rrad,
Am doſturio wrthwi ym-mhryd,
Ac arbed 'mywyd anllad.

11 Pa lês O Arglwydd hyfryd,
Y gai oddiwrth fy mywyd?
Pan deſcynnwi 'n doſt fy ngwedd,
I'r pwll a'r bedd llydy'yd.

12 A fydd i'r llwch glodfori,
Dy Enw di o ddifri?
A fynegaf dy wirionedd di,
Pan byddaf gwedi trengi?

13 Clyw Arglwydd, mos drugaredd,
A rho gynnorthwy rhyfedd,
I mi druan doſt fy nghâs,
Yn ol dy ras bendigedd.

14 Di roiſt O DDUW yn hugar,
Lawenydd yn lle galar:
A dioſcaiſt fy ſach-wiſg,
Pan o'wn ym myſg rhai 'n trydar.

15 O Arglwydd fy *Nuw* graſlol,
Mi'th folaf yn dragwyddol.
O herwydd ti 'm gwaredaiſt i,
I'th foli di yn hollol.

CAN CV *Am Ddiwedd y Byd.*

PAWB ſy 'n chwennych dyſgu 'r pryd,
Y daw *Criſt* i farnu 'r Byd:
Rheitach yw i bob rhai ddyſgu,
Ymbar'toi cyn myn'd i'w barnu.

2 Ffôl o beth i feibion dynion,
Geifio gwybod mwy nag Angylion,
A deallu wrth draws amcan,
Ddirgel fwriad Duw ei hunan.

3 Nid oes Dyn na Diawl, nac Angel,
All deallu dim o'i gwnfel,
Na'r holl fyd yn abal daclo,
Un cyfrinach a fo gantho.

4 Ofer yw i neb chwennychu,
Nabod dim y fo Duw 'n gelu,
M 13. 32. A mynegi wrth draws amcan,
Y peth na's gwyddei Crist ei hunan.

5 Dyfg gan *Grift* y peth hyfpyffodd,
Na chais wybod dim a gelodd,
Deut. 29. 29. I ni perthyn a ddadguddiodd,
I Ddduw 'r cwbwl na's mynegodd.

6 Na chais wybod tra fech byw,
Ddim o ddirgel bethau Duw;
Ac os ceifi mae 'n ddiogel,
Boen a chwilydd am dy drafel.

7 Y mae 'r môr yn boddi llawer,
Sydd yn chwennych gwel'd ei ddyfnder:
A'r haul wenn yn dallu llygaid,
Pawb a edrych arno 'n ddi-raid.

§ *Sicer.* 8 Dydd y farn fydd § fiwr o ddyfod,
Y pryd nid oes ond Duw 'n ei wybod:
Ffol yw 'r dyn a geifio ‡ d'rogan,
‡ *Prophwydo.* Y dydd, na's gŵyr ond *Duw* ei hunan.

9 D'weded pawb eu dewis chweddel,
Nid oes dyn, na diawl, nac angel,
Wyr y dydd, na'r awr, na'r flwyddyn,
Y daw *Crift* i farnu arnyn'.

10 Gwiliwch bawb a byddwch barod,
A difgwyliwch nes ei ddyfod,

Ar y dydd a'r awr na's gwypoch, Mat. 25. 13.
Y daw *Criſt* yn ddirgel attoch.

11 *Iago* a *Pheder* gynt ofynnodd,
I *Griſt*, cyn ei' dderchafu i'r Neſo'dd,
Athro, dangos cyn dy ddyrcha,
I ni 'r prŷd a'r dydd diwedda. Mat 24. 3.

12 *Criſt* attebai ei ddyſgyblion, 36.
Nid perthynas i blant dynion, Act. 1. 7.
Wybod † Cwnſel y Gorucha, † *Arfaeth.*
Am y dydd a'r awr ddiwetha.

13 Mae *Duw* 'n cadw hynny 'n ddirgel,
Iddo ei hunan yn dra diogel:
Gwiliwch bawb a byddwch barod,
Nes y dêl ni chaiff neb wybod.

14 Nid yw 'r doethaf o blant dynion,
Na'r anwylaf o'r Angylion,
Yn deallu hyn ò Amſer,
Gochelwch gredu chwedlau ofer.

15 *Elias* gynt, medd rhai, a ddwede,
Y parhau 'r byd, chwe' mîl o flwydde,
Yn ôl hynny ſe ddiweddid,
Drwy Dân poeth, nes adnewyddid.

16 Dwy fil heb un Gyfraith gywrain,
Dwy fil dan gyfreithau *Moeſen*,
Dwy fil dan Efengyl *Ieſu*,
Os cai bara cŷd a hynny.

17 Tair oes meddant ſydd i'r byd, * *Sef yn Scrifennedig.*
Un * heb gyfraith oll i gyd,
Y llall tan drwm-lwyth gyfraith *Moeſen*,
Y Drydedd tan 'r efengyl lawen.

18 Y ddwy oes gyntaf aethont heibio,
A'r drydedd oes ſy 'n para etto;
Hyd pa hyd y peri weithian,
Ni's gŵyr neb ond *Duw* ei hunan.

Mil

19 Mil a chwechant aethont heibio,
O'r oes hon ac ugain cryno;
Fe all pawb wrth hynny wybod
Nad oes fawr o hon heb ddarfod.

20 Pawb o'r doethion a gyttuna,
Mae byrra oes yw'r oes ddiwetha,
Os nid er mwyn y detholedig,
Hi fydd byrrach nid o ychydig.

21 *Ioan* alwai 'r oes hon ymma,
Ioan. 2. 18. Yn ei ddydiau 'r oes ddiwetha;
Os diwetha 'r amſer hynny,
Mae hi 'r awr hon ar derfynu.

22 Diwedd pob peth oedd yn neſſid,
Pan oedd *Peder* yn y Pulpid;
1 Pet. 4. 7. Nid oes lûn nad ydyw 'r diwedd,
'Nawr wrth hynny 'n agos rhyfedd.

23 Yn amſer *Paul* yr oedd gan mwya,
Yr oes a'r dydd, a'r awr ddiwetha,
'Rwan yn ein hamſer ninnau,
Mae'r diwetha or mynudau.

24 Y byd ſydd gwedi myn'd yn gleirchyn,
Acyn grippil medd ſant *Awſtin*:
Mae ê 'n cerdded ar ffynn Baglau,
Nid oes nemmawr iddo o ddyddiau.

25 Gwiliwn bawb a byddwn barod,
Mat. 24. 33. Mae 'r dydd mawr yn agos dyfod,
Mae medd *Criſt* ymron y dryſſau,
Trwſſiwn bob rhai ein Luſernau.

26 Siccr yw y daw ar fyrder,
Anſertennol ydyw 'r amſer;
Pa cyn gynted ni's gŵyr un dyn,
Byddwn bob awr ar ein rofyn.

27 Nid oes dyn medd *Criſt* ei hunan,
Wyr y dydd a'r awr yn gyngan,

Nac

Nac un Angel detholedig,
Na neb ond y Tâd yn unig.

28 Ofer yw gan hyn i ddynion,
Geiſio myneg yr amſeron,
Y mae 'r Tâd yn gadw 'n gygan,
Yn dra dirgel iddo ei hunan.

29 Etto † *Napeir* enwai'r flwyddyn,
Y gwna *Duw* ar bob peth derfyn,
Ac y bydd y flwyddyn hynny,
Cyn mil ſaith cant o oed y *Ieſu.*

† *Gwr a ſgrifenodd Eſponiad ar Lyfr Y Dadguddiad.*

30 Dweded pawb ei dewis chweddel,
Nid oes dyn, na diawl nac Angel,
Wyr yr awr, na 'r dydd, na 'r flwyddyn,
Y gwna *Duw* ar bob peth derfyn.

31 Byddwn barod bawb gan hynny,
Edifarwn heno, heddu:
Ar y dydd ar awr na's gwypom,
Y daw *Criſt* yn ddirgel attom.

32 Fel na 'nabu ſerchog *Rachel,*
O'i § thymp nes myned, ar ei thrafel,
Felly ni chaiff dynion, nabod,
Dydd yr Arglwydd nes ei ddyfod.

§ *Amſer eſcori.*

33 Pan daeth amſer *Rachel* wiſgi,
Ar ei phlentyn bach eſgori,
Fe orfu eſgori ar y bachgen,
Ar y ffordd dan fôn y dderwen.

34 Felly gorfydd ar y ddaiar,
Sy 'n beichiogi er yn gynnar,
Gwympo i eſgori ar y meirw,
Pan ddel udgorn *Criſt* i'w galw.

Gen. 35. 81.

35 Fel y daeth y Tân a'r Brwmſton,
Yn ddiſymmwth am ben *Sodom,*
Felly daw y Dydd diwedda,
Pan bo 'r byd yn cyſgu 'n ſmala.

Luc7. 28. 29. 30.

Ni

36 Ni ŵyr neb o'r awr na'r amſer,
Byddwn bob awr ar ein pryder,
Mat. 25. 4. A'n Luſernau yn ein dwylo,
Gyda 'r merched call yn gwilio.

37 Mae 'r arwyddion gwedi cerdded,
Fynegodd *Ieſu* môr eglûred,
Ond bod 'chydig o'r luddewon,
Etto heb gredu 'r 'fengyl dirion.

38 Fe ferthyrwyd 'r Apoſtolion,
Mat. 24. 9. A mil miloedd o'r Criſt'nogion,
Act. 12. 2. Ym-mlaid y ffydd a'r Efengil,
Fe ŵyr holl-gred hyn yn rhigil.

39 Fe ddiſtryw-wyd *Caeruſalem*,
Luc. 19. 43. Nid oes maen ar faen lle gwelem;
Hithau 'r Demel fawr a loſgwyd,
Mat. 24. 2. A 'r luddewon a waſgarwyd.

40 F' aeth 'r Efengyl hygar hyfryd,
Mat. 24. 14. Ar farch gwynn ar draws yr holl fyd,
Nid oes cornel dan y Neſo'dd,
Na bu 'r Efengyl ynddo 'n rhyw-fodd.

41 Nifer mawr o Griſtiau ffeilſton,
Mat. 24. 24. Yngrhêd ac angrêd a godaſſon,
A thrwy hocced Tad y celwydd,
Troeſont lawer i gam-grefydd.

42 Rhyfel blin rhwyng Twrc a Chriſtion
Mat. 24. 6. A fu 'n fynych iawn ni glywſom;
Sôn mawr ſydd am ryfel etto,
Rhoed *Duw* hedd i'r ſawl a'i caro.

43 Newyn mawr a thoſt ddrudaniaeth,
A fu 'n llawer gwlad yſowaeth;
Haint, a phla, a chwarren waedlyd,
A fu 'n hwyr ar hyd yr holl-fyd.

44 Daear grŷn a fu o'r mwya,
Nes ſyrthio Temel fawr *Diana*,

A bwrw lawr y trefydd mawrion, Luc 21. 11.
Tyrrau a chestyll yn ‖ sebwrthon. ‖ *Gandryll.*

45 'R haul ‡ ecclipsodd o'r tywyllaf, ‡ *Dywyllodd.* Luc 21. 25.
Nes myn'd y dydd yn nos gan mwyaf,
A'r môr mawr aeth dros y bryniau,
Boddodd miloedd o eneidiau.

46 Y mae 'r § gaugrift ynte 'n rhochain, § *Y Pab.*
Ys llawer dydd yn Eglwys *Rhufain*;
Ac yn llofruddio 'r Saint heb orphwys,
Eisiau 'i alw 'n ben i'r eglwys.

47 Cariad perffaith yntau oerodd,
Ni chân mâb o'r tâd a'i magodd,
Gwaudd † a chweger ly 'n * ymsowtan, † *Merch a mam yn y gyfraith.*
Câs gan frawd ei frawd ei hunan.

48 Ffydd, ysowaeth sy 'n myn'd lai lai, Mar. 12. 12.
Cred o gryn-fyd aeth yn garrai, * *Ymdaeru.*
Asia, *Affric*, *Grecia* ffyddlon, Luc 18. 8.
Sydd yr wan heb grift'nogion.

49 Nid oes un o'r holl arwyddion,
Ond ymchweliad yr Iuddewon,
Na bont eisoes gwedi dyfod; Act. 10. 42. 1 Thess. 4. 16.
Gwiliwn bawb a byddwn barod.

50 Y mae 'r Barnwr mawr yn cychwyn,
Mae er ys dyddiau ar ei rofyn;
Fe ddaw weithian yn dra hoyw,
I roi barn ar fyw a meirw.

51 Mae ef gwedi hogi ei gledde,
A golymmu ei holl saethe;
Y mae ei fwa yn ei annel,
Ac yn barod myn'd i ryfel.

52 Mae fraich rymmus gwedi hestyn, Mat. 24. 37.
Mae ei Angylion ar eu rofyn;
Fe ddaw sel y diluw tanllyd,
I roi barn ar bawb o'r holl-fyd.

53 O meddyliwn am ei wiliad,
Ac am ddiſgwyl ei ddyfodiad,
A bod bawb a'n cyfri 'n barod,
Ac yn dacclus cyn ei ddyfod.

CAN CVI. *Cofiwch Angau.*

† *Anſicr.*

BYRR yw 'n hoes ac † anſertennol,
Heddw 'n fyw, y foru 'n farwol;
Gynne 'n gawr, y foru 'n gelain,
Dymma gyfiwr dyn a'i ddamwain.

2 Ni bydd ymma am ben ennyd;
Un o honom heb ei fymmud;
O meddyliwn am ein fiwrneu,
Heno yſgatfydd rhaid ei dechreu.

3 Fel y rhed yr haul i'r hwyr,
Fel y treulia 'r gnawyll gwyr,
Fel y ſyrthia 'r rhoffyn gwynn,
Fel y diffydd tarth ar lynn;

4 Felly treulia, felly rhed,
Felly derfydd pobol cred,
Felly diftydd bywyd dyn,
Felly ſyrthiwn bob yr un.

‖ *Rhedegwr.*

5 Fel llong dan hwyl, fel ‖ poſt dan lawd,
Fel ſaeth at nod, fel gwalch at ſiawd,
Fel mwg ar wynt, fel ſhif ar ddw'r,
Y bryſia ymmaith eimoes gwr.

6 Fel ſaeth y rhed, fel poſt y gyrr,
Fel cwyr y tawdd, fel ia y tyrr,
Fel dail y ſyrth, fel gwellt y gwywa,
Fel tarth y trig, fel lamp y treulia.

1 *Ped.* 1. 24.

7 Ni ddiflannwn fel y cyſgod,
Ni lwyr doddwn fel y man-od,
Ni ‡ ddiharffwn fel glaſwelltyn,
Ni ddifloddwn fel yr ewyn.

‡ *Collwn ein hardduch.*

Ni

8 Ni cheir gweled mwy o'n hôl,
Nag ôl Neidir ar y ddôl,
Neu ôl llong aeth dros y tonne,
Neu ól ſaeth mewn Awyr dene.

9 O! gan hynny, heddyw, heno,
Moeſwch i ni bawb ymg'weirio
Fynd ar || ffrwſt, a thynnu oddi yma, || *Frys.*
Lle na chawn o'r hir arhosfa.

01 Mewn Tai o glai yr y'm yn trigo,
Tymmheſtl gron a bair eu ſyrthio;
Gwiliwn rhag i'r Angau 'n ſaethu,
A briwio 'r wal tra f'om yn cyſgu,

11 Fel y trewir pyſc â thryfer,
Fel y ſaethir ‡ pheſant dyner, ‡ *Ceiliog coed*
Fel y torrir blodau 'r ardd,
Fel y lleddir gweynydd hardd;

12 Felly trewir dŷn heb wybod,
Felly ſaethir yn ddi arfod,
Felly torrir gwychder dŷn,
Felly 'n lleddir bob yr un.

13 Fel dwr diluw ar y cyn-fyd,
Fel tân gwyllt ar *Sodom* aethlyd,
Fel y fellden, fel y ddraig;
Fel y gwewyr blin ar wraig;

14 Felly 'n chwyrn, ac felly 'n danllyd,
Felly 'n § immwngc, felly 'n aethlyd, § *Sydyn:*
Felly 'n flin, ac felly 'n draws
Y daw 'r Angau ar ein traws.

15 Brau yw 'n cnawd, a bach yw 'n cryfdwr,
Gwann yw 'n grym, a gwael yw 'n cyflwr,
Tippyn bach o groes neu gerydd,
All ein troi a'n torr i fynydd,

16 Gwrach all ladd y Cawr â chogail,
Blewyn bach all dagu bugail,

53 O meddyliwn am ei wiliad,
Ac am ddiſgwyl ei ddyfodiad,
A bod bawb â'n cyfri 'n barod,
Ac yn dacclus cyn ei ddyfod.

CAN CVI. *Cofiwch Angau.*

† *Anſicr.*

BYRR yw 'n hoes ac † anſertennol,
Heddw 'n fyw, y foru 'n farwol;
Gynne 'n gawr, y foru 'n gelain,
Dymma gyflwr dyn a'i ddamwain.

2 Ni bydd ymma am ben ennyd;
Un o honom heb ei ſymmud;
O meddyliwn am ein ſiwrneu,
Heno yſgatfydd rhaid ei dechreu.

3 Fel y rhed yr haul i'r hwyr,
Fel y treulia 'r gnawyll gwyr,
Fel y ſyrthia 'r rhoſſyn gwynn,
Fel y diffydd tarth ar lynn;

4 Felly treulia, felly rhed,
Felly derfydd pobol cred,
Felly diflydd bywyd dyn,
Felly ſyrthiwn bob yr un.

‖ *Rhedegwr.*

5 Fel llong dan hwyl, fel ‖ poſt dan ſawd,
Fel ſaeth at nod, fel gwalch at ſiawd,
Fel mwg ar wynt, fel llif ar ddw'r,
Y bryſia ymmaith eimoes gwr.

6 Fel ſaeth y rhed, fel poſt y gyrr,
Fel cŵyr y tawdd, fel ia y tyrr,
Fel dail y ſyrth, fel gwellt y gwywa,
Fel tarth y trig, fel ſamp y treulia.

1 *Ped.* 1. 24.

7 Ni ddiflannwn fel y cyſgod,
Ni lwyr doddwn fel y man-od,
* *Collwn ein harddwch.* Ni ‡ ddiharffwn fel glaſwellt yn,
Ni ddiſſoddwn fel yr ewyn.

Ni

8 Ni cheir gweled mwy o'n hôl,
Nag ôl Neidir ar y ddôl,
Neu ôl llong aeth dros y tonne,
Neu ól ſaeth mewn Awyr dene.

9 O! gan hynny, heddyw, heno,
Moeſwch i ni bawb ymg'weirio
Fynd ar || ffrwſt, a thynnu oddi yma, || *Frys.*
Lle na chawn o'r hir arhosfa.

01 Mewn Tai o glai yr y'm yn trigo,
Tymmheſtl gron a bair eu ſyrthio;
Gwiliwn rhag i'r Angau 'n ſaethu,
A briwio 'r wal tra f'om yn cyſgu,

11 Fel y trewir pyſc â thryſer,
Fel y ſaethir ‡ pheſant dyner, ‡ *Ceiliog coed*
Fel y torrir blodau 'r ardd,
Fel y lleddir gweynydd hardd;

12 Felly trewir dŷn heb wybod,
Felly ſaethir yn ddi arfod,
Felly torrir gwychder dŷn,
Felly 'n lleddir bob yr un.

13 Fel dwr diluw ar y cyn-ſyd,
Fel tân gwyllt ar *Sodom* aethlyd,
Fel y fellden, fel y ddraig;
Fel y gwewyr blin ar wraig;

14 Felly 'n chwyrn, ac felly 'n danllyd,
Felly 'n § immwngc, felly 'n aethlyd, § *Sydyn:*
Felly 'n ſlin, ac felly 'n draws
Y daw 'r Angau ar ein traws.

15 Brau yw 'n cnawd, a bach yw 'n cryſdwr,
Gwann yw 'n grym, a gwael yw 'n cyſlwr,
Tippyn bach o groes neu gerydd,
All ein troi a'n torr i fynydd,

16 Gwrach all ladd y Cawr â chogail,
Blewyn bach all dagu bugail,

|| *Diryw* Draen ar draws all ladd yr hwſmon,
Duw, môr || ddiſerth yw plant dynion.

17 Y gwann, y gwael, y dwl, y dall,
A ladd y cryf, a gwympy call:
Y drel di-barch, â maen nid mâwr,
A friwia 'n caer, a ddifa 'n Cawr.

18 Beth yw dŷn wrth hyn ond tarth,
A mwg, a niwl, a gwellt, a gwarth;
A gwydyr crin, a rhew, a rhoſſyn,
A ſtên o bridd, a gwynt, ac ewyn?

‡ *Sef y Iachawdwr mawr Ieſu Griſt.* 19 Y dewr y doeth, y gwych y gwalchaidd,
Y cryf, y call, y capten c'ruaidd,
Ein ‡ pen, a'n pont, a'n grym, a'n gras,
Y gafodd gwymp gan Angau glas.

20 Fel y cwymp holl ddail yr allt,
Fel y cneifia gwelle 'n gwallt,
Fel gwywa lili 'r ma's,
Fel y tyrr y gwydyr glas;

§ *Tarri* 21 Felly gwywa, felly tyrr,
Felly § craccia 'n bywyd byrr,
Felly croppir einioes dŷn,
Felly cwympwn bob yr un.

☞ 22 Fel tŷ bugail ein ſymmydir,
Fel ſtên briddlyd ein can-dryllir,
Fel dilledyn y darfyddwn,
Fel y llwydrew y diflannwn.

23 Ni chawn aros mwy na 'n taidau,
Awn i'r ffordd yr aethant hwythau;
Rhaid i'n fyn'd i wneuthur cyfri,
A rhoi lle i eraill g'odi.

24 Nid oes lle in' aros ymma,
Ond dros ennyd i hafotta:
Gwedi'n gorfydd ar bawb ſymmud,
A myn'd i'r ffordd yr aeth yr holl-fyd.

Y

25 Y mae 'r angau glas â'i fwa,
Yn ein herlid ym-mhob tyrfa:
Nid oes un dyn all ddihangyd
Rhag ei follt a'i faeth wenwynllyd.

26 Mae e'n ddirgel yn marchogaeth,
Ar farch glas ym-mhob cenhedlaeth;
Nid oes dŷn all diangc rhagddo,
Aed i'r wlad ar mann y mynno.

27 Er bod *Hafael* 'n gynt na 'r ewig,
Er bod *Saul* fel eryr ffrolig,
Er bod *Jehu* 'n gynt nag yntau,
Ni ddihangodd un rhag Angau.

28 Er gwroled gwr oedd *Sampfon*,
F' orfu, § ildo i'r angau digllon: § *Ymoftwng.*
Felly gorfydd arnom ninnau,
Pet fae 'i gryfder yn ein breichiau.

29 *Alexander* a gongcwerodd,
Yr holl fyd, y ffordd y cerddodd;
Angau gwedi 'r || congcweft fceler, || *Ornchefi-aeth.*
A gongcwerodd *Alexander*.

30 Lladdodd angau bob congcwerwr,
Lladdodd *Galen* y phyfficygwr,
Lladdodd *Luc* y meddyg gorau;
Pwy all ddiangc mwy rhag angau?

31 Fel y fathra meirch Rhyfelwyr,
Tan eu traed bob math o filwyr,
Felly damfing angau diriaid,
Y Brenhinoedd fel begeriaid.

32 Lladdodd angau *Abel* wirion,
Lladdodd angau fanctaidd *Aaron*;
Lladdodd *Gain* a *Cham* yfcymmyn,
Nid yw 'r angau 'n arbed un-dyn.

33 *Pharao* 'r Brenhin, *Eli* 'r 'ffeiriad,
Efau 'r prophwyd, *Ioel* yr * Ynad, * *Barnwr.*

Noah

Noah 'r Patriarc, a'r hên Deidau,
A ddifethwyd gan yr angau.

34 Fel n' arbedai *Herod* greulon,
Ladd y bychain mwy na'r mawrion;
Felly gwn nad arbed angau,
Hên nac ieuangc mwy nag yntau.

35 Pe rhoed iddo aur yn bynnau,
Mil o wledydd a'u Coronau,
Ni chaed gantho arbed bywyd
Dŷn, dros awr, pe rhoed yr holl-fyd.

36 Ni chaiff neb o'i ddymuniad gantho,
Er ymbilian ac er ceisio,
Mwy nac y cai *Pilat* ddigllon,
Ei ganlyniaeth gan *Iuddewon*.

37 Ni ry angau pan y delo,
Awr o amser i ni ymg'weirio,
Nac un rhybudd o'i ddyfodiad,
Mwy na'r Ci cyn lladd y Ddafad.

38 Ond fel lleidir fe ddaw 'r angau,
Yn ddiswmmwth am ein pennau,
Tr'o ni 'n cysgu yn ddi-ofon,
Fel *Philistiaid* am ben *Sampson*.

39 O's bydd diffig dim i'r siwrnau,
Olew i'r lamp, na gwisg i'r cesnau,
Ni chair gan yr angau melyn,
Aros inni syn'd i'mofyn.

§ *Ynebrwydd* 40 Ond fel Brenhin *Babel* ddiras,
Yn troi *Sadrach* § chwip i'r ffwrnas,
Fe dry 'r angau bawb y granfio,
I'r ffwrn briddlyd fel ei caffo.

* *Gwyllt ereulon* 41 Fel y daw y lleidir * llidiog,
Ganol nôs am ben goludog:
Felly daw yr angau i'n cyrchu,
Yn ddi-ymgais tr'o ni 'n cysgu.

Fel

42 Fel y teru gŵr â thryfer,
Byſgc tr'o 'n gorphwys yn ddi bryder:
Felly teru angau ddyrnod,
Ar blant dynion mor amharod.

43 Fel na wyr y g'lommen dyner,
Y pryd, na 'r mann y teru 'r † ffowler: † *Adarwr.*
Felly 'n hollol ni wyr un-dyn,
Y pryd, na 'r modd y bydd ei derfyn.

44 Mewn un ffordd yr y'm yn dwad,
I'r byd hwn, dah wylo 'n irad;
A thrwy fil o ffyrdd heb ‖ farcco, ‖ *Heb ddal ſulw.*
'Rym yn myn'd i maes o hono.

45 Nid oes un mann yn ddi-bryder,
Na ddaw 'r angau glas a'i dryfer,
I roi inni ddirgel ddyrnod;
Ymmhob mann, och! byddwn barod.

46 Wrth droi 'r defaid mewn lle dirgel, Gen. IV.
Y daeth angau am draws *Abel*:
Gochel dithau gael ei ddyrnod,
Wrth droi o dautu dy 'nifeilod.

47 Ar y genfforddd wrth fiwrneia, Gen. XXXV
Y bu farw *Rachel* fwyna;
Wrth fiwrneia gochel dithau,
Rhag cyfarfod â'r glas angau.

48 Pan oedd holl blant *Job* yn gwledda, Job I.
Y daeth angau ar eu gwartha:
Nid oes § gwarant gennyd tithau, § *Sicrwydd.*
Yn dy wledd rhag dyrnod angau.

49 *Holophernes* a fu farw,
Yn ei gwſg pan oedd ef meddw:
Gochel dithau yn dy feddwdod,
Rhag i angau roi it' ddyrnod.

50 *Belſaſſar* er maint a oedd gantho, Dan V.
A fu farw wrth * garowſo: * *Yſed.*

Wrth

Wrth garowſo gochel dithau,
Od wyt gall rhag dyrnod angau.

Act XXIII. 51 Fe ro'es angau anfad ddyrnod,
Ar y faingc i'r Brenhin *Herod:*
Ar y faingc y dlyai farnwyr,
Gofio angau mawr ei hydyr.

1 Bre. XXII. 52 Saethodd angau ſaeth wenwynllyd,
Trwy gorph *Ahab* yn ei gerbyd:
Yn dy gerbyd gochel dithau,
Rhag dy daro â bollt angau.

53 Fe ddaeth angau megis mwrddwr,
Barn. III. Am draws *Eglon* yn ei barlwr:
Gochel dithau rhag ei biccell,
Tr'ech yn gorphwys yn dy 'ſtafell.

54 Pan oedd *Dives* yn ei fidan,
Luc XVI. (A'i phâr foethus) oll yn hedfan,
Fe ddaeth angau ac a'i lladdodd;
Gochel dithau balch ei wiſgodd.

55 Gwedi 'r cerlyn adael llawer,
Luc. 12. 20 A chrynhoi dros hirfod amſer,
Fe ddaeth angau ac a'i lladdodd
Cyn cael profi o'r pethau gaſglodd.

§ *Cwr gwladaidd cyfoethog.* 56 Gochel ditheu 'r § Cob a'r Cerlyn,
Sy'n crynhoi dros lawer blwyddyn,
Rhag i'r angau dy gyrhaeddyd,
Cyn cael profi dim o'th olud.

57 Fe ddaeth angau i drywanu,
Dau fab *Aaron* wrth aberthu:
Wrth yr Allor dlyai i'r 'ffeiriad,
Ofni angau a'i ddyfodiad.

Lev. 10. 2. 58 Pan oedd *Senachrib* y Brenhin,
Yn y demel ar ei ddau-lin,
Fe ddaeth angau ac a'i lladdwys;
Ofnwch angau yn yr Eglwys.

Fe

50 Fe roddes angau frath i *Zimri*, Nym. 25. 8.
Wrth gyd-orwedd gyd â *Chosbi*:
Gochel dithau wrth butteinia,
Rhag i'r angau glâs dy ddala.

51 'Nyn dy lamp, a gwisg dy drwsiad,
Cyn dêl angau 'n agos attad;
Gwna dy gyfrif oll yn barod,
Cyn dy alw o flaen y Drindod.

52 Bydd di barod heddyw, heno,
Ag † oyl i'th lamp, a'th wisg yn gryno, † *Olew.*
I fyn'd o flaen dy Farnwr prudd,
Y fory o bosibl ydyw 'r dydd.

53 Ni wyr *Peder*, ni wyr *Pawl*,
Ni wyr angel, ni wyr diawl,
Ni wyr planed, ni wyr dŷn,
Na neb o'n hawr ond Duw ei hun.

54 'Rhyd dydd, 'rhyd nos, yn glaf, yn iach,
Ar fôr a thir, yn fawr yn fach,
Mewn tref a gwlad, bawb byddwch barod,
Ni wyddis b'le y cawn ni 'r dyrnod.

55 Gweithiwch bawb tr'o 'r dydd yn para,
Cyn cotto 'r haul crynhowch y *Manna*: Ecs 61. 21.
Derbyniwch ras tr'o Duw 'n ei gynnig,
Par'towch eich rhaid cyn delo 'r diwig.

56 Cyn colli 'r * gol cyn delo 'r nos, * *Gesp.*
Cyn torri 'r pren, cyn cwympo i'r ffos; *Preg.* 12. 2.
Cyn cau y porth, cyn myn'd i'r garn,
Cyn canu 'r corn, cyn rhoddi 'r farn.

57 Rhêd am dy † chwyth, gwna waith dy † *Einioes*
Dwg tirwyth yn ‡ rhîn o'r gore i'r yw, (*Duw.* ‡ *Aml.*
Dos ‖ chwip i'r wledd a'th wisg yn gryno. *Ar fyr.*
Cais dy gyfraid cyn ymado.

CAN CVII. *Ar y Flwyddyn* 1629. *Pan oedd y Llafur neu'r Yd yn afiachus o herwydd llawer o wlaw.*

DUW Frenhin trugarog, Duw Dâd hollalluog,
Duw porthwr newynog, na newyna ni,
Sy 'n canlyn dy ffafar â chalon edifar,
Ar ol dy hir watwar a'th ſiommi.

2 Er mwyn dy drugaredd anſeidrol a'th fawredd,
Er mwyn dy wir 'tifedd, O doſa dy lid:
Gwrando Di 'n gweddi gan faddeu 'n drwg-nwydi,
A chymmorth ein tlodi a'n hadfyd.

3 Ni a bech'ſom yn d'erbyn yn daran eſcymmun,
Nes tynnu hir newyn a niweid i 'n plith;
Ac amryw ddiale ſy 'n gryddfu 'n calonne,
Heb allael hir odde dy felldith.

4 Ni a dorr'ſom dy gyfraith oedd gyfion a pherffaith,
Do, lawer can-waith cyn codi o'r mann:
Fel rhai a f'ai 'n tybiaid na b'ai gennyt lygaid,
I ganfod fileiniaid mor aflan.

5 Dy enw a gablaſom, dy Air a gaſauſom,
Dy Eſengyl droedaſom yn ddibris tan dra'd:
Dy ſabbath halogwyd, dy demel adawyd,
Dy Grefydd a lygrwyd yn irad.

6 Ni a dorr'ſom dy ddeddfau fel pobol a dybiai,
Na ddevai dialau am ddilyn ffordd ddrwg:
Neu rai f'ai 'n credu na b'ai gennyt allu,
I'n coſpi am bechu yn gynddrwg.

7 Pan helaiſt Gennadon i ddangos ein beion,
A'n troi i'r ffordd union yn dirion yn da'r:
Ni a gau'ſom ein cluſtiau rhag clywed eu geirau,
Fel neidr a fyddai yn fyddar. *Salm* 58. 4.

8 Gyrraiſt dy weiſion i'n gwa'wdd rai deillion
I'th ſwpper yn dirion, i dario 'n dy lŷs;
Ni a ball'ſom a dwad, ni droeſom i'r farchnad,
A'n fferem, yn anllad anhappus. *Luc* xiv.

8 Ni

9 Ni fynnwn o'r Manna, ni thrig yn ein cylla,
Ni charwn i o'r bara a beru dros byth.
Ond garlleg ac wyniwn, a † phannas a phompiwn,
Fel twrchod a garwn ni 'n aruthr. *Num.* 11. 5.

10 Ni fynnwn ni o'r 'fengyl, ſy'n cnoi ni mor rhygyl,
Ni a drown ein gwegil at hon lawer gwaith,
Ni chaiff hi 'n ceryddu, na'n dangos, na'n dyſgu,
Mae 'n draws yn gwrth'nebu ein drwg-waith.

11 Ni's gadwn i'r ſcrythur reoli 'n drwg nattur,
Na'th gyfraith gymheſſur gymhwyſo mo'r traws:
Ond byw wrth ein ffanſi, a'n trachwant a'n gwegi,
Heb fynnu rheoli ein drwg-naws.

12 Gan hynny waith troedo dy gyfraith a'i gado;
Ni aethom ar ddidro, nid didrangc, gwae ni,
Fel defaid a rede, o'r llafur i'r ffalde
Ar ol llanw eu bolie, i boeni.

13 Mae'n gloddeſt a'n traha, fel mawr-ddrwg *Gomorra*,
Yn llefain am waſgfa, i waſgu ar ein ceſt;
Ni thaw byth o'n penne, nes delo diale,
I waſgu ar ein crylie â ‡ dirweſt. ‡ *Ympryd*

14 Mae pob gradd o ddynion, yn fychain yn fawrion,
Yn pechu yn greulon yn erbyn dy *Griſt*,
Fel pobol wrth raſſe, a dynne ddial,
O'r Nef am ei pennau, yn athriſt.

15 Mae 'r 'ffeiriaid yn gadu dy bobol i bechu,
Heb geiſio eu nadu i uffern ar naid:
A'r un ac a geiſio a'r 'fengyl eu rhwyſtro,
Fe gaiff ei † anfrio yn ddiriaid. † *Amharchu.*

16 Mae'n parchus Reolwyr, (och! *Dduw*) yn rhy ſegur,
Yn godde troſeddwyr, driſt ſoddi 'r wlad,
Heb goſpi a'r cledde' na'r bobol na'r beie,
Sy 'n damſing dy ddeddfe mor eirad.

17 Mae 'r bobol gyffredin, fel Iſrael heb frenhin,
Na 'ffeiriad i'w maethrin, na phrophwyd roi maeth,

Yn byw anhywaith, fel pobol heb gyfraith,
Heb grefydd, heb obaith, yſowaeth.

18 Mae 'n rheipus ſwyddogion, yn ſpeilio rhai gwirion,
Yn ewnach na 'r lladron (llwyr edrych ar hyn)
A'r carlaid yn bwytta y tlodion fel bara,
Neu 'r morfil a lyngca 'r 'ſgadenyn.

19 Mae 'r gweiſion cyflogau a'r hyrwyr yn chwarau,
Mae 'r gweithwyr yn eiſte, heb oſtwng eu pen,
Yn tordain yn blino, heb fynnu mor gweithio,
Nes delych i'w ‡ pricco ag angen. ‡ *Pigo.*

20 Mae'r * tanner a'r §twccwr, a'r || baccer a'r †bwtſiwr
Gwaydd, gôf, a thaylwr, a thiler a chrydd. * *Barcer.*
A'r hwſmyn, a'r crefftwyr, a'r diffrwyth uchelwyr, §*Pan-*
Yn myn'd yn dafarnwyr digrefydd. || *Pobydd. nwr.*

21 Mae 'r gwragedd yn gado eu nyddiad a'u cribo.
Eu gwayad, a'i gwinio, i dwymo dw'r, † *Cigydd.*
Gwerthaſſant eu rhode, a'u cyffion a'u cribe,
I brynu coſtrele tafarnwr.

22 Mae'r mwrddrwr a'r ||gwibiad, ar bawdy cnafanllad,
A'r lleidr, y gwilliad, a'r offeiriad ffôl || *Crwydrad.*
A *Shini*, a *Shiangço*, a ‡ liſens i wttro, ‡ *Cennad i wèrthu.*
Bur, cwrw, tobacco, heb reol.

23 Pe ceiſie y Cythrel, neu fam godi capel,
Wrth ochor dy demel, er dimme yn y dydd,
I gadw tafarn-dŷ, cyhoeddus yng *Hymru*,
Fe gae ei gennadu yn ufudd.

24 Duw tyred o'th arfer, a chyngor ar fyrder,
Torr lawer o'r nifer, ſy 'n nafu 'r byd,
Cyn bwyttont eu gilydd, cyn nafont y gwledydd,
Cyn llygront dy lân-grefydd hyfryd.

25 Mae 'r gweiſion mor § ddainti, na fynnant hwy gorphi
Ond gwyn fara eu meiſtri, neu || fuſtro a wnant§ *Foethus.*
A'r merched ar gyflog, ond odid yn feichiog, || *Gadw ſtwr*
Am ſod yn rhy wreſſog meddant.

Mae

26 Mae pob rhyw o alwad, yn ddibris am dânad,
Yn ceiſio eu codiad, a'i cadw eu hun;
Heb geiſio d' ogoniant di Arglwydd ein llwyddiant,
Na 'th fawr-glod, na 'th foliant na 'i 'mofyn.

27 O achos gan hynny, fod pawb yn troſeddu,
A phob rhai yn pechu a'u buchedd ar draws,
Di geiſiaiſt trwy fwyndra, ac ennyd o waſgfa,
I'n cyffro i wella ein drwg-naws.

28 Yn fwyn ac yn ſerchog, fel Arglwydd trugarog,
A fae yn dra chwannog, i'n hennill trwy dêg;
Di geiſiaiſt yn dirion, trwy amryw fendithion,
I'n tynnu i'r ffordd union, yn loyw-deg.

29 Pan ffaelodd dy fwynder i wella 'n drwg arfer,
Bygwthaiſt dy gryſder, a llwmder i'n lladd;
Hogaiſt dy gledde'. golymmaiſt dy ſaethe,
Paratoaiſt dy arfe i ymladd.

30 Ond wedi it ymgweirio, rhoeſt rybydd cyn clwyfo,
Bygwthaiſt cyn taro, a'n torri i'r llawr:
Cynnygaiſt in' ffafar, o' byddem edifar,
A ninne 'n dy watwar yn ddirfawr.

31 Pan welaiſt (DDUW cyfion) na thyccei fygwthion,
Di yrraiſt yn llymmion dy ſaethiau i'n lladd,
A'n curo, a'n corddi, â llawer o 'fydi,
Na allem na'i dofi, na'u gwrthladd.

32 Gelwaiſt dy weiſion, || mwſtraiſt d' Angyllon, || *Rhifaiſt*
A'th dri meirch mawrion, coch, glâs, a dû:
A gyrraiſt hwy 'n ddiraiaid, ar holl greaduriaid,
I'n plago fileiniaid a'n gryddfu.

33 Rhoiſt ddu-rew digaſſog, haf poethlyd anffodiog,
Gwynt ſtormys ſcethrog, yn ſcathru 'r ŷd,
Llifeiriaint i'n ſoddi, a'r morœdd i'n boddi,
A chan rhyw ofydi i'n herlyd.

34 Twymynnau cynddeiriog, drudaniaeth digaſſog,
Marwolaeth llym oeriog mewn llawer mann,

A

A helaiſt i'n cyffro, i bryſſur repento,
A'n cathren i'th geiſio yn gyfan.

35 Pan gwelaiſt na alleu hyn oll o ddialau,
Ein dattroi o'n beiau, i wella ein byd,
Di helaiſt dracheſen hîr newyn a chwaren,
Rhyſel aflawen i'n herlyd.

36 Y chwarren a laddodd ddiarhebrwydd o filo'dd,
Mewn amryw o leo'dd, a gormod lid,
Nes llanw 'r monwentydd, â thlodi 'r holl drefydd,
Lle gyrraiſt dy gerydd i'w hymlid.

37 A'r rhyfel anffodiog a ddaeth yn ddigoſſog,
A'r cleddyf yn llidiog, i'n tlodi a'n lladd;
Nes difa 'n rhyfelwyr, a'n tryſſor a'n llaſur,
A'n hela 'n ddi-gyſſur i ymladd.

38 Soddaiſt ein llongau, diddymaiſt ein § plotau,
Troiſt fin ein cledde, taflaiſt ni'r clawdd:
Dallaiſt ein doethion, dychrynaiſt ein dewrion,
Gwerthaiſt ni i'r caſi'on a'n ceiſiawdd.

39 Y chwaren a'r cleddu' y wnaeth i ni grynu,
A dechre 'difaru, dau forau neu dri,
A chanlyn a chrio, am dynnu 'r plag heibo,
Nes itti lwyr wrando ein gweddi.

40 Pan tynnaiſt y chwarren a'r rhyfel aflawen,
Ni droeſom dracheſen, dri chyfydd i'n hol;
Fel cŵn at eu chwdfa i'th ddigio a'th hela,
I'n dofi a'n difa 'n anffafrol.

41 Gan hynny di helaiſt y ſtormau a thempeſt,
Yng hanol ein gloddeſt, i'n coſpi â gwlaw,
Nes nafu 'n cynhaya, a defnydd ein bara,
A choſpi 'n hir draha â chyr-wlaw.

42 Tywalltaiſt dy felldith, mor drwm ac mor dryfrith;
Ar § farlis a gwenith, a phob ymborth gŵr § *Haidd.*
Fel y gwrthneba nifeiliaid ei fwyta,
Ni phraw 'r cŵn o fara 'r llafurwr.

Mae

43 Mae 'r march yn ffieiddio, a'r mochyn yn gado
Y llafur ſy 'n llwydo, a'r egin yn llawn,
Gan gynddrwg yw * relis y † pilcorn a'r barlis, * *Blas*
Y gaed o'r anilis fiſgawn. † *Silyd*

44 O Arglwydd ni haeddſom dy felldith yn gyfion,
Ar lafur o'r fiſgon, a'r faſged a ſtor,
A newyn a nychdod, am hîr anufydd-dod,
O ddiffig it' ragod ein goror.

45 Ein dirmyg a'n traha a'r ddiod a bara,
A bair i ni fwyta, oni attal Duw,
Y ffacbys a'r callod, ac ymborth 'nifeilod,
A'r crwſt ym ni 'n wrthod heddyw.

46 Ni fuom yn poeri y blawd oedd a rhyddi,
A'r bara a'r pinni, ni bwrem o'n pen :
A'n begers mor ſoethus yn teri a'r farlis,
Ni phrofent ond canys haeachen.

47 Ni fuom yn bwytta gormoddion o fara,
Fel pobol *Gomorra* 'n camarfer eu byd,
Heb ddiolch am dano, na ſwper na chinnio,
Nes inni dy ddigio yn danllyd.

48 Ni fuom yn yfed, nes myned cyn dynned,
Na allem ni gerdded, na myned o'r mann,
Nes arllwys ein ceudod, lle hyfſom y ddiod,
Yn waeth na 'r nifeiliod aflan.

49 Bu deiau 'n tafarnau, yn llawnach y ſuliau,
O addolwyr y boliau, yn addoli Diawl,
Nag oedd ein heglwyſydd, o ddynion o grefydd,
I'th 'ddoli di 'n ufydd, *Duw* nefawl.

50 Tair gwaith o leia, y llanwn ni 'r bola,
Bob dydd pan b'o byrra, gan bori ein bwyd,
Prin mewn chwe die, y cofiwn ni dithau,
Am lanw ein cruliau â bras-fwyd.

51 Ni flinwn yn ebrwydd, yn d' eglwys O Arglwydd,
Er maint yw ein haflwydd, a'n hoflyd dra :

Ni

Ni flinwn ni 'n aros, mewn tafarn dros wythnos,
Er oered o'r hir-nos aia.

52 Fe yfun cyn cinnio, o * fûr a thobacco, * *Cwrw*
Faint a ddigono ddeugeinyn ar bryd:
Fei chwda drachefen, gan dynned ei botten,
Heb feddwl am angen a gofyd.

43 Mae 'n meddwdod yn crio, am newyn i'n pigo,
Mae 'n gloddeſt yn ceiſio dwyn prinder i'n cell,
Mae 'n hafrad yſowaeth, yn gofyn drudaniaeth,
A hirbryd trwy hiraeth i'n cawell.

54 Yn gyfiawn gan hynny, O Arglwydd di ellu,
A newyn ein gryddfu am wrthod gras,
A thorri, a difa cynhalieth ein bara,
A pheri in' fwytta ein † carcas. † *Ein cnawd.*

55 Ond Arglwydd trugarog, er mwyn dy eneiniog,
Na ddanfon yn llidiog hir newyn i'n lladd;
Na nychod i'n gryddfu, na phlag i'n difethu,
Na rhyfel, na chleddu i'n gwrthladd.

56 Ond Madde yn raſſol ein trawſedd anguriol
Na wna ni yn ſiompol, i bobol y byd:
Ond arbed ni 'n dirion. a gwella 'n harſerion,
A newid ein ffinion fywyd.

57 Nac edrych Dad cyfion, ar droſſedd dy weiſion,
Na 'n beiau mawrion, i'n lladd gan eu maint,
Ond edrych yn hyfryd, ar angau d' anwylyd,
I ddofi dy dantlyd ddigofaint.

58 Er mwyn ei rinweddau a'i fywyd a'i angau,
A'i 'fydd-dod a'i wrthiau, a'i werthfawr waed,
Maddeu i ni baſſwys, tro ni i'r ffordd gymmwys,
A chadw ni yn d' eglwys yn waſtad.

59 Golch ein pechodau, yngwaed dy weliau,
Croeſ-hoelia ein beiau yn grygiau ar dy groes,
Rhwyga 'n* bligaſſiwn, a dyro i ni bardwn, * *Rhwym.*
Er mwyn dy ddryd §baſſiwn a'th hir loes. §*Dioddefaint.*

Na

60 Na alw ni i gyfri, am dan ein drygioni,
Na ddere i'n coſpi, am ein gwegi a'n gwaith:
Ond arbed dy weiſion, er mwyn dy Fab gwirion,
A'th wnaeth yn dra boddlon un-waith.

61 A danfon dy yſpryd, i wella'n drwg fywyd,
A'n helpu ddychwelyd, â chalon iach;
I'th gywir waſnaethu, a'th ofni a'th garu,
A'n rhwyſtro i bechu dim mwyach.

62 Duw attal dy wialen, dad-ddigia drachefen,
Tro d' wyneb yn llawen, na'd newyn i'n lladd,
Madde'n troſeddau gwir wella'n drwg nwydau,
Sancteiddia 'r calonnau ſy 'n d'wrthladd.

63 Duw gwella di'r tywydd, bendithia di'r maeſydd,
Tro'n triſtwch yn wenydd, na newyna ni:
Rho râd ar y fiſgawn, gwna'r farchnad yn gyflawn
Diwalla ni â'th radlawn ddaioni.

64 Rho ymborth i'r Criſtion, rho ogor i'r eidion,
Rho 'r 'fengyl i'r gwirion a garo 'r gair:
Rho heddwch i'r deyrnas, ac iechyd ac urddas
I'n pen llywydd *Charles* diwair.

65 Mil chwe-chant ac ugain, a naw mlynedd cywrain,
Medd holl ddoethion *Brydain* oedd oedran ein Brawd,
A'n Prynwr, a'n Ceidwad, pan gwympodd y gawad,
Y lanwodd y farchnad â chwd-flawd.

CAN CVIII. *Ynghylch cynhaiaf gwlyb.*

RHEOLWR y nefoedd, a'r ddaear a'r moroedd,
A'r tywydd, a'r gwyntoedd o'r glynnoedd, a'r gwlaw,
Clyw gwynfan toſturiol. ac achwyn dy bobol,
Gan dywydd, dryg-hinol a hir-wlaw.

2 Y mae 'r gwynt, a'r tonnau, mae'r gwlaw a'r dialau,
A'r ſêr yn eu graddau, a'r nefoedd yn grych, *Barn.* 5.
Yn ymladd i'n herbyn droſſeddwyr eſcymmyn, 20.
I'n plago â newyn yn fynych.

3 Mae'r haul oedd i'n porthi, â gwres a goleuni,
Yn awr gwedi ſorri, yn edrych yn ſûr,
Gan ballu rhoi twymder, a gwres wrth ei arfer,
Nes pydru 'r naill hanner o'n llafur.

4 Mae'r lleuad yn * mwrno fel gwraig a fae 'n wylo,
Bob nôs mae'n ymguddio mewn cwmmwl o'n gwydd,
I ollwng ei deigrau, gan amled o'n beiau,
Nes ſoddi 'r llafuriau ag aflwydd.

* *Galaru*,

5 Mae 'r tonnau cynddeiriog, a'r wybren gafodog,
A'r cym'lau glyborog yn gwlawio bob awr,
Afonydd o ddrwg-ſyd, gan gynddrwg o'n bywyd,
I'n plago ag adfyd yn ddirfawr.

6 Mae 'r ormes yn ſathru y llafur ſy'n tyfu,
Mae'r gwynt yn cawdelu a dalo o frig,
Nes iddo ddihidlo, a mallu, egino,
Gan wlaw yn ei guro yn gyrnig.

7 Mae'r llafur ſ'eb ſedi, yn barod i golli,
Heb dywydd i dorri, na'i daro ynghyd,
Mewn cyflwr anhygar: Duw moes i'n dy ffafar,
I'w gwnnu o'r ddaear ſopaſlyd.

8 Mae'r maint ſy'n ei helem, fel gwellt yn y dommen,
Yn ddigon anghymmen. ynghwman y dâs,
Yn twymo yn mygu, yn llwydo, yn mallu,
A chwedi llwyr bydru o gwmpas.

9 Mae'r maint ſy'n y 'ſgubor, gogyfer a gogor,
Yn twymo heb gyngor. yn mygu heb gêl;
Yn barod i 'nynnu: Mâb Duw dere i'n helpu,
A na'd di lwyr fethu ein trafel.

10 A'r maint ſydd ar feder ein cinnio a'n ſwpper,
Sydd gynddrwg ei biner, a'i dymmer mor doſt:
Ac oni chawn gennyd, Duw graſſol gyfrwyddyd,
Fe 'n plagir ni âg adfyd hir-doſt.

11 Agor dy lygad, O Arglwydd ein Ceidwad,
A chenfydd mor irad, it weled mor hyll,

Holl

Holl ymborth criſt'nogion, yn pydru mor ffinion,
O eiſie cael hinon i'w gynnyll.

2 Duw graſſol toſturia, difwnodd ein bara,
(Hir nychdod a faga dan fogeil dy blant;)
O ddiffig it 'i rwyſtro, a'i ddyfal fendithio,
A rhoddi rhad arno a llwyddiant.

13 Duw, beth y feddyliwn, am had-ŷd y gwanwn,
O ba le y ceiſiwn, o' cawn i fyw cyd:
Mae pawb yn achwyngar, ddifwyno eu holl heiniar,
Duw, dangos dy ffafar am had-ŷd.

14 Duw graſſol toſturia, wrth ddefaid dy borfa,
Na thorr ffon ein bara, i beri i ni boen;
Maddau 'n troſoeddau, gwella 'n drwg nwydau,
Cyſſura 'n calonnau di-hoen.

15 Gorchymmyn i'r haul-wen, ymddangos drachefen,
Gwna 'r lleuad a'r ſeren yn ſiriol i'th ſaint,
Rho hinon a chyſſur, i'r peonfawr lafurwyr,
A dofa dy bryſſur ddigofaint.

16 Rhwylla 'r wybrennau, gwaſgara 'r cymylau,
Cerdda 'r cawadau, cu ydwyd a rhwydd:
Goſtega 'r doſt ormes, rho degwch a chras-des,
I'r llafur anghynnes, Arglwydd.

17 Ond ymma *Duw* 'r gallu, 'rwi 'n brudd yn cyffeſu,
Mae'n pechod yn tynnu 'r fath ddial ar ein traws,
A'th ſtormydd anraſſol, a'r tywydd dryghinol,
I'n coſpi dy bobol rhy-draws.

18 Di lenwaiſt ein boliau, mor gyflawn a'th ddoniau,
Na chodem o'n heiſte i oſtwng ein glin,
I roddi it foliant, na chlod am ein porthiant,
Nes tynnu aflwyddiant i'n dilyn.

19 Yr eidon a'r aſſen a edwyn eu perchen,
A'r ci fydd llawen, wrth ei borthi â llaeth:
Ond pobol ddi-wybod ni fynnant gydnabod,
Nac adde mo'r Drindod eu Tad-maeth.

20 Tair gwaith o leia, gwaſ'naethwn ni 'r bola,
Bob dydd pan bo byrra, gan bori ein bwyd:
Ond prin mewn ſaith dyddiau, y cofiwn ni dithau,
Sy'n llanw ein boliau â bras-fwyd.

21 Yr wyt yn ein porthi ag amryw ddaioni,
Fel un a fae'n peſci paſcwch yn rhin;
Ni chodwn ein pennau i wel'd mwy nag yntau,
O ble mae'r fath ddoniau yn diſgyn.

22 Gan hynny di yrreſt y ſtorom a thempeſt,
I goſpi ein gloddeſt â dryg-hin a gwlaw;
I beri i ni nabod a gweled mai'r Drindod
Sy'n porthi ni 'n waſtod â'i ddwylaw.

23 Er maint o'r dialau a roeiſt am ein pennau,
I goſpi ein beiau, gan gynddrwg y'm byw;
Ni buom er y † conqueſt, yn byw mor anoneſt,
A chymmaint ein gloddeſt ag heddyw.

24 A'r ſtorom yn chwythu, a'r gwlaw yn ein gryddfu,
A'r llafur yn pydru, heb adrodd ond gwir,
Yn nheiau 'r tafarnau, yn chwdu ar ſyliau,
A'th gablu rym ninnau rhai anwir.

25 Pan ddylem weddio, a phryſſur repento
Mewn llwch ac ymgrino am bardwn a gras,
A'th gywir waſ naethu, 'roe'm ninnau 'n dy gablu,
A'th rwygo a'th regu yn ddiras.

26 Pa fwyna y ceiſiyd ein troi a'n dychwelyd,
I wella ein bywyd, a 'madael a'n bai:
Waeth waeth y pechem, fwy fwy i'th ddigiem,
Saith bellach y ciliem ninnai.

27 Pa fwya ddialau a roed am ein pennau,
Bid newyn, bid cleddeu, bid clefyd, bid gwlaw;
Fwy fwy fel *Pharao* yr ym yn dy gyffro,
I'n poeni a'n plagio â hir-wlaw.

---

† *Er yr amſer y congcwerwyd* Lloeger *gan* WILLIAM *y Congcwerwr, neu orchfygwr.*

28 Nid rhyfedd gan hynny, dy fod yn ein maeddu,
Gan ddwblu a threblu ein maethgen â thrwſt;
‡ Ond mwy o ryfeddod, na ro'it ti 'ni ddyrnod,
A'n taflu i'r pwll iſſod yn ddi-drwſt. ‡ *Heb rybydd.*

29 Duw madde'n ſtyfnigrwydd. Duw doſa'th lidiawgrwydd
Tynn ymmaith ein gwradwydd, a'n haflwydd hir:
Rho râs i ni fedru fel *Ninif* ddifaru,
A'th ddyfal waſ'naethu yn gywir.

30 Duw gwella di'r Tywydd, bendithia di'r maeſydd,
Tro'n triſtwch yn wenydd, na newyna ni:
Rho râd ar y fiſgawn: gwna'r farchnad yn gyflawn,
Diwella ni â'th radlawn ddaioni.

31 Duw attal dy wialen, dad-ddigia drachefen,
Tro d'wyneb yn llawen, na'd newyn i'n lladd;
Madde'n troſeddau, gwir wella 'n drwg nwydau,
Sanctteiddia 'r calonnau ſy'n d'wrthladd.

CAN. CIX, *Byrr yw oes Dyn.*

FEL Gwennol *Job* mae 'n hoes yn llithro, *Job*. 7. 6.
Fel Rhoſſyn *Dafydd* mae hi 'n gwywo. 1 *Cor*. 9. 24.
Fel gyrſa *Paul* y mae'n diweddu, *Jac*. 4. 14.
Fel bwmbwl *Jago* mae'n diſſoddi.

2 Fel canwyll gwyr mae'n hoes yn treulio,
Fel llong dan hwyl mae'n myned heibio,
Fel poſt dan ſawd mae'n pedwar-carnu,
Fel cyſcod cwmmwl mae 'n diflannu.

3 Gwann yw'n tai, a chryf, yw'n gelyn, *Job* 4. 19.
Byrr yw'n terem, ſuwr yw 'n terfyn,
Anſertennol yw ddyfodiad,
Byddwn barod yn ei wylied,

CAN. CX. *Rhybydd i* Gymry *i edifarhau ynghylch yr amſer yr oedd y chwarren fawr yn* Llundain.

CYMRY, *Cymry*, † mwrna mwrna,
† *Galeri.* Gad dy bechod, gwella, gwella,
Rhag i'th bechod dynnu dïal,
A digofaint Duw i'th Ardal.

2 Mae dy bechod gwedi dringad
Cuwch a'r Nef, yn crio 'n irad,
Am ddialau ar dy goppa,
Megis *Sodom* a *Gomorra*.

3 Mae e' 'n gweiddi nos a borau,
Fel gwaed *Abel* am ddïalau,
Nid oes dim y ſtoppa ei ſafan,
Ond plag Duw, neu wella 'n fuan.

4 Mae e' gwedi nyrddo 'r ddaear,
Fel pechodau 'r cywri cynnar:
Ac yn gofyn dy ddyſgybo
† *'difarhau:* Oddi arni, neu † repento.

5 Nid oes cornel mwy na *Ninif*,
Na bo 'n llawn o feie anneiryf;
Na chrâch bentre, na bo pechod,
Yn ſwrddanu cluſtiau 'r Drindod.

6 Nid oes un rhyw râdd na galwad,
Na bo gwedi ymlygru 'n irad;
Ac yn tynnu fel wrth reffyn,
Blag a dial ar dy gobyn.

7 Mae 'r pennaethiaid bob yr un,
Yn ceiſio'i mawl a'u lles eu hun;
Ac heb ymgais am wir grefydd,
Moliant Duw, na lles y gwledydd.

8 Mae dy 'ffeiriaid hwyntau 'n cyſgu,
Ac yn gado 'r bobol bechu;

Ac

Ac i fyw y modd y mynnon,
Heb na cherydd na chynghorion.

9 Mae dy Farnwyr, a'th wŷr mawrion,
Yn cyd-ddwyn a mwrddwyr, meddwon;
Ac yn godde treiſwyr diriaid,
Speilio 'r gweddwon a'r ymddifaid.

10 Mae 'r ſwyddogion hwyntau 'n godde,
Cablu Duw, a meddwi 'r ſulie,
Troedio 'r 'fengyl, caſau 'r cymmyn,
Heb na choſp na cherydd arnyn.

11 Mae 'r Shirifaid, a'u debidion,
Yn anrheithio 'r bobl wirion:
Ac wrth rym eu braint a'u ſwydde,
Yn eu ſpeilio liw dydd gole,

12 Mae 'r cyſoethog hwyntau 'n llyngcu
Faint ſy'n helw'r tlawd yng *Nghymry*,
Ac wrth renti 'n doſt, ac occra,
Yn eu gyrru hwy gardotta.

13 Mae 'r cyſtredin o bob rhyw,
Yn gwneud 'n ffalſt, yn digio Duw;
Yn ddall, yn ddwl, heb ſynnu eu dyſgu,
Yn mynd i'r pwll, heb odde eu nadu.

14 Mae pob gradd yn pechu 'n rhigyl,
Ac heb wneuthur pris o'r 'fengyl,
Nac o gyfraith Dduw gorucha,
Yn addoli 'r byd a'r bola.

15 Mae pob grâdd â rhaffau pechod,
Yn dirdynnu dial hynod
Am eu pennau heb doſturi
Oni thront oddiwrth eu brynti.

16 Mae'r fâth feddwdod, mae'r fath dyngu,
Mae'r fâth gamwedd ynnot *Cymry*,
Ar fâth wan-gred, a gau-dduwiaeth,
Na bu 'nghred o'i || ſut yſywaeth.

|| O'i *fath.*

Mae 'r

17 Mae 'r Duw cyſion yntau 'n canfod,
Drwg ymddygiad pawb a'u pechod,
Ac yn rhwym wrth ſwydd a nattur,
Ddial ar y fath droſſeddwyr.

18 Er ys dyddiau mae 'n ymmhwedd
A'th holl blant am wella eu buchedd:
Eiſie gwella mae'n bwriadu
Weithian ddial camwedd *Cymru*.

19 Duw a'th ddododd yn y taflau,
Duw a'th gafodd lai na phwyſau:
Duw a fyn rhoi maethgen itti,
Oni throi oddiwrth dy frynti.

20 Eſie i *Gymru* gym'ryd rhybydd,
Oddi wrth *Loeger* a'i holl gyſtuddd,
Mae gwialen gwedi glychu,
Yn y Sicc ar feder *Cymru*.

21 Y mae plâg yn ol dy bechod,
Gwedi lunio gan y Drindod:
Ac yn barod ddyfod attat,
O waith Cynddrwg yw 'th ymddygiad.

22 Y mae 'n crogi uwch dy gobyn,
Ddydd a nos fel wrth edefyn,
Ac yn barod iawn i ſyrthio,
Oni throi di a * repentio.

23 Yr wyt tithau yn pentyrru
Plâg, ar blâg, heb edifaru,
Ac yn cam arferu 'n rhyfedd
Ffafar Duw, a'i hir amynedd.

* *Edifarhau.*

24 'R wyt ti beunydd yn mynd waeth waeth
Ac yn pechu ſwy ſwy 'ſowaeth;
'R wyt ti 'n tybied fod Duw 'n eyſgu,
Tra 'n dy gathrain i ddifaru!

25 'R wyt ti 'n hwrnu yn dy bechod,
Heb yſtyriaid na chydnabod,

Fod

Fod Duw 'n hogi 'n llym ei gleddâu,
Tr'ech di 'n hepian ar dy ſeiau.

26 Hir yr herys *Duw* heb daro,
Llwyr y dial pan y delo:
Am yr echwyn a'r hir ſcori,
Och! ſe dal ar un-waith itti.

27 Lle bo *Duw* yn hir yn oedi,
Heb roi dial am ddrygioni:
Trymma ei gyd y fydd ei ddyrnod,
Pan y del i ddial pechod.

28 Gochel ditheu ddial *Duw*,
Fe ddaw ar frys er llaeſed yw,
A'i droed o wlan, a'i ddwrn o blwm,
I'th daro 'n * ymwngc ac yn drwm.

* *Diſymwth.*

29 Gad dy bechod, dal dy law,
Dial *Duw* fel bollt a ddaw:
Rhoi it' rybydd prudd ſydd raid,
Oni chymri rybydd paid.

30 Edifara 'n brudd gan hynny,
Cyn del plag i'th ardal, *Cymru*,
Cyn y tynno *Duw* ei gleddau,
Cais ei ffafar ar dy liniau.

31 O's digofaint *Duw* a' nynna,
Pwy o'r holl fyd a'i diffodda?
O's y chwaren wyllt a ddenfyn,
Pwy a'i tynn i maes o'th derfyn?

32 O's yr Arglwydd dig a ddechreu
Ladd dy blant, â'i follt a'i gleddeu;
Pwy all gadw rhag ei ddyrnod
Un o'th blant heb law y Drindod?

33 Gwel pa laddfa wnaeth e'n *Llundain*,
Er maint oedd eu cri a'u llefain:
Eiſieu gwneuthur hyn mewn amſer,
Fe ddifethodd fwy na'u hanner.

34 Cwyn gan hynny gochel oedi;
Llwyr ymwrthod a'th holl frynti:
Llef am ras cyn del dy faethgen,
Foru ys gatfydd y daw 'r chwaren.

35 Mae dy blag mewn cydau lliain,
§ *Maſnachwyr.* Etto 'n ſioppau § marchants *Llundain*;
Fe ddaw 'r plag oddi-yno i *Gymru*,
O's ar fyrder ni ddifaru.

36 O's i *Gymru* daw y cornwyd,
Och! mor ammharodol ydwyd,
'Fyn'd i'r barr i wneuthur cyfri,
Heb na gwiſg na dim goleuni.

37 O's i *Gymru* y daw 'r clefyd,
Ofer ceiſio un cyfrwyddyd:
‖ *Attal.* Nid yw'r bŷd yn abal ‖ ſtoppi
Haint, pan helo *Duw* i'n coſpi.

* *Llyſtau.* 38 Ofer ceiſio * *Sads* a *Ryw*,
I wrthnebu clefyd *Duw*,
Oni throi oddiwrth dy bechod,
Ni thal metſwn un o'n chwilod.

39 Ofer cadw pyrth dy drefydd,
Fe ddaw 'r plag dros ben y gwelydd;
‖ *Gwn neu ddryll mawr.* Ni all peics na ‖ dwbwl cannon
Attal plag, o's *Duw* a'i danſon.

40 Ofer rhedeg llwnt, ac ymma,
I geiſio cêlio rhag dy ddiſa:
Amos 9. 1, Dos lle mynnech ſe fynn dyrnod,
Duw, a'i farn orddiwes pechod.

41 Goreu cyngor rhag y plag,
I ddŷn gadw ei hun yn wag,
Nid rhag bwyd, ac nid rhag diod,
Ond rhag pop rhyw fath o bechod.

42 O's daw plag i goſpi *Cymru*,
Fe ddaw newyn i'th gaſtellu,

Triſtwch

Triſtwch, cerydd câs, ac ofan,
Ni ddaeth plag ericed ei hunan.

43 Fe fydd drygſyd yn dy dreſydd,
Fe fydd ochain rhwng dy welydd;
Fe fydd cwynfan ym mhob heol,
Fe fydd braw ar bawb o'th bobol.

44 Cariad brawdol a ddiffodda,
Pob car'digrwydd a ddiflanna:
A natturiaeth a charennydd,
A lwyr gollant eu cydnebydd.

45 Ni ddaw 'r fam i drin y ferch,
Na'r wraig ei gŵr, er maint ei ſerch,
Na'r chwaer ei brawd, na'r tâd ei blentyn;
Cas, a thriſt, a thrwm yw 'r cowyn.

46 Y mab a ladd ei dad â'i anal,
A'r fam ei phlant, er maint ei gofal;
A'r wraig ei gŵr wrth roi uchenaid,
A'r brawd ei chwaer a'i holl gyfnesaid.

47 Y marw ladd y byw a'i claddo,
A'r gwann y gwych, a ddel i'w ddirmio,
A'r claf y iach a fo'n ei faethu,
Mor gas, mo'r flin yw 'r plag wrth hynny.

48 Dŷn a'r plag ſy'n lladd a'i ddillad,
Fel y † *Baſilic* â'i lygad:
Ac â'i anal ſy'n gwenwyno,
Fel y * *Coccatrus* y granſio.

† *Math o Sarph*

* *Yr unair* Baſiliſk.

49 Y plag a bair i bob cymmydog,
Gaſau 'r llall fel ci cynddeiriog;
A chyfathrach ffryns a chenedl,
Gaſau câr fel blaidd neu gythrel.

50 Hyn a bair garcharu 'r cleifion,
Yn eu tai fel traiſwyr ffeilfion
A'i dehorid i fyn'd allan,
I gael bwyd dros eur nac arian.

51 Yr aur a ladd y rhai derbyniant,
Y ‡ ftwff a ddifa 'r maint a'i medlant:
Pan ddel plag er maint o'r diffig,
Ni thal arian fwy na cherrig.

‡ *Dodrefn.*

52 Hyn a bair i'th bobl *Cymru*,
Pan ddel chwaren hir newynu;
Pan na chaffer bwyd dros arian,
Na dim cymorth er ei fegian.

53 Dy blag a ddaw yn ymwngc hefyd,
Fel y diluw ar y cynfyd:
Neu'r tân gwyllt a ddaeth ar *Sodom*,
Yn ddi-rybydd fel y ftorom.

54 Pan b'ech bryfur yn ymdwymo,
Neu'n y tafarn yn carowfo,
Neu 'n cynhennu yn y farchnad,
Y daw 'r plag ymwngc arnad.

|| *Puttain-dy.*

55 O's mewn tafarn, neu y || ftewdy,
O's mewn marchnad neu ddadleu-dŷ,
O's mewn maes i'th deru 'r cowyn,
Dyna 'r mann y bydd dy derfyn.

56 Yno cei di megis 'nifail,
Farw 'n ymwngc trwy fawr drafel:
Heb un dyn 'n weinif itti
Na'th areilio, na'th gomfforddi.

57 Ni ddaw meddyg, ni ddaw 'ffeiriad,
Ni ddaw ffryns yn agos attad;
Nac un carwr o'th holl genel,
Mwy nag at rhyw anfad † rebel.

† *Gwrthryfelwr.*

58 Ni chei neb a ddel i'th drinio,
Nac i'th yftyn, na'th amwifgo,
Nac i'th arwyl, nac i'th gladdu,
Ond â chladdiad buwch o'r beudŷ.

59 O! pa angau O! pa benyd?
O! pa blag a diwedd aethlyd?

O!

O! pa felldith a throm fforten,
Ydyw marw 'n llyn o'r chwaren!

60 Hyn i gyd a welodd *Lloeger*,
Yn rhef *Llundain* yn hwyr amſer,
Hyn a weli dithau *Cymru*,
O's a'th pechod ni 'madawu.

61 Oh! gan hynny *Cymry* yſtyr,
Mor anhygar, mor ddi-gyſſur,
Mor ddi gariad, mor aflawen,
Ydyw marw 'n llynn o'r chwaren.

62 Dyma 'r angau wyt ti 'n haeddu,
Am dy bechod *Cymry Cymru*;
Dyma 'r angau ſ' ar dy feder,
Oni throi at *Dduw* ar fyrder.

63 Mae Duw 'n diſgwil er ys dyddau,
Am it' droi a gado 'th feiau;
Eiſie troi, mae *Duw* yn barod,
A phlag i ddial dy holl bechod.

64 O gan hynny *Cymry* mwrna,
Gad dy bechod, edifara:
Dyſg gan *Ninif* geiſio heddwch,
Cyn del dial a diffaithwch.

65 Cyn y tynno *Duw* ei gleddau,
Cais ei heddwch ar dy liniau;
Rhy-ddiweddar it' ymbilian,
Gwedi tynno ei gleddyf allan.

66 Cwmp i lawr wrth draed dy Bryawr,
Fel *Magdalen* wyla 'r hallt-ddw'r;
Sych a'th wallt ei ddwy droed raſiol,
Fe ddiddana 'r edifeiriol.

67 Cyfod allor megis *Dafydd*, 1 Cor. XII.
Offrwm iddo yſpryd cyſtydd:
Deiſyf arno || ſtoppi 'r Angel, Sal. 51. 17.
Sydd ar feder lladd dy genel. || *Aral.*

Mwrn

68 Mwrn mewn ſach fel pobl *Nînif*,
Tro oddiwrth dy feiau anneirif;
Duw newidia 'th farn a'th ſerdid,
O's tydi newidi 'th fywyd.

69 Tramwy i'r demel nos a dydd,
Megis *Aaron*, mwrna 'n brudd,
Llef am ras ar GRIST dy Geidwad,
Cyn y delo 'r cowyn arnad.

70 Cur dy ddwy-fron yn gyſtyddiol,
Fel y *Pyblican* 'difeiriol:
Cais gan *Dduw* doſturio wrthyd,
Cyn i'th dorrer ffwrdd â'r clefyd.

Sal. 6. 6. 71 Bwytta beunydd fara dagrau
Megis *Dafydd*, am dy feiau:
A gwna 'th wely 'r nos yn foddfa,
Cyn i'r chwaren wyllt dy ddifa.

72 Saf fel *Moeſen* yn 'r adwy,
Lle mae'r plag ar feder tramwy:
Cais gan d' Arglwydd droi 'ddigllonedd;
Felly dengys it' drugaredd.

* *Gwayw-ffon.* Num. 25. 7, 8. 73 Megis *Phinees* cymmer * ſiaflyn,
Lladd y rhai ſy 'n peri 'r cowyn,
Coſpa a'r gyfraith afreolaeth,
Duw a'th geidw rhag marwolaeth.

74 gado *Sodom* tynn i *Zoar*;
Gochel ddiſtryw, bydd edifar:
Gwrando 'r Angel ſy 'n rhoi rhybydd,
Cyn y del y plag i'th drefydd.

75 Gado 'r moch a'r bobl feddwon,
Fel y gadei 'r mâb afradlon;
Tynn i dŷ dy dâd rhag newyn,
Cyn dy dorri lawr â'r cowyn.

Mat. 26. 73. 76 Tynn fel *Peder* i ryw gornel,
Wyla 'n chwerw dros dy genel:

Y mae 'r ceiliog yn dy gofio.
Cais drugaredd cyn dy ‡ blago. ‡ *Cofpi.*

77 Gwna dy gownt a'th gyfri 'n barod,
Cyn dy fyn'd o flaen y Drindod;
Nyn dy lamp, a gwifg dy drwfiad,
Cyn y delo 'r chwarren attad.

78 Chwyrn yw'r chwarren pan y delo,
Ni ry amfer it' ymgweirio:
Bydd barodol yn ei gwiliad † *Arbed.*
Bob yr awr cyn deloi attad.

79 O's ymgweiria *Cymry* i farw,
Ac i fyn'd at *Dduw* yn hoyw,
Cynta i gyd i *Dduw* dy † fpario
A rhoi hoedel hir it' etto.

80 *Duw* fo grafol wrthyd *Cymry*,
Duw ro' gras it' edifaru,
Duw 'th achubo rhag y chwaren,
Duw ro' itti flwyddyn lawen.

CAN. CXI. *Arall ynghylch y chwaren.*

CYMRY, *Cymry*, * mwrna mwrna,
Cwyn fel *Ninif* edifara;
Gwifg dy fach, cyhoedda ympryd;
Llef am ras, a gwella 'th fywyd.

2 Y mae *Lloeger* dy chwaer hyna'
Yn dwyn blnder toft a gwafgfa,
Dan drom wialen y Duw cyfion,
Sy 'n ei maeddu yn dra chreulon.

3 Y mae 'r palg yn difa ei phobloedd,
Fel tân gwyllt y ddoi o'r Nefoedd,
Ac fel goddaith ar fych fynydd,
Yn gorefgyn ei holl drefydd.

4 Maent hwy 'n meirw yn ddi-aros,
Wrth y miloedd yn yr wythnos,

Ac

Ac yn cwympo ar eu gilydd,
Yn gelenaidd mewn heolydd.

5 Nid oes eli, nid oes metſwn,
Nid oes dw'r na deigrau miliwn,
'All ei ddiffodd och! na'i laeſu,
Ond trugaredd *Duw* a'i allu.

6 Y mae *Llundain* fawr yn mwrno,
Fel *Caerſalem* gwedi 'i hanreithio,
Nid oes dim ond ochain ynddi,
Cwynfan toſt, a llef anigri.

7 Mae'r fath alar, mae'r fath driſtwch,
Mae'r fath gwynfan a thraſterthwch,
Mae'r fath weywyr a'r fath ochain,
Na bu 'r fath erioed yn *Llundain*.

8 Mae pob gradd yn gwel'd yr angau,
Ger eu bron yn cwnnu cleddau,
Ac yn diſgwyl heno heddu,
Am y cart i'w dwyn i'w claddu.

9 Y mae 'r gwŷr yn gwel'd y gwragedd,
A'u plant anwyl yn gelanedd;
Yn y tai yn dechreu ſowſo,
Heb gael un dyn i'w hamwiſgo.

10 Y mae 'r gwragedd hwynthau 'n ochain,
Wel'd eu gwŷr a'u plant yn gelain;
Ac heb feiddio myned allan,
Yn gwall-bwyllo 'n flin gan ofan,

11 Mae 'r ymddifaid bach yn gweiddi,
Yn y tai heb neb i'w porthi:
‖ *Bronau*. Ac yn ſygno ‖ breſt eu mammau,
Gwedi marw er ys tridiau.

12 Nid oes cymmorth, nid oes cyſſur,
O'r Nef, o'r ddae'r, o'r môr na'r awyr,
O'r dre, na'r wlad, o'r maes na'r winllan
O'r llann na'r llys, o'r gaer na'r gorlan.

Y

13 Y mae 'r iach yn gwel'd y trwclau,
A fae gynt yn dwyn tomhennau,
Heb ddwyn dim o'r goleu i'w gilydd,
Ond y meirw i'r monwentydd.

14 Mae rhai byw yn hanner marw,
Cyn del arnynt ŵn na gwaew,
Wrth wel'd cymmaint yw 'r dialau
Sy 'n digwyddo am eu pennau.

15 Ni chair rhydd-did fyned allan,
Ni cheir bwyd i mewn dros arian;
Ni cheir trammwy at un Criftion,
Ni cheir 'madel a 'rhai meirwon.

16 Yn y tai mae 'r Plâg a'r Cowyn,
Yn yr heol mae 'r cri a'r newyn;
Yn y maes mae 'r Cigfrain duon
hwythau, 'n pigo llygaid cleifion.

17 Y mae 'fowaeth, DDUW a dynion,
Wedi gado 'r rhai'n yn dlodion;
Heb roi help na fwccwr iddyn,
Yn eu nychdod toft, a'u newyn.

18 Mae DDW yn chwerthin am eu pennau
Ac a'i fŷs yn caeu ei glyftiau;
Ac heb wrano gweddi can-mil,
Eifiau gwrando llais ei 'fengyl.

19 Y mae dynion anrhygarog,
Yn eu ffoi fel cŵn cynddeiriog;
Gwell yw ganthynt weled gwiber,
Yn y wlad na gweled § *Lyndner*:

20 Waith bod dŷn a'r Plag yn nyrddo,
Pob rhyw un a ddel i'w ddrinio;
Ac yn lladd a gwynt ei ddillad
Fel y *Baſilic* a'i lygad.

21 Ni baidd tad fynd at ei blentyn,
Na Gwraig drin ei gŵr â'r Cowyn;

Dihar. 26. 28.

§ *Gwr o Lundain,*

Na ffrynd i weled ffrynd a'r clefyd,
Heb fawr berig am ei fywyd.

22 Y mae 'r fam yn lladd a'i chyſan
Ei hanwylyd blentyn bychan:
Ac heb wybod yn andwyo
Hwn a'r Plâg, tra fytho 'n ſygno,

23 Y mae 'r Tad yn lladd a'i anal
Ei blant annwyl yn ddi-attal;
Ac fel *Coccatris* gwenwynllyd,
Yn ddi ſôn yn dwyn eu bywyd.

24 Y mae 'r plentyn a glafychwys
† *Gwenwyno.* Ynte 'n lladd ei fam a'i magwys;
Ac o'i anfodd yn † inffecto
Yr holl dylwyth lle b'o 'n trigo.

25 Maent hwy 'n meirw yn ddi-ſymmwyth,
Gwŷr, a Gwragedd, Plant a thylwyth;
Wrth y pum-cant yn y noſwaith,
Nes mynd *Llundain* megis anraith.

26 Mae 'r fath wylo, mae 'r fath ochain,
Ym mhob cornel o dref *Llundain*;
Ni bu 'r iöed o'i fath yn *Rama*,
Gynt gan *Rachel* a'i chyfnaſa.

27 Mae 'r offeiriaid a'r Pregethwyr
Yn galaru ma's o feſur;
Weld Eglwyſydd lle 'r oedd miloedd,
Fel llueſtai heb ddim Pobloedd.

28 Mae 'r Marſiandwyr mawr a'u ſioppau,
Llawn o frethyn, aur, a laeſau,
Heb gael gwerthu dim o'r llathaid,
I roi bara i'r Prentyſiaid,

29 Y mae 'r crefftwyr hwyntau 'n ochain,
Gwedi gweithio pethau cywrain;
Heb gael un dŷn i'w eu prynu
Ac yn barod i newynu.

Mae

30 Mae lletty-wyr y gwyr mawrion,
A'r Arglwyddi, a'r Marchogion;
A'u Hoſtriau mawr yn wag,
Heb neb ynddynt ond y Plag!

31 Y mae 'r water-men a'r porters,
A'r § carniſwyr oll, a'r haliers,
Heb gael lle i enill dimau,
I roi bara yn eu pennau.

§ *Rhai yn dwyn beichiau ac eraill yn hela Certwyn.*

32 Mae 'r farchnatfa lle 'r oedd llafur,
Cig, a ffyſgod, tu hwnt i feſſur;
A phob moethau o'r dainteithia,
Heb na chig, na blawd, na bara.

33 Y mae llawer oedd yn ceiſio
§ *Quailes*, a ‡ *Pheſants*, i'w eu cinio,
'N awr yn chwennych torri newyn
Ar *Bwr Jon* a hên ymenyn.

§ *Soſt-iair.*
‡ *Ceiliogau 'r coed.*

34 Lle 'r oedd benydd fil o fadau,
Yn dwyn ymborth, heb law llongau,
Nid oes heddyw bwn yn dwad
O flawd cawl, dros aur i'r farchnad.

35 Lle 'r oedd llewndid o bob ffrwythi,
Ag oedd dae'r a dŵ'r yn roddi;
Nid oes heddyw ond y newyn,
A'r drydaniaeth, waith y cowyn.

36 Hyn a barodd ein hên draha,
A'n godineb, a'n putteindra.
A'n gau-dduwiaeth, a'n cas fedd-dod
A dirmygu 'r gair yn waſtod.

37 Dyma wobr, dyma ffrwythau,
Dyma gyflog ein pechodau;
Dyma 'r faethgen doſt haeddaſom
Am y bryntni gynt a wnaethom.

Deut. 28. 15 21. 27.

28 Dyma fel y gall Duw cyfion,
Dynnu lawr y trefydd mawrion;

Mewn burr ennyd am anwiredd,
A'u daroſtwng am eu balchedd.

79 Dyma fel y gall Duw blygu
Pobl drawſion, a f'o 'n pechu;
Ac heb wneuthur pris o'i ddeddfau,
A'u committo dan law 'r Angau.

80 Hyn haeddaſom er 's dyddie,
Pſal. 145, 17 Hyn a ddylem bawb ei adde
Cyfiawn yw Duw a, diargyhoedd,
Yn ei ffyrdd, a'i holl weithredoedd.

81 Ni haeaſom bob diffeithder,
Gynt rhwng cwyſau anghyfiawnder,
'R y'm ni 'n medi ac yn caſglu
Y crop, a ddygodd pechod inni.

82 Dyma 'r dial gynt addawodd
Duw, ei anfon ar y bobloedd,
Na's gwaſnaethent a'u holl galon,
Ac na chadwent ei orchmynion.

Fe ſu Ghwaren ar ol hyn yn Nghaerfyrddin: Penbro a Hwlffordd.

83 Dyma 'r faethgen a gaiff *Cymry*,
Eiſiau gwella a 'difaru,
A chymmeryd rhbydd tyner,
Oddiwrth blag a dial *Lloeger*.

a llawer o leoedd eraill, a rhyfeloedd bli n ſtrwy y deyrnas.

84 Pan y helodd Duw 'r fath wialen
Ar y bobl dda o *Lundain*,
Mae arnaf ofn y daw y cleddu,
Ar y bobl ddrwg o *Gymru*.

85 Pan na chymrei pobl *Juda*,
Rybydd prudd oddiwrth *Samaria*;
Duw roes *Juda* i gaethiwed,
Fal *Samaria* dan law 'r *Siriaid*.

86 Oni chymmer *Cymru* † worning
† *Rhybydd.* Oddiwrth *Loeger* yn ddi-daring;
Ma'arnai ofn y daw dial,
Ar y *Cymry*, a phla anial.

Pan

87 Pan y gwlawiodd Duw gorucha,
Dân ar *Sodom*, a *Gomora*,
Ni ddiffoddodd o'i lid tânllyd,
Nes difethu *Zeboim* hefyd. Gen. 19. 24.

88 Pan yr helodd *Duw* y chwarren,
I dir *Lloeger* ac i *Lundain*,
Mae arna i ofn toſt na laeſa,
'R plag, nes del i 'mwel'd a § *Chamberia*, § Cymry.

89 O's pan helodd *Duw* y cleddeu,
I *Germania* a'i chyffiniau,
Eiſie i'r *Ffrancod* gymryd rhybydd,
F'aeth y cleddyf trwy holl drefydd.

90 Eiſie i *Loeger* gymryd ‡ warning, ‡ *Rhybydd.*
Oddi-wrth *Bohemia*, *Ffraingc*, a *Fflufhing*,
Y mae *Duw* yn coſpi *Lloeger*,
Yn ſaith-gwaeth nag un o'r nifer.

91 Oni chymmer *Cymru* rybydd,
Oddi-wrth *Loeger* driſt a'i chyſtydd;
Mae arna i ofn gwel'd ar fyrder
Blag yng *Nghymru* 'n waeth na *Lloeger*.

92 O gan hynny *Cymry* mwrna,
Gad dy bechod, edifara;
Dyſg gan *Ninif* geiſio heddwch,
Cyn del dial a diffeithwch.

93 Cur dy ddwy-fron, wyla 'r hallt-ddw'r, Joel 2. 12,
Golch dy wiſg yng waed dy Brynwr; 13, 14.
Llef am ras, a gad dy frynti,
Cyn dialer dy ddrygioni.

94 Cyn y tynno *Duw* ei gleddau,
Cwymp yn iſſel ar dy liniau;
A chais ras a ffafar gantho,
Cyn i'r angau dig dy daro.

95 Ofer crio gwedi 'th glwyfer,
Ofer ymbil gwedi 'th farner,

Ofer

Ofer ceifio torri 'r wialen,
Gwedi rhodder itti 'r faethgen.

96 Cwyn gan hynny, gochel oedi,
Bryſia 'n eſgyd, gad dy frynti:
Cwel y farn ſydd uwch dy gobyn,
Tro, cyn caffo arnat ddiſgyn.

C A N CXII. *Gweddi Eglwyſwr wrth ymweled a'r cleifion yn amſer y chwarren.*

DUW Dâd gwel mor beryglus,
Yw fwydd dy was trafaelus,
Sydd yn myned aia a haf,
At bob dyn claf gwrth'nebus.

2 Nid oes na gŵr na bachgen,
Bid glaf o'r frech neu'r chwarren,
Neu rhyw glefyd a fo gwaeth,
Nad wyſi gaeth i'w olren.

3 O's gwres, o's gwayw poethlyd,
O's chwys o's twymyn awchlyd,
E' orfydd myned uwch ei ben,
Bid claf o'r chwarren waedlyd.

4 A hyn ſydd dra echrydus,
I galon egwan glwyfus,
Sydd heb bwer gantho ei hun
I ochel twymyn awchus.

5 Gan hynny ar f unig helpwr,
A'm Ceidwad a'm diffynwr,
Sy'n rheoli rhai'n i gyd,
'Rwi 'n crio 'm mhryd am ſwccwr.

6 O Arglwydd mawr di elli
Fy nghadw 'n iach o's mynni
Rhag yr heintiau hyn i gyd,
Er maint o'u bryd i'm llyngeu.

7 Ac oni byddi helpwr,
I'm cadw mewn cyfyngdwr,
Nid oes le im' ddiangc mwy,
Ond † ildio i nhwy fel gwnn-wr.

† *Rhoddi lle.*

8 Gan hynny *Duw* 'r holl allu,
O's d' wyllus fy 'n cennadu,
Cadw fi dy waelaf was,
Rhag heintiau cas i'm cyrchu.

9 Tydi fy *Nuw* fy 'n clwyfo,
Tydi fydd yn elio:
Tydi fy'n lladd ac yn bywhau,
Tydi a gei 'n || correcto.

Hof. 6 1.
1 Sam. 2. 6.
|| *Ceryddu.*

10 Gan hynny tanna 'n raffol,
Dy adain yn doftyriol;
Na'd i glwyf neu glefyd cas,
Ymlynu a'th was daearol.

11 *Duw* 'r hwn a gedwaift *Aaron*
Yn iach, ynghanol cleifion,
Cadw finneu 'n rafol rhag
Yr haint a'r plag echryflon.

Num. 16. 48

12 Di gedwaift *Abednego*
Ynghanol fflam, heb dwymo;
Cadw finneu nghanol plag
Er *Jefu*, na'd f: andwyo.

Dan. III.

13 Di gedwaift *Ddaniel* hefyd,
O fafn y llew newynllyd,
Cadw finneu Arglwydd Dduw,
Rhag haint, i fyw mewn iechyd.

Dan. VI.

14 Ac felly mi 'th folianna,
Mewn llann, a llŷs a thyrfa;
Ac a roddaf tra ynnwi chwyth
It' ddiolch byth o'r mwya.

15 Fel *Aaron* yn y gangell,
Fel *Daniel* yn y ffafell:

Dan. 6 10.
Sal. 146. 1.

Ac

Ac fel *Dafydd* tra fwi hyw
Bendithiaf *Dduw* fy nghaſtell.

CAN CXIII. *Cyngor i'r claf.*

PAN i'th drawer gynta â chlefyd,
Yſtyr o ble daeth mor danllyd,
A phwy helodd glefyd attad,
A pha ham ei dodwyd arnad.

Deut. 28 22. 2 *Duw* ei hun ſy 'n danfon clefyd,
Oddi-wrth *Dduw* y daw mor aethlyd;
Am ein beiau mae 'n ei hela,
I gefſio genym droi a gwella.

Hoſ. 6. 1. 3 Edifara am dy feiau,
Deiſyf bardwn ar dy liniau,
Cais gan *Dduw* doſturio wrthyd,
Fe 'th gyſura yn dy glefyd.

4 O's nynnodd llid dy *Dduw* yn d' erbyn,
Nes rhoi arnat glefyd ſcymmyn,
Gwaed yr OEN a'th † reconſeila;
* Deigrau hallton a'i dad-ddigia.

* *Er mai gwaed* Criſt *yw 'r iawn am bechod,* 1 Pet. 1. 19. *etto mae 'n rhaid i'r ſawl a ddiſgwyliant am leſad oddiwrtho, gredu, yntho, a bod yn edifeiriol; o herwyddfod* Duw *wedi gorchymmyn i ni ddyfod y modd hynny atto trwy ei Fâb,* 1 Ioan 1. 4. 6. Iago 4. 9.

5 Goſtwng iddo, mae 'n drugarog,
Cais ei ras, fe'i rhy yn ſerchog,
Edifara, ynte ſaddeu,
Wyla di, Toſturia ynteu.

6 Addef iddo dy gamweddau,
Barn dy hunan am dy feiau,
Cwymp o'i flaen a deiſyf bardwn,
Di gei ras ac abſoluwtiwn.

7 Tro di atto, ef a'th dderbyn,
Er ei ddigio, rhy dy ganlyn,

A

Ond er y dyem ni alaru, etto na thybygwn, fod ein deigrau yn iawn am ein pechodau: Pe buaſſai hynny yn gallel hod, ni buaſſai raid i GRIST *ddioddef troſom.*

A phan gweylo hallton ddeigrau,
Fe bair laesu dy flinderau.

8 Duw ei hun sy 'n danfon clefyd,
Cennad Duw yw nychdod aethlyd,
Oddiwrth Dduw y daw clefydion,
Ni all neb ond Duw eu danfon.

9 Nid o'r moroedd, nid o'r mynydd,
Nid o'r ddae'r, na'r § aer, na'r corsydd
Y daw clefyd ar blant dynion,
Ond oddiwrth yr Arglwydd cyfion.

§ *Awyr, awel.*

10 Gwres, a gwayw, crach, cornwydon,
Crûd, a haint, a syndra calon,
Nychdod, Nodau, Mall, diflaniad,
Sy oddiwrth *Dduw* ei hun yn dwad.

Dut. 28. 22.

11 Ni all emprwyr mawr yr holl fyd,
Ddanfon haint na thynnu clefyd:
Nid oes neb a'i tynn na'i ddanfon,
Ond *Duw* mawr y barnwr cyfion.

12 Nid aiff clefyd ffwrdd wrth † bwyntment,
Leo, nac *Antwn*, *Cât*, na *Chlement*,
Wrth, un dewin, swyn, na phlaned,
Nes cennado *Duw* ei fyned.

† *Arch.*

13 O's o swrffet, o's o anwyd,
Neu dŷ afiach cefaist glefyd,
Duw ei hun fydd yn dy daro,
Pa fodd bynna daethoft iddo.

14 Nid wrth ddamwen nid wrth fforten,
Nid wrth dreiglad lloer na seren
Y daw clefyd, mawr na bychan;
Ond wrth bwyntment *Duw* ei hunan.

15 Na chais edrych fal dyn ynfyd,
Trwy ba fodd y daeth y clefyd:
Gwell it' edrych tua 'r Nefoedd,
Ar dy *Dduw*, a'r llaw a'th drawodd.

16 *Duw* a'th drawodd, *Duw* a'th wella,
Duw a'th glwyfodd *Duw* 'th elia;
Duw fy'n coſpi dy gnawd diriaid,
Duw iacha dy gorph a'th enaid.

17 Derbyn gennad *Duw* 'n reſawgar,
Heb. 12. 6. Ymddwyn dano 'n ddioddefgar;
10. Neb a garo *Duw*, fe'i coſpa,
Pob mâb annwyl fe'i gwïalenna.

18 Bydd ddioddefgar dan dy drwbwl,
Ffol a wingad ar ben ſwmbwl,
Iago 5. 10. *Duw* a'th drawodd mor ddolyrus,
Ofer it' wrth'nebu ei 'wllys.

Yr ail Ran yn dangos yr achos o glefyd.

Deut. 32. 1. AM ein pechod a'n drwg fywyd,
Y mae *Duw* yn danfon clefyd:
Ac yn gryddfu meibion dynion,
Am droſeddu ei orchmynion.

20 Darn o gyflog pechod aethlyd,
Ydyw nychdod ac afiechyd;
Pechod ddygodd wrth ei gynffon,
Bob rhyw glefyd ar blant dynion.

21 Tori 'r ſabboth, tyngu 'n rhigil,
Caſau 'r eglwys a'r efengyl,
Diſang 'ffeiriaid a ſwyddogion,
A bair lawer o glefydion.

22 Meddwdod, maſwedd, a phuteindra,
Rhegu, loetran, a lledrata,
Gwledda, gloddeſt, treiſio tlodion,
Sy 'n dwyn clefyd a thrallodion.

23 O's ceſt glefyd, o daeth cnoſa,
Pechod helodd hwn i'th ddala,
Ac a barodd i *Ddaw* ddigio,
Gal. 3. 40. A rhoi 'r clefyd hwn i'th daro.

24 Chwilia 'n fanol dy gydwybod,
A chais gwrdd a'th ffiaidd bechod:

Llwyr groeſ-holia dy anwiredd,
Ac ymbilia am drugaredd.

25 O's 'difaru am dy feieu, Act. 3. 19.
A llwyr droi at *Dduw* yn foreu,
Fe faddeua *Duw* dy bechod,
Ac a'th dynn i maes o'th nychdod.

26 Cais gan *Dduw* leihau dy ddolur,
Dofi 'th boen, a gwella 'th gyſſur:
Cais yn daer elmwythder gantho,
F'all ei roi yr awr y mynno.

27 Pa ryw bynnag yw dy ddolur,
Fe all *Duw* oſtegu ei waywyr,
A'th iachau y modd y mynno,
Bid e'r dolur mwya fytho.

28 Fe iachaws y claf o'r parlys, Mar. 4. 24.
Gwraig o'r laſc, a'r cripil nafys,
Job o'i grach a *Naman* glawrllyd,
A'r rhai cleiſion o bob clefyd.

29 Nid yw clefyd ddim ond cennad,
Wrth arch *Duw* ſy 'n dwad attad,
Fe ladd, ſe baid pan harcho ei berchen,
Fe ddaw, ſe a, fel gwas y capten.

30 O gan hynny galw 'n daerllyd,
Ar dy *Dduw* ſy 'n danfon clefyd,
Cais ei nawdd er mwyn dy Brynwr,
Di gei gantho help a ſwccwr.

CAN CXIII. *Gweddi 'r claf.*

ARGLWYDD cyfion, tâd ſy ſechyd,
Barnwr pawb, a'u helpwr hyfryd,
Gwrando weddi dyn clafecca,
Er mwyn CRIST, ac edrych arna.

2 Yn glaf mewn corph, yn drift mewn enaid
Yn drwm mewn meddwl ac ychenaid,

Rwi 'n ymlyſgo, O! 'ngrheawdwr,
Attad ti i geiſio Swccwr.

3 Graſſol wyt a llawn trugaredd,
Hwyr dy lid, a mawr d' ammynedd,
Hawdd i'th gael mewn toſt gyfyngdwr;
Er mwyn *Criſt* toſturia 'nghyflwr.

4 Di roeiſt iechyd im' ys dyddie,
N'awr di dygaiſt am fy meie,
Ac a helaiſt boen a nychdod,
I'm cyſtuddio am fy mhechod.

5 Duw, mi haeddais rwi 'n cyfadde
Un oedd drymmach er ys dyddie,
Yn dra chyfion Duw goruchaf,
Y rho'iſt hyn o Nychdod arnaf.

6 Di allaſid ddanfon clefyd,
Diſymmwth, câs, i ddwyn fy mywyd;
A'm troi i uſſern i boenydio,
‡ *Edifaru.* Heb roi amſer im ‡ repento.

7 Etto 'n fwyn fel Tâd trugarog,
Di roiſt arnaf glefyd ſerchog,
Sal. 119.71. I'm rhybyddio am fy niwedd,
Am cyfrwyddo i wella muchedd.

8 Rwi 'n ei gymryd megis arwydd,
|| *Yr arwyddion pennaf fabwſiad yw ffydd yn Griſt galar am bechod, gwir gariad at y ſawl ſydd yn ofni Duw. yngbyd a chadw ei orchymmynion ef: oni ſydd dyn mewn rhyw feſur a'r pethau hyn ynddo; ni ddichon efe gaſglu oddiwrth ei glefyd ei fod ef yn bleutyn i Dduw.* Jo. 1. 12. Mat. 5. 4. 1 Ioan 3. 8. 9. 10. 14. Ac 1 Ioan 2, 3, 4.
O'm || mabwyſiad a'th gar'edigrwydd;
Yn fynghoſpi a'm † correcto, † *Cyruddu*
Rhag im pechod fy andwyo.

9 Da yw'th waith o Arglwydd cyfion,
Yn coſpi 'r corph a'r fâth drallodion,
Lle roedd f' enaid er ys dyddie,
Yn dra chlâf gan ormod foethe.

10 Tra cês iechyd ni ches weled,
O'm pechodau er eu hamled;

Ond

Ond, yn awr, gwae fi. mewn nychdod
Nid wi 'n gweled ond fy mhechod.

11 O pa nifer o bechodau,
Wnaethoi 'n d' erbyn, Duw, gwae finnau;
Maent yn amlach mewn rhifedi,
Nac yw 'r Sêr, o's ceisiai 'u cyfri.

12 Pa fath Elyn gwyllt a fuo,
Yn d' wrthnebu megis *Pharao*,
Gynt pan oeddyt yn ymhwedd,
Am im droi a gwella muchedd.

13 Arglwydd grassol rwi 'n cydnabod,
Imi haeddu càn mwy nychdod,
Ac im' bechu yn yscymmyn,
O'm mabolaeth yn dy erbyn.

14 Etto gwn dy fôd ti 'n rassol;
I bwy bynnag fo yn 'difeiriol,
Ac yn barod iawn i fadde
I'r galarus eu camwedde.

15 Er na haeddais ond trallodion,
A dialau, a chlefydion;
Gwna i'm yn ol dy fawr drugaredd,
Ac nac edrych ar f' anwiredd.

16 Cymmer Angau Crist a'i 'fydd dod,
Yn dâl itti am fy mhechod;
Cladd fy meiau yn ei § weli:
Er ei fwyn bydd rassol immi.

§ *Arcbell*

17 Na'd im' farw yn fy mrynti,
Cyn im' wneuthur dim daioni:
Ond rho amser o'th drugaredd;
Immi etto wella muchedd.

18 Dal dy law, gostega nolur,
Llaesa mhoen, lleiha fy ngweywyr,
Ac na ossod arnai boenau,
Fwy nag allo 'nghorph eu goddau.

Er

19 Er bod f'enaid weithie 'n d'wedyd;
Dere *Crift*, a derbyn f' yſpryd:
Mae fy nghnawd er hyn yn crio,
Duw tro 'r cwppa chwerw heibio.

20 Y mae 'r cnawd a'r yſpryd etto,
Yn amharod i ymado:
Duw rho amſer i'm i'w trefnu;
O' bydd d' wllys yn cennadu.

21 Nid wi 'n ceiſio gennyd amſer,
I fyw 'n ſoethus mewn eſmwythder;
Ond i dannu dy anrhydedd.
Ac i wella peth o'm buchedd.

22 Duw o' gweli fod yn addas,
Eſtyn f' oes fel *Ezekias*;
Dyro immi ryw gyfrwyddyd,
I'm iachau a thorri 'nghlefyd.

23 Ond o' gwelu fôd yn ore,
Etto 'nghoſpi dros fwy ddyddie,
Duw, dy 'wllys di gyflawner;
Ond cyfnertha fi 'r cyf-amſer.

24 Yn iach ni wneuthym ond dy ddigio,
Yn glaf ni allai ond ochneidio;
Oni roi dy nefawl yſpryd,
I'm diddanu yn fy nghlefyd.

25 Arglwydd cymmorth fi 'n fy mlinder,
Llaeſa mhoen a'm haneſmwythder:
D'wed wrth fy enaid yn ei ‖ halaeth,
Myfi yw dy iechedwriaeth.

‖ *Oſn:*

26 Tydi Crist yw 'r mwyn *Samariad*,
Mine yw 'r claf drafaelwr irad;
C'weiria nolur, rhwym f' archollion,
Dofa mhoen, cryſha fy nhalon.

Luc. 10.

27 Mae dy law yn orthrwm arnaf,
Etto ynod mi ymddiriedaf:

A

A phe lleddit fi â thrallod,
Duw mae f' holl ymddiried ynod. Job 13. 15.

28 Gennyt ti mae 'r holl * allweddau, Dat. 1. 18.
Sydd ar fywyd ac ar Angau: * *Agoriadau.*
Ni baidd Angau edrych arnaf,
Nes danfonech (*Crift*) ef attaf.

29 Gwna fi 'n barod cyn y delo,
Pâr i'm ddifgwyl byth am dano;
Fel y gallwi fyn'd yn addas,
Trwyddo i dy nefawl deyrnas.

30 Na'd i bethau 'r byd anwadal,
Na'th gyfiawnder ddydd y dial,
Nac i ofn Angau i fy rhwyftro
Ymbartoi i rwydd ymmado.

31 Tynn o'm calon ofan Angau,
Pâr i'm wadu 'r byd a'i bethau;
Golch a'th waed fy mhechod 'fceler,
Cûdd fy mrynti a'th gyfiawnder.

32 Rho im ffydd yn dy † Brommeifion, † *Addewidion*
Gobaith gryf am gael y Goron,
Dioddefgarwch yn fy nghlefyd,
Chwant ddod attad a dattodyd. Phil 1. 2. 3.

33 *Crift* rho d' yfpryd i'm diddanu,
A'th Angelion i'm caftellu;
Gwna 'r awr ola fy awr ore
Rhoi mi 'r Goron ar awr Ange. 2 Tim. 4.

34 *Crift* fy Mugail cadw f' enaid,
Nad i'r llew o'th law ei fcliffaid,
Tydi prynaift yn ddryd ddigon,
Dwg e' i'r Nêf at dy Angelion.

C A N CXIV. *Rhybydd i'r clâf i alw am weinidog i gynghori ef, ac i weddio drofto.*

PAN clafychech cais Offeiriad,
Yn ddi aros ddyfod attad, I

I weddio dros dy bechod;
A'th gyf'rwyddo i fod yn barod.

2 CRIST a bwyntiodd yr offeiriaid,
Yn Buſygwyr doeth i'r enaid,
Ac a roddwys iddynt eli.
I wrthnebu pob drygioni.

3 Adde 'th bechod wrth y ffeiriad,
Fe ry itti gyngor difrad,
Fel y gallo roi cyfrwyddyd,
Yn ol naws a rhyw dy glefyd.

4 Cred beth bynna ddwetto 'r 'ffeiriad,
O air *Duw*, yn brudd am danad.
Can's llais *Crift* ei hun yw hynny,
I'th geryddu neu 'th ddiddanu.

5 Deiſyf arno brudd weddio,
‡ *Wella.* A'r i'r Arglwydd dy ‡ recyfro,
A rhoi itti gyflawn iechyd,
Neu yn raſſol dderbyn d' yſpryd.

6 Mae *Duw* 'n addo gwrando 'r 'ffeiriad,
Iaco. 5. 14. Pan gweddio 'n ôl ei alwad;
15. 16. CRIST a ddyru ei ganlyniaeth,
Oni phwyntiodd dy farwolaeth.

7 Deiſyf arno dy gyfnerthu,
Dih. 15. 8. Rhag i Satan dy orchfygu,
A llonyddu dy gydwybod,
Pan i'th fliner gan dy bechod.

8 Godde Chwilio dy gornwydon,
Godde i'r gair frynaru 'r galon,
Fel y gallo fwrw ynddi,
Wîn ac olew gyd ag eli.

9 Gwell it adael i'r offeiriad
Ddangos it' dy ddrwg ymddygiad,
Fel y gallech edifaru,
Nag o'i blegid gael dy ddamnu.

D

10 Di gai * gyngor rhag dy bechod,
I lonyddu dy gydwybod:
Di gai gomſſordd gan y 'ffeiriad,
O's mewn pryd ei gelwi attad.

* *Ni bydd y claf nêſ i fod yn gadwedig er cael cyngor y gweinidog, oni rona ef ar ei ôl ê.* Jac. 1. 22. *Ac oni fydd y cyngor yn gyngor Duw befyd* Rhuf. 1. 16 Rhu. 10. 17

11 Nad y 'ffeiriad heb ei alw,
Nes y b'ech yn hannor marw:
Ni all 'ffeiriad y pryd hynny,
Na neb arall dy ddiddanu.

12 Oh! pa nifer o *Fruttanniaid*,
Sydd yn meirw fel 'Nifeiliaid?
Eiſie ceiſio nerth y 'ffeiriad,
I gyfrwyddo eu madawiad.

13 Er bod *Duw* yn abal cadw,
Sawl a fynno heb ei galw,
Nid yw 'n cadw mawr o enaid,
† Ond trwy Swydd a gwaith Offeiriaid.

† *Trwy bregethiad y gair mae ffydd a throedigaeth i ffordd iechawdwriaeth yn dyfod, ac am hynny cyn clafychu fe ddylid urfera gwrando 'r gair. Rhag ofn y bydd hi rhy hwyr yn ein clefyd i wneuthur felly. Ni's dylem ni oedi, a thybied mai pethau bychain yw ffydd ac edifeirwch a gwellbâd buchedd o herwydd mae pob un o'r rhai n yn angeinrhéidiol,* Jo. 3. 36 .Luc. 13. 5. 1 Cor 6. 9. Heb 12. 14. *Er mwyn Criſt yſtyriwch y pedwar lle hyn o'r 'Scrythr,* a bernwch ynoch eich hunain. gan na ellir bod yn gadwedig heb Edifeirwch a ffydd a newydd-deb bychedd (fel y mae 'r 'ſcrythyrau yn dangos yn eglur) onid yw yn ynfydrwydd iad-el y pethau hyn heb eu ceiſio hyd amſer ein clefyd? Fe fydd yr enaid y pryd hynny yn ymwrando â dolur ac affechyd y corph; ac o herwydd hynny yn anghymmwys iawn i wrando cyngor y gweinidog ac i wneuthur yn ei ol fel y dlye. *Nid ydym yn darllen end am un (ſef y lleidr ar y groes ac a wir edifarhaodd* y r awr ddiweddaf) am un yr ydym yn darllen hynny, fel nad amheuo neb; ond nid ydym yn darllain ond am un; fel na ryfygo neb, a bod yn hŷ neu yn con i oedi troedigaeth at Dduw hyd yr awr ddiwethaf.

CAN CXV. *Gwedi cael cyngor Phyſſygwr yr enaid, cais gyfrwydd Phyſſygwr y corph*

YN ôl cyngor yr Eglwyſwr,
Cais gyfrwyddyd y Phyſſygwr:
Duw a roes i hwn gelfyddyd,
I'th iachau o lawer clefyd.

2 Duw ordeiniodd yr offeiriaid,
I iachau doluriau 'r enaid,
A'r Phyſſygwyr a'r Meddygon,
I ymgeleddu cyrph y cleiſion.

3 Llawer dyn ſy'n marw 'n fudyr,
Eiſie cymmorth y Phyſſygwyr,
Gan fyrhau eu hoes a'u hamſer,
Yn embeidus eiſie eu harfer.

4 Corph pob dyn yw tŷ ei enaid,
Rhaid * rheparo hwn a'i dreſnaid;
Rhaid i bob dyn hyd y gallo,
Gadw ei dy ar draed heb gwympo.

* *Adnewydu.*

5 Arfer gymmorth phyſſygwriaeth,
Yn dy glefyd trwy griſt'nogaeth;
Duw ordeiniodd hon yn gyſſur,
I blant dynion rhag pob dolur.

6 Y neb wrthodo phyſſygwriaeth,
Y roes *Duw* er iechydwriaeth,
Mae 'n gwrthnebu maeth ei § Anian,
Ac yn mwrddro ei gorph ei hunan.

§ *Natur*

7 Y llyſeun ſalwa welech,
A'r gyfrwyddyd waela gaffech,
All roi help a iechyd itti,
O's rhy Duw ei fendith arni.

8 Swp o ffigys, o's bendithia,
All iachau y cornwyd mwya:

A't

A'r gyfrwyddyd ni thal un-rhith, Eſa. 38. 21
All arhoi help, ond cael ei fendith.

9 Ond pe caet ti *Balm* a *Nectar*,
Cennin *Peder*, Cerrig *Bezar*,
Olew a Myrh, a Gwîn a Gwenith,
Ni wnant lês heb gael ei fendith.

10 Cais gan hynny fendith hyfryd,
Gan dy *Dduw* ar bob cyfrwyddyd:
Heb ei fendith ni wna 'r benna,
Ond troi 'n wenwyn yn dy gylla.

11 Nac ymddiried i'r phyſſygwyr,
Nac un || fetſwn f'ont yn wneuthyr,
Rhag dy farw megis *Aſa*,
Eiſie 'mddiried i'r Gorucha. || Cyfrwyddyd.

12 Nid oes rhinwedd ar lyſſeuach, 2 Chron. 16. 12.
Grym mewn Eli, na diotach,
I leihau o'n cûr, a'n poenfa,
O's yr Arglwydd nis bendithia.

13 *Duw* ſy'n rhoddi * rhad ar lyſiau * Bendith.
Grym mewn Eli a † chyfyrddonau, † Cyfrwyddyd.
Lle bendithio *Duw*, hwy lwyddant,
Lle ni fynno *Duw* ni thycciant.

14 Cais gan *Dduw* roi bendith hyfryd,
Ar bob metſwn a chyfrwyddyd:
Heb ei fendith ni wna 'r benna,
Ond troi 'n wenwyn yn dy gylla.

CAN CXVI. *Gweddi 'r claf cyn cymmeryd phyſſygwriaeth.*

AWDWR iechyd, lluniwr llyſiau,
Rhoddwr rhinwedd, Rhwymwr Angau
Tywallt fendith, rhad, a iechyd,
Ar y metſwn wyfi yn gymeryd.

2 Di ordeiniaiſt amryw lyſiau,
Diod, Eli, a chyferddonau,

I ymgeleddu meibion dynion,
Yn eu gwendid a'u clefydion.

3 Yn ol dy 'wllys a'th ordeiniaeth,
Rwyfi 'n cym'ryd phyttygwriaeth,
I oftegu peth o'm didri;
Rho dy fendith Arglwydd arni.

4 Gwn na ddichon un creadyr,
Na chyfrwyddyd laefu 'ngwaywyr,
Oni byddi di 'n bendithio,
'Rhyn a roer, a'r hwn a'i cymro.

5 O gan hynny prydd fendithia,
Y gyfrwyddyd a gymmera,
Fel y rhoddo hon i'm gyffur,
Ac y llaefo fy holl waywyr.

6 Peraift gynt i'r ffigys diflas,
Iachau cornwyd *Hezekias*:
Pâr o Arglwydd i'r gyfrwyddyd,
Hon roi 'minne gyflawn iechyd.

7 Di iachaift olygon *Tobi*,
Gynt ag afu 'r pyfg annigri:
O iacha fy nolur inne,
A rhai hyn dy gyfyrddone.

8 Fel y peraift i ddwr *Jordan*,
Olchi ffwrdd wahanglwyf *Naman*,
2 Bren: V. Felly par i'r ddiod ymma,
Dynny ffwrdd fy nghur am poenfa.

9 Fel y peraift gynt i'th Boeryn,
Mrr. 8. 23. Roddi golwg i'r Cardottyn:
O par Arglwydd i'r cyfrwyddyd,
Hon roi 'minne gyflawn iechyd.

10 Gwn y galli trwy fath foddion,
Neu heb un iachau clefydion:
Llaefa nolur yn ol d' allu,
O's bydd dy 'wyllys yn cennadu.

Ond

11 Ond o's pwyntiaiſt ti ſy niwedd,
Am llwyr dynu i'th drugaredd:
Duw dy 'wllys di gyflawner,
Rwi'n ymoſtwng it' bob mſer.

12 Ond rho immi ras a phwer,
Grym a gallu y cyfamſer,
'Ddwyn ſy nolur yn ddioddefgar,
Megis eriſtion yn ddidrudar.

13 A rho d' Yſpryd i'm cyfnerthu,
Yn fy mlinder i'th foliannu,
Ac i ddwyn dy groes a'th wïalen,
Yn 'wllyſgar, ac yn llawen.

14 A phar immi fod yn barod,
'Ddwad attad ac ymddattod,
A rhoi fy enaid yn 'wllyſgar,
Yn dy ddwylo Arglwydd hygar.

15 O fy Arglwydd gwn y gelly,
Fy iachau yr awr y mynny:
Oni fynnu laeſu mlinder,
Duw dwg f' enaid i'th eſmwythder.

CAN CXVII. *Rhybydd i'r claf i ochelyd ceiſio cymmorth ſwynwyr a dewiniaid.* Dut. 18. 10, Lef 19. 31. 2 Bren. 1. 16.

GOCHEL geiſio help gan ſwynwyr,
Yn dy flinder toſt a'th ddolyr,
Gado Duw mae'r cyfryw ddynion,
Ac addoli 'r gau Dduw Eccron.

2 Na chais help i'r corph mor embaid,
Gan y diwl ſy 'n lladd yr enaid;
Nid oes un phyſſygwr allan,
Waeth na'r diawl i helpu 'r egwan.

3 Nid yw ſwyn ond ‡ hug i'th dwyllo, ‡ *Twyll.*
Gwedi ſatan ei ddefeiſio,
I ddifethu d' enaid gwirion,
Pan y ſwyner dy glefydion.

Nid

4 Nid yw'r ſwynwr ond apoſtol
Ffalſt, i'r diawl i dwyllo 'r bobol,
Oddiwrth GRIST, mewn poen a thrafel,
I butteinia ar ôl y cythrael.

5 Twyllo 'r corph a lladd yr enaid,
Digio DUW, boddloni diawlaid,
Gwrthod CRIST, a'r maint ſydd eiddo,
Y mae 'r ſwyn, a'r ſawl a'i cretto.

6 Ceiſio 'r cythrael yn phyſygwr
Ydyw ceiſio help gan ſwynwr:
Ceiſio 'r diawl i ddarllain teſni,
Ydyw dewin i ymgynghori.

7 Ceiſio gwir gan dad y celwydd,
Yw ymofyn â drogenydd:
Ceiſio help i ladd yr enaid,
Ydyw ceiſio ſwyn hudoliaid.

8 Na char ſwynwr mwy na chythrel,
Mae'n dy demptio yn dy drafel,
Glûn wrth *Griſt* er maint yw 'th ſlinder,
Cais ei nerth di gei elmwythder.

CAN CXVIII. *Gweddi fyrrach i'r claſ i'w harferu yn ei gleſyd.*

DUW trugarog tad diddanwch,
Awdwr iechyd, pen dedwyddwch,
Gwrando waedd pechadyr nychlyd,
Sydd yn beggian cymmorth genyd.

2 Daeth fy mhechod yn dy olwg,
A'm holl fuchedd oedd yn gynddrwg,
A chan gymmaint oedd fy || nhraha, || Balchder.
Di ddanfonaiſt gleſyd arna,

3 Haeddais Arglwydd drymmach penyd,
Toſtach twymyn caſach cleſyd,

Blinach

Blinach dolyr byrach amſer,
Pe'm talaſſyt wrth gyfiawnder.

4 Di allaſſit dori 'ngwddwg,
Am fy muchedd oedd yn gynddrwg,
Neu fy moddi neu fy mwrddro,
Heb roi amſer i'm ymgweirio.

5 'N awr rwi 'n gwel'd dy gariad attaf,
Yn rhoi clefyd c'ruaidd arnaf,
I'm ceryddu am f' anwiredd,
Ac i'm cyffro wella mychedd.

6 Nid 'wyllſi Duw, 'r holl gyſſur,
Ddrwg farwolaeth un pechadur — Eze. 33. 11.
Ond yn hytrach gwella ei fuchedd,
I gael bywyd a thrugaredd.

7 Trwy 'r fath glefyd blin corphorol,
'R wyt i'm cofio mod yn farwol: — Amos 4. 10.
A thrwy flinder toſt a thriſtwch,
'R wyt i'm gwawdd i edifeirwch.

8 Er i'm haeddu dy ddigofaint, — Mic. 6. 9.
A'th lidiawgrwydd toſt yn gymmaint,
Arglwydd graſſol na cherydda
Fi a'th lid a'th gerydd mwya.

9 Mae dy ſaethau gwedi 'nghlwyfo
Mae fy eſgyrn gwedi briwio,
Mae fy yſpryd gewdi gryddfu,
Arglwydd tyred i'm diddanu. — Sal. 6. 2.

10 Tydi 'm clwyfaiſt am fy mhechod,
Minne haeddais hyn o drallod,
Nid oes neb fy Nuw am hynny,
Ond tydi, all fy ngwaredu.

11 Tydi ſy 'n lladd ac yn bywhau,
Tydi ſy 'n clwyfo ac yn iachau,
Yn dwyn i'r bedd, yn adgyfodi,
Yn trugarhau, ac etto yn coſpi.

Tydi

12 Tydi O Dduw ſy 'n danfon clefyd,
Tydi yn unig all rhoi iechyd:
Nid oes neb all llaeſu nolur,
Ond tydi na rhoi i'm gyffur,

13 Er dy fwynder a'th drugaredd,
Er dy Enw a'th anrhydedd,
Maddeu mhechod, llaeſa nolur,
Gwared ſy enaid rho i'm gyffur.

14 Oni phwyntiaiſt ſy marwolaeth,
A diweddu ſy milwriaeth,
Arglwydd llaeſa ar ſy mlinder,
A rho immi beth eſmwythder,

15 Dymchwel Arglwydd i'm diddanu,
O ſy *Nuw* pa hyd y ſorri?
Gwel ſy mhoen, a chlyw ſy nghwynſan,
Tro dy lid, iacha fi weithian,

16 C'weiria 'ngwely yn ſy nghyſtydd,
Tro ſy nhriſtwch yn llawenydd,
Rhwyg ſy ſach, a ſych ſy neigrau,
Llaeſa mhoen, iacha noluriau.

17 Maddeu mhechod, torr ſy nghleſyd,
Tynn fi o'r ffoes a rho i'm iechyd,
Fel y gallwyf dy glodforu,
Yn ſy mywyd a'm holl allu.

18 Yn y bedd, Oh! Dduw pwy 'th goffa?
Yn nhir angau pwy 'th glodfora?
Sal. 30. 9. 12. Arbed mywyd Arglwydd graſſol,
I'th glodfori gyda 'r bywiol,

19 Felly canaf it' yn hyfryd,
Glod a moliant am ſy mywyd:
A thra ynof rym a chwythiant,
Mi ddatganaf dy ogoniant.

GANCXIX. *Rhybydd i'r claf i wneuthur ei ewyllys mewn pryd, a dosparthu ei bethau mewn ofn Duw.*

ON I wnaethost etto d'wyllys ‡
Dod dy dŷ mewn trefn weddys:
Dosparth d' olud megis Cristion,
Yn gristnogaidd ac yn union.

‡ Llythyr cymmyn Esay. 38. 1,

2 Cais gan *Dduw* ei Nefawl Yspryd,
I roi itti lawn gyfrwyddid,
I gyfrannu d' olud bydol,
Yn ol gwllys dy Dâd nefol.

3 * Rho dy enaid bach i'th Brynwr,
Crist, a'i pie dy lachawdwr:
Rho dy gorph i'r ddaear lle cafad,
Hyd nes delo 'r adgyfodiad.

Act. 7. 59.
* O's buest fyw yn ddduwiol, fe dder bynnir dy enaid i'r nef; ond nis gwneir felly, o's marw a wnei di yn annuwiol. Mat. 7. 21. Rhuf. 13. 7,

4 Tynn fel *Jacob* ddefaid *Laban*,
A da eraill, o'th dda allan;
Rho i bob dyn ei iawn eiddo,
Tal dy ddyled cyn ymado.

5 Na ddod geiniog yn dy wllys,
O dda eraill yn gamweddys,
Rhag eu taflu yn dy ddannedd,
O flaen Duw, ar ddydd dy ddiwedd.

6 Ac na chytcam er dy fywyd,
Roi i'th blant anghyfiawn olud:
Ni wna hynny ond eu hela,
I gyrwydro a chardotta.

7 Er na feddech ond tair anner,
I roi rhyngthynt trwy gyfiawnder,
Gwell y llwydda hyn i'th Eppil,
Na thrwy gamwedd pe rhoit dair-mil.

8 Gwell y llwyddodd Rharn-dir *Abram*,
Nag y llwyddodd teyrnas *Joram*,

2 Bren IX
Gen. XXX

Gen. XIII. A'r gohilion a gas *Iago*.

‡ *Disa.* Na phraidd *Laban* gwedi || hyso.

2 Bren. XII. 9 Fel y bwytodd Gwinllan *Naboth*,
Deyrnas *Ahab*, a'i holl gyfoeth:
Felly bwytty 'r geiniog sceler.
Faint y seddech twy gyfiawnder.

10 Ceiniog ddrwg pwy bynna caffo,
Sydd sel gwartheg truain *Pharao*,
Rhai fwyttassant ei dda tewon,
Heb fod llawnach eu colyddion.

11 Rho gan hynny 'r hyn sydd union,
Rhwng dy blant, a'th ffrins, a'th weision,
Ac na chytgam er dy fywyd,
Roi i neb anghyfiawn olud.

Exod. 16. 12 Fel y llwyddodd *Duw* y Manna,
1 Bren. 17. Toes y weddw o *Sarepta*,
Olew 'r weddw dlawd a'i meibion,
Felly llwydda 'r gronyn cyfion.

13 Rho i *Isaac* dy etifedd,
Gen. 25. 5. Ei 'difeddiaeth yn ddi-duedd:
6. A rho i'r lleill o'th blant o bob-tu,
Fôdd i fyw yn ol dy allu.

14 Rho i'th wraig ei chyflawn dreuan,
Na ro iddi lai na'i chyfran:
O' rhoi chwaneg, mae yn rhygil,
Fod y fath yn 'nafu 'r Eppil.

Iac. 5. 4. 15 Na'd wâs ffyddlon heb ei wobar,
Rho i'th gâr tlawd help o'r heinar:
Na'd dy weithiwr heb ei gyflog;
Crio 'n dost a wna 'r fath geiniog.

16 Cofia 'r 'fengyl, cofia 'r Eglwys,
|| Ysgol dy. Cofia 'r § *Coledge* a'th fanteiniwys;
Cofia 'r wlad a'r dref i'th fager,
O's bydd gennyd fodd a phwer.

O's

17 O's goludog wyt heb Eppil.
Ac yn caru *Criſt* a'r 'fengyl,
Adail yſgol rydd yng-*Hymru*,
Lle mae eiſie, Dyſg ſy'n methu.

18 Coſia *Joſeph* ſy'n y carchar,
Rho beth help i borthi *Lazar*,
Rho yn awr dy rodd tra gallech,
Dymma 'r rhodd ddiwetha roddech. Luc. VIII.

19 Maint y roech i'th blant a'th draſſe,
Dy wraig, a'th blant, a'th ffrins a'i pie,
Y maint y roech i'r tlawd a'r truan,
Storio 'r wyt i ti dy hunan.

20 Dyro 'n ôl 'r hyn a dreiſiaiſt,
Gwna iawn dal i'r rhai orthrymmaiſt:
Tal dy ddyled cyn dy ſymmyd,
Yn y pwll † nid oes dymchwelyd.

† Nid oes dymchwelyd o'r pwll i wneuthur iawn i'r rhai a orthrymmwyd ond mae dymchweliad oddiyno i gael barn. 1 Cor. 6. 9

21 Dyro 'r Badell, Dyro 'r Crochan,
Dyro 'r tai, a'r Tir a'r Arian,
Yn eu hol i'r rhai a'u pie,
Rhag dy fynd i'r didrange boene.

22 Na'd i dyddyn y dyn gwirion,
'R hwn y dreiſiaiſt yn anghyſion,
Beri it' golli teyrnas nefol;
Rho ei dyddyn yn ei wrthol.

23 'N awr di elli megis *Zache*,
§ Wneuthur iawn am dy droſſedde,
Yn y pwll ni bydd i'th bwer,
Dalu 'r hatling pan gofynner.

§ Ti elli wneuthur iawn i ddyn am a dreiſiaiſt oddi arno. Preg. 9. 10.

24 Praw gyttuno a'th wrth'nebwr,
Cyn dy fyn'd o flaen y Barnwr.
Rhag dy droi i'r dwnſiwn iſaf,
Lle rhaid talu 'r hatling eithaf. Mat. 5. 25.

25 'N awr ni fynny mwy na phagan,
Ddilyn cyngor *Criſt* ei hunan:

Ond di fwytty gig dy ſreichiau,
Eiſie ei ddilyn cyn mawr ddyddiau.

☞ 26 Pa ſawl mîl ſy'n hân uffernol?
Eiſie rhoddi trais yng-wrthol,
Rhai y roddent heddyw 'r holl-fyd,
Yn ſarhad i'r tlawd pe's cymryd.

27 O's yn erbyn *Duw* y pechu,
Di gei bardwn ond 'diſaru:
O's yn erbyn dyn ni ſadde,
Duw, nes caffo 'r tlawd a ddyle.

28 O's bu farw 'r rhai a dreiſiaiſt,
Rho i'w plant y maint y ddygaiſt,
Ac o's aethant o'r wlad allan,
Rho eu rhan i'r tlawd a'r truan.

29 Na ro rhwng dy blant yn angall,
Y peth a bie un dyn arall:
Ni wna hynny ond dy ddamnio,
A throi d' eppil i gyrwydro.

30 Na ro rhwng dy blant trwy 'wllys,
Ddim ennillaiſt yn gamweddys,
Trwy Uſuriaeth, trais neu ſalſtedd;
Drwg y llwyddant yn y diwedd.

31 Craffa blant yr occrwyr mawrion,
A'r gorthrymwyr a'r carn-ladron,
Yn ceiniocca mewn Eglwyſydd,
‡ Cwd. Ac yn dwyn y * waled beunydd.

32 Felly tygſydd i'th blant dithe,
† Drwg. O rhoi iddynt dda † annife,
Canys diai *Duw* yn rhygil,
2 Theſſ 4. 6. Drais ar dadau, ac ar eppil.
Exo. 20, 5.

33 Dod di ofan *Duw* gan hynny,
O flaen d'wyneb wrth ddolparthu:
Rho i bob dyn ei dda cyſion,
Rhanna 'r cwbwl lle bo achoſion.

Duw

34 *Duw* a rhoddo it' gyfrwydd-deb,
Ac a'th nertho wneuthur d' atteb:
Duw a th gatwo rhag camſyniaid,
Duw ſo Ceidwad ar dy enaid.

CAN CXX. *Llythyr yr Anrhydeddus* Syr LEWIS MANSEL o *Fargam yn Sir Forganwg* (ſel yr ydys yn tibied) *at y Ficcar* PRITCHARD.

GWR wyf yn dioddef maethgen,
Rhyw bendro doſt ſy'm talcen,
Ys amſer hir (yr Arglwydd hael,)
Heb allel cael ei orphen.

Ceiſiais gyngor, a pharactys
Doctoriaid, gwyr ſynhwyrus,
I geiſio help; nid llai fy mloedd,
Er myn'd dros foroedd trwblus.

Pan ffaelodd lles corphorol,
Rwi 'n anfon at wŷr duwiol,
Eglwyſig, call, dros Dir a Mor,
I geiſio cynghor hollol.

I Ddiſgu p'un mae 'r hael-dad,
O ddigter, neu o gariad,
Yn danfon ar ei bridwerth bla,
Rhyw groes neu boenſa irad.

CAN CXXI. *Atteb, Addyſg, cynghor a chyſſur i'r Anrhydeddus* Syr LEWIS MANSEL *o Fargam, yn ei Gleſyd; yr hyn all ſod yn ſuddiol i bob dyn duwiol, yn ei gleſyd a'i adſyd.*

ANWYL Griſtion clywais ddywedyd
I *Dduw* anfon arnad gleſyd,
Ac na wyddoſt pu'n o gariad,
A'i o gas yr helodd attad.

Rwi

2 Rwi 'n dy atteb mewn byrr eiric,
Ac yn maneg itti 'n ole,
Nad o gerydd ond o gariad,
Y rhoes *Duw* wialen arnad.

3 Nid dy Elyn sy'n dy saeddu,
Dy Dad grassol sy'n dy ddysgu,
Trwy ddarostwng dy gnawd diraid,
Fel y galler cadw d' enaid.

4 Nid yw 'r clefyd hyn ond cennad,
Helodd *Crist* dy Brynwr attad,
I dreio 'th ffydd, a'th hir amynedd,
A'th rybyddio am dy ddiwedd.

5 Derbyn gennad *Duw* 'n roesawgar,
Ymddwg dano yn ddioddefgar;
A rho ddiolch o wraidd calon,
I'th Dad nefol am ei ddanfon.

6 Ni wna 'r clefyd niwed itti,
† Physygwriaeth. Mwy na 'r || pwrg sy'n carthu 'r geri;
Ni wna rhwystyr ond dy buro,
I gael oes o newydd etto.

7 Ni bu gwin erioed heb waddod,
Ni bu Aur erioed heb sorod,
1 Loan 1, 8. Ni bu gwenith heb ei sasclau,
Ni bu ddyn ond un heb feiau.

8 Yr oedd *Adda* hen a'i bechod,
Num, 20. 12. *Lot* a'i losgach, *Noah* a'i seddwdod;
Moses, *Aaron* a'u camweddau,
Peder, *Paul* a mil o feiau.

9 Gwybydd dithe 'r marchog hyfryd,
Er hawddgared yw dy fywyd,
Psal. 19. 12. Nad wyt heb ryw fai i'th ddiblau,
Can's dyn wyt, er maint yw 'th ddoniau,

10 I nithio d' us i doddi 'th Sorod,
I wella 'th fai, i dynnu 'th waddod,

I ddoſi 'th gnawd, i nerthu 'd yſpryd,
Y danſonodd Duw dy glefyd.

11 Nid i'th waethu, ond i'th wella,
Nidi'th faeddu nac i'th ddiſa:
Ond i'th ddyſcu a'th gyfrwyddo,
Y mae 'r Arglwydd yn dy daro.

12 Er troi heibio fydol foethau,
A gwir hoffi nefol ddoniau,
Caſau 'r byd a'r maint ſydd ynddo.
A dilyn CRIST a'th draed a'th ddwylo.

13 Rho fawr foliant prydd gan hynny,
I'th Dâd nefol am dy ddyſgu, Heb. 12. 5.
'Rhwn ſy'th wneuthur trwy ſerchogrwydd, hyd 11.
Yn gyfrannog o'i Sancteiddrwydd.

14 Y neb a garo Duw fe'i coſpa,
Pob Mâb annwyl fe'i ſſonnodia:
Y dyn ni choſpo Duw ei bechod,
Baſtard yw nid Mab o briod.

15 Mae Duw 'n coſpi 'r rhai anwyla, 1 Cor. 11.
A rhyw groes neu gilydd ynma, 32.
Rhag eu myned yn ddamnedig,
Gyda phlant y byd gwrthnyſſig.

16 Nid glan gwenith nes y nithier,
Nid gwynn cambric nes y golcher, Sal. 11 9
Nid pur Aur coch nes ei doddi, 67. 71.
Nid da Criſtion nes ei goſpi.

17 Ni ry 'r Grawn wîn nes eu gwaſcu,
Ni ry 'r thus ſent nes ei fygu,
Ni ry 'r flint dân, nes y ffyſter,
Na dyn ffrwyth da nes cyſtyddier.

18 Y clofs a 'rogla 'n well o'u pwnian, § Winwydden.
Y vine a danna 'n well o'i chroppian,
Y Palm a dyf yn well o'i blygu,
A'r dyn y fydd yn well o'i faeddu.

19 Pa fwya ſ nger ar y Gammil,
Mwya 'rhogla eu gwynt yn rhigil:
1 Pet. 1. 6. 7. 8. Pa fwya 'waſcer ar y Criſtion,
Mwya fydd ei ffydd a'i ofon.

20 Yſtyr, mai er lleſſiant itti,
Y mae 'r Arglwydd yn dy goſpi,
Ni pheru 'r goſp ond ennyd fychan,
Fe beru 'r lles dros hir-oes gyfan.

21 Na wan-ffyddia yn dy glefyd,
Yn llaw Duw y mae dy fywyd:
Fe ry oes a iechyd etto,
Ac eſmwythder ond ei geiſio.

22 Cymmer gyſſur cod dy galon,
Ymwrola, bydd obeithlon,
Fe ddaw CRIST a help ar fyrder,
Ac a laeſa d' aneſmwythder.

Heſ. 6. 1. 23 Y llaw 'th drawodd, honno 'th helpa,
R hwn a'th glwyfodd a'th elia,
A'r neb helodd attad glefyd,
Hwnnw a'i tynn gan roi itt' iechyd.

24 Galw am help ar *Ddaw* dy Geidwad,
Dy Dâd yw fe wrendy arnad,
Mat. 7. 7. Cais ei gymmorth, ac fe'i dyru,
Llef yn daer, ni feder ballu.

25 Pa beth bynnag yw dy glefyd,
F' all ei laeſu a'i ddiſſoddyd:
Cais ei gyfneſth ac fei llaeſa,
Ymddyried ynddo, ac ni'th dwylla.

26 Oni's llaeſa 'r awr y mynnech,
Pwylla, aros, dan dy ortrech:
Fe ddaw help o'r nef yn dambaid,
Pan bo gwell ar les dy enaid.

27 Ni chei aros awr ym-hellach,
Yn dy glefyd na myn'd glafach,

Na

Nag y welo Duw 'n anghenrhaid,
Er lleſhad i'th gorph a'th enaid.

28 Goddef ronyn bach o gyſtydd,
Di gei gwedi'n hîr lawenydd:
Bydd ddioddefgar nes y delo,
Di gei oes o newydd etto.

29 'R hwn a nerthodd *Job* mor hygar,
Ddwyn ei glefyd yn ddioddefgar,
Nerthed dithe a'i lan Yſpryd,
Mor ddioddefgar ddwyn dy glefyd.

30 A'r hwn helodd un o'i Angelion,
I gymfforddi' fâb wrth *Cedron*, Luc. 22. 43
Helo o'r Nef ei Angel hyfryd,
I'th gomforddi yn dy glefyd.

31 Dy roeiſt ſiampl dda 'n dy iechyd,
Inni fyw mewn buchedd hyfryd:
Rho inni etto ſiampl hygar,
I ddwyn clefyd yn ddioddefgar.

32 Godde 'th nefawl Dâd dy drinio,
Godde dynnu 'r draen ſy'n pigo,
Godde waſcu 'r crawn lloſcedig,
Carthu 'r clwyf, a ſygno 'r yſſig.

33 Godde i Grist gael tynnu 'n gwbwl,
Gol y ſarph ſydd yn dy ſowdwl,
Rhag i'r gwenwyn ddrycha i'r galon,
Ac * inflecto 'r enaid gwirion. * *Llygru.*

34 Mae Duw 'n ofalus iawn am danad,
Gwell it' odde loes na bagad: Sal. 121. 3,
Mae 'n dy lanhau, 'n awr trwy gyſtydd,
I gael iechyd yn dragywydd.

35 Mae 'n dy wneuthur ymma yn addas,
I gael rhann o'i nefol deyrnas,
Mae e'n carthu 'r holl ddrygioni,
Sy'n dy rwyſtro i wir oleuni.

36 'Rwyt ti 'n uno feini 'r demel,
‡ *Rheol.* Rhaid dy naddu gid wrth ‡ lefel,
Rhaid i'r mwrthwl dy lwyt bario,
O's yn y nef y mynni drigo.

37 'Rwyt ti 'n wenith i'r Gorucha,
Mat. 3. 12. Rhaid dy ddyrnu tra fech ymma,
Tynnu 'r us a'r col oddiwrthyd,
Cyn bech i GRIST y fara hyfryd.

Job. 2. 10. 38 Di geſt lawer o ſelyſter,
Ar law DUW er dechre d' amſer,
Rhaid it' brofi peth o'r chwerw,
Gyda 'th Brynwr cyn dy farw.

39 Yf' o'r cwppan chwerw lymmaid
Yfodd CRIST o'th flaen ei lonaid:
F' orfydd ar bob gwas ei daſto,
Nid yw 'r diſgybl well na'i Athro.

40 Cofia i GRIST dy Brynwr odde,
Dros dy bechod di a minne,
Fwy o flinder, Ing, ac yſſig;
O! goddefwn ninne 'chydig.

41 Yſtyr nad oes Sanct yn gorphwys,
Mewn gogoniant ym-mharadwys,
Na ddioddefodd fwy o gyſtydd;
Goddef dithe a bydd lonydd.

42 F' orfu ar *Abel* odde ei fraenu,
F' orfu ar *Joſeph* odde ei werthu,
F' orfu ar *Eſay* odde ei liſo,
Cyn cael myn'd i'r nef i Drigo.

* *Labyddio.* 43 F' orfu ar *Stephan* odde ei § bwniaw,
|| *Bobi* F' orfu ar *Lawrens* odde ei || frwlian,
F' orfu ar *Iago* odde ei wanu,
Act. 12. 2. Cyn cael nefoedd i'w meddiannu.
Ioan 12. 18. 19. 44 F' orfu ar *Beder* 'odde e'i hoelio,
'F orfu *Barthlom* 'odde ei flingo,

F'

F' orfu ar *Ifan* odde ei ferwi,
Cyn cael myn'd at Dâd goleuni,

45 Nia oes un yn credu yn gywir, Act. 14. 22.
Yn *Nghrift Iefu*, hyn fydd ficcr,
Na raid iddo oddeu 'n rhyw fodd,
Gyftydd mawr cyn myn'd i'r nefoedd.

46 Nid aer o'r *Aipht* i *Ganaan* hyfryd,
Ond trwy 'r môr a'r mynydd tanllyd,
Nid a neb i'r nef i daring,
Ond trwy 'r porth a'r llwybyr cyfyng. Mat. 7. 13

47 Mae'n rhaid dwyn y groes yn gynta,
Cyn cael dwyn y Goron benna,
Ni ddarllenais yn fy oes,
Gael y Goron heb y groes.

48 Dwg y groes fel milwyr ffyddlon, Mat. 16. 24
Di gei gwedi'n ddwyn y Goron; 2 Tim. 2. 12
Cyd-ddioddef gyda 'r *Iefu*,
Di gei gwedi'n gyd-deyrnafu.

49 Na chais nefoedd ar y ddaiar,
Na chais wyn-fyd yn rhy gynnar,
Na chais iechyd di-drangc dewlwys
Nes y delech i Baradwys.

50 Ni chair melus heb y chwerw,
Ni chair gwyn-fyd nes i'n farw,
Ni chair Coron heb y groes,
Ni chair nefoedd heb ryw loes.

51 Ni chadd un o'r *Patriarchiaid*,
Na'r prophwydi, na'r *Merthyriaid*,
Na'r 'poftolion na'r *Meffiah*,
Fyn'd o'r byd heb lawer gwafcfa.

52 Na chais dithe fy annwyl-ddyn,
Gael y peth nas cafas un-dyn:
Ond ymroa yn ddi-drydar,
Ddwyn dy ddolur yn ddioddefgar.

53 Cofia i GRIST dy Brynwr odde,
Mwy o flinder am dy feie:
Cofia ei groef-hoelio drofot,
Di anghofi 'r loes fydd ynot.

54 Ac na feddwl nad o gariad,
Y rhoes Duw y clefyd arnad,
I'th ficcrhau dy fod yn un,
O'i * etholedig blant ei hun.

* *Fe ddichon crŷdadyn edifeiriol, ufydd ficcrhau ei hunan o hny.*

55 Cofia fod pob peth yn gweithio,
Ar y goreu i'r dyn y gretto,
Hyd yn oed ei glwyfa'i glefyd,
A'i golledion a'i holl adfyd.

56 Cofia hefyd nos a boreu,
Nad all croes nac Ing, nac Angau,
Na dim arall ein gwahanu
Oddiwrth gariad Duw a'r IESU.

57 'R hwn a gododd ei ffrynd *Lazar*,
Yn iach o'r bedd dan y ddaiar,
Hwnnw 'th gotto yn iach lawen,
O'th glaf-wely 'n wych drachefen.

58 'R hwn a fpariodd fywyd *Iſaac*,
Gwedi offrwm ar ben *Moriac*,
Hwnnw fpario 'th fywyd dithe,
Etto ennyd o flynydde.

59 'R hwn a helodd gynt *Eſaias*,
I iachau clwyf *Hezekias*;
Hwnnw helo o'r Nef Angel,
I iachau Sir LEWIS MANSEL.

CAN CXXII. *Rheſſymmau yn cyffroi 'r claf i fod yn ddioddefgar.*

ONI bae fod yn anghenrhaid,
Dofi 'r corph i wella 'r enaid,

Ni

Ni ddanfone Duw glefydion,
Byth ar un o'i annwyl feibion.

2 Yr oedd Duw yn gweld d' enaid,
Yn glaf iawn o bechod diraid;
Nid oedd lun i gadw 'th fywyd,
Nes dy goſpi a'r fath glefyd.

3 Oni ba'ſei 'r cwppan chwerw,
Fe allaſſe d' enaid farw,
Yn ddiſwmmwth heb || repento,
A myn'd dros fyth i boenydio,

|| *Edifaru.*

4 Trwy gyſtydd corph, a chlefyd diriaid,
Y mae *Duw* 'n iachau dy enaid;
Ac yn d' arwain twy ddifeirwch,
At dy *Griſt* i gael ei heddwch.

8al. 119. 67 70.

5 Trwy glefydion mae *Duw* 'n tynnu
Dyn, i geiſio cymmorth *Ieſu*,
A gwir iechyd idd ei enaid,
Rhag ei fyn'd i uffern embaid.

6 A chlefydion bach amſerol,
Mae 'n rhag-achyb poen tragwyddol;
Ac wrth goſpi 'r corph mor ddiriaid,
Dofi 'r cnawd a chadw 'r enaid.

7 Nid clefydion ond dialau
Blin, a haeddodd dy bechodau,
Dwg gan hynny yn ddioddefgar,
Y fath glefyd c'ruaidd hygar.

8 Fe allaſei dorri d' wddwg,
Am dy fuchedd oedd yn gynddrwg,
A'th roi i uffern y boenydio,
Heb rhoi amſer itt' repento.

9 Rho gan hynny yn ddi wegi,
Ddiolch iddo am dy goſpi,
Lle gallaſſei dy lwyr ddifa,
A'th roi i Frwlian yn Gehenna.

Fe

10 Fe allaſſei *Duw* dy roddi,
Dan law Gelyn cas i'th goſpi,
Ble mae 'n raſſol iawn yr wan,
Yn dy goſpi a'i law ei hunan.

11 Nid yw 'r Arglwydd yn dy blago,
Megis gelyn i'th andwyo,
Ond yn dirion yn dy faethddryn,
Megis Tâd yn trin ei blentyn.

12 Er bod d' Arglwydd yn dy faeddu,
Mae er hynny yn dy garu:
Pob gwialennod ag a roddo,
Sydd fel plaſtar i'th elio.

13 Ni ry *Duw* ſydd mor ddaionus,
Na 'th Dâd nefol ſydd mor ofalus,
Gleſyd arnad na chaledi,
Na wnel itti fawr ddaioni.

14 Fe wyr *Duw* beth yw dy ddolur,
Dy rym, dy ryw, dy naws, dy nattur,
Fe rydd dy groes, yn ol dy gyflwr,
Ni bydd dy bwn uchlaw dy gryfdwr.

15 Er bod *Aloes* yn beth chwerw,
Mae e'n achyb dyn rhag marw:
Er bod cleſyd yn dy flino,
† Mae 'n dy achyb rhag dy ddamnio.

† *Sef oi cdi-farbau di* Luc. 13. 5.

16 Y mae miloedd yn ‖ Gehenna,
Rhai a ddygèn fwy o boenſa,
Dros fil filoedd o flynydde,
Pe caent rhydd-did o'u poenydie.

17 Rho gan hynny yn ddi wegi,
Ddiolch i *Dduw* am dy goſpi,
Llei gallaſſei dy lwyr ddifa.
A'th roi i frwlian yn Gehenna.

18 Arwydd deg o'i ras a'i ffafar,
Yw cael cofp trwy gleſyd hygar,

Sydd

Sydd yn gwneuthur dyn yn barod.
Cyn yr el o flaen y Drindod.

19 Clefyd ſydd ſel chwip i'th goſpi,
Nid fel cledde llym i'th dorri;
Swmbwl awchlym i'th ddihuno,
Ac nid bwyaill i'th ddiſtrywio.

20 Ffuſt i ddurnu ffwrdd dy ffwlach,
† Ffann i nithio dy holl ſothach. † *Gwintell*
Ffwrn i buro dy amreyddion,
Chwip i'th goſpi yw clefydion.

21 Nid da mêl i'r llawn ddigonol,
Nid da gwynſyd i'r anuwiol,
Nid da Gwîn i'r poeth ei golydd,
Nid da iechyd i'r anufydd.

22 Nid oes arnad gymmaint dolur,
Ac a ſu a'r rai o'th ſrodyr,
Sydd yr-wan mewn eſmwythder,
Yn y neſoedd gwedi 'r blinder.

23 Bu ar *Lazar* gleſyd ſlinach,
Bu ar *Job* ddoluriau drymach,
Bu ar *Grift* ei hun ſwy blinder,
Maent yr-wan mewn eſmwythder.

24 Ac o's dithe ſydd ddioddefgar,
Fe ry *Duw* itt' hyn o ffafar;
Fe wna naill a llaeſu 'th ſlinder,
A'i te 'th gymmer i eſmwythder.

C A N CXXIII. *Ymddiddanion cyſſyrus rhwng y claſ duwiol a'i enaid yn erbyn ofn Angau.*

O F Y Enaid pa'm yr ofni,
Fyn'd at GRIST a ſu 'n dy brynu,
Ac a gollodd waed ei Galon,
I'th ryddhau o law d' elynion.

Pam

* *Ni ddychon y dyn diras ddywedyd fel hyn wrthei enaid, o herwydd os bydd efe marw yn ei bechod heb ffydd ac edifeirwch, ni bhaiff efe fynd i'r nefoedd.*

2 * Pa'm yr ofni fyn'd i'r nefoedd,
Lle mae CRIST yr hwn a'th brynodd,
A'th Dâd nefol a'r glan Yſpryd,
A'r holl Sainct mewn braint a bywyd?

3 Mae fy mlaen i yno eiſiwys,
A'm Iachawdwr 'r hwn a'm prynwys:
Criſt tynn finne d' aelod attad,
Er anhawſed gennif ddwad.

4 O! fy enaid cwyn dy galon,
Pa'm yr ofni mor echryſlon?
Gwel Fâb *Duw* a'i waed a'i weli
A dynnodd ffwrdd oedd raid itt' ofni.

1 Cor. 6. 9. 10.

5 Oh! ſy enaid gwel dy Brynwr,
Gwel dy Geidwad a'th Iachawdwr,
Gwel dy bardwn gwel dy Artre,
Gwel y nef a'r hwn a'th bie.

6 Oh! nac edrych ar dy bechod,
Gwel yt Oen a laddwyd drofod:
Ac nag ofna wedd y Barnwr,
CRIST y Mab yw dy ddadleuwr.

1 Jo. 2. 1.

7 Ac na ofna 'r Angau melyn,
CRIST a dynodd ffwrdd ei golyn,
Ni all Angau ond dy ſymmyd.
O'r byd hwn i dir y bywyd.

1 Cor. 15. 56. 57.

8 Nac arſwyda rythrau Satan,
Gwel Angelion Duw i'th § waetan,
A *Chriſt Ieſu* â ſaith llygad,
Ddydd a nos bob awr i'th wiliad.

Luc, 16. 22. § *Ddiſgwyl wrthyd.*

9 Ac na ofna 'r Bedd llydylyd,
Gwely CRIST yw hwn f' anwylyd,
Y mae 'r Prynwr gwedi dwymo,
I bob Criſtion nes cyfotto.

10 Na wna bris o uffern boenau.
Gwel gan bwy y mae 'r agoriadau,

Gan

Gan dy *Grift* y mae cadwriaeth
Allwedd uffern a marwolaeth. Dat. 1. 18.

11 O! gan hynny cwyn dy galon,
Pa'm i'r ofni mor echryflon?
Gwel Fab *Duw* a'i waed a'i || weli, || *Clwyf*
Fe dynnodd ffwrdd oedd raid itt' ofni.

12 Cymmer gyffur cwyn d' olygon,
Dring uwchlaw pob daiarolion;
Gwel y nef a brynwyd itti,
A'r 'difeddiaeth fydd itt' ynddi.

13 Gwel dy orledd, gwel dy goron, 2 Tim. 4. 8.
Gwel dy ‡ balme, a'th wifgoedd gwynion Dat. 7. 9.
Rhai a brynodd Mâb Duw itti, ‡ *Palmwydd i arwyddocau buddugoliaeth.*
Fry yn nheyrnas y gôleuni.

14 Gwel dy *Grift* a'i holl Angelion,
Gwel y Sainct a'r holl rai cyfion,
Yn dy ddifgwil ddyfod atyn,
Ac yn barod bawb i'th dderbyn.

15 Gwel dy Delyn gwel dy § feiol, § *Math o offeryn cerdd.*
Gwel dy wers a'th ganaid nefol, Dat. 15. 2.
Fry yn difgwyl fyn'd i ganu,
I'th lachawdwr am dy brynu.

16 Llef gan hynny am ymddattod,
I gael myn'd at GRIST dy briod, Phil. 1. 2. 3.
O garchardu 'r corph a lygrwys,
I gael trigo ym Mharadwys.

17 Lle mae Duw a'i holl Angelion,
Crift, a'i Sainct a'i Apoftolion,
Mewn Gogoniant a Rhialtwch,
Yn teyrnafu mewn dedwyddwch.

18 Nid oes yno ddim anghyfur,
Poen, na chlefyd cwrp na dolur,
Na marwolaeth na dim triftwch,
Ond llawenydd a dedwyddwch. Dat. 21. 4.

19 Oh! hiraetha am gael hedfan,
I'r wlad lawen fry yn fuan,
At dy Brynwr CRIST, a'th Briod,
Mae dy neithor ynddi 'n barod.

20 O fy enaid meddwl dithau,
Am ymdrwſſio yn dy dlyſau,
I fyn'd o flaen CRIST yn addas,
Yng ngwiſg Sanctaidd y briodas.

Zech. 13. 1. † *Gwaed Criſt yn unig ſydd yn glanhau dyn oddiwrth ei bechod; ond neb yn cael lleſ ad oddiwrth ei waed ef ond y ſawl ſydd yn credu yntbo.*

21 Golch dy hun yn ffynnon *Dafydd*,
† Gwaed yr Oen, a deigreu cyſtydd;
Ymlânha mewn gwir ddifeirwch,
Ffydd yn *Nghriſt*, gwiriondeb heddwch.

§ *dy ddwyfron* Mat. 15.

22 Gwiſg Sancteiddrwydd CRIST am danad
A'i gyfiawnder yn lle trwſiad;
Pleth dy wallt mewn gras a gobaith,
Hardda 'th § freſt â chariad perffaith.

‡ *Heppian.*

23 Cais dy Lamp a 'nynn dy Ganwyll,
Dwg i'th luſern olew di-dwyll:
Gwilia, Gwarchod a Gweddia,
Nes del *Criſt*, na chwſc, na ‡ ſlwmbra.

24 Deffro diſgwyl am dy briod,
Llef am dano nes ei ddyfod;
Fel yr hydd na orphwys frefad,
Nes del *Criſt* dy briod attad.

25 Dywaid wrtho, dere weithian,
Dere Arglwydd, dere 'n fuan,
Dere *Ieſu Criſt* fy Nghariad,
Dere tynn fy enaid attad.

† *O's credadyn edifeiriol wyt ti di e li yn byderus offrwm dy enaid i ddwylo Criſt; can's ſe a'i derbyn* Act. 7. 59. Luc. 23. 43.

26 † I'th ddwy ddwylo Arglwydd hyfryd,
Yr wi 'n brudd yn offrwm f' yſpryd,
Can's ti prynaiſt DUW, 'r gwirionedd,
Dwg ef weithian i'th drugaredd.

CANCXXIV. *Ymddiddan arall rhwng y claf duwiol a'i enaid am ofni marwolaeth.*

OFY Enaid dywaid immi,
Mewn pryſurdeb, pa'm yr ofni,
Fyn'd at GRIST a'i wir Angelion,
O'r byd brwnt a'i holl drallodion.

2 Toſt a thrwm yw gorſod gadael
Gwraig a phlant a ffryns a chenel,
Tai a Thir, a Da, a dodreſn,
Heb eu gweled mwy drachefen.

3 Oſ' anwylyd cymmer gyſur,
Di gae olud mewn mwy meſſur,
Surach ffryns a gwell cyſoillion,
Gyda CHRIST a'i wir Angelion.

4 O's dy blant a ofna 'r Arglwydd,
A'i waſanaethu mewn Sanctaiddrwydd,
Di gae wel'd dy blant drachefen,
Mewn Gogoniant yn dra llawen.

5 Yn lle ffryns a mwyn gyſoillion,
Di gae 'r Sanct a'r holl Angelion,
I'th fawrhau a'th gywir garu,
A'th blant eilchwaith i'th ddiddanu.

6 Gad dy wraig a'th blant a'th bobol,
I gadwriaeth dy Dâd nefol,
† Rhwyſcwy 'r weddw Tâd ymddifad,
Yw 'r Goruchaf wrth ei alwad.

† Cynhaliwr Sal. 146. 5.

7 Na wna bris am dan dy olud,
Nac o'r ddoderſn wael ſydd gennyd:
Mae 'n y nef fwy ar dy ſeder
Nag a ſeddodd ‡ *Alexander*.

‡ Yr hwn orchfygodd ac a ſeddianodd rhan fawr o'r byd.

8 Na wna bris o'th neuadd lwydlas,
Mae 'n y Nefoedd dai o § *Dopas*,
Gwedi i *Dduw* o berls eu gwneuthur,
Yn diſclirio fel y gwydyr.

§ Mae i gwerthfawr,

9 Na hiraetha am dy diroedd,
Na 'th Berllannau na 'th Winllannoedd,
Mae 'Mharadwys dir ſydd deccach,
Ffrwyth ſydd well a gardd araulach.

10 Na wna gownt am Aur nag Arian,
Dat. 22. Mae 'n y nefoedd Aur i'w damſian,
Perls a Gemmau 'n gweithio 'r gwelydd:
Aur yn pafio 'r holl heolydd.

11 Na wna bris am un o'th ſwydde,
Dat. 1. 6. Mae 'n y nefoedd fwy o radde:
Y mae 'r gwaetha ſ'ynddi 'n 'ſteiriad
Ac yn frenhin mawr ei alwad.

12 Na wna bris am ddillad gwychion,
Dat. 19. 8. Mae 'Mharadwys wiſgoedd gwynion,
Mat. 13. 43 Yn diſgleirio ar dy gefen,
Mewn gogoniant fel yr haul-wenn.

Dat. 22. 13 Na wna bris o'th fwyd newynllyd,
‡ Dwfr y bywyd. Mae 'mharadwys bren y bywyd;
Manna yn fwyd *'qua-vite* ‡ 'n ddiod,
Gwledd heb ddiwedd oes heb ddarfod.

14 Na wna bris am ddim difyrrwch,
'R hwn ſydd ymma 'n blaenu triſtwch:
Sal. 16. 11. Mae 'n y Nefoedd wir lawenydd,
Sydd yn para yn dragywydd.

15 Na wna gownt o ddim ſydd gennyd,
Ond ymgweiria am dy fywyd,
Mat. 25. 21. Fyn'd yn rhwydd trwy lawn barodrwydd,
I lawenydd CRIST dy Arglwydd:

16 Lle mae mwy o wir eſmwythder,
A dedwyddwch ar dy feder,
Cor. 2. 5. Nag all calon dyn chwenychu,
Nac un tafod ei ſynegu.

17 Dôs gan hynny dôs yn llawen,
Dôs at GRIST, dy ben, dy berchen,

Gad

Gado 'r byd a'r maint ſydd yntho,
Mam a Thâd i fyned atto.

18 Yn lle 'r pethau darfodedig,
A ge'iſt ymma gantho eu benthig,
Di gae bethau na ddarfyddant, 1 Pet, 1. 4.
I'w meddiannu mewn gogoniant.

19 Di gae iechyd heb ddim nychdod,
Ac eſmwythder heb ddim trallod,
Gwir lawenydd heb ddim triſtwch,
Oes heb ddiwedd mewn dedwyddwch.

20 Ni chaiff clwyf, na haint na dolur,
Newyn, ſyched, nac anghyſur,
Trallodd, Triſtwch, ochain, wylo,
Nag un gelyn mwy dy ſlino. Dat. 21. 4.

21 Di gae fyw mewn mawr lawenydd,
A dedwyddwch yn dragywydd,
Ym-mlith miloedd o Angelion,
I foliannu d' Arglwydd tirion.

22 Di gei eiſte mewn ‡ Cor-auraid, † Mintai o gantorion.
I glodfori yr Oen bendigaid, Dat. 19. 1.
Ac i ganu *Aleluja*,
Yn dragywydd i'r Gorucha.

23 Pwy gan hynny na 'madawe,
A'r byd hwn, a'i boen, a'i bethe,
I fynd at ei Brynwr heddu,
O b'ac 'r Arglwdd yn cennadu?

24 Duw agoro dy ddau lygad,
I weld Teyrnas CRIST dy Geidwad,
Duw ro ei Yſpryd i'th gyfrwyddo,
Ymbaratoi i fyned atto.

CAN

CAN CXXV. *Agoriad byrr yn erbyn ofn Angau: A'r daioni ſydd yn dyfod oddiwrth dduwiol farwolaeth.*

OH! na wyddei dyn pa ddoniau,
Sydd yn dyfod oddiwrth Angau.
Byth nid ofnei o'i ddyfodiad;
Ond fe lefei am ei ddwad.

2 Y mae Angau 'n gwneuthur diwedd,
Ar ein cyſtydd, a'n hanwiredd:
Ac yn dwyn o Fôr trafferthwch,
Ddyn i'r Porthladd o ddedwyddwch.

3 Y mae Angau 'n tannu 'n gwely,
Gwedi 'n trafferth inni gyſcu;
Ac yn rhoddi mawr eſmwythder,
Gwedi 'r trallod toſt a'r blinder.

4 Y mae Angau 'n claddu 'n beiau,
Ein clefydion a'n doluriau,
Fel na ddichon pechod mwyach,
Nac un clefyd flino 'mhellach.

5 Y mae Angau 'n tynnu 'r cyfiion,
Eſa, 15.1.2, Lawer pryd rhag gweld trallodion
A ddigwydda yn dra rhigil
Ar eu gwlad ac ar eu heppil.

6 Mae e'n tynnu rhai gwirionaid,
Sydd yn myſg câs bechaduriaid,
Rhag i'r reai'ny, eu hudo i bechu,
Ac i weithio 'r peth nas dyly.

7 Y mae Angau 'n dioſg dynion,
O'u hen frattiau ſarnllyd brwnton,
I ddillattu 'r rhai'n yn helaeth,
Heb. 12.23. Mewn hardd wiſgoedd iechawdwriaeth.

8 Mae 'n rhyddhau yr enaid hyfryd,
O'r carchardy tywyll tomlyd,

I gael gweld goleuni 'r Arglwydd,
A'i wasanaethu mewn Perfeiddrwydd.

9 Y mae Angau toc yn dattod,
Enaid o'r corph caeth i bechod,
Ac heb aros yn cyfylltu,
Hwn a'i briod mawr CRIST IESU. Phil. 1 23.

10 Y mae Angau yn tynnu dynion,
I'r Nef oleu at Angelion, 2 Cor. 5. 1.
O'u ty candryll fydd 'ys dyddie,
Ym-mron cwympo ar eu penne.

11 Mae e'n tynnu maes o *Sodom*,
I'r mynydd-dir rhag y ‡ Storom, † Tymeſtl.
Ac yn myn'd o'r *Aipht* i *Ganaan*
A'r rhai duwiol yn ddi ofan.

12 Y mae Angau 'n tynnu dynion,
O'r byd hwn i gael y Goron 2 T▪ 4.
A bwrcaſſodd CRIST trwy Angau, 6. 8.
I'r rhai ffyddlon a'i gwaſ'naethau.

13 Y mae 'n tynnu dyn o'i ofyd,
A'i drueni a'i driſt fywyd,
I ogoniant ac hyfrydwch,
I gael byw mewn gwir ddedwyddwch.

14 Pwy gan hynny ofnei Angeu,
Sydd yn helpu dyn mor ddeheu,
I fyn'd allan o bob trallod,
A'i droſglwyddo i lys y Drindod.

15 Gad i'r ‡ pagans di rinweddau, § Digred.
Gad i'r *Twrcod* ofni Angau;
Ond nac ofned un gwir Griſtion,
Fy'nd trwy Angau i gael ei Goron.

CAN CXXVI. *Mawr-glod ddydd Marwolaeth y cyfiawn.*

DYDD ein † *Jubil* a'n gollyndod, † Jubili oedd bob degfed
Dydd ein rhydd-did o bob trallod

Dydd ſy'n gollwng ein heneidiau,
O'r carchardy yw dydd Angau.

2 Dydd ein Neithor a'n Priodas
A CHRIST IESU 'r gwir *Feſſias*,
Dydd ein gwledd a'n * coronaſiwn,
Yw 'n dydd diwedd o's yſtyriwn.

3 Dydd ſy'n gorphen ar ein gyrfa,
Dydd ſy'n tynnu o gyſyngdra,
Dydd ſy'n talu ein Cyſloge,
Dydd y gol yw dydd hein Hangau.

4 Dydd y'n derbyn i Baradwys,
At Fâb Duw yr hwn a'n prynwys:
Dydd ſy'n rhoddi 'r Gŵn a'r Goron,
Yw dydd Angau i bob Criſtion.

ſlwyddyn a deugain yn y ſlwyddyn honno, yr oedd tiri oedd yr Iſraeliaid a wyſtlwyd yn dyfod yn rhydd i'r perchenogion; Ac hwyntau eu hunain yn dyfod allan yn rhyddion oddi tan ddwylo eu meiſtred. Lev. 25.

* Dydd i gael y goron

CAN CXXVII. *Gweddi yn cyfarwydd 'r claf am y pethau rheitaf i'w ceiſio ac i ſyfyrio arnynt mewn cleſyd.*

DUW 'r diddanwch llaeſa mlinder,
Tâd toſturi, rho imi 'ſmwythder,
Meddyg pob clwyf, lacha nolur,
Ieſu Mâb *Duw*, rho i'm gyſſur.

2 Tynn fi o dywyll deyrnas ſatan,
Ac o bob dallineb allan,
Fel y gallwi weld fy mhechod,
A llonyddu fy Nghydwybod.

Act. 26. 18.

3 Gwna fel *Dafydd* i'm † repento,
Gwna fel *Magdlen* i mi wylo,
Gwna fel *Ninif* i'm gydnabod,
A 'mofydio am fy mhechod.

† Edifaru. Sal. 51. Jonan 3.

4 Gwna 'mi geiſio ‡ pardwn gennyd
Fel *Manaſſes* yn ei ofyd;
Ac ymbilio am drugaredd,
Megis *Peder*, am anwiredd.

‡ Maddeuant. a Cron. 33. 12.

Gr

5 Gwna 'mi gredu fod i'm bardwn, Ephſ. 1. 7.
Gwedi ſelu â gwaed dy || baſſiwn; || *Dioddefaint.*
A bod ſ' enaid gwedi olchi,
Yn dy waed oddiwrth ei frynti.

6 Gwna fi hefyd yn ddioddefgar,
Dan fy nolur megis *Lazar*,
A rhoi arnat ti fy hyder,
Megis *Job* er maint fy mlinder. Job. 13. 15

7 Gwna 'mi geiſio ymwared gennyd,
O'm trallodion ac o'm clefyd,
Fel *Elias* o'i flindere, 1 Bren. 19.
Modd y gwelech fod yn ore. 4.

8 Gwna mi megis *Hezekias*,
Droi 'r byd heibio, a'i berthynas,
A throi fy wyneb at y pared, Eſa. 38. 2.
I roi *ynNghriſt* fy holl ymddiried.

9 Gwna im' feddwl am y cyfri, Rhuf. 14. 12.
Ddydd y farn ſydd raid im' roddi, Mat. 12. 36.
Am y gwaith a'r geiriau ofer,
Oni cheiſiaf ras mewn amſer.

10 Gwa im' wrando ar y 'fengyl,
A'th † bromiſion ynddi 'n rhygil; † *Addewidion*
Gwna im' ddala gafel ffyddlon,
Ar d' addewid a'th bromeiſion.

11 Gwna im' feddwl am y bywyd,
Yr af iddo ar fyrr ennyd,
Lle mae Saboth o eſmwythder,
Heb na chur na phoen na blinder.

12 Gwna im' wadu 'r byd twyllodrus,
A'i holl wagedd anwireddus;
Ac ymg'weirio ddwad attad,
Yn ddiaros anwyl Geidwad.

13 Gwna im' offrwm heb ddiffygio,
Gorph ac enaid i dy ddwyło,

Ac ymbilio hyd y diwedd,
Am dy ſtafar a'th drugaredd.

CAN CXXVIII. *Diddanwch rhagorol i'r Enaid Alarus yn erbyn gwan-obaith.*

O FY Enaid pa'm yr ofni
Faint dy bechod, o's 'difari?
Lle bu 'r *Ieſu* fawr droſod,
I'th ryddhau oddiwrth dy bechod.

2 Pa'm yr hofni farn y Barnwr?
Criſt yw 'th Dwrneu a'th Ddadleuwr,
Mâb y Uſtys trwy ſarwolaeth,
A'th ryddhaeodd o ddamnedigaeth.

Jo. 3. 18. § *Ant:* 3 Ni chondemnir yn dragwyddol,
Un a gretto i GRIST yn fywiol:
Ond hwy § baſſant wrth eu ſymmyd,
O farwolaeth i wir fywyd.

Rhuf. 8. 33. 34. 4 O fy enaid ymlonydda,
Dy DDUW gratiol a'th gyfiawna;
Mae CRIST droſſot gwedi i hoelio,
Pwy all bellach dy gondemnio?

Eſa. 1: 18. 5 CRIST a'i waed a ylch dy bechod,
Ac a'th wna mor wynn a'r manod:
Er dy fod mor goch a'r ſcarled.
CRIST a'th ylch mor wynn a'r foled.

6 Yr haul a § rwylla 'r cwmmwl tewa,
Sebon ylch y dillad brynta:
Rhinwedd CRIST a gudd dy frynti,
Ei waed a'th ylch mor wynn a'r lili!

7 DUW faddeuodd bechod *Peder*,
Rhyfig *Dafydd* a'r Mâb ofer,
Rhwyf *Manaſſes* a'i holl feie,
DUW a fadde 'th bechod ‡ dithe.

Cymmer

8 Cymmer gyſur cwyn dy galon,
Lladdwyd Mâb Duw ar yr hoelion
Am dy bechod a'th gamwedde,
Er ei ſwyn di gei eu madde.

CAN CXXIX. *Gweddi brudd am ſaddeuant pechodau.*

O FY Nuw yr hwn a'm creaiſt,
O fyng Heidwad 'r hwn a'm prynaiſt,
O'r Glan Yſpryd; o'r gwir Ddrindod,
Cadw f' enaid, maddeu, mhechod.

2 Er mwyn *Ieſu* 'r hwn a'm prynodd,
Ac ym-mhob peth a'th foddlonodd,
Madde imi oll a chwbwl,
A'r a wnaethoi maes o'th feddwl.

3 Golch a'i waed ſy mai a'm mrynti,
Cladd fy mhechod yn ei * weli:
Cudd fyng wradwydd a'i gyfiawnder,
Madde im' fy holl ddiffeithder.

* *Clwyf.*

4 Gwiſg fy enaid o gylch gwmpas,
A gwiſg Sanctaidd y briodas,
Gwna fi 'n barod ddyfod attad,
O fy *Nghriſt* mewn gweddus drwſſiad.

5 Dod d' Angelion i'm caſtellu,
Na'd i ſatan fy ngorchfygu,
Cadw f' enaid yn dy ddwylo,
Na'd o Grist i'r Llew fy llarpio.

6 Pan y delw i'r * Barr i atteb,
Ger dy fron am f' anuwioldeb,
Gwared f' enaid er mwyn *Ieſu*,
Na ro imi 'r farn wi 'n haeddu.

* O flaen yr orſedd faingc

7 Cymmer Angau Crist a'i 'fydd-dod,
Yn iawn itti am fy mhechod:

Fe gondemnwyd am fy meie,
Er ei fwyn na ddamna finne.

† *Uffern:* Rhuf. 6. 23.

8 Haeddais Angau, haeddais † dopheth,
Haeddais farn rhagrithwr diffeth,
Duw na ddyro 'r hyn wi 'n haeddu,
Rho imi 'r hyn a haeddodd *Ieſu.*

9 Fe gyflawnodd droſſwi 'r gyfraith,
Fe 'th foddlonodd droſſwi 'n berffaith,
Fe groeſ-hoeliwyd am fy mrynti,
Er ei fwyn rho bardwn immi.

10 Nid oes genni, ddim Sancteiddrwydd,
Na chyfiawnder na pherffeiddrwydd,
Nac ymwared, iawn, na ſwccwr,
Ond ſydd gennyd CRIST ty Mhrynwr.

11 CRIST yw 'nghomffordd, *Criſt* yw 'ngyſur
CRIST yw 'ngobaith yn fy ngwaywyr,
Criſt yw f' helpwr ar awr Angau,
Criſt yw 'Ngheidwad ddydd dïalau.

12 Fe fu farw yn anhyfryd,
Er pwrcaſſu immi fywyd:
Er yr Ange a ddioddefwys,
Duw dwg f' enaid i baradwys.

CAN CXXX. *Gweddiau byrron i'r claſ i'w harferud fel y b'o achos*

DUW rho gluſt i wrando 'ngweddi,
Duw rho d' Yſpryd i'm comfforddi,
Am eſmwythder. Duw rho olwg ar fy nolur,
A'th law raſol llaeſa 'ngwaywyr.

Amfaddeuant

2 Oen Duw maddeu im' fy mhechod,
Sela bardwn i'm cydwybod,
* *Clwyf.* Cladd fy meiau yn dy ‡ weli,
Na'd hwy eilchwaith adgyfodi.

3 'R wi fi 'n ofni dy gyfiawnder, *Am Ddiddanwch.*
R'wi 'n brawychu rhag dy ddigter:
R'wi 'n fy marnu am fy mhechod;
Duw diddana fy nghydwybod.

4 Dod o *Grift* dy Angau gwirion, *Am Ddoniau Crift a'i gymmorth.*
Rhyngwyfi a'th farn echryflon;
Dod dy fydd-dod rhwng cyfiawnder
Dy Dâd cyfiawn, a'm diffeithder.

5 *Crift* a'th waed gwna heddwch etto, *Am gymmod.*
Rhyngwi a'th Dâd fydd gwedi digio,
A'th waed diffodd ei ddigofaint,
Fel na byddo mlinder cymmaint. *Am gyfnerth.*

6 Egwan wyf, o *Crift* cryfhâ fi,
Gwann a chlaf, fy *Nuw* iachâ fi,
Trwm a thrift, ac ofnus ddigon,
Crytha fy ffydd, a chwyn fy nghalon.

7 *Duw* 'r diddanwch llaefa 'm mlinder, *Am gyffur.*
Tâd toffuri rho im' 'fmwythder:
Meddyg pob clwyf iacha nolur,
Iefu Mâd *Duw*, rho im' gyffur.

8 Llaefa 'm mlinder, dofa nolur, Am *hawfhad*
Gwel fy mhoen, a thor fy ngwaywyr,
Trefna niwedd, penna 'n nrhalloc,
Dwg fi attad, rwi 'n dy warchod.

9 O fy *Nghrift* cerydda fatan, *Am nerth yfprydol.*
Cadw f' enaid rhag ei fafan,
Cynnal fi a'th hael-wych Yfpryd,
Dwg fi atat i'r gwir fywyd.

10 OEN *Duw* maddeu im' fy mhechod, Am *drugaredd.*
OEN *Duw* pura fy nghydwybod,
OEN *Duw* gwilia ar fy niwedd,
OEN *Duw* derbyn fi 'th drugaredd.

11 Dywaid Argwlydd wrth fy enaid,
Itt' bwrcafu 'r nef fendigaid, Am *wir grediniaeth.*

A'th

A'th waed gwerthfawr trwy fawr boenau,
I rhoi immi gwedi Angau.

Am *Nefol addewid.*

12 Dywaid Arglwydd wrth fy enaid,
Dywaid Arglwydd, dywaid, dywaid
Heddyw cei di 'n gynnar orphwys,
Gyda mi yngwlad paradwys.

Am *Gadwriaeth.*

13 *Criſt* fy mugail cadw f' enaid,
Na'd i'r Llew o'th law ei ſcliffiaid:
Tydi 'm prynaiſt yn ddryd ddigon,
Dwg fi i'r Nefoedd at d' Angelion.

Am *dderbyniad ei enaid.*

14 Derbyn f' enaid anwyl Geidwad,
Derbyn f' enaid weithian attad,
Digon bellach o'r farh ddyddiau,
Nid wi gwell na rheſt o'm Tadau.

Am *Dduwiol madawiad.*

15 Rwi 'n gwllyſſio cael fy nattod,
A d'od attad, *Criſt* fy mhriod,
Tynn fi weithian Arglwydd *Ieſu*,
O's yw 'th 'wllys yn cenhadu.

Am *gadw ei yſpryd.*

16 I'th ddwy ddwylo Arglwydd hyfryd,
Yr wi 'n brudd yn offrwm f' yſpryd,
Na'd ym mhwer neb ei ſcliffio,
Na' i ddwyn mwyach byth o'th ddwylo.

CAN CXXXI. *Gweddi i'r claf yn erbyn Rhythrau Satan.*

CRIST fy Mugail cadw f' enaid,
Na'd i'r Llew o'th law ei ſcliffiaid
'R hwn fy'n ceiſio fy ngorchfygu,
Yn fy ngwendid, a'm traflygu.

Dat. 2. 10, || *Dyſod i ddiwedd yr yrfa.*

2 Dymma 'r pryd y cais ef drecha,
Fyn'd a'r Gol pan byddwi gwanna;
Nertha 'ngwendid Arglwydd cyfion,
Gadw 'r || Gol rhag colli 'r Goron.

Dod

3 Dod dy Yſpryd yn fy nghalon,
Dod o bob-tu 'm dy Angelion,
Dod d' arfogaeth oll am danaf,
Na'd i'r Gelyn gael y trechaf.

4 Nertha fi ddiweddu 'ngyrfa,
Gwna f' awr ore 'r awr ddiwedda:
Arnad Arglwydd mae fy hyder,
Derbyn f' enaid i'th eſmwythder.

CAN CXXXII. *Gweddi ſerr i'r claſ duwiol i'w harferu ar yr awr ddiweddaf.*

NAWR o Arglwydd y gollyngu
Fi mewn heddwch o'm carchardu,
Gwna i'm llygaid cyn marwolaeth,
Weld dy nerthol iechawdwriaeth.

2 Daeth y dydd a'r awr a roddaiſt,
Daeth yr amſer a derfynnaiſt,
Daeth y Tymmor, daeth y Terfyn,
Nid oes lle im' fyned troſtyn.

3 Y mae 'ngyrfa ar ei gorphen,
A'm dydd diwedd ar ei ddiben,
Y mae 'r terfyn gwedi dwad;
Arglwydd derbyn f' enaid attad.

4 Megis *Stephan* 'r wyfi 'n d'wedyd,
Arglwydd *Ieſu* derbyn f' yſpryd,
Dere Arglwydd, dere 'n fuan, Act. 7. 59.
Cymmer fi i'th drugaredd weithian.

CAN CXXXIII. *Myfyrdod ar fywyd ac Angau.*

PA gynta bytho marw Criſtion,
Cynta derbyn hwnnw ei Goron:

Pa

Pa hwya bytho Criſtion byw,
Hwya bydd heb weled *Duw*.

2 Pa hwya byddo dyn heb farw,
Mwya fydd gofynion hwnnw:
Pa gynta tynner dyn o'i wegi,
Lleia gyd a fydd ei gyfri.

CAN CXXXIV. *Toſt gyflwr y dyn Annuwiol gwedi marw.*

GW ŷr a gwragedd, Meibion, Merched
Dewch y nes, rhowch gluſt i glywed,
Cwyn a chyngor hen ofer-ddyn,
Sydd yn gorwedd dan y Brethyn.

2 Mi fum gynt fel yr 'ych chwithau,
§*Ceraint.* Yn fawr fy nwyf ym-mlith ſy §nrhaſſau,
'Nawr heb nwyf, yn noeth, yn iſſel,
'Rwyfi 'n gorwedd dan y treſtel.

3 Pan oedd fwya 'mryd at faſwedd,
Lleia meddwl am fy niwedd,
Fe ddaeth Angau glas heb wybod,
Ac a roes im' farwol ddyrnod.

4 Pan yr oedd y byd yn gwenu,
* *Marſiande b.* A phob * Margain genni 'n ffynnu,
Fel y ia fe dorrodd dana
Ac a'm tres yn noeth i'r gladdfa.

5 Pan yr oedd fy nghorph yn iachus,
A phob aelod genni 'n rymmus,
Fel ſten bridd fe aeth yn ddrefion,
Pan ddaeth Angeu at fy nghalon.

6 Gynt 'roedd genni Aur ac Arian,
Tai a Thir a chyfoeth llydan:
'N awr ni feddaf a'r un Beni,
O'r holl olud gynne oedd genni.

Gynt

7 Gynt 'r oedd gennyf geraint ddigon,
Gwraig a phlant, a Ffryns, a Gweiſion,
'N awr 'does neb ond Angau melyn,
Y ddaw attaf dan y Brethyn.

8 Mi gawn lawer gynt i'm helpu,
Ym-mhob ffordd y bawn yn pechu,
Ni ddaw un yn awr i atteb,
Gyda mi am ſy ffolineb.

9 Y peth a ddaeth i mi mor ſceler,
Y ddaw i chwithe bawb ar fyrder:
Byddwch barod cyn del Angau,
Ni chewch rybydd mwy na minnau.

10 Y mae CRIST a'i weinidogion,
Yn rhoi rhybydd i chwi ddigon:
Llawer mîl ſy'n myn'd i boeni,
Eiſie gwrando llais y rhei'ny.

11 Y mae llawer rhyw o bechod,
Yn dolurio ſy 'nghydwybod:
Nid oes un yn lladd mor rhigyl
A dibriſſio geiriau 'r 'fengyl.

12 Mi fum benfaſt a gwar-galed,
Ni wnawn bris o'r gair er cyſtled:
Dweded CRIST a'i wŷr ei ‡ piniwn,
Ni wnawn inne ond a fynnwn.

‡ *Meddwl.*

13 Gwell oedd genni wrando cyngor
Grach dafarnwr nag un † Doctor;
Er bod hwnnw i'm cyfrwyddo,
A'r Tafarnwr yn f' anrheithio.

† *Dyſgawdwr.*

14 Gwell oedd genni awr yn llawen,
Yn y Tafarn gyda merſen,
Na diwrnod yn y demel,
Gyda CHRIST a'i anwyl genel,

5 Gwell oedd genni gas gyfeillach,
Môch a meddwon mewn Tafarnach,

Na chyfeillach plant goleuni;
'Nawr mae yn edifar genni.

16 Gwell oedd genni wenydd aflan,
Na's parae ond ennyd fechan,
Na gofoledd teyrnas Nefoedd,
Sydd yn para yn oes oefoedd.

17 Gwell oedd genni bridd a cherrig,
Pres, a phlwm, a moch, a cheffig,
Na pharadwys a'i Hangelion,
Na 'r Duw mawr a'i holl fendithion.

18 Gwell oedd genni 'r cnawd na 'r enaid,
Y drwg, na'r da, y moch na'r defaid,
Y byd, na'r Nef, y cam na'r cymmwys,
A'r nos, na'r dydd, a'r gell, na'r Eglwys.

19 'N awr mae 'n 'difar gan fy 'nghalon,
Fy mod mor ffol, mor ddall mor ffinion,
A phob modfedd fydd yn crynu,
'N awr wrth fyn'd i'r Barr i'm Barnu.

‡ O flaen yr orfedd faingc

20 Y mae 'nghorph yn myn'd i bydru,
I'r bedd am fy ngwaith yn pechu;
Am henaid trift yn myn'd i atteb,
O flaen Duw am bob ffolineb.

21 'N awr mi glywa *Grift* yn galw,
Rhaid i'm atteb wrth fy enw;
F' orfudd myn'd i wneuthur cyfri,
Er anhawfed ydyw genni

22 O! pa filoedd o bechode,
Y mae nghydwybod yn eu hadde'?
Y rhai wnaethym mor ddiofon,
Gynt yn erbyn Duw a dynion.

23 O! pa rol fydd gan fy ngelyn,
Cyd a'r *Dwyrain* a'r *Gorllewin*,
Yn cyhuddo ac yn traethu,
Y mann a'r modd y bum yn pechu.

O!

24 O! pwy glywai yn eyhuddo,
Ond y diawl y fu 'n fy hudo,
Gynt y bechu yn y dirgel:
Gwae wrandawo ar y cythrel.

25 Nid oes pechod ac o wnaethym
Er yn blentyn, na bo 'n awchlym,
Yn ei daflu yn fy nannedd,
Gwae fi gynddrwg y fy muchedd.

26 Mae ê 'n achwyn mor ‡ddibrofit
Gydt treiliais fy holl ieuengctid,
Mewn oferedd a phibiaeth,
Heb ddduwioldeb na chriſtnogaeth.

‡ *Dilys.*

27 Mae ê 'n †claimio mai fe 'm pie,
Waith fy ennill fil o weithie,
Yn fy ieuengctid, ac na ddichon,
Duw roi iddo lai na'i gyfion.

†‡ *Dywedyd.*

28 Mae ê 'n dangos pob ffolineb,
Ag a wnaethoi mewn gwroldeb,
A'm holl fedd-dod a'm holl ryfyg,
A m trachwante cas llygredig.

29 Mae e'n dangos fy nigofaint,
A'm holl gintach yn fy henaint,
A'm cybydd-dod, a'm hanwiredd,
A'm di'mdawrwydd am fy niwedd.

30 Mae e'n taeru led ei lafan,
Iddo f' ennill ym-mhob oedran:
A mod inne er yn fachgen,
Yn ei wſ'naethu yn dra llawen.

31 Mae e'n pledo yn ddigwilydd,
Wrth y Gyfraith a'r Efengyl,
Mae fe 'm pie eifie credu,
Gwella 'muchedd a 'difaru.

32 A lle tibiais trwy anwybod,
I Grist farw dros fy mhechod,

Ac na chaffe 'r cythrael feddu,
Ar y ſawl na bae 'n ei wadu.

33 Y mae 'r cythrael ynte 'n pledo,
Na thal ſôn am hynny wrtho;
Can's ni cheidw CRIST un Criſtion,
Ond a gretto ynddo 'n ffyddlon.

34 Y mae 'r Diawl d'wedyd eilwaith,
Nad oedd genni ffydd na gobaith,
Na 'difeirwch na gwell amcan,
Nag oedd gan y *Twrc* a'r pagan.

35 Mae e'n pledo ac yn taeru,
2 Cor. 5. 17 Nad oes immi nel a'r *Ieſu*,
Eiſie gwrand ei leſerydd,
A bod yn greadur newydd.

36 Er i mi gael enw Criſtion,
A'm bedyddio gyda 'r ffyddlon,
Etto nid oedd well fy 'nghrefydd,
Medd y diawl, na dyn di-fedydd.

37 Mae e'n dywedyd rwi 'n ei glywed,
Nad oedd gwell fy ffydd am gweithred,
Na 'm ymddygiad a'm harferion,
|| *Un nad yw 'n preſſeſu Criſtnogaeth.* Na rhyw || *ethnic* anobeithlon.

38 Mae e'n dwedyd na ddilynais,
Air o'r 'fengyl wenn a glywais,
Mwy na 'r *Iddew* na's ca's etto
Râs i'w dilyn na'i chofleidio.

39 Mae e'n d'wedyd wrth *Dduw* 'n amlwg,
Y rhy gennad dorri ei wddwg,
O's adroddai iddo yn rhigyl,
Bedwar gair o'r holl efengyl,

40 Mae yn galw Duw ei hunan,
A'i Angelion fawr a bychan,
Yn dyſtiolaeth nad yw 'n d'wedyd,
Ond gwirionedd ar fy mywyd.

Mae

41 Mae fy || nghonſiens drom dan chwyſu, || *Cydwybod*
Gyda 'r diawl yn tyſtiolaethu,
Ac yn d'wedyd mewn gwirionedd,
Felly 'n uniawn y bu 'muchedd.

42 Mae 'n d'wedyd i mi ‡ bilo, ‡ *Speilio.*
Pobol dlodion a'i hanrheithio,
Dwyn eu tai a'u tir oddiarnynt,
A * ſclamenta 'r maint oedd ganthynt. * *Sclyſaethu.*

43 Mae e'n d'wedyd immi feddwi
A phuteinia, ac ymloſgi,
Torri 'r Saboth fil o weithiau,
A dibriſſio Duw a'i ddeddfau.

44 Y mae 'r diawl gan hynny 'n goſyn,
Am i GRIST roi 'r farn i'm herbyn,
Am troi i uffern byth i boeni,
Am fy mhechod a'm drygioni.

45 O! pa grynu O! pa gwynfan,
Y mae f' enaid rhag gŵg ſatan,
Sydd yn dyfod a'i wŷr duon.
Idd i'w gyrchu at *Dduw* cyfion.

46 O! mor chwerw O! mor ddiflas,
O! mor ffiaidd ac mor atgas,
Ydyw pechod ganddo 'n awr,
Fu e'n garu gynt mor fawr.

47 O! pa gwilydd f' arnai wrando,
Y cyhuddwr i'm cyhuddo,
Am gan peth na fynne f' enaid.
Er byd i'm Mam eu 'ſtyried.

48 Gwell gan f' enaid pe cai ddewys,
Fyn'd i uffern, hyn ſydd ddilys,
Na myn'd i'r barr at y Drindod,
I roi cyfrif am ei bechod.

49 Etto f' orfydd arno ymddangos,
O flaen *Duw* nid oes lle aros.

I roi cyfrif llawn a derbyn
Barn, fel y b'o 'r gwaith yn gofyn.

50 Nid wi 'n clywed neb yn pledo,
Nac yn chware 'r twrnai drosto,
Nid wi 'n clywed yntau 'n atteb,
Un o filoedd o'i ffolineb.

51 Rwyfi 'n gweled *Duw* a'i lyfrau,
Yn hyſpyſu ei drofedddau,
† *Yn gohoeddus* Ac yn datgan yn † ddigwnſel,
Y pechodau wnaethe 'n ddirgel.
Prg. 12, 14.
Rhuf. 2. 16.

52 Rwyfi 'n clywed taflu 'u fuchedd
Front, ddi-grefydd yn ei ddanedd,
A'i gnawdolrwydd a'i 'freolaeth,
A'i ddrwg arfer ddi-Griſtnogaeth.

53 Rwyfi clywed cyfri 'r llwon,
A fu 'n dyngu 'myſg y meddwon,
A'i ffieidd-dra ar y Sabboth,
A'i ddrwg naws a'i eiriau anoeth.

54 Rwi 'n ei glywed ynte 'n tewi,
Ac yn griddfan ac yn codi,
Heb agoryd dim o'i enau,
Mwy na 'r pyſg ond ochain weithiau.

55 Rwyfi 'n clywed *Criſt* yn gwyſſio
Mat. 22.13. 'R diawl i glymmu ei draed a'i ddwylo,
A'i daflu i'r tywyllwch eitha,
Lle nad oes ond cur a peoenfa.

56 Rwyfi 'n clywed CRIST yn traethu,
‡ *Farn.* 'R ‡ ferdid arno gan ei farnu,
I dan uffern yn dra union,
At y cythrael a'i angelion.

57 Rwyfi 'n gweled ſatan ynte,
Yn ei rwymo mewn cadwyne,
Ac i uffern yn ei dwmblo,
Gwedi clymmu 'i draed a'i ddwylo.

Ri

58 Rwi 'n ei glywed ynte yn llefain,
Ac yn beichad ac yn ochain.
Wrth ei daflu mor anffafrol,
Llwr ei ben i'r tan ufternol.

58 Rwifi 'n gweled y cythreiliaid,
Hwyntau 'n rhwygo ei gorph a'i enaid,
Fel y rhwygei Cwn digaſſog,
Wrth eu newyn, Iwiſh neu ſgaf'rnog.

59 Rwyſi 'n gwrando ei ganlyn yntau,
Yn crio 'n doſt am gael ei Angau,
Ac er toſted y mae 'n galw,
Nid yw nes er hynny farw.

60 Mae 'n gorwedd mewn tywyllwch,
Yn nhan uffern heb lonyddwch, Mat. 9. 43.
Rhwng cythreiliaid lle mae newyn, 44.
A phoenydie toſt di-derfyn.

61 Nid oes dim yn torri nghalon,
Mor ddigyſur ac mor greulon,
Ac yw meddwl fel na dderfydd,
Dim o'i boenfa yn dragywydd.

62 Dymma 'r mann a'r lle y gorfydd,
Arno ynteu 'r corph di-grefydd,
Fyn'd i boeni atto 'n irad, Jo. 5. 28
Yn ol dydd yr adgyfodiad. 29.

63 A da beth y dlyai fyned,
I dân uffern er ei boethed,
O's efe a barodd iddo,
Bechu yn fynych heb † repento. † *Edifaru.*

64 Dyna 'r lle yr a'r holl bobl,
Ddrwg, ddi-grefydd, ac anneddfol,
Yn ol hela 'r ty trwy 'r ffeneſt',
Byw fel moch, mewn glwth a gloddeſt.

65 Mi gynghorwn bawb gan hynny,
Ofni *Duw* a'i wir waſ'naethu,

A byw yn ſanctaidd ac yn ddeddfol,
Rhag eu troi i'r tân uffernol.

Dat. 21. 8 66 Byddwch ſobor byddwch ſanctaidd,
☞ Byddwch union a Chriſtnogaidd,
Oni byddwch, gwn yn ſiccir,
Mae i uffern ei'ch condemnir.

67 Ofnwch *Dduw* gwrandewch 'r 'fengyl,
Gweglwch droi at hon eich gwegil,
Byddwch fyw fel gwir Griſtnogion,
O's chwennychwch gael y goron.

68 Ni thal pledo ffydd heb weithred,
§ *Yrhai ſy 'n cymryd rhydd-did i bechu.* Nid plant *Duw* o'r § libertinied,
Nid gwir Griſtion dyn di-grefydd,
Plant i'r fall yw 'r rhai anyfudd.

‖ Jo. 3. 8. 69 Ni thal d'wedyd yr wi 'n Griſtion,
Jo. 8. 44. O's bydd ffydd heb weithred ffrwythlon,
☞ Ni bydd bywiol ffydd heb weithred,
Jac. 2. 14. Mwy na 'r tân heb wres pan cynned.
Mat. 7. 17.

70 Byddwch oneſt, byddwch union,
Duw ni odde gam fargennon:
1 Theſ. 4. 6. O's arferwch dwyll neu ffalſtedd,
Trwm o'r dial yn y diwedd,

71 Beth y ennill dyn wrth dreſio,
Pilo 'r tlawd a'i lwyr anrheithio
* *Poenir.* O's * tormentir hwn o'r diwedd,
Yn nhan uffern am ei gamwedd,

Mat. 16. 26. 72 Beth y dal i ddyn dros ennyd,
† *Boddhaa.* † Bleſſio 'r cnawd a chael ei wynfyd,
O's a gwedi'n yn dragwyddol,
Ar ei ben i'r tân uffernol.

73 Beth y dal it ddyfal lanw
'R bola dro ar wîn a chwrw,
O'd a'i gwedi'n am dy fedd-dod,
I newynu i uffern iſſod.

Beth

74 Beth a ynnill dyn wrth dwyllo,
Torri * promais, ac andwyo
Ei gymmydog tlawd trwy gamwedd,
O's a'i uffern am ei ffalftedd?

* *Addewid.*

75 Naded neb i'r diawl ei dwyllo,
A wnelo ddrwg fe atteb drofto:
Fel yr hauoch felly medwch,
Fel y gwneloch y derbynniwch.

Gal. 6. 7. 1.

76 Mae mor hawdd i'r cythrael fceler,
Fyn'd i'r nef y dydd ei barner,
Ac i'r drwg-ddyn, glwth di-grefydd,
Ddiangc uffern ddydd ei gyftydd.

Theff. 5. 3.

77 Hîr y herys Duw heb daro,
Llwyr y dial pan y delo,
Am yr echwyn a'r hîr fcori,
Fe ry gyflawn ddial itti.

78 Fe gyd-ddwg a'r bobl waetha,
Ennyd hîr i geifio eu gwella,
Gwedi'n eifie troi 'n 'ddifeiriol,
Fe 'i llwyr dry i'r tân tragwyddol.

2 Pet. 3. 9
Luc. 13. 5

79 Duw ro' gras i bob dyn wella,
Tra fo'r dydd a'r goleu 'n para,
Duw a'ch gwnel chwi bawb yn barod,
Cyn del Angau roi 'chwi ddyrnod.

CAN CXXXV. *Cwyn a chyngor* Difes *i'w bum brodyr.*

Clywch bawb gwyn a chyngor Difes,
O'r fflam boeth a'r dantlyd ffwrnes,
I'w bum brodyr a'i holl draffe,
Rhag eu dyfod lle mae ynte.

O fy mrodyr clywch fi 'n traethu,
Fy nholl gyflwr gwedi nghladdu;

Fel y galloch chwithau ddiangc,
Rhag y cyfryw boenau didrangc.

2 M' arnai ddlyed i'ch cynghori,
A rhoi rhybydd amlwg i chwi:
Rhag heb wybod i chwi ddwad,
I'r fath garchar di-ddymchweliad.

3 A phe gwypech faint o'm trallod,
A'm holl boen yn uffern iſſod,
Chwi wrandawech ar fy ngeiriau,
Rhag i'ch ddyfod i'r fath boenau.

4 Gwn yn hyſpys iawn pe gwypech,
Faint o'm poen, a'm cur, a'm gortrech,
Na chymmerech dda * Amherod,
Er eu goddef un diwrnod.

* *Emprwr, Pennaeth ag ſydd a Brenhinoedd neu Dywyſogion tano.*

5 O's ni ddichon dyn nac Angel,
Adrodd gymmaint yw fy nhrafel,
Yn y fflam a'r tân uffernol,
Lle 'm poenydir yn dragwyddol.

6 Bum i gynt yn fawr fy rhyfig,
Yn y byd yn ŵr Arbennig;
Yn rheoli fel y mynnwn,
Ac yn gwneuthur faint 'wllyſſiwn.

7 Bum yn ngolwg llawer un,
Heb ofni Duw. heb barchi dyn,
Mwy nag † Inffidel neu Bagan,
A ddilyne ei ffanſi 'hunan.

† *Dyn digred*

8 Can's mi dybiais trwy gau grefydd,
Na bawn marw yn dragywydd;
Ac o' byddwn marw unwaith,
Na ddoe 'mofyn arnai eilwaith.

9 Er bod *Moeſen* a'r Prophwydi,
Yn mynegi 'n amlwg immi,
Fod fy enaid yn anfarwol,
Ni wnawn bris o'u geiriau graſiol.

10 Er eu bod yn dangos immi,
Y gorfyddei gwneuthur cyfri
Ger bron Duw, am bob fileindra,
Nid ae hynny yn fy § nghloppa. § *Pen-*

11 'N awr yn uffern 'rwi 'n cael dyfgu,
Mai gwir oeddent yn ei draethu,
A bod enaid didrangc genni,
Yn y fflam yn gwneuthur cyfri.

12 Tybiais hefyd tra fum byw,
Nad oedd un Nef, nac un Duw,
Nac un uffern, nac un cythrael,
Na gwell diwedd dyn na 'nifael.

13 'N awr yn uffern wrth boenydio,
Y mae 'r diawl i'm || cateceifio, || *Addyfgu.*
Ac yn dangos yn † blaen immi, † *Eglur.*
Fod Duw, i ddial pob drygioni.

14 'N awr rwi 'n clywed ac yn canfod,
Fod y diawl, ac uffern iffod;
A mil miloedd o gythreiliaid,
Wrth farn Duw yn poeni f' enaid.

15 Rwyfi 'n gwel'd yn eglur hollol,
Fod pob enaid yn anfarwol,
Gwedi marw 'r corph a'i gladdu,
Bid drwg, bid da, fo 'r enaid hynny.

16 'N awr y gwn mai gwir yw 'r 'fcrythyr,
'N awr y gwn fod *Crift* yn eirwir,
'N awr y gwn y treulia 'r nefoedd
Cyn el geirie *Crift* yn niffodd. Mat. 24.35.

17 Eifie credu hon mewn amfer,
Nid yw 'nghred yn awr ond ofer,
Eifie ei chredu yn fy mywyd,
Mi fum byw fel 'nifail ynfyd.

18 Felly byddwch chwithau 'mrodyr,
Oni chredwch eiriau 'r 'Scrythyr,

Ac amcanu byw yn ddeddfol,
Yn ei hol fel meibion graſſol.

19 Eiſie dilyn geiriau 'r 'ſcrythyr,
Eiſie doſi trachwant nattur,
Eiſie byw yngoleuni 'r 'fengyl,
'Rwyfi 'n awr mor ddrwg fy || mhiccil. || Cyflwr.

20 Eiſie dilyn cyngor *Moeſen*,
Eiſie credu 'r 'fengil lawen,
Eiſie cadw pwyntiau 'r gyfraith,
Y bu 'muchedd front mor ddiffaith.

21 Pan y troes i 'r 'fengyl heibio,
Fe ddaeth ſatan i'm cyf'rwyddo,
Ac i'm tynnu i bob drygioni,
Y fae 'nhrachwant, yn ei hoffi.

22 Nid oes pechod alla'i draethu,
Na's dilynais nes i'm laru,
Nes myn'd bywyd ffiaidd *Difes*,
Mor ddihareb a *Manaſſes*.

23 Gwnaethym DDUW o'm golud bydol,
Rhoes fy mryd ar bethau cnawdol,
Ym-mhob drwg mi aethym rhagof,
A gollyngais *Dduw* yn angof.

24 Felly gwedi toſt gamſyniaid,
Llwyr ddibriſſiais am fy enaid,
Fel rhyw 'nifel na bae 'n coffa
Dim ond am y byd a'r bola.

25 Mynnais drwſſiad gwych am danaf,
Porphor gwych bob dydd o'r meinaf,
'N awr yn uffern rwi 'n nhoeth-lymmyn,
Am fy nghoegedd heb edefyn.

26 Mynnais § Sidan, Lawnd, a Chambrig, § *Lliainmain:*
Yn fy ngrhyſſe, awr ac orig:
'N awr gwae finne na bae garthen,
Neu hws Ceffyl am fy nghefen.

27 Minnau fynnwn lanw 'mola,
A'r ddainteith-fwyd o'r melyſſa,
Bob diwrnod tra fae 'r flwyddyn,
Er bod f' enaid yn dwyn newyn.

28 Bum mor foethus ac mor † ddainti, † *Finſelus.*
Ac na fynnwn unwaith brofi.
Dim ond y fae tra dainteithol,
Bras a melus, drud, a manol.

29 'N awr mi fynnwn pe cawn ſwytta,
Soeg y moch i lanw 'mola,
Ac i dorri peth o'r newyn,
Sy'n dolurio pob colyddyn.

30 Bum yn yfed ac yn whiffo,
Bur a gwîn, heb feſſur arno;
Ac yn llanw mola gan-waith,
Nes ei chwdu fynu eilwaith.

31 'N awr mi rown y byd yn gyfan,
A'i holl dryſſor pe cawn ddafan
O ddwr oer, i oeri 'n hafod,
Sydd mewn fflam yn lloſci 'n waſtod.

32 Er bod ar fy mord i friwſion,
Allſe borthi * ſwrn o dlodion, * *Bagad.*
Fe gae 'r Cŵn y cwbl rhyngthyn,
Cyn cae *Lazar* un briwſionyn.

33 'N awr mae *Lazar* ynteu 'n talu,
Pwyth hyd adre, ac yn pallu,
Rhoi o'r ffynnon immi ddafan
O'r dwr oer, er maint wi 'n ſegian.

34 Er bod *Moeſen* a'r Prophwydi,
Yn rhoi llawer rhybydd immi;
Ni wrandawn ar ddim a ddwedent,
Ni wnawn un rhith ag a geiſient.

35 'N awr gan hynny rwi 'n cael crio,
Ddydd a nos, heb gael fy ngwrando,

Ond

Ond cael taflu yn fy nannedd,
Mor annuwiol y fu 'muchedd.

36 Pan pregethid yr Efengyl,
Minnau drown at hon fy ngwegil,
Ac y gyfgwn ar fy nwrnau,
Pan bae eraill yn cael gwerfau.

37 'N awr am gyfgu yn y demel,
‖ *Poenir.* Fe 'm ‖ tormentir gan y cythrael,
Fel nad wyf yn abal cyfgu,
Na marwino mwy ond hynny.

38 Ac am flino gwrando 'r 'fengyl,
Ac Athrawiaeth *Crift* yn rhigyl,
Y mae 'n gorfod arnai wrando,
Screch y cythrael byth tra gantho.

39 Eifie gwrando cyngor *Moejen,*
Eifie credu 'r 'fengyl lawen,
Eifie dilyn hon a'i dyfgu,
Y mae yn uffern fil yn gryddfu.

40 Minnau dreuliais ddydd yr Arglwydd,
Mewn glothineb ac anlladrwydd,
Yn gan gwaeth mewn gloddeft fcymmyn,
Nag un dydd o ddyddiau 'r flwyddyn.

41 Mae 'ma filoedd o rai annoeth,
Am halogi 'r Sanctaidd Sabboth,
Heb gael Sabboth nac efmwythdra,
Ond eu poeni haf a gaia.

42 Cymrais Enw Duw yn ofer
Fil o weithiau wrth fy mhlefer,
Nid oedd blas ar chwedl genni,
Nes y tyngwn waed y *Iefu.*

43 O! pa boenfa f' ar fy nhafod,
Am ddirmygu gwaed y Cymmod:
† *Boen.* A pha † dorment fy'n fy ngryddfu,
Am amharchu Enw 'r *Iefu.*

Minne

44 Mi offrymais f' enaid ganwaith,
Yn yn y dydd i'r cythrael diaffith,
Am ei roi mor fynych iddo,
F' aeth y diawl a'r enaid gantho.

45 Mae 'ma lawer mil fel finne,
Yn y pwll mewn irad boene,
Am roi eu hun i'r diawl dan regu,
I'dd eu dwyn i'r poeth garchardy.

46 Llawer un a fum i 'n hela,
O dra malais i ryfela,
Er mwyn tywallt gwaed y gwirion,
A'i 'difetha heb achoſion.

47 'N awr mae gwaed y rhai'n yn llefain,
Am ddialau arnai 'r filain
Ac yn crio ar y cythrael,
Dalu immi am fy nhrafel.

48 Bum yn gweſt ar fywyd ganwaith,
Heb nac ofn *Duw* na'r Gyfraith,
Yn condemnio llawer gwirion,
Ac yn cadw llofrudd lladron.

49 'N awr mae 'r mwrddwŷr dan eu henw,
A'r drwg ddynion fum i 'n gadw,
Yn y pwll yn ‡ llarpio f' enaid,
Mor ddi-ffafar a'r cythreiliaid.

‡ *Rhwyga.*

50 Larais ar fy ngwraig fy hunan,
Cymrais fenthig gwragedd aflan,
Llu o rhai'n ſy'n awr i'm pwyo,
Ym-mhwll uffern am eu hudo.

51 Mae 'r baſtardiaid fum i 'n ennill,
O'r rhai aflan hyn fel perchill,
Oll yn llefain ac yn crio,
Am i'r cythrael fy * nhormento.

* *Peni.*

52 Mi orthrymmais blant ymddifaid,
Pan bae farw un o'm deiliaid,

Awn

Awn a'r ddau ŷch fawr o'r arad',
Rhag i'r naill o'r ychen frefad.

53 'N awr am dreifio 'r fath wirionaid,
Fe 'm toft ffyftir gan gythreiliaid,
Yn gan gwaeth nag y bydd Tanner,
A'r pawl mawr yn ffyfto yr lleder.

54 Bum yn hyrio anwir ddynion,
Lawer gwaith i dyngu 'nudon,
Ac yn peri 'r rhei'ny dyngu,
Beth y fynnwn ond eu dyfgu.

55 Y mae rhai'n fel haid o nadredd,
Ddydd a nos yn cnoi fy mherfedd,
Ac yn rhwygo 'n doft fy nghalon,
Am eu dyfgu dyngu 'nudon.

56 Minnau elwais bobl wirion,
Weithiau 'n fyrddwŷr, weithiau 'n lladron,
Ac enllibiais wŷr a gwragedd,
Heb ddim achos ond fy 'nrhawfedd.

57 Cedwais hŷr a llawer cyflog,
Ar fy ngwas a'r tlawd anffodiog,
Ac y berais i'r tlawd fedi,
Fy holl heinar heb un beni.

58 'N awr mae gwaed y rhei'ny 'n crio,
Ar y drwg-wr am fy mhwyo,
Am i'm gadw hŷr y rhei'ni,
Ac andwyo 'r cyfryw dlodi.

59 Rhoddais f' arian gynt ar ‖ occor,
I'r dyn tlawd fel cybydd * angor,
Nes i'm lyngcu fedde 'r tlodion,
A'u handwyo a'm bargenion.

60 'N awr mae llawer un o'r rhei'ni,
Ymma yn uffern yn fy mhoeni,
Am eu gyrru i ledratta,
Gwedi f' occor brwnt eu difa.

‖ *Llog.*
* *Trachwantus.*

Rhoddais

61 Rhoddais i'r Cyfreithwyr duon,
Wobor fawr am dreiſio 'r tlodion,
Mae 'r Cyfreithwŷr yn fy llethu,
Ymma yn uffern am eu llygru.

62 Rhoddais gennad i'm holl weiſion,
Flino pawb o'm cymmydogion:
'N awr mae 'r gweiſion am ei godde,
Yn blino 'n doſt fy enaid inne.

63 Prynais dîr dan bris gan fagad,
Cedwais beth ar bawb o'u taliad;
'N awr mewn carchar rwi am hynny,
Heb fod gennif rot i dalu.

64 Pe bae ddimme 'n abal prynu
Rhydd-did immi o'm carchardy,
A'm dwyn o'r pwll i'r nef oleu,
Nid wi 'n abal cael o'r ddimmeu.

65 Cefais rybydd fil o weithie,
Am roi dreiſiais eilwaith adre,
Minnau awn i'r tân uffernol,
Gyn rhown ddimme yn ei gwrthol.

66 Pan y gwerthwn wlân a llafur,
Rhown gam bwyſau rhown gam feſſur,
Yn yr ŷd mi werthwn raban,
Yr un bris a'r gwenith pur-lan.

67 Ac yn erbyn Duw a'i ddeddfau,
Cedwais amryw fath o bwyſau;
Pwys rhy fawr pan fawn yn prynu,
Pwys rhy ſach pan fawn yn gwerthu.

68 'N awr fe 'm curir ar fy 'nghloppa,
Gan y diawl a'r pwyſau mwya;
A phawb eraill megis minnau,
Y f'o 'n arfer anwir bwyſau.

69 Ni adewais bwngc o'r Gyfraith,
Heb ei thorri lawer Can-waith:

Mi ymdrois ym-mhob rhyw bechod,
Nes i'r Angau roi i'm ddyrnod.

Yr Ail Rann

70 Mi fynegais iwch' yn oleu,
Pa wedd y bum i byw hyd Angeu,
Mi fynegaf i chwi weithian,
Pa wedd i'm poenir dan law ſatan.

Mat. 20. 3. † *Muriau.* 71 Y mae 'r pwll lle rwyfi 'n tigo,
Yn ddwfn iawn heb waelod iddo
A'i holl † welydd Cyn ucheled,
Nad oes Gobaith cael ymwared.

Eſa. 20. 23. 72 Y mae 'r pwll dros fyth yn lloſgi,
O dan poeth fel mor yn berwi;
Y mae ana'l Duw ei hunan,
Yn ei drin fel mor o frwmſtan.

73 Gwedi 'nynnu 'r tân hyn unwaith,
Byth ni ddiffydd hwn yr eilwaith:
Nid rhaid chwythu dim o hano,
Mae e yn cynnu heb ei gyffro.

Mat. 9. 4. 74 Y mae 'r tân dros fyth yn lloſci,
Yn 'dra ffyrnig, ac yn poeni,
Ac er hyn nid yw e'n treulio,
Nac yn difa dim el iddo.

Mat. 10. 15: 75 Mae 'r un tân yn poeni 'r bobol,
Ond mewn dull a modd neilltuol,
Rhai yn fwy neu lai o ronyn,
Fel y bytho 'u beiau 'n gofyn.

‡ *Dyn dû.* 76 Yr haul a luſc y ‡ mwr o'r *India*,
Yn fwy na 'r rhai a drig yn *Rwſia*:
Mat. 22. 13. Uffern boeth a luſc yn beothach,
Bechod mawr na phechod byrrach.

77 Nid oes yn y pwll yn trigo,
Un heb rwym ar draed a dwylo,
Mewn cadwynau Tragwyddoldeb,
Am eu pechod a'u ffoelineb.

Mae

78 Mae tywyllwch hefyd ynddo, Mat. 27. 30
All pob rhai yn hawdd ei deimlo,
Ac er dechreu 'r byd ni welad,
Ynddo oleu 'r Haul na 'r Lleuad.

79 Mae e'n drewi cyn ffyrnicced,
Nad oes dim all ddrewi gaſled:
Er bod miloedd yn ei nyrddo,
Ni lanhawd erioed mo hano.

80 Y mae pryfed ynddo yn bwytta, Mat. 9 44.
† Conſiens dyn heb gael eu gwala, † *Cydwybod.*
Dydd a nos yn fawr eu hawydd,
Ac heb farw yn dragywydd.

81 Y mae gwedi mil o filoedd,
O gythreuliaid megis lluoedd
Yn ‡ tormento 'r rhai damnedig, ‡ *Poeni.*
Ac heb orphwys awr nac orig.

82 Maent yn dyrnu ac yn pwyo,
Rhai damnedig heb ddiffygio,
Ac er maint y ſont yn ddial,
Byth ni chymmer un ei anal. || *Poen.*

83 Y mae 'r || torment yn dragwyddol,
Ac ar bawb yn gyſtredinol,
Yn tormento pawb ar neilldu,
Ym-mhob aelod a fu 'n pechu.

84 Y mae 'r llygaid heb gael gweled,
Ond cythreuliaid er eu caſed,
Ac eneidiau rhai damnedig,
Yn y pwll yn wylo 'n ffyrnig.

85 Y mae 'r genau ynteu 'n bwytta,
Buſtyl lindys, bwyd o'r chwerwa: Sal. 75. 8.
Ac heb yfed dim ond gwaddod,
O ddigofaint toſt y Drindod. Luc. 13. 28.

86 Y mae 'r Cluſtiau hwytne 'n gwrando
Screch y diawl a'i blant yn crio;

A thoſt ochain rhai damnedig,
Yn ſcyrnygu dannedd ffyrnig.

Luc. 16, 24. 25. 87 Y mae 'r Taſod ynte 'n lloſci,
Ac mewn brwnſtan poeth yn berwi;
Heb gael cymmaint ag un dafan,
O ddwr oer y ddofi 'r lloſcfan.

Dat. 21. 8. 88 Y mae 'r ffroenau yn aroglu,
Gwynt y Brwmſtan o'r carchardy,
Sydd heb garthu etto er *Adda*,
Ac yn drewi o'r ffyrnicca.

89 Y mae 'r Traed a'r dwylo hwyntau,
Gwedi clymmu mewn cadwynau;
Ac heb allel troi na threiglo,
O'r lle 'r ydys yn eu brwylio.

90 Y mae Dannedd pawb yn rhingcian
Yn ſcyrnugu a'r fath dwrddan,
† *Hagwedd.* Ag y bydd echrydus gennwn,
Wrando eu llais na gwel'd eu † ffaſiwn.

91 Y mae pryfed cas anfarwol,
* *Cydwybod.* Yn cnoi * conſiens pob anuwiol,
Ac yn bwytta 'n llym eſcymmyn,
Etto byth heb dorri newyn.

92 Fel y pechodd pob rhyw aelod,
Ag oedd gennif, noed fy nhafod;
Felly poenir fy aelodau,
Bob yr un ag amryw boenau.

93 Mae pob aelod yn poenydio,
Mae pob mann a dial arno;
Mae pob dial yn dragywydd,
Yn poenydio heb ddim llonydd.

94 Ni budd marw byth o'r pryfyn,
Byth ni ddiffydd tân yr odyn,
Ni ddaw Angau er a geiſiaf,
Byth i wneuthur diwedd arnaf.

95 Ni bu 'r diluw ond blwydd hynod,
Na thân *Sodom* ond diwrnod;
Newyn † *Egypt* ond ſaith mlynedd, † *Yr Aipht.*
Mae mhoen inne byth heb ddiwedd!

96 Pe cawn rhydd-did o'm holl boenau,
A'm ben can-mil o ſlynyddau;
Byddai hynny gynfforddd immi,
Ond dros ſyth mae 'n rhaid im' boeni.

97 Y gair byth ſy'n torri 'nghalon
Y gair byth ſy'n cnoi 'ngholyddion, 2 Theſ. 1,9
Y gair byth ſy'n peri immi,
Fwytta 'mreichiau a gwallgofi.

98 Toſt yw goddef hyn o gyſtydd,
Dan law ſatan yn dragywydd;
Y mae etto beth ſydd doſtach,
Colli 'r *Ieſu* a'i gyfeillach.

99 Colli 'r bywyd Colli 'r Goron,
Colli 'r *Ieſu* a'i Angelion;
Colli 'r Nefoedd a'i Rhialtwch,
Colli Duw a phob dedwyddwch.

100 Melldith *Dduw* i'r dydd y'm ganed,
Anap ddrwg i'r awr y'm llynied,
Uffern boeth i' mam na bu'ſſe,
Yn dwyn llyffant yn fy nghyfle.

101 Gwae fi erioed na thorſei 'ngwddwg,
Ar y ploccyn pren â bilwg,
Cyn rhoi bron i fab anwadal,
I ddigio Duw, i ddwyn ei ddial.

102 Nid oes cythrael na dyn ſcymmyn,
Ymma 'n uffern a'i holl derfyn,
Na bont ar eu cylch yn † gyngan, † *Guttan.*
Yn fy mhwyo fawr a bychan.

103 Nid oes enaid dyn er *Adda*,
Ym mhwll uffern mewn mwy boenfa;

Mewn

Mewn mwy drallod mewn mwy eiſie,
Nag y mae ſy enaid inne.

104 Dymma 'nghuſtydd dymma 'mhoenfa,
Dymma 'ngwaywyr, dymma 'ngwaſcfa;
Dymma 'r cyflwr yr wi ynddo,
Bob yr awr yn toſt boenydio.

105 O gan hynny ſy 'mhum brodyr,
A phawb eraill ſydd mewn ſynwyr.
Cymrwch rybydd cyn del Angau,
Rhag i'ch ddyfod lle 'rwi finnau.

106 Oni byddwch Edifeiriol,
Ffyddlon, ufydd, a chriſt'nogol;
Gwn na ddengys Duw 'r Dialau,
Iwch' fwy ffafar nag i minnau.

CAN CXXXVI. *Atteb i Gweſtiwn ynghylch gweddio dros y marw: lle dangoſir anghyfreithlondeb gweddio dros y cyſryw.*

FY NGHAR a'm gwir anwylyd,
Gofynſoch gweſtiwn hyfryd:
Mae 'n weddus im' ym-mhlaid y ſydd,
Roi atteb prudd o'i blegid.

2 Hyn ymma yw 'ch gofyniad,
A'i gweddus i offeiriad,
Weddio dros y marw 'n brudd,
Yn ol y dydd * departiad?

* *Ymadawiad.*

3 Rwi 'n atteb i chwi groyw,
Na ddiodde 'r 'ſcrythur alw,
Na gweddio, na dydd, na nos,
Yn ofer dros y marw.

Heb 9. 27.

4 Mae Duw yn barnu 'r enaid,
I,r Nef neu uffern dambaid,
Yr awr yr el o'r corph i maes,
Yn ol ei ‡ gas a'i weithred.

‡ *Cyflwr.* Luc. 23. 24.

Mae

Phil. 1. 23.
16. 22.

5 Mae enaid y dyn ffyddlon,
Yn myn'd o'i gorph yn union,
I'r Nefoedd at Angelion gwar,
Fel enaid *Lazar* wirion.

Act. 7. 59.

6 Mae enaid yr anuwiol,
Yn myn'd i'r pwll ufternol,
(Pan el o'r corph) i'r tân a'r rhes,
Fel enaid *Difes* fydol.

Sal. 16. 11.

7 Mae 'r duwiol mewn dedwyddwch,
Gogoniant a Rhialtwch,
Y fath nid rhaid iwch geifio mwy,
Gadawn ni hwy mewn heddwch:

Dat. 7. 13.
16. 17.

8 Nid rhaid gweddio droftynt,
Gan gyftal yw eu helynt,
Maent hwy gyda 'r OEN bob awr,
A Swpper fawr fydd ganthynt.

Luc. 16. 23.
27.

9 Mae 'r enaid anwir ynte,
Yn gryddfan yn y poene,
Ni ddaw hwn o'i boen a'i blâg,
Er gweddi ac offrymme.

10 Yn ol i un-dyn farw,
A chael y farn yn groyw,
Ofer yw i'r wlad a'r plwy,
Weddio mwy dros hwnnw.

11 Pe ceifie *Job* neu *Ddaniel*,
Neu *Abram*, *Moefen*, *Samuel*,
Laefu 'r poenau yn fflam,
Ni chaent ddim am eu trafel.

12 Pe delei 'ffeiriaid holl-fyd,
I grio drofto 'n daerllyd,
A'u haberthau o bob rhyw,
Ni ‡ altre *Duw* mo'i ferdyd.

‡ *Newidie ei farn.*

13 Pe delei 'r byd yn gyfan,
A gweiddi am laefu 'r boenfan

Luc. 16. 35

Ni

* *Dafn.* Ni chaen gwedi marw 'r gwr,
O'r * droppyn dwr i'w ſafan.
Preg. 11. 3. 14 Y farn y ſaif yn ddilys,
Iaco. 1. 17. Lle cwympo 'r pren ſe erys:
Ni newid *Duw* o'r farn y roes;
Erioed ni throes o'i 'wylles.

15 Mae *Duw* yn ddianwadal,
Y farn y roes fe'i cynnal,
Ni all y byd a'u hymbil taer.
Na'r Nef na'r ddaer ei attal.

16 Yr amſer i weddio,
‡ *Farw.* Sydd cyn i ddyn ‡ ddeparto,
Gweddi gwedi marw neb,
|| *Tyccio.* Sydd weddi heb || brefailio.

17 Gan hynny rwi 'n cynghori,
I bawb a garo weddi,
Geiſio hon tra yntho § wres,
§ *Bywyd.* O's cais e les oddiwrthi.

18 Cais wiſg, cais oel cais oleu,
Cais ras cyn delo 'r Angau.
Ni chair gwedi paſio 'r dydd,
• *Marw.* O'r dwr o's bydd e'n eiſiau.

19 Gan hynny cyn * departo,
Ni ddylem bawb weddio.
1 Cor. 9. 24. Dyna 'r pryd heb ddim o'r ffael,
Luc. 13. 24. Mae inni gael ein gwrando.

20 Cyn marw y mae inni,
Ennill Nef neu cholli,
Gwedi marw ni chaiff ffol,
† *Edifaru.* Ond barn yn ol ei frynti,
Ioan. 12. 35.
Pen. 9. 4. 21 Cyn marw mae ‡ repento,
Preg. 9. 10. Tra'i 'n ddydd y mae ymgweirio,
Pan el hi 'n nos medd *Criſt* ei hun,
Mat. 5. 25. Ni all un-dyn mo'r gwethio,

Tra

22 Mae *Grift* yn erchi 'r treifiwr,
Gyttuno a'i wrthnebŵr.
Tra ar y ffordd. cyn delo 'mmlaen,
Rhag mynd o flaen y Barnŵr:

23 Rhag rhwymo ei draed a'i ddwylo,
A'i daflu i gael ei frwylio
O eifie gwneuthur iawn mewn pryd,
Ni's tynn y byd oddiyno.

24 Fe wydde *Dafydd* frenhin, 2 Sam. 12.
Pan ddarfu am ei blentyn, 25. *wedy* 24.
Mai ofer oedd gweddio mwy,
Dros hwnnw trwy hîr ganlyn.

25 I ddangos hyn mor ofer,
I un rhyw ddyn i arfer
Gweddi gwedi marw 'r ffrynd,
Yn ol ei fyn'd i 'fmwythder.

26 Am hyn nid oes gweddio,
Dros ffrynd yn ol departo.
O's yw 'n credu fyn'd yn noeth,
I uffern boeth i darrio.

27 Nid oes i neb ond dau-le,
I fyned gwedi ange,
Nef ac uffern, medd gair Duw,
Tân pur nid yw ond chwedle.

28 Nid rhaid i neb weddio,
Dros un a i'r Nef i drigo, Luc. 16. 26.
O's yn uffern y gwna ei nyth, Mat. 25. 26.
Ni ddaw e byth oddiyno.

29 Nid oedd ond gweithred ofer,
A wnaeth i'r 'ffeiriaid arfer
Gweddi dros y marw mud,
I dwyllo 'r byd di-bryder.

30 Nid ydyw 'r 'ffeiriaid gore,
Yn godde 'r fath weddie,

Ni's gwna ond rhyw 'ffeiredyn ffol,
Sy'n ſerchu yn ol y ddimme.

31 Mae dyled ar bob 'ffeiriad,
Roi diolch am 'madawiad
Pob dyn duwiol yn ddiddoi,
Mewn gobaith o'i gyfodiad.

32 Ond am weddio droſtyn,
Yn ol eu cladd a'u terfyn,
Peth di-les a gwa'rddedig yw,
Ni's gwna ond rhyw ofer-ddyn.

33 Wel dyma i chwi atteb,
O'ch cweſtiwn mewn ffyddlondeb:
Duw rho cynnydd ar eich ffydd,
A gras yn brudd i'ch hwyneb.

CAN CXXXVII. *Cyngor* Mr. Pritchard *i'w Fâb.*

SAMI bach er cariad *Duw*,
Cofia byth tra fyddech byw,
Foli *Criſt* ar ben dy linie,
Trofyddech † Tr'ech o'm golwg oddi gartre.

2 Galw 'n brudd o ddyfnder câlon,
Ar dy Dâd a'th Brynwr tirion;
Am d' amddiffyn nos a bore,
Rhag pob drwg tr'ech oddi gartre.

3 Plyg dy ddau-lin, cod dy ddwylo,
Dal yn graff dy lygad arno,
Cais ei rym. a'i râs. a'i ore,
Ym-mhob dim tr'ech oddi gartre.

4 Felly ceidw Duw di 'n waſtod,
Rhag pob niwed a drwg anffod;
Ac ni edy ddim yn eiſie,
Ar SAM bach tr'o oddi gartre:

5 Cria ar *Dduw* am help i ddyſgu
'Nabod *Criſt* a'i wir waſ naethu,
Tr'ech yn blentyn yn dy foethe;
Dymma 'th ſwydd tr'ech oddi gartre.

6 Arfer ofni Duw a'i ganlyn
Yn dy ieungctid tr'ech yn blentyn;
Felly byddi † ſiwr mewn gradde,
Foli Duw yn hen-wr gartre.

† *Siccr.*

7 Dos yn llawen at dy Lyfur,
Dyſg yn ‡ glicc ac na fydd ſegur:
Nid wi 'n gwardd er hyn it weithie,
Chware peth tr'ech oddi gartre.

‡ *Ar fryſ.*

8 Cyn b'ech ſegur-taro 'r delyn,
Can y Salme ſy'n ei chanlyn;
Fe fydd hynny hyfryd weithie,
I Sam bach tr'o oddi gartre,

9 Cân ſel cricced ar bob cam,
Gochel wylo am dy fam:
Duw fydd Mâm a Thâd o'r gore
I Sam bach tr'o oddi gartre.

10 Duw ro' i râs a'i fendith itti,
Duw 'th gyfrwyddo i'w addoli;
Duw f'o 'n Geidwad nos a bore
Ar Sam bach tr'o oddi gartre.

CAN CXXXVIII. *Cyngor arall* Mr. Pritchard *i'w Fâb.*

C'OD y bore ar y wawr-ddydd,
Am y cynta a'r uchedydd,
Hynn a'th helpa i gael hîr iechyd,
Dyſg a dawn, a chyfoeth hefyd.

2 Gwyſg yn eſgud dy holl ddillad,
Dod y rhai'n yn gryno am danad,

Na'd fod bwttwn heb ei gayed,
Cyn y caſſo neb dy weled.

3 Golch dy wyneb crib dy ben,
A'th gwff yn lân a'th ſond yn wen,
A'th drwſiad oll yn dra threſnus:
O ſlaen *Duw* mae hynny 'n weddus.

4 Gwedi ymdrwſio dôs i'th weddi,
Yn ddiaros gochel oedi.
Cwymp o ſlaen *Duw* ar dy linie,
Cyn y gwlychech di dy ene.

5 Pan y delech o ſlaen *Duw*,
Meddwl (SAM) mai Brenhin yw,
O ſlaen pwy mae 'r holl Angelion,
Yn ymoſtwng mewn mawr ofon.

6 Dere dithe ar dy ddaulin,
SAMI bach o ſlaen dy Frenhin,
Ac na chytcam wrtho yngan,
Heb anrhydedd, parch ac ofan.

7 Ar dy linie cod d' olygon,
Sal 95. 6. At dy Nefol Dâd yn eon:
Ac na ofna ofyn iddo
Bob peth ag ſydd raid it' wrtho.

8 Er bod *Duw* yn Frenhin grymmus
Holl-alluog, anrhydeddus,
Mat. 6. 9. Etto er hyn mae CRIST yn d'wedyd,
Fod *Duw* mawr yn Dâd it hefyd.

9 Galw dithe ar dy Dâd,
Mae Duw yn Dad i'w bobl. Am roi itti ddawn a rhad:
Ac ni phall e' ond ei geiſio,
Ddim ag y ſo rhaid it' wrtho.
Sal. 34. 10.

10 O's bydd arnat ddim ar wall,
Jac. 5. 16. Cais yn daer, ac na ſyn ball,
Hoff gan *Dduw* y dyn a geiſio,
Yn daer bob awr gymmorth gantho.

Cais

11 Cais ei gymmorth ac fe ddyry, Sal. 18. 30.
Galw arno ac fe'th wrendy,
Rho di ynddo dy ymddiried,
Ac fe'th geidw rhag pob 'niwed.

12 Cofia *Dduw* fe 'th gofia dithe, Dih. 8. 17.
Ac ni edy arnat eifie,
Ei wafnaethwyr fe'u gwafnaetha, 1 Sam. 2.30
A'i ddirmygwyr fe'u dirmyga.

13 O's gwaf'naethu *Dduw* yn waftad, || *Gofal.*
Fe gymmer cymmaint || garcc am danad,
A phyt fae ef heb un plentyn,
Ond tydi i garcu droftyn.

14 Meddwl dithe SAMI bach,
Yn gefnog, p'un a'i claf a'i iach,
Am waf'naethu *Duw* bob amfer,
Ddydd a nos wrth † gwrs ac arfer. † *Defod ac arfer orchmynnedig gan Dduw.*

15 O's arferi 'n awr yn blentyn,
Waf'naethu *Duw* yn brudd a'i ganlyn,
Yn ŵr hen ni elli beidio,
Ei waf'naethu byth tra gantho.

16 *Duw* r'o itti rym a gras,
I fod iddo byth yn was, Dih. 22. 6.
Nes y caffech yn y diwedd
Yn y Nefoedd fod yn difedd.

CAN CXXXIX. *Gweddi* SAMUEL PRITCHARD.

ARGLWYDD rhoddwr pob daioni
Brenhin Nef, a Thâd goleuni, Jac. 1. 17.
Gwel, a gwrando weddi egwan,
Plentyn baeh o ddeng mlwydd oedran.

2 Rwy fi 'n dyfod ar fy nau-lin
O'th flaen di fy ngraffol Frenhin.

I fegian arch ar dy ddwylo,
Er mwyn CRIST na phall im' honno.

3 Di orchmynnaiſt immi ofyn,
Di addewaiſt rhoi ond canlyn,
Canlyn 'rwi na phalla immi,
Mat. 7.7-3. O'r un arch ag wyſi 'n erchi.

4 *Salomon* gynt y brenhin hyſryd,
2 Bren. 3. Geiſie un arch, doethineb genyd;
Ac di roddaiſt ei arch iddo,
A llawer mwy nag oedd e'n geiſio.

Gen. 28.26. 5 *Jacob* ynte geiſiodd genyd,
Gen. 32.10. Fwyd a dillad nes dychwelyd:
Ac di roddaiſt hynny iddo,
A llawer mwy nag oedd e'n geiſio.

6 Minne ſydd yn dyfod attad,
Ar fy nau-lin anwyl Geidwad,
Ceiſio genyd arch trwy weddi.
Er mwyn CRIST na phall hi immi.

7 Nid wi 'n ceiſio golud budol,
Uchel fraint na phleſer cnawdol;
Ond yn unig gras a gallu,
Byth fel Criſtion i'th waſ'naethu.

8 Dyro ras a grym i'minne,
'N awr yn blentyn gwympo i ddechre
Dy waſ'naethu mewn gwir grefydd,
A'i arferu yn dragywydd.

9 Na'd im' dreulio dyddie 'm ieuengctid,
Mewn oferedd, rhwyf a rhydd-did;
Ond par immi yn fy nghryſdwr,
Dy addoli fy Nghreawdwr.

Dan, 1. 10 Agor dryſior dy ddaioni,
§ *Y ſawl oedd o'r un oedran eg of.* Dyro ras a deall immi,
Yn ddyn bach dy wir gydnabod,
Megis *Daniel* gynt a'i § gyfod.

Jeremi

11 *Jeremi* y Prophwyd ynte, Je. 1.
Yn fab bach a'th wir addole,
Dyro ras fel *Jerem* immi
Yn fab bach i'th wir addoli.

12 'Rwi 'n fy offrwm i'th waſ'naethu, Rhuf. 12. 1. 2.
Yn fy ieungctid yn ddi-hiraethu:
Arglwydd graſſol derbyn finne,
I'th waſ'naethu yn ddi-amme.

13 Di dderbynaiſt *Samuel* gynta,
I'th waſ'naethu ar y ianga,
Pan yr oedd ef yn ei ſhiacced,
Yn fab bach yn dechre cerdded. 1 Sam. 3. 1.

14 Derbyn finne Arglwydd graſſol,
I'th waſ'naethu mor natturiol,
Ac eglura dy hun immi,
Fel y gallwi 'n fach d' addoli.

15 O cyflawna fi 'n ddigonol,
A phob dawn ſy'n anghenrheidiol,
Immi gaffael bod yn enwog,
Yn was itti 'r holl-alluog.

16 Agor lygaid fy ngwybodaeth,
Rho im' ras a deall helaeth, Sal. 119. 18.
Fel yſtyriwyf yn dra pherffaith,
Bethau dirgel yn dy gyfraith.

17 'Nynn fy nghalon â gwreichionen,
O'th wir ras tra fyddwi 'n fachgen,
Fel y lloſcoi byth yn wreſog,
Yn dwyn Zêl i'r holl-alluog.

18 Cwrdd a'm calon â marworyn,
Oddi-ar d' allor tr'a fwi yn blentyn,
Fel y gallwi draethu i'r gole,
Dy fawr glod tr'o chwyth i'm gene. Eſay. 6.

19 Rho im' bwer i ddeallu,
Dy wir-air a'i iawn ddoſbarthu,

Fel

Fel y gallwi iawn yſtyried,
Beth ſydd dda ar les ſy enaid.

20 Gwna fi byth yn batrwn duwiol,
Yn f' ymddygiad i'th holl bobol,
Gan fyw yn ſanctaidd yn fy muchedd,
Ym-mhob pwynt o'm dechre i'm diwedd.

21 Dymma f' arch a dymma nghanlyn,
Dymma 'r rhoddiad wi 'n ei ofyn:
Er mwyn *Criſt* na phall di immi,
Ras yn blentyn i'th addoli.

22 Na'd i'm dreulio dim o'm hamſer,
O hyn allan byth yn ofer,
Ond par immi dreulio 'n waſtad,
'Nghylch y peth y berthyn attad.

23 Tywallt fendith ar fy nrhafel,
Par im' ddyſgu yn ddiogel;
Rho im' gymmorth i dde llu,
Ac i gofio 'r peth wi 'n ddyſgu.

24 Tanna droſwi d' adain raſſol,
Cudd fi deni yn waſtadol,
Na'd un gelyn wneuthur niweid,
Mewn un modd i'm corph na 'm heneid.

25 Cadw fi rhag cwrp na thramgwydd,
C'wilydd, celled, anap, aflwydd,
Nychdod, niweid a'r fath hynny,
O's bydd d' 'wyllys yn cenhadu.

26 Bid dy lygaid i'm diwallu,
Bid d' Angelion i'm caſtellu,
Bid dy Yſpryd i'm cyfrwyddo.
Bid dy ras i'm cynnorthwyo.

27 Cloc i ti a gras i minne,
Mawl i'm Brenhin nos a bore,
Gwir ogoniant yn dragywydd,
Y fo i'm Harglwydd a'm achubydd. *Amen.*

CAN

CAN CXL. *Cyngor Arall* MR. PRITCHARD *(m dd rhai) i'w Fâb.*

NA * phampra 'r corph i Ladd yr enaid,
Na ddigia *Dduw* i ‡ bleſſio diawlaid:
Na werth y Nef i brynu daiar,
Na phecha mwy rhag bod 'n 'difar.

* *Na wna yn rhy fawr o'r corph.*
‡ *Rhyngu bodd.*

2 Pe caet beunydd fwytta Manna,
Ar felus-fwyd lanw 'th fola;
Beth dal itti yn ol hynny,
A myn'd i uffern i newynu?

3 Pe caet yfed gwin yn ddiod,
Gwiſgo porphor ſtein yn waſtod,
Rhoi dy droed ar warr Brenhinoedd,
Beth wyt nes o' colli 'r Nefoedd?

4 Pe baet berchen aur yr *India*,
Da 'r holl fyd a'r tiroedd tecca,
Beth y dal it' hyn o wagedd,
A cholli d' enaid yn y diwedd?

Mat. 16.26.

5 Pe caet orwedd gyda || *Fenus*,
Pleſſio 'th gorph o'r lana gerddws
Beth yw d' ennill am dy drafel
A myn'd d' enaid gan y cythrael?

|| *Rhyw fenyw deg.*
‡ *Geiau.*

6 Pe caet bawb i ffyſto 'th gefen,
Plant y byd i'th ſirio 'n llawen:
Beth y dal i'r rhai'n dy § fflattro,
A Duw wrthyt wedi digio?

§ *Gweneithio*

7 Gwell gwaſ'naethu Duw na'r byd,
Gwell ffrwyno 'r coph na 'th ddamnio 'gyd,
Gwell trafel byrr na phoen tragwyddol,
Gwell bara dwr na gwledd uffernol.

8 Gwaſ'naetha *Criſt* rhyfela a'r cythrael,
Di gae 'r Goron am dy drafel:
Coſpa 'r cnawd i gadw d' enaid
Di gei ran o'r wledd fendigaid.

CAN CXLI. *Achwyn Mr.* Pritchard *ynghylch Tre Llanymddifri; a'i rybydd a'i gyngor ef iddi.*

Gellir meddwl wrth y Gân ymma fod yr Awdwr duwiol yn ei amser yn cael ei flino yn aruthur gan ddrwg Arferion Trigolion Llanymddyfri; *ac yn rhagfynegu ei dimister, trwy gymeryd ei Destyn o* Dan. 5. 25. *lle mae y Prophwyd yn dangos ystyr y gair* MENE, TECEL, UPHARSIN.

MENE, TECEL, Tre *Llanddyfri*,
Pwysodd DUW di yn dy frynti:
Ni chadd ynot ond y sorod,
Gochel weithian rhag ei Ddyrnod.

2 Gwialen dost sydd barod itti,
Er ys dyddiau am dy frynti,
A'th anwiredd sy 'n cynyddu,
Gochel weithian gael dy saeddu.

3 Hîr y herys DUW heb daro,
Llwyr y dial pan y delo:
Am yr echwyn a'r hîr scori,
Och! se dal ar un-waith itti.

4 Mae 'n rhoi amser itti wella,
Mae 'n rhoi rhybydd o'r helaetha:
Cymmer rybydd tra so 'r amser,
‡ Onid e se bryn dy grwpper.

‡ *Copy arall sel hyn, onte gwae di ar syrder.*

5 Pa hwya mae *Duw* 'n aros wrthyd,
Am ddifeirwch a gwell bywyd,
Waeth-waeth, waeth-waeth yw dy sychedd
Ond gwae di pan ddel y diwedd.

6 Lle b'o DUW yn hîr yn oedi,
Heb roi dial am ddrygioni,
Trymma oll y sydd ei ddyrnod,
Pan y del i ddial pechod.

Goch

7 Gochel dithe ddial *Duw*,
Fe ddaw ar frys er llaeſed yw;
A'i drad o wlan, a'i ddwrn o blwm,
Lle delo 'n llaes ſe dery 'n drwm.

8 Tebig ydwyt i *Gomorra*,
Sodom boeth, a thref *Samaria*,
Rhai na fynnent wella hyd farw,
Nes eu troi yn llwch a llydw.

9 Tebig ydwyt ti i *Pharao*,
Oedd a'i galon gwedi ſero,
'R hwn na fynne wella ei fuchedd,
Nes ei † blago yn y diwedd.

† *Ddifa.*

10 Cefaiſt rybydd lawer pryd,
Nid yw cyngor 'moethyn id',
Nid oes lun it wneuthur eſgus,
O! gwae di y dref anhappus.

11 Bore codais gyda 'r ceiliog,
Hîr ddilynais yn dy annog
Droi at Duw oddi wrth dy frynti,
Ond nid oedd ond ofer immi.

12 Cenais itti 'r udcorn aethlyd,
O farn *Duw* a'i lîd anhyfryd
I'th ddi-huno o drwm-gwſg pechod,
Hwrnu er hyn wyt ti yn waſtod.

13 Minne 'th || lithiais â di-figil
Addewidion yr Eſengyl;
Yn fwyn i'th wawdd i edifeirwch;
Ond ni chefais ond y triſtwch.

|| *Ddenais tynnais trwy deg.*

14 Mi 'th fygwthais dithe a'r gyfraith,
A dialau *Duw* ar un-waith,
Geiſio frwyno d' ên rhag pechu,
Ffrom a ffol wyt ti er hynny.

15 Cenais bibau ond ni ddawnſiaiſt,
Toſt gwynfannais nid alaraiſt:

Mat. 11.17.

Ceiſiais trwy deg, a thrwy hagar,
Ni chawn genid ond y gwatwar.

16 Beth a allaf wneuthur weithian,
Ond i thynnu i ochor ceulan,
I wylo 'r deigrau gwaed pe gallwn,
Weld dy arwain tu a'r dwngiwn.

17 Pwy na wyle weled Satan,
Yn dy dynnu wrth ede Sidan,
I bwll uffern yn dragwyddol,
† *Abwyd*, A'r bach, a'r † bait o bleſſer cnawdol?

18 *Eſau* werthe ei 'difeddiaeth,
Am y phiolaid gawl yſowaeth:
Dithe werthaiſt deyrnais Nefoedd,
Am gawl brag, do, do, o'm hanfodd.

19 Dymma 'r peth ſy'n torri 'nghalon,
(Wrth dy weld di 'n awr mor ffinnion),
‖ *Yſtiolaethu* Orfod ‖ prwfio hyn yn d' erbyn,
Ddydd y farn, heb gelu gronyn.

20 Toſt yw gorfod ar y Tâd,
Ddydd y farn heb ddim o'r gwâd,
Dyſtiolaethu o led 'ſafan
Yn erbyn brynti 'i blant ei hunan.

21 Hyn a fydd a hyn a ddaw,
Oni wellau 'maes o law:
Er mwyn *Criſt* gan hynny gwella,
Rhag i ddial Duw dy ddala.

Joel. 2. 12. 22 Gwiſga lenn, a ſach am danad,
Wyla nes b'o 'th wely 'n nofiad:
Ac na fwyta fwyd na diod,
Nes cael pardwn am dy bechod.

Ezra. 9 3. 23 Cur dy ddwy-fron tynn dy wallt,
Luc. 18. 13. Wyla 'r deigre dwr yn hallt:
Cria yn ddyfal iawn ‡ Pecavi,
Arglwydd madde meiau immi.

Bwr

24 Bwrw ymmaith dy ddifteithdra;
Twyll a ffallftedd, a phytteindra:
Gâd dy fedd-dod cladd dy frynti,
Mae DUW 'n gweld dy holl ddrygioni. Pet. 16. 17.

25 Mae dy farn wrth ede wenn,
Yn crogi beunydd uwch dy benn;
Mae dy blant a phob ei reffin,
Yn ei thynnu ar dy ‡ gobin. ‡ *Coppa.*

26 Gochel bellach, dal dy law,
Dial Duw fel bollt a ddaw,
Rhoi it rybydd prudd fydd raid,
Oni chymri rybydd, paid. Ezec. 33. 7. 8. 9.

CAN CXLII. *Achwyn Eglwyfwr.*

DUW, gwel drwmmed yw fy nghalon,
Weled faint peng'ledrwydd dynion,
Ceifio eu harwain tua 'r Nefodd
Hwyntau ant i'r tan heb ddiffodd.

2 Golchi 'r || Moyrys du trwy Sebon, || *Dynion dwm*
Troi 'r *Iorddonen* i ben *Hermon*,
Yw cynghori 'r dyn pen-galed
Ofni Duw, a charccu 'i enaid.

3 Cais trwy deg, a chais trwy hagar, Sal. 58. 4. 5
Ofer canu i'r neidir fyddar:
Trinia fynnech ar bren pwdwr.
Byth ni ry 'ti ffrwyth na fweewr.

4 Dyfg, a dangos, gwa'wdd, ymhwedd,
Mab y fall ni wella o'i fuchedd:
Lladd a'r gyfraith, gwa'wdd a'r 'fengyl,
Ni thry attad ond ei wegil.

5 Gollwng arno 'r holl Brophwydi,
A'r 'Poftolion i'w gynghori;
Nid gwaeth ffyfto pen wrth bentan,
Ni wna ond y fynno ei hunan. Gwae

6 Gwae fy nghalon drom gan hynn y,
Na buaſſe DUW 'n gwyllyſu.
* *Gofal.* Fy rhoi 'n fugail ar dda gwylltion,
Cyn rhoi i'm * ſiars y cyfryw ddynion.

7 Y corr a dynn y gwenwyn lindys,
O'r blodeuyn goreu ei relys,
A'r dyn drwg a dynn ryw accān,
O bur eiriau DUW ei hunan.

8 Waith i *Griſt* ein prynwr tirion,
Jud. 4. Golli droſſom waed ei galon,
Rhuf. 6.1.2. A'i roi 'n bridwerth dros ein pechod,
Fe fynn llawer bechu 'n waſtod.

9 Waith bod *Noe*, a *Lot*, yn feddw,
Waith bod *Jonas* hen yn chwerw;
Fe fyn llawer droedo eu llwybrau,
Heb ddilyn un o'u holl rinweddau.

Mat. 26.27. 10 Pob gwas gwych y nawr a feder,
Dyngu a rhegu gyda *Pheder*:
Pa'm na welai rai yn medru,
Gyda *Pheder* edifaru.

† *Bagad.* 11 ‡ Swrn ſy'n dilyn *Dafydd* Brophwd,
Mewn godineb, lle gwradwyddyd:
Ond ni welai neb yn dilyn,
Edifeirwch *Dafydd* frenhin.

12 Un a ddwaid mi adawa,
Fy meie gyd y ſlwyddyn neſſa,
Beth medd *Griſt*. o's aiff dy enaid,
Luc. 12.21. Heno neſſa gan gythraeliaid?

13 Llall y ddwaid helwn heddu,
Ni wellawn ein beiau foru;
Heno lladd y gwr yn feddw,
DUW, b'l r aeth 'difeirwch hwnnw?

14 Yn ol hwn y d'wed y trydyd,
Pe bae fy mai yn fwy na'r mynydd,

Mae

Mae *Duw* mawr yn ſwy drugaredd;
Mi gaf bardwn ar ſy niwedd.

15 Felly waith bod *Duw* yn raſſol,
Ac yn dirion i'r 'difeiriol,
Llawer dyn ſy'n pechu 'n ſceler,
Heb yſtyried ei gyfiawnder.

16 Er bod *Duw* yn llawn trugaredd, Ex. 34 6.7.
Yn hwyr ei lid, yn dda ei ammynedd: Neh. 1. 2.3.
Etto er hyn mae *Criſt* yn d'wedyd.
Fod *Duw* mawr yn gyfiawn hefyd.

17 *Duw* ſydd raſſol, *Duw* ſydd gyfion, Heb. 12.29.
Duw ſydd fwyn, a DUW ſydd ddigllon,
Duw ſydd ddof, a DUW ſydd danllyd,
DUW ſydd hael, a chynnil hefyd.

18 Mae e'n madde 'r mil talentau, Mat. 18.
Etto 'n pallu 'r hattling withiau:
Mae 'n rhoi 'r nef yn rhwydd i ryw-un,
Etto i'r llall yn pallu 'r || droppyn. || *Defn.*

19 I'r rhai ffyddlon edifeiriol, Eſa 55. 7.
Mae DUW 'n ffyddlon ac yn raſſol, Jo 3. 36
Ond i'r cydyn, cas gwrthnyſſig, Sal 18. 25. 16.
Mae *Duw* 'n greulon, ac yn ffyrnig.

20 O herwydd hyn 'r wi 'n cynghori,
Na ddilyner hir ddrygioni,
Ond i bawb tra fyddont byw,
Dreulio eu hoes mewn ofan DUW.

CAN CXLIII. *Rhaid glynu wrth Criſt heb adel i ddim ein troi oddiwrtho.*

O 'S Tâd, o' Mam, o's Mâb o's Merch,
O's tai, o's tir, o's gwraig trwy ſerch,
Y gais dy droi, yn draws neu 'n driſt
Oddiwrth dy gred a'th ſerch at *Criſt*;

Gad

Luc. 14.26. 2 Gad Dâd i droi, gâd Fam, i wylo,
Gad wraig i ſcoi, gad blant i grio,
Gad dai, gad dir, gad faeth, gad fywyd.
Cyn gado *Criſt*, gad faint ſydd gennyd.

2 Cor. 6.18. Sal, 18. 2 Eph. 1. 3. † *Awyl.* 3 Bydd *Criſt* yn Dâd yn Fam, yn frawd,
Yn graig yn gaer yn ſirynd, yn nawd,
Yn gyfoeth, mawr, yn lles, yn llwyddiant,
Yn bob peth † cu i bawb a'i carant.

4 Heb *Criſt*, heb gred, heb faeth heb fywyd
Heb ddull heb ddawn, heb nerth heb iechyd
* *Gobaith.* Heb * hop, heb help, heb ras, heb rym,
Heb ddyſg heb dda, heb *Dduw*, heb ddim.

CAN CXLIV. *Gwell Duw na dim.*

GWell *Duw* na'r nef na dim ſydd ynddi,
Gwell na'r ddaer, na 'r maint ſydd arni,
Jer 9. 23. Gwell na 'r byd, na'i olud in'
Gwell, a dau-well DUW na dim.

Sal. 27. 10. Dih. 8. 19. Sal. 63. 3. Gwell na Thâd, na mam, na mammaeth,
Gwell na chyfoeth, na thifeddiaeth,
Gwell na *Mari*, gwel na *Martha*,
Gwell na dim yw DUW gorucha.

3 O's DUW ddewiſiaiſt yn dy ran,
Sal. 73. 25. 26. Rhuf. 8.21 Sal. 91. 11. Cei *Criſt* i'th gynnal ym-mhob mann.
Cei 'r Sainct i'th gylch. cei 'r byd i'th beri,
Cei 'r nef i'th rann, cei 'r fall i'th ofni.

4 Di ddewiſiaiſt y rhann benna,
Pan ddewiſaiſt DDUW Gorucha,
Rhann na ddygir byth odd' arnad,
Luc. 10.41. Tra parhao 'r haul a'r lleuad.

5 Pan duo 'r haul pan wrido 'r lleuad,
Mat. 24.29. 2 Pet 3. 10. Luc. 21.28. Pan ſyrthio 'r ſêr, pan ofno bagad,
Pan lloſco 'n boeth y byd a'i bwer,
Bydd dy rann di yn ddi-bryder. Cwyn

6 Cwyn dy galon, na fydd wann,
Cadw d' afael ar dy rann:
Di ddewiſaiſt y rhann orau,
Gochel newid hyd at angau. Dat. 2. 10.

CAN CXLV.- Crist *yw* Pren y Bywyd.

DEWCH bob rhai at Bren y Bywyd,
Dewch at Grist ein Prynwr hyfryd,
Mwynhewch y ffrwyth a chredwch yntho, Dat. 2. 7:
Chwi gewch râs a bywyd gantho. Jo. 3. 36.

2 Dyma 'r Pren a dyn y dingcod,
A'r newyn du, a'r poen a'r pechod;
A'r melldith Ddduw, a'r loes wenwynig,
A ddaeth o fwyta 'r Pren gwa'rddedig.

3 O bwytewch o'r pren yn rhad,
O'r Nef y daeth oddiwrth y Tâd;
I'n gyrru 'n iach, i gadw 'n bywyd,
I dorri 'n chwant, i roi in' iechyd.

4 Mae ffrwyth e 'n bêr mae ddail yn iachys,
Mae flas yn well na'r manna melus; Dat. 22. 2.
Ni all newyn byth nac angau. Jo. 6.35.49.
Flino 'r dyn a fwytu ei ffrwythau. 50.

5 Crist yw 'r pren, O dewch bawb atto,
Y ffrwyth yw 'r bywyd y ſydd ynddo;
Y dail yw 'r gair a'i gyngor iachus,
Sy'n bywhau yr enaid clwyfus.

6 Dewch bob rhai ſy'n flin eu cyflwr, Mat. 11.28.
Dewch at Grist, ein gwir Iachawdwr,
Dewch i dderbyn gras ac iechyd,
Cymmorth cynffordd bawb o'r holl-fyd.

7 Dewn at y pren, bwytawn ei ffrwythau,
Crynown ei ddail rhown wrth ein clwyfau,
Fe 'n gwir iacha, fe dyrr ein newyn,
Fe bair i'n fyw tros fyth heb derfyn.

CAN CXLVI. *Criſt a arwyddoccawd wrth* OEN y PASC.

1 Cor. 5. 7. CRIST yw OEN y Paſc, a'n haberth,
CRIST yw 'n HOEN a'n hoffrwm pryd-
OEN DUW, OEN da, OEN gwynn i gyd (ferth
Sy'n tynnu ffwrdd bechodau 'r byd.

2 CRIST yw 'r Oen a laddwyd droſom,
CRIST a archollwyd am y wnaethom;
A'i waed gwerthfawr pan groes-hoeliwyd,
Am ein beiau a dywalldwyd.

3 Blin, a thoſt, a thrwm, ac irad,
Poeni 'r Oen am feiau 'r ddafad;
Lladd Mab DUW, ar flaeniau 'r hoelion,
Am bechodau Meibion dynion.

4 *Adda* 'n bwyta 'falau pechod,
Dannedd CRIST yn godde 'r dingcod,
Dyn yn pechu, CRIST yn marw;
B'le bu cariad o'r fath hwnnw?

5 Och! pa galon na thoſturia,
Chwipio CRIST am bechod *Adda*;
Lladd y bugail am fai 'r defaid;
§ *Tywyſog.* Crogi 'r § Prins i gadw 'r deiliad?

6 Gwerthu 'r meiſtr i brynu 'r gweiſion,
Lladd y Mâb i gadw ei 'lynion.
Mwrddro 'r meddyg, brathu i yſtlus;
'Gael ei waed i helpu 'r clwyfus.

CAN. CXLVII. CRIST *a arwyddoccawd wrth y Sarph Bres.*

Y Sawl a frathwyd gan y ddraig,
Diaſol Dewch at GRIST JESU hâd y wraig,
Gen. 5. 15. Fe drin y brath, fe dynn y colyn;
Fe rwym y ddraig, fe' ſiga 'i chobyn.

2 'Ry'm ni bob rhai gwedi 'n brathu,
Mae col pechod gwedi 'n gryddfu,

Ni

Ni all neb ond CRIST ein helio, Jo. 3.14.15.
Fe yw 'r *Sarph-Bres*, craffwn arno. Num. 21.8.
3 Craffwn ar GRIST a groes-hoeliwyd,
Fel y craffei 'r rhai a frathwyd
Ar y *Sarph-bres* yn y diffaith,
Fe a'r loes a'r gwenwyn ymmaith.
4 O's edrychwn arno yn brudd, Luc. 4. 18.
A chalon donn a llygad ffydd, Jo. 6. 40.
Er i'r Sarph â'i chol ein clwyfo,
Fe 'n iacha ond edrych arno:
5 Oni ddewn at GRIST ar fyrder,
I gael help rhag brath y wiber,
Nid oes meddyg yn yr holl-fyd,
Ond Mâb DUW all gadw ein bywyd.
6 Dewn gan hynny yn gyfain atto,
Ceifiwn help a chymmorth gantho,
O's dangoffwn ein Archollion,
Fe 'n iacha â Gwaed ei Galon.

CAN CXLVIII. *Hymn ar ddydd* NADOLIG.

POB Criffion ag fy'n clywed,
A'm llais yn medru yfturied,
Cenwch foliant gydâ mi,
I'r un DUW tri gogoned.
2 Derchefwch eich calonnau,
Cyd genwch Salms a Hymnau,
Er clod a mawl i'n Prynwr † cu, † *Anwyl.*
Y aned heddu 'r borau.
3 Er dymma 'r dydd y dylen,
I mroi i fod yn llawen,
I glodfori bob rhyw awr,
Ein Ceidwad mawr a'n cefen,
4 O's dymma 'r dydd y ganed,
CRIST, Ceidwad, cynffordd holl-gred,

Unig helpwr yr holl fyd,
A gwyn ein byd ei weled.
5 Dymma 'r dydd y cafas,
Holl gred eu gwynn a'u hurddas,
Dyma 'r dydd y torrwyd pen,
Y Sarph a'r filen atcas.
6 Dyma 'r dydd y cawſom,
Y gwyn'fyd gynt y goll'ſom,
Trwy wall *Adda* ein tâid cu,
Pan ddaeth CRIST IESU attom.
† *Y mae 'r Dydd wedi eſod yma wrth metonymia yn lle Crift a aned ar y dydd.*
7 Dyma 'r dydd y dorrodd,
Y fagal gynt a'n rhwydodd;
Dyma'r dydd y barodd och,
I'r wiber goch a'n hudodd.
8 O's dyma 'r dydd y ganed,
Mab DUW yr had bendigeid,
Addawſyd gynt o hil y wraig,
I ſathru 'r ddraig oedd embeid.
9 O moeſwch in' gan hynny,
Sancteiddio 'r dwthwn heddy,
Er cof am Brynwr yr holl-fyd,
A ddaeth mor ddryd i'n helpu
10 A nedwch in' aghofio,
Yn ddyfal ei fendithio,
Am y cymmorth mawr i gyd,
Y gadd y byd oddiwrtho.
11 Ond moeſwch in' glodforu,
Ei enw a'i foliannu,
Ddydd a nos tr'o ynnom chwyth,
A'r eitha byth o'n gallu.
12 A heddyw yn enwedig,
Yn gyfan ddydd nadolig,
Cenwch nes dat-ſeinio 'r Nef,
Gan lais eich llef caredig:
13 O'r caniad cynta 'r Ceiliog,
Ymrowch i godi yn genſog,

I glod-

I glodfori hyd y wawr,
Eich Prynwr mawr trugarog.
14 A phan y torro 'r wawr-ddydd,
Cyd genwch a'r uchedydd,
Foliant am eich tynnu i maes,
O'r tywyllwch cas tragywydd.
15 A chanol dydd heb orphen,
Fel ceiliog y fwyalchen,
Cenwch Salmau iddo 'n glos.
Nes dycco 'r nos y ſeren.
16 A chwedin o'r dechreu-nos,
Yn ddyfal fel yr Eos,
Cenwch, cenwch, nac orphwyſwch,
Nes gorpheno 'r hir-nos.
17 Ac felly nos a boreu
A chanol dydd yn ddiau,
Treuliwch y nadolig ddydd
Mewn diolch prudd a Salmau.
18 Can's dymma 'r dydd i'n prynwyd,
A'r dydd i'n ‡ reconſeiliwyd,
Yn ffryns i DDUW ein Barnwr prudd, ‡ *Heddychwyd*
A dyma 'r dydd i'n helpwyd.
19 Dyma 'r dydd a'n cododd,
O uffern hyd y Nefoedd,
A'r dydd a'n gwaeth † yn blant i Dduw, Joan. 1. 12.
Ond hyfryd yw 'r geithredodd.
20 Dyma 'r dydd ſy'n rhwygo
Ein ſach, a'r dydd ſy'n datro
Ein trſtwch i lawenydd trwch,
O gorfoleddwch ynddo.
21 O's dyma 'r dydd y ganed,
OEN DUW, yr Had bendiged,
I dynnu ffwrdd bechodau 'r byd,
Oedd goch i gyd fel ſcarled.
22 Dyma 'r dydd gan hynny,
Y mae in' orfoleddu,

A myn'd i Lyſoedd DUW yn lân,
Dan ddiolch a than ganu.
23 Dyma 'r dydd ſydd inni,
Yn ddyſal i addoli,
A'i fendithio bob rhyw awr,
Am dan ei fawr ddaioni.
24 A chofio 'r modd i'n prynodd,
Trwy 'r gwerthfawr waed a gollodd,
O dan ei fron ar grog-pren croes,
A'r chwerw loes a gafodd.
25 Fel Pelican cariadus,
Tuag at ei adar clwyfus,
Fe rodd gwaed ei galon bur,
I helpu ei frodyr nafus.
26 Fe adawodd yr Angelion,
I ddwad at Iuddewon,
I brynu enaid dyn yn rhad,
A gwerthfawr waed ei galon.
27 O'r gadeir ym mharadwys,
I'r ddairen ſe ddiſcynnwys,
I gymryd cnawd o *Fair* wenn † dlos,
I farw dros ei Eglwys,
28 Fe gymrodd arno 'n tlodi,
A'n gwaeledd a'n gofydi,
A'r holl ddial arno i hun,
A haeddei ddyn am frynti.
29 Fe anwyd am ein beiau,
F' archollwyd am gamweddau,
Ond trwy gleiſiau ſe iachaws,
Holl liaws ein pechodau.
30 Fe gollodd waed ei galon,
Ar grogpren hefyd droſon,
Ac ſe 'n gwnaeth yn blant i DDUW,
Pan 'r oeddem yn elynion.
31 Fe 'n golchydd o'n pechodau,
Fe brynodd ein heneidiau,

† *Deg. Eph.* 5. 25.

‡ *Sef y bybl az a alwya' neu a elwir i undeb az ef ei hun trwy ffydd ac i ufuddhau iddo mewn cyfiawnder a ſancteidd rwydd.*

Ac

Ac fe 'n dug i deyrnas Nef,
Er maint yw llef ein beiau.
32 O moeſwch in' gan hynny,
Yn gefnog ei glodfori,
Ddydd a nos, chwi welwch pa'm,
Mor raſſol am ein prynu.
33 A moeſwch inni gadw,
Y gwilie ſydd ar ei enw;
Mewn duwiolder rhinwedd rhad,
C'redigrwydd cariad croyw.
34 A moeſwch inni dreulio,
Yn Sanctaidd heb eu nyrddo,
Mewn oferedd yn y byd,
Ond pawb i gyd Sancteiddio.
35 Trown heibio afreolaeth,
A medd-dod a phibyddiaeth,
Ac awn ynghyd i Deml DUW,
Canys hynny yw Criſtnogaeth.
36 Nid gweddaidd i griſtnogion,
Ymdroi mewn beiau bryntion,
Ar wilie CRIST ein Prynwr prudd,
Y modd y bydd Iddewon.
37 Ond treulio rhai'n yn ſanctaidd,
Yn ſobor ac yn weddaidd,
Megis plant i'n Nefol Dâd,
Mewn gras a chariad perffaidd.
38 Ac arfer bob diwrnod,
Yn ddyfal iawn i ddyfod,
I Deml DDUW a'i ſanctaid dŷ,
Bob rhai dan ganu mawr-glod.
39 Nid edrych ar ein dwylo,
Am roi un Aberth iddo,
Ond clod a mawl tu fewn ei lys;
Can's hyn ſydd felus gantho.
40 O dewch i'w byrth gan hynny,
Dan ddiolch a than ganu,

† Trwy bryniad y pwrcas mae 'r *Ieſu* bendigedig wedi llwyr brynu cyſiawnhau, golchi, a chymmeradwyo ei Eglwys *Sef* ei gorph; hyn ſydd yn cael ei wirio ty hwnt i bob dadl, trwy ei Adgyfodiad ef oddiwrth y meirw: Eithr eyn y dygo ef un o'r gwaredigion i'r dragwyddol orphwyſfa, mae 'n rhygu bodd iddoeu cynyſgaeddu affydd, cariad ac edifeirwch trwy 'r hyn y maent yn dyfod yn ddilynwyr *Duw* fel plant anwyl. Sal. 51. 17. 1 Cor. 6. 20. Rhuf. 12. 1. Mich. 6. 6, 7. 8.

Fach

Fach a mawr ar foreu a hwyr,
Yn brudd i'w lwyr foliannu.
41 O dewch i'w Deml ſanctaidd,
Yn drefnus ac yn weddaidd;
I glodfori enw DUW,
Can's hyſfryd yw a gweddaidd.
42 Tra gweddaidd a pherthnaſol,
† *Rhaid moli a'r tafod ac a'r galon.* I bob rhyw Griſtion duwiol,
Foli ein Prynwr ddydd a nos,
Am farw dros ei bobol.
43 Dyma'gyd y taliad,
Y diolch a'r aberthiad,
Y mae 'n ddiſgwyl ar law 'r gwŷr,
Am dan ei gur a'i gariad.
44 Gan hynny curwch ddwylo,
A rhoddwch foliant iddo,
Yn ei Demel fawr a'i Lys,
Can's hyn ſydd felus gantho.
45 A nedwch i ni 'n un-lle,
I'w gablu a'n geneue,
* *Cyfiwor:* Rhag 'n myn'd yn waeth ein câs,
Na *Suddas* a'i bradyche
46 I'r Tâd i'r Mâb, i'r Yſpryd,
I'r Drindod undod hyfryd,
Y bo clod a moliant mawr,
Bob dydd, bob awr, bob enyd.

CAN CXLIX. *Cyngor i geiſio yr Arglwydd* IESU GRIST

O, cais gŵr. na gwraig na phlentyn,
Gael y bywyd mawr di-derfyn,
Ceiſient GRIST ſy a'r bywyd yntho,
Ac hwy gant y bywyd gantho.
2 Rhaid yw ceiſio CRIST yn gynta,
Lle mae 'r bywyd yn lleteua,

Gwael

Gwael yw'r gwaith a thraws a thriſt, 1Ioan. 14.6.
Geiſio 'r bywyd nes cael CRIST.
3 Cais di GRIST yn Geidwad itti,
Ac yn Arglwydd i'th reoli;
Di gei 'r bywyd didrangc ynddo
Ac ni cholli fyth mo hono.
4 Oni cheiſi GRIST yn Geidwad,
Ac yn * Llywydd parchus arnad, * Llywodraethwr.
Nid yw boſſib it ddychymmig
B' wedd y byddi ddyn cadwedig.
5 Pawb a chwennych gael wrth farw,
CRIST fel Ceidwad pur i'w cadw,
Wrth fyw ni fynn ond rhai o'r rheini
CRIST fel Arglwydd i'w rheoli.
6 Na'd dy dwyllo Griſtion anllad,
Ni bydd CRIST ineb yn Geidwad,
Ond i'r dyn a gymro o ddifri,
GRIST yn Arglwydd i'w reoli.
7 'R hwn na fynno ei reoli,
Gan Air DUW, a'i Yſgryd gwiſgi,
Nac edryched y dyn hwnnw,
Gael gan un Mab DUW ei gadw. Heb. 3. 9.
8 Cais gan hynny GRIST yn Geidwad,
Ac yn Ben rheolwr arnad;
Ni all un-dyn gwnaed a fynno,
Byth fod yn gadwedig hebddo.
9 Pe caet ti'r byd a'i bethau euraid:
Heb gael CRIST i gadw d' enaid;
Beth y dal y drwg fyd triſt, Luc, 16. 17.
O's colli d' enaid eiſie *Criſt*?
10 Pe caet *Criſt* heb ddim ond hynny,
Di geit ddigon i'th ddiwallu:
Mae yn gryno *yng Nhriſt* ei hun, Col. 2. 19.
Oll ſydd raid i gadw dyn.
11 Och! na welit mor anghenrhaid,
Yw Mab DUW i gadw d' enaid,

Ac na elli weithio 'ſywaeth,
Hebddo ddarn o'th lechawdwriaeth:
12 Ond bod yn rhaid ac yn gorſod,
Arnad geiſio 'r IESU droſod,
Weithio 'r cwbwl ddechre a diwedd,
Cyn y gallech gael trugaredd.
13 Can's ni ddichon dyn nac Angel,
Gwyllt na dof nac un anifel,
Wellhau dim o'th cyflwr truan,
Nes cael gwellhad gan GRIST eu hunan.
14 Rhaid it' *Griſt* yn DDUW, yn ddyn,
A'i ddwy nattur dan yr un,
Weithio pob darn o'th bryd bryniad,
Cyn boddloner DUW 'r uchel-dad.
15 Rhaid i *Griſt* dy frawd a'th Frenhin,
Weithio pob darn a phob tippin,
O'r gwaith mawr o'th lechawdwriaeth,
Ni all eraill helpu 'ſowaeth.

† Er bod *Criſt* yn dyfod i lanhau y pechadur Pan y mae efe yn aflan; etto nid yw efe yn dyfod i ddiddanu pechadur nes yn gyntaf ei ſancteiddio ef. Act. 9. 31. Rhuf. 15. 13. Ioan. 14. 23.

16 O' cais enaid dyn feddiannu
Criſt a'i ddoniau i'w † ddiddanu,
Rhaid i'r enaid bach ymgyweirio,
Dderbyn *Criſt* cyn delo atto.
17 Gwna dy enaid bach yn barod,
I gael CRIST i drigo ynod,
Gwedi'n planna dy hun ynddo,
A thynn ras a grym oddiwrtho,
18 Rhaid it' wneuthur anwyl Griſtion,
Rŵm i *Griſt* cyn del i'th galon,
A chymmhennu ei le yn barod,
Cyn y delo dan dy fargod.
19 Ni all *Griſt* a'i Yſpryd Sanctaidd,
Aros byth mewn lle anghruaidd,
O' cais un dyn ei gyfeillach,
Gwnaed ei galon iddo 'n lanach.
20 Ni ddaw *Criſt* i'r galon aflan,
Nes troi pechod oflyd allan,

Ni thrig *Criſt* lle bo aflendid,
Sanctaid yw a glan ei Yſpryd.
21 Ni chyttuna Duw a Dagon,
Criſt a *Belial* mewn un galon,
Mwy na 'r dwr a'r tân pan ddoder,
I gyd aros mewn un lleſter.
22 Ni all calon llawn o falchder
Dderbyn *Criſt* nes i'r arloeſer,
Mwy na baril llawn o blwcca,
Dderbyn llaeth nes ‡ ſento 'r llacca.

‡ *Bwrrwallan*

23 Rhaid ymado yn lan a phechod,
A'i gaſau a'i lwyr ymwrthod,
Cyn y gallo enaid un-dyn,
Gael cyfeillach CRIST na'i dderbyn.
24 Rhaid i'r enaid bach ymarllwys,
O bob pechod y mae 'n gynwys,
Fel y gallo CRIST a'i ddoniau,
Lenwi 'r enaid gwag a'i radau.
25 Ni all un dyn dderbyn CRIST,
I'r galon âflan druan driſt,
Nes cymhenner hon yn gynta,
I grefawi 'r Brenhin mwya.

Eſ. 57. 25.
Saj. 24. 9.

26 Ni all un dyn wrth gwrs nattur,
Chwennych CRIST er maint ei ddolur,
Nes del Duw a'i ras i'w gyffro,
A dwyn y dyn o'i ‡ anfoedd atto.
27 Duw o'i ras a'i naws ei hun,
Sy 'n cynnig CRIST i gadw dyn,
Nid dim ond mwynder Duw yn unig,
Sy 'n cynnig CRIST i'r dyn colledig.
28 Nid oes dim mewn dyn all gyffro,
Duw, i ddangos ffafar iddo,

‡ *Er bod Dyn trwy natur yn anewyllyſgar i ddyfod at* Griſt, *etto ar ol tywallt yſpryd Duw arno, a gweithio gras ynddo y mae efe yn dyfod atto yn ewyllyſgar ac o'i wir-fodd.* Eph. 2. 1. Dih. 1. 2. 3. Ioan. 6. 44. Can. 1. 4. Sal. 110. 3. 1. Cor. 3. Ph. 2. 13.

Duw o'i natur dda ei hun,
Sy 'n rhoddi CRIST i gadw dyn.
29 Mae *Duw* yn cynig dwr y bywyd,
Gras a dawn, a didrangc iechyd,
Yn rhad yn rhwydd i'r dyn a'i mynno,
Dat. 21. 6. O's daw ar GRIST a ſyched arno.
Eſ. 55. 1. 2. 30 Mae *Duw* yn galw pawb yn rhîn,
I fwyta *Mana* i yfed gwin,
Yn rhad yn rhwydd heb aur heb arian,
O's at GRIST y dewn dan drottian.
31 Nid yw *Duw* yn gwradd i un-dyn,
Eſay. 1. 18. Dderbyn CRIST a'i gadw a'i ganlyn,
Y mae 'n gwardd i neb ei wrthod,
Er ffieiddied y ſo 'i bechod.
32 Er bod *Duw* yn cynig CRIST,
I bob pechadur truan trift,
Ni ddaw un er hynny atto,
Nes del *Duw* a bach i'w † luſco.
33 Ni ddaw un dyn gwnaed y fynno,
At fab *Duw* er maint ymg'weirio,
Nes y tynno Tad trugaredd,
Jo. 6. 44. Ef at GRIST i gael ymgeledd.
34 Ni ddoe 'r ddafad aeth ar ddidro,
Byth i'r gorlan nes ei chario,
Na phechadur at ei Geidwad,
Luc. 15. Nes ei gario fel y ddafad.
35 Ni ddaw lleidr at yr Uſtus,
Gal. 5. 17. Byth o'i fodd ond yn wrthwynebus,
Na phechadur ſerch ei flingo,
At ei Brynwr nes ei lyſgo.
36 Y mae natur yn gwrth'nebu,
Mae cydwybod yn ei nadu,

† *Pan ydys yn dywedyd fod Duw yn lhuſgo dyn at ei Fab* Criſt, *ei yſtyr yw, fod Duw, trwy ei Yſpryd o'i ras yn gwnenthur dyn ſydd o hono ei hun yn anwyllyſgar, i fod yn ewyllyſgar i dderbyn* Criſt. Can. 14.

Mae

Mae ei bechodau 'n dywedyd wrtho,
Ei condemnir o's daw atto.
37 Rhaid i *Dduw* 'r Tad agor llygaid
Dyn i wel'd gofydi ei enaid.
A'i drueni a'i wael gyflwr.
Cyn 'mofynno am Iachawdwr.
38 Ni ddaw 'r iach i mofyn Meddyg, Act. 26. 18. Mar. 2. 17.
Nes y gwelo ei glwyfo yn ffyrnig,
Ni ddaw dyn i mofyn Ceidwad,
Nes y gwelo ei gyflwr irad.
39 Rhaid in' weled ein trueni,
A'n toft gyflwr a'n gofydi,
A'r ddamnedig * Stad i'n ganed, * Cyflwr.
Cyn gwel'd eifie CRIST er rheitied.
40 Rhaid i'r Tad a'i Air a'i Yfpryd,
Oleuo dyn i wel'd ei ofid,
Cyn y ceifio dyn di-wybod, Hof. 11. 4c
Help gan GRIST i fadde i bechod.
41 Rhaid i'r Tad â bach o gariad,
Dynnu dyn fel tynnu dafad,
Cyn y delo un pechadur,
At Fab *Duw* i geifio cyffur.
42 Rhaid i *Dduw* droi 'r galon garreg,
Yn galon gig mor || foft a bloneg, Ezec. 36. 26. || Tyner.
Nes d' o leuo i wel'd dy gyflwr,
Ni mofynni am Iachawdwr.
43 Rhaid i *Dduw* 'r Tad ddangos itti,
Olud ei ras, a'i ddaioni,
Yn rhoi Fab droffot i'w groefhoelio,
Cyn y mentrech ddwad atto.
44 Rhaid i'r Tad fynegu itti,
Mor anfeidriol o'i ddaioni,
Ac mor barod yw i fadde,
I'r 'difeiriol ei holl feie.
45 A'i fod e'n gwahodd ac yn ceifio, Efay. 55. 7.
Pob pechadur ddwad atto,

1 Jo. 3. 23. I gael cyfran o'i drugaredd,
Ond ymwrthod a'i ddrwg fuchedd.
46 Rhaid i *Dduw* orchymmyn itti,
Dan boen melldith drom a didri,
Gredu yng-*Nghrift* a ymddyried yndde,
Cyn y mentrech ddwad atto.
47 Gwedi galw a gorchymmyn.
Rhaid i'r graffol dad dy ganlyn,
Ddwad at GRIST i'th gymmodi,
A'th Dad nefol gwedi ſiommi.
48 Rhaid dy ganlyn yn gariadus,
Mae dy natur mor wrthnebus,
Cyn y delech trwy ymhwedd,
I gael heddwch a thrugaredd.
49 Rhaid i'r Brenhin ganlyn Bradwr,
Ac ymhwedd a'r Troſſeddwr;
Cyn y delo i geiſio pardwn.
‡ Bradwriaeth. Am ei frad a'i drais, a'i ‡ dreſwn.
Eccc. 33. 11. 50 Er nad gweddus iddo ganlyn,
Arnat ti ſy 'n pechu i'w erbyn,
Mae 'n ymhwedd a thi 'n deilwng,
Ddwad atto i geiſio pardwn.
51 Gwedi 'r canlyn rhaid yw dangos,
Ddaed amynedd *Duw* a'i ymaros,
Mor ddioddefgar ac mor ddiddig,
Yw i'r Criſtion llaes, hwyr-frydig.
1 Pet. 3. 9. 52 Ac mor bwyllog y mae 'n edrych,
Gan gyd-ddwyn a'th feiau 'n fynych,
A hîr aros wrth dy leſſer,
I roi ymaith dob diffeithder.
Mat. 23. 37. 53 Er dy gymmell er dy gyſtro,
Er dy ganlyn a'th oleuo,
Ni ddoi byth at GRIST o'th bechod,
Act. 23. 37. Nes y pigo *Duw* 'th gydwybod:
54 A'th gyhuddo a'th ragfarnu,
A'th gondemnio, a'th lwyr adu,

Gan

Gan dy ‖ gonſiences doſt dy hunan, ‖ *Cydwybod.*
Am dy fuchedd oflyd aflan.
55 Ac er pigo dy gydwybod,
A'th gondemnio am dy bechod,
Ni ddoi byth at GRIST er hynny,
Nes del Yſpryd *Duw* i'th dynny. Jo. 6. 44.
56 Rhaid i *Dduw* a'i Yſpryd gwiw-lan,
Fwrw i maes yr yſpryd aflan,
Sy 'n dy galon yn teyrnaſu,
Cyn y ceiſiech help CRIST IESU. Eph. 2. 2.
57 Rhaid i'r Yſpryd-glan dy dynnu,
A'th rhyddhau a'th lwyr waredu,
Oddiwrth ſatan a'th gyfrwyddo,
At Fab *Duw*, cyn delech atto.
58 Rhaid dy dynnu oddiwrth dy bechod, Ioan. 14. 23.
A rhaid puro dy gydwybod,
A ſancteiddio 'r galon aflan,
Cyn y delo CRIST i'th gyfran.
59 Plant digofaint wrth naturiaeth,
Ym ni bob rhai oll yſywaeth, Eph. 2. 3
Hyd nes gwnelo CRIST ni, clyw, Jo. 1. 12.
O blant digofaint yn blant *Duw*.
60 Mae digofaint *Duw* mor greulon,
Yn lloſci yn erbyn pechod dynion,
Nid oes dim all ddofi ei loſgfan,
Ond gwaed calon CRIST ei hunan.
61 Ni all y dwr ſy uchlaw 'r ffurfafen,
Na dwr y mor, na dyfroedd *Hafren*,
Ddiffodd digter Duw at ddyn,
Nes dofo CRIST a'i waed ei hun.
62 'R ym ni bob rhai yn elynion Rhuf. 5. 1.
I'r DUW mawr y Barnwr cyfion, 10.
Nes y gwnelo CRIST ei hun,
Heddwch teg rhwng DUW a dyn.
63 Ni all dyn, na diawl, nac Angel,
Na nef na daer, mi ddyweda 'n uchel,

Reconſeilio

† *Heddychu.* † Reconceilio DUW a dyn,
Nes Reconceilio CRIST ei hun.
64 'R ym ni bawb dan felldith greulon,
Am drosseddu 'r Gyfraith gyfion,
Gal. 3. 10. 13. Ni ddaw neb o dan y felldith,
Nes gwaredo CRIST e'n ddichwith.
65 'R ym ni bawb yn weision pecod,
Ioan. 8. 34. 26. Yn pechu erchill bob diwrnod,
Ni all un dyn lai na phechu,
Nes del CRIST a'i adgenhedlu.
‡ *Caethweision* 66 'R ym ni bawb yn ‡ slafs i satan,
Luc. 11. 21. 22. Ac mewn carchar tywyll aflan,
Nes del CRIST i ddwyn ei arfau,
Ni ddaw dyn i maes o'i grampau.
67 'R ym ni bawb yn slafs i'r cythrael,
Ioan 3. 8. Ac mewn carchar du diogel;
Col. 1. 13. Nes del CRIST i rwymo satan,
Ni ddaw neb o'i deyrnas allan.
68 Pe doe *Michael* a'i Angelion,
Dat. 12. 9. 11 I ymdrechu a'r ddraig greulon,
Ni orchfyge byth mo hono,
* *Gorchfygu.* Nes doe Oen DUW i * goncwero.
Rhuf. 6. 23. Pen 8. 1. Pen. 5. 12. 17. 18. 69 'R ym ni yn euog bawb o angau,
Ac o uffern boeth a'i phoenau,
Ni all un-dyn ddiangc rhagddynt,
Nes gwaredo CRIST ni oddiwrthynt.
70 Fe 'n condemniwyd cyn ein geni,
Bawb am drosedd ein rhieni,
Rhaid cael cymmorth Crist yn gynta,
Cyn cadwer un o eppil *Adda*.
71 Ni chaiff un dyn gwnaed a allo,
Fyn'd i deyrnas DUW i dario,
Nes ail aner hwn yn hyfryd,
Ioan. 3. 5. 6. Gan Fab DUW, a'r dwr, a'r Yspryd.
72 Rhaid i Grist ein Adgenhedlu,
A'n ail greo a'n newyddu,

Cyn

Cyn y caſlo un dyn cnawdol,
Etifeddu 'r Deyrnas nefol.

73 Ni alle neb orchfygu 'r ddraig,
Na ſigio ei ſiol am dwyllo 'r wraig,
Na 'n tynnu maes o'i dywyll gorlan,
Ond Hâd y wraig Mab Duw ei hunan. Gen 3. 14.

74 Ni alle neb roi rhan o'r fendith, Pen. 3. 13.
Na'n tynnu maes o dan y felldith,
Ond *Ieſu Griſt* yr hadyn dinam,
Addawodd *Duw* o lwyne *Abram*. Pen. 22. 18.

75 Ni alle un creadur hynod,
Ein tynnu maes o ddannedd pechod,
A'n dwyn i'r Nef at *Dduw* i dario,
Ond *Ieſu Griſt* yr unig *Silo*. Gal. 4. 9. 10,

76 *Duw* ddug *Iſrael* trwy law *Moſes*,
O gramp *Pharao* i *Ganaan* gynnes;
Duw trwy *Griſt* a'n harwain ninne,
O gramp Satan i'r Nef ole,

77 Y Neidir bres a helpe 'n eſcyd,
Y rhai a frathe 'r neidir danllyd,
Y CRIST a'i waed a helpa 'n ſuan,
Yr enaid prudd a fratha ſatan. Heb. 5. 9: Exod. 12.

78 Gwaed yr Oen y gadwe 'r Angel,
I maes o'r tai rhag difa *Iſrael*,
Gwaed Mab *Duw* a geidw ſatan,
I maes o galon pawb a gredan.

79 Fel y tynnodd *Dafydd* rymmys,
Oen o eneu 'r llew afradus;
Felly tynnodd *Griſt* ein Bugel,
Enaid dyn o enau 'r cythrel. Act. 26. 19:

80 A'i farwolaeth lladdodd *Samſon*,
Y rhai penna o'i elynion; Barn. 16 30r
A'i ddioddefaint lladdodd *Ieſu*,
Angau, pechod, diawl a'i deulu.

81 Maent hwy 'n farwol wedi 'u clwyſo,
Er bod chwythiant ynddynt etto, 2 Bren. 5.

Ni all eli ſy 'n yr holl-fyd,
Iachau eu clwyf na chadw eu bywyd.
82 Nid oedd dim a olche *Naman*,
O'i whân-glwy ond dyfroedd *Jordan*,
Nid oes dim a'n golcha ninne,
Ond gwaed *Criſt* oddiwrth ein beie.
83 Helodd DUW ei Angel hyfryd,
Dan. 3. I ddwyn *Sadrac* o'r ffwrn danllyd;
Helodd DUW ei Fab ei hunan,
I'n dwyn ni o ffwrnes ſatan.
84 *Jonas* a fu ym-mol y Morfil,
Dridie a their-nos mewn mawr beri'l,
Felly bu ein Prynwr hygar,
Droſom ninne ym mola 'r ddaiar.
Gen. 12. 85 Fel offrymmodd *Abram Iſaac*,
I JEHOFA, ar ben *Moriac*,
Felly offrymmodd CRIST ei enaid,
I'w Dad cyfion dros ei ddefaid.
86 Neb a ymolche ym mhwll *Bethesda*,
Ioan. 5 Fe iachaid o'i glwyf pwy bynna,
'Neb ymolcho yngwaed y Cymmod,
Fe iachair o bob rhyw bechod.
87 Gwaed y *Pelican* ſy 'n helpu,
Ei Adar gwedi 'r Sarph eu brathu:
Gwaed yr OEN all gadw 'r Criſtion,
Gwedi 'r pechod frathu 'i galon.
88 Yr Unicorn a'i gorn a helpa,
Y Dwr lle chwdo 'r ſarph ei chylla;
CRIST a'i waed all gadw 'r enaid,
Lle chwdo 'r ſarph ei gwenwyn embaid.
89 Mor gwilyddus inni wrthod,
Un Mab DUW i fod yn briod,
Gen 28. 12. A phe palle mereh i feger,
Fod yn wraig i Frenhin *Lloeger*.
90 Nid yw boſſib i neb ddringad,
I'r Nef uchel uchlaw 'r lleuad,

Oni

,Oni chymmer uſgol *Iago*,
R hon yw CRIST i ddringad arno.
91 O gan hynny llef yn irad,
Am gael gaſel yn dy Geidwad:
Na'd i'r byd na dim ſydd ynddo.
Beri colli d' afel arno.
92 Llef am GRIST fel hydd am afon,
Mofyn *Griſt* a phob ffforddolion, Sal. 42. 1.
Cais e'n ddyfal nes y caſſech, Cau. 5. 8.
Cadw dy afel pan canfyddech.
93 Cyn y gallech chwennych *Criſt*,
I gadw dy enaid truan triſt,
Rhaid it' wel'd ſod gras, a gallu,
Gan Fab DUW i'th gadw a'th brynu.
94 Rhaid it' wel'd ſod *Criſt* yn raſol,
Yn *Dduw*, yn ddyn, yn rymmus hollol,
Yn well na dim yn rheitiach wrtho,
Na 'r byd i gyd er maint ſydd ynddo.
95 Rhaid it' wel'd ſod *Criſt* yn rheitiach,
Yn well ymhell, yn werthfawroccach,
Na 'r byd a'i bethau darfodedig,
I gadw d' enaid bach o'i berrig.
96 Ni all y byd a'i werthfawr bethau,
Brynu d' enaid byth o'i boenau,
Fe all *Criſt* ei ddwyn i'r Nefoedd,
O grafangau 'r Sarph a'i twyllodd.
97 Fe all *Criſt* a'i waed ei olchi,
O'i bechodau fel y lili,
Er eu bod mor goch a'r ſcarled,
A'u glanhau mor wyd a'r foled.
98 Fe all *Criſt* dy ail * repario, * *Atgweriο*
Yn ddyn newydd er dy nyrddo,
A'th gyſnerthu tra fech byw,
I fyw mewn flatar dyn a DUW.
99 Fe all *Criſt* dy lwyr ‡ ffwrneiſio, ‡ *Cynhwyſo.*
A gras a grym i lynu wrtho, Jo. 1. 16.

A dyſc a dawn a gwir wybodaeth,
I weithio gwaith dy iechawdwriaeth.
100 Fe all CRIST ‖ recyfrio itti, ‖ *Ennill yn ol,*
Faint y gollodd dy rieni,
A rhoi itti ſicrach bywyd.
Nas gall ſatan ddwyn oddiwrthyd.
101 Fe all Mab DUW gadw d' enaid,
Er ei fynd i fyſc y bleiddiaid,
A'i ddwy adre i'r wir Gorlan,
Yn wych ar ei 'ſcwyddau hunan.
102 Ni all y byd er maint ſydd ynddo,
Gadw d' enaid na ‡ recyfrio, ‡ *Ennill yn ol.*
Faint y gollaiſt gynt yn *Adda*,
Ond dy ollwng i'r pwll iffa.
103 Crynhoi 'nghyd dy rym, a'th allu,
Rho 'th goel, a'th dryſt, a'th bwys ar *Ieſu*,
Cais ef, car ef, craffa arno,
Bydd ſiwr i gadw d' afel ynddo.
104 Rhaid i Griſtion brudd 'wyllyſio,
Cael Mab DUW yn Geidwad iddo,
Cyn bytho 'r y Prynwr hawddgar,
Geidwad byth i'r anwyllyſgar.
105 Oni chwennych, oni § flyſia, § *Hiraetha.*
Oni chais, oni ſycheda,
Dyn am Fab DUW gael i gadw,
Ni thry Mab DUW byth drwyn hwnnw,
106 Ni ry DUW mo'i Fab i un dyn,
Nes bo chwannog pur i'w dderbyn,
Rhaid yw chwennych CRIST a'i geiſio,
Cyn y caffer gafael arno.
107 O's bydd un dyn yn gwyllyſio,
Yn hiraethu, yn dymuno, Sal. 110. 3. Mat. 5. 6.
Derbyn *Griſt*, a'i ras a'i ffafar,
DUW rhy iddyt yn 'wyllyſgar,
108 Ni chais DUW gan ddyn edi far,
Ond derbyn CRIST yn dra gwyllyſgar,

Y

Y dyn a'i ceiſio yn awyddus,
Fe caiff e 'n rhad yn ol ei 'wyllys. Dat. 22. 17.
109 Cyn cael *Criſt* a gras oddiwrtho, Eph. 3. 17.
Rhaid cael ffydd i maſlyd ynddo;
Heb ffydd ni all un dyn byw,
Gyrhaedd gafael ar Fab DUW.
101 Ni chaiff Criſtion mwy na † phagan, † *Dyn heb broffes griſtianogol.*
Les, na ffrwyth, na rhan, na chyfran,
O'r maint oll a brynodd *Ieſu*, Gal. 5. 6.
Heb ffydd fywiol i'w meddiannu.
111 Ffydd ſydd rheita peth i'w cheiſio,
Byth ni chai di *Griſt* heb honno,
Cais y fynnech yn dy ddydd Mat. 16. 16.
Ni cheidw Criſt di byth heb ffydd. Rhuf. 14. 23
112 Heb Ffydd ni bydd it' wnel â *Chriſt*,
Heb ffydd mae 'r weithred ore 'n driſt,
Heb ffydd ni wir foddlonir DUW, Heb. 11. 9
Wrth ffydd y bydd y cyfion byw. Rhuf. 1. 17.
113 Pe bae gennyd aur fynnyddau,
A'r byd yn bacc a'i amryw bethau,
Beth fyddit gwell ar ddydd angenrhaid,
O's eiſie ffydd, y colli d' enaid.
114 Pe baet mor dlawd a *Lazar* druan, * *Cwd.*
Heb dai, heb dir, heb fwyd, heb * ſcrepan,
Heb dda, heb ddim ond ffydd yn unig,
Trwy ffydd *yngNghriſt* ti wyt gadwedig.
115 Er na ddichon mynydd auraid,
Gyffro CRIST i gadw d' enaid, Luc. 7 50.
Gronyn bach o ffydd fel hadyn,
All ei gyfro i gadw un-dyn.
116 Heb ffydd ni ellir cael diddanwch,
Gwir lawenydd a dedwyddwch,
Yn y Nef nac ar y ddairen,
Bod heb ffydd ſydd beth aflawen.
117 Heb Ffydd ni chei di ran *yngNghriſt*, 1 Pet. 1. 8.
Heb Ffydd ſe 'th droir i uffern driſt,

Heb

|| *Bodloni.* Heb Ffydd ni || phleſſir mo *Dduw* 'r lluoedd,
Heb Ffydd nid ei di byth i'r Nefoedd.

118 Ni chair pardwn byth am bechod,
Ni chair Ffafar ar law 'r Drindod;

† *Ffydd furwiol yw'r ffydd ſydd ac edfeirwch a gweithredoedd da yn ei chanlyn hi.* Ni chair dim llawenydd § prydd,
Lle na byddo bywiol Ffydd.

119 Rhaid i'r tlawd, rhaid i'r cyfoethog,
Rhaid i'r diddyſc a'r llythrennog,
Rhaid i'r brenhin rhaid i'r beger,
Act 20. 21. Rhaid i bawb wrth Ffydd cyn cadwer.
Pen. 15. 9. Iaco. 2. 18.

120 Rhaid i bawb ei Ffydd ei hun,
Nid Ffydd arall wrth ei glyn;
Can's ni chedwir neb yn gyngan,
Ond trwy ei Ffydd a'i gred ei hunan.

121 Nid Ffydd dy fam, nid Ffydd dy dad,
Nid Ffydd dy Brins a'r penna o'r wlad,
Ez. 18. 20. All dynnu gras, o GRIST it' allan,
Ond dy ffydd a'th gred dy hunan.

122 Ni cheidw ffydd y Tad o'i blentyn,
Na ffydd y mab o'i Dad eſcymmyn,
Pawb a gedwir pob yr un,
Wrth ei Ffydd a'i gred ei hun.

123 Wrth wrando geiriau DUW yn brydd,
Mae DUW yn arfer rhoddi Ffydd,
Heb wrando 'r gair nid yw yn arfer,
Rhoddi Ffydd i neb un amſer.

Rhuf. 10. 17. 124 Gwrando 'r gair a chred a addawo,
Craffa, a chofia 'r hyn a ddywetto;
A'ddawo Duw fe'i tal yn ddilis,
Ni thorrodd DUW erioed o'i † bromis.

Gal. 5. 22. 125 Nid ein nattur nid ein Tadau,
Nid ein dyſc na 'n poen, na 'n doniau,
Ond yſbryd DUW trwy air ei hun,
Sy 'n gweithio Ffydd ynghalon dyn.

126 Gwrando 'r gair a chais ei yſpryd,
Llef am Ffydd fel am dy fywyd,

Wrth

Wrth weiddi am ras, a gwrando 'r 'fengyl, Mat. 7. 7.
Mae DUW yn rhoddi Ffydd yn rhygil.
127 Nid y gair tu faes, ei hun,
Sy 'n gweithio Ffydd ynghalon Dyn,
Ond Yſpryd DUW yn-ghyd a'r gair,
Sy 'n gweithio Ffydd, p'le bynna cair.

SALM. XXXVIII.

DUW graſol, Tad trugaredd,
Na faedda fi 'n dy ddigedd,
Ac na choſpa fi 'n dy far,
Mor ddigllon ar fy niwedd.
2 DUW mae dy ſaethau llymion,
Yn glynu yn fy nghalon,
A'th law drom yn daran chwyrn,
Yn briwo fy eſgyrn gweinion.
3 Nid oes i'm cnawd ond nychdod,
Gan faint dy lid a'th ddyrnod,
Na dim hedd i'm heſgyrn briw,
Waith cymmaint yw fy mhechod.
4 A'm camwedd a'm troſſeddau,
Sy 'n pwyſo 'n drwm (gwae finne),
Fel baich gorthrwm ar fy ngwarr,
Yn gwaſcu ar fy 'ſcwyddau.
5 A'm cnawd ſy 'n llawn o gleiſiau,
Waith trymmed yw 'th ddyrnodau,
A'm cleiſie yn pydry fel heb glwyf,
Gan ffoled wyf gwae finne.
6 Di grymmaiſt (*Dduw*) fy nghefen,
Di 'm helaiſt i'r bedd † haychen; † *Uffern.*
Di 'm goſtyngaiſt hyd y llawr,
Rwi 'n un yn awr a'r ddairen.
7 Rwi beunydd yn galaru,
Rwi 'r nos heb allel cyſgu,
Rwi 'n wylo 'n doſt, rwi 'n gryddfan mwy,
Fy neigre aeth trwy 'ngwely.

Gwel

8 Gwel driſted yw f' amca nion,
Clyw doſted yw f' ochneidion,
Gwel mor drwm yw 'th lid a'th far
Yn gwaſcu ar fy nghalon.
9 I beri im' fwy o flinder,
A gwewyr heb eſmwythder,
Mae 'r holl gnawd yn afiach iawn,
A'm lwyne yn llawn o boethder.
10 Rwi 'n egwan gwedi 'nghlwyfo,
Rwi 'n ochain ac yn rhuo,
Gan faint poen (fy Mrynwr * call,)
Rwi 'n barod i wall bwyllo,
11 O doſa beth o'th ddigter,
A llaeſa ddarn o'm blinder;
Na lwyr ddifa fi fy *Nuw*,
Ond rho im' ryw eſmwythder.
12 Di wyddoſt DUW fy Ngheidwad,
Beth ydyw fy neiſyfiad,
Ni chuddiwyd rhagot ti un pryd,
Na 'm poen na 'm cryd na 'm bwriad.
13 Mae nghalon drom yn curo,
A 'm nerth ſydd gwedi 'm gado,
A 'm llygaid trymion bob yr un,
Sy 'b weled dyn i'm ſwccro.
14 Fy ngheraint a'm cyfeillon,
O hir-bell rhoent olygon,
Ar fy nrhallod blin a'm pla,
Heb gyſſur na chynghorion.
15 A'r rhai ddymune 'n niſa,
Oſodent fagle i'm dala,
A'm gorthrymmu megis Cŵn,
Och! och! pan oeddwn wanna.
16 A minne yn fy nhrafel,
Fe dd'wede pawb e'i chwedel,
Ac a'm barnent bob yr un,
Yn waetha dyn o'm cenel.

* *Anwyl.*

17 A rhai ddychmygent gelwydd,
A rhai 'm gwatwarent beunydd,
A rhai chwardde 'n uwch ar goedd,
Gan gymmaint oedd fy nghyſtydd.
18 A minne fel dyn byddar,
Heb glywed dim o'u gwatwar,
Yn tewi a ſon heb atteb neb,
Fel mudan heb ei lafar.
19 Yr wi fel gwr heb glywed,
Neu ffol heb fedru yſtyried,
Yn gado i bawb chwedleua ei hun,
Heb amme dyn a'r aned.
20 Ond Arglwydd rwi 'n gobeithio,
Dy fod di yn eu gwrando,
Ac yn atteb dros dy was,
I bawb a'i cas enllibio.
21 *Duw* nad i'm drwg elynion,
Gael arnai wynn eu calon,
Na chrechwennu tra font byw,
Wel'd cymmaint yw 'm trallodion.
22 Pan lithro 'nhroed ond gronyn,
Hwy chwarddant bawb i'm herbyn,
Ac a wawdiant am fy mhen,
Gan roi i'm ſen yſcymmun.
23 Fe 'n ganed i ddwyn poenau,
Paratowyd fi i ddialau,
A blindere 'nghalon drom,
Sydd ger fy mron yn ddie.
24 O Arglwydd rwi 'n cyfadde,
Fy mhechod a'm trofedde,
Mae 'n flin gennyf o fy *Nuw*,
Wel'd cymmaint yw fy meie.
25 Ond etto mae 'ngelynion,
Yn fuwiol ac yn gyfion,
A'r fawl fy 'b achos i'm cafau,
Sy 'n amlhau yn gteulon.

26 A'r rhai a dalent immi,
Dwrn drwg am fy naioni,
Sy 'n gwrth'nebu bob rhyw awr,
Trwy wneuthur mawr ddrygioni.
27 Ac am fy mod yn dilyn,
Y peth ſydd dda i'r gwerin,
Rwi 'n gas gan bawb o'r bobol ddrwg,
A'r rhai ſy a'u gwg i'm herbyn.
28 Na wrthod di fy helpu,
O *Dduw*, fy *Nuw*, er hynny,
Gwna fi beunydd ar fy ngwell,
Ac na fydd bell oddiwrthwi.
29 Ond bryſſia i'm cynnorthwyo,
A'm helpu byth tra gantho,
Duw fy iechyd un a Thri,
|| Ymddiried. Can's ynot ti rwi || tryſto.

CAN CL. *Am y* SABBOTH.

DEFFRO 'n fore gyda 'r ceiliog,
Ffyſt d' adenydd, cân yn ſerchog,
Sal. 92. 1. 2. Salm i'r Arglwydd yn blygeiniol,
Ar bob Sabboth yn dra ſiriol.
2 Gwiſg dy ddillad gore am danad,
Ym-ſancteiddia cyn dy ddwad
O flaen *Duw*, i'r Deml Sanctaidd;
Hoſt gan *Dduw* ei addoli 'n gruaidd.
3 Gwed'in dos a'th dylwyth gennyd,
I dy *Dduw* a chalon hyfryd,
I addoli *Duw* yn y dyrfa,
Megis *Joſeph*, *Mair*, a *Joſua*.
4 Fe fyn *Duw* ei addoli 'n barchus
Ar bob Sabboth yn gyhoeddus,
Gyda 'r dyrfa yn y Deml,
Nid yn ddirgel yn y cornel.
5 *Duw* ddibennodd ei holl weithred,
Ar y dydd o flaen y ſeithfed,

Gorphen

Gorphen dithe bob Gorchwylion,
Cyn y Sabboth o's wyt Griſtion.
6 Ym-ſancteiddia cyn y Sabboth,
Cadw 'n lan dy leſter boenoth.
Golch dy hun mewn edifeirwch
Ofna DDUW, a chais ei heddwch.
7 Cyn y Sabboth rhaid ymg'weirio,
A throi pob bydol weithred heibio,
I gael gweithio gwaith yr Arglwydd,
Tra fo'r dydd mewn gwir ſancteiddrwydd;
8 Gorphwys di, a'th dda, a'th ddynion,
Oddiwrth bob rhyw o orchwylion;
Ac na weithia ddydd yr Arglwydd,
Waith o ‡ bleſſer na byddolrwydd.
9 Gwerthu † liflod cario beichie,
Gweithio 'n galwad myn'd i ſiwrne,
Pob ofer-waith pleſſeredig,
Ar y Sabboth ſydd warddedig.
10 Cadw 'r Sabboth oll yn brydd,
Fore a hwyr, a chanol dydd,
Yn dy dŷ fel yn yr Eglwys,
Yn gwaſ'naethu DUW heb orphwys.
11 Cymmer fwy o § garc tre'ch byw,
Weithio 'r Sabboth waith dy DDUW,
Nag y gymrech un dydd amgen,
Ynghylch gweithio bydol breſſen.
12 Ar y Sul mae mor anghenraid,
Geiſio Manna i borthi 'r enaid,
Ac yw ceiſio ar ddydd marchnad,
Fwyd i borthi 'r corphyn anllad.
13 Cod y bore ar y wawr-ddydd,
Am y cynta a'r uchedydd
I gael treulio dydd yr Arglwydd,
Mewn duwioldeb a ſancteiddrwydd.
14 Nid diwrnod inni gyſcu,
Nac y dordain yn y gwelu,

‡ *diſgrwch.*
† *Pob math o gmborth.* Neh. 13. 15. 19. Eſay. 58. 13.
§ Gofal.

Ond diwrnod i'w ſancteiddio,
Yw 'r dydd Sabboth oll tra gantho.
15 Nid diwrnod itti loetran,
Nac i feddwi nac i fowlian,
Ond diwrnod itti weithio
Gwaith, dy DDUW, yw 'r Sul tra dalo.
16 Dydd i'w dreulio mewn ſancteiddrwydd
Dydd i weithio gwaith yr Arglwydd,
Dydd i ddarllain a gweddio,
Dydd i addoli *Duw* a'i gofio.
17 Dydd i orphwys rhag gwaith bydol,
Dydd i weithio gwaith ſancteiddiol
Ac nid dydd i ſod yn ſegur,
Yw dydd Duw medd geirie 'r ſcrythur.
18 Er bod Duw yn erchi coſſa,
Cadw 'r Saboth yn ddiſigla;
Nid ym ninnau 'n ceiſio cadw,
Un gorchymmyn waeth na hwnnw,
19 O'r holl ddyddie nid oes un dydd,
Ym ni 'n dreulio mor ddi-grefydd,
Mor anneddfol mor eſcymmyn,
A'r dydd Sabboth tra ſo 'r ſlwyddyn.
20 Dydd i feddwi dydd i ſowlian,
Dydd i ddawnſio, dydd i loetran,
Dydd i hwrian a gwylherſu,
Yw 'r dydd Sabboth gan y *Cymry*.
21 Dydd i eiſte a dyſalu,
Dydd i ymladd ac ymdaeru,
Dydd i weithio gwaith y cythrel,
Yw dydd Duw mewn llawer cornel.
22 Y dydd a ddylem ei ſancteiddio,
Ym ni fwya yn ei nyrddo.
I amherchi ein Prynwr tyrion
A dolurio ei gwir weiſion.
23 Treulia 'r Sabboth oll yn llwyr.
Mwen ſancteiddrwydd fore a hwyr
Ac na ddy ro ran na chyſran

O ddydd Duw i addoli ſatan.
24 Cofia gadw 'r Sabboth ſanctaidd
Duw fyn gadw hwn yn berffaidd
'R hwn a dreuliо 'r Sul yn ofer, Gen 18. 19.
Ni wna bris o ddim orchmynner. Jo. 24. 15.
25 Cadw 't Sabboth ti a'th genel,
Yn dy dŷ fel yn y demel
Gwna i'th dylwyth fyw mor gymmwys,
Yn dy dŷ fel yn yr Eglwys.
26 Tri hyw waith all dyn arferu,
Ar y Sabboth heb droſſeddu,
1 Gwaith duwioldeb yn ddiembaid,
2 Gwaith cariadol, 3 gwaith anghenrhaid.
27 Gweithred dduwiol yw trafaeliu,
I Dŷ *Dduw* i'w anrhydeddu, 2 Bren. 4. 23.
Ac i wrando 'r 'ſengyl hyfryd.
Pet fae 'mhell o ffordd oddiwrthyd.
28 Gwaith cariadawl ydyw cadw,
Dyn a 'nifel rhag eu marw,
A rhoi ymborth iddynt ddigon,
Ac ymgleddu 'r bobol weinion.
29 Gwaith anghenrhaid 'r hwn nis galli,
Gynt na chwedi'n ei gyflawni,
Megis cadw Tŷ rhag lloſci,
Gwraig wrth eicor, buwch rhag boddi,
30 Gochel ddilyn drwg gyfeillach,
Cyfaill drwg ſydd wybren anfiach,
Plag yn llygru, pyg yn nyrddo.
'R dyn duwiola a'i dilyno.

CAN CLI. *Gweddi dros yr Eglwys, yn llawn o ddymuniadau graſſol.*

ARglwydd graſſol cadw d' Eglwys, Sal 80. 14. 15.
A'r Winwydden deg y blanwys
Dy ddeheu-law di dy hunan, Sal. 80. 13.
O'r dechreuad yn dy winllan.
2 Na'd i'r badd o'r coed ei thirio,
Na'd i'r bwſtfil gwyllt ei chroppio: Na'd

Na'd un gelyn er mwyn *Ieſu*,
Ei hanreithio byth na'i ſathru.

3 Bydd yn fŷr o dân o bobtu,
Ez 2. 5. 8. Ddydd a nos gan ei chwmpaſu;
Eſay. 27. 2. 3 Bydd a'th lygad arni 'n waſtad.
A'th fraich rymus yn ei gwarchad.

4 Cadw hi megis byw dy lygad,
Portha hi fel praidd yn ddifrad,
Sal. 51. 18. Trwſia hi fel dy anwyl briod,
Na'd un gelyn byth ei gorfod.

5 Gwella ei muriau cod ei bylchau,
Gwilia ei phyrth, a chyweria 'i thyrau,
Cadarnha bob barr ſydd yddi,
Na'd un gelyn ei difrodi.

6 Na'd i Dwrc na phab na phagan,
Gen. 12. 3. Nac un penaeth, waethu 'th winllan,
Ond bydd elyn i'w gelynion,
A difetha ei chaſogion.

7 Glawia arni yn gafodau,
Dy fendithion nos a boreu,
* *Cangbenau.* Nes i tanno * ofgle ei gwinwydd,
Dros y byd o'r mor i'w gilydd.

8 Tafla i lawr a dryllia 'n gandrill,
Rhwyſc y ddraig, a'i theyrnas dywyll:
Dat. 12. 9. Adeilada ym mhob cornel,
2 Theſ. 2. 3. 4. 8. Deyrnas CRIST, a ſathra 'r cythrael.

9 CRIST, a'th ana'l llwyr ddifetha,
† *Eglwys Ruſain.* Y mab anwir ſy 'n ymddrycha:
Dat. 17. 1. 6. A'r ‡ hen buttain goch ſy 'n ufed,
Gwaed dy Saint, i dorri ei ſyched.

10 Gwna i'r 'fengyl wenn farchogaeth,
Trwy 'r holl-fyd at bob cenhedlaeth,
I gael gorfod a gorchfygu;
A thro bawb o'th blant i'w chredu.

11 Adeilada o gylch-gwmpas,
Ym mhob gwlad dy raſol deyrnas,

Ym

Ym mhlith *Groegiaid* ac *Iuddewon*, Dat. 6. 2:
Gwna hwy Arglwydd yn Griſtnogion. Rhuſ. 11.25.
12 I *Iuddewon* gwna drugaredd, 27.
Dangos iddynt dy wirionedd : 2 Cor. 3. 16.
Tynn eu hanghrediniaeth ymmaith,
Derbyn hwynt i'th gorlan eilchwaith.
13 A bendithia bob rhyw deyrnas,
Lle addolir CRIST yn addas,
Cadw 'r 'fengyl ſanctaidd iddynt,
Nes del CRIST i farnu rhyngthynt.

CAN CLII. *Am Dyngu.*

YR *Iuddew* dig a rwyg ei wiſgoedd,
Pan y cabler DUW y lluoedd,
Llawer Criſtion gwael ni † ſyſla, † Chythryblir.
Pan y cabler DUW gorucha.
2 O's tyngei Sipſwn i ben *Pharao*,
Yng-ham ſe gae ei ddieneidio ;
O's twng y Criſtion gorph ei Brynwr,
A'i gig a'i waed, nid oes dialwr.
3 Gwn na frathei yr *Iuddewon*,
CRIST ond un-waith dan ei ddwy-fron,
Mae 'r criſtnogion a'u cas lwſe,
Yn ei frathu fil o weithie.
4 Na ryſedda weld gwŷr mawrion, Lev. 18. 28:
Yn gwerthu 'r Tir a'r Teie gwychion, Hoſ. 4.3.2.
Cablu DUW a bair yn ſuan,
I'r Tai a'r Tir droi 'r meiſtri allan.
5 Di gae weld yn Nhai gwŷr mawrion,
Bedwar par o garde brithion ;
I rai dyngu ac ymgigo,
Heb un Llyfr i weddio.
6 'Rwy ſi 'n tibied ac yn credu,
Na chair clywed caſach tyngu, † Uffern.
Gan gythreiliaid yn † *Gehinnon*,
Nag a glywyr gan griſtnogion.

Nid

7 Nid oes ſon yn nheie llawer,
Am enw Duw ond pan y cabler,
Nac am werthfawr waed yr *Ieſu*,
Ond tra fyther yn ei dyngu.

Zech. 5 2. 3. 4 8 Meldith *Duw* medd *Zacharias*,
A red i dy 'r udonwr diras;
Ac a lyna wrth bob ceubren,
Nes pydru 'r Ty a'i droi yn dommen.

9 Gwell it drigo lle bo powdwr,
Yn y gegin yn y parlwr,
Nag it' drigo lle bo tyngu,
Yn y parlwr neu 'n y Penty.

2 Bren. 19. 35. 10 Naw-ugain mil o lu 'r *Aſſuriaid*,
Y laddodd Angel *Duw* mor oduriaid,
Mewn un noſwaith gynt am gablu,
Enw 'r Arglwydd a'i ddirmygu.

Lev. 24 26. 11 Mae *Duw* 'n erchi llwyr labyddio,
Pob rhyw ddynion ag a gablo;
Nid dieuog yw 'r dyn ſceler,
Ac a gymro ei enw 'n ofer.

12 Pet fae farnwr yr holl deyrnas,
Yn rhyddhau 'r udonwr diras;
Duw ei hun a farn yn ſiccr,
Bawb a gymro ei enw 'n ofer.

CAN CLIII *Dyledſwydd Gwaſanaethgion.*

DW G ſancteiddrwydd yn dy dalcen,
Fel y gallo pobol ddarllen.

Ex 28. 36 38. Wrth dy ymddygiad a'th ſanctcciddrwydd,
Dy fod ti yn was i'r Arglwydd.

2 Par i'th glŷch fydd wrth dy ſiacced,
Ganu 'r ffordd y bêch yn cerdded;

Ex, 28. 33. 34. 35. Fel y gallo bawb yn rhigyl,
Glywed gennit eiriau 'r ſengyl.

Par

3 Pâr i'r pomgranadau ffrwythlon,
O'dd wrth ymyl fiacced *Aaron*,
Ber-aroglu a'th ddaioni,
Bob rhyw dyrfa ddelech iddi.
4 Pâr i 'roglau dy ymddygiad,
Pâr i lewyrch dy lân alwad,
Pâr i ffrwyth dy wefus draethu,
Mae gwas wyt i'r Arglwydd *Iefu*.
5 Gŵr i *Dduw* wyt wrth dy alwad
Gwas i GRIST ein pen a'n Ceidwad,
Nid yw gweddus i was Brenhin,
Fyn'd mor frwnt a gwr cyffredin.
6 Cennad wyt i'r Brenhin mwya, 2 Cor. 5. 20.
I fynegi ei air i'r dyrfa,
Na'd un gair heb ei fynegu,
O'r hyn archodd itti draethu.
7 Bugail wyt i gadw 'r defaid, Act. 20. 28,
Brynodd *Crift* a'i waed bendigaid, Ez. 33. 5.
Na'd un ddafad farw o newyn, Deut. 33. 8.
Rhag myn'd ei gwaed hi ar dy gobyn.
8 Dwg ſancteiddrwydd gyda 'th *Urim*,
Dwg wybodaeth gyda 'th *Thummim*;
Dwg y ddau hyn ar dy galon, Luc. 9. 62.
Hyn yw dyled 'ffeiriad ffyddlon.
9 Rhoeſt dy law ar gorn yr arad,
Dos i'th flaen a dilyn d' alwad,
Na thro 'n d' ol fel ci at chwdfa,
Ni chair coron heb hir-bara.
10 Gwradwydd oedd i *Ephraim* fudyr,
Droi 'n ei ol yn nydd y * trwydyr, 2 Tim. 4. 8.
O's troi 'n ol oddiwrth dy alwad, * *Ymladdfa.*
Gwaeth dy ddiwedd na 'th ddechreuad.
11 Gado 'r llong fel *Iago* a *Pheder*,
Dilyn GRIST tra caſtech amſer,
Rhaid i weiſion y *Meſſia*,
Ado 'r byd fel *Leſi* 'r dollfa.

12 Bwrw 'r byd a'i betheu oddiwrthyd,
'R wyt ti 'n rhedeg am dy fywyd,
† *Llwyth.* † Ffardel gron o bridd ‡ a hindra,
‡ *Rhwyſtro* Cawr neu farch wrth redeg gyrfa.
13 Tafla ffwrdd bob peth ſy 'n pwyſo,
A'r pechodau ſy 'n dy rwyſtro,
Rheded pawb y nefol yrfa,
Heb. 12. 1. Trwy ammynedd am y cynta.
‡ *Cyfarwyad.* 14 Portha ddefaid *Criſt* yn ‡ gywrain,
* *Cymmell.* Yn wllyſgar heb dy * gathrain;
1 Pet. 5. 2. 3. 4. Pan ddangoſo *Criſt* ei fawredd,
Di gei goron ac anrhydedd.
15 Gwae pob bugail mud anghynnil,
Na phregetha *Criſt* a'i 'fengyl;
Ez. 33. 8. Gwaed eneidiau mil ofynnir,
Ar law hwnnw pan ei bernir.
16 Mewn tair ffordd y dylit borthi,
Defaid *Criſt* a'i llon gymfforddi,
1. Ac athrawiaeth bur 'fengylaidd
1. Gweddi frwd, 3. a bywyd ſanctaidd.
17 Gwell yw 'ffeiriad da nac Angel,
Gwaeth yw 'r drwg na 'r ddraig na 'r cyth-
Y da a'n dwg i dir goleuni, (rel
Y drwg a'n gollwng bawb i'n colli.
18 Trin dy Winllan hi ddwg rawn-wîn,
Haia dy faes fe ddwg egin,
Trin dy braidd, fe fydd llwyddiannus,
Dyſg dy blwyf fe fydd rinweddus.
* *Sef trwy eich ſiampl dda* 19 Dyſgwch eich praidd, ac arweiniwch,
I wlad *Canaan* trwy 'r anialwch;
Eſay. 40. 12. Nid nes 'ffeiriad fod yn Ddoctor,
Oni wnant yn ol ei gyngor.
20 Byddwch dirion wrth y defaid,
Cwnnwch lef yn ol y bleiddiaid,
1 Cor. 4. 2. Mwynder a wna i'r ddafad bori,
Llefain a wna 'r blaidd gynffonni.

Rhowch

21 Rhowch y fron i'r wŷn cariadus, 2 Cor. 13.12
Rhowch y Ffon wrth hwrdd cildynus,
Byddwch fwyn wrth rai diniwed,
Coſpwch bawb o'r rhai pengaled
22 Bydded † arfau yn eich dwylo. † Sefcerydd-
Fel plant *Iſrael* wrth adeilo; on a bygwth.
Llwy i fildo cledd i ymddiffin, ion.
Ac i ymladd dros y gwerin. Neh. 3. 17.
23 Porthwch bawb eich praidd a *Manna*, 1 Pet. 5. 2.
Nedwch arnynt eiſie porfa; Ez 33. 27.
O's bydd marw un rhag newyn, Pen. 34. 4.
Bydd gwaed hwnnw ar eich cobyn.
24 Cyrchwch adre trowch i'r gorlan,
Y diſperod aeth y || ſtraglan, || gyrwydro.
Nedwch un i gyfyrgolli, Heb. 13. 17
Fe fynn *Duw* am bob peth gyfri. Mat. 5. 14.
25 Ganwyll i'ch i roi goleuni, 16.
Yn Eglwys *Dduw* i'r holl gwmpeini:
O! diſgleiriwch fel canhwylle.
Fel y rhodiom yn eich gole.
26 Y lamp a dreulia 'r llin o'r Thyſſyr,
Yn goleuo 'r gwir addolwŷr;
Treuliwch chwithau 'ch oes mor Ffyddlon,
Yn goleuo eich plwyfolion. Mat. 5.14
27 Halen i'ch i ‡ ſeſno enidiau, ‡ tymmherw
Rhag drwg § ſawyr mewn pechodau; † tymmher-
† Seſnwch galon pawb ſy 'n pechu, wch.
Rhag i GRIST a'i droed eich ſathru.
28 Golwg doſt yw gweled defaid,
Yn eu llarpio 'n ſafn bleiddiaid;
Toſtach gweld enidiau 'n griddfan, Hoſ, 4. 6
Eiſie dyſc yn-ghrampe ſatan.
29 Toſt yw gweled maes o lafyr,
Yn pydry eiſie help medylwŷr,
Toſtach gweled mil o ddynion,
Yn meirw eiſie help athrawion.

30 Toſt yw gweled plentyn bychan,
Eiſie help ar wres yn brwylian,
Toſtach gwel'd enidiau bagad,
Dih. 29. 18. Mewn Tân eiſie help offeiriad.
31 Toſt gweled mil yn mynd i'w boddi,
Eſie i ryw un ei cynghori,
Toſtach gweled mil yſowaeth,
Myn'd i uffern eiſie athrawiaeth.
32 Y ceiliog gwyn y Ffyſt ei adenedd,
I ddeffro i hun cyn deffro ei wragedd,
Felly dyle yr holl offeiriaid,
Ddeffro 'i hun cyn deffro 'r defaid.
33 Fel y dyge wialen *Aaron*,
Ddail a blodau, a chnau Ftrwythlon,
Pan oedd eraill o bob graddau,
Heb ddwyn Ffrwyth, na dail, na blodau.
Num 17. 8 34 Felly dyle 'r gweinidogion,
Mewn rhinweddau fod yn Ffrwythlon,
Pan fo eraill o bob galwad,
Yn ddi-r nwedd o'u hymddygiad.
35 Beth wnair a'r dall i arwain deilliaid,
Beth wnair a'r mud i gyfarth bleiddiaid,
Beth wnair a'r heſp, heb laeth mewn bronnau
Mat. 15. 14 I fagu plant i borthi eneidiau.
36 Ni wnair dim a chi cyſgadur,
Ni wnair dim a gweiſion ſegur,
Ni wnair dim a halen diflas,
Ni wnair dim a 'Ffeiriad llanas.
37 Fe wnaid ſtalwn o hen farch tywyll,
Fe wnair tan o hen dy candryll,
Fe wnair peth a chrochan tyllog,
Ni wnair din a 'Ffeiriad diog.
Eſay. 56. 10.
Mat. 5. 13. 38 Pwy ddyd ddall i arwain deilliaid?
Pwy ddyd mudd i gyfarth bleiddiaid?
Pwy ddyd ynfyd i roi cyngor?
Pwy ddyd ddwl i rannu truſſor?

Dodi

39 Dodi 'r dall ar ben ddiſgwylfa,
Dodi 'r dwl i ddyſcu tyrfa,
Dodi 'r diddyſc wrth y * llyw,
Yw dodiad dyn nid dodiad Duw.

* *Pen ol llong*

40 O's Doctor wyt rho ddyſc i'r deillion, Ez. 34. 2.
O's bugail ymgledda 'r gweinion, 1 Cor 4. 1.
O's || ſteward doeth cyfranna 'n gywir || *Goruchwyliwr.*
O's gwas Grist gwna arch dy feiſtir.

41 O's Ci cywir cyfarth ladron,
O's pyſcodwr dala ddynion,
O's gwiliedydd gwilia 'r gelyn, Luc 12, 42
A rho 'mrhyd y rhybydd iddyn. Eſa. 56. 10.

42 Gwinllanwr wyt o gweithia 'n Ffyddlon Mat. 4. 10.
Na'd i'th wynwydd fynd yn wylltion, Ez. 33. 7.
Trin eu gwraidd, a'u brig a'u bonau, Luc. 13 8,9
Na'd eu torri eiſieu Ffrwythau.

43 Lle ni hauir had, ni fedir,
Lle ni chanir corn ni chyſtrir.
Lle ni phorthir praidd ni § phriſia,
Lle ni ddyſgir plwyf ni lwydda.

§ *chynyddu.*

44 *Peder*, *Peder*, ond oes cariad,
Gennyd at dy Grist a'th Geidwad, Ioan. 21. 15.
Portha, portha. portha ei ddefaid. 16. 17.
Mag ei wyn a tharſa 'r bleiddiaid.

45 Na'd ei ddefaid fyn'd a'r ddidro,
Na'd i'r blaidd na'r llew ei ſcliffio,
Na'd i'r cwal a'r pwyd eu mallu, Ez. 34. 4.
Eiſieu trin, a'u troi a'u maethu.

46 O! diſgleiriwch yn eich gradde,
Megis ſêr mewn noſwaith ole;
Ac na fyddwch fel y lleuad, Dat. 1. 20.
Sydd a brychau yn ei llygad.

47 Gwnewch eich clywed yn yr Eglwys,
Fel Anghylion ym Mharadwys,
Gwnewch eich gweled yn y dyrfa.
Fel y ſer pan ſont ddyſgleiria.

Byddwch

48 Byddwch ſarw yn y pulpid,
Yn pregethu 'r 'ſengyl hyfryd,
Nai 'n 'r Eglwys ar eich dau-lin,
Yn gweddio dros y gwerin.
49 Bydded pob offeiriad glan,
Fel piler niwl a'r piler tan.
Neh. 10. 19. Yn cyfrwyddo 'r ffordd i'r bobol,
Fyn'd o'r *Aipht* i *Ganaan* nefol.
* *Cydwybod.* 50 A pha * gonſciens gall y 'ffeiriad,
Ez. 34. 2. 3. Gippio 'r cnyf heb borthi 'r ddafad,
Bwytta 'r offrwm mor ddiwybod,
Ac heb weiddi 'n erbyn pechod.
51 O! ba lef ac achwyn irad,
Y fydd dydd y farn gan fagad,
Am i'r 'ffeiriad eu newynu,
A'u handwyo eiſie eu dyſcu.

CAN CLIV. *Am Ragluniaeth* Duw.

DUW ni attal un daioni,
Oddiwrth neb a fo 'n ei ofni;
Sal. 84. 11. Fe ry ras ac urddas iddynt,
Ni bydd ffael na diffig arnynt.
2 Bwrw dy ofal ar yr Arglwydd,
Ac fe 'th bortha mewn halaethrwydd:
Ni ad *Duw* i't cyfiawn gwympo,
Na dwyn diffig byth tra gantho.
3 Mae *Duw* 'n dwedyd wrthyd (craffa)
Pen. 11. 20. Lleda 'th ſafan minneu llanwa;
Eph. 4. 21. Cymmer boen mewn galwad union,
Mi fendithia 'th holl orchwylion.
Sal. 34. 10. 4 Er bod eiſiau ar y llewod,
A'r rhai cryfa o'r bwſtfilod,
Ni bydd eiſie dim daioni,
Ar y dryſto i *Dduw* 'r Toſtnri.
5 Mae *Duw* 'n porthi 'r bobol aflan.
Mae 'n rhoi maeth i'r *Twrc* a'r *Pagan*,

Ma

Mae 'n rhoi ymborth i'w elynion,
Oni phortha *Duw* ei weiſion. Mal. 5. 45.
6 Gochel chwennych gormod golud,
Ymfodlona a'r maint ſydd gennyd;
Byth ni ffaela, byth ni edy,
Duw o'r dyn ſo 'n ei waſ'naethu. Heb. 13. 5.
7 Ym-mhob diffyg cais gan *Dduw*, Heb. 1. 16.
Rhoddwr pob daioni yw;
Gochel dryſto i'th rwyd dy hun,
Rhag colli 'r pyſcod wrth dy glun.
8 Llawer dyn ſy 'n dlawd yn byw,
Eiſie ceiſio cymmorth DUW.
A llawer dyn ſy 'n mynd i fegian,
Am dryſto i rym a'i rwyd ei hunan.
9 Lle mae DUW mor hael i'r gwerin,
Pa'm y marw cant gan newyn?
Am roi coel ar rym eu breichieu,
Heb geiſio cymmorth DUW na i oreu,
10 Ni chwſc, ni hun ein Ceidwad graſol,
Sy 'n gofalu am ei bobol;
Tra ſo'm bawb yn cyſcu 'n eſmwyth, Sal. 121.
Mae 'n gofalu am ei dylwyth. Eſa. 49. 15.
11 A ddichon gwraig anghofio i phlentyn
A ſygno ei bronne yn ei rwymyn?
Nis anghofia hon ei meibion,
Byth ni anghofia DUW mo 'i weiſion.
12 Cyn bo eiſie arian arnad,
O's gwaſ naethu *Dduw* yn ddifrad,
Fe bair DUW i'r pyſcod gario, Mat. 17. 27.
Arian itti i'th ddi-rwydo.
13 Er na bo dy ſtor ond cwtta,
Fel blawd y weddw o *Sarepta*, 1 Bren. 1. 8 16.
O's gwaſ'naethu *Dduw* yn ffyddlon,
Fe wna DUW fod hynny 'n ddigon.
14 Gochel roi dy bwys na'th hyder,
Ar dy * ſcil dy hun a'th gryfder,

* Medr.

Ond

Ond ar *Dduw* dy helpwr unig,
O's ceifi fod yn ddyn di-ddiffig.
15 Mae DUW 'n porthi 'r Adar gwylltion,
Mae 'n dilladu 'r lili gwynion,
Mae 'n rhoi maeth ar bob peth buwiol,
Oni phortha ei blant a'i bobol?
16 Ni hau 'r fran ni feder fedi.
Nid oes na chell, na ſcubor iddi:
Etto er hyn mae DUW goruchaf,
Mat. 6, 26, 30 Yn porthi 'r brain bob haf bob gaiaf.
17 Ni chrib ni nydd, na'r rhos, na 'r lili,
Ni feder un na gwau na 'ſtofi;
Sal, 145, 25 Etto 'r Arglwydd a'u dillada,
Mewn harddach gwiſc na 'r brenhin gwycha.
18 Llygaid pob creadur buwiol,
Sydd yn diſgwyl ar *Dduw* nefol,
Am roi maeth ac ymborth iddynt,
Ynteu 'n hael yn rhannu rhyngthynt.
19 Mae 'n agoryd ei law raſſol,
Ac yn porthi pob peth buwiol,
O'i ras a'i rodd, mewn pryd a meſſur,
Heb adael gwall ar un creadur.
20 Mae 'n rhoi bwyd i gnawon llewod,
Mae 'n rhoi maeth i'r gwyllt fwſtfilod,
Mae e 'n porthi plant y Gig-fran,
Sal' 147, 9, Oni phortha 'i blant ei hunan?
21 Ni chwymp un o wallt dy ben,
Mat, 10, 29 Ni ſyrth aderyn to ar bren,
Ni ddigwydd dim, heb brydd ragweliad,
DUW 'n Creawdwr mawr a'n Ceidwad.
22 DUW rows itti gorph a bywyd,
Anal einioes, cryſder, iechyd,
Deall, rheſwm, cof, a chyfri
Oni ddyry fara itti?
23 Fe werthyr dau o adar to;
Am ffyrllyng ſechan lawer tro;

Er

Er gwaeled ynt mae *Duw* 'n eu porthi:
Di dalu fwy na deg o rhei'ny.
24 Er bod Duw 'n gofalu 'n gaeth,
Am bob creadur ac a wnaeth,
Mae 'n gofalu am ddyn a'i enaid,
Fwy nag am yr holl greaduriaid.
25 Rho dy ofal ar dy *Dduw*, 1 Pet. 5. 7
Mae 'n gofalu droſſot clyw,
O's gwaſ naethu *Griſt* yn gywir,
Cae dy gyflog gantho 'n ſiccir.

Am y Pur-Dan.

Y Mae 'r *Papiſtiaid* yn dal, fod heb law Nef ac uffern drydydd lle, lle mae eneidiau rhai pobl, trwy ddioddef coſpedigaeth tân yn rhoddi iawn i *Dduw* am ryw bechodau nas maddeuwyd iddynt yn y byd hwn; Ac yn cael trwy hynny lanhad oddiwrthynt; Ac y dichon ffrins y marw trwy weddiau, ac offeren, ac Arian a roddir, i'r *Pâb*, gael gollyngdod i'r cyfryw eneidiau allan o'r *Pur-dan*: Yn erbyn yr athrawiaeth gelwyddog gythreulig hon mae 'r Awdwr fel hyn yn dywedyd.

CAN CLV.

NID oes dim all olchi enaid
Dyn, ond gwaed yr OEN bendigaid,
'R hwn ſy 'n golchi ffwrdd bob pechod, Dat. 1. 5.
Ac yn puro 'r holl gydwybod. Heb. 9. 14.
2 Nid oes ffordd ond dwy i'r holl-fyd, Mat 7. 13.
Ffordd i ddiſtryw, Ffordd i fywyd,
Ni ddangoſodd *Criſt* yn un man,
Drydedd Ffordd yn myn'd i'r *pur-dan*.
3 Nid oes hefyd ddim ond dau-le,
I blant dynion gwedi ange,
Nef ac uffern heb le trydydd,
Nid yw 'r *pur-dan* ddim ond celwydd.
4 Nid oes ond dau ſort o ddynion,
Un yw 'r anwir, llall yw 'r Ffyddlon,

Y rhai anwir a ddifethir,
A'r rhai Ffyddlon oll a gedwir.
5 Tân a ddichon boeni dynion,
Tân all loſgi daiarolion;
Act. 4. 22. Ni all tân na 'r holl greaduriaid,
Mat. 1. 21. Ond gwaed *Ieſu* buro 'r enaid.
6 Tân all buro 'r aur a'r ſorod,
Tân all loſci 'r us a'r carllod,
Ni all tân na dim er hynny,
Buro 'r enaid ond gwaed *Ieſu*.
7 Y dyn nad elo i *Baradwys*,
Lle mae *Ieſu Griſt* a'n prynwys,
Nid oes lun nad el dan drottian,
I bwll uffern lle mae ſatan.
8 Y dyn nad elo megis *Lazar*,
I glyd ſonwes *Abraham* hawddgar,
Nid oes lun nad el i'r Ffwrnes,
Lle mae 'r diawl yn poeni *Dives*.
9 Nid yw 'r *pur-dan* yn y nefoedd,
Yn y ddaiar, yn y moroedd,
Nag yn uffern, b'le gan hynny,
Y mae *pur-dan* yn gartrefu?
10 Rhai a ddywedant fod y *pur-dan*,
Yn y môr ſy 'n fawr ei dwrddan,
Rhai 'n y ddaiar, rhai yn * *Etna*:
Ni wn p'un o'r rhai'n a greda.
11 Rhai a ddywedant mae Angelion,
Rhai mae hen gythreuliaid duon,
Sy 'n ‡ tormento 'r ſawl ſy 'm mhur-dan;
Rhai ni wyddant beth a dd'wedan.
12 Rhai ſy 'n tibied mae tân Ffyrnig,
Rhai mae tân a dwr berwedig,
Sy 'n poenydio 'r ſawl ſy 'm mhur-dan,
'Does fawr gydfod ar eu § llafan.
13 Rhai ſy 'n tibied mai pechodau,
Crynion, bychain, hawdd eu maddau,

* *Mynydd mawr o ba un y mae Tan yn dra^{th} mynych yn dyfod allan.*
‡ *Poeni.*
§ *Swmp o gelwydd.*

Y ſy 'n coſpi yn y *pur-dan*,
Rhai mae beie marwol anian.
14 Rhai † dormentir yn y *pur-dan*,
Hyd ddydd barn o's gwir y ddywedan,
Rhai dros filoedd o ffynyddau
Rhai nes offrwm dros 'u eneidiau.
15 Fe all 'Ffeiriad ond cael offrwm,
Fe all Eſcob o's rhy bardwn,
Fe all Pab o's gwir a ddywedan,
Dynny fynno maes o'r *pur-dan*.
16 Fe gaiff ‡ Carl am ddryll o arian,
Ei rhyddhau o boene *pur-dan*,
Ond y tlawd ſy heb geiniog gantho,
Fe gaiff ynddi hir boenydio.
17 O's yw *pur-dan* yn ein puro,
Oddiwrth bechod gwedi 'n nyrddo,
I ba ddiben yr offrymmodd,
CRIST ei werthfawr waed a'n prynodd?
18 O's y *pur-dan* ſy 'n ein golchi,
O'n pechodau oll a'n brynti,
Pa'm a dywaid y 'Scrythurau,
Mae gwaed GRIST ſy 'n golchi ein beiau?
19 Ofer oedd i Fab Duw cyfion,
Golli gwerthfawr waed ei galon,
I'n glanhau oddiwrth ein brynti,
O's y *pur-dan* ſy 'n ein gollchi.
20 O cai waed ſy *Nghriſt* i'm golchi,
O'm holl bechod a'm holl frynti,
Cloed y Pab fi ynghanol *pur-dan*,
Ni bydd arnai byth mo'i ofan.
21 Dannedd gwaedlyd y pabyddion
Sydd yn gollwng gwaed Criſtnogion,
Sydd yn dangos nad gwir ddefaid
CRIST, yw rhai'n ond rheibus fleiddiaid,

† *Bannir*

‡ *Clown* neu *foethog*.

CAN CLVI. *Am barhad mewn Stad o Ras.*

HOLL alluog ydyw Duw;
Da, a di-anwadal yw,
* *Pwrpasodd* Fe ddwg i ben yr hyn * arfaethodd,
Ni chyll ef un o'r rhai ddewisodd.

2 Nid yw bossib' golli un,
O'r rhai ddewisodd Duw ei hun;
Ni all y byd, na'r cnawd na'r cythrael,
Dynnu un o ddwylo 'r Bugael.

3 Duw sydd Ffyddlon, 'r hwn a'n golchodd
Ja. 10. 28. Fe gyflawna 'r hyn arfaethodd,
1 Th. 3. 24 Fe geidw 'n lân y corph a'r yspryd,
Nes del CRIST i'w ddwyn i'r bywyd.

4 Fe scrifennodd Duw cyn cynfyd,
Dat. 20. 12. Enwau ei Seint, yn rhol y bywyd,
Ni all holl gyfrwysdra satan;
Grafu un o'u henwau allan.

5 Y rhai a ddetholodd Duw cyn byd,
Rh. 8. 30. Rhei'ny eilw Duw 'n ei bryd,
Rhei'ny oll a wir sancteiddia,
1 Tim. 2. 19. Ac yn y Nef fe'u gogonedda.

6 *Duw* medd *Paul* a wir osododd,
Luc, 12. 32. Siccr sail i'r rhai ddewisodd;
Mat, 25. 34. Fe wyr pwy yw 'r rhai etholodd,
Jer. 32. 40. Ni chyll ef un o'r rhai ddewissodd.

7 O braidd bychain paid ag ofni,
Yr hael *Dduw* roes deyrnas itti,
Er mwyn CRIST er cyn dechreuad,
Ni all neb ei dwyn oddiarnad.

8 *Duw* addawodd roddi ei ofan,
Ynghalon pawb o'i ddewis gorlan,
Ac na chant hwy lwyr ymmado,
Cwbl Na throi byth yn † gwyt oddiwrtho.

9 Mae 'n Tad nefol wedi selu,
Rhai etholodd *Yngkrist Iesu*,

A rhoi 'r Yſpryd Glân yn † erneſt. Cor. 21. 2.
I bob un i'w cadw 'n oneſt. † *Wyſal.*
10 Mae Mab DUW yn rhoi dan warant, Jo. 10. 28.
Dragwyddol fywyd i'r rhai gredant,
Byth ni chollir un o honynt
Y mae CRIST a'i Yſpryd ganthynt.
11 Mae *Duw* 'n cadw trwy fawr allu: Jo. 5, 12.
Ei blant ei hun rhag ffiedd bechu, 1 Pet. 1. 5.
A thrwy Ffydd yn rhoi yn helaeth Jud. 24.
Nef i'r rhai'n, ac iechawdwriaeth. Phil. 1. 6.
12 *Duw* a geidw ei blant rhag cwympo,
Duw a'u cynnal rhag tramgwyddo:
Duw a'u ceidw yn ddi-feius,
Hyd ddydd barn yn dra gofalus.
13 Nid cadwedig ydyw *Iaco*,
Am na newid byth o hono, Mal. 3. 6.
Ond cadwedig er hyn yw,
Am na newid byth ei *Dduw*.
14 Nid yw ſiccrwydd iechyd dyn,
Yn ſefyll ar ei law ei hun, Heb. 10. 15.
Ond ar bromiais Duw a'i ammod, hyd y 24
Yn ei Fab am faddeu pechod. Dat 26.
15 Er i *Beder* wadu ei feiſtir, Sal. 15.
Er i *Ddafydd* gwympo 'n fydur, Sal. 37. 24.
Yſpryd Duw a wnaeth i'r ddau-ddyn,
Edifarhau a gwella gwedi'yn.
16 Er bod Meibion Duw yn cwympo,
Ac yn pechu wrth eu temptio,
Ni chwymp un o'r rhai'n mor ddiffaith
Ag nas allont godi eilwaith.
17 Er i dafod *Peder* wadu,
CRIST, rhag ofn ei garcharu,
Roedd ei galon etto 'n ſiccir,
Yn gwir lynu wrth ei feiſtir.
18 Er i'r ſanct dramgwyddo weithiau,
Ac anghofio Duw ar bridiau,

Ni

Ni all un er hyn dramgwyddo,
† *Codi drachefn.* Fel nas gallant ail † recyfrio.
19 O's pecha un o'r detholedig,
|| *Daer.* Mae Ypryd Duw 'n ei gyffro 'n || darrig,
2 Sam. 24. 10. I 'difarhau trwy dduwiol driſtwch;
Nes gwella 'r bai ni chaiff lonyddwch.
20 O's dewiſodd *Duw* di un-waith,
Byth ni wrthyd DUW di 'r eilwaith,
Jac. 1, 17. Can's ni newid DUW mo'i gariad,
Jo. 13. 1. A garo dro, fei car yn waſtad.

CAN CLVII. *Fe ddylei Gwraig fagu ei phlentyn, (Sef* oni fydd hi gwann chlafycca) *a'i llaeth ei hunan.*

MAG dy blant â llaeth dy fronnau,
Na fydd waeth na 'r ddraig i'r dreigiau
Pob anifeil a phob bwſtfil,
Berchen llaeth a fag ei eppil.
2 Fe wnaeth DUW dy fronne i fagu,
Fel y gwnaeth e 'r groth i blannu;
Nid gwell y fron na roddo ſygyn,
Na chroth yr heſp na ddygodd blentyn.
Hoſ. 9. 14. 3 Rhodd DUW laeth i'th fron trwy fendith
Na chadw hwn i droi yn felldith;
Sara 'n ddeg a phedwar uge'n,
Fagodd *Iſaac* yn dra llawen.
Gen. 21 7. 4 O' paratodd DUW laeth i'r bronne,
I fagu plant a llaeth eu mamme,
Toſt it ddwyn oddiar dy blentyn,
Un peth a rodd naturiaeth iddyn.

CAN CLVIII. *Cyngor i wraig i beidio thriſthau gormod ar ol marwolaeth plentyn.*

MARTHA, *Martha* paid ag wylo,
Cymmer gyſſur gad d' ochneidio,

Am

Am dy blentyn bach a gymrwys,
DUW, mòr gynnar i Baradwys.
2 F' annwyl chwaer na thorr dy galon,
Yn wylo 'n ol dy blentyn tirion,
Aeth gan *Dduw*, o boen a blinder,
I'r Nef at GRIST, i gael esmwythder.
3 Cennad DUW a ddaeth i'w geisio,
O blith y drwg lle 'r oedd e'n tario,
I fynd ag ef i'r Nefoedd oleu
At y Sanct i ganu hymneu.
4 Yr Angylion gynt a gyrchwys,
I goel *Abraham* enaid *Lazrws*,
Aeth i'r Nefoedd yn eu breichiau, Luc. 16. 22.
Ac enaid bach dy blentyn dithau.
5 DUW a'i cippioedd ar frys atto,
‖ Cyn i bechod caeth ei nyrddo,
Na chyfeillach ddrwg ei lygru, ‖ *Sef cyn i bechod gweithredol ei nyrddo.*
Na'r maleisiwr du ei ddrygu.
6 'N awr ni ddichon un gwrth'nebwr,
Nac ofer-ddyn, na maleisiwr,
Wneuthur speit na niwed iddo:
Gydâ CHRIST y mae e'n tario.
7 Mae e'n gorphwys mewn esmwythder,
Oddiwrth bob rhyw boen a blinder,
Mae ef gyda 'r *Oen* a'i gwympni,
Yn clodfori Tad goleuni.
8 Cymmer gysur cwyn dy galon,
Goruwch pob rhyw ddaiarolion,
O' gweli'r man lle mae dy blentyn,
Gyda CHRIST, ni wyli ddefnyn.
9 Gwel lle mae yr hwn a'i prynodd,
Gwedi dderbyn atto i'r Nefoedd,
I blith miloedd o wyryson,
Sydd a'u cyrph a'u llestri 'n lowyon. Da. 14 4.
10 Gwel y wisg o liain pur-wyn,
Y rodd CRIST am dan dy blentyn,

Sy'n

Sy'n diſgleirio fel yr haul wen,
Yn y Nef ynghylch dy fachen.

11 Gwel y goron o aur melyn,
Dat. 7. 15, Y ddododd *Criſt* ar ben dy blentyn,
Gwel orfoledd plant goleuni,
Wrth ei urddo a'i goroni.

12 Gwel y † Cor lle mae e'n gorphwys,
2 Tim. 4,8. Gydâ Angylion ym mharadwys;
† *Llu o ganterion* Gwel y gadair lle mae 'n eiſtau,
Gyda 'r Saint yn canu hymnau.

Dat, 1, 2, 13 Gwel y delyn Auraidd hefyd,
Sy'n ei law yn canu 'n hyfryd,
I'r Tad nefawl 'r hwn a'i crewys,
A'r OEN ſanctaidd 'r hwn a'i prynwys.

Eſay, 6, 14 Gwrando 'r caniad mwyn *Hoſanna,*
Dat, 19, 4. *Sanct, Sanct, Sanct,* ac *Haleluja,*
Mae e'n ganu i *Dduw* 'r lluoedd,
Yn y man yr aeth i'r Nefoedd.

15 Gwel y Fírwythau pêr a'r Manna,
Mae dy blentyn yn ei fwytta,
Dat, 2, 17, Gydâ 'r Saint ar ford yr OEN,
Yn ddi brinder yn ddi boen.

16 Gwel y Ffynnon wen fendiged,
A'r dwr buwiol lle mae 'n yfed;
O'r hwn gwedi profir un-waith,
Ni ddaw byth ddim ſyched eilchwaith.

17 Gwel y dre lle mae e'n trig,
Ag Aur melyn gwedi phaſio,
A'i holl welydd o gylch gwympas,
O fain gwerthfawr, *Beril Thopas.*

18 Gwel pwy ydyw ei gyfeitlion,
Mat, 6, 20, Sef y Saint, a'r holl Angylion,
At ba rai ni ddichon drwg-ddyn,
Gwnaed a allo ddwad attyn.

19 Gwel pa waith y mae e'n wneuthur,
Cadwr 'r Sabboth mawr yn ddifyr,

Gyda

Gyda 'r Saint heb ddim i'w arfer, Dat. 4. 8.
Ond clodfori Duw bob amſer. 9. 10.
20 Gwel nad oes na phoen, na thriſtwch, Pen. 21. 4.
Nychdod newyn, na thywyllwch,
Ond dedwyddwch byth tra gantho,
Lle mae 'th fab yn awr yn trigo.
21 Pa'm gan hynny fy chwaer dirion,
Y galaru mor hiraethlon,
Am dy blentyn a gyrhaeddodd,
Duw, o drallod atto i'r nefoedd?
22 Pa'm 'r hwyly wel'd dy Brynwr,
Yn ei dynnu o gyfyngdwr,
I eſmwythder a dedwyddwch,
O blith dynion ar eu garrwch.
23 Pa'm 'r hwyly wel'd *Duw* cyſion,
Yn ei alw i geiſio coron,
A gogoniant mawr di-derfyn, Mar. 10. 14.
Er nad oedd ef etto ond plentyn.
24 *Duw* ſy 'n tynny atto 'n gynnar, Eſay. 57. 1.
Ei rai annwyl, * cu a hygar, * *Hoff.*
Rhag cael gweled dim o'r drygfyd,
Y ddaw 'n immwngc ar yr ynfyd.
25 Y mae Duw yn tynny 'n ſuan,
Ei rai annwyl atto ei hunan,
Rhag i'r anwir eu * gormeilio, * *Gorthrymu.*
A'r drygionus eu gwradwyddo.
26 Lladdwyd *Abel* er gwirioned,
Gwerthwyd *Joſeph* er di-ddrycced,
Taflwyd *Daniel* at y llewod,
Trwblwyd *Dafydd* a mawr dralled,
27 Meibion *Job* i gyd a lethwyd,
Holl blant *Rachel* hwythau laddwyd,
Crogwyd *Abſalom* wrth ei † locſen, † *Cydyn.*
Ni wyr dyn beth yw dyngheddfen.
28 Un a gwymp ar fleen y cleddau,
Llall a grogir am ei feiau,

Arall a fawdd pan fyddo meddw,
Wylo ddylit wel'd diwedd hwnnw.
29 Toſt gwel'd lladd mab gwraig â bilwg,
Toſt gwel'd torri ei ben a'i wddwg.
Neu lwyr nychu yn y carchar,
Nid toſt marw o ange hygar.
30 Pa'm yr wyla gwraig gan hynny,
Wel'd yr Arglwydd gwynn yn tynny,
Ei blant anwyl atto 'n gynnar,
Trwy ryw glefyd hyfryd hygar.
32 O rhown ddiolch i'r uchel-dad,
Am y cyfryw lan ymweliad,
Ac na wylwn dros ben meſſur,
Ond ſydd raid i gynnwys nattur.
33 Ond rhown ddiolch i'n Tad ſanctaidd,
1 Th. 41: 13. Pan y tynno mor garuaidd,
Ei rai rai annwyl o'u mawr flinder,
Atto ei hun, i gael eſmwythder.
34 *Duw* ro gynffwrdd a diddanwch,
It fy chwaer i laeſu 'th driſttwch,
Duw 'th gyſſuro am dy blentyn;
Duw ro i minne decced terfyn.

BAN CLIX. *Rhybydd i ochelud gorthrymu neb, ac i roddi yn ol yr hyn a dreiſiwyd.*

§ *parch.* ENNILL can-punt colli 'r § credyd,
Ennill bawach, colli bywyd,
Ennill cytoeth, colli CRIST,
Ennill trwm; ond colled triſt.
Mat. 16. 26. 2 Gwell ceinig fach trwy ffordd ddigamwedd
Na'r chweigain aur trwy drais a ffalſtedd,
Y naill a lwydda Ffordd y cerddech,
A'r llall a fwytta faint a feddech.
‡ *Un mat.* 3 Gwell ‡ Cae o dir trwy union bryniad
Na gwlad o dir trwy dreiſio bagad:

Trais

Trais hel d' enaid i boenydio, Luc. 19. 8
A'th wraig yn dlawd a'th blant ar ddidro.
4 Cyttuna ar frys a'r rhai orthrymmaiſt, Mat. 5, 25.
Rho 'n ol fel *Zache* faint y dreiſiaiſt,
Na ddos medd *Criſt* i'r carchar cyfyng,
Rhaid talu 'r trais hyd at y ffyrling.
5 Na wna gam ag un rhyw ddyn, 1 Th. 4. 6.
Gwell goddef deg na gwneuthur un,
O's cam a wnai rhaid atteb droſto,
Ond godde gam cai iawn am dano.
6 Beth wnai a'r geiniog drift a dreiſech, Eſay. 61. 8.
Fe ſwytty hon y faint a feddech,
Ni fyn *Duw*, na 'i dŷ mo honi,
Yn Ffroenau *Criſt* mae 'r fath yn drewi.
7 O's prynu dir hi bair ei werthu,
O's adail tai hi try yn lludy,
O's rhoi i'th blant hi gyrr ar anffod, Amos, 5. 11.
O's rhoi i'r tlawd mae *Duw* 'n ei gwrthod.
8 Rho 'r geiniog drais i'w hunion berchen,
Cyn tynnoi i'th dy ryw farn aflawen,
Ni lwydda hon ymhlith dy weiniaid,
Mwy na'r arch ymmyſc eſtroniaid.

CAN CLX. *Gwahoddedigaeth i bechaduriaid i ddyfod i dderbyn y pethau da ac y mae* Duw *yn eu cynnig yn yr Eſengyl trwy y ddammeg o'r Swpper fawr.*

DEwch fon'ddigion, dewch gyffredin, Mat. 22. 4.
Dewch i Swpper Mab y brenhin, Luc, 14. 16.
Dewch, a nedwch ddim i'ch rhwyſtro,
Dewch, mae *Duw* 'n eich gwawdd chwi atto.
2 Mae 'n y Swpper fir o'r gorau, || *Llawenchu*
Bwyd i || lonni eich enidiau,
Mêl, a Manna, Bara, 'r bywyd,
Gwin gorfoledd doniau 'r yſpryd.

Eſay 55. 2.3

3 Chwi gewch ynddi un Mab *Duw*,
‡ *Gwedi di-oddef poethder digoſaint Duw*
Yr Oen yn farw, ac yn fyw,
Gwedi ladd a chwedi ‡ roſtio,
A chwedi codi o'r bedd i'ch * firio.

|| *Llawenhau ynyr ufudd-dod a gyſlawnodd eſe yn ei gnawd*
4 Cewch ei werthfawr waed i'ch golchi,
Cewch ei ſanctaidd || gnawd i'ch porthi,
Cewch ei wlan, yn drwſſiad i chwi,
A'i fywyd gwyn i'ch adgyfodi.

5 Chwi gewch heddwch *Duw* y Dnddod,
Chwi gewch bardwn am bob pechod,
Chwi gewch Yſpryd y diddanwch,
Chwi gewch *Griſt* a phob dedwyddwch.

6 Dewch yn llawen, dewch yn ſiriol,
Dewch heb aros i'r wledd neſol,
* *Gyſan gwbl heb raritb.*
Dewch yn * gyfrdo i briodi,
Criſt ſy 'n cynnig ei hun inni,

7 Naded neb i ddim ei † ſtayo,
Na'r byd, na'r cnawd, na'r fall ei rwyſtro,
Luc. 14 18. 19.
Na'r Fferem fawr, na'r pum lau ŷchen,
Na'r wraig newydd na dim amgen.

Luc. 14.24.
8 Onid ewch chwi yn hy, yn hoyw,
I'r briodas wrth eich galw,
Gŵr y tŷ ſy 'n tyngu 'n ſceler,
Nas cewch brofi byth o'i ſwpper.

9 Dewch gan hynny iddi 'n addas,
Yngwiſg ſanctaidd y briodas;
Na ddewch iddi byth heb honno,
Rhag cael rhwym i'ch traed a'ch dwylo.

10 Gwynn a choch yw 'r wiſg o ras,
Gwynn tu fewn a choch tu fas.
Mat. 24.13.
Gwynn yn gofyn buchedd ſanctaidd,
Coch yn dangos ffydd griſtnogaidd.

11 Trwſſied pob rhai eu heneidiau,
Mewn hardd wiſgoedd o rinweddau,
|| *Llawtnychu.*
A ſo gweddus a chyfaddas,
I || ſirioli 'r gwir *Feſtas.*

O's

12 O's dewch i'r wledd i'ch priodi,
Mewn 'difeirwch, ſtydd a gweddi,
Chwi gewch gan GRIST ſod yn waſtod,
I chwi 'n Geidwad ac yn briod. Hoſ. 2. 19.

CAN CLXI. *neu* SALM C.

DEwch holl dylwythe 'r ddaiar,
Dewch bawb a llawen lafar,
Cenwch glod a chalon rwydd,
I *Dduw* ein Harglwydd hawddgar.
2 Dewch fawr a bach drachefen,
Dewch bawb ſy 'n troedio 'r ddairen,
Dewch addolwch *Dduw* yn ‡ llon,
Bob rhai a chalon lawen. ‡ *Llawen.*
3 Gwybyddwch hyn yn ſiccir,
Mae 'r Arglwydd graſſol geirwir,
Y ſydd Frenhin Net a llawr,
Ac * Emprwr mawr yr holl-dir. * *Pennaeth.*
4 Gwybyddwch nad chwi 'ch hunain,
Ach gwnaeth o'r pridd mor gywrain,
Ei waith ef y'ch o'r llwch a'r llaid,
Ei blant a'i ddefaid bychain.
5 O dewch i'w byrth gan hynny,
Dan ddiolch a than ganu
Fach a mawr ar fore a hwyr,
Yn ‡ brudd i'w lwyr foliannu. † *Oddifrif.*
6 O dewch i'w Deml ſanctaidd,
Yn drefnus ac yn gruaidd,
I glodfori enw DUW.
Canys hyſryd yw a gweddaidd.
7 Daionus a thoſturiol,
Yw 'r Arglwydd wrth ei bobol,
Ooes i oes y peri 'i Air,
Dros ſyth ſe gair yn raſſol.

CAN

CAN CLXII. *Am Weddi.*

PAN yr elech i weddio,
Edifara am aeth heibio;
A llwyr ymolch o'th holl frynti,
O's dymynu wrando 'th weddi.

Ioan. 9. 31. 2 *Duw* ni wrendy bechaduriaid,
A fo 'n byw mewn pechod diriaid,
F' orfydd 'madel a drygioni,
Cyn gwrandawo *Duw* dy weddi.

3 O's mewn malais, rhyfyg, mwrddro,
Llîd, a thrais, y doi weddio,
I dy *Dduw* ar ben dy linie,

Eſay: 1 15. *Duw* a'th wrthyd a'th weddie.

4 Melldith *Moab* ſydd yn cwympo,
Ar yr anwir wrth weddio,
Ceiſio maent heb gael eu ‡ canlyn,

† *Deiſyfiad* Am fod dwylo rhai'n yn ſcymmyn.

5 Y neb a alwo ar yr Arglwydd,
Ymmadawed a'i halogrwydd,

Tim. 2 8. Ac ymolched ei ddwy ddwylo,
Oddiwrth waed o cais ei wrando.

6 Tirion yw *Duw* a thoſturiol,
I'r rhai a fyddo edifeiriol,

Joel. 2, 12. Edifara am dy frynti,

13. Ac fe wrendy *Duw* dy weddi.

7 O's difaru am y cwbwl,

Eſay. 1. 18. Pet fae 'th fai mor goch a'r pwrpl,
Griſt a'th olch mor wynn a'r lili,
Ac a wrendy 'n rhwydd dy weddi.

8 Pan y delech i weddio,

1 Jo. 1: 22. Tro bob meddwl ofer heibio:

Jer. 4. 14. A rhwym gartre dy fydolrwydd,

† *Yn llafaru.* Trech yn † parlo ti a'th Arglwydd.

9 Brwnt yw gweled pacc a ſtardel,
Ar dy gefen yn y Demel:

Brwntach

Brwntach yw gwel'd dy fydolrwydd,
Pan gweddiech ar yr Arglwydd.
10 Pan gweddiech galw yn gymmwys,
Ar *Dduw* dros bob ſtâd o'r Eglwys,
Ac nag arfer megis Pagan,
Weddi 'n unig it' dy hunan.
11 Galw 'n gynta dros frenhinoedd, 1 Tim. 2, 1, 2.
Am gael gras i drin eu pobloedd, Eph. 6. 19.
Mewn gwir grefydd a llonyddwch,
Hedd, uniondeb a dedwyddwch.
12 Gwedi'n galw dros Eglwyſwŷr,
Am gael gras i draethu 'n eglur,
Holl ddirgelwch yr Efengyl.
A phregethu 'r gwir y rhigyl.
13 A gweddia dros Swyddogion,
Ar i *Dduw* roi grym a chalon,
Iddynt goſpi pob rhyw droſedd,
A † mantainio ffydd a rhinwedd. † *Cynnal.*
14 Cais gan *Dduw* fendithio hefyd,
Pob 'ſcolheigion o gelfyddyd,
Fel y gallont lanw 'n gwledydd,
A goleuni, moes a chrefydd.
15 Nac anghofia o'r cyffredin,
Ond gweddia hefyd droſtyn,
Fel y gallont fyw 'n ei galwad,
Mewn ufudd-dod, hedd, a chariad.
16 A gweddia dros drueniaid,
Sydd mewn trallod, cyſtudd embaid,
Ar i DDUW doſturio wrthynt,
A rhoi help a chymfforddd iddynt.

CAN

CAN CLXIII, Gellir deall wrth y Gan ganlynol, bod yr Awdwr yn gwir ddymuno dedwydd ddychweliad i'r Brenhin *Charls* y cynta. Tywyſog *Cymry*, o'r *Hyſbain*, pan aethai yno mewn meddwl priodi merch Brenhin y Wlad honno; Eithr llawer o'r ynſyddion a hrerant bod yr Awdwr yn Eulyn-addolwr; o herwydd ei ſod yn galw y Ser a'r Planedau i'w Gynorthwyo adref; etto pob Darllenydd yſtyriol, uniawn gred, ni feiddant gynnwys y cyfryw Feddyliau am dano; ond yn hytrach, ei ſod yn cydnabod yr unig JEHOFA, yn ben Llywydd yr holl Greadigaeth; Yr hwn gyfleodd y Ser yn Ffurfafen y Neſoedd, nid yn unig i harddu 'r Wybren, eithr efe a roddes briodol effaith iddynt oll; fel y mae Morcedd, Daear, Dynion, ac Anifeiliaid &c. yn Llaw *Duw* yn cael eu tywys trwyddynt; Gwel, Job, 9. Lle dywedir ei ſod ef yn ſymmyd Mynyddoedd heb wybod iddynt ac yn cynhyrfu'r ddaear allan o'i lle. Yr hwn a ddywaid wrth yr Haul, ac ni chyſyd; ac a Selia ar y Sêr: Yr hwn ſydd yn gwneuthur *Arcturus*, *Orion*, a *Pheiadeſ*, a Stafelloedd y *Deau*

Ac yn amſer *Debora* a *Barac*, dywedir ſod y Sêr yn eu graddau yn ymladd yn erbyn *Siſara*; fellu o's oeddent yn ymladd yn erbyn *Sijara* yn amſer *Debora*; Paham nas gallent ymladd o du Tywyſog *Cymry* yn amſer yr Awdwr Parchedig? Gwel Barnwyr 5. 20.

YMUWSYS oll o Helicon,
Y *Graſys*, tair *Nymphs* o'u bron;
Cymrwch bawb eich offer ganu,
I ‡ reſſo o *Spain* Dywyſog *Cymry*.

2 *Apollo* dod dy gor yn gyngan,
Pâr i'r *Nymphs* a'r *Graſys* ddawnſian,
Tra fo'r *Muſys* oll yn canu,
Welcwm home i Brins y *Cymry*.

3 Dyro i'r *Graſys* wiſgoedd gwynion,
Pletha eu gwallt a'r lawrydd gwyrddion:
Trwſia 'r *Nymphs* a'u tlyſſe o ddau-tu,
Fynd i reſſo Prins y *Cymry*.

4 Rho i'r *Muſys* offer auraid,
Goreu yn *Nelos* dan law 'r Ceidwaid,
Fel y gallont gwraint ganu,
Greſſo o *Spain* i Brins y *Cymry*.

5 Gofod bob un yn eu graddau,
Gochel adel dim yn eiſiau,

Ag

Ag a allo lawenychu,
Cluſt a llygad Prins y Cymry.

6 Gwedi'n *Phœbus* taro 'r delyn,
Hoff gan Ferched *Jove* dy ganlyn,
A'r tair chwaer y ſydd yn gwênu,
Dawnſio welcwm Prins y Cymry.

7 Troed *Melpomen* driſt ei hoer-nad,
Caned *Calio* lawen ganiad,
Gaded pawb i *Thalia* ſlaenu,
Auraid fers i Brins y Cymry.

8 *Mercur* dithe does i hedfan,
Gwyſſia 'r Duwiau fawr a bychan,
A'r Duwieſſe bawb 'ymdacclu,
Fyn'd i reſſo Prins y Cymry.

9 Deyed *Jove* a'i holl oreu-wŷr,
Mars mewn rhangc a'i holl Ryfelwŷr,
Phœb a'i 'ſſeiriaid oll dan ganu,
Greſſo o *Spain* i Brins y Cymry.

10 Deyed *Juno* ar † Goach o Baunod, † *Cerbyd.*
Feſta ar gerbyd o g'lommenod,
Venus ar Elerchod coeſ-ddu,
I roi greſſo i Brins y Cymry.

11 Rhodded *Venus* iddo degweh;
Juno gyfoeth, *Palas* heddwch,
Ceres lafur gwedi aeddfedu,
I breſento Prins y Cymry.

12 ‖ Sôn adeiniog heda dithe, ‖ *Winged Fame.*
Dros y moroedd a'r mynydde,
Cân a'th gorn i'r byd o bobtu,
Sâff return i Brins y Cymry.

13 Pâr i bawb a'u dillad gore,
Ddyfod i'w reſſawi adre:
Ac yn ddyfal i foliannu
Duw, am gadw Prins y Cymry.

14 *Neptun* donnog a'i Ddolphinniaid,
Thetys diwſt-fawr a'i Sirenniaid,

Y roes fiars i *Driton* ganu,
Gosteg for i Brins y Cymry.
15 *Æolus* chwyrn-wyllt ynte ostegodd,
Dwrf a chynwrf yr holl wynto'dd,
Ac a wnaeth i *Zephir* chwythu
'R hwyl. wrth fodd Tywysog Cymry
16 *Phœbus* hardd o'r nef a chwarddodd,
Weld y llongau ar y moro'dd;
Ac a wnaeth i'r haul-wen wênu,
Tra fu 'r dydd ar Brins y Cymry.
17 *Cynthia* hithe ni bu segur,
Na 'i morwynnion ar yr Awyr,
I oleuo 'r byd o bob tu,
Tra bu 'r nos i Brins y Cymry.
18 *Castor*, *Pollux*, ac *Urania*
Pol y gogledd. ac *Aurora*,
A'r holl Sêr oedd yn ymdynnu,
Ledo 'r ffordd i Brins y Cymry.
19 Haul, a Lleuad, Sêr y Nefoedd,
Gwynt, a gwlaw, a thir, a moroedd,
Nef, a daiar fy 'n datganu,
Ffafar DUW i Brins y Cymry.
20 Pan y daeth i olwg *Lloeger*,
F' aeth y Duwie i ftrifio 'n fceler,
Pwy gae gynta dan ymdynnu,
Ddwyn i dir Dywysog Cymry
21 *Mercur* am fod drosto 'n Ladmer,
Jove am roddi iddo bwer,
Venus am ei fynd i garu,
Fynne 'r Dydd gan Brins y Cymry.
22 *Satwrn* frig-lwyd tad y Duwie,
Wrth ei oedran ynteu mynne,
Ond y *Sul* 'r hwn oedd e'n barchu,
Gas y Dydd gan Brins y Cymry.
23 Y pummed dydd o fis *October*,
Ar ddydd Sul dair awr cyn hanner
Y dygodd Duw dan lanwenyehu

I dir *Lloeger* Brins y Cymry.

24 DUW ddanfonodd ei wir Angel
I gyfrwyddo ei holl drafel;
Ac i ddwyn pob peth o bobtu
Wrth fodd calon Prins y Cymry.

25 O moliannwn ninne 'r Drindod,
Ddydd a nos a chalon barod,
Am iddo ddwyn pob peth o bobtu,
Wrth fodd calon Prins y Cymry

26 *Spayn* a fynne mewn cyfrwyfder,
Gadw 'n Prins dros ddyddie lawer:
Duw, a gwlad y fynne er hynny,
Fyrr ymchweliad Prins y Cymry.

27 Gan i *Dduw* o gariad atto,
Ddangos cymmaint ffafar iddo,
Pa fath roefo gwych y ddyly,
Brydain roi i Brins y Cymry.

28 Doed ein Brenhin a'i Gynghoriaid,
Doed yr Ieirll, a'r holl Bennaethiaid,
Yn eu Rhobs a Thrwps o bobtu,
I roefawi Prins y Cymry.

29 Doed y graffol Archefcobiaid,
A'r Efcobion a'r Preladiaid,
Mewn pofeffiwn i foliannu,
Duw, am gadw Prins y Cymry,

30 Doed Ardderchawg Arglwydd *Keeper*,
Urddas Cymry llewyrch *Lloeger*,
A'r *Britanniaid* hardd o ddautu,
I roefawi Prins y Cymry,

31 Doed y mwya garo Cymro,
Colofn y deyrnas Arglwydd *Penfro*,
A'i wŷr galant i ftafellu,
Yn nhy 'r Brenhin, Brins y Cymry.

32 Doed Mayr *Llundain* a'i gwmpeini,
Yn eu Scarlad a'u Cadwyni,
Ar feirch gwynion i anrhegu.

Ac i roeſo Prins y Cymry.

33 Doed y Marchants mawrion hwynte,
I'r heolydd a'u gwin gore,
I roi rhwng eu ſtrins o bobtu,
† *Iechyd.* I yſed † health Tywyſog Cymry.

34 Doed yr holl brentiſied hwynte,
Dan roi bloedd, a thaflu Cappe,
Yn dra llawen dan grech-wênu,
I roeſo o *Spayn* Dywyſog Cymry.

35 Doed Scolheigion yr holl ynys,
Yn eu gradd a'u hariied Ferſys,
A'u hareithiau dan lawenu;
I roeſawi Prins y Cymry.

36 Doed Offeiriaid a'u plwyfolion,
Gwŷr, a gwragedd, merched meibion,
I'r Eglwyſydd i folianu
Duw, am gadw Prins y Cymry.

37 Caned elych yr holl Eglwyſydd,
Nes dadſeinio 'r môr a'r mynydd,
Ac i'r ddaiar fud ddatganu,
Groeſo o *Spayn* i Brins y Cymry.

38 Cynner tân, bonffeirs fagad,
Tân ſy 'n dangos gwres ein cariad,
Fel y gwelo 'r byd o bobtu,
Faint yw 'ch ſerch i Brins y Cymry.

39 Minneu am tylwyth nos a boreu,
A rof ddioleh ar fy nglinieu,
I'r gwir *Dduw* am ddwyn o ddautu,
Yn iach lawen Brins y Cymry,

40 Duw ym-ddiffyno rhag bradwriaeth,
Cadwed *Criſt* ef rhag pabyddiaeth,
A rhag pawb ſydd yn ameanu,
Drwg, neu ſpeit i Brins y Cymry.

41 *Duw* ro galon *Ezekias*,
Synwyr Selyf. Zel *Joſias*,
Dewrder *Dafydd*, ac at hynny,
Einioes *Noe*, i Brins y Cymry.

Joas

42 *Foas Gujai* fo Cynghorwyr,
Joſeph, *Daniel*, fo golygwyr,
Moeſen, *Samuel*, a fo 'n barnu,
Byth ar y fainge dan Brins y Cymry.
43 CRIST a'i eſcyll a'i hadeinio,
CRIST a'i Yſpryd a'i cyf'rwyddo,
CRIST a'i ras a fytho 'n nerthu.
Ym mhob achos Brins y Cymry.
44 Arglwydd graſſol cadw 'r deyrnas,
A bendithia 'n Brenhin *Siamas*.
A rho gynnydd gras a gallu,
Uwch law pawb i Brins y Cymry.

CAN CLXIV. *Dyledſwydd Barnwr.*

BARNA 'n gymmwys fy enaid clyw.
Rwyt ti 'n eiſte ynghorſedd *Duw*
Barna 'n ol y gyfraith hyfryd,
DUW a biau 'r farn a'r ferdyd.
2 Hola 'n gynta, megis *Sal'mon*,
Ni cheir gwir ym mhob achoſion:
Gwrando 'r ddwy ran trwy amunedd;
Gwedi'n barna yn ol gwirionedd.
3 'R wyt ti yn barnu yn lle DUW — 2 Cron: 19. 6.
Dy ferdid di, ei ferdid yw:
Barna fel y barno yntau,
Na wna gam, ſerch goddef angau.
4 Pan y barnech, barn yn ddiddig,
Gwel yr hwn ſydd anweledig;
Dod ei ofn o flaen d' wyneb,
Yno barn yn ol uniondeb.
5 Gwedi holi 'r cas yn bwyllog,
Gwedi gwrando 'r ddwy blaid enwog,
Gwedi nithio 'r beiau 'n berffaith,
Yna barn, yn ol y gyfraith.
6 Ni fyn Duw gondemno 'r gwirion,
Na rhyddhau yr euog ddynion;
Ond condemno 'r anwireddus,

A chyfiawni 'r gwirion gweddus.
7 Gad y gwaedlyd yn llaw angau,
Gwaed a lef am waed yn ddiau;
Duw fynn ladd y dyn a laddo,
Bid ei radd ef c'uwch y fynno.
8 Pan fo ambell fai yn tewi,
Gen. 4. 10. Fe fydd mwrddra yntau yn gwaeddi,
Nid oes dim a ftopa i fafan,
Nes cael gwaed y mwrddwr aflan.
9 O's myn Duw ladd yr ŷch di-fynwyr,
A laddo ddyn a'i gorn yn bryfur:
Pwy gan hynny geidw fwrddwr,
Rhag ei ladd am chwareu 'r bwtfiwr?
10 Lladd, medd Duw, y dyn a laddo,
Gwaed a lygra 'r wlad lle cwympo:
Nid oes dim ond gwaed y mwrddwr,
All lanhau y wlad o'i llwgwr:
11 Oni fynni i'r Arglwydd daro,
'R wlad a thre lle 'r wyt ti 'n trigo,
A'th lwyr ddifa, a'th eppil hefyd,
Na chais gadw 'r mwrddwr gwaedlyd.
12 Na refpecta wyneb un-dyn,
Act. 10. 34. Na wna gam a'th gas, na 'th elyn,
Deut. 10. 12, Nag ofna gryf, na ddangos ffafar,
Na wyra farn, na dderbyn wobar.
13 Na fparia 'r tlawd, o's byd ef fceler,
Nag arbed garl, er mwyn ei bwer;
Na nebydd gâr, na threifia eftron,
Na fpeita 'r gwan, na ladd y gwirion.
14 Yn y pwll fe fydd edifar,
Wyro barn, a derbyn gwobar,
Pan bo 'r pryf yn pigo 'r galon,
Am gondemno 'r gwan a'r gwirion.
Gen. 18. 21. 15 Cyn i Dduw gondemno *Adda*,
Fe'i hecfamnwys ef yn gynta;
Ac a fpiodd gyflwr *Sodom*,
Cyn difetha 'r dref a'r ftorom.

Felly

16 Felly dylai barnwŷr ddyſcu,
Chwilio 'r matter cyn ei farnu,
Rhag rhoi ferdid ffol trwy gamwedd,
Cyn deallont y gwirionedd.
17 Gochel dderbyn rhodd na gwobar,
Rhodd a'th dynn i ddangos ffafar,
Rhodd a ddalla dy olygon,
I wyro barn, i faeddu 'r gwirion.
18 Barna 'n gymmwys, megis *Moeſen*,
Na fyn fuwch, nac ŷch, nac aſen,
Mwy na *Samuel* yn ei amſer, 1 Sam. 12.3.
Ond rho farn yn ol cyfiawnder.
19 Na'd i wobor wenn dy dwyllo,
Y fath bug a nyrdd dy ddwylo,
Ac y bair i'th wiſgoedd ddrewi,
Pan y delech i gwmpeini.
20 O's derbynni wobor ddirgel,
Maen y mur a lef yn uchel,
A'th draws-brennau yn dy fiambar,
Ddygant dyſt yn erbyn gwobar.
21 O's gorch'mynodd hen *Gambyſes*,
Flingo 'r barnwr ffalſt, *Suſannes*;
Oni flinga Duw 'r dialau,
Bob cam farnwr am ei feiau?
22 Emprwr *Ruſſia* a fyn loſci,
Barnwr ffalſt, mewn pair, a'i ferwi:
Brenhin Nef a fyn heb ammau,
Loſci barnwr ſfalſt mewn fflammau.
23 Ni chas *Balaam* ond ei fwrddro,
Na *Gehazi* ond ei blago,
Na hen Suddas ond ei grogi
Gwedi 'r wabar front a'r bribri.
24 Ni chai dithau ddim dedwyddwch,
Oddiwrth wobor, ond difteithwch;
A dolurio dy gydwybod,
A throi d' eppil oll ar anffod.

Er

Preg. 12.14. 25 Er nad ydyw dyn yn gweled,
Lawer pryd mo'th fribs a'th hoeced;
Y mae Duw yn gwel'd y ewbwl,
O'th gyfrwyftra a'th ddrwg feddwl.
26 O gan hynny golch dy ddwylo,
Na'd i'r wobar front dy dwyllo,
Rhag i'r wobar beri blinder,
O flaen Duw, y dydd y'th farner.
27 Od yw torment meibion dynion,
Yn condemno 'r Barnwyr ffeilfion,
P'wedd na farna union frawdle
CRIST, bob barnwr ffalft i ange?
28 Na ddwg gleddyf Duw yn ofer,
Tyn e' maes pan welech amfer:
Taro bechod, torr anwiredd,
Dryllia drais, amddiffyn rinwedd.
29 Na'd i gleddeu 'r gyfraith rydu,
Yn y wain o eifiau 'i dynnu;
Rhag i gledde 'r Arglwydd digllon,
Ranfio i maes ymhlith ei elynion.
30 O gwel drais y rhai annuwiol,
O clyw lef y gwan cyftuddiol;
Sydd yn gryddfan dan orthrymder,
Eifiau cofpi pobl fceler.
31 Clyw pa lefain y mae 'r gwirion,
Ddydd a nos gan orthrech lladron,
Sy 'n anrheithio 'r maint fydd ganthynt,
Ac heb neb i yngan wrthynt.
32 Gwel fydd o fafteirdd bach ar ddyrnau,
Merched ieuange ar gyflogau,
Sy'n cardotta mewn gofydi,
Eifiau barnwr idd eu cofpi.
33 Clyw pa dyngu mae Crift'nogion,
Ex. 20. 7. Fach a mawr heb barch nag ofon,
Ar gig CRIST, a'i waed, a'i weli,
Ac heb un-dyn da i'w cofpi.

Gwel

34 Gwel pa barch ſydd i'r offeiriaid,
Pa anrhydedd i'r henuriaid,
Pa || reſpect i'r doeth bregethwŷr,
Eiſiau help a chyfraith barnwŷr.

|| *Sef pa Amharch.*

35 Gwel pa dramwy ſy 'i dafarnau,
Pa gorneito i'r ſtiwdeiau,
Pa 'ſceluſu myn'd i'r Eglwys,
Eiſiau coſpi rhai 'ſceuluſwys.

36 Pan y cyſco cledd cyfiawnder,
Yn y wain o eiſiau 'i arfer,
Cledde Duw a heda allan,
Ac a ddifa 'r wlad yn gyfan.

37 Camwedd toſt a dirfawr dra,
Yw cadw 'r drwg i blago 'r da,
Arbed lladron, mwrddwŷr gwaedlyd,
I andwyo 'r wlad o'u plegyd.

38 Lle bo mwrddra, meddwdod, brynti,
Lledrad, trais heb neb i'w coſpi,
Duw a blaga 'r wlad o'u dautu,
Sydd yn diodde 'r cyfryw bechu.

39 O gân hynny barna 'n gymmwys,
Er mwyn *Criſt* yr hwn a'th brynwys,
Cais ogoniant Duw dy Dad,
A thorr di ymaith feiau 'r wlad,

40 *Phineas, Phineas*, coſpa bechod,
Gwân dy wayw-ffon trwy ei geudod.
Felly ſtoppir y farwolaeth,
Sydd yn difa 'r wlad mor helaeth.

Num. 25. 8.

41 O's y ſwyddog drwg a winca,
Wel'd amharchu Duw gorucha,
Duw a chwardd pan ddelo diſtryw.
Pla a llid, am ben y cyfryw.

42 Llefa, llefa, tyn dy gleddau,
Taro bawb ſy'n dilyn delwau,
Tad a Mam, a'r brawd a fo,
Yn gado *Duw*, i addoli llo.

1 Sam. 2. 43 Pan na fynnai *Eli* chwipio,
23, 24 25. Plant â gwialen, a'u correcto,
1 Sam. 4. 8; *Duw* a laddodd ddau fab *Eli*,
17. A mîn cledde, eiſiau 'u coſpi.

44 Eiſiau coſpi treiſwŷr *Gom'rha*,
Am eu rhyfyg a'u putteindra,
Duw ddiſtrywiodd yr holl ddinas,
Am amddiffyn pobl ddiras.

45 Meddwl dithau, od wyt farnwr,
Goſpi lledrad, crogi mwrddwr,
Chwipio rhyfyg, ffeinio ffalſtedd,
Stocſo meddwdod, coſpi camwedd.

46 Wyneb dyn, ac wyneb llew,
Y ddylai fod gan farnwr glew;
Wyneb dyn i ſirio 'r cywir,
Wyneb llew i goſpi lleidr.

47 Cledde llym a thafol gyfion,
Ddylai fod gan farnwr union,
Tafol gron i bwyſo 'r matter,
Cledde llym i goſpi 'r 'ſceler.

48 Cau dy lygaid, cudd dy ddwylo,
Ex. 23. 8. Wrth roi barn ar ddyn a becho,
Rhag i'th lygaid ddangos Ffafar,
Rhag i'th ddwylaw dderbyn gwobar.

49 Na cham-farna hawl ymddifaid,
Na orthrymma o'r dieithriaid,
Ac na threiſia wreigan weddw,
Rhag i *Dduw* dy ladd yn farw.

50 O's ymddifad a orthrymmi,
O's y weddw a gam-ferni;
Duw wna 'th eppil yn ymddifad,
A'th wraig wen yn weddw irad.

51 Melldigedig ydyw 'r Ynad,
A gam-farno hawl ymddifad,
Cwyn y weddw ſy 'n oehneidio,
D'weded pob dyn, ſelly bytho.

CAN

CAN CLXV. *Ar Ddameg y Mab afradlon.*

MY fi fy 'n dechreu 'r awr-hon,
Yn ail y Mab afradlon;
Trwy nerth *Iesu* y Mab rhad,
Af at fy Nhâd yn union.

2 Mi bechais, mi gyfleſaf,
O flaen y Nefoedd uchaf,
I 'm galw mwy nid teilwng fi
Yn fab i ti 'r Goruchaf.

3 Mi dorrais bob Gorchymmun,
A roddaiſt im' i'w canlyn,
Llawn o bechod wyf erioed,
O Fawd fy 'm troed i'm coryn.

4 Mewn pechod darfu 'm geni,
Ac wyf ymdroi mewn dryſni;
Mal y ddafad yn y llwyn,
Ynghanol twyn mieri.

5 Myfi a fum mòr ddiffaith,
Heb wneuthyr pris o'th Gyfraith;
A myned fel yr hwch a'r ci,
Ynghyd a'm bryntni gan-waith.

6 Mi wn i'm bechu 'n oſtad,
Na haeddwn gaſtael cenad,
O ran fy ffiaidd fuchedd ddrwg,
I godi ngolwg atad:

7 Ond etto 'r wyf yn gwybod,
Y modd i gael gollyngod,
Er bod cyfiawnder itt' *Dduw* 'r Hêdd,
Mae mwy trugaredd ynod.

8 Mi wn ddiddanwch hawddgar,
Llawenydd mawr di-gymmar,
Fod maddeuant am bob tro,
I'r neb a fo 'n edifar.

9 Rwy 'n edifeiriol bellach,
Atolwg itti eiriach;
Dywed *Iesu* air o'th Râs,

Ac 'fe â dy wâs yn holl-iach.
10 Er bod fy aniweirdra,
Mor goch a'r *Scarlad* yma;
Ty di a elli fy *Nuw* gwynn,
Fy ngwneud mor wynn a'r eira.
11 O cladd yr wyf yn erfyn,
Ym medd dy *Criſt* annwyl-ddyn,
Cladd O cladd, nas gallont hwy
Gyfodi mwy i'm herbyn.
12 DUW crea i mi lân galon,
I fod i'th garu 'n ffyddlon
Adnewydda ddyll fy mryd
O'm mewn a'th Yſpryd union.
13 Dod immi wîr amunedd,
Tra byddwy 'n dwyn fy mychedd;
Yn fy mywyd ar bob cam,
I feddwl am fy niwedd.
14 Dyſc i mi heddy fedru,
I fyw trwy iawn hyderu,
Fel pe byddai ſiwr fy ngwedd,
I fynd i'r bedd y foru.
15 Na roddwyf bwys na hyder
Mewn da, na dŷn a fager,
Nag mewn dim, ond ynnot ti,
Un DUW, a Thri bob amſer.
16 A thyred y *Meſſias*.
Wel, dyma Ngwiſg briodas,
Tyred chwypyn, hyn yw 'nghân,
I gael dy lân Gymdeithas. *Amen.*

BRITISH MUSEUM 3 AU71

Cynhwyſiad yr holl Lyfr.

Bydd fyw 'n gywir ac vn gymmil,
Fel pe'd faet heb un Efengyl;
A bydd ſarw 'n gyſtal d' obaith,
Affed faet heb wel'd y Gyfraith.

DIWEDD. *Yr Wythfed Ramm.*

TABL

TABL i gael un rhyw Gân neu Rann wrth y Lînell gyntaf o honi

	Tu Dalen
Adda werthodd bawb o'r byd	18
Awn i Fethlem bawb dan ganu	34
Arglwydd Ceidwad Selieu 'r Nefoedd	47
Arglwydd grymmus Llywydd lluoedd	160
Arglwydd agor fy ngwefusedd	188
Arglwydd graſſol 'rhwn a roddaiſt	241
Angelion *Duw* a meibion dynion	333
Am ein pechod a'n drwg fywyd	378
Arglwydd cyfion Tâd fy iechyd	379
Anwyl Griſtion clywais ddywedyd	397
Arglwydd rhoddwr pob daioni	453
Arglwydd graſſol cadw d' Eglwys	493
Bid dy eiriau yn waſtadol	186
Bid d' ymddygiad yn griſt'nogaidd	189
Beth dal bod yn Arglwydd heddy	258
Byrr yw 'n hoes ac anſertennol	338
Barna yn gymmwys fy enaid clyw	525
Clywch adrodd mawr gariad Mab *Duw* at y byd	30
Criſt ei hun ſydd oll yn oll	37
Yr 2 Rann, Criſt ei hun ſydd oll yn oll	39
Cyffredin a bonedd trowch heibio bob maſwedd	61
Curwch bawb eich dwylo yngbyd	68
Cred yng-*Ngbriſt* llef am dy Geidwad	81
Criſt fy nghraig a'm Iechawdwriaeth	136
Cyn yr elech o'r drws allan	152
Cyn rhoi llaw ar gorn yr arad	153
Cyn y dodech droed mewn gwarthol	156
Cyn yr elech i ryfela	159
Codwn bawb ein pen a'n ſſriw	201
Cyn dy fynd i'r llan wrth gerdded	226
Ceidwad Iſrael a'i achybwr	310
Criſt a aeth i'r ddinas nefol	288
Creaduriaid Duw a'i holl weithredodd	324
Cymry Cymry mwrna mwrna	358
Cymry Cymry mwrna mwrna	367
Criſt fy mugail cadw f' enaid	422
Cod y bore ar y wawr-ddydd	451
Criſt yw Oen y Paſc a'n haberth	466
Dewch bawb ſy 'n drwm lwythog dan bechod a bai	54
Dewch bawb yn garedig yn ffres ac yn ſſrolig	65
Dere hen bechadur truan	73
Duw fy Nghеidwad Duw fy Nghryfdwr	131
Duw trugarog Tad toſturi	137
Di lenwaiſt (Criſt) ein cylla	198

Duw dod feudith ar ein hymborth 199
Derbyn Arglwydd loi ,n gwefyfedd 199
Duw mawr o'r nef fancteiddia 200
Duw pa'm yr wyt ein porthi 201
Duw na'd i ni fwyta o'th ddoniau 204
Duw trugarog Tad goleuni 232
Dyfg fy mab wrth gwymp hen Adda 243
Duw ei hun yw 'r pen trigannydd 282
Dy Zel at Dduw a'i Eglwys 290
Di-hun dihun o gyfgu 315
Dihun di-hun pa ham y cyfgaift 319
Duw fy nghraig a'm Twr a'm noddod 320
Duw achyb fy enaid gwirion 326
Duw Frenhin trugarog Duw Dad holl-alluog 346
Duw Dad gwel mor beriglys 374
Duw trugarog 'Tad diddanwch 390
Dydd ein Jubil a'n gollyngdod 415
Duw 'r diddanwch llaefa mlinder 416
Duw rho gluft i wrando yngweddi 420
Duw gwel drymed yw fy nghalon 461
Dewch bob rhai at Bren y bywyd 465
Duw graffol Tad trugaredd 487
Deffro 'n fore gyda 'r ceiliog 490
Dwg fancteiddrwydd yn dy dalcen 496
Duw ni attal un daioni 502
Dewch fonddigion dewch gyftredin 515
Dewch holl dylwythe 'r ddaeiar 517
Er fy mendith nag anghofia 149
Ennill can-punt colli credyd 514
F' annwyl blentyn dere nes 91
F' annwl blentyn ces dy lythyr 98
Fe gywilyddia hen ddyn bas 204
Fy mhlentyn hygar hoyw 391
Fy anwyl Dad a'm carcus Geidwad 308
Fy mugail yw 'r Goruchaf 314
Fel gwenol job mae 'n hoes yn llithro 457
Fy nghar a'm gwir annwylyd 446
Gochel feddwl dim a'th galon 131
Gwifg dy armwr oll am danaf 135
Golch o Grift a'th waed fy mhechod 137
Gwifg dy ben a helm Crift'nogaeth 141
Gwae 'r dyn fo gwyllt yn blentyn 148
Gochel goegen talch ddi feder
Gwell bachen doeth na Brenhin ynfyd
Gwrando 'r godinebwr aflan
Gochel eifle i lawr i fwyta
Gwyr a gwragedd gwifion plant

Tu Dalen

Gwae 'r gollddog di-dosturi 206
Gwel fel mae dy oes yn darfod 306
Gochel geisio help gan ſwynwyr 3[illegible]
Gwr wyf yn dioddef maethgen 3[illegible]
Gwyr a gwragedd meibion merched 424
Gwell Duw na'r nef na dim ſydd ynddi 464
Hil Frutus, fab Sylfus, Brutaniaid brŵd hoenys 1
Hil Adda gamweddus plant Eſa drafaelus 49
Helpwr pob trafaelwr ofnus 157
Holl alluog ydyw Duw 568
Lluniwr daer a helpwr dynion 154
Llygaid pob creadur biwiol 197
Meddwl fel y gallſei ſatan 1[illegible]
Mwy yw perig dyn ſy 'n cyſgu 153
Mae holl feddwl dyn yſowaeth 180
Meddwl dyn a red heb orphwys 184
Mor hyfryd ac mor weddus 313
Megis Daniel rhwng y llewod 326
Mene Tecel Tre Llanddyſri 438
Mag dy blant a llaeth dy fronne 520
Martha Martha paid ag wylo 510
My ſi ſy 'n dechreu 'r awr hon 541
Na ddigia 'th dad o's bydd lle i beidio 166
Na lettya feddwl aſlan 185
Nid a iddi ddim ſydd aſlan 289
Nawr o Arglwydd y gollyngu 343
Na phampra 'r corph i ladd yr enaid 457
O cais gŵr, na gwraig, na bachgen 8
O Arglwydd Tad diddanwch 86
O fy Ngheidwad o fy Mugail 138
O's promeiſia ſatan itti 145
O'r 'dwyt borthmon delia 'n oneſt 164
O's meddwyn wyt yn arfer chwiffio 173
O's mynni fod yn ddyn i Dduw 211
O's plentyn wyt rho wir anrhydedd 223
O fy mrodyr a'm cyfeillion 248
O Arglwydd Dduw Goruchaf 287
O'r dwſt o'r dom o'r dyrfa 330
Oni wneuthoſt ette d'wyllys 393
Oni bae fod yn anghenrhaid 404
O fy enaid pa'm yr ofni 407
O fy enaid dywaid immi 411
O! na wyppai ddyn pa ddoniau 414
O fy enaid pa'm yr ofni 418
[illegible] Nuw yr hwn a'm creaiſt [illegible]
[illegible]odyr clwch fi'n traethu [illegible]

[illegible]d o's Mam o's mab o's merch — — 463
[illegible]cais gwr na gwraig na phlentyn — — 472
Pob hyw Griſtion ag ſy 'n caru — 22
[illegible]ybynna giefio faddeu — — 77
[illegible] yr elech i weddio — — 129
Pe bae luddew yn dy warchod — — 124
Pan y biech yn gwiſgo 'th ddillad — — 135
Pan yr elech i ymolchi — — 136
Pan yr elech gyntaf allan — 142
Porthor mawr y pwll di waelod — — 143
Pan yr elech gynta i garu — — 165
Porthwr mawr y pum mil gwerin — — 196
Porthwr graffol pob creadur — — 197
Pob rhyw Griſtion ag a garo — 234
Pwy na cheiſie fynd oddi ymma — — 289
Pen darparwr pob anghenrhaid — 309
Pawb ſy 'n chwennych dyſcu 'r pryd — — 331
Pan 'th drawer gynta a chlefyd — 376
Pan clafyebech cais offeiriad — — 383
Pa gynta bytho marw Griſtion — 423
Pob Criſtion ag ſy 'n clywed — — 467
Pan yr elech i weddio — — 518
Rhown ſolant prudd bob amſer — 203
Sami bach er cariad Duw — — 450
Tynn dy ſcidiau cyn gweddiech — 117
Tynn dy ſgidiau golch dy ddillad — 229
Ymaſel yn dy Brynwr yn ſiaſt a llaw dy ſlydd — 58
Y neb a fynno fyw yn ddedoſol — 84
Y ſawl y fynno gael eſmwythder — 105
Y bore pan ddihunech gynta — — 128
Yn y mann yn ol it g'odi — — 140
Ymddaroſtwng i'th rueni — — 165
Y cytbrael twyllodrus ſydd beunydd heb orphwys 178
Yn ol cyngor i Eglwyſwr — 386
Y ſawl a tarthwyd gan y ddraig — 466
Yr luddew dig a rwyg ei wiſgoedd — 495
Y Muwſys oll o Helicon — — 520

BRITISH
3 AUG 71